Rhaglen Gyflawn

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 10fed Tachwedd, 2026
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Cyfarfod Hybrid / Hybrid Meeting - Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH
PWYNT CYSWLLT	Gwen Alaw Roberts cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Nia Wyn Jeffreys	Arweinydd y Cyngor
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Amgylchedd
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Paul John Rowlinson	Aelod Cabinet Tai ac Eiddo
Menna Trenholme	Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd
June Jones	Aelod Cabinet dros Briffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd
R Medwyn Hughes	Aelod Cabinet Economi a Chymuned
Dewi Jones	Aelod Cabinet Addysg
Huw Wyn Jones	Aelod Cabinet Cyllid
Llio Elenid Owen	Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYS			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 13 HYDREF			4 - 15
6	ADRODDIAD CHWARTEROL - CADEIRYDD Y BWRDD RHAGLEN CYNLLUN YMATEB (TACHWEDD 2026)	Cyng Nia Jeffreys	Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr	16 - 23
7	BWRDD AELWYDYDD I HYBU ANNIBYNIAETH	Cyng Paul Rowlinson Cyng Dilwyn Morgan Cyng Menna Trenholme	Dylan Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol	24 - 117
8	ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025/26 CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR	Cyng Craig ab Iago	Bethan Richardson, Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd	118 - 153
9	ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL A HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD 2025/26	Cyng Nia Jeffreys	Dewi Wyn Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor	154 - 234
10	ARGYMHELLION YN DEILLIO O	Cyng Nia	Dafydd	235 -

	ASESIAD PERFFORMIAD PANEL - YMATEB Y CYNGOR	Jeffreys	Gibbard, Prif Weithredwr	274
11	TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR	Cyng Huw Wyn Jones	Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid	275 - 326
12	TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION	Cyng Huw Wyn Jones	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau	327 - 334
13	CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2026	Cyng Huw Wyn Jones	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau	335 - 359
14	EIN DIWYLLIANT, EIN DYFODOL: CYNLLUN AR GYFER DIWYLLIANT YNG NGWYNEDD	Cyng Medwyn Hughes	Roland Evans, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned	360 - 440

Y CABINET DYDD MAWRTH, 13 HYDREF 2026

Yn bresennol-
Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Menna Trenholme, R. Medwyn Hughes, Craig ab Iago, Huw Wyn Jones, June Jones, Dilwyn Morgan, Llio Elenid Owen a Paul Rowlinson.

Hefyd yn bresennol-
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Adran Addysg), Miri Siôn (Cadeirydd Fforwm Ysgolion Arfon), Eleri Jones (Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Adran Gwasanaethau Corfforaethol), Delyth Gadlys Williams (Ymgynghorydd Cydraddoldeb), Gail Warrington (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd), Rhodri Owen (Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio), Ffion Mai Jones (Uwch Reolwr Gweithredol), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau).

1. YMDDIHEURIADAU

Diolchwyd i'r aelodau a'r swyddogion sydd wedi cyfrannu at baratoi'r adroddiadau sydd gerbron bron heddiw.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Menna Trenholme mewn perthynas ag Eitem 11. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a ni adawodd y cyfarfod.

3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 Medi 2026 fel rhai cywir.

6. STRATEGAETH LLAIS Y PLENTYN
Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

PENDERFYNIAD

1. Cymeradwyo Strategaeth Llais y Plentyn Cyngor Gwynedd (Atodiadau 1 - 5)
2. Nodi y bydd Cynllun Gweithredu corfforaethol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu i gefnogi gweithrediad y Strategaeth ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd y Strategaeth a chroesawyd Cadeirydd Fforwm Ysgolion Arfon i'r cyfarfod. Nodwyd bod presenoldeb Cadeirydd y Fforwm yn adlewyrchu egwyddor sylfaenol y Strategaeth ei hun, sef bod plant a phobl ifanc yn bartneriaid wrth lunio penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Diolchwyd i'r holl bobl ifanc sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth hon.

Eglurwyd mai Strategaeth gorfforaethol yw hon sy'n tynnu sylw at y ffaith bod gwrando ar blant a phobl ifanc yn gyfrifoldeb ar draws pob gwasanaeth. Manylwyd ar fewnbwn plant a phobl ifanc i ddatblygiad y Strategaeth, gan nodi bod y ddogfen yn seiliedig ar saith addewid craidd sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r plant a'r bobl ifanc hyn. Adroddwyd bod adrodd ar ganlyniad cyfraniadau'r plant a'r bobl ifanc, yn ogystal â sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan yn themâu amlwg. Amlygwyd y bydd llwyddiant y Strategaeth yn ddibynnol ar allu'r Cyngor i ddangos sut mae llais plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar wasanaethau, polisïau a phenderfyniadau o fewn y Cyngor.

Soniwyd am y broses o lunio'r Strategaeth a'r negeseuon pwysig sy'n deillio o'r trafodaethau. Rhoddwyd enghraifft o fater a godwyd fel rhan o'r trafodaethau gyda phlant a phobl ifanc a'r ffordd yr aeth swyddogion y Cyngor i'r afael â'r mater. Amlygwyd y tebygrwydd rhwng y blaenoriaethau a'u hadnabuwyd yn y Fforymau a blaenoriaethau'r Cyngor yn ogystal.
Cydnabuwyd bod y gwaith o gynnwys llais plant mewn penderfyniadau yn fwy heriol mewn rhai gwasanaethau, ond nodwyd pwysigrwydd ymgysylltu â'r fforymau ieuenctid i gael eu barn pan fydd penderfyniad o bosib yn cael effaith ar blant a phobl ifanc. Esboniwyd bod y Strategaeth yn mynd ar draws nifer o feysydd, gan gyfeirio'n benodol at gynnwys llais y plentyn ar draws Gwasanaethau Plant y Cyngor. Nodwyd bod cynrychiolaeth ehangach o fewn fforymau llais plant a phobl ifanc Gwynedd, a bod ymgais i geisio cyrraedd carfannau pellach o blant yn ogystal. Datganwyd bod dymuniad gan y plant a'r bobl ifanc hyn am Gabinet cysgodol plant a phobl ifanc Gwynedd yn ogystal.

Mynegwyd balchder bod plant a phobl ifanc bellach yn cael cyfle i fod yn rhan o drafodaethau a rhoi eu barn. Edrychwyd ymlaen at gydweithrediad pellach rhwng y Fforwm a'r Cyngor.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Eglurwyd bod darn o waith penodol ynglŷn â sut y bydd y ddogfen yn edrych o fewn dogfennaeth y Cyngor, a nodwyd pwysigrwydd y Strategaeth wrth fynd ymlaen. Datganwyd mai sylfeini sydd gerbron, a bod gwaith i'w wneud o fewn y Cyngor i sefydlu'r drefn o gynnwys yr ymgysylltiad â'r Fforwm o fewn adroddiadau.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch sicrhau y caiff y 7 addewid o fewn y Strategaeth eu gweithredu, manylwyd ar gynnwys yr addewidion gan egluro sut y bydd strwythur y Fforymau a'r dulliau ymgysylltu yn cyfrannu at hyn. Ychwanegwyd bod gwahanol fforymau ar waith, sydd o ganlyniad, yn galluogi amrywiaeth o bobl i gyfrannu mewn modd sy'n gyfforddus iddynt hwy.
- Cyfeiriwyd at y diffyg cyfleoedd blaenorol i bobl ifanc gyfrannu at y trafodaethau hyn, a pha mor allweddol ydyw i sicrhau bod cyfleoedd iddynt leisio barn. Mynegwyd balchder ynglŷn â'r elfen 'Taith y Llais' sydd yn y Strategaeth, gan ategu pwysigrwydd adrodd yn ôl ynglŷn ag unrhyw weithredu a newidiadau sy'n deillio o hynny.
- Mewn perthynas at yr ymgais i gadw pobl ifanc yng Ngwynedd a'u denu yn ôl i'r Sir, cyfeiriwyd at bwysigrwydd cyfraniadau pobl ifanc wrth siapio'r Sir.
- Diolchwyd am y cyflwyniad angerddol i'r eitem, a sicrhawyd y bydd yr hyn sy'n deillio o'r Strategaeth yn treiddio drwy'r Cyngor a'i wasanaethau.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r camau nesaf, adroddwyd y caiff holiadur gwaelodlin llais plant a phobl ifanc ei rannu'n fuan a gobeithiwyd felly y bydd hynny'n sail i'r Cynllun Gweithredu. Ymhelaethwyd ar hyn gan egluro cymhlethdod y Cynllun Gweithredu o ran sut y bydd yr agweddau gwahanol yn bwydo i mewn iddo, a sut y cânt eu gweithredu o fewn mecanwaith y Cyngor. Cynigiwyd efallai y byddai'n syniad peilota'r Cynllun, a thrafod gydag adrannau'r Cyngor er mwyn gweld sut gellir bwydo hyn i mewn i wasanaethau.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025-26, CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024-28

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Llio Elenid Owen.

PENDERFYNIAD

Nodi cynnwys a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2025-26, Cynllun Cydraddoldeb 2024-28.

TRAFODAETH

Mynegwyd balchder bod y rhan fwyaf o'r gwaith a glustnodwyd ar gyfer y flwyddyn wedi'i gwblhau, a bod unrhyw waith pellach yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn hon.

Eglurwyd bod 5 amcan wedi'i nodi o fewn y Cynllun Cydraddoldeb, ac adroddwyd ar y gwaith sydd wedi mynd rhagddo o ran yr amcanion hyn.

Mewn perthynas ag Amcan 1, soniwyd am y Fforwm Cydraddoldeb Staff sydd wedi'i sefydlu er mwyn trafod a rhoi barn ynglŷn â materion perthnasol. Ychwanegwyd bod aelod staff hefyd wedi sefydlu Fforwm Gweithwyr Ethnig Lleiafrifol. Cyfeiriwyd hefyd at y Polisi Canu'r Gloch diwygiedig sydd wedi'i fabwysiadu, gan gynnwys Aflonyddu Rhywiol fel sail yr adroddir arno. Wrth sôn

am Amcan 2, datganwyd bod y dashfwrdd data bron yn barod i fynd yn fyw. O ran Amcan 3, adroddwyd bod y ganran o unigolion sydd wedi cwblhau'r teitl Cydraddoldeb ers mis Mawrth 2025 wedi cynyddu o 35.5% i 62.8%. Ychwanegwyd bod swyddogion cydraddoldeb wedi cychwyn ymweld â thimau rheoli adrannau i gyflwyno gwybodaeth. Trafodwyd Amcan 4 gan nodi bod swyddogion cydraddoldeb yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Gofal Cwsmer a Chofrestru er mwyn sicrhau hygyrchedd. Yn ogystal, manylwyd ar y gwaith sy'n mynd rhagddo o fewn y gwasanaeth Amgueddfeydd, a'r adran Tai ac Eiddo. Aethpwyd ymlaen i drafod Amcan 5, gan egluro bod y rhan fwyaf o'r gwaith hwn wedi'i gwblhau ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Cyngor wedi arwyddo Adduned Oed Gyfeillgar, a bod cydweithio yn mynd rhagddo er mwyn datblygu yn y maes cyflogaeth i bobl hyn.
- Adroddwyd ar lwyddiant y Fforwm Cydraddoldeb Staff, gan nodi bod bwriad i'w hyrwyddo ymhellach. Cyfeiriwyd at y Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig gan egluro ei fod wedi ei gychwyn ac yn cael ei redeg gan staff. Nodwyd bod y Rhwydwaith yn ymestyn ar draws Gwynedd, Conwy a Môn, a bod aelodau o'r Rhwydwaith yn adrodd yn ôl i'r Fforwm yn ogystal. Datganwyd bod Swyddogion Cydlyniant Cymunedol yn gweithio ar draws 3 Sir ac yn adrodd yn ôl am unrhyw negeseuon sy'n codi o fewn cymunedau. Adroddwyd am yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb sy'n cael ei gwblhau'n fewnol i gyd fynd â strategaethau a pholisïau yn ogystal.
- Mynegwyd balchder o lwyddiant y Rhaglen Merched mewn Arweinyddiaeth, gan nodi bod cynnydd yn y nifer o ferched sydd mewn swyddi lefel rheolwyr ers sefydlu'r Rhaglen.
- Sylwyd nad oes archwiliad tal ar sail rhyw wedi'i gynnal yn ystod cyfnod 2025-26. Mewn ymateb, eglurwyd bod y cyswllt sydd fel arfer yn gwneud yr archwiliad wedi tynnu'n ôl oherwydd diffyg capasiti. Sicrhawyd bod y gwasanaeth wedi cysylltu â chynghorau eraill er mwyn ceisio cael cyswllt gwahanol i gwblhau'r gwaith. Bwriadwyd ehangu'r archwiliad i gynnwys anabledd a hil yn dilyn newid i'r ddeddfwriaeth.
- Datganwyd bod gwaith yn mynd rhagddo o ran llais y plentyn, a bod bwriad i gynyddu capasiti'r gwasanaeth er mwyn cynorthwyo â hyn.
- Cyfeiriwyd at bwysigrwydd gwella darpariaeth ADY o fewn y maes addysg, ac adroddwyd bod amcan penodol yn y Cynllun Cydraddoldeb ynglŷn â chydraddoldeb yn y maes addysg. Soniwyd am yr ymgysylltu sy'n mynd rhagddo er mwyn cael barn pobl ifanc o amryw o grwpiau o ran yr amcan hwn, a'r bwriad o wneud defnydd pellach o'r Fforymau Ysgolion hefyd.
- Holwyd a yw'r Cyngor yn gwneud digon o ran recriwtio pobl ag anableddau dysgu. Cyfeiriwyd at gyflwyniad diweddar a fu gerbron y Rhwydwaith Rheolwyr, gan adnabod bod nifer o adrannau wedi dod i gyswllt yn dilyn hynny er mwyn ceisio annog pobl sydd ag anableddau dysgu i weithio o fewn eu gwasanaethau. Credwyd bod mwy angen ei wneud, ond bod hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir.
- Soniwyd am y Panel Trigolion ac eglurwyd mai grŵp o bobl sydd wedi ymrwymo i gymryd rhan mewn ymgysylltu ydyw. Ymhelaethwyd gan nodi

bod ymgais i sicrhau bod amrywiaeth o bobl ar y Panel fel bod cynrychiolaeth eang o'r gymdeithas.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL - GWEITHLU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Llio Elenid Owen.

PENDERFYNIAD

Cymeradwyaeth o'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2025/26.

TRAFODAETH

Pwysleisiwyd bod gweithlu'r Cyngor wedi parhau i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i drigolion Gwynedd mewn cyfnod o bwysau ariannol, galw cynyddol am wasanaethau a newid sylweddol yn y farchnad lafur.

Er bod maint y gweithlu wedi lleihau dros gyfnod yr adroddiad, amlygwyd bod trosiant staff i'w weld wedi sefydlogi. Tynnwyd sylw at broffil oedran y gweithlu gan ddatgan pwysigrwydd cynllunio'n hirdymor ar gyfer denu, datblygu a chadw talent, a sicrhau trosglwyddiad effeithiol o wybodaeth a sgiliau. Cyfeiriwyd at lwyddiant cynlluniau prentisiaethau a hyfforddeion y Cyngor wrth gryfhau sylfeini gweithlu'r dyfodol, gan amlygu bod cynnydd o 120% yn nifer y ceisiadau am y swyddi hyn ers y flwyddyn flaenorol.
Datganwyd bod llesiant staff a rheoli salwch yn parhau yn her gorfforaethol. Soniwyd bod y Cyngor wedi parhau i ddangos arweinyddiaeth wrth hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle, datblygu partneriaeth gymdeithasol, cryfhau cydraddoldeb a chynhwysiant, a gweithredu polisïau a mentrau newydd i gefnogi diwylliant gwaith cadarnhaol.

Adnabuwyd nifer o'r prif flaenoriaethau wrth edrych ymlaen:

- datblygu cynllunio gweithlu hirdymor,
- cefnogi llesiant staff,
- cryfhau recriwtio a chadw staff,
- gweithredu systemau newydd,
- sicrhau bod gan y Cyngor y bobl, y sgiliau a'r diwylliant cywir i ddiwallu anghenion Gwynedd yn y dyfodol.

Ategwyd mai adroddiad lefel uchel sydd gerbron. Sicrhawyd nad yw'r tueddiadau a'r heriau sydd i'w gweld yn yr adroddiad yn unigryw i Wynedd, a bod gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid er mwyn mynd i'r afael ar hyn.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Pryderwyd bod nifer staff y Cyngor yn lleihau, a chyfeiriwyd at drosiant staff gan holi beth mae hyn yn ei feddwl i'r Cyngor. Mewn ymateb, eglurwyd nad yw'r gyfradd trosiant staff yn ystyried y nifer o staff sydd

mewn adran, nac yn ystyried faint o staff sydd ar gontractau tymor byr. Manylwyd ar lefelau trosiant uchel yr Adran Economi, gan esbonio bod nifer o'r swyddi hynny yn ddibynnol ar grantiau ac felly ddim yn swyddi parhaol o ganlyniad. Tynnwyd sylw at effaith dull cyllido Llywodraeth Leol ar drosiant staff oherwydd y ddibyniaeth ar grantiau a'r ansicrwydd sy'n deillio o hynny i staff, a galwyd am gyllido aml-flwyddyn i Gynghorau.

- Pryderwyd am y lefelau salwch cynyddol uchel a chyfeiriwyd at y lefel uchel o absenoldebau sy'n gysylltiedig â straen. Cadarnhawyd bod lefelau salwch yn cynyddu ar draws siroedd eraill yn ogystal. Esboniwyd bod hyfforddiant i reolwyr yn hanfodol wrth annog staff i ddychwelyd i'r gwaith, a rheoli achosion yn effeithiol drwy gydweithio â'r gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a chwnsela. Datganwyd bod adolygiad cynhwysfawr o amodau gwaith yn cael ei gynnal er mwyn gweld beth ellir ei wneud i fod yn fwy cefnogol a chynhwysol.
- Gofynnwyd a oes digon yn cael ei wneud o ran cynllunio'r gweithlu a hyrwyddo'r rolau prentisiaethau a hyfforddeion. Cadarnhawyd bod llawer o waith marchnata ac ymgysylltu yn mynd rhagddo. Soniwyd am y Grŵp Gyrfa Mewnol sy'n ceisio rhoi ffocws ar ddenu staff i weithio a datblygu gyrfa o fewn y Cyngor.
- Wrth drafod y problemau sy'n codi mewn gwahanol adrannau, esboniwyd bod problemau cyhyrsgerbydol yn gyffredin mewn gwasanaethau rheng flaen, ond bod amrywiaeth ar draws y Cyngor. Crybwyllwyd hefyd y costau sy'n gysylltiedig â chyflenwi mewn perthynas â gwasanaethau rheng flaen. Amlygwyd y patrymau tymhorol sydd i'w gweld yn y ffigyrau yn ogystal, er enghraifft bod ysgolion ar gau ym mis Awst felly bod absenoldebau salwch yn is.
- Cyfeiriwyd at y system Adnoddau Dynol newydd sy'n cael ei datblygu, gan obeithio y bydd mwy o ddata wrth symud ymlaen o ganlyniad.
- Esboniwyd nad yw'r hyn sydd i'w weld yng Ngwynedd yn unigryw o'i gymharu â chynghorau eraill. Soniwyd bod rheolwyr yn derbyn adroddiadau manwl ar salwch o fewn eu gwasanaethau, fel bod posib gweithredu.
- Mewn perthynas â lefelau salwch, pryderwyd am y ffaith bod galw cynyddol am wasanaethau, ond bod lleihad yn nifer y staff o fewn y Cyngor.
- Nodwyd y bwriad i baratoi papur Tîm Arweinyddiaeth ynglŷn â'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth.

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Llio Elenid Owen.

PENDERFYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel bod gan aelodau drosolwg hanfodol o'r prif faterion iechyd a diogelwch a gododd yn ystod 2025/26.

TRAFODAETH

Amlygwyd bod datblygiadau sylweddol wedi bod yn y modd y caiff digwyddiadau eu hadrodd a'u rheoli, wrth gyflwyno system ddigidol newydd.
Er bod cynnydd yn y nifer yr adroddiadau a gafodd eu cyflwyno, cyfeiriwyd at y ffaith bod y nifer o ddigwyddiadau difrifol wedi lleihau. Cynigiwyd bod hyn yn awgrymu diwylliant adrodd cryfach a gwell rheolaeth o risgiau ar draws y sefydliad.
Manylwyd ar y system newydd gan egluro ei bod darparu gwybodaeth reoli well, dangosfyrddau byw a data gwell i gefnogi penderfyniadau a helpu rheolwyr i fonitro perfformiad iechyd a diogelwch. Adroddwyd y bu ymweliad gan AGID yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion, ond na chafodd unrhyw faterion oedd yn arwain at gamau gorfodi ffurfiol eu codi.
Esboniwyd bod canran uchel o reolwyr bellach wedi cwblhau hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel i reolwyr, ynghyd â hyfforddiant ar y system adrodd digwyddiadau newydd. Amlygwyd bod nifer uchel o atgyfeiriadau at yr Uned Iechyd Galwedigaethol wedi'u derbyn, gan adnabod bod iechyd meddwl a straen yn themâu amlwg. Yn ogystal, tynnwyd sylw at y gwaith pellach sy'n mynd rhagddo ar draws y Cyngor i ddatblygu trefniadau gweithio'n unig a diogelwch personol.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith, ac am gynnwys y graffiau o fewn yr adroddiad sy'n gwneud y wybodaeth yn haws i'w dilyn.
- Sylwyd bod y niferoedd o adroddiadau yn uchel yn yr adrannau Addysg ac oedolion, a holwyd os oes rhesymau penodol am hyn. Mewn ymateb, cadarnhawyd y dengys y cynnydd mewn adroddiadau bod parodrwydd cynyddol i adrodd ar ddigwyddiadau, ac felly yn awgrymu gwelliant mewn diwylliant. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y nifer o adroddiadau RIDDOR yn yr adrannau hynny wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf, a bod staff yn yr adrannau hynny yn gweithio ar y rheng flaen felly bod mwy o ddigwyddiadau mewn meysydd felly yn debygol.
- Wrth gyfeirio at y lleihad yn nifer y digwyddiadau RIDDOR, datganwyd bod buddsoddiad wedi bod yn yr hyfforddiant i reolwyr dros y degawd diwethaf fel bod mesurau rheoli gwell yn cael eu rhoi mewn lle i geisio atal digwyddiadau difrifol. Edrychwyd ymlaen at weld effaith y system adrodd newydd, gan amlygu bod y data a'r wybodaeth am ddamweiniau ar gael yn fyw i reolwyr drwy'r system, fel bod posib adnabod pa fesurau rheoli pellach sydd eu hangen mewn lle.
- Gofynnwyd am brif risgiau iechyd a diogelwch sy'n wynebu gweithlu'r Cyngor a'r hyn a gaiff ei wneud er mwyn monitro. Adnabuwyd mai tueddiadau baglu, disgyn a llithro, yn ogystal â materion cyhyrsgerbydol yw'r meysydd amlycaf o fewn y Cyngor ac ar draws y wlad. O ran bygythiadau penodol, nodwyd bod grwpiau tasg wedi'u sefydlu i edrych ar faterion megis gweithio'n unig, gyda phwyslais ar sicrhau asesiadau risg sydd â mesuriadau rheoli caeth mewn lle. Soniwyd am y gwaith o ran gweithio'n unig sy'n mynd rhagddo, gan gyfeirio at y cytundeb â Chyngor arall sydd mewn lle.

- Pwysleisiwyd mai un o brif gyfrifoldebau'r Cyngor yw sicrhau diogelwch staff yn eu gwaith. Cyfeiriwyd at y cynnydd sydd i'w weld mewn digwyddiadau treisgar, boed hynny'n ffisegol neu'n eiriol, a'r cynnydd yn y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i rannu fideos o staff wrth eu gwaith. Manylwyd ar y camau sy'n cael eu cymryd i adolygu trefniadau gweithio'n unig a threfniadau o ran digwyddiadau'n ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol. Ychwanegwyd bod ymgais i wthio'r sgwrs ynglŷn ag ymddygiad tuag at staff yn genedlaethol ogystal.

10. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2025-26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago.

PENDERFYNIAD

Bod y Cabinet yn derbyn Adroddiad Monitro Blynyddol 8 (Atodiad 1) a chytuno i gyflwyno i'r Llywodraeth erbyn diwedd mis Hydref 2026.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod yn ofynnol i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol yn flynyddol, yn unol â'r rheoliadau, a chyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar awdurdod cynllunio Gwynedd, ac mai hwn yw'r adroddiad olaf ar gyfer y Cynllun Datblygu presennol gan fod ei gyfnod yn dod i ben. Ychwanegwyd na fydd gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol statws cynllun datblygu statudol ar ôl diwedd y flwyddyn eleni o ganlyniad i'r Rheoliadau. O ganlyniad, nodwyd mai Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol i Gymru, fydd yn gweithredu fel y cynllun datblygu statudol ar gyfer penderfyniadau cynllunio. Er na fydd gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd statws cynllun datblygu mwyach, amlygwyd y bydd ei bolisïau'n dal yn ystyriaethau cynllunio materol os ydynt yn cyd-fynd â nodau a pholisïau Cymru'r Dyfodol.

Rhoddwyd trosolwg o brif gasgliadau'r adroddiad, gan egluro ei fod yn adrodd ar berfformiad yn erbyn cyfres o 70 o ddangosyddion sydd wedi eu nodi'n benodol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Adroddwyd ar y nifer o ddangosyddion sy'n cyd fynd â'r symbolau a gaiff eu defnyddio i fonitro effeithlonrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad. Aethpwyd ymlaen i adrodd ar y weithred sydd wedi'i nodi yn erbyn bob dangosydd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol fel rhan o'r dadansoddiad. Amlygwyd bod 42 o ddangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLl yn cael gweithredu'n effeithiol, 13 o ddangosyddion yn awgrymu nad yw'r Polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod, ac 15 dangosydd lle oedd y targed wedi'i gyflawni.

Soniwyd am brif gasgliadau'r Adroddiad, gan dynnu sylw at y ffaith bod caniatâd wedi'i roi ar gyfer 215 o unedau preswyl newydd yn ystod 2025/26, gyda 67.4% o'r rhain yn dai fforddiadwy. Nodwyd y cafodd 3 cais eu gwrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol, a chafodd 8 cais ganiatâd gydag amod cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol.
Adroddwyd bod yr Adroddiad hefyd wedi'i gyflwyno gerbron Weithgor Polisi Cynllunio.

Aethpwyd ymlaen i nodi bod 55.8% o'r holl unedau sydd wedi eu cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun yn dai fforddiadwy. Atgoffwyd nad ar gyfer tai'n unig mae'r Cynllun, gan amlygu ei fod yn hwyluso datblygiadau economaidd ac amgylcheddol yn ogystal. Ychwanegwyd bod y Cynllun hefyd wedi bod yn effeithiol wrth ddiogelu cyfleusterau cymunedol lleol.

Galwyd ar drigolion i gymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, ym mha bynnag ffordd sy'n bosib.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Cyfeiriwyd at bwysigrwydd y Cynllun a'r ffaith ei fod yn uchelgeisiol. Nodwyd ei fod yn cyffwrdd ar amryw o agweddau, ac amlygwyd mai cerbyd ar gyfer hwyluso amcanion strategol eraill y Cyngor ydyw. Wrth gyfeirio at orfod amcangyfrif lefel twf y boblogaeth, amlygwyd bod y Cynllun yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ar y pryd gan gynnwys modelau cydnabyddedig, tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, a thueddiadau adeiladu tai'r gorffennol er enghraifft. Cydnabuwyd y gall sefyllfaoedd newid yn ogystal. Tynnwyd sylw at ddatblygiad penodol wnaeth ddim digwydd yn nhymor y Cynllun, gan nodi fod hyblygrwydd y Cynllun wedi galluogi'r Cyngor i ymateb i hynny.
- Gofynnwyd ynglŷn â'r ffaith bod y ffigwr o dai a gwblhawyd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd sydd ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai yn isel. Mewn ymateb, eglurwyd am yr elfen ar hap sy'n digwydd, yn enwedig o feddwl ei bod yn flwyddyn olaf ar y Cynllun.
- Amlygwyd bod rhaid dilyn y camau cywir a'r rheoliadau mewn perthynas â'r Cynllun hwn. Cadarnhawyd bod tystiolaeth bod unrhyw ddatblygiad yn cyd-fynd â gofynion y Cynllun. Nodwyd bod rhaid cael elfen o hyblygrwydd o fewn y Cynllun, ond bod angen rhywbeth i roi arweiniad i ddatblygwyr o ran lle mae posib iddynt ddatblygu. Rhannwyd rhwystredigaeth ynglŷn â'r broses heriol hon, ond pwysleisiwyd bod y Cynllun yn ddogfen hollbwysig.
- Cyfeiriwyd yn ôl at y sylwad ynglŷn â'r safleoedd ar hap, gan sicrhau eu bod yn safleoedd sydd o fewn y ffiniau ac felly yn gydnaws â'r Cynllun. Cytunwyd bod y broses o sefydlu cynlluniau datblygu lleol yn rhy hir a chostus, ond atgoffwyd hefyd bod y broses yn hir oherwydd yr angen i gynnwys y cyhoedd ar bob cam ac felly bod rhesymau dilys am yr amserlen.

11. STRATEGAETH GYFALAF

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones.

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo:
• ariannu £1.49M ar gyfer bwlch cyllido prosiect atal llifogydd Prom y Gogledd, Abermaw
• ariannu bwlch cyllido o £583k ar gyfer prosiect Ysgol Bontnewydd
• darparu £6.86M ar gyfer amlen nesaf y rhaglen dreigl Ysgolion Cynaliadwy
• darparu £4.11M ar gyfer amlen nesaf y rhaglen dreigl Ysgolion Cynaliadwy ac ymateb i risgiau traffig ar safleoedd Ysgolion Uwchradd
• dirprwyo'r hawl i gytuno ar union raniad y £4.11M rhwng gwella ysgolion uwchradd a ymateb i risgiau traffig i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Addysg, Y Pennaeth Addysg a'r Pennaeth Cyllid wedi i waith pellach gael ei gwblhau.
• dadymrwymo £3.5M o gynllun asedau presennol y cyngor, er mwyn i ryddhau i gyfrannu at yr adnoddau sydd ar gael i ariannu yr uchod.

Gofynnir i'r Cabinet gadarnhau ymrwymiadau eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer cynnydd costau Ysgol Tryfan (cabinet 16 Rhagfyr 2025) a chanolfan arloesi Trawsfynydd (10 Chwefror 2026).

TRAFODAETH

Esboniwyd i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Asedau 10 mlynedd, a'i bwrpas yw ymrwymo cyfalaf craidd y Cyngor i brosiectau sy'n cymryd amser i'w cynllunio a'u gwireddu, fel bod modd blaengynllunio.

Cadarnhawyd ei fod yn gynllun byw a bod yr adroddiad gerbron yn argymell sut i ddyrannu'r arian cyfalaf ychwanegol sydd ar gael. Credwyd y bydd hyn yn rhoi sicrwydd i barhau gydag ambell gynllun cyn adolygiad cynhwysfawr o'r Cynllun Asedau, a fyddai'n ymestyn y cynllun am 10 mlynedd arall i bwrpas blaengynllunio. Tynnwyd sylw at y ffaith fod swm blynyddol wedi'i neilltuo o fewn y Cynllun Asedau ar gyfer prosiectau cyfalaf llai sy'n codi, a chânt eu trin drwy'r drefn bidiau.

Amlygwyd bod swm o £16 miliwn ar gael drwy amryw o grantiau a derbyniadau cyfalaf i gyfarch yr anghenion gwario cyfalaf.
Cyfeiriwyd at amryw o ofynion newydd sydd wedi codi, gyda chynlluniau wedi datblygu ers gosod y Cynllun Asedau presennol ynghyd â chynnydd mewn costau.

Manylwyd ar yr hyn nad oedd modd ei gyfarch dwy flynedd yn ôl pan fu i'r Cyngor fabwysiadu'r Cynllun Asedau 10 mlynedd. Cadarnhawyd bod gofynion cynnal a chadw bellach wedi'u cyfarch y tu hwnt i'r drefn hon. Aethpwyd ymlaen i nodi bod

swm wedi'i glustnodi fel rhan o'r cais gerbron er mwyn galluogi datblygu a cheisio am grantiau ar gyfer amlen nesaf y rhaglen dreigl Ysgolion Cynaliadwy.

Tynnwyd sylw at y materion eraill a'r heriau strategol o fewn yr adran Addysg sydd angen sylw, ond nad yw'r arian yn ddigonol i gyfarch amcan lefel uchel ar eu cyfer. Gan fod gwaith pellach i'w wneud er mwyn deall yr union heriau a datrysiadau, awgrymwyd bod swm i'w glustnodi ar gyfer y materion hyn, gyda'r hawl i gytuno ar union raniad yr arian hwn i'w ddirprwyo yn unol â'r hyn gaiff ei nodi yn yr adroddiad.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Cyfeiriwyd at ymweliad diweddar rhai Aelodau Cabinet ag adeilad newydd Ysgol Ein Harglwyddes ym Mangor. Amlygwyd safon yr adeilad ac mai dyma sydd ei angen ar gyfer holl blant y Sir. Pwysleisiwyd pwysigrwydd buddsoddi ym mhlant a phobl ifanc y Sir, gan gynnwys gwneud gwelliannau i safleoedd a stad ysgolion.
- Soniwyd nad yw'r Cyngor yn bartner i ddatblygiad Hwb Iechyd a Gofal – Canolfan Lleu erbyn hyn, a hynny oherwydd bod y cynllun bellach yn parhau ar raddfa llawer llai. Gobeithiwyd y byddai modd bod yn rhan o unrhyw brosiectau yn y dyfodol.

12. RHAGLEN GYFALAF 2026/27 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST (SEFYLLFA 31 AWST 2026)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones.

PENDERFYNIAD

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2026) o'r rhaglen gyfalaf.
- Cymeradwyo'r addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 5 Mawrth 2026 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:
  - cynnydd o £846,000 mewn defnydd o fenthyca
  - cynnydd o £64,980,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
  - cynnydd o £5,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
  - cynnydd o £673,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
  - lleihad o £350,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
  - cynnydd o £13,329,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

TRAFODAETH

Eglurwyd bod dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £176 miliwn am y 3 blynedd 2026/27 – 2028/29 i'w weld yn yr adroddiad. Aethpwyd ymlaen i dynnu sylw at y ffynonellau i ariannu'r cynnydd net o £101.5 miliwn ers y gyllideb wreiddiol, gyda £22 miliwn ohono yn deillio o ail broffilio ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol.

Manylwyd ar y prif gasgliadau sef bod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi £123.5 miliwn yn 2026/27 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £72 miliwn (58%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.

Nodwyd bod £12 miliwn ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2026/27 i 2027/28 a 2028/29, a chyfeiriwyd at y prif gynlluniau sydd wedi llithro ers y gyllideb wreiddiol.

Tynnwyd sylw at y rhestr o'r grantiau ychwanegol gwerth £66 miliwn, y llwyddodd y Cyngor eu denu ers y gyllideb wreiddiol, sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Diolchwyd i'r staff am y gwaith i ddod a'r grantiau hyn yn fyw.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 3:35pm

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Adroddiad Chwarterol – Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb (Tachwedd 2026)
Aelod Cabinet:	Y Cyng. Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor
Swyddog perthnasol:	Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr
Dyddiad y cyfarfod:	10 Tachwedd 2026

1. Penderfyniad a Geisir:

1.1 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad chwarterol gerbron gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb a chytuno i dderbyn adroddiadau ar sail tymhorol (pob 4 mis) o hyn ymlaen.

2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

2.1 Mabwysiadwyd Cynllun Ymateb gan Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Ionawr 2025 i gydgysylltu'r holl gefnogaeth, adolygiadau, archwiliadau a ffrydiau gwaith eraill sy'n ymwneud â'r ymateb i droseddau a gyflawnwyd gan gyn Bennaeth Ysgol, Neil Foden.

2.2 Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant (*Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder*) yn hydref 2025, mabwysiadwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Ymateb ym mis Mawrth 2026, yn unol â'r argymhellion a nodwyd.

2.3 Bu addewid i barhau i adrodd yn chwarterol i Aelodau'r Cabinet ar gynnydd rhaglen waith a gweithrediad y Bwrdd Ymateb.

2.4 Rhennir yr adroddiad gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb, gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o'r datblygiadau a'r hyn sydd wedi ac yn parhau angen ei gyflawni gan y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Comisiynwyd y Prif Weithredwr i roi trefniadau mewn lle i weithredu cynnwys y Cynllun Ymateb hwn gan gynnwys sefydlu Bwrdd Rhaglen penodol ac adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r Cabinet.

3.2 Penodwyd yr Athro Sally Holland i ymgymryd a rôl Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd ym mis Chwefror 2025. Mae Sally yn Athro Gwaith Cymdeithasol yng Nghanolfan Ymchwil a

Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn gyn Gomisiynydd Plant Cymru (2015-2022).

3.3 Ers mabwysiadu'r Cynllun Ymateb, mae llawer o waith y Bwrdd Rhaglen wedi canolbwyntio ar sefydlu trefniadau llywodraethu, datblygu camau gweithredu a sicrhau cynnydd yn erbyn argymhellion penodol. Wrth i'r rhaglen aeddfedu, mae'r pwyslais wedi symud yn gynyddol o gwblhau gweithredoedd unigol tuag at weithredu newidiadau, gwreiddio arferion da a mesur effaith y newidiadau hynny ar draws gwasanaethau.

3.4 Yn y cyd-destun hwn, gall cylch adrodd chwarterol gyfyngu ar y cyfle i ddangos cynnydd ystyrlon a thystiolaeth o effaith. Felly, cynigir newid y trefniadau adrodd yn y dyfodol i gylch tymhorol o dri adroddiad y flwyddyn, wedi'u halinio â chyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i gamau gweithredu gael eu gwreiddio, i ganlyniadau ac effaith ddod i'r amlwg, ac i'r Bwrdd ystyried cynnydd cyn adrodd i'r Cabinet. Bydd y trefniadau diwygiedig yn parhau i ddarparu sicrwydd rheolaidd a thryloywder, gan alluogi diweddariadau mwy sylweddol ac ystyrlon.

4. Camau nesaf

4.1 Gwaith y Bwrdd yn parhau gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i'r Cabinet ar gynnydd ymhen 4 mis (mis Mawrth)

5. Sylwadau Swyddogion Statudol.

5.1 Prif Swyddog Cyllid

Ni fydd y penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant a nid oes gennyf sylwadau pellach i'w cynnig

5.2 Swyddog Monitro

Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi'i sefydlu gan y Cabinet gyda Chadeirydd Annibynnol i gydlynu a sicrhau cynnydd ar y Cynllun Ymateb a fabwysiadwyd ganddo. Mae'n allweddol i'r trefniant llywodraethu hwn bod y Cabinet yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn y gwaith hollbwysig yma. Mae adroddiad gan y Cadeirydd Annibynnol, yr Athro Sally Holland yn ddull tryloyw a chadarn o ddarparu'r sicrwydd hwnnw. Rwy'n croesawu'r adroddiad diweddaraf yma.

ADRODDIAD CHWARTEROL I'R CABINET: BWRDD RHAGLEN Y CYNLLUN YMATEB

YR ATHRO SALLY HOLLAND: CADEIRYDD Y BWRDD YMATEB

DYDDIAD: 10 Tachwedd 2026

Cyflwyniad

Ers fy adroddiad diwethaf i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2026, mae Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb wedi parhau i oruchwylio ymateb y Cyngor i'r argymhellion sy'n deillio o'r Adolygiad Ymarfer Plant, *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder*, a'r Cynllun Ymateb ehangach.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r datblygiadau allweddol a'r cynnydd a wnaed yn ystod y chwarter diwethaf.

Y Sefyllfa Gyfredol

Mae'r chwarter hwn yn nodi blwyddyn ers cyhoeddi *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder*. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cynhaliwyd gweithgarwch sylweddol ar draws themâu'r Cynllun Ymateb, gyda ffocws parhaus ar fynd i'r afael â'r argymhellion sy'n deillio o'r Adolygiad Ymarfer Plant.

Mae gwaith y Bwrdd yn parhau i gael ei strwythuro o amgylch saith thema'r Cynllun Ymateb:

1. Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr
2. Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant
3. Hyfforddiant a Pholisïau
4. Llywodraethu Ysgolion
5. Arferion Cyfyngol
6. Cynllunio ar gyfer Argyfwng ac Ymateb mewn Argyfwng
7. Cefnogi Ysgol Friars

Cyflwynir adroddiadau cynnydd manwl i'r Bwrdd gan yr arweinwyr thema, gan dynnu sylw at yr hyn a gyflawnwyd, blaenoriaethau, risgiau a heriau, dibyniaethau a goblygiadau i adnoddau.

Rhaglen Waith

Mae cyfran sylweddol o'r gweithgaredd arfaethedig bellach wedi'i gwblhau, gyda 43 o'r 55 o gamau gweithredu ar draws y saith thema wedi'u cyflawni. Er bod hon yn garreg filltir bwysig, mae aelodau'r Bwrdd wedi pwysleisio'n gyson y dylid ystyried cwblhau camau gweithredu fel modd i gyflawni gwelliant parhaol yn hytrach nag fel diben ynddo'i hun. O ganlyniad, rhoddir

mwy o sylw i ddeall effaith newidiadau, sut mae dysgu yn cael ei ymgorffori, a yw diwylliant sefydliadol yn esblygu, ac i ba raddau y mae gwelliannau yn cael eu profi yn ymarferol gan blant, pobl ifanc, staff a rhanddeiliaid ehangach.

Mesurau Deilliant

Yn ystod y chwarter, rhannwyd cyflwyniad manwl ar ddatblygiad mesurau effaith ar draws y Cynllun Ymateb. Croesawodd y Bwrdd y gwaith a wnaed i symud y tu hwnt i fonitro cwblhau camau gweithredu a thuag at fesur effaith newidiadau.

Ar ôl trafodaeth, cytunodd y Bwrdd ar y gyfres arfaethedig o fesurau effaith ar draws saith thema'r Cynllun Ymateb. Bwriad y mesurau hyn yw rhoi dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o p'un a yw gwelliannau yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon yn ymarferol, diwylliant sefydliadol a chanlyniadau i blant a phobl ifanc.

Roedd y Bwrdd yn glir na all unrhyw fesur unigol ddarparu sicrwydd yn unigol. Yn hytrach, bydd sicrwydd yn cael ei dynnu o ystod o ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys:

- holiaduron ac arolygon o blant, pobl ifanc, staff a llywodraethwyr;
- gweithgarwch archwilio a sicrhau ansawdd;
- grwpiau ffocws a gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- dadansoddiad o adborth gan ddioddefwyr, goroeswyr a defnyddwyr gwasanaeth;
- canfyddiadau craffu annibynnol;
- gwybodaeth am berfformiad diogelu a llais y plentyn; a
- dadansoddiad eilaidd o ddata Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN).

Bydd datblygu arolygon blynyddol Llais y Plentyn, mesurau hyder staff, trefniadau hunanasesu llywodraethwyr ac ystod ehangach o ddangosyddion ansoddol a meintiol yn helpu i sefydlu sylfaen dystiolaeth gliriach y gellir monitro a gwerthuso cynnydd yn ei herbyn dros amser.

Ar 22 Hydref 2026 rhyddhawyd y data diweddaraf gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN), sy'n dangos ymatebion disgyblion ysgolion uwchradd i ystod o gwestiynau iechyd a lles mewn arolygon a weinyddwyd yn 2025. Mae'r rhain ar gael i'r cyhoedd ar lefel awdurdod lleol a Chymru, gydag ysgolion yn derbyn eu hadroddiad cyfrinachol eu hunain. Hyd y gwn i, mae pob ysgol uwchradd yng Ngwynedd yn cymryd rhan.

Mae'r data diweddaraf hwn yn rhoi cipolwg ar farn plant a phobl ifanc (blynyddoedd 7-16) ac yn gyfle i Wynedd gymharu safbwyntiau ei phlant â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'n un o'r mesurau y gellir eu defnyddio i edrych ar effaith polisïau a hyfforddiant newydd, gan gynnwys strategaeth Llais y Plentyn a rhaglen waith arferion cyfyngol.

Yn nata 2025, mae disgyblion Gwynedd yn adrodd profiadau a chanfyddiadau o amgylch cyfartaledd Cymru ar gyfer ystod o fesurau gan gynnwys eu hymddiriedaeth mewn athrawon a

theimlo'r gallu siarad â nhw, ac ymdeimlad o berthyn i'w hysgol. Maent hefyd o amgylch y cyfartaledd mewn rhai elfennau o gyfranogiad mewn bywyd ysgol. Er eu bod yn adrodd boddhad cyffredinol uwch na'r cyfartaledd, maent hefyd yn fwy tebygol o adrodd eu bod wedi chwarae triwant na chyfartaledd Cymru. Maen nhw'n is na chyfartaledd Cymru ar gyfer cymorth yn yr ysgol.

Felly, nid oes tuedd benodol i wasanaethau Cyngor Gwynedd gael eu profi'n gyson gan ei ddisgyblion fel rhai mwy neu lai cefnogol na'r cyfartaledd yng Nghymru, ond mae rhai o'r canlyniadau hyn yn haeddu golwg fanylach gan y gyfarwyddiaeth addysg a chyrff llywodraethu ysgolion unigol ochr yn ochr â'u cyngor ysgol. Maent hefyd yn gosod llinell sylfaen ddefnyddiol a gellir dadansoddi tueddiadau dros amser, gan ddefnyddio'r data dwyflynyddol hyn.

Strategaeth Llais y Plentyn

Ers yr adroddiad chwarterol diwethaf, mae'r Strategaeth Llais y Plentyn wedi cael ei mabwysiadu gan y Cabinet.

Mae wedi bod yn galonogol gweld plant a phobl ifanc yn cymryd rhan drwy gydol datblygiad y gwaith hwn, gan helpu i lunio'r dull a'r blaenoriaethau y bwrir ymlaen â nhw. Mae'n rhaid i'r ffocws nawr fod ar ymgorffori diwylliant lle mae lleisiau plant yn cael eu ceisio, y gwrandewir arnynt ac y gweithredir arnynt yn rheolaidd ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw cyfranogiad yn cael ei ystyried fel gweithgaredd ar wahân, ond fel elfen graidd o wneud penderfyniadau, datblygu gwasanaethau a gwella parhaus.

Fel Cadeirydd, rwyf wedi ceisio sicrwydd yn gyson bod y Cyngor yn clywed gan ystod eang a chynrychioliadol o blant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai nad yw eu lleisiau bob amser yn cael eu dal drwy fecanweithiau cyfranogi sefydledig. Felly, roeddwn yn falch o nodi, yn dilyn proses recriwtio heriol, bod y Cyngor bellach wedi gallu penodi Swyddog Ymgysylltu a Chyfranogiad ychwanegol. Dylai'r gallu ychwanegol hwn helpu i gryfhau ymgysylltiad â grwpiau fel gofalwyr ifanc, plant anabl, plant sydd â phrofiad o ofal ac eraill a allai wynebu rhwystrau i gymryd rhan. Dylai hefyd helpu i sicrhau nad yw gweithgarwch cyfranogiad yn rhy ddibynnol ar nifer gymharol fach o bobl ifanc sydd eisoes yn cymryd rhan weithredol drwy fforymau a strwythurau presennol.

Arferion Cyfyngol

Mae'r Bwrdd hefyd wedi derbyn diweddariad am y cynnydd a wnaed o dan y thema Arferion Cyfyngol, gan gynnwys canfyddiadau'r adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan y Cyngor. Er bod y gwaith hwn wedi'i ysgogi i ddechrau gan bryderon ynglŷn â defnyddio recordio fideo, ers hynny mae wedi datblygu i fod yn rhaglen waith ehangach sy'n canolbwyntio ar bolisi, ymarfer, llywodraethu a goruchwylio.

Roedd hi'n galonogol nodi'r trefniadau llywodraethu cryfach sydd bellach yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys grŵp swyddogion trawsadrannol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cynhwysiant, Iechyd a Diogelwch a Diogelu. Dylai hyn ddarparu mecanwaith mwy cadarn ar gyfer goruchwylio, gan alluogi tueddiadau, pryderon a meysydd sydd angen cymorth ychwanegol i gael eu hadnabod a'u hystyried yn gynharach.

Ochr yn ochr â chanllawiau a threfniadau adrodd diwygiedig, dylai'r datblygiadau hyn helpu i gryfhau cysondeb arferion a darparu mwy o sicrwydd bod arferion cyfyngol yn cael eu monitro a'u craffu'n briodol.

Adolygiad Diogelu / Datblygiadau Cenedlaethol

Mae nifer o ddatblygiadau wedi parhau ar lefel genedlaethol a rhanbarthol mewn perthynas â llywodraethu, polisi ac ymarfer diogelu. Yr hyn sydd o ddiddordeb arbennig yw'r datblygiadau sy'n ymwneud â threfniadau diogelu Rhan 5 ac, yn fwy diweddar, cyhoeddi trefniadau goruchwylio a chraffu cenedlaethol newydd.

Er bod manylion yn dal i ddod i'r amlwg, mae gan y datblygiadau hyn y potensial i gryfhau sicrwydd diogelu a hyrwyddo mwy o gysondeb ymagwedd ar draws Cymru. Bydd yn bwysig deall sut mae awdurdodau lleol, byrddau diogelu rhanbarthol a threfniadau sicrwydd presennol yn rhyngweithio â'r strwythurau esblygol hyn, a sut y gellir rhannu dysgu, her a goruchwylio yn effeithiol ar draws y gwahanol lefelau llywodraethu.

Efallai y bydd cyfleoedd gwerthfawr i'r Bwrdd ddysgu o'r datblygiadau hyn a chyfrannu atynt wrth i drefniadau cenedlaethol ddod yn fwy sefydledig.

Craffu a Sicrwydd

Pwyllgorau Craffu Cyngor Gwynedd

Yn ystod yr hydref, ystyriwyd cynnydd yn erbyn y Cynllun Ymateb gan drefniadau craffu'r Cyngor hefyd, gan gynnwys y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Craffu Gofal. Roedd hyn yn gyfle pwysig i aelodau etholedig adolygu cynnydd, gofyn cwestiynau a darparu her ar ran y cymunedau y maen nhw'n eu cynrychioli.

O ystyried bod y chwarter hwn yn nodi blwyddyn ers cyhoeddi *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder*, roedd yn gyfle i'r aelodau fyfyrio ar y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma, yr heriau sy'n parhau a'r blaenoriaethau ar gyfer cam nesaf y rhaglen.

Wrth i'r rhaglen symud fwyfwy o weithredu tuag at sicrwydd ac effaith, bydd trefniadau craffu mewnol effeithiol yn dod yn bwysicach fyth.

Grŵp Sicrwydd Llywodraeth Cymru

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Sicrwydd Gweinidogol ar ôl cyhoeddi *Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder*. Ar adeg fy adroddiad diwethaf i'r Cabinet, roedd rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â rôl a threfniadau'r Grŵp yn y dyfodol yn dilyn etholiad y Senedd. Ers hynny, mae'r Grŵp wedi cyfarfod ar ddau achlysur, gan gynnwys cyfarfod hybrid a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a roddodd gyfle gwerthfawr i ymgysylltu'n uniongyrchol â swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Nid wyf yn aelod o'r grŵp hwn ond mynychais gyfarfod Caerdydd drwy wahoddiad ac roeddwn yn gallu rhannu fy myfyrdodau gyda gweinidog Addysg y Cabinet a swyddogion ar y cynnydd sydd wedi'i wneud, y galluogwyr a'r heriau.

Mae trafodaethau wedi bod yn adeiladol ac wedi galluogi i aelodau fyfyrio ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn lleol, ochr yn ochr â datblygiadau cenedlaethol ehangach sy'n ymwneud â diogelu. Mae'r Grŵp hefyd wedi adolygu a chytuno ar Gylch Gorchwyl diwygiedig, gan ddarparu mwy o eglurder ynghylch ei rôl, ei gylch gwaith a'i weithrediad yn y dyfodol.

Mae cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau diogelu cenedlaethol, gan gynnwys adolygiadau o drefniadau llywodraethu diogelu a llywodraethu ysgolion. Bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro'r datblygiadau hyn ac yn ystyried unrhyw oblygiadau i drefniadau polisi, ymarfer a sicrwydd lleol.

Trefniadau Adrodd

O ystyried aeddfedrwydd y rhaglen a'r pwyslais cynyddol ar sicrwydd a mesur effaith, mae'r Bwrdd wedi ystyried ei drefniadau adrodd yn y dyfodol. Yn amodol ar gytundeb y Cabinet, hwn fydd yr adroddiad chwarterol olaf, gydag adroddiadau yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno bob tymor.

Bydd hyn yn cyd-fynd yn agosach â chylch cyfarfodydd y Bwrdd a'r amserlenni sy'n ofynnol i asesu cynnydd ystyrlon yn erbyn mesurau deilliant.

Camau Nesaf

Wrth i'r Bwrdd symud i'r chwarter nesaf, bydd yn:

1. Parhau i oruchwylio'r camau gweithredu sy'n weddill yn y Cynllun Ymateb a monitro cynnydd ar draws pob un o'r saith thema.
2. Adolygu gweithrediad y mesurau effaith y cytunwyd arnynt ac ystyried tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch effeithiolrwydd y newidiadau a gyflwynwyd ar draws y rhaglen.
3. Parhau i gryfhau trefniadau sicrwydd drwy dynnu ar ystod o ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys archwiliadau, arolygon, ymgysylltu â rhanddeiliaid, grwpiau ffocws ac adborth ansoddol gan blant, pobl ifanc, staff a llywodraethwyr.

4. Ystyried goblygiadau datblygiadau diogelu cenedlaethol a rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys newidiadau sy'n ymwneud â threfniadau diogelu Rhan 5 a threfniadau goruchwylio cenedlaethol newydd.
5. Parhau i adolygu rôl a threfniadau adrodd y Bwrdd yn y dyfodol wrth i'r rhaglen symud fwyfwy o weithredu tuag at sicrwydd, effaith a chynaliadwyedd hirdymor.

Sylwadau i Gloi

Mae'r Bwrdd bellach wedi cyrraedd cam lle mae llawer o'r gwaith gweithredu gwreiddiol wedi'i gwblhau neu wedi'i ymgorffori mewn trefniadau gwasanaeth arferol. Yn gynyddol, mae ffocws y Bwrdd yn symud tuag at sicrwydd, effaith a chynaliadwyedd. Mae datblygu a chytuno ar gyfres gynhwysfawr o fesurau deilliant yn nodi carreg filltir bwysig yn y trawsnewidiad hwn, gan ddarparu sylfaen gryfach ar gyfer asesu a yw gwelliannau diriaethol yn cael eu profi gan blant, pobl ifanc, staff a chymunedau.

Yr Athro Sally Holland
Cadeirydd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb
27 Hydref 2026.

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Bwrdd Aelwydydd i Hybu Annibyniaeth
Aelod Cabinet:	Paul Rowlinson – Aelod Cabinet Aelod Cabinet Tai ac Eiddo Dilwyn Morgan – Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant Menna Trenholme – Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd
Swyddog perthnasol:	Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Dyddiad y cyfarfod:	10 Tachwedd 2026

1. Penderfyniad a Geisir:

1.1 Fod y Cabinet yn cytuno i sefydlu Bwrdd Rhaglen Aelwydydd i Hybu Annibyniaeth i gynnal trosolwg ac i arwain ar ddatblygiadau tai gyda gofal ar draws Gwynedd, dan arweiniad yr Aelodau Cabinet dros Tai ac Eiddo, Oedolion Iechyd a Llesiant, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

1.2 Fod swyddogaethau, aelodaeth a threfniadau y Bwrdd yn unol a'r Cylch Gorchwyl yn Rhan 3.2 o'r adroddiad.

2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

2.1 Tra gwelwyd datblygiadau tai gyda gofal yng Ngwynedd dros y blynyddoedd diwethaf, daeth yn amlwg bod angen llawer iawn mwy o ddatblygiadau tebyg. Yn dilyn y gwaith ymchwil, Llechen Lân, comisiynwyd gwaith pellach gan gwmni *Housing LIN* i ystyried y dystiolaeth ar ddemograffeg, anghenion, ac argaeledd llety addas i'r henoed. Gweler yr adroddiad hwnnw yn Atodiad I. Dengys yr adroddiad bod angen dybryd am ddatblygu rhagor o dai gyda gofal ar draws Gwynedd ac, er mwyn gwneud hynny, bydd angen cyd-drefnu cynlluniau a chyllidebau ar draws adrannau fel rhan o gynllunio datblygiadau tai cyffredinol y Cyngor.

2.2 Tra nad yw'r datblygiadau llety gyda chefnogaeth (anabledd dysgu) a chartrefi grwp bychain i blant yn rhan o'r adroddiad hwn ar hyn o bryd, mae'n debygol y byddai y gwaith hanfodol hwnnw hefyd yn elwa o drosolwg cyffelyb yn y dyfodol ac y gallai, o bosib, gael ei ychwanegu at gylch gwaith y Bwrdd Rhaglen ar yr amser priodol.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

3.1.1 Ceir anghenion tai gyda gofal ar draws y sectorau gwasanaethau cymdeithasol, gyda'r angen am dai addas ar gyfer plant sydd ag anableddau; ar gyfer plant mewn gofal; ar gyfer oedolion sydd ag anableddau; ac ar gyfer henoed bregus sydd ddim angen byw mewn cartrefi preswyl.

3.1.2 Cwblhaodd Adran Oedolion ymchwil Llechen Lân yn 2025 ac roedd yr adroddiad hwnnw yn argymell buddsoddi yn helaeth mewn dulliau amgen o ddarparu cefnogaeth a gofal i unigolion hŷn yng Ngwynedd, gan gynnwys datblygu mwy o dai gofal ychwanegol.

3.1.3 Yn sgil hynny, yn 2025 comisiynodd yr Adran Oedolion a'r Adran Tai ar y cyd waith ymchwil ar anghenion tai gyda gofal ar gyfer pobl hŷn yng Ngwynedd. Darparodd y cwmni *Housing LIN* y gwaith ymchwil wedi ei seilio ar ganfyddiadau Llechen Lân a thystiolaethau eraill. Dengys eu canfyddiadau bod anghenion tai gofal ychwanegol a thai gwarchod yn sylweddol fel y gwelir yn Atodiad I, ac fel a grynhoir isod:

Tabl 1: Amcangyfrif anghenion am lety gyda chefnogaeth a llety arbenigol yng Ngwynedd

Mathau o dai gyda chefnogaeth a thai arbenigol a llety	Darpariaeth Bresennol	Amcan o'r Angen erbyn 2028	Amcan o'r Angen erbyn 2033	Amcan o'r Angen erbyn 2038	Amcan o'r Angen ychwanegol erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	***113***	**286**	**437**	**587**	**729**
Tai Marchnad		*86*	*131*	*176*	*219*
Tai Cymdeithasol		*200*	*306*	*411*	*510*
Tai Gwarchod (unedau)	***674***	**504**	**789**	**1,073**	**1,341**
Tai Marchnad		*151*	*237*	*322*	*402*
Tai Cymdeithasol		*353*	*553*	*751*	*939*
Tai Hygyrch (unedau)		**1,149**	**1,726**	**2,289**	**2,799**
Tai Marchnad		*345*	*518*	*687*	*840*
Tai Cymdeithasol		*805*	*1,208*	*1,602*	*1,959*
Tai hygyrch briodolwyd ar gyfer oedran (tai cymdeithasol i bobl dros 55) (unedau)		**383**	**575**	**763**	**933**
Tai Marchnad		*115*	*173*	*229*	*280*
Tai Cymdeithasol		*268*	*403*	*534*	*653*
Cartrefi Preswyl Nyrsio (gwelyau)	***476***	**80**	**167**	**230**	**292**
Cartrefi Preswyl (gwelyau)	***518***	**-42**	**-7**	**2**	**10**

** Noder bod rheolaeth bwriadol wedi bod ar y niferoedd o welyau cartrefi preswyl er mwyn cefnogi gweithredu ar yr egwyddor o leihau'r nifer o bobl fyddai angen gofal preswyl, ar wahân i bobl sydd yn byw gyda dementia.*

3.1.4 Felly, bydd angen i Gyngor Gwynedd weithio ar y cyd gyda datblygwyr tai i sicrhau argaeledd llety addas i boblogaeth y sir dros y degawdau sydd i ddod. Golyga hynny raglen waith sylweddol ei maint i barhau am flynyddoedd i roi arweiniad a chadw trosolwg ar gynllunio a gweithredu'r datblygiadau hynny. Noder hefyd y rhagwelir

cynnydd mawr yn y galw am fathau eraill o lety arbenigol. Bydd cyd-berchnogaeth ar y gwaith hwn fel un Cyngor yn hanfodol i sicrhau llwyddiant.

3.1.5 Datganodd Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2026 eu bod am weld darparu 20,000 yn ychwanegol o dai cymdeithasol yng Nghymru o fewn 4 blynedd. Dyhead y Llywodraeth yw cynyddu'r stoc dai cymdeithasol cyffredinol, er mwyn lleihau dibyniaeth ar lety argyfwng a diwallu anghenion digartrefedd. Gall tai gofal ychwanegol gyfrannu at y ffigwr yma drwy ddatblygu cartrefi addas ar gyfer anghenion y grwpiau hyn o unigolion, a'u galluogi i symud. Mae posibilrwydd y gallai hynny ryddhau rhai o'u cartrefi presennol i'r farchnad ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol hefyd, er mai bach yw'r niferoedd o dai cymdeithasol sydd yn cael eu rhyddhau drwy hyn yn hanesyddol, oherwydd nid yw'n mynd drwy'r gofrestr dai.

3.2 Cylch Gorchwyl: Bwrdd Rhaglen Aelwydydd i hybu annibyniaeth

3.2.1 Byddai'r Bwrdd Rhaglen Aelwydydd i Hybu Annibyniaeth yn hyrwyddo ac yn cefnogi cydweithio traws adrannol er mwyn sicrhau darpariaeth llety addas ar gyfer poblogaeth Gwynedd. Byddai'n galluogi cyd-lynu cynlluniau tymor byr ac hir dymor ac yn sicrhau cydgynllunio ariannol a cheisiadau am gyllid cenedlaethol wedi eu cydgordio, gyda chyd-berchnogaeth ar draws sawl adran yn y Cyngor.

3.2.2 Byddai'r Bwrdd Rhaglen Aelwydydd â Gofal yn cynnwys yr aelodaeth ganlynol:

- Aelod Cabinet Tai ac Eiddo
- Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
- Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd
- Pennaeth Tai ac Eiddo
- Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo(Tai)
- Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo(Eiddo)
- Pennaeth Oedolion
- Pennaeth Cynorthwyol Comisiynu/Busnes
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cyfarwyddwr Corfforaethol
- Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd*

**Mae'n debygol na fyddai'r Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd yn aelod cyflawn o'r Bwrdd Rhaglen Aelwydydd â Gofal yn y lle cyntaf, ond yn ymuno wrth i faterion plant gael eu hystyried gan y bwrdd.*

3.2.3 Gweler rolau a argymhellir yn y tabl isod.

Tabl 2: Rolau a argymhellir.

Cadeirydd		
**********		
Cyfrifoldeb Thematig		
Materion Gofal	**Materion Tai**	
Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant	Aelod Cabinet Tai ac Eiddo	
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyfarwyddwr Corfforaethol	
Prif Swyddogion		
Pennaeth Oedolion	Pennaeth Tai ac Eiddo	
Rheolaeth Rhaglen		
Gwaith Datblygu	**Rheolaeth Prosiect**	**Trefniadau Comisiynu**
Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo (Eiddo)	Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo (Tai)	Pennaeth Cynorthwyol Comisiynu/Busnes

3.2.4 Byddai'r Bwrdd yn cyfarfod yn chwarterol i roi arweiniad ac i gadw trosolwg o brosiectau a datblygiadau penodol:

- Llety addas ar gyfer pobl hŷn (e.e. tai gwarchod a thai gofal ychwanegol)
- Llety gyda Chefnogaeth ar gyfer oedolion ag anabledd
- Gellid cytuno o fewn y Bwrdd i ychwanegu materion perthnasol eraill pe byddai aelodau'r Bwrdd yn unfrydol i wneud hynny

3.2.5 Wedi derbyn yr adroddiad arfaethedig ar anghenion cartrefi bychain i blant yng Ngwynedd mae'n bosib y gallai'r ehangu ei gwmpas i gynnwys tai ar gyfer cartrefi grŵp bychain i blant.

3.2.6 Bydd angen adnodd dynol addas ychwanegol i arwain ar y rhaglen ac i gyd-gordio prosiectau penodol. Ceir trafodaethau pellach ar hyn rhwng yr Adrannau perthnasol i gytuno ar yr adnodd a'r cyllido.

3.3 Camau nesaf

3.3.1 Pe ceid cytundeb y Cabinet i sefydlu Bwrdd Rhaglen Aelwydydd i Hybu Annibyniaeth y bwriad yw cynnal y cyfarfod cyntaf o fewn y mis gan osod seiliau ar gyfer gweithredu'r Bwrdd dros y blynyddoedd i ddod.

3.3.2 Un o ystyriaethau cyntaf y Bwrdd Rhaglen Aelwydydd â Gofal fyddai cytuno ar gerrig milltir o 2027 ymlaen rhwng y dair adran, Tai ac Eiddo, Oedolion, a Plant a Chefnogi

Teuluoedd, ar gyfer elfennau Gwynedd Glyd a Gwynedd Ofalgar yng Nghynllun y Cyngor ar ddatblygu llety ar gyfer unigolion ag anghenion gofal.

4. Sylwadau Swyddogion Statudol.

4.1 Prif Swyddog Cyllid

Mae cynnwys adroddiad Housing LIN yn cyflwyno darlun clir a phryderus o'r datblygiadau tai a gofal fydd yn angenrheidiol dros y blynyddoedd nesaf. Nid yw'r penderfyniad a geisir yn ymrwymo'r Cyngor i wariant ar hyn o bryd ac rwyf yn croesawu'r bwriad i sefydlu Bwrdd Rhaglen er mwyn ymdrin â'r sefyllfa ddyrys yma. O wneud hynny, disgwyliaf y bydd unrhyw ddatblygiadau yn destun trefniadau rheoli rhaglen / prosiect cydnabyddedig ac y bydd hynny yn ei dro yn rhoi cyfle i sicrhau fod disgyblaeth a rheolaeth ariannol gadarn yn rhan annatod o'r rhaglen wrth symud yn ei flaen. Mae'n rhan greiddiol o lywodraethu rhaglenni o'r fath fod cyngor ariannol rheolaidd yn cael ei dderbyn gan swyddogion perthnasol o'r Adran Gyllid.

4.2 Swyddog Monitro

Mae'r bwriad i greu Bwrdd Aelwydydd i Hybu Annibyniaeth yn ymddangos cyfle i hyrwyddo a chryfhau cyd weithio o fewn y Cyngor mewn meysydd sydd yn cyd gyffwrdd yn helaeth. Drwy sefydlu Bwrdd cynllunio traws adrannol gyda aelodaeth a chylch gorchwyl eglur, cynnig datrysiad llywodraethu derbyniol. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.

Rhestr Atodiadau:

Atodiad I: Adroddiad *Housing LIN* ar anghenion tai gyda gofal Gwynedd

Asesu anghenion tai pobl hŷn yng Ngwynedd

Adroddiad ar gyfer Cyngor Gwynedd

Cynnwys

Fersiwn: 2.0

Statws: Terfynol

9 Mehefin 2026

Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol4

1. Cyflwyniad15
2. Cyd-destun polisi17

Cyd-destun polisi cenedlaethol17

Cyd-destun polisi Gwynedd19

3. Amcanestyniadau poblogaeth sylfaenol a nodweddion poblogaeth21

*Amcanestyniadau demograffig*21

Nodweddion deiliadaeth ac incwm24

Nodweddion iechyd a gofal cymdeithasol27

4. Y cyflenwad presennol o dai arbenigol i bobl hŷn31
5. Safbwyntiau rhanddeiliaid a phobl hŷn34

Rhanddeiliaid proffesiynol34

Safbwyntiau pobl hŷn35

Tebygolrwydd o symud36

Model Tai a Ffafrir37

Ffactorau sy'n dylanwadu ar symud37

Ardal a ffafrir i symud iddi38

6. Amcangyfrif o'r angen am dai arbenigol a llety i bobl hŷn40

Amcangyfrif o'r angen am dai gwarchod/ymddeol a thai gofal ychwanegol40

Amcangyfrif o'r angen am dai hygyrch i bobl hŷn49

Amcangyfrif o'r angen am dai hygyrch ar gyfer oedran penodol (is-set o'r angen amcangyfrifedig am dai hygyrch)50

Amcangyfrif o ofynion capasiti cartrefi gofal ar gyfer pobl 65+54

Cyflenwi cartrefi gofal i bobl 65+54

Tueddiadau mewn pobl hŷn 65+ oed sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio sy'n gymwys i gael gofal cymdeithasol oedolion gan Gyngor Gwynedd56

Amcangyfrif o'r angen am le mewn cartrefi gofal yn y dyfodol ar gyfer pobl 65+ hyd 204357

Amcangyfrif o'r angen am ddarpariaeth gwlâu mewn cartrefi gofal i bobl 65+63

7. Crynodeb68
8. Tueddiadau mewn tai cyfoes i bobl hŷn71

Tai i oedran penodol71

Tai gwarchod ac ymddeol72

Adeilad newydd cyfoes72

Tai gwarchod wedi'u hadnewyddu74

Tai gofal ychwanegol76

Cymunedau sy'n pontio cenedlaethau79

Cartrefi gofal 81

Atodiad 1: Tystiolaeth gefnogol84

Atodiad 2: Rhestr Termau87

Crynodeb gweithredol

Diben yr ymchwil hwn yw darparu sail dystiolaeth sy'n darparu amcangyfrifon o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol yn y dyfodol ar gyfer ardal weinyddol Cyngor Gwynedd.

Mae'r asesiad yn cwmpasu'r angen am wahanol fathau o dai sy'n addas i bobl hŷn, yn benodol yr angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol i bobl hŷn erbyn 2043.

Defnyddiwyd amrediad o ffynonellau data a thystiolaeth fel rhan o'r fethodoleg gan gynnwys:

- Data ac amcanestyniadau demograffig wedi'u cynhyrchu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a data gan Lywodraeth Cymru
- Data wedi'i gynhyrchu gan Gyngor Gwynedd mewn perthynas â maint a nodweddion y boblogaeth hŷn
- Arbenigedd a mewnwelediadau gan ystod eang o ran-ddeiliaid

Mae'r amcangyfrifon o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol yn cael eu cynhyrchu fesul cyfnodau o bum mlynedd gan ddefnyddio 2025 fel blwyddyn sylfaen.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol i bobl hŷn yng Ngwynedd. Mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u dadansoddi ymhellach fesul 13 is-ardal yng Ngwynedd.

Argymhellir bod yr amcangyfrifon hyn yn cael eu hadolygu a'u hadnewyddu o leiaf bob 5 mlynedd.


Tabl 1Amcangyfrif o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol

Math y tai a'r llety gwarchod ac arbenigol	Y ddarpariaeth bresennol	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	***113***	**286**	**437**	**587**	**729**
Tai marchnad		*86*	*131*	*176*	*219*
Tai cymdeithasol		*200*	*306*	*411*	*510*
Tai gwarchod (unedau)	***674***	**504**	**789**	**1,073**	**1,341**
Tai marchnad		*151*	*237*	*322*	*402*
Tai cymdeithasol		*353*	*553*	*751*	*939*
Tai hygyrch (unedau)		**1,149**	**1,726**	**2,289**	**2,799**
Tai marchnad		*345*	*518*	*687*	*840*
Tai cymdeithasol		*805*	*1,208*	*1,602*	*1,959*
Tai hygyrch i oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) (unedau)		**383**	**575**	**763**	**933**
Tai marchnad		*115*	*173*	*229*	*280*
Tai cymdeithasol		*268*	*403*	*534*	*653*
Cartrefi gofal nyrsio (gwelyau)	***476***	**80**	**167**	**230**	**292**
Cartrefi gofal preswyl (gwelyau)	***518***	**-42**	**-7**	**2**	**10**


Ffynhonnell: Ipsos, Cyngor Gwynedd a HLIN (2025)

DS: Nid yw'r amcangyfrifon o'r angen yn gronnus.


Ffigwr 1: Amcangyfrif o'r angen am dai gwarchod a gofal ychwanegol i bobl hŷn Gwynedd fesul is-ardal hyd at 2043



Ffigwr 2. Amcangyfrif o'r angen am dai hygyrch a thai ar gyfer oedran penodol i bobl hŷn Gwynedd fesul is-ardal hyd at 2043



Ffigwr 3. Amcangyfrif o'r angen am welyau cartref gofal preswyl a nyrsio yng Ngwynedd fesul is-ardal hyd at 2043



Ceir crynodeb fesul is-ardal yng Ngwynedd yn y tablau isod:

Tabl 2. Ardudwy: Amcangyfrif o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol

Math y tai a'r llety â chymorth ac arbenigol	Y ddarpariaeth bresennol	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	*0*	22	34	45	56
Tai marchnad		7	10	14	17
Tai cymdeithasol		15	24	32	39
Tai gwarchod (unedau)	*34*	39	61	83	103
Tai marchnad		12	18	25	31
Tai cymdeithasol		27	43	58	72
Tai hygyrch (unedau)		89	133	176	216
Tai marchnad		27	40	53	65
Tai cymdeithasol		62	93	123	151
Tai hygyrch i oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) (unedau)		30	44	59	72
Tai marchnad		9	13	18	22
Tai cymdeithasol		21	31	41	50
Cartrefi gofal nyrsio (gwelyau)	*0*	6	13	18	22
Cartrefi gofal preswyl (gwelyau)	*0*	- 3	- 1	0	1

Ffynhonnell: Ipsos, Cyngor Gwynedd a HLIN (2025)

DS: Nid yw'r amcangyfrifon o'r angen yn gronnus.

Tabl 3. Bala / Penllyn: Amcangyfrif o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol

Math y tai a'r llety â chymorth ac arbenigol	Y ddarpariaeth bresennol	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	*30*	8	11	15	19
Tai marchnad		2	3	5	6
Tai cymdeithasol		5	8	11	13
Tai gwarchod (unedau)	*69*	13	21	28	35
Tai marchnad		4	6	8	11
Tai cymdeithasol		9	15	20	25
Tai hygyrch (unedau)		30	45	60	74
Tai marchnad		9	14	18	22
Tai cymdeithasol		21	32	42	52
Tai hygyrch i oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) (unedau)		10	15	20	25
Tai marchnad		3	5	6	7
Tai cymdeithasol		7	11	14	17
Cartrefi gofal nyrsio (gwelyau)	*0*	2	4	6	8
Cartrefi gofal preswyl (gwelyau)	*11*	- 1	- 0	0	0

Ffynhonnell: Ipsos, Cyngor Gwynedd a HLIN (2025)

DS: Nid yw'r amcangyfrifon o'r angen yn gronnus.

Tabl 4. Bangor: Amcangyfrif o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol

Math y tai a'r llety â chymorth ac arbenigol	Y ddarpariaeth bresennol	Angen amcangyfri	Angen amcangyfri	Angen amcangyfri	Angen amcangyfri

		fedig erbyn 2028	fedig erbyn 2033	fedig erbyn 2038	fedig erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	*43*	33	50	67	83
Tai marchnad		10	15	20	25
Tai cymdeithasol		23	35	47	58
Tai gwarchod (unedau)	*126*	58	90	123	153
Tai marchnad		17	27	37	46
Tai cymdeithasol		40	63	86	107
Tai hygyrch (unedau)		131	197	261	320
Tai marchnad		39	59	78	96
Tai cymdeithasol		92	138	183	224
Tai hygyrch i oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) (unedau)		44	66	87	107
Tai marchnad		13	20	26	32
Tai cymdeithasol		31	46	61	75
Cartrefi gofal nyrsio (gwelyau)	*78*	9	19	26	33
Cartrefi gofal preswyl (gwelyau)	*28*	- 5	- 1	0	1

Ffynhonnell: Ipsos, Cyngor Gwynedd a HLIN (2025)

DS: Nid yw'r amcangyfrifon o'r angen yn gronnus.

Tabl 5. Caernarfon: Amcangyfrif o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol

Math y tai a'r llety â chymorth ac arbenigol	Y ddarpariaeth bresennol	Angen amcangyfri fedig erbyn 2028	Angen amcangyfri fedig erbyn 2033	Angen amcangyfri fedig erbyn 2038	Angen amcangyfri fedig erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	*0*	33	50	67	83
Tai marchnad		10	15	20	25
Tai cymdeithasol		23	35	47	58
Tai gwarchod (unedau)	*123*	58	90	123	153
Tai marchnad		17	27	37	46
Tai cymdeithasol		40	63	86	107
Tai hygyrch (unedau)		131	197	262	320
Tai marchnad		39	59	78	96
Tai cymdeithasol		92	138	183	224
Tai hyblyg i oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) (unedau)		44	66	87	107
Tai marchnad		13	20	26	32
Tai cymdeithasol		31	46	61	75
Cartrefi gofal nyrsio (gwelyau)	*162*	9	19	26	33
Cartrefi gofal preswyl (gwelyau)	*226*	- 5	- 1	0	1

Ffynhonnell: Ipsos, Cyngor Gwynedd a HLIN (2025)

DS: Nid yw'r amcangyfrifon o'r angen yn gronnus.

Tabl 6. Dolgellau: Amcangyfrif o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol

Math y tai a'r llety gwarchod ac arbenigol	Y ddarpariaeth bresennol	Angen amcangyfri fedig erbyn 2028	Angen amcangyfri fedig erbyn 2033	Angen amcangyfri fedig erbyn 2038	Angen amcangyfri fedig erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	*0*	22	33	45	56
Tai marchnad		7	10	13	17
Tai cymdeithasol		15	23	31	39
Tai gwarchod (unedau)	*38*	39	60	82	103

Tai marchnad		12	18	25	31
Tai cymdeithasol		27	42	58	72
Tai hygyrch (unedau)		88	132	175	214
Tai marchnad		26	40	53	64
Tai cymdeithasol		62	93	123	150
Tai hygyrch i oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) (unedau)		29	44	58	71
Tai marchnad		9	13	18	21
Tai cymdeithasol		21	31	41	50
Cartrefi gofal nyrsio (gwelyau)	*0*	6	13	18	22
Cartrefi gofal preswyl (gwelyau)	*52*	- 3	- 1	0	1

Ffynhonnell: Ipsos, Cyngor Gwynedd a HLIN (2025)

DS: Nid yw'r amcangyfrifon o'r angen yn gronnus.

Tabl 7. Dysynni: Amcangyfrif o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol

Math y tai a'r llety gwarchod ac arbenigol	Y ddarpariaeth bresennol	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	*0*	26	40	54	68
Tai marchnad		8	12	16	20
Tai cymdeithasol		19	28	38	47
Tai gwarchod (unedau)	*31*	47	73	99	124
Tai marchnad		14	22	30	37
Tai cymdeithasol		33	51	70	87
Tai hygyrch (unedau)		107	160	212	259
Tai marchnad		32	48	64	78
Tai cymdeithasol		75	112	149	182
Tai hygyrch i oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) (unedau)		36	53	71	86
Tai marchnad		11	16	21	26
Tai cymdeithasol		25	37	50	61
Cartrefi gofal nyrsio (gwelyau)	*55*	7	15	21	27
Cartrefi gofal preswyl (gwelyau)	*38*	- 4	- 1	0	1

Ffynhonnell: Ipsos, Cyngor Gwynedd a HLIN (2025)

DS: Nid yw'r amcangyfrifon o'r angen yn gronnus.

Tabl 8. Ffestiniog: Amcangyfrif o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol

Math y tai a'r llety gwarchod ac arbenigol	Y ddarpariaeth bresennol	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	*0*	10	15	21	26
Tai marchnad		3	5	6	8
Tai cymdeithasol		7	11	14	18
Tai gwarchod (unedau)	*13*	18	28	38	47
Tai marchnad		5	8	11	14
Tai cymdeithasol		12	19	26	33
Tai hygyrch (unedau)		40	61	81	99
Tai marchnad		12	18	24	30

Tai cymdeithasol		28	43	56	69
Tai hygyrch i oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) (unedau)		13	20	27	33
Tai marchnad		4	6	8	10
Tai cymdeithasol		9	14	19	23
Cartrefi gofal nyrsio (gwelyau)	*0*	3	6	8	10
Cartrefi gofal preswyl (gwelyau)	*0*	- 1	- 0	0	0

Ffynhonnell: Ipsos, Cyngor Gwynedd a HLIN (2025)

DS: Nid yw'r amcangyfrifon o'r angen yn gronnus.

Tabl 9. Lleu / Nantlle: Amcangyfrif o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol

Math y tai a'r llety gwarchod ac arbenigol	Y ddarpariaeth bresennol	Angen amcangyfri fedig erbyn 2028	Angen amcangyfri fedig erbyn 2033	Angen amcangyfri fedig erbyn 2038	Angen amcangyfri fedig erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	*0*	22	34	45	56
Tai marchnad		7	10	14	17
Tai cymdeithasol		15	24	32	39
Tai gwarchod (unedau)	*44*	39	61	83	103
Tai marchnad		12	18	25	31
Tai cymdeithasol		27	42	58	72
Tai hygyrch (unedau)		88	133	176	215
Tai marchnad		27	40	53	65
Tai cymdeithasol		62	93	123	151
Tai hygyrch i oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) (unedau)		29	44	59	72
Tai marchnad		9	13	18	22
Tai cymdeithasol		21	31	41	50
Cartrefi gofal nyrsio (gwelyau)	*0*	6	13	18	22
Cartrefi gofal preswyl (gwelyau)	*0*	- 3	- 1	0	1

Ffynhonnell: Ipsos, Cyngor Gwynedd a HLIN (2025)

DS: Nid yw'r amcangyfrifon o'r angen yn gronnus.

Tabl 10. Ogwen: Amcangyfrif o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol

Math y tai a'r llety gwarchod ac arbenigol	Y ddarpariaeth bresennol	Angen amcangyfri fedig erbyn 2028	Angen amcangyfri fedig erbyn 2033	Angen amcangyfri fedig erbyn 2038	Angen amcangyfri fedig erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	*0*	15	23	31	38
Tai marchnad		5	7	9	12
Tai cymdeithasol		11	16	22	27
Tai gwarchod (unedau)	*10*	27	42	56	71
Tai marchnad		8	12	17	21
Tai cymdeithasol		19	29	40	49
Tai hygyrch (unedau)		60	91	120	147
Tai marchnad		18	27	36	44
Tai cymdeithasol		42	64	84	103
Tai hygyrch i oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) (unedau)		20	30	40	49
Tai marchnad		6	9	12	15
Tai cymdeithasol		14	21	28	34

Cartrefi gofal nyrsio (gwelyau)	*0*	4	9	12	15
Cartrefi gofal preswyl (gwelyau)	*27*	- 2	- 0	0	0

Ffynhonnell: Ipsos, Cyngor Gwynedd a HLIN (2025)

DS: Nid yw'r amcangyfrifon o'r angen yn gronnus.

Tabl 11. Pen Llŷn: Amcangyfrif o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol

Math y tai a'r llety gwarchod ac arbenigol	Y ddarpariaeth bresennol	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	*0*	21	31	42	52
Tai marchnad		6	9	13	16
Tai cymdeithasol		14	22	29	37
Tai gwarchod (unedau)	*16*	36	57	77	96
Tai marchnad		11	17	23	29
Tai cymdeithasol		25	40	54	67
Tai hygyrch (unedau)		83	124	164	201
Tai marchnad		25	37	49	60
Tai cymdeithasol		58	87	115	141
Tai hygyrch i oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) (unedau)		28	41	55	67
Tai marchnad		8	12	16	20
Tai cymdeithasol		19	29	38	47
Cartrefi gofal nyrsio (gwelyau)	*0*	6	12	17	21
Cartrefi gofal preswyl (gwelyau)	*50*	- 3	- 1	0	1

Ffynhonnell: Ipsos, Cyngor Gwynedd a HLIN (2025)

DS: Nid yw'r amcangyfrifon o'r angen yn gronnus.

Tabl 12. Peris: Yr amcangyfrifon o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol

Math y tai a'r llety gwarchod ac arbenigol	Y ddarpariaeth bresennol	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	*0*	22	33	45	55
Tai marchnad		7	10	13	17
Tai cymdeithasol		15	23	31	39
Tai gwarchod (unedau)	*0*	38	60	82	102
Tai marchnad		11	18	24	31
Tai cymdeithasol		27	42	57	71
Tai hygyrch (unedau)		87	131	174	213
Tai marchnad		26	39	52	64
Tai cymdeithasol		61	92	122	149
Tai hygyrch i oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) (unedau)		29	44	58	71
Tai marchnad		9	13	17	21
Tai cymdeithasol		20	31	41	50
Cartrefi gofal nyrsio (gwelyau)	*0*	6	13	17	22
Cartrefi gofal preswyl (gwelyau)	*0*	- 3	- 1	0	1

Ffynhonnell: Ipsos, Cyngor Gwynedd a HLIN (2025)

DS: Nid yw'r amcangyfrifon o'r angen yn gronnus.

Tabl 13. Porthmadog / Penrhyndeudraeth: Amcangyfrif o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol

Math y tai a'r llety gwarchod ac arbenigol	Y ddarpariaeth bresennol	Angen amcangyfri fedig erbyn 2028	Angen amcangyfri fedig erbyn 2033	Angen amcangyfri fedig erbyn 2038	Angen amcangyfri fedig erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	*40*	31	47	63	79
Tai marchnad		9	14	19	24
Tai cymdeithasol		22	33	44	55
Tai gwarchod (unedau)	*126*	54	85	116	145
Tai marchnad		16	26	35	43
Tai cymdeithasol		38	60	81	101
Tai hygyrch (unedau)		124	186	247	302
Tai marchnad		37	56	74	91
Tai cymdeithasol		87	130	173	212
Tai hygyrch i oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) (unedau)		41	62	82	101
Tai marchnad		12	19	25	30
Tai cymdeithasol		29	43	58	71
Cartrefi gofal nyrsio (gwelyau)	*181*	9	18	25	32
Cartrefi gofal preswyl (gwelyau)	*41*	- 5	- 1	0	1

Ffynhonnell: Ipsos, Cyngor Gwynedd a HLIN (2025)

DS: Nid yw'r amcangyfrifon o'r angen yn gronnus.

Tabl 14. Pwllheli: Amcangyfrif o'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol

Math y tai a'r llety gwarchod ac arbenigol	Y ddarpariaeth bresennol	Angen amcangyfri fedig erbyn 2028	Angen amcangyfri fedig erbyn 2033	Angen amcangyfri fedig erbyn 2038	Angen amcangyfri fedig erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	*0*	22	34	46	57
Tai marchnad		7	10	14	17
Tai cymdeithasol		16	24	32	40
Tai gwarchod (unedau)	*44*	39	62	84	105
Tai marchnad		12	19	25	32
Tai cymdeithasol		28	43	59	74
Tai hygyrch (unedau)		90	135	179	219
Tai marchnad		27	41	54	66
Tai cymdeithasol		63	95	125	153
Tai hygyrch i oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) (unedau)		30	45	60	73
Tai marchnad		9	14	18	22
Tai cymdeithasol		21	32	42	51
Cartrefi gofal nyrsio (gwelyau)	*0*	6	13	18	23
Cartrefi gofal preswyl (gwelyau)	*45*	- 3	- 1	0	1

Ffynhonnell: Ipsos, Cyngor Gwynedd a HLIN (2025)

DS: Nid yw'r amcangyfrifon o'r angen yn gronnus.

1. Cyflwyniad

1.01 Bwriad yr asesiad hwn yw nodi'r angen am wahanol fathau o dai sy'n addas i bobl hŷn, yn benodol yr angen am dai a llety arbenigol a chymorth i bobl hŷn erbyn 2043 yng Ngwynedd, gan gynnwys:

- Tai gwarchod
- Tai gofal ychwanegol
- Tai i oedran penodol (gwahanol i dai gwarchod, h.y. nid oes gan dai i oedran penodol y cyfleusterau cymunedol na'r staff cefnogol sydd fel arfer yn gysylltiedig â thai gwarchod); yng nghyd-destun briff y Cyngor, mae hyn yn cynnwys tai cymdeithasol i bobl 55+
- Tai hygyrch, h.y. tai wedi'u dynodi i gwrdd ag anghenion pobl anabl a phobl hŷn (ond ddim yn rhai ar gyfer oedran penodol), e.e. wedi'u dynodi i safonau Cartrefi Oes ac/neu safon hygyrchedd M4(2).
- Gofal preswyl (yn cynnwys pobl gyda dementia)
- Gofal nyrsio (yn cynnwys pobl gyda dementia)

1.02 Mae'r asesiad hwn yn ymdrin â'r angen am dai a llety arbenigol a chymorth ymhlith y boblogaeth hŷn gyffredinol yng Ngwynedd, gan gynnwys pobl hŷn (65+ oed) fydd angen talu am eu tai a'u gofal eu hunain a phobl sy'n gymwys i gael cymorth gofal cymdeithasol i oedolion gan Gyngor Gwynedd; ar gyfer yr ail garfan hon o'r boblogaeth hŷn, gall yr angen gynnwys tai gwarchod fforddiadwy, tai gofal ychwanegol ar gyfer oedran penodol a thai hygyrch a ddarperir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chapasiti cartrefi gofal (lleoliadau) a ariennir a/neu a drefnir gan Gyngor Gwynedd.

1.03 Mae'r asesiad hwn o anghenion tai pobl hŷn Gwynedd, yn cynnwys asesiad o'r angen am dai gwarchod a thai a llety arbenigol, yn cadw at fanyleb y Cyngor ac yn cynnwys:

- Cyflwyniad: pwrpas yr ymchwil, strwythur yr adroddiad a'r fethodoleg
- Y cyd-destun polisi
- Amcanestyniadau poblogaeth sylfaenol a nodweddion poblogaeth
- Cyflenwad presennol tai arbenigol i bobl hŷn
- Safbwyntiau rhanddeiliaid a phobl hŷn
- Asesiad manwl o'r angen amcangyfrifedig am dai a llety i bobl hŷn
- Crynodeb o amcangyfrif o'r angen am dai a llety i bobl hŷn
- Tueddiadau ac enghreifftiau o dai a llety cyfoes i bobl hŷn
- Atodiad 1: Tystiolaeth gefnogol
- Atodiad 2: Rhestr Termau

1.04 Mae'r asesiad angen am dai a llety sy'n addas ar gyfer anghenion pobl hŷn yn tynnu ar ystod o dystiolaeth, gan gynnwys:

- Y cyd-destun polisi cenedlaethol a lleol.
- Tystiolaeth ddemograffig: poblogaeth bresennol a rhagamcan o'r boblogaeth pobl hŷn yng Ngwynedd (ardal Cyngor Gwynedd a'i hardaloedd) hyd at 2043.

- Data gan Gyngor Gwynedd mewn perthynas â'r gwasanaethau y mae'n eu darparu i bobl hŷn
- Darpariaeth bresennol tai a llety arbenigol i bobl hŷn.
- Safbwyntiau a gwybodaeth gan randdeiliaid lleol.
- Tystiolaeth o arolwg diweddar o drigolion, gan gynnwys pobl hŷn, a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd

2. Y cyd-destun polisi

Y cyd-destun polisi cenedlaethol

2.01 Mae yna amrediad o bolisïau cenedlaethol sydd â'r bwriad o hyrwyddo ystod ehangach o opsiynau a dewisiadau tai sy'n addas i bobl hŷn.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

2.02 Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

2.03 Egwyddorion sylfaenol y Ddeddf yw:

- **Llais a Rheolaeth** – sicrhau bod anghenion yr unigolyn wrth wraidd ei ofal, a rhoi llais a rheolaeth iddo dros y canlyniadau a fydd yn ei helpu i sicrhau llesiant.
- **Atal ac ymyrryd yn gynnar** – cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned i leihau'r cynnydd mewn angen critigol.
- **Llesiant** – cefnogi pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
- **Cyd-gynhyrchu** – annog unigolion i gymryd mwy o ran wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[1]

2.04 Mae'r Ddeddf hon yn darparu'r fframwaith trosfwaol ar gyfer sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau, gan ei wneud yn uniongyrchol berthnasol i fyw'n hŷn a'r berthynas rhwng tai a gofal cymdeithasol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar sefydliadau fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd i weithio tuag at saith nod llesiant cenedlaethol, gan gynnwys creu Cymru iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fabwysiadu dulliau hirdymor, ataliol ac integredig.

2.05 Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cydnabod bod tai yn ffactor allweddol o ran iechyd a lles a sicrhau bod polisi tai a darpariaeth gofal cymdeithasol yn cael eu datblygu ar y cyd. Mae gan gartrefi hygyrch, addasadwy a modelau integredig megis tai gofal ychwanegol y potensial i leihau'r galw am ofal preswyl a gwasanaethau ysbyty.

Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol (2017)[2]

2.06 Strategaeth genedlaethol sy'n manylu ar flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod 'tai da yn chwarae rhan hanfodol wrth heneiddio'n iachach yn annibynnol'.

2.07 O ran pobl hŷn, mae'n nodi y bydd Cymru'n adeiladu mwy o ddatblygiadau tai pwrpasol a fydd yn galluogi pobl i fyw'n annibynnol mewn amgylchedd sy'n eu gwarchod a'u diogelu, wedi'i leoli yn agos at drafnidiaeth gyhoeddus sydd o fewn cyrraedd hawdd.

Cymru Oed Gyfeillgar: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio (2021)[3]

2.08 Mae'n amlinellu gweledigaeth o 'Gymru oed gyfeillgar sy'n cefnogi pobl i fyw a heneiddio'n dda'.

[1] https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html
[2] https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/Prosperity-for-all.pdf
[3] https://www.gov.wales/age-friendly-wales-our-strategy-ageing-society-html

2.09 Nod y strategaeth yw datgloi potensial pobl hŷn yr oes sydd ohoni a chymdeithas sy'n heneiddio yn y dyfodol gan fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ar draws ystod o feysydd polisi ac yn rhoi llais pobl hŷn wrth wraidd proses Llywodraeth Cymru o lunio polisïau.

Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio: Cynllun Cyflawni 2022[4]

2.10 Mae'r Cynllun Cyflawni yn cyfeirio at dai o dan 'Nod 2: Gwella gwasanaethau lleol ac amgylcheddau' lle mae'n nodi y byddant yn:

- Cefnogi twf modelau tai newydd sy'n cefnogi pobl i heneiddio'n dda
- Cydlynu rhaglenni cyfalaf ar gyfer tai, iechyd a gofal cymdeithasol
- Sicrhau bod tai yng Nghymru o safon dderbyniol

2.11 Mae hefyd yn cyfeirio'n benodol at arian ar gyfer tai gofal ychwanegol o fis Ebrill 2022 hyd fis Mawrth 2027 drwy'r Gronfa Gofal Integredig.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: Strategaeth y Comisiynydd 2025-28[5]

2.12 Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn nodi blaenoriaethau sy'n cynnwys adnabod cyfleoedd i wella'r cymorth sydd ar gael i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu byw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

2.13 Mae'r strategaeth hon yn ceisio galluogi pobl hŷn i fyw'n dda ac aros yn iach yn eu cymunedau drwy sicrhau bod profiadau pobl hŷn yn llywio polisi Llywodraeth Cymru ar ofal iechyd ataliol ac yn cael eu hadlewyrchu wrth ddarparu gwasanaethau rheng flaen.

Strategaeth dai genedlaethol (2021–2026)

2.14 Nod strategaeth dai genedlaethol Llywodraeth Cymru (2021–2026) yw darparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel o ansawdd uchel i'w rhentu, gan ganolbwyntio ar ddatgarboneiddio, cyfiawnder cymdeithasol, a lleihau digartrefedd. Ymhlith y pileri allweddol mae cryfhau Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS 2023), gwella effeithlonrwydd ynni, ac atal troi tenantiaid allan

Pobl hŷn a phobl sy'n byw gydag eiddilwch: datganiad ansawdd integredig (2024)[6]

2.15 Mae hyn yn nodi sut beth yw iechyd a gofal cymdeithasol 'da' i bobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n byw gydag eiddilwch. Mae'n pwysleisio ar helpu pobl i aros yn annibynnol, yn gysylltiedig â'u cymuned, i gael dewis, a gallu dewis ble maen nhw eisiau byw wrth iddynt heneiddio.

A yw cartrefi yng Nghymru yn diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio?[7] (2024)

2.16 Mae'r papur briffio hwn gan Senedd Cymru yn rhoi cipolwg ar y polisïau a'r strategaethau yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion tai poblogaeth sy'n heneiddio.

2.17 Yn ogystal â'r heriau demograffig, mae'n edrych ar bedwar maes penodol ac yn nodi rhai o'r camau i fynd i'r afael â'r rhain. Maent yn cynnwys:

- Tai o ansawdd gwael neu anniogel
- Prinder tai hygyrch ac addasadwy

[4] https://www.gov.wales/strategy-ageing-society-delivery-plan
[5] https://olderpeople.wales/commissioners-strategy-2025-28/
[6] https://www.gov.wales/older-people-and-people-living-frailty-integrated-quality-statement-html
[7] https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/a-yw-cartrefi-yng-nghymru-yn-diwallu-anghenion-poblogaeth-sy-n-heneiddio/

- Diffyg opsiynau tai ar gyfer pobl hŷn
- Y galw ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Canllawiau Ymarfer y Grant Cymorth Tai (HSG)[8] (2025)

2.18 Y Rhaglen Grant Cymorth Tai (HSG) yw'r fframwaith polisi a chyllid ar gyfer darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl fregus mewn gwahanol fathau o lety ac ar draws pob deiliadaeth .

2.19 Mae'r HSG yn gyfuniad o dri grant presennol: Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl, y Grant Atal Digartrefedd a Grant Gorfodi Rhentu Doeth Cymru.

2.20 Mae'r rhaglen yn cyfrannu at gyflawni nodau 'Gwella Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru', y Strategaeth Dai Genedlaethol a'r Cynllun Digartrefedd deng mlynedd, gyda phwyslais cryf ar atal digartrefedd. Mae hefyd yn hanfodol wrth gynorthwyo'r awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Cyd-destun polisi Gwynedd

2.21 Er bod y cyd-destun polisi cenedlaethol (uchod) yn annog awdurdodau lleol i gomisiynu a hwyluso ystod eang o opsiynau tai a llety sy'n addas i bobl hŷn, yn 2024 cyhoeddodd Cyngor Gwynedd adroddiad o'r enw Llechen Lân. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r storm berffaith sy'n wynebu Cyngor Gwynedd mewn perthynas â diwallu anghenion gofal/cymorth a llety cysylltiedig y boblogaeth hŷn yng Ngwynedd yn yr 20 mlynedd nesaf:

- Poblogaeth hŷn sy'n cynyddu, yn enwedig ymhlith y boblogaeth 'hŷn, hŷn' 70+ oed
- Mae'r boblogaeth o oedran gweithio, sydd ar gael i weithio'n darparu gofal a chymorth, yn lleihau
- Rhestrau aros hir am fynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol i bobl hŷn
- Nid yw cyllideb y Cyngor i dalu am gostau gofal cymdeithasol pobl hŷn yn ddigon i gwrdd â'r galw presennol heb sôn am y galw am ofal/cymorth yn y dyfodol
- Cymysgedd traddodiadol cyfredol o ymatebion gofal i'r galw ar hyn o bryd, e.e. gofal cartref a chartrefi gofal.
- Yr angen i adeiladu ar y defnydd o wasanaethau 'ataliol' a allai liniaru rhai o'r materion hyn, megis y defnydd o dechnoleg, gwaith cymdeithasol ac arferion gofal sy'n seiliedig ar gryfderau a llety gyda modelau gofal megis tai gofal ychwanegol.

2.22 Heb ymyrryd i liniaru'r tueddiadau hyn, mae asesiad o'r dystiolaeth hon yn rhoi casgliad digalon i ni:

"… nid yw'r sefyllfa darpariaeth gofal cymdeithasol i bobl hŷn yng Ngwynedd yn hyfyw nac yn gynaliadwy. Gallai'r twf yn y galw arwain at ddiffyg cyllid ac adnoddau dynol a fyddai'n ddigon i roi'r Cyngor o dan bwysau ariannol eithafol."

2.23 Fodd bynnag, yn seiliedig ar asesiad o'r dystiolaeth hon, mae adroddiad Llechen Lân hefyd yn dod i'r casgliad, *"Ar ôl ystyried tystiolaeth siroedd eraill, mae'r adroddiad yn awgrymu y byddai gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn gallu lleihau'r galw a'r pwysau ar wasanaethau i bobl hŷn drwy weithredu'n wahanol, ond hyd yn oed wedyn, mae bwlch yn parhau yn y ddarpariaeth bosibl ac yn y cyllid a'r gweithlu sydd ar gael i'w ddarparu. "*

[8] https://www.gov.wales/housing-support-grant-practice-guidance

2.24 Mae'r ystod o ymatebion a gynigir i liniaru a rheoli'r sefyllfa a grynhoir uchod yn cynnwys:

- Gwaith cymunedol
- Gweithio ar sail cryfder
- Technoleg a Deallusrwydd Artiffisial (AI)

2.25 Tai gofal ychwanegol / modelau llety addas. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan ddarparwyr tai gofal ychwanegol yn awgrymu ei bod yn haws recriwtio a chadw staff gofal yn y cynlluniau hyn (o gymharu â darparu gofal cartref) gan nad oes yn rhaid i staff deithio at gleientiaid ac maent yn tueddu i gael mwy o amser ar gyfer rhyngweithio'n anffurfiol â phreswylwyr.

2.26 O ran tai a llety i bobl hŷn, mae'r adroddiad yn awgrymu:

- Gellir lliniaru'r galw cynyddol am ofal preswyl, yn rhannol, trwy ddatblygu rhagor o wasanaethau tai gofal ychwanegol
- Rhagwelir y bydd angen cynyddol am ofal nyrsio a phreswyl i bobl sy'n byw gyda dementia (ac anghenion iechyd a gofal cymhleth eraill)
- Gellir cynyddu rôl a defnydd technoleg yn sylweddol i gefnogi pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain (a all gynnwys tai arbenigol megis tai gofal ychwanegol)

2.27 Er nad yw adroddiad Llechen Lân yn cyfeirio'n benodol at rôl mathau eraill o dai ar gyfer oedran penodol, megis tai gwarchod, a thai sydd wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch i ddiwallu'n well anghenion pobl hŷn i heneiddio yn eu lle, mae'r asesiad hwn o'r angen am wahanol opsiynau tai a llety i bobl hŷn yn rhannol yn ddatblygiad o adroddiad Llechen Lân a'i fwriad yw cwmpasu ystod eang o opsiynau tai a llety i ddarparu rhan o'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen ar y Cyngor i weithredu'r camau lliniaru a amlinellir yn adroddiad Llechen Lân, gan gynnwys:

- Tai gwarchod
- Tai gofal ychwanegol
- Tai i oedran penodol (gwahanol i dai gwarchod, h.y. nid oes gan dai oedran penodol y cyfleusterau cymunedol a'r staff cefnogol sydd fel arfer yn cael eu cysylltu â thai gwarchod)
- Tai hygyrch, h.y. tai sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion pobl anabl a phobl hŷn (ond nad ydynt ar gyfer oedran penodol) e.e. wedi'u cynllunio i safonau Cartrefi Oes a/neu safon hygyrchedd M4(2).
- Gofal preswyl
- Gofal nyrsio
- Gofal preswyl/nyrsio i bobl â dementia

2.28 Er mwyn cyd-fynd â chanfyddiadau adroddiad Llechen Lân, gwneir rhagdybiaethau sy'n adlewyrchu'r math o gamau lliniaru y bydd y Cyngor yn eu gweithredu, er enghraifft, cynyddu swm a rôl tai gofal ychwanegol fel lleoliad llety â gofal a all gefnogi rhai pobl hŷn yn hytrach na symud i gartref gofal preswyl.


3. Amcanestyniadau poblogaeth sylfaenol a nodweddion poblogaeth

Amcanestyniadau demograffig

3.01 Er mwyn mesur y boblogaeth hŷn bresennol yng Ngwynedd, defnyddiwyd cyfrifiad ONS 2021 sy'n nodi nifer y bobl dros 55, 65, 75 ac 85 oed.

3.02 I gynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer nifer y bobl 55+, 65+, 75+ ac 85+ oed, cymhwyswyd y data diweddaraf ar gyfraddau twf amcanestyniadau poblogaeth Cymru (sail-2018) i ddata o gyfrifiad ONS 2021 ar gyfer 2025, 2028, 2033, 2038 a 2043.

Ffigwr 4. Amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer pobl 55+, 65+, 75+ ac 85+ oed yng Ngwynedd.



Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS 2021, amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Cymru (sail-2018) a Chyngor Gwynedd

3.03 At ddibenion yr asesiad hwn, mae Gwynedd wedi'i rhannu'n 13 is-ardal, yn seiliedig ar grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs).

3.04 Ar gyfer poblogaethau is-ardaloedd lleol yng Ngwynedd, daw'r amcangyfrifon o ragamcanion poblogaeth ar gyfer ardaloedd llai o fewn y sir, gan ddefnyddio'r un fethodoleg â 2018 ar gyfer Gwynedd gyfan. Fodd bynnag, wrth gymharu â Chyfrifiad 2021 nodwyd anghysondebau rhwng ffigyrau'r Cyfrifiad a'r boblogaeth a ragwelir ar gyfer 2021 ar sail gwybodaeth 2018. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, ail-seiliwyd yr amcanestyniadau i Gyfrifiad 2021. Cyflawnwyd hyn trwy gymhwyso'r newid canrannol rhwng amcanestyniadau 2021 a'r blynyddoedd i ddod o'r model sail-2018 i waelodlin Cyfrifiad 2021, gan sicrhau cysondeb â'r data poblogaeth oedd wedi'i arsylwi.

Tabl 15. Amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer pobl 55+, 65+, 75+ ac 85+ oed yng Ngwynedd yn ôl is-ardal

Oedran	Is-ardal	2025	2028	2033	2038	2043
55+	*Ardudwy*	3,244	3,312	3,321	3,354	3,395
	Y Bala / Penllyn	1,788	1,826	1,831	1,849	1,872
	Bangor	4,863	4,966	4,980	5,029	5,091
	Caernarfon	3,894	3,976	3,987	4,026	4,076
	Dolgellau	2,495	2,548	2,555	2,580	2,612
	Dysynni	3,818	3,899	3,910	3,948	3,997
	Ffestiniog	2,398	2,449	2,456	2,480	2,510
	Lleu / Nantlle	3,723	3,802	3,813	3,850	3,897
	Ogwen	2,808	2,868	2,876	2,904	2,940
	Pen Llŷn	3,559	3,634	3,644	3,680	3,725
	Peris	3,993	4,077	4,089	4,129	4,180
	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	4,628	4,725	4,739	4,785	4,844
	Pwllheli	4,123	4,210	4,222	4,263	4,316

Oedran	Is-ardal	2025	2028	2033	2038	2043
	Gwynedd	**45,334**	**46,293**	**46,423**	**46,875**	**47,455**
65+	*Ardudwy*	2,112	2,172	2,316	2,415	2,406
	Y Bala / Penllyn	1,109	1,185	1,293	1,357	1,396
	Bangor	2,965	3,140	3,405	3,623	3,639
	Caernarfon	2,462	2,588	2,789	2,944	2,946
	Dolgellau	1,484	1,531	1,640	1,700	1,683
	Dysynni	2,458	2,515	2,606	2,599	2,561
	Ffestiniog	1,411	1,475	1,575	1,610	1,585
	Lleu / Nantlle	2,248	2,353	2,534	2,662	2,619
	Ogwen	1,651	1,755	1,889	1,996	1,969
	Pen Llŷn	2,298	2,403	2,588	2,710	2,719
	Peris	2,452	2,568	2,763	2,905	2,866
	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	3,067	3,116	3,195	3,238	3,258
	Pwllheli	2,535	2,652	2,853	3,039	3,186
	Gwynedd	**28,251**	**29,453**	**31,445**	**32,798**	**32,833**
75+	*Ardudwy*	1,028	1,029	1,070	1,152	1,269
	Y Bala / Penllyn	534	553	609	711	793
	Bangor	1,506	1,553	1,669	1,870	2,053
	Caernarfon	1,370	1,449	1,537	1,652	1,800
	Dolgellau	683	688	721	772	850
	Dysynni	1,256	1,243	1,254	1,285	1,365
	Ffestiniog	669	685	715	792	868
	Lleu / Nantlle	1,083	1,138	1,198	1,285	1,400
	Ogwen	729	749	797	895	983
	Pen Llŷn	1,169	1,199	1,275	1,384	1,518
	Peris	1,158	1,221	1,283	1,373	1,498
	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	1,652	1,674	1,675	1,736	1,797
	Pwllheli	1,287	1,320	1,394	1,511	1,660
	Gwynedd	**14,123**	**14,502**	**15,196**	**16,417**	**17,853**
85+	*Ardudwy*	245	256	299	311	337
	Y Bala / Penllyn	142	147	172	200	230
	Bangor	417	436	541	590	641
	Caernarfon	388	427	533	596	624
	Dolgellau	191	200	235	242	263
	Dysynni	382	393	464	444	460
	Ffestiniog	186	187	222	243	261
	Lleu / Nantlle	272	300	376	416	434
	Ogwen	163	171	212	231	250
	Pen Llŷn	360	376	464	491	530
	Peris	280	308	385	428	447
	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	492	514	616	635	637
	Pwllheli	352	368	457	479	518
	Gwynedd	**3,870**	**4,084**	**4,975**	**5,306**	**5,630**

Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS 2021, amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Cymru (sail-2018) a Chyngor Gwynedd

3.05 Mae'r dystiolaeth ddemograffig hon yn dangos ar gyfer Gwynedd rhwng 2025 a 2043:

- Rhagwelir y bydd y boblogaeth 55+ yn cynyddu o 45,334 i 47,455, cynnydd o 2,121 o bobl (5%).
- Rhagwelir y bydd y boblogaeth 65+ yn cynyddu o 28,251 i 32,833, cynnydd o 4,582 o bobl (16%).
- Rhagwelir y bydd y boblogaeth 75+ yn cynyddu o 14,123 i 17,853, cynnydd o 3,730 o bobl (26%).
- Rhagwelir y bydd y boblogaeth 85+ yn cynyddu o 3,870 i 5,630, cynnydd o 1,760 o bobl (45%).

3.06 Yr is-ardaloedd lle rhagwelir y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth hŷn yw:

- Ar gyfer y boblogaeth 55+, rhagwelir y cynnydd absoliwt mwyaf ym Mangor, Caernarfon, Pwllheli, a Phorthmadog / Penrhyndeudraeth.
- Ar gyfer y boblogaeth 65+, disgwylir y twf cryfaf yn Y Bala / Penllyn (26%), Pwllheli (26%), Bangor (23%) ac yna Caernarfon (20%) ac Ogwen (19%).
- Ar gyfer y boblogaeth 75+, rhagwelir cynnydd nodedig ar draws pob is-ardal, gyda thwf arbennig o gryf yn Y Bala / Penllyn (49%), Bangor (36%), Ogwen (35%), Caernarfon (31%), Ffestiniog (30%) *(Pen Llŷn a Phwllheli hefyd yn 30%)*.
- Ar gyfer y boblogaeth 85+, rhagwelir y twf cyflymaf yn Y Bala / Penllyn (62%), Caernarfon (61%), Peris (60%), Lleu / Nantlle (59%), Bangor (54%) *(Ogwen hefyd yn 54%)* sy'n tynnu sylw at gynnydd sylweddol yn y grŵp oedran hynaf ar draws rhannau trefol a gwledig Gwynedd.

Tabl 16. Cynnydd canrannol a ragwelir yn y boblogaeth hŷn hyd at 2043 (i waelodlin 2025)

Oedran	Is-ardal	2028	2033	2038	2043
55+	*Ardudwy*	2%	2%	3%	5%
	Y Bala / Penllyn	2%	2%	3%	5%
	Bangor	2%	2%	3%	5%
	Caernarfon	2%	2%	3%	5%
	Dolgellau	2%	2%	3%	5%
	Dysynni	2%	2%	3%	5%
	Ffestiniog	2%	2%	3%	5%
	Lleu / Nantlle	2%	2%	3%	5%
	Ogwen	2%	2%	3%	5%
	Pen Llŷn	2%	2%	3%	5%
	Peris	2%	2%	3%	5%
	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	2%	2%	3%	5%
	Pwllheli	2%	2%	3%	5%
	Gwynedd	**2%**	**2%**	**3%**	**5%**
65+	*Ardudwy*	3%	10%	14%	14%
	Y Bala / Penllyn	7%	17%	22%	26%
	Bangor	6%	15%	22%	23%
	Caernarfon	5%	13%	20%	20%
	Dolgellau	3%	11%	15%	13%
	Dysynni	2%	6%	6%	4%
	Ffestiniog	5%	12%	14%	12%
	Lleu / Nantlle	5%	13%	18%	16%

Oedran	Is-ardal	2028	2033	2038	2043
	Ogwen	6%	14%	21%	19%
	Pen Llŷn	5%	13%	18%	18%
	Peris	5%	13%	18%	17%
	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	2%	4%	6%	6%
	Pwllheli	5%	13%	20%	26%
	Gwynedd	**4%**	**11%**	**16%**	**16%**
75+	*Ardudwy*	0.1%	4%	12%	23%
	Y Bala / Penllyn	4%	14%	33%	49%
	Bangor	3%	11%	24%	36%
	Caernarfon	6%	12%	21%	31%
	Dolgellau	1%	6%	13%	24%
	Dysynni	-1%	-0.2%	2%	9%
	Ffestiniog	2%	7%	18%	30%
	Lleu / Nantlle	5%	11%	19%	29%
	Ogwen	3%	9%	23%	35%
	Pen Llŷn	3%	9%	18%	30%
	Peris	5%	11%	18%	29%
	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	1%	1%	5%	9%
	Pwllheli	2%	8%	17%	29%
	Gwynedd	**3%**	**8%**	**16%**	**26%**
85+	*Ardudwy*	4%	22%	27%	37%
	Y Bala / Penllyn	3%	22%	41%	62%
	Bangor	5%	30%	42%	54%
	Caernarfon	10%	37%	53%	61%
	Dolgellau	5%	23%	27%	38%
	Dysynni	3%	21%	16%	20%
	Ffestiniog	1%	19%	31%	40%
	Lleu / Nantlle	10%	38%	53%	59%
	Ogwen	5%	30%	42%	54%
	Pen Llŷn	4%	29%	36%	47%
	Peris	10%	38%	53%	60%
	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	4%	25%	29%	29%
	Pwllheli	5%	30%	36%	47%
	Gwynedd	**6%**	**29%**	**37%**	**45%**


Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Cymru (sail 2018) a Chyngor Gwynedd
DS: Talgrynnir newidiadau canrannol i'r rhif cyfan agosaf; mae yna fân amrywiadau yn bodoli ar lefel is-ardal ond nid ydynt yn effeithio'n sylweddol ar y patrwm cyffredinol.

3.07 Mae'r cynnydd a ragwelir hyd at 2043 yn y poblogaethau 75+ ac 85+ yn arbennig yn sylweddol; mae'r duedd ddemograffig hon yn awgrymu y bydd angen cynyddol tebygol am dai a llety â chymorth ac arbenigol i bobl hŷn yn y cyfnod hyd at 2043.

Nodweddion deiliadaeth ac incwm

3.08 Mae mwyafrif yr aelwydydd a arweinir gan berson 65+ oed yn berchnogion tai (78%). Mae 13% o'r aelwydydd sydd dan arweiniad person 65+ oed yn byw mewn tai cymdeithasol. Mae 9% o aelwydydd sydd dan arweiniad person 65+ oed yn byw mewn tai rhent preifat. Dangosir hyn yn Nhabl 17.

Ffigwr 5. Rhaniad deiliadaeth aelwydydd 65+ yng Ngwynedd



Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS (2021)

3.09 Dylid nodi bod y gyfradd perchnogaeth cartref ymhlith y grŵp oedran 45-64 yn sylweddol is, sef 71%. Mae hyn yn debygol o gael ei adlewyrchu mewn newidiadau yn y rhaniad deiliadaeth o ran yr angen am dai gwarchod/ymddeol ac am dai gofal ychwanegol wrth i'r garfan hon symud i oedran 65+ dros yr 20 mlynedd nesaf, h.y. mae'r angen am dai gwarchod a thai gofal ychwanegol cymdeithasol/fforddiadwy yn debygol o gynyddu dros gyfnod 2033-2043 o gymharu â chyfnod 2025-2033.

Tabl 17. Deiliadaeth aelwydydd yn ôl oedran aelwydydd yng Ngwynedd

Grŵp oedran	Perchnogaeth	%	Rhentu cymdeithasol	%	Rhentu preifat	%	Cyfanswm	%
45-64	13,577	71%	3,086	16%	2,526	13%	19,189	100%
65+	14,066	78%	2,447	13%	1,548	9%	18,061	100%

Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS (2021)

3.10 Dangosir y dadansoddiad cyfatebol ar gyfer deiliadaeth ymhlith aelwydydd 65+ a 45 - 64 mlwydd oed ar gyfer is-ardaloedd Gwynedd yn y tabl isod.

3.11 Yr is-ardaloedd lle mae'r ganran o aelwydydd 65+ sy'n berchnogion tai yn is na chyfartaledd Gwynedd yw'r Bala, Bangor, Caernarfon, Pen Llŷn a Phwllheli. Mae'r ardaloedd hyn yn debygol o fod â mwy o angen am dai gwarchod/ymddeol a thai gofal ychwanegol fforddiadwy.

Tabl 18. Math y ddeiliadaeth aelwydydd yn ôl aelwydydd 65+ a 45-64 oed yng Ngwynedd yn ôl is-ardal

Is-ardal	Grŵp oedran	Perchnogaeth	%	Rhentu cymdeithasol	%	Rhentu preifat	%	Cyfanswm	%
Ardudwy	65+	1,130	82%	135	10%	120	9%	1,385	100%
Y Bala / Penllyn		485	70%	118	17%	91	13%	694	100%
Bangor		1,298	69%	473	25%	121	6%	1,892	100%
Caernarfon		991	76%	227	17%	80	6%	1,298	100%
Dolgellau		784	82%	98	10%	79	8%	961	100%
Dysynni		1,159	86%	69	5%	123	9%	1,351	100%
Ffestiniog		760	80%	113	12%	79	8%	952	100%
Lleu / Nantlle		915	80%	148	13%	76	7%	1,139	100%
Ogwen		666	79%	120	14%	61	7%	847	100%
Pen Llŷn		1,116	77%	163	11%	165	11%	1,444	100%
Peris		1,274	81%	199	13%	92	6%	1,565	100%
Porthmadog /		1,544	81%	214	11%	158	8%	1,916	100%

Is-ardal	Grŵp oedran	Perchnogaeth	%	Rhentu cymdeithasol	%	Rhentu preifat	%	Cyfanswm	%
Penrhyndeudraeth									
Pwllheli		1,252	77%	171	10%	209	13%	1,632	100%
Gwynedd		**13,374**	**78%**	**2,248**	**13%**	**1,454**	**9%**	**17,076**	**100%**
Ardudwy	45-64	775	71%	128	12%	195	18%	1,098	100%
Y Bala / Penllyn		555	72%	108	14%	106	14%	769	100%
Bangor		1,572	64%	611	25%	288	12%	2,471	100%
Caernarfon		945	67%	299	21%	162	12%	1,406	100%
Dolgellau		721	72%	133	13%	145	15%	999	100%
Dysynni		749	76%	89	9%	150	15%	988	100%
Ffestiniog		799	72%	168	15%	148	13%	1,115	100%
Lleu / Nantlle		1,074	77%	194	14%	130	9%	1,398	100%
Ogwen		877	73%	166	14%	157	13%	1,200	100%
Pen Llŷn		894	69%	170	13%	237	18%	1,301	100%
Peris		1,558	80%	213	11%	176	9%	1,947	100%
Porthmadog / Penrhyndeudraeth		1,141	73%	206	13%	221	14%	1,568	100%
Pwllheli		1,216	68%	296	17%	267	15%	1,779	100%
Gwynedd		**12,876**	**71%**	**2,781**	**15%**	**2,382**	**13%**	**18,039**	**100%**

Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS (2021)

DS: Mae data deiliadaeth ar lefel is-ardal wedi'i gyfrifo trwy agregu data Cyfrifiad 2021 ar gyfer yr LSOAs cyfansoddol ym mhob is-ardal. Mae data ar gael ar gyfer 67 o'r 71 LSOA; ni ellir cyhoeddi canlyniadau ar gyfer y pedwar LSOA sy'n weddill oherwydd gofynion diogelu data personol a rheoli datgelu. O ganlyniad, nid yw cyfansymiau'r is-ardaloedd yn cyfateb i gyfanswm sir Gwynedd.

3.12 Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 (MALlC) yn nodi lefelau cymharol o amddifadedd lluosog ar gyfer yr 1,917 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, gan eu trefnu o'r mwyaf difreintiedig (1) i'r lleiaf difreintiedig (1,917) yn seiliedig ar wyth maes amddifadedd sy'n cynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, tai, diogelwch cymunedol, a'r amgylchedd ffisegol. Mae'r grwpiau amddifadedd yn cael eu sgorio rhwng 1 a 5 o fewn y rhain, 1 yw'r grŵp mwyaf difreintiedig.


Tabl 19. Safleoedd grŵp Amddifadedd MALlC

Safleoedd Grŵp Amddifadedd MALlC 2025	Grŵp
y 10% Mwyaf difreintiedig (Safle 1-191)	1
y 10-20% Mwyaf difreintiedig (Safle 192-382)	2
y 20-30% Mwyaf difreintiedig (Safle 383-574)	3
y 30-50% Mwyaf difreintiedig (Safle 575-958)	4
y 50% Lleiaf difreintiedig (Safle 959-1917)	5

Ffynhonnell: WIMD[9]

Ffigwr 6. Dosbarthiad Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Gwynedd ar draws grwpiau amddifadedd cyffredinol MALlC

[9]Mae MALlC 2025 ar gael yn https://www.gov.wales/welsh-index-multiple-deprivation-2025



Ffynhonnell: MALlC (2025)

3.13 Mae dadansoddiad MALlC 2025 yn dangos mai dim ond tri ACEHI (4%) yng Ngwynedd sy'n perthyn i'r grŵp amddifadedd MALlC mwyaf difreintiedig yng Nghymru, tra bod bron i hanner (49%) ymhlith y grŵp amddifadedd MALlC lleiaf difreintiedig, sy'n dangos lefel gymharol isel o amddifadedd cyffredinol gyda phocedi cyfyngedig o amddifadedd uwch.

3.14 Er bod proffil amddifadedd cyffredinol MALlC 2025 Gwynedd yn gymharol isel, mae'r maes tai yn datgelu darlun gwahanol iawn. Mae 27 cymdogaeth (38% o'r holl gymdogaethau yng Ngwynedd) o fewn y 10% mwyaf difreintiedig o ran tai yng Nghymru, ac mae 56 cymdogaeth (79%) yn perthyn i'r 30% mwyaf difreintiedig yn genedlaethol.

3.15 Mae amddifadedd tai yn eang ledled y sir ac yn effeithio ar gymunedau gwledig a threfol. Mae'r cymdogaethau mwyaf difreintiedig yn cynnwys Deiniolen, Llandderfel a Llanfor, Aberdaron–Botwnnog–Tudweiliog, Efailnewydd a Buan, a Llanuwchllyn a Llanycil, pob un ohonynt ymhlith y deg ardal fwyaf difreintiedig o ran tai yng Nghymru

3.16 Mae amddifadedd amodau tai, stoc o ansawdd gwael a pheryglon difrifol yn fwyaf amlwg yng nghymunedau'r cyn chwareli llechi yn ardal Ffestiniog, lle mae stoc tai hŷn yn perfformio'n wael yn erbyn safonau modern.

3.17 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod amodau tai gwael ac effeithlonrwydd ynni isel yn brif ffactorau sy'n cyfrannu at broffil amddifadedd tai Gwynedd. Mae chwe chymdogaeth ymhlith y deg gwaethaf yng Nghymru am dai o ansawdd gwael, tra bod naw cymdogaeth ymhlith y deg gwaethaf ar gyfer effeithlonrwydd ynni tai. Mae ardaloedd megis Llanuwchllyn a Llanycil, Aberdaron–Botwnnog–Tudweiliog, Corris a Mawddwy, a Deiniolen yn amlwg iawn ar y ddau fesur

Nodweddion iechyd a gofal cymdeithasol

3.18 Mae'r tabl isod yn dangos bod poblogaeth hŷn Gwynedd yn gymharol iach gyda dros 89% o bobl hŷn yn nodi statws iechyd 'da iawn' neu 'deg'. Gall iechyd ddylanwadu ar benderfyniad person hŷn i symud i dŷ neu lety arbenigol. Er enghraifft, mae'n bosib y bydd pobl hŷn sy'n adrodd fod ganddynt iechyd 'gwael' neu 'wael iawn' (11% o'r rhai 65+ oed yng Ngwynedd) yn fwy tebygol o fod angen tai neu lety arbenigol am resymau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Tabl 2. Statws iechyd pobl 65+ oed sy'n byw yng Ngwynedd (wedi hunan-adrodd)

Statws iechyd wedi'i hunan-adrodd	'Da iawn' neu 'dda'	'Teg'	'Gwael' neu 'wael iawn'		Cyfanswm
Nifer y bobl (65+)	16,213	7,932	3,127		27,272
% o'r cyfanswm a gyfrifwyd	59%	29%	11%		100%

Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS (2021)

3.19 Yng Ngwynedd, disgwyliad oes cyfartalog merched 65 oed yn ystod cyfnod 2021–2023 oedd 21.0 mlynedd, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 20.6 mlynedd. Ar gyfer dynion, y disgwyliad oes yn 65 oed yng Ngwynedd oedd 18.5 mlynedd, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 18.2 mlynedd dros yr un cyfnod.

3.20 Yng Ngwynedd, yn 2024, amcangyfrifir bod 2,050 o bobl 65 oed a hŷn yn byw gyda dementia. O'r cyfanswm hwn, roedd tua 1,150 o bobl yn 65–84 oed, tra bod 900 o bobl yn 85 oed a hŷn, gan dynnu sylw at y crynodiad sylweddol o ddementia ymhlith y grwpiau oedran hynaf.


Tabl 21. Nifer amcangyfrifedig/amcanestynedig o bobl 65+ oed sy'n byw gyda dementia yng Ngwynedd

Blwyddyn	Amcangyfrif o nifer y bobl 65 + oed sy'n byw gyda dementia
2021	1,975
2022	1,975
2023	2,025
2024	2,050

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru
DS: Dyma niferoedd amcangyfrifedig / amcanestynedig y bobl sy'n byw gyda dementia a heb dderbyn diagnosis

3.21 Er mwyn amcangyfrif y newid yn nifer y bobl fydd yn byw gyda dementia hyd at 2043, defnyddiwyd y gyfradd dwf flynyddol gyfartalog rhwng 2021 a 2024 (oddeutu 1%). Erbyn 2043, amcangyfrifir y bydd nifer y bobl yng Ngwynedd sy'n 65 + oed gyda dementia yn cynyddu tua 22% i 2,539.

Ffigwr 1. Nifer amcangyfrifedig/amcanestynedig y bobl 65+ oed yn byw gyda dementia yng Ngwynedd hyd at 2043



Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru a HLIN
DS: Dyma niferoedd amcangyfrifedig / amcanestynedig y bobl sy'n byw gyda dementia a heb dderbyn diagnosis

3.22 Mae'r proffil difrifoldeb dementia yn dangos bod y mwyafrif o unigolion yn byw gyda dementia cymedrol i ddifrifol, gyda dementia difrifol yn cyfrif am y gyfran fwyaf o achosion yn gyson yn y cyfnod 2021–2024. Ar gyfartaledd, o'r bobl sy'n byw gyda dementia, dosbarthwyd 57% fel rhai â dementia difrifol, tra bod 28% arall wedi'u hasesu fel rhai â dementia cymedrol. Amcangyfrifwyd mai dim ond 15% oedd â dementia ysgafn.

Tabl 22. Nifer y bobl 65+ gyda dementia yng Ngwynedd, yn ôl difrifoldeb

Blwyddyn	Ysgafn	Cymedrol	Difrifol
2021	15%	28%	57%

2022	15%	28%	57%
2023	15%	28%	57%
2024	14%	29%	57%
Cyfartaledd	**15%**	**28%**	**57%**

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

3.23 Deilliodd yr amcangyfrifon o ddifrifoldeb dementia hyd at 2043 o osod y dosbarthiad difrifoldeb cyfartalog a welwyd rhwng 2021 a 2024 yn erbyn cyfanswm nifer amcanestynedig y bobl 65+ oed â dementia hyd at 2043. Mae'r dull hwn yn rhagdybio cyfran sefydlog o ddementia ysgafn, cymedrol a difrifol dros gyfnod yr amcanestyniad ac yn darparu amcangyfrif dangosol o angen sy'n gysylltiedig â difrifoldeb yn y dyfodol.

Tabl 23. Amcangyfrif o nifer y bobl 65+ â dementia yng Ngwynedd yn ôl difrifoldeb hyd at 2043

Blwyddyn	Amcangyfrif o nifer y bobl â dementia (65+)	Ysgafn	Cymedrol	Difrifol
2025	2,076	303	587	1,186
2028	2,153	314	609	1,230
2033	2,282	333	645	1,304
2038	2,410	352	681	1,377
2043	2,539	370	718	1,451

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru a HLIN

3.24 Mae'r cynnydd a ragwelir hyd at 2043 yn nifer y bobl 65+ oed yn byw gyda dementia, yn enwedig gyda dementia difrifol, yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd yr angen yn cynyddu am dai a llety gwarchod a mathau arbenigol i bobl hŷn dros y cyfnod hyd at 2043.

3.25 Mae cyfanswm nifer y bobl hŷn 65+ oed sy'n derbyn gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion gan Gyngor Gwynedd wedi aros yn sefydlog ar y cyfan dros y pum mlynedd diwethaf. Gostyngodd y niferoedd cyffredinol fymryn o 3,175 yn 2020/21 i 3,127 yn 2024/25, sy'n leihad o tua 2%. Er bod y cyfanswm wedi gostwng yn raddol rhwng 2021/22 a 2023/24, bu adferiad cymharol fach yn 2024/25.

3.26 Mae'r rhan fwyaf o gymorth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn parhau i gael ei ddarparu i bobl hŷn sy'n byw mewn tai prif ffrwd. Roedd tai prif ffrwd yn cyfrif am 2,276 o bobl yn 2024/25, sy'n cynrychioli tua 73% o'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth hŷn Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Gostyngodd y niferoedd o 2,411 yn 2021/22 i 2,200 yn 2023/24 cyn cynyddu ychydig yn y flwyddyn ddiwethaf. Er gwaethaf yr amrywiad hwn, mae tai prif ffrwd yn parhau i fod y lleoliad mwyaf blaenllaw i dderbyn cymorth.

3.27 Mae darpariaeth gofal preswyl a nyrsio wedi cynyddu'n raddol dros y cyfnod. Cododd lleoliadau o 694 yn 2020/21 i 769 yn 2024/25, cynnydd o 11%. Mae'r twf hwn yn cyferbynnu â'r gostyngiad bach yn niferoedd cyffredinol ASC ac yn golygu bod gofal preswyl a nyrsio bellach yn cyfrif am gyfran uwch o gymorth Gofal Cymdeithasol i Oedolion nag ar ddechrau'r cyfnod. Pan fesurir y defnydd o gartrefi gofal ar gyfer pobl 65+ fesul 100,000 pen o'r boblogaeth, Gwynedd sydd â'r defnydd uchaf o gartrefi gofal o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru (ymdrinnir â hyn fel rhan o'r asesiad hwn mewn perthynas â'r angen cynyddol am dai gofal ychwanegol er mwyn galluogi mwy o bobl i osgoi lleoliad cartref gofal).

3.28 Mae'r defnydd o dai gofal ychwanegol wedi tyfu'n sylweddol dros y cyfnod pum mlynedd, gan gynyddu o 28 o bobl yn 2020/21 i 48 yn 2024/25. Er bod y niferoedd cyffredinol yn parhau i fod yn gymharol fach, mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 71%.

3.29 Mae'r ddarpariaeth byw â chymorth wedi parhau i fod yn gyfyngedig ac yn sefydlog ar y cyfan, gyda'r niferoedd yn gostwng ychydig o 38 o bobl yn 2020/21 i 30 yn 2024/25. Mae'r ddarpariaeth Cysylltu Bywydau yn parhau i fod yn fach iawn, gan ostwng o saith lleoliad yn 2020/21 i bedwar lleoliad yn 2024/25 ac yn cyfrif am gyfran ddibwys yn unig o'r boblogaeth gyfan sy'n derbyn Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

3.30 Yn gyffredinol, mae'r data yn dangos newid graddol yng nghydbwysedd darpariaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Er bod tai prif ffrwd yn parhau i ddarparu ar gyfer y mwyafrif helaeth o bobl hŷn sy'n derbyn cymorth, bu twf mewn gofal preswyl a nyrsio ac, i raddau llai, tai gofal ychwanegol.

Tabl 24. Mathau o lety: pobl hŷn 65+ yn gymwys i gael cymorth Gofal Cymdeithasol i Oedolion gan Gyngor Gwynedd rhwng 2020/21 a 2024/253

Math y llety	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25
Tai Prif Ffrwd	2,408	2,411	2,294	2,200	2,276
Preswyl/Nyrsio	694	714	716	733	769
Cysylltu Bywydau	7	6	4	4	4
Gofal Ychwanegol	28	30	34	38	48
Tai â Chymorth	38	36	33	33	30
Cyfanswm	**3,175**	**3,197**	**3,081**	**3,008**	**3,127**

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd (2025)


4. Cyflenwad presennol tai arbenigol i bobl hŷn

4.01 I nodi'r cyflenwad cyfredol o dai arbenigol i oedran penodol ar gyfer bobl hŷn yng Ngwynedd, defnyddiwyd cronfa ddata genedlaethol yr *Elderly Accomodation Counsel* (EAC)[10] o lety arbenigol i bobl hŷn fel gwaelodlin, cyn ei gwirio am gywirdeb gyda Chyngor Gwynedd. Mae'r cyflenwad presennol o dai arbenigol i bobl hŷn wedi'i gategoreiddio i'r mathau a ganlyn:

- *Tai gwarchod*: Fel arfer, mae'r tai hyn yn cynnig llety hunan-gynhwysol. Maent yn cael eu cefnogi gan reolwr cynllun rhan amser/sy'n ymweld, a chymorth brys 24-awr drwy larwm. Yn aml, mae yna ardaloedd cymunedol ac mae rhai yn cynnig gweithgareddau. Yn y sector cymdeithasol, mae'r rhan fwyaf o lety yn cael ei gynnig ar rent cymdeithasol neu fforddiadwy, yn seiliedig ar angen, gan gynghorau lleol neu gymdeithasau tai. Yn y sector preifat, mae fel arfer yn cael ei adeiladu gan ddatblygwyr preifat i'w werthu ar y farchnad (ac weithiau ar rent y farchnad). Unwaith y bydd yr holl eiddo wedi'i werthu, mae'r cynllun weithiau'n cael ei redeg gan gwmni rheoli ar wahân sy'n cyflogi rheolwr cynllun sy'n trefnu'r gwaith cynnal a chadw a gwasanaethau eraill.
- Tai oedran penodol: yn wahanol i dai gwarchod, h.y. nid oes gan dai oedran penodol y cyfleusterau cymunedol na'r cymorth staff sy'n gysylltiedig fel arfer â thai gwarchod.
- *Tai gofal ychwanegol*: Yn aml, cyfeirir atynt fel 'tai gofal ychwanegol' pan maent yn cael eu darparu gan gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol (ar rent fforddiadwy a chyd-berchnogaeth) a 'byw â chymorth' neu 'bentrefi ymddeol' neu 'gymunedau ymddeol integredig' gan ddarparwyr sector preifat i'w gwerthu ar y farchnad (ac weithiau ar rent y farchnad). Mae tai gofal ychwanegol wedi'u dylunio ar gyfer pobl hŷn, rhai gyda lefelau uwch o anghenion gofal a chymorth. Mae trigolion yn byw mewn cartrefi hunan-gynhwysol. Fel arfer, mae ynddynt fwy o gyfleusterau cymunedol ac maent yn cynnig mynediad at wasanaethau gofal ar y safle 24/7, sy'n cynnwys cymorth i baratoi prydau bwyd, golchi a dyletswyddau dyddiol eraill (gall rhai cynlluniau tai gofal ychwanegol gynnig mynediad at wasanaethau gofal gan staff gofal sydd ar y safle 24/7). Yn aml, mae'n cynnwys system larwm 24/7, presenoldeb rheolwr cynllun ac aelod o staff cefnogi.

4.02 Ffigwr 8. Cyflenwad presennol o dai i bobl hŷn yng Ngwynedd

Ffigwr 8. Cyflenwad presennol o dai i bobl hŷn yng Ngwynedd




[10] https://housingcare.org/

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd (2025)

4.03 Ar hyn o bryd ceir 674 o unedau tai gwarchod yng Ngwynedd. Mae'r crynodiadau mwyaf wedi'u lleoli ym Mangor (126 uned) a Phorthmadog / Penrhyndeudraeth (126 uned), ac yna Caernarfon (123 uned).


Ffigwr 9. Cyflenwad cyfredol tai gwarchod yng Ngwynedd yn ôl is-ardal



Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd (2025)

4.04 Mae'r ddarpariaeth tai gofal ychwanegol yng Ngwynedd wedi'i chyfyngu i dri chynllun sy'n darparu cyfanswm o 113 o unedau ym Mangor, Y Bala/Penllyn a Phorthmadog/Penrhyndeudraeth.

Ffigwr 10. Cyflenwad presennol o dai gofal ychwanegol



Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd (2025)

Tabl 25. Cyflenwad presennol o dai i bobl hŷn yng Ngwynedd

Is-ardal	Tai ymddeol/gwarchod	Tai gofal ychwanegol
Ardudwy	34	0
Y Bala / Penllyn	69	30
Bangor	126	43
Caernarfon	123	0
Dolgellau	38	0
Dysynni	31	0
Ffestiniog	13	0
Lleu / Nantlle	44	0
Ogwen	10	0
Pen Llŷn	16	0

Peris	0	0
Porthmadog / Penrhyndeudraeth	126	40
Pwllheli	44	0
Cyfanswm	**674**	**113**

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd (2025)

4.05 Mae'r cyflenwad o gartrefi gofal i bobl hŷn (65+) wedi'i nodi yn adran 7.

5. Safbwyntiau rhanddeiliaid a phobl hŷn

Rhanddeiliaid proffesiynol

Er mwyn darparu mewnwelediadau ansoddol arbenigol mewn perthynas â'r cyflenwad lleol a'r angen am dai a llety â chymorth ac arbenigol i bobl hŷn, buom yn siarad â:

- Swyddogion o Gyngor Gwynedd
- Cynrychiolwyr o sampl o ddarparwyr tai gwarchod a gofal ychwanegol a darparwyr cartrefi gofal i bobl hŷn (trafodaethau anffurfiol oedd y rhain a gynhaliwyd fel rhan o ymweliadau â sampl o wasanaethau i bobl hŷn).

Mae'r boblogaeth o bobl 'hŷn, hŷn' yn cynyddu'n sylweddol. Yr anghenion mwyaf cyffredin ymhlith pobl hŷn sy'n effeithio ar eu hangen am ofal yw bregusrwydd, codymau a dementia.

Amcan y Cyngor yw cefnogi pobl hŷn i fyw'n dda gartref cyhyd â phosibl a chynnal eu hannibyniaeth. Fodd bynnag, mae heriau wrth gyflawni hyn gan gynnwys anawsterau wrth sicrhau gofal cartref mewn rhai rhannau o'r sir.

Mae angen cynyddu'r ddarpariaeth o dai gofal ychwanegol fel bod yr opsiwn hwn ar gael ym mhob cymuned yng Ngwynedd dros amser.

Gallai'r Cyngor ddefnyddio potensial y cynlluniau gofal ychwanegol presennol yn well. Mae angen adnabod pobl hŷn a fyddai'n elwa o symud i dai gofal ychwanegol, yn enwedig fel dewis arall i ofal preswyl.

Mae Swyddogion y Cyngor yn awyddus i weld o leiaf 10% o bobl hŷn y flwyddyn, a fyddai fel arall yn mynd i ofal preswyl, yn symud i dai gofal ychwanegol fel dewis arall gwirioneddol.

Yn y dyfodol, mae'r Cyngor eisiau gweld mwy o ddefnydd o dai gofal ychwanegol fel rhan o'r llwybrau mewn perthynas â gwasanaethau rhyddhau o'r ysbyty. Byddai hyn yn gofyn am ehangu nifer y cynlluniau tai gofal ychwanegol yn y sir.

Mae awydd i weld rôl barhaus ar gyfer tai gwarchod, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, fel opsiwn tai a all ddarparu elfen o gymorth i alluogi pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol cyn hired â phosibl. Yng nghyd-destun aneddiadau bach a chymunedau gwledig yng Ngwynedd, mae'n bosibl y bydd angen cyfuno'r ddarpariaeth o dai gwarchod â, er enghraifft, darparu gofal o gartrefi gofal cyfagos er mwyn gwneud yr holl wasanaethau hyn yn gynaliadwy ac i alluogi pobl hŷn i barhau i fyw mewn trefi llai a chymunedau gwledig.

Mewn perthynas â chartrefi gofal i bobl hŷn, er bod darparwyr cartrefi gofal yn gallu rheoli pobl hŷn ag anghenion gofal ac iechyd cymhleth, mae hyn yn her i'r awdurdod lleol gan fod darparwyr allanol yn gofyn am ffioedd uwch a darpariaeth fewnol yn chwilio am lefelau staffio uwch. Mae hyn hefyd yn her oherwydd bod y proffil anghenion mwyaf blaenllaw a chynyddol o bobl hŷn sydd angen lle mewn cartref gofal yn anghenion gofal ac iechyd cymhleth, sy'n aml yn gysylltiedig â dementia.

Asesiad swyddogion y Cyngor mewn perthynas â'r angen am gapasiti gwelyau cartrefi gofal yw nad oes llawer o ofyn am welyau gofal preswyl ychwanegol; yn hytrach, mae angen gwasanaethau gofal preswyl presennol i allu darparu ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal ac iechyd mwy cymhleth. Fodd bynnag, oherwydd y boblogaeth gynyddol 'hŷn, hŷn' a'r nifer cynyddol o bobl hŷn ag anghenion gofal ac iechyd cymhleth, mae'n debygol y bydd mwy o angen am ddarpariaeth gofal nyrsio yn y dyfodol.

O ystyried natur wledig Gwynedd, efallai y bydd angen datblygu model penodol i Wynedd o dai a llety i bobl hŷn a all ddarparu, er enghraifft, tai gofal ychwanegol a chyfleusterau cartrefi gofal ar yr un safle, yn ogystal â darparu sylfaen ar gyfer gofal cartref yn y gymuned, er mwyn darparu cyfle busnes hyfyw i ddarparwyr tai a gofal. Dyma'r hyn sy'n cael ei ddatblygu ym Mhenrhos ar hyn o bryd a gallai hyn helpu i ffurfio 'glasbrint' ar gyfer datblygiadau tai a gofal eraill ar yr un safle.

Safbwyntiau pobl hŷn


Rydym wedi crynhoi yma negeseuon allweddol o arolwg pobl hŷn a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd yn hydref 2025 mewn perthynas ag anghenion tai pobl.

Roedd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (69%) yn 50 oed a hŷn, gan gynnwys 49% yn 65 oed a hŷn. Y grŵp oedran unigol mwyaf oedd y rhai 50–64 oed (35%), ac yna pobl 65–74 oed (27%).

Derbyniwyd cyfran lai o'r ymatebion o grwpiau oedran iau, gyda 12% 35–49 oed a 4% o dan 35 oed. Er bod yr arolwg yn agored i bob preswylydd, mae'r proffil oedran yn dangos bod y canfyddiadau yn adlewyrchu barn aelwydydd hŷn yn benodol a'r grwpiau oedran hynny sy'n agosáu at oed ymddeol sy'n fwyaf tebygol o ystyried symud i dŷ llai, tai hygyrch neu lety arbenigol yn y dyfodol.

Mae'r gyfran gymharol uchel o ymatebwyr 75+ oed (22% o ymatebwyr 75–84 ac 85+ oed gyda'i gilydd) yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar ddewisiadau tai ac anghenion cefnogaeth yn ddiweddarach mewn bywyd.

Ffigwr 11. Grwpiau oedran yr ymatebwyr



Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Gwynedd (2025)

Mae proffil deiliadaeth yr ymatebwyr wedi'i bwysoli'n drwm tuag at berchen-feddiannaeth. Mae bron i bedwar o bob pump o ymatebwyr (79%) yn berchen ar eu cartref, gan gynnwys 60% sy'n berchen yn llwyr ac 19% sydd â morgais.

Mae proffil deiliadaeth ymatebwyr 65+ oed yn cael ei ddominyddu'n helaeth gan berchen-feddiannaeth. Mae tua 74% yn berchen ar eu cartref yn llwyr. Mae 3% arall yn berchen ar eu cartref gyda morgais.

Mae'r sector rhentu yn cynrychioli lleiafrif bach o ymatebwyr hŷn, gyda 4% yn rhentu gan y Cyngor/Cymdeithas Tai a 6% yn rhentu'n breifat.

Ffigwr 12. Sefyllfa tai bresennol ymatebwyr 65+ oed



Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Gwynedd (2025)


Tebygolrwydd o symud

Mae'r canfyddiadau'n dangos nad yw'r mwyafrif o'r ymatebwyr (tua dwy ran o dair ohonynt) yn debygol o symud o'u cartref presennol ar hyn o bryd. Mae hyn yn adlewyrchu ffafriaeth gref ar gyfer heneiddio gartref ar draws y sampl. Fodd bynnag, mae ychydig dros draean yn dangos rhywfaint o debygolrwydd o symud yn y dyfodol.

Ymhlith ymatebwyr 65–74 oed, mae tua thri chwarter (74%) yn dweud nad ydyn nhw'n debygol o symud o'u cartref presennol. Fodd bynnag, mae ychydig dros chwarter (26%) yn nodi rhywfaint o fwriad i symud o fewn y 10 mlynedd nesaf neu du hwnt.

Mae bwriadau i symud yn gostwng ymhellach ymhlith pobl 75 oed a hŷn. Yn y grwpiau 75–84 ac 85+, mae tua 79% yn dweud nad ydyn nhw'n debygol o symud, gyda dim ond tua un o bob pump (21%) yn nodi unrhyw debygolrwydd o symud.

Ffigwr 13. Tebygolrwydd o symud yn ôl oedran




Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Gwynedd (2025)

Mae bwriadau i symud wedi'u crynhoi bron yn gyfan gwbl ymhlith perchen-feddianwyr, yn enwedig y rhai sy'n berchen ar eu cartref yn llwyr. Mae tua 28% o berchnogion llwyr yn nodi rhywfaint o debygolrwydd o symud, gan gyfrif am y mwyafrif o symudwyr posibl yn y dyfodol o fewn y garfan 65+.

Mewn cyferbyniad, nid oes unrhyw rentwyr cymdeithasol na rhentwyr preifat 65+ oed yn adrodd bwriad i symud.

Ffigwr 14. Deiliadaeth ymatebwyr sydd â thebygolrwydd o symud o fewn y blynyddoedd nesaf (65+ oed)



Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Gwynedd (2025)

Model Tai a Ffafrir


Y dewis cryfaf ymhlith ymatebwyr 65+ oed yw cartrefi confensiynol sydd wedi'u cynllunio neu eu haddasu ar gyfer hygyrchedd (88%), sy'n dangos awydd clir i aros mewn tai prif ffrwd gyda nodweddion dylunio sy'n cefnogi heneiddio gartref.

Mae diddordeb sylweddol hefyd mewn tai gofal ychwanegol (85%), sy'n awgrymu bod llawer o breswylwyr hŷn yn agored i fodelau tai gyda gofal a chefnogaeth ar gael ar y safle os oes angen.

Mae tai ymddeol/gwarchod (76%) hefyd yn cael eu hystyried yn eang, gan atgyfnerthu'r galw am lety ar gyfer oedran penodol sy'n darparu rhywfaint o gymorth cymunedol a staff.

Mewn cyferbyniad, mae tipyn llai o ffafriaeth ar gyfer cartrefi gofal (43%).

Ffigwr 15. Model tai y mae ymatebwyr yn ei ffafrio os nad ydynt yn gallu aros yn eu cartref presennol, a fyddent yn ystyried yr opsiynau isod



Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Gwynedd (2025)

DS: Gan fod ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn, mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu bod yn agored i wahanol fodelau tai/llety yn hytrach na dewis mewn trefn neu berthnasol i'r ddwy ochr. Felly, mae'r canlyniadau yn dangos derbynioldeb posibl yn hytrach na dewisiadau cyntaf pendant .

Ffactorau sy'n dylanwadu ar symud

Ymhlith ymatebwyr 65 oed a hŷn, mae'r ffactorau a ddyfynnir fwyaf yn ymwneud ag addasrwydd a hygyrchedd y cartref. Dywedodd 43% y byddent yn ystyried symud i gartref mwy hygyrch, gan awgrymu bod gallu eiddo i ddiwallu anghenion symudedd ac iechyd newidiol yn sbardun allweddol o ran symudiadau posibl ymhlith pobl hŷn. Dywedodd cyfran debyg (39%) y byddent


yn ystyried symud i gartref llai, gan adlewyrchu rôl symud i dŷ llai yn galluogi aelwydydd hŷn i symud i lety mwy rheoladwy.

Mae ystyriaethau pwysig eraill yn cynnwys gwell mynediad at fwynderau (32%), fel siopau, gwasanaethau a thrafnidiaeth, a symud i gartref gyda gofal neu gefnogaeth ar y safle (28%), sy'n dangos y gall mynediad at wasanaethau cefnogaeth ddylanwadu ar benderfyniadau tai i rai preswylwyr hŷn. Yn ogystal, nododd 26% o'r ymatebwyr 65+ oed ddiddordeb mewn tai ar gyfer oedran penodol.

Mae ystyriaethau ariannol yn ymddangos yn llai amlwg, gyda 14% yn nodi eu bod yn ffafrio symud i gartref rhatach, tra bod cyfrannau cymharol lai yn nodi symud i gymdogaeth fwy diogel (9%) neu ddiwallu anghenion diwylliannol neu grefyddol (4%) fel ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar symud.

Roedd ymatebwyr yn gallu dewis sawl ffactor, sy'n golygu bod y canrannau yn cynrychioli cyfran yr ymatebwyr sy'n nodi pob ffactor.

Ffigwr 16. Ffactorau sy'n dylanwadu ar symud tŷ yn y dyfodol




Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Gwynedd (2025)

Ardal a ffafrir i symud iddi

Y dewisiadau cryfaf o ran lleoliadau a ffafrir i symud iddynt ymhlith pobl 65+ oed yw Caernarfon (18%), Bangor (14%), a Dolgellau (13%).

Byddai cyfran nodedig (21%) yn ystyried adleoli y tu allan i Wynedd, sy'n awgrymu y gallai symudiadau trawsffiniol fod yn rhan o batrymau galw am dai yn y dyfodol er enghraifft i lefydd fel Llanrwst, Llandudno, Llangefni, a Machynlleth. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gall y duedd hon ddigwydd fel arall hefyd, h.y. gyda phobl hŷn yn symud i Wynedd o ardaloedd eraill.

Ffigwr 17. Ardal a ffafrir i symud iddi



Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Gwynedd (2025) DS: Roedd ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ardal a ffafrir. Felly, mae canrannau yn dangos ardaloedd y byddai ymatebwyr yn eu hystyried.

6. Amcangyfrif o'r angen am dai arbenigol a llety i bobl hŷn

Amcangyfrif o'r angen am dai gwarchod/ymddeol a thai gofal ychwanegol

Mae modelu'r angen amcangyfrifedig am dai ymddeol/gwarchod a thai gofal ychwanegol sy'n addas i bobl hŷn yn seiliedig ar arolwg cynrychioliadol cenedlaethol diweddar (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024) o thua 5,600 o bobl hŷn 50+ oed yn y DU[11] a model ystadegol sy'n cymhwyso canfyddiadau'r arolwg i ddata demograffig meintiol. Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud ar y cyd gan yr Housing LIN ac Ipsos.

Yn 2024, derbyniodd Housing LIN gyllid gan Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig i gynnal ymchwil cynradd ar raddfa fawr gyda phobl hŷn ac i ddatblygu model ystadegol i amcangyfrif yr angen am ystod o opsiynau tai i bobl wrth iddynt heneiddio.

Mae'r model newydd yn amcangyfrif yr angen am *ystod* o opsiynau tai a mathau o gartrefi i bobl 65+ oed, gan gynnwys tai ymddeol/gwarchod a thai gofal ychwanegol, yn ogystal â'r angen am dai prif ffrwd.

Yn wahanol i fodelau sy'n seiliedig ar 'gyffredinrwydd' o amcangyfrif yr angen am dai arbenigol i bobl hŷn, mae'r model ystadegol newydd hwn yn seiliedig ar ymchwil cynradd gyda phobl hŷn (50+) am angen tai a'r tebygolrwydd o symud yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae dadansoddiad o ddata'r arolwg wedi'i wneud i hysbysu'r modelu o'r angen am dai ymddeol/gwarchod a thai gofal ychwanegol yn y dyfodol, sy'n ystyried tystiolaeth yr arolwg isod gan y 5,600 o ymatebwyr:

- Anghenion tai pobl hŷn mewn perthynas â gwahanol fathau o dai, gan gynnwys tai gofal ychwanegol a thai ymddeol/gwarchod
- Y tebygolrwydd i bobl hŷn symud o'u llety presennol o fewn cyfnod o 12 mis, o fewn 1-2 flynedd, o fewn 3-5 mlynedd, ac o fewn 5-10 mlynedd
- Oedran y bobl hŷn (65+)
- Statws deiliadaeth (economaidd-gymdeithasol) pobl hŷn
- Statws iechyd pobl hŷn

Yna, cyfunir tystiolaeth yr arolwg â data demograffig meintiol o ragolygon poblogaeth ONS 2021 a SNPP 2022.

Datblygwyd dull o ddefnyddio data'r arolwg i fodelu'r angen am dai arbenigol i bobl hŷn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg mewn perthynas ag *angen tai* pobl hŷn a'u *hangen tai mwyaf tebygol* yn y dyfodol. Mae'r modelu hwn wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu amcangyfrifon o'r angen yn y dyfodol am dai ymddeol/gwarchod yn y dyfodol a thai gofal ychwanegol.

Gan ddefnyddio tystiolaeth o'r arolwg, *angen tai* pobl hŷn a'r *tebygolrwydd i* bobl hŷn symud yn benodol, cynhyrchwyd 'Tebygolrwydd Newid' i amcangyfrif y tebygolrwydd a ragwelir y bydd pobl yn symud mewn cyfnodau o bum mlynedd, yn seiliedig ar eu hoedran, eu statws deiliadaeth presennol a'u statws iechyd, i gynhyrchu nifer o symudiadau dros y 5 mlynedd nesaf, ac wedyn nifer amcangyfrifedig y symudiadau dros y 10, 15 ac 20 mlynedd ddilynol.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno amcangyfrifon o sut amcangyfrifir y bydd anghenion tai pobl hŷn 65+ yn newid dros amser. Mae rhesi 3–7 yn dangos y nifer a ragwelir o bobl y disgwylir iddynt symud

[11]Housing LIN (2024) Housing preferences for older people: Arolwg o 5,600+ o bobl hŷn ledled y DU a gynhaliwyd gan Ipsos ar gyfer yr Housing LIN. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/Topics/type/Older-Peoples-Housing-Preferences/

o'u cartref presennol i wahanol fathau o dai, yn seiliedig ar ddewisiadau tai a thebygolrwydd o symud o arolwg Ipsos. Mae rhesi 1–2 yn nodi nifer y bobl hŷn y disgwylir iddynt aros yn eu cartref presennol, naill ai gydag addasiadau neu heb addasiadau.

Mae canlyniadau'r arolwg wedi dangos bod mwy o angen am dai prif ffrwd ymhlith pobl hŷn sy'n mynegi tebygolrwydd o symud yn y dyfodol[12] yn hytrach na thai arbenigol fel tai ymddeol/gwarchod a thai gofal ychwanegol. Mae angen tai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol ond mae'n rhan o angen ehangach am dai prif ffrwd sy'n addas i bobl wrth iddynt heneiddio.

Tabl 26. Amcangyfrif 'Tebygolrwydd Newid' o symudiadau (angen) i wahanol fathau o dai ymhlith poblogaeth 65+ Gwynedd hyd at 2043

Mathau/sefyllfaoedd tai	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
1. Aros yn y cartref prif ffrwd presennol (heb addasiadau)	25,762	25,528	25,975	25,946	24,526
2. Aros yn y cartref prif ffrwd presennol (gydag addasiadau)	232	331	498	666	829
3. Symud i gartref prif ffrwd (heb addasiadau)	614	856	1,282	1,689	2,036
4. Symud i gartref prif ffrwd (gydag addasiadau)	405	573	863	1,149	1,410
5. Symud i gartref prif ffrwd/ar gyfer oedran penodol wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch	1,088	1,532	2,301	3,052	3,732
6. Symud i lety arbenigol (tai gwarchod/ymddeol a thai gofal ychwanegol)	368	521	779	1,035	1,276
7. Arall	616	874	1,310	1,744	2,155
Cyfanswm y boblogaeth 65+	**29,085**	**30,215**	**33,009**	**35,282**	**35,964**

Ffynhonnell: Ipsos (2024/5), Housing LIN (2024/25).

DS. Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Mae cyfanswm ffigyrau'r boblogaeth yn amrywio ychydig i'r amcangyfrifon poblogaeth yn Ffigwr 1 oherwydd y defnydd o wahanol ffynonellau/dulliau data.

Mae'r dystiolaeth hon o angen gwahanol fathau o dai gan bobl 65+ oed yn dangos yr isod.

Amcangyfrifir bod y mwyafrif o bobl hŷn yn debygol o aros yn eu cartrefi presennol gyda lleiafrif angen mathau eraill o dai. Mae'r symudiadau amcangyfrifedig i fathau eraill o dai yn cael eu dehongli fel angen am y mathau hyn o dai dros amser, yn yr achos hwn dros y cyfnod hyd at 2043 .

Erbyn 2043, amcangyfrifir y bydd angen mathau eraill o dai prif ffrwd ar oddeutu 7,180 o bobl 65+ oed (h.y. nid tai arbenigol) ac amcangyfrifir bod tua 1,410 o bobl angen math arall o dai prif ffrwd ac addasiadau i weddu i'w hanghenion yn ddiweddarach mewn bywyd. Gallai'r rhain gynnwys addasiadau i eiddo yn ogystal â'r defnydd o dechnoleg a all alluogi pobl i fyw'n annibynnol mewn tai prif ffrwd.

Erbyn 2043, amcangyfrifir y bydd angen tai prif ffrwd ar oddeutu 3,730 o bobl 65+ oed sydd wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch, e.e. i safon Cartrefi Oes a/neu i safon hygyrchedd M4(2) (neu o

[12]Diffinnir tai prif ffrwd fel tai cymdeithasol anghenion cyffredinol, tai rhent preifat a thai marchnad (h.y. nid tai arbenigol fel tai gwarchod a thai gofal ychwanegol neu dai ar gyfer oedran penodol)

bosibl gydag addasiadau eraill fel tai hygyrch i gadeiriau olwyn). O'r bobl 65+ oed yr amcangyfrifir y byddant yn symud o'u cartref presennol, dyma'r garfan fwyaf.

Disgwylir i leiafrif o bobl 65+ oed yr amcangyfrifir y byddant yn debygol o symud i ddiwallu eu hanghenion tai symud i lety arbenigol (tai gwarchod/ymddeol a thai gofal ychwanegol); tua 1,276 erbyn 2043 (gweler manylion yr asesiad o'r angen isod).

Goblygiadau'r amcangyfrifon hyn o angen tai ymhlith y boblogaeth 65+ yw:

- Nid yw'r mwyafrif o bobl hŷn yn bwriadu symud o'u cartref presennol.
- O'r rhai sy'n bwriadu symud, mae'r mwyafrif angen tai prif ffrwd eraill, yn enwedig tai sydd wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch ac sy'n gallu cefnogi heneiddio gartref, e.e. tai sydd wedi'u cynllunio i safon Cartrefi Oes.
- Ymhlith pobl ag anghenion gofal a chefnogaeth, mae'r mwyafrif yn debygol o aros yn eu cartrefi presennol a cheisio gwasanaethau gofal/cefnogaeth, yn ogystal ag addasiadau a thechnoleg, sy'n eu galluogi i barhau i fyw yn eu cartrefi presennol.
- Mae'n debygol y bydd galw cynyddol am addasiadau, ymhlith rhai sy'n ariannu eu hunain a phobl ar incwm isel sy'n gymwys i gael Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, ymhlith pobl hŷn sy'n aros yn eu cartrefi presennol neu sydd angen tai prif ffrwd eraill.
- Mae'n debygol y bydd galw cynyddol am dechnoleg, gan gynnwys technoleg a alluogir gan ofal, a all helpu pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol mewn tai prif ffrwd.
- Mae lleiafrif o bobl hŷn yn debygol o fod angen tai arbenigol fel tai ymddeol/gwarchod a thai gofal ychwanegol.

Mae'r model (fel y dangosir yn y tabl uchod) yn cyfuno'r 'tebygolrwydd newid' o symud i 'lety arbenigol' sy'n cynnwys symudiadau i dai ymddeol/gwarchod ac i dai gofal ychwanegol.

Er mwyn dadansoddi'r symudiadau amcangyfrifedig i 'lety arbenigol' h.y. i dai ymddeol/gwarchod a thai gofal ychwanegol, dadansoddwyd data arolwg Ipsos fel a ganlyn.

Mae canfyddiadau'r arolwg yn nodi, wrth ystyried eu hanghenion tai yn y dyfodol, yr *angen tai* a'r *angen tai mwyaf tebygol* ymhlith pobl hŷn mewn perthynas â llety arbenigol yw:

- Mynegodd 10% o'r ymatebwyr eu bod eisiau symud i dai ymddeol/gwarchod ac roedd 7% yn credu ei fod yn debygol
- Mynegodd 5% o'r ymatebwyr eu bod eisiau symud i dai gofal ychwanegol ac roedd 4% o'r farn ei fod yn debygol

I gydbwyso'r gwahaniaeth rhwng *angen tai* ac *angen tai mwyaf tebygol* , cyfrifir gwerth canolig ar gyfer pob math o dai a llety:

- 8.5% o symudiadau i dai ymddeol/gwarchod
- 4.5% o symudiadau i dai gofal ychwanegol

Gan ddefnyddio tystiolaeth o'r arolwg, yn seiliedig ar dystiolaeth o *angen tai* ac *angen tai mwyaf tebygol* pobl hŷn, mae symudiadau i 'lety arbenigol' (a ddangosir yn Nhabl 26) fel symudiadau i dai ymddeol/gwarchod ac i dai gofal ychwanegol, wedi'u dadansoddi fel a ganlyn:

- Amcangyfrifir bod 65% o'r symudiadau i dai ymddeol/gwarchod
- Amcangyfrifir bod 35% o'r symudiadau i dai gofal ychwanegol

Dangosir yr amcangyfrif o'r angen am dai ymddeol/gwarchod a thai gofal ychwanegol hyd at 2043 yn y tabl isod; angen amcangyfrifedig am 1,409 o unedau o dai ymddeol/gwarchod ac angen amcangyfrifedig am 746 o unedau o dai gofal ychwanegol.

Tabl 27. Yr angen amcangyfrifedig cychwynnol am dai ymddeol/gwarchod a thai gofal ychwanegol yng Ngwynedd hyd at 2043 (yn ychwanegol at y cyflenwad presennol) (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai ymddeol/ gwarchod	403	571	857	1,140	1,409
Tai gofal ychwanegol	213	302	454	604	746
Cyfanswm	**616**	**874**	**1,310**	**1,744**	**2,155**

Ffynhonnell: IPSOS (2025) a HLIN (2025). DS nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Er mwyn addasu'r amcangyfrif o'r angen am dai gofal ychwanegol, yn nhabl 27 mae cyfradd trosiant blynyddol o 10% yn y cyflenwad presennol/sydd ar y ffordd o dai ymddeol/gwarchod a throsiant o 15% ar gyfer tai gofal ychwanegol yng Ngwynedd wedi'u cymhwyso i'r angen amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ddata trosiant gofal ychwanegol Cyngor Gwynedd, gwybodaeth y comisiynydd a phrofiad yr Housing LIN. Gyda 674 o unedau mewn tai ymddeol/gwarchod a 113 o unedau mewn tai gofal ychwanegol ar gael yng Ngwynedd, mae hyn yn cyfateb i 67 o unedau mewn tai ymddeol/gwarchod ac 17 uned mewn cynlluniau tai gofal ychwanegol yn dod ar gael bob blwyddyn ar gyfartaledd.

Mae'r cyfrifiad trosiant yn caniatáu i 10% o'r angen amcangyfrifedig am dai ymddeol/gwarchod a 15% am dai gofal ychwanegol gael eu diwallu o'r cyflenwad presennol ac mae wedi'i dynnu o'r angen amcangyfrifedig yn Nhabl 27. Dengys yr amcangyfrifon wedi'u haddasu o'r angen ychwanegol am dai gofal ychwanegol isod. Tabl 27. Yr angen amcangyfrifedig cychwynnol am dai ymddeol/gwarchod a thai gofal ychwanegol yng Ngwynedd hyd at 2043 (yn ychwanegol at y cyflenwad presennol) (unedau)

Tabl 28. Amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol i bobl dros 65 oed yng Ngwynedd hyd at 2043 (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai ymddeol/gwarchod	336	504	789	1,073	1,341
Tai gofal ychwanegol	196	286	437	587	729

Ffynhonnell: IPSOS (2025) a HLIN (2025). Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Dangosir yr amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a thai gofal ychwanegol yn ôl deiliadaeth ar gyfer 2025, 2028, 2032, 2038 a 2043 yn Nhabl 29. Nid yw angen amcangyfrifedig yn gronnus. Mae'r angen amcangyfrifedig am dai ymddeol/gwarchod a thai gofal ychwanegol ar gyfer pawb dros 65 oed, nid dim ond y rhai sy'n manteisio ar gefnogaeth gofal cymdeithasol i oedolion gan Gyngor Gwynedd.

Tybiwyd i ddechrau bod amcangyfrifon o angen yn y dyfodol yn seiliedig ar y rhaniad deiliadaeth bresennol ymhlith pobl 65+ oed, h.y. 78% perchnogaeth cartref a 22% rhent cymdeithasol (gan gynnwys pobl sy'n byw mewn tai rhent preifat ar hyn o bryd) (Ffigwr 5). Ar y sail hon, tybir mai'r rhaniad deiliadaeth ar gyfer yr angen a ragwelir yn y dyfodol am dai ymddeol/gwarchod a thai gofal ychwanegol hyd at 2035 yw:

78% o'r angen amcangyfrifedig am dai marchnad

22% o'r angen amcangyfrifedig am dai cymdeithasol

O ystyried y dadansoddiad deiliadaeth wahanol o'r grŵp poblogaeth presennol rhwng 45 a 64 oed o'i gymharu â'r boblogaeth 65+ bresennol (h.y. lefelau is o berchnogaeth cartref ymhlith y garfan 45-64 oed), defnyddir y rhaniad deiliadaeth bresennol ar gyfer y boblogaeth 45-64 oed ar gyfer yr angen tai a ragwelir yn y dyfodol o 2035 ymlaen sef:

- Bydd 71% o'r angen amcangyfrifedig am dai marchnad
- Bydd 29% o'r angen amcangyfrifedig am dai cymdeithasol

Fodd bynnag, mae tystiolaeth mewn perthynas â fforddiadwyedd posibl deiliadaeth y farchnad o dai ymddeol a gofal ychwanegol yn dangos y dylid addasu'r rhaniadau deiliadaeth hyn o angen amcangyfrifedig yn y dyfodol ymhellach. Ym mis Rhagfyr 2025, prisiau tai cyfartalog yng Ngwynedd oedd £196,000[13]. Yn fwy penodol, mae tystiolaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn dangos mai prisiau cyfartalog ym mis Rhagfyr 2025 yng Ngwynedd ar gyfer pob math o eiddo oedd:

- Tai ar wahân: £300,000
- Tai pâr: £202,000
- Tai teras: £156,000
- Fflatiau a fflatiau deulawr (*maisonettes*): £112,000

Ar hyn o bryd, nid oes cynlluniau tai ymddeol na chynlluniau tai gofal ychwanegol ar y farchnad yng Ngwynedd. Mae gan ddatblygiad tai ymddeol McCarthy Stone, sy'n gymharol agos at Wynedd ym Menllech yn Ynys Môn, brisiau ailwerthu yn y cyfnod 2023-2024 o £185,000 i £285,000. Mae hyn yn dangos efallai na fydd perchnogion tai hŷn yng Ngwynedd sy'n meddiannu fflatiau, tai teras a thai pâr naill ai'n gallu fforddio tai ymddeol cyfatebol yn y farchnad os byddant yn cael eu datblygu yng Ngwynedd neu efallai na fyddant yn teimlo eu bod yn gallu eu fforddio.

Mae trafodaethau gyda Swyddogion y Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cadarnhau'r dystiolaeth hon, h.y. yn eu profiad nhw mae'r mwyafrif o berchnogion tai hŷn yng Ngwynedd yn annhebygol o fod mewn sefyllfa i fforddio tai ymddeol ar y farchnad a thai gofal ychwanegol; yn hytrach, lleiafrif o berchnogion tai hŷn o bosibl sydd mewn sefyllfa i allu fforddio prynu tai ymddeol ar y farchnad neu dai gofal ychwanegol.

Ar sail y dystiolaeth hon, tybir mai'r rhaniad deiliadaeth arfaethedig ar gyfer yr angen am dai ymddeol/gwarchod a thai gofal ychwanegol a ragwelir yn y dyfodol hyd at 2043 yw:

30% o'r angen amcangyfrifedig am dai marchnad

70% o'r angen amcangyfrifedig am dai cymdeithasol

Yn y cyd-destun hwn, gallai tai marchnad gynnwys gwerthu cartrefi ar y farchnad a chartrefi rhent marchnad a gallai tai cymdeithasol gynnwys cartrefi sydd ar gael ar gyfer rhent fforddiadwy neu gymdeithasol neu fel rhanberchnogaeth. Bydd ystyried rhanberchnogaeth ar gyfer pobl hŷn yn dibynnu ar ystyriaethau galw a hyfywedd lleol.

[13] https://www.ons.gov.uk/visualisations/housingpriceslocal/W06000002/

Tabl 29. Amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol ar gyfer Gwynedd yn ôl deiliadaeth hyd at 2043 (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrif edig yn 2025	Angen amcangyfrif edig erbyn 2028	Angen amcangyfrif edig erbyn 2033	Angen amcangyfrif edig erbyn 2038	Angen amcangyfrif edig erbyn 2043
Tai ymddeol/gwarchod	**336**	**504**	**789**	**1,073**	**1,341**
Tai marchnad	101	151	237	322	402
Tai cymdeithasol	235	353	553	751	939
Tai gofal ychwanegol	**196**	**286**	**437**	**587**	**729**
Tai marchnad	59	86	131	176	219
Tai cymdeithasol	138	200	306	411	510

Ffynhonnell: IPSOS a HLIN (2025), Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Yr amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod erbyn 2033 yw tua 790 o gartrefi yr amcangyfrifir y bydd angen i thua 240 ohonynt fod yn dai marchnad, ac amcangyfrifir y bydd angen i thua 550 ohonynt fod yn dai cymdeithasol.

Yr amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod erbyn 2043 yw tua 1,340 o gartrefi yr amcangyfrifir y bydd angen i 400 ohonynt fod yn dai marchnad, ac amcangyfrifir y bydd angen i thua 940 ohonynt fod yn dai cymdeithasol.

Yr amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai gofal ychwanegol erbyn 2033 yw tua 435 o gartrefi, ac amcangyfrifir y bydd angen i thua 180 ohonynt fod yn dai marchnad, ac amcangyfrifir y bydd angen i thua 305 ohonynt fod yn dai cymdeithasol.

Yr amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai gofal ychwanegol erbyn 2043 yw tua 730 o gartrefi ac amcangyfrifir y bydd angen tua 220 ohonynt fel tai marchnad, ac amcangyfrifir y bydd angen tua 510 ohonynt fel tai cymdeithasol.

Er mwyn dosbarthu'r galw amcangyfrifedig am dai ar draws is-ardaloedd Gwynedd, cafodd dull pwysoli cyfansawdd ei gymhwyso. Yn gyntaf, cyfrifwyd cyfran y boblogaeth 65+ ym mhob is-ardal gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth ONS. Yn ail, dadansoddwyd dewisiadau a fynegwyd gan ymatebwyr arolwg Cyngor Gwynedd ynglŷn â'u lleoliadau dewisol. Gan fod ymatebwyr yn gallu dewis sawl ardal, cafodd canrannau dewis eu normaleiddio i greu cyfrannau cymharol. Yna, cyfrifwyd pwysoliad cyfunol yn defnyddio cydbwysedd 70:30 rhwng dosbarthiad poblogaeth (galw demograffig) a dewisiadau arolwg (galw ymddygiadol). Cafodd y pwysau canlyniadol eu hail-raddio i gyrraedd swm 100% a'u defnyddio i ddadansoddi amcangyfrifon lefel Gwynedd i'r is-ardaloedd yn seiliedig ar leoliad.

Mae'r amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol yn ôl is-ardaloedd yn cael ei nodi yn y tablau isod

Tabl 30. Ardudwy: Amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol yn ôl deiliadaeth hyd at 2043 (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrif edig yn 2025	Angen amcangyfrif edig erbyn 2028	Angen amcangyfrif edig erbyn 2033	Angen amcangyfrif edig erbyn 2038	Angen amcangyfrif edig erbyn 2043
Tai ymddeol/gwarchod	**26**	**39**	**61**	**83**	**103**
Tai marchnad	8	12	18	25	31
Tai cymdeithasol	18	27	43	58	72
Tai gofal ychwanegol	**15**	**22**	**34**	**45**	**56**
Tai marchnad	5	7	10	14	17

Tai cymdeithasol	11	15	24	32	39

Ffynhonnell: IPSOS, ONS 2021 a HLIN (2025), Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tabl 31. Y Bala / Penllyn: Amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol yn ôl deiliadaeth hyd at 2043 (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrif edig yn 2025	Angen amcangyfrif edig erbyn 2028	Angen amcangyfrif edig erbyn 2033	Angen amcangyfrif edig erbyn 2038	Angen amcangyfrif edig erbyn 2043
Tai ymddeol/gwarchod	**9**	**13**	**21**	**28**	**35**
Tai marchnad	3	4	6	8	11
Tai cymdeithasol	6	9	15	20	25
Tai gofal ychwanegol	**5**	**8**	**11**	**15**	**19**
Tai marchnad	2	2	3	5	6
Tai cymdeithasol	4	5	8	11	13

Ffynhonnell: IPSOS, ONS 2021 a HLIN (2025), Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tabl 32. Bangor: Amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol yn ôl deiliadaeth hyd at 2043 (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrif edig yn 2025	Angen amcangyfrif edig erbyn 2028	Angen amcangyfrif edig erbyn 2033	Angen amcangyfrif edig erbyn 2038	Angen amcangyfrif edig erbyn 2043
Tai ymddeol/gwarchod	**38**	**58**	**90**	**123**	**153**
Tai marchnad	11	17	27	37	46
Tai cymdeithasol	27	40	63	86	107
Tai gofal ychwanegol	**22**	**33**	**50**	**67**	**83**
Tai marchnad	7	10	15	20	25
Tai cymdeithasol	16	23	35	47	58

Ffynhonnell: IPSOS, ONS 2021 a HLIN (2025), Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tabl 33. Caernarfon: Amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol yn ôl deiliadaeth hyd at 2043 (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrif edig yn 2025	Angen amcangyfrif edig erbyn 2028	Angen amcangyfrif edig erbyn 2033	Angen amcangyfrif edig erbyn 2038	Angen amcangyfrif edig erbyn 2043
Tai ymddeol/gwarchod	**38**	**58**	**90**	**123**	**153**
Tai marchnad	12	17	27	37	46
Tai cymdeithasol	27	40	63	86	107
Tai gofal ychwanegol	**22**	**33**	**50**	**67**	**83**
Tai marchnad	7	10	15	20	25
Tai cymdeithasol	16	23	35	47	58

Ffynhonnell: IPSOS, ONS 2021 a HLIN (2025), Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tabl 34. Dolgellau: Amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol yn ôl deiliadaeth hyd at 2043 (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrif edig yn 2025	Angen amcangyfrif edig erbyn 2028	Angen amcangyfrif edig erbyn 2033	Angen amcangyfrif edig erbyn 2038	Angen amcangyfrif edig erbyn 2043
Tai ymddeol/gwarchod	**26**	**39**	**60**	**82**	**103**
Tai marchnad	8	12	18	25	31
Tai cymdeithasol	18	27	42	58	72
Tai gofal ychwanegol	**15**	**22**	**33**	**45**	**56**

Tai marchnad	5	7	10	13	17
Tai cymdeithasol	11	15	23	31	39

Ffynhonnell: IPSOS, ONS 2021 a HLIN (2025), Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tabl 35. Dysynni: Amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol yn ôl deiliadaeth hyd at 2043 (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai ymddeol/gwarchod	**31**	**47**	**73**	**99**	**124**
Tai marchnad	9	14	22	30	37
Tai cymdeithasol	22	33	51	70	87
Tai gofal ychwanegol	**18**	**26**	**40**	**54**	**68**
Tai marchnad	5	8	12	16	20
Tai cymdeithasol	13	19	28	38	47

Ffynhonnell: IPSOS, ONS 2021 a HLIN (2025), Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tabl 36. Ffestiniog: Amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol yn ôl deiliadaeth hyd at 2043 (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai ymddeol/gwarchod	**12**	**18**	**28**	**38**	**47**
Tai marchnad	4	5	8	11	14
Tai cymdeithasol	8	12	19	26	33
Tai gofal ychwanegol	**7**	**10**	**15**	**21**	**26**
Tai marchnad	2	3	5	6	8
Tai cymdeithasol	5	7	11	14	18

Ffynhonnell: IPSOS, ONS 2021 a HLIN (2025), Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tabl 37. Lleu / Nantlle: Amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol yn ôl deiliadaeth hyd at 2043 (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai ymddeol/gwarchod	**26**	**39**	**61**	**83**	**103**
Tai marchnad	8	12	18	25	31
Tai cymdeithasol	18	27	42	58	72
Tai gofal ychwanegol	**15**	**22**	**34**	**45**	**56**
Tai marchnad	5	7	10	14	17
Tai cymdeithasol	11	15	24	32	39

Ffynhonnell: IPSOS, ONS 2021 a HLIN (2025), Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tabl 38. Ogwen: Amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol yn ôl deiliadaeth hyd at 2043 (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai ymddeol/gwarchod	**18**	**27**	**42**	**56**	**71**
Tai marchnad	5	8	12	17	21
Tai cymdeithasol	12	19	29	40	49

Tai gofal ychwanegol	**10**	**15**	**23**	**31**	**38**
Tai marchnad	3	5	7	9	12
Tai cymdeithasol	7	11	16	22	27

Ffynhonnell: IPSOS, ONS 2021 a HLIN (2025), Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tabl 39. Pen Llŷn: Amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol yn ôl deiliadaeth hyd at 2043 (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai ymddeol/gwarchod	**24**	**36**	**57**	**77**	**96**
Tai marchnad	7	11	17	23	29
Tai cymdeithasol	17	25	40	54	67
Tai gofal ychwanegol	**14**	**21**	**31**	**42**	**52**
Tai marchnad	4	6	9	13	16
Tai cymdeithasol	10	14	22	30	37

Ffynhonnell: IPSOS, ONS 2021 a HLIN (2025), Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tabl 40. Peris: Amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol yn ôl deiliadaeth hyd at 2043 (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai ymddeol/gwarchod	**26**	**38**	**60**	**82**	**102**
Tai marchnad	8	11	18	24	31
Tai cymdeithasol	18	27	42	57	71
Tai gofal ychwanegol	**15**	**22**	**33**	**45**	**55**
Tai marchnad	4	7	10	13	17
Tai cymdeithasol	10	15	23	31	39

Ffynhonnell: IPSOS, ONS 2021 a HLIN (2025), Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tabl 41. Porthmadog / Penrhyndeudraeth: Amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol yn ôl deiliadaeth hyd at 2043 (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai ymddeol/gwarchod	**36**	**54**	**85**	**116**	**145**
Tai marchnad	11	16	26	35	43
Tai cymdeithasol	25	38	60	81	101
Tai gofal ychwanegol	**21**	**31**	**47**	**63**	**79**
Tai marchnad	6	9	14	19	24
Tai cymdeithasol	15	22	33	44	55

Ffynhonnell: IPSOS, ONS 2021 a HLIN (2025), Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tabl 42. Pwllheli: Amcangyfrif o'r angen ychwanegol am dai ymddeol/gwarchod a gofal ychwanegol yn ôl deiliadaeth hyd at 2043 (unedau)

Math o dai arbenigol	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai ymddeol/gwarchod	**26**	**39**	**62**	**84**	**105**
Tai marchnad	8	12	19	25	32

Tai cymdeithasol	18	28	43	59	74
Tai gofal ychwanegol	**15**	**22**	**34**	**46**	**57**
Tai marchnad	5	7	10	14	17
Tai cymdeithasol	11	16	24	32	40

Ffynhonnell: IPSOS, ONS 2021 a HLIN (2025), Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Amcangyfrif o'r angen am dai hygyrch i bobl hŷn

Mae'r amcangyfrif o'r angen ychwanegol am gartrefi hygyrch i bobl hŷn (65+), h.y. tai sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion pobl anabl a phobl hŷn (ond nad ydynt ar gyfer oedran penodol), e.e. wedi'u cynllunio i safonau Cartrefi Oes a/neu safon hygyrchedd M4(2) (sydd ar wahân i'r amcangyfrifon uchod ar gyfer tai gwarchod a thai gofal ychwanegol), yn seiliedig ar y model 'tebygolrwydd newid' sy'n deillio o dystiolaeth arolwg Ipsos a ddengys yn Nhabl 26. Tabl 26. Amcangyfrif 'Tebygolrwydd Newid' o symudiadau (angen) i wahanol fathau o dai ymhlith poblogaeth 65+ Gwynedd hyd at 2043

Yn seiliedig ar y modelu hwn, amcangyfrifir y bydd angen cartrefi hygyrch ar oddeutu 3,730 o bobl 65 oed a hŷn erbyn 2043.

Tabl 43. Amcangyfrif o'r angen am gartrefi hygyrch yng Ngwynedd hyd at 2043 (pobl 65+)

Math o dai	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai hygyrch	1,088	1,532	2,301	3,052	3,732

Ffynhonnell: Ipsos (2024/5), Housing LIN (2024/25).
DS. Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Mae'r un rhagdybiaethau deiliadaeth a ddisgrifir uchod (gweler paragraffau 6.25 i 6.31) wedi'u cymhwyso wrth amcangyfrif y galw am dai hygyrch. Ar y sail hon, tybir y bydd 30% o'r angen amcangyfrifedig ar gyfer tai marchnad a 70% ar gyfer tai cymdeithasol.

Tabl 44. Amcangyfrif o'r angen am gartrefi hygyrch yng Ngwynedd yn ôl deiliadaeth (pobl 65+)

Math o dai / llety	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai hygyrch	**1,088**	**1,532**	**2,301**	**3,052**	**3,732**
Tai marchnad	326	460	690	916	1,120
Tai cymdeithasol	761	1,073	1,610	2,136	2,613

Ffynhonnell: Ipsos (2024/5), Housing LIN (2024/25). DS. Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Mae'r angen amcangyfrifedig yn cael ei ddadansoddi i is-ardal yn seiliedig ar leoliad yn dilyn y pwysiad cyfunol rhwng y boblogaeth a dewisiadau arolwg Cyngor Gwynedd (gweler paragraff 6.36)0

Tabl 45. Amcangyfrif o'r angen am gartrefi hygyrch yng Ngwynedd yn ôl is-ardalhyd at 2043 (pobl 65+)

Is-ardal yn seiliedig ar leoliad	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Ardudwy	84	118	177	235	288
Y Bala / Penllyn	29	40	61	80	98
Bangor	124	175	263	349	426
Caernarfon	124	175	263	349	427

Is-ardal yn seiliedig ar leoliad	Angen amcangyfrifed ig yn 2025	Angen amcangyfrifed ig erbyn 2028	Angen amcangyfrifed ig erbyn 2033	Angen amcangyfrifed ig erbyn 2038	Angen amcangyfrifed ig erbyn 2043
Dolgellau	83	117	176	234	286
Dysynni	101	142	213	283	346
Ffestiniog	38	54	81	107	131
Lleu / Nantlle	84	118	177	235	287
Ogwen	57	81	121	161	196
Pen Llŷn	78	110	165	219	268
Peris	83	116	175	232	284
Porthmadog / Penrhyndeudraeth	117	165	248	330	403
Pwllheli	85	120	180	239	292
Gwynedd	**1,088**	**1,532**	**2,301**	**3,052**	**3,732**

Ffynhonnell: Ipsos (2024/5), Housing LIN (2024/25). DS. Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tabl 46. Amcangyfrif o'r angen am gartrefi hygyrch yng Ngwynedd yn ôl is-ardal a deiliadaeth hyd at 2043 (pobl 65+)

Is-ardal yn seiliedig ar leoliad	Gwerthiant marchnad					Tai cymdeithasol				
	2025	2028	2033	2038	2043	2025	2028	2033	2038	2043
Ardudwy	25	35	53	71	86	59	83	124	165	201
Y Bala / Penllyn	9	12	18	24	29	20	28	42	56	69
Bangor	37	53	79	105	128	87	123	184	244	298
Caernarfon	37	53	79	105	128	87	123	184	244	299
Dolgellau	25	35	53	70	86	58	82	123	164	200
Dysynni	30	43	64	85	104	71	99	149	198	242
Ffestiniog	11	16	24	32	39	27	38	57	75	92
Lleu / Nantlle	25	35	53	70	86	59	82	124	164	201
Ogwen	17	24	36	48	59	40	56	85	112	137
Pen Llŷn	23	33	50	66	80	55	77	116	153	188
Peris	25	35	52	70	85	58	82	122	162	199
Porthmadog / Penrhyndeudraeth	35	50	75	99	121	82	116	174	231	282
Pwllheli	26	36	54	72	88	60	84	126	167	205
Gwynedd	**326**	**460**	**690**	**916**	**1,120**	**761**	**1,073**	**1,610**	**2,136**	**2,613**

Ffynhonnell: Ipsos (2024/5), Housing LIN (2024/25). DS. Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Amcangyfrif o'r angen am dai hygyrch ar gyfer oedran penodol (is-set o'r angen amcangyfrifedig am dai hygyrch)

Y waelodlin ar gyfer amcangyfrif yr angen am dai ar gyfer oedran penodol yw'r model tebygolrwydd newid sy'n deillio o dystiolaeth arolwg Ipsos (gweler Tabl 26), sy'n amcangyfrif nifer yr aelwydydd 65+ oed sydd angen cartrefi sydd wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch. Mae'r amcangyfrifon hyn yn cynrychioli'r angen posibl am dai hygyrch ymhlith aelwydydd hŷn yng Ngwynedd. Mae hyn yn wahanol ac ar wahân i'r angen amcangyfrifedig am dai arbenigol fel tai gwarchod/ymddeol a thai gofal ychwanegol.

Er mwyn amcangyfrif cyfran yr aelwydydd hyn a allai fod angen *tai hygyrch ar gyfer oedran penodol* (e.e. llety wedi'i gyfyngu i breswylwyr 55+ neu 60+ oed), dadansoddwyd ymatebion o arolwg preswylwyr Cyngor Gwynedd (gweler Ffigwr 16). Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr am ffactorau sy'n dylanwadu ar symudiad posibl, gan gynnwys hygyrchedd, symud i dŷ llai,

fforddiadwyedd, agosrwydd at fwynderau, a dewisiadau ar gyfer tai wedi'u cyfyngu i oedran penodol neu dai gyda gofal neu gefnogaeth. Ymhlith ymatebwyr 65+ oed, nododd 26% y byddai symud i dai wedi'u cyfyngu i oedran penodol yn ffactor sy'n dylanwadu ar eu penderfyniad i symud. Gwelwyd cyfran debyg wrth ddadansoddi ymatebion ar gyfer pobl 50 oed a hŷn, gyda thua 27% yn nodi tai ar gyfer oedran penodol fel ffactor sy'n dylanwadu ar symudiad.

Gan fod ymatebwyr yn gallu dewis sawl ffactor, mae'r ganran hon yn cynrychioli'r gyfran sy'n mynegi diddordeb mewn tai ar gyfer oedran penodol yn hytrach na dewis unigryw ac felly dylid ei ddehongli fel arwydd o angen posibl.

Ar y sail hon, tybir y gallai tua 25% o bobl hŷn sydd angen cartrefi hygyrch angen tai hygyrch ar gyfer oedran penodol. Mae'r gyfran hon wedi'i chymhwyso i'r angen amcangyfrifedig am gartrefi hygyrch sy'n deillio o'r model tebygolrwydd newid i gynhyrchu amcangyfrif o'r galw am dai hygyrch ar gyfer oedran penodol dros gyfnod yr amcanestyniad.

Tabl 47. Amcangyfrif o'r angen am dai hygyrch ar gyfer oedran penodol yng Ngwynedd hyd at 2043

Mathau/sefyllfaoedd tai	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai hygyrch ar gyfer oedran penodol	272	383	575	763	933

Ffynhonnell: Ipsos (2024/5), Housing LIN (2024/25).
DS. Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Mae'r un rhagdybiaethau deiliadaeth a ddisgrifir uchod (gweler paragraffau 6.25 i 6.31) wedi'u cymhwyso wrth amcangyfrif yr angen am dai hygyrch. Ar y sail hon, tybir y bydd 30% o'r angen amcangyfrifedig ar gyfer tai marchnad a 70% ar gyfer tai cymdeithasol.

Tabl 48. Amcangyfrif o'r angen am dai hygyrch ar gyfer oedran penodol yng Ngwynedd yn ôl deiliadaeth hyd at 2043

Math o dai	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai hygyrch ar gyfer oedran penodol	**272**	**383**	**575**	**763**	**933**
Tai marchnad	82	115	173	229	280
Tai cymdeithasol	190	268	403	534	653

Ffynhonnell: Ipsos (2024/5), Housing LIN (2024/25). DS. Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Mae'r angen amcangyfrifedig yn cael ei ddadansoddi i is-ardal yn seiliedig ar leoliad yn dilyn y pwysiad cyfunol rhwng y boblogaeth a dewisiadau arolwg (gweler paragraff 6.36)0

Tabl 49. Amcangyfrif o'r angen am dai hygyrch ar gyfer oedran penodol yng Ngwynedd yn ôl is-ardal hyd at 2043

Is-ardal yn seiliedig ar leoliad	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Ardudwy	21	30	44	59	72
Y Bala / Penllyn	7	10	15	20	25
Bangor	31	44	66	87	107
Caernarfon	31	44	66	87	107
Dolgellau	21	29	44	58	71
Dysynni	25	36	53	71	87

Is-ardal yn seiliedig ar leoliad	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Ffestiniog	10	13	20	27	33
Lleu / Nantlle	21	29	44	59	72
Ogwen	14	20	30	40	49
Pen Llŷn	20	28	41	55	67
Peris	21	29	44	58	71
Porthmadog / Penrhyndeudraeth	29	41	62	82	101
Pwllheli	21	30	45	60	73
Gwynedd	**272**	**383**	**575**	**763**	**933**

Ipsos (2024/5), Housing LIN (2024/25). DS. Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tabl 50. Amcangyfrif o'r angen am dai hygyrch ar gyfer oedran penodol yng Ngwynedd yn ôl is-ardal a deiliadaeth hyd at 2043

Is-ardal yn seiliedig ar leoliad	Gwerthiant marchnad					Tai cymdeithasol				
	2025	2028	2033	2038	2043	2025	2028	2033	2038	2043
Ardudwy	6	9	13	18	22	15	21	31	41	50
Y Bala / Penllyn	2	3	5	6	7	5	7	11	14	17
Bangor	9	13	20	26	32	22	31	46	61	75
Caernarfon	9	13	20	26	32	22	31	46	61	75
Dolgellau	6	9	13	18	21	15	21	31	41	50
Dysynni	8	11	16	21	26	18	25	37	50	61
Ffestiniog	3	4	6	8	10	7	9	14	19	23
Lleu / Nantlle	6	9	13	18	22	15	21	31	41	50
Ogwen	4	6	9	12	15	10	14	21	28	34
Pen Llŷn	6	8	12	16	20	14	19	29	38	47
Peris	6	9	13	17	21	14	20	31	41	50
Porthmadog / Penrhyndeudraeth	9	12	19	25	30	21	29	43	58	71
Pwllheli	6	9	14	18	22	15	21	32	42	51
Gwynedd	**82**	**115**	**173**	**229**	**280**	**190**	**268**	**403**	**534**	**653**

Ffynhonnell: Ipsos (2024/5), Housing LIN (2024/25). DS. Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

O ganlyniad, gellir dehongli'r galw amcangyfrifedig am dai hygyrch fel un sy'n cynnwys dwy elfen wahanol. O gyfanswm yr angen amcangyfrifedig am 3,732 o gartrefi hygyrch i bobl hŷn erbyn 2043, amcangyfrifir y bydd tua 933 o gartrefi (tua 25%) yn dai hygyrch ar gyfer oedran penodol, tra bydd tua 2,799 cartrefi sy'n weddill (tua 75%) yn debygol o fod yn gartrefi prif ffrwd hygyrch nad ydynt ar gyfer oedran penodol.

Tabl 51. Amcangyfrif o'r angen am gartrefi hygyrch (nad ydynt ar gyfer oedran penodol) yng Ngwynedd yn ôl deiliadaeth (pobl 65+)

Math o dai / llety	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai hygyrch	**816**	**1,149**	**1,726**	**2,289**	**2,799**
Tai marchnad	245	345	518	687	840
Tai cymdeithasol	571	805	1,208	1,602	1,959

Ffynhonnell: Ipsos (2024/5), Housing LIN (2024/25). DS. Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Mae'r angen amcangyfrifedig yn cael ei ddadansoddi i is-ardal yn seiliedig ar leoliad yn dilyn y pwysiad cyfunol rhwng y boblogaeth a dewisiadau arolwg Cyngor Gwynedd (gweler paragraff 6.36)0

Tabl 52. Amcangyfrif o'r angen am gartrefi hygyrch yng Ngwynedd yn ôl is-ardaloedd hyd at 2043 (pobl 65+)

Is-ardal yn seiliedig ar leoliad	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Ardudwy	63	89	133	176	216
Y Bala / Penllyn	21	30	45	60	74
Bangor	93	131	197	261	320
Caernarfon	93	131	197	262	320
Dolgellau	62	88	132	175	214
Dysynni	76	107	160	212	259
Ffestiniog	29	40	61	81	99
Lleu / Nantlle	63	88	133	176	215
Ogwen	43	60	91	120	147
Pen Llŷn	59	83	124	164	201
Peris	62	87	131	174	213
Porthmadog / Penrhyndeudraeth	88	124	186	247	302
Pwllheli	64	90	135	179	219
Gwynedd	**816**	**1,149**	**1,726**	**2,289**	**2,799**

Ffynhonnell: Ipsos (2024/5), Housing LIN (2024/25). DS. Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tabl 53. Amcangyfrif o'r angen am gartrefi hygyrch yng Ngwynedd yn ôl is-ardal a deiliadaeth hyd at 2043 (pobl 65+)

Is-ardal yn seiliedig ar leoliad	Gwerthiant marchnad					Tai cymdeithasol				
	2025	2028	2033	2038	2043	2025	2028	2033	2038	2043
Ardudwy	19	27	40	53	65	44	62	93	123	151
Y Bala / Penllyn	6	9	14	18	22	15	21	32	42	52
Bangor	28	39	59	78	96	65	92	138	183	224
Caernarfon	28	39	59	78	96	65	92	138	183	224
Dolgellau	19	26	40	53	64	44	62	93	123	150
Dysynni	23	32	48	64	78	53	75	112	149	182
Ffestiniog	9	12	18	24	30	20	28	43	56	69
Lleu / Nantlle	19	27	40	53	65	44	62	93	123	151
Ogwen	13	18	27	36	44	30	42	64	84	103
Pen Llŷn	18	25	37	49	60	41	58	87	115	141
Peris	19	26	39	52	64	43	61	92	122	149
Porthmadog / Penrhyndeudraeth	26	37	56	74	91	62	87	130	173	212
Pwllheli	19	27	41	54	66	45	63	95	125	153
Gwynedd	**245**	**345**	**518**	**687**	**840**	**571**	**805**	**1,208**	**1,602**	**1,959**

Ffynhonnell: Ipsos (2024/5), Housing LIN (2024/25). DS. Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Amcangyfrif o ofynion capasiti cartrefi gofal ar gyfer pobl 65+

Mae'r rhan hon o'r asesiad yn ymdrin â'r angen amcangyfrifedig am gapasiti cartrefi gofal i bobl hŷn (65+ oed).

Mae'n tynnu ar dystiolaeth mewn perthynas â'r:

Cyflenwad presennol o ddarpariaeth gofal preswyl a chartrefi gofal nyrsio i bobl hŷn (65+) yng Ngwynedd

Defnydd cyfredol o'r capasiti cartref gofal 65+ hwn

Defnydd Cyngor Gwynedd o'r capasiti cartref gofal hwn

Rhagamcanion demograffig o'r boblogaeth 65+ hyd at 2043

Tystiolaeth a gwybodaeth arbenigol gan Swyddogion y Cyngor am y farchnad cartrefi gofal lleol a thueddiadau tebygol yn yr angen am welyau mewn cartrefi gofal yn y dyfodol

Cyflenwad o gartrefi gofal i bobl 65+


Er mwyn nodi capasiti cartrefi gofal yng Ngwynedd, darparwyd data darpariaeth cartrefi gofal gan Gyngor Gwynedd gan gynnwys data tracio capasiti gofal lleol. Mae'r mathau o gartrefi gofal yn cynnwys:

Cartref gofal preswyl sy'n darparu llety, prydau bwyd, gweithgareddau lles a chefnogaeth i nifer o bobl, gyda mynediad at ofal personol a chymorth 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Gall gweithgareddau gofal personol gynnwys cymorth gyda golchi, gwisgo, cymryd meddyginiaethau, mynd i'r toiled ac ati.

Cartref gofal nyrsio[14] yn debyg i gartref gofal preswyl ond hefyd yn darparu gofal gan nyrsys cymwysedig. Bydd bob amser un neu fwy o nyrsys cymwys ar ddyletswydd i ddarparu gofal nyrsio. Gelwir y rhain weithiau'n 'gartrefi gofal gyda nyrsio'.

Mae cyfanswm o 994 o welyau cartrefi gofal yng Ngwynedd y mae Cyngor Gwynedd wedi'u categoreiddio fel rhai ar gyfer pobl hŷn (65+). Mae hyn yn cynnwys gwelyau cartrefi gofal preswyl a nyrsio. O'r rhain, mae 52% yn welyau gofal preswyl a 48% yn welyau gofal nyrsio.

Ffigwr 18. Cyflenwad o welyau cartrefi gofal yng Ngwynedd



Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd (2025)

Caernarfon sy'n cynnwys y nifer fwyaf o ddarpariaeth, gyda 388 o ofod gwelyau (39% o gyfanswm y sir), gan gynnwys 162 o welyau gofal nyrsio a 226 o welyau gofal preswyl.


[14] GIG: Cartrefi gofal

Porthmadog/Penrhyndeudraeth sydd â'r ail gyflenwad mwyaf, gyda 222 o ofod gwelyau (22% o'r cyfanswm). Dyma'r ardal sydd â'r crynodiad uchaf o ddarpariaeth gofal nyrsio yn y sir, sy'n cyfrif am 181 o welyau nyrsio, sy'n cyfateb i thua 38% o'r holl gapasiti gofal nyrsio yng Ngwynedd.

Mae'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd sy'n weddill yn fwy cyfyngedig. Mae Bangor yn darparu 106 o ofod gwelyau, y mwyafrif ohonynt yn welyau gofal nyrsio (78), tra bod Pen Llŷn yn cynnig 50 o welyau preswyl a dim darpariaeth gofal nyrsio. Yn yr un modd, mae Pwllheli yn cynnwys 45 o welyau gofal preswyl a dim capasiti nyrsio.


Yn rhannau deheuol y sir, mae'r cyflenwad yn gymharol gymedrol. Mae Dysynni yn darparu 93 o ofod gwelyau, gan gynnwys 55 o welyau nyrsio a 38 o welyau preswyl, tra bod Dolgellau ac Ogwen yn cynnwys darpariaeth breswyl yn unig, gyda 52 a 27 o welyau yn y drefn honno. Y Bala/Penllyn sydd â'r cyflenwad cyffredinol lleiaf, gyda dim ond 11 o welyau gofal preswyl.

Ffigwr 19. Cyflenwad o welyau cartrefi gofal yng Ngwynedd yn ôl is-ardal



Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd (2025)

Ffigwr 20. Map o gyflenwad gwelyau cartrefi gofal yng Ngwynedd



Ffynhonnell: My Maps, HLIN

Tueddiadau mewn pobl hŷn 65+ oed sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio sy'n gymwys i gael gofal cymdeithasol oedolion (ASC) gan Gyngor Gwynedd


Mae dadansoddiad o dueddiadau mewn lleoliadau ar gyfer pobl 65+ oed mewn gofal preswyl a nyrsio yng Ngwynedd rhwng 2020/21 a 2024/25 yn dangos:

Mae lleoliadau gofal preswyl wedi aros yn sefydlog yn fras dros y cyfnod o bum mlynedd. Roedd 520 o leoliadau yn 2020/21 a chynyddodd ychydig i 535 yn 2024/25, sy'n cynrychioli cynnydd cyffredinol o 2.9%. Cofnodwyd y lefel uchaf o leoliadau yn 2022/23 (528), ac yna gostyngiad yn 2023/24 (500), cyn cynyddu eto yn 2024/25.

Dengys yn fwy amlwg bod lleoliadau gofal nyrsio yn symud i'r cyfeiriad cywir. Cynyddodd y lleoliadau o 174 yn 2020/21 i 234 yn 2024/25, sy'n cynrychioli cynnydd cyffredinol o 34% dros y cyfnod. Digwyddodd y twf mwyaf arwyddocaol rhwng 2022/23 a 2023/24, pan gododd lleoliadau o 188 i 233 (cynnydd o 24% mewn un flwyddyn). Parhaodd twf yn fwy cymedrol yn 2024/25.

O'u cyfuno, cynyddodd cyfanswm y lleoliadau preswyl a nyrsio ar gyfer pobl 65+ oed o 694 yn 2020/21 i 769 yn 2024/25. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd cyffredinol o 11%. Mae'r twf hwn wedi'i yrru'n bennaf gan gynnydd mewn lleoliadau mewn gofal nyrsio yn hytrach na gofal preswyl. Mae'r patrwm hwn yn awgrymu newid ym mhroffil yr angen ymhlith pobl hŷn a gefnogir gan Gyngor Gwynedd, gyda chyfran gynyddol yn gofyn am ymyraethau iechyd a gofal mwy cymhleth sy'n gyson â darpariaeth gofal nyrsio.

Ffigwr 21. Tueddiadau mewn lleoliadau cartrefi gofal



Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd (2025)

Amcangyfrif o'r angen am le mewn cartrefi gofal yn y dyfodol ar gyfer pobl 65+ hyd 2043

Mae ystod o dystiolaeth a data wedi'i dadansoddi a'i defnyddio i gynhyrchu amcangyfrifon o'r angen am gapasiti cartrefi gofal i bobl 65+ yng Ngwynedd yn y dyfodol dros y cyfnod hyd at 2043.

Mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn cynnwys:

- Cyflenwad cyfredol o welyau cartrefi gofal ar gyfer capasiti pobl 65+ yng Ngwynedd
- Tystiolaeth gan Swyddogion y Cyngor sy'n wybodus am y farchnad cartrefi gofal yng Ngwynedd
- Tystiolaeth o gyfrifiad diweddaraf ONS mewn perthynas â chyfran y bobl hŷn (65+) sydd fel arfer yn byw mewn cartrefi gofal
- Tystiolaeth o ddata tracio capasiti cartrefi gofal lleol y GIG/Cyngor Gwynedd mewn perthynas â lefelau defnydd gwirioneddol mewn cartrefi gofal i bobl 65+ yng Ngwynedd

Y dull a ddefnyddir ar gyfer asesu angen am gapasiti gwelyau cartrefi gofal yn y dyfodol yw:

- Defnyddio data mewn perthynas â'r ganran bresennol o bobl 65+ oed sydd fel arfer yn preswylio mewn cartrefi gofal o gyfrifiad ONS 2021[15]
- Dadansoddi data ar bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn ôl y grwpiau poblogaeth isod: 65-74 oed; 75-84 oed; 85+ oed
- Cymhwyso'r dystiolaeth hon o ganran y bobl hŷn o'r grwpiau poblogaeth hyn sy'n byw mewn cartrefi gofal i'r rhagamcaniad poblogaeth ar gyfer y carfanau oedran hyn yng Ngwynedd dros y cyfnod hyd at 2043
- Net o ofynion capasiti gwelyau gofal amcangyfrifedig yn y dyfodol, capasiti gwelyau gofal presennol

[15]ONS 2021; https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/ageing/articles/olderpeoplelivingincarehomesin2021andchangessince2011/2023-10-09

Gwneud yr addasiadau isod i'r amcangyfrifon o'r angen am gapasiti gwelyau cartrefi gofal ar gyfer pobl 65+ lleol i Wynedd (*yn seiliedig ar ragdybiaethau a wiriwyd gyda Swyddogion y Cyngor)*

Ystyried a chymhwyso gwybodaeth Swyddog Cyngor Gwynedd/rhanddeiliaid o'r farchnad cartrefi gofal (65+) yng Ngwynedd

Yn seiliedig ar ddosbarthiad cyfredol cyfanswm gwelyau cartrefi gofal rhwng gwelyau cartrefi gofal preswyl a nyrsio, gan dynnu ar wybodaeth Swyddogion y Cyngor a thueddiadau yn anghenion gofal pobl hŷn, cymhwyso rhagdybiaethau am y duedd debygol o angen yn y dyfodol rhwng darpariaeth gofal preswyl a darpariaeth gofal nyrsio

Gwneud addasiad(au) mewn perthynas â lleoliadau mewn cartrefi gofal yng Ngwynedd gan awdurdodau lleol eraill

Gwneud addasiad(au) fel bod modd cau cartrefi gofal fel y disgwylir dros y 10-15 mlynedd nesaf

Triongli amcangyfrifon cychwynnol o'r angen am welyau gofal preswyl a gwelyau gofal nyrsio gyda thystiolaeth o ddata tracio capasiti lleol y GIG/Cyngor Gwynedd ynghylch lefelau defnydd gwirioneddol mewn cartrefi gofal i bobl 65+ yng Ngwynedd

Gwneud addasiad(au) (os yw'n briodol) er mwyn cael ystafelloedd cartrefi gofal heb gyfleusterau en-suite llawn

Defnydd presennol o gapasiti gwelyau cartrefi gofal

Mae'r traciwr capasiti gwelyau cartrefi gofal yn darparu gwybodaeth amser real am y defnydd o gapasiti gwelyau mewn marchnadoedd cartrefi gofal lleol. Mae'r dystiolaeth a'r wybodaeth hon ar gael i'r GIG a'r cynghorau ond nid ydynt ar gael i'r cyhoedd.

Y dystiolaeth o'r data tracio capasiti ar gyfer y farchnad cartrefi gofal yng Ngwynedd ar gyfer 2022 i 2025 yw bod tua 93% o'r gwelyau sydd ar gael ar gyfartaledd yn cael eu meddiannu ar unrhyw adeg benodol yn y farchnad cartrefi gofal 65+ lleol. Nid yw cyfraddau llefydd gwag yn gyson ar draws pob cartref gofal ac mae amrywiad yn amlwg rhwng darpariaeth breswyl a nyrsio.

Yng nghyd-destun nifer cyffredinol y gwelyau ym marchnad cartrefi gofal Gwynedd, mae hyn yn awgrymu cyfradd tan-ddefnydd o tua 7%. Fodd bynnag, yn seiliedig ar brofiad yr Housing LIN o gynnal asesiadau tebyg o'r angen am gapasiti cartrefi gofal 65+ ar gyfer awdurdodau lleol eraill, tybir ei bod yn angenrheidiol i'r 'system' cartrefi gofal lleol gael rhywfaint o gapasiti ar gael, er enghraifft i reoli cynnydd yn y galw yn ystod cyfnod 'pwysau'r gaeaf' ysbytai, dyweder o 5%. Ar y sail hon, nid yw'n ymddangos bod capasiti cartrefi gofal 65+ yn cael ei danddefnyddio'n sylweddol. Mae hyn yn awgrymu sgôp cyfyngedig ar gyfer diwallu'r galw ymhellach heb gapasiti ychwanegol, newidiadau i'r lefel a'r math o anghenion gofal y bydd gweithredwyr cartrefi gofal presennol yn eu darparu a/neu newidiadau yn y llif trwy'r system.

Ar gyfer gofal preswyl, mae tystiolaeth tracio capasiti yn dangos defnydd cyfartalog o oddeutu 91% ar draws y cyfnod rhwng 2022-2025. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd tan-ddefnydd o oddeutu 9% o'r gwelyau preswyl sydd ar gael. Er mwyn caniatáu ar gyfer gofyniad y system leol o gapasiti sbâr o thua 5% i reoli amrywiadau yn y galw, awgryma hyn fod y farchnad yn gweithredu tua 4% yn is na'r cydbwysedd hwn (h.y. mae'r cyflenwad a'r galw, o leiaf o ran capasiti gwelyau – nid o reidrwydd y math o welyau – yn gymharol gytbwys).

Ar gyfer gofal nyrsio, roedd defnydd cyfartalog yn uwch, tua 96% ar draws y cyfnod. 2022-2025. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd tan-ddefnydd o thua 4%. Ar ôl ystyried yr amcangyfrif o 'fyffer' 5% sy'n ofynnol ar gyfer hyblygrwydd y system leol, mae hyn yn awgrymu nad oes digon o gapasiti gwelyau gofal nyrsio ar hyn o bryd i ddiwallu'r galw.

Gwybodaeth Swyddog y Cyngor/rhanddeiliaid o'r farchnad cartrefi gofal (65+)

Mae tystiolaeth a gwybodaeth gan Swyddogion Cyngor Gwynedd sy'n prynu gwelyau cartrefi gofal ar ran y Cyngor ac sy'n cefnogi pobl sy'n ariannu eu hunain i brynu gwelyau cartrefi gofal yn nodi'r isod.

Stoc cartrefi gofal i bobl 65+

Mae llawer o'r stoc cartrefi gofal ar gyfer pobl 65+ oed yn cynnwys eiddo hŷn, wedi'u haddasu.

Mae llawer o'r eiddo hŷn sydd wedi'u trosi yn y gorffennol i'w defnyddio fel cartrefi gofal yn fwyfwy anaddas i'r diben o ddarparu ar gyfer pobl hŷn ag anghenion symudedd a gofal/iechyd sylweddol.

Mae'r rhan fwyaf o'r farchnad cartrefi gofal yng Ngwynedd ar gyfer pobl 65+ oed yn cael ei weithredu gan fusnesau llai.

Mae llai o weithredwyr cartrefi gofal mwy a rhanbarthol/cenedlaethol yn rhedeg ac yn datblygu cartrefi gofal i bobl 65+ yng Ngwynedd.

Mae tua hanner y farchnad (tua 330 o welyau) yn cael ei chyflenwi'n fewnol gan Gyngor Gwynedd. Mae pob un yn wely preswyl ar hyn o bryd.

Proffil angen pobl hŷn sy'n defnyddio cartrefi gofal

Mae diffyg yn y farchnad cartrefi gofal presennol mewn perthynas â darparu ar gyfer pobl 65+ ag anghenion gofal ac iechyd mwy cymhleth, gan gynnwys anghenion sy'n gysylltiedig â dementia. Mae anghenion cymhleth eraill sy'n anodd i lawer o weithredwyr cartrefi gofal eu diwallu ar hyn o bryd yn cynnwys:

Anghenion iechyd meddwl

Anghenion sy'n gysylltiedig â chyffuriau/alcohol

Anaf i'r ymennydd

Anghenion bariatrig

Mae'r angen pennaf am welyau gofal preswyl a nyrsio ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal ac iechyd cymhleth sy'n gysylltiedig â dementia, bregusrwydd a chyflyrau hirdymor.

Darparu cyfleusterau en-suite llawn

Nid oes gan rai o'r stoc cartrefi gofal hŷn, sy'n deillio o drosi eiddo presennol, gyfleusterau en-suite llawn (ac maent yn annhebygol o allu cyflwyno'r cyfleusterau hyn yn aml oherwydd cyfyngiadau lle).

Mae Swyddogion Cyngor Gwynedd yn nodi y bydd rhai o'r cartrefi hyn yn cau o ganlyniad, er enghraifft, perchnogion yn ymddeol, ond bydd cartrefi gofal eraill heb gyfleusterau en-suite llawn yn parhau i fod ar waith a byddant yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r farchnad cartrefi gofal, sy'n aml yn fwy fforddiadwy.

Er mwyn ymdrin â'r materion hyn (uchod), o ran capasiti gwelyau cartrefi gofal cyfredol ac ychwanegol:

- Dylid ei dargedu at bobl hŷn sy'n byw gydag anghenion gofal cymhleth sy'n gysylltiedig â dementia ac ar gyfer pobl ag anghenion iechyd a gofal cymhleth eraill
- Bydd angen iddo, mewn perthynas â gwelyau gofal nyrsio a gwelyau gofal preswyl, fod ar gyfer pobl hŷn sydd â'r anghenion gofal ac iechyd mwyaf cymhleth
- Dylai fod yn fforddiadwy er mwyn galluogi'r Cyngor i brynu capasiti gwelyau cartrefi gofal ac ar gyfer pobl llai cefnog sy'n ariannu eu hunain

Lleihau'r defnydd o gartrefi gofal i bobl 65+: dulliau ataliol a ddefnyddir gan Gyngor Gwynedd

Mae gan Gyngor Gwynedd fwriad polisi ac ymarfer gweithredol cefnogol i leihau ac oedi'r defnydd o leoliadau cartrefi gofal i bobl 65+ drwy ystod o wasanaethau 'ataliol'.

Mae'r gofal ataliol hwn yn cynnwys cefnogaeth i ofalwyr, seibiannau byr, a'r defnydd o dechnoleg a alluogir gan ofal. Bwriad yr holl ymyraethau gwasanaeth hyn yw cefnogi pobl hŷn i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain ac i osgoi unrhyw symudiad parhaol i gartref gofal yn llwyr neu oedi.

Haen arall o bolisi ac ymarfer gweithredol Cyngor Gwynedd yw ceisio defnyddio tai gofal ychwanegol fel dewis arall yn lle defnyddio gofal preswyl i bobl 65+. Fodd bynnag, ystyrir bod angen tai gofal ychwanegol i gefnogi'r bwriad polisi hwn yn ymarferol.

Mae gan wasanaethau gofal ataliol a thai gofal ychwanegol y potensial i leihau nifer y bobl hŷn sy'n symud i gartrefi gofal preswyl a nyrsio, neu o leiaf oedi pryd fydd pobl yn cyrraedd cartrefi, ar gyfer pobl hŷn a leolir gan Gyngor Gwynedd ac i bobl sy'n ariannu eu hunain. Rhagwelir y bydd effaith y gwasanaethau ataliol hyn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl 65+ oed fydd yn derbyn gofal preswyl. Ar y sail hon, mae modelu'r angen am gapasiti gwelyau cartrefi gofal yn y dyfodol yn caniatáu i oddeutu 20% o bobl 65+, a fyddai fel arall yn cael eu lleoli mewn gofal preswyl, gael eu 'dargyfeirio' i dai gofal ychwanegol yn ogystal â phobl hŷn a fyddai fel arall wedi cael eu lleoli mewn gofal preswyl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain oherwydd effaith gwasanaethau gofal ataliol, (h.y. lleihau'r angen amcangyfrifedig yn y dyfodol o 10%).

Dosbarthiad cyfanswm gwelyau cartrefi gofal rhwng gwelyau cartrefi gofal preswyl a nyrsio

Yn ôl data Cyngor Gwynedd ar y farchnad cartrefi gofal cyffredinol, mae cyfanswm o 994 o welyau cartrefi gofal yng Ngwynedd sydd wedi'u categoreiddio fel rhai ar gyfer pobl hŷn (65+). Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys gwelyau gofal preswyl a nyrsio. O'r rhain, mae 52% yn welyau gofal preswyl, 48% yn welyau gofal nyrsio

Gan dynnu ar dystiolaeth tracio capasiti ar gyfer 2022–2025 a dyrannu gwelyau cofrestriad deuol yn gyfartal rhwng gofal preswyl a gofal nyrsio, mae'r dosbarthiad yn addasu i gyfartaledd o 53% o welyau gofal preswyl a 47% o welyau gofal nyrsio.

Yn seiliedig ar dystiolaeth o gymhlethdod ac aciwtedd cynyddol anghenion gofal ac iechyd ymhlith pobl hŷn sydd angen defnyddio cartref gofal a thystiolaeth tueddiadau'r farchnad gofal lleol gan Swyddogion Cyngor Gwynedd, dros y 10-15 mlynedd nesaf tybir y bydd tueddiad tuag at ganran y gwelyau gofal cyffredinol yn y farchnad sydd ar gyfer gofal nyrsio yn cynyddu a chanran y gwelyau cyffredinol yn y farchnad sydd ar gyfer gofal preswyl yn lleihau. Ar y sail hon, mae modelu'r angen am gapasiti gwelyau cartrefi gofal yn y dyfodol yn tybio y disgwylir

y bydd y balans presennol o 53% o welyau gofal preswyl a 47% o welyau gofal nyrsio yn newid dros amser i falans o 45% o welyau gofal preswyl a 55% o welyau gofal nyrsio erbyn 2043.

Tystiolaeth tracio capasiti

Mae tystiolaeth Tracio Capasiti yn darparu'r cofnod diweddaraf o gapasiti a defnydd cartrefi gofal yng Ngwynedd, gan gynnwys darpariaeth breswyl a nyrsio (gyda chartrefi cofrestriad deuol wedi'u rhannu'n gyfartal). Ar ddiwedd 2024/25, roedd 962 o bobl yn byw mewn cartrefi gofal yng Ngwynedd gyda 498 o bobl mewn gofal preswyl a 464 o bobl mewn gofal nyrsio.

Mae ffigyrau 2022 yn adlewyrchu cyfnod pan oedd gwasanaethau cartrefi gofal yn dal i brofi effeithiau pandemig COVID-19. O ganlyniad, efallai na fydd lefelau defnydd yn 2022 yn gwbl gynrychioliadol o batrymau galw neu ddefnydd nodweddiadol.

Tabl 54. Tystiolaeth o gipolwg tracio capasiti (314 Mawrth bob blwyddyn), 2022–2025

Blwyddyn	Math y Gofal	Gwelyau wedi'u meddiannu	Gwelyau heb eu defnyddio	Cyfradd defnydd
2022	Gofal preswyl	532	62	88%
2023	Gofal preswyl	555	31	94%
2024	Gofal preswyl	538	71	87%
2025	Gofal preswyl	525	27	95%
			Cyfartaledd	**91%**
2022	Gofal nyrsio	487	37	92%
2023	Gofal nyrsio	476	21	96%
2024	Gofal nyrsio	476	4	99%
2025	Gofal nyrsio	476	12	97%
			Cyfartaledd	**96%**

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd (2025)
DS: effaith COVID-19 ar flwyddyn 2022.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ymddengys y dystiolaeth:

Bod capasiti gofal preswyl wedi amrywio rhwng 525 a 555 o welyau dros y cyfnod 2022–2025, gyda rhwng 463 a 524 o breswylwyr yn eu defnyddio. Mae cyfraddau defnydd yn gyffredinol wedi aros yn uchel, gan amrywio rhwng 87% a 95%, gyda defnydd cyfartalog o 91%.

- Mae capasiti gofal nyrsio wedi amrywio rhwng 476 a 487 o welyau, gyda rhwng 450 a 472 o breswylwyr yn eu defnyddio. Mae cyfraddau defnydd wedi bod yn gyson uchel iawn, yn amrywio rhwng 92% a 99%, gyda chyfartaledd o 96%, sy'n awgrymu marchnad wedi'i chyfyngu'n dynn gyda chapasiti sbâr cyfyngedig.

Mae'r dystiolaeth tracio capasiti wedi'i defnyddio i raddnodi ac yna diwygio yn ôl yr angen amcangyfrifon cychwynnol o angen yn seiliedig ar dystiolaeth ONS o'r nifer tebygol o bobl 65+ oed y disgwylir iddynt fod yn byw mewn cartrefi gofal.

Lleoliadau yng nghartrefi gofal 65+ yng Ngwynedd gan awdurdodau lleol eraill.

Nid oes gan Gyngor Gwynedd dystiolaeth bendant mewn perthynas â chanran y gwelyau cartrefi gofal sy'n cael eu defnyddio gan bobl nad ydynt yn breswylwyr Gwynedd, ond amcan ceidwadol sy'n seiliedig ar brofiad o weithio gydag awdurdodau eraill a rhanddeiliaid lleol yw ei fod yn debygol o fod rhwng 5% ac 8% o welyau.

Mae hyn mewn gwirionedd yn golygu bod canran o gapasiti gwelyau cartrefi gofal 65+ yn diwallu'r angen o'r tu allan i Wynedd.

Ar y sail hon, mae modelu'r angen am gapasiti gwelyau cartrefi gofal yn y dyfodol yn caniatáu i o leiaf 5% o welyau cartrefi gofal gael eu defnyddio gan bobl 65+ oed nad oeddent yn byw yng Ngwynedd o'r blaen ac felly yn defnyddio gwelyau a allai ddiwallu anghenion trigolion Gwynedd (h.y. addasu'r angen amcangyfrifedig yn y dyfodol drwy ei gynyddu o 5%)

Ystafelloedd cartrefi gofal heb gyfleusterau en-suite.

Mae asesiadau o'r angen am gapasiti gwelyau cartrefi gofal fel arfer yn cael eu cynnal gan nifer fach o ymgynghorwyr preifat ar ran datblygwyr cartrefi gofal. Mae'r asesiadau hyn fel arfer yn cynnwys tystiolaeth debyg iawn ac yn aml yn gwneud y mathau canlynol o ragdybiaethau mewn perthynas ag amcangyfrif yr angen am gapasiti gwelyau cartrefi gofal:

- Maent yn tybio bod y ddarpariaeth cartrefi gofal presennol nad oes ganddynt ystafelloedd gwely en-suite llawn yn ddiangen i bob pwrpas ac na ddylid ei chynnwys yn y cyflenwad presennol o welyau cartrefi gofal at ddibenion 'didynnu' o'r angen amcangyfrifedig cyffredinol am gapasiti gwelyau cartrefi gofal yn y dyfodol
- Maent fel arfer yn defnyddio cyfraddau cyffredinol amcangyfrifedig Laing a Buisson ar gyfer y defnydd o welyau cartrefi gofal ymhlith y grŵp poblogaeth 65 i 74 oed, y grŵp poblogaeth 75 i 84 oed, a'r grŵp poblogaeth 85 a mwy. Mae'r cyfraddau cyffredinol hyn fel arfer yn tybio:
  - Y bydd angen gwely cartref gofal ar 0.54% o'r grŵp poblogaeth 65 i 74 oed
  - Y bydd angen gwely cartref gofal ar 3.3% o'r grŵp poblogaeth 75 i 84 oed
  - Y bydd angen gwely cartref gofal ar 13.4% o'r grŵp poblogaeth 85 oed a mwy

Dylid nodi:

- Mae tystiolaeth a gwybodaeth leol yn dangos bod gwelyau cartrefi gofal heb gyfleusterau en-suite yn parhau i gael eu defnyddio a'u prynu. Nid yw'n rhesymol nac yn realistig tybio bod yr holl ystafelloedd hyn, nad ydynt â chyfleusterau en-suite, yn ddiangen ac y dylid eu diystyru fel rhan o'r cyflenwad presennol o welyau cartrefi gofal at ddibenion asesu'r angen am gapasiti gwelyau cartrefi gofal yn y dyfodol. Bydd diystyru pob ystafell wely nad oes ganddynt gyfleusterau en-suite llawn ar hyn o bryd yn cael yr effaith o chwyddo amcangyfrifon o'r angen am gapasiti gwelyau cartref gofal yn y dyfodol.
- Mae cyfraddau cyffredinol amcangyfrifedig Laing a Buisson (uchod) ar gyfer y defnydd o welyau cartrefi gofal (uchod) yn uwch na'r dystiolaeth ddiweddaraf ar gyfer y grwpiau poblogaeth hŷn yma sy'n preswylio fel arfer mewn cartrefi gofal o gyfrifiad ONS 2021.

Tybir y bydd ystafelloedd cartrefi gofal presennol heb gyfleusterau en-suite llawn yn parhau i gael eu defnyddio ac y bydd y gwelyau cartrefi gofal presennol gyda chyfleusterau nad ydynt yn en-suite yn debygol o leihau dros amser wrth i weithredwyr uwchraddio eu cyfleusterau ac mae yna grŵp o bobl hŷn sydd angen y gwelyau gofal mwyaf fforddiadwy, sy'n debygol o gynnwys yr ystafelloedd sydd ar ôl heb gyfleusterau en-suite. Tybir hefyd y bydd rhai o'r ystafelloedd presennol nad ydynt yn en-suite yn cael eu tynnu o'r farchnad wrth i rai gweithredwyr cartrefi gofal, fel arfer gweithredwyr llai, adael y farchnad dros y 10-15 mlynedd nesaf (gweler y rhagdybiaeth isod).

Cau cartrefi gofal fel y disgwylir dros y 10-20 mlynedd nesaf

Yn seiliedig ar dystiolaeth gan Swyddogion Cyngor Gwynedd, mae nifer y gweithredwyr sy'n gadael y farchnad cartrefi gofal 65+ yn gymharol isel. Mae rhywfaint o dystiolaeth o gartrefi gofal presennol yn cael eu caffael gan weithredwyr eraill.

Ar y sail hon, mae modelu'r angen am gapasiti gwelyau cartrefi gofal yn y dyfodol yn caniatáu colli oddeutu 2% o gapasiti gwelyau y flwyddyn oherwydd bod darparwyr yn gadael y farchnad (gan dybio nad oes unrhyw welyau newydd), h.y. addasu'r angen amcangyfrifedig yn y dyfodol drwy ei gynyddu o 2% .

Amcangyfrif o'r angen am ddarpariaeth gwelyau mewn cartrefi gofal i bobl 65+

Mae'r angen amcangyfrifedig am ddarpariaeth gwelyau cartrefi gofal 65+ yng Ngwynedd hyd at 2043 yn seiliedig ar y dull a'r rhagdybiaethau uchod, wedi'i nodi isod. Mae Tabl 55 yn dangos canran bresennol y bobl 65+ oed sydd fel arfer yn byw mewn cartrefi gofal, fel y nodir yng nghyfrifiad ONS 2021.

Tabl 55. Canran y bobl 65+ oed sydd fel arfer yn byw mewn cartrefi gofal

Grŵp poblogaeth	Canran sydd fel arfer yn byw mewn cartref gofal
65-74 oed	0.63%
75-84 oed	2.38%
85+ oed	11.07%

Yn deillio o ONS 2021[16]

Tabl 56. Amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd ar gyfer grwpiau poblogaeth 65+ hyd at 2043

Tabl 56. Amcanestyniadau poblogaeth Gwynedd ar gyfer grwpiau poblogaeth 65+ hyd at 2043

Grŵp poblogaeth	2025	2028	2033	2038	2043
Gwynedd 65-74	14,128	14,951	16,250	16,381	14,980
Gwynedd 75-84	10,253	10,418	10,221	11,111	12,223
Gwynedd 85+	3,870	4,084	4,975	5,306	5,630

Ffynhonnell: Rhagamcanion poblogaeth is-genedl 2022

Mae Tabl 57 yn dangos yr angen amcangyfrifedig cychwynnol am welyau cartrefi gofal drwy gymhwyso'r dystiolaeth o ganran y bobl hŷn o'r grwpiau poblogaeth hyn sydd fel arfer yn preswylio mewn cartrefi gofal (o Dabl 55) i'r boblogaeth a ragwelir ar gyfer y grwpiau poblogaeth hyn yng Ngwynedd dros y cyfnod hyd at 2043 (o Dabl 56). Mae hyn yn cynhyrchu rhagamcanion cychwynnol o'r angen am welyau cartrefi gofal yng Ngwynedd hyd at 2043 fel y dangosir yn y tabl isod.

Tabl 57. Amcangyfrif cychwynnol o'r angen am welyau cartrefi gofal yng Ngwynedd hyd at 2043

Grŵp poblogaeth oedran	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
65-74	89	94	102	103	94
75-84	244	248	243	264	291
85+	428	452	551	587	623
Cyfanswm	**761**	**794**	**896**	**955**	**1,009**

[16] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/ageing/articles/olderpeoplelivingincarehomesin2021andchangessince2011/2023-10-09

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd a HLIN. DS nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus. Efallai na fydd ffigyrau yn cyfansymio oherwydd eu bod wedi'u talfyrru.

Mae'r angen amcangyfrifedig cyffredinol am welyau cartrefi gofal yn Nhabl 57 wedi'i ddosbarthu rhwng gofal preswyl a gofal nyrsio yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a nodir ym mharagraff 6.62. Dangosir hyn yn y tabl isod.

Tabl 58. Amcangyfrif o'r angen am welyau gofal preswyl a gofal nyrsio hyd at 2043

Math o ofal	Angen amcangyfrifedig yn 2025	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Gofal preswyl (gwelyau)	403	404	438	448	453
Gofal nyrsio (gwelyau)	359	390	458	507	556
Cyfanswm	**761**	**794**	**896**	**955**	**1,009**

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd a HLIN. DS nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus. Efallai na fydd ffigyrau yn cyfansymio oherwydd eu bod wedi'u talfyrru.

O'i gymharu ag amcangyfrifon wedi'u modelu yn seiliedig ar gyfraddau cyffredinol cenedlaethol, mae tystiolaeth tracio capasiti ar gyfer 2024/25 (Tabl 54) yn dangos niferoedd uwch o breswylwyr yn gyson. Er mwyn cysoni'r gwahaniaeth hwn, cyfrifir ffactor graddnodi (gwirioneddol ÷ amcangyfrifwyd) ar gyfer gofal preswyl a gofal nyrsio ar wahân, gan ddefnyddio'r gymhareb o breswylwyr cartrefi gofal gwirioneddol i amcangyfrif angen cartrefi gofal ar draws y cyfnod 2022–2025.Tabl 54. Tystiolaeth o gipolwg tracio capasiti (314

Mae Tabl 59 a Thabl 60 yn dangos effaith didynnu o amcangyfrifon o angen yn y dyfodol (o Dabl 58), y cyflenwad presennol o welyau cartrefi gofal preswyl (518 gwely) a gwelyau gofal nyrsio (476 gwely). Yna, caiff hyn ei wirio a'i addasu mewn perthynas â thystiolaeth o ddata tracio capasiti lleol, y rhagdybiaethau eraill a nodir ym mharagraffau 6.69 i 6.97 a'i driongli â gwybodaeth ac arbenigedd lleol mewn perthynas â chartrefi gofal 65+ yng Ngwynedd.

Tabl 59. Amcangyfrif addasedig o'r angen am welyau cartrefi gofal preswyl yng Ngwynedd hyd at 2043

Blwyddyn	Amcangyfrif gros o'r angen am welyau cartrefi gofal	Amcangyfrif gros o'r angen am welyau cartrefi gofal (wedi'i addasu ar gyfer tystiolaeth tracio capasiti)	Addasu ar gyfer y defnydd o welyau gan bobl nad ydynt yn breswylwyr Gwynedd (+5%)	Addasu ar gyfer cau cartrefi gofal posibl (+2%)	Addasiad ar gyfer dargyfeirio at Dai Gofal Ychwanegol a gwasanaethau gofal newydd (-20%)	Angen amcangyfrifedig cychwynnol am gartrefi gofal	Cyflenwad cyfredol o welyau	Cyflenwad sydd ar gael (95% o'r cyflenwad i ddarparu ar gyfer cynnydd yn y galw)	Cyfanswm addasedig yr angen amcangyfrifedig am welyau cartrefi gofal
2025	403	515	26	10	−103	448	518	492	−44
2028	404	517	26	10	−103	450	518	492	−42
2033	438	561	26	10	−112	485	518	492	−7
2038	448	573	26	10	−115	494	518	492	2
2043	453	579	26	10	−116	500	518	492	10

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd a HLIN. DS nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus

Tabl 60. Amcangyfrif addasedig o'r angen am welyau cartrefi gofal nyrsio yng Ngwynedd hyd at 20435

Blwyddyn	Amcangyfrif gros o'r angen am welyau cartrefi gofal	Amcangyfrif gros o'r angen am welyau cartrefi gofal (wedi'i addasu ar gyfer tystiolaeth tracio capasiti)	Addasu ar gyfer y defnydd o welyau gan bobl nad ydynt yn breswylwyr Gwynedd (+5%)	Addasu ar gyfer cau cartrefi gofal posibl (+2%)	Angen amcangyfrifedig cychwynnol am gartrefi gofal	Cyflenwad cyfredol	Cyflenwad sydd ar gael (95% o'r cyflenwad i ddarparu ar gyfer cynnydd yn y galw)	Cyfanswm addasedig yr angen amcangyfrifedig am welyau cartrefi gofal
2025	359	459	24	10	492	476	452	40
2028	390	499	24	10	532	476	452	80
2033	458	586	24	10	619	476	452	167

2038	507	649	24	10	682	476	452	230
2043	556	711	24	10	744	476	452	292

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd a HLIN. DS nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus

Yn gryno, mae'r dystiolaeth hon yn nodi:

- Amcangyfrifir bod angen cymedrol iawn am welyau gofal preswyl ychwanegol yng Ngwynedd ar hyn o bryd a thros y cyfnod hyd at 2043; amcangyfrifir y bydd angen 10 gwely gofal preswyl ychwanegol erbyn 2043.
- Amcangyfrifir bod angen sylweddol am gapasiti gwelyau gofal nyrsio ychwanegol dros y cyfnod hyd at 2043; amcangyfrifir y bydd angen 290 o welyau gofal nyrsio ychwanegol erbyn 2043. Efallai y bydd gwelyau preswyl yn benodol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia yn diwallu rhywfaint o'r capasiti ychwanegol amcangyfrifedig hwn.
- Mae hyn yn gyson â thystiolaeth gan Swyddogion y Cyngor sy'n dangos y bydd angen rhywfaint o ailstrwythuro yn y farchnad leol h.y. bod y ddarpariaeth cartrefi gofal presennol yn newid i allu cefnogi pobl hŷn gydag anghenion gofal ac iechyd cynyddol gymhleth ac acíwt.

Er mwyn dosbarthu'r angen amcangyfrifedig am gapasiti cartrefi gofal ar draws is-ardaloedd Gwynedd, cafodd dull pwysoli cyfansawdd ei gymhwyso. Yn gyntaf, cyfrifwyd cyfran y boblogaeth 65+ ym mhob is-ardal gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth ONS. Yn ail, dadansoddwyd dewisiadau a fynegwyd gan ymatebwyr arolwg Cyngor Gwynedd ynglŷn â'u lleoliadau dewisol. Gan fod ymatebwyr yn gallu dewis sawl ardal, cafodd canrannau dewis eu normaleiddio i greu cyfrannau cymharol. Yna, cyfrifwyd pwysoliad cyfunol yn defnyddio cydbwysedd 70:30 rhwng dosbarthiad poblogaeth (galw demograffig) a dewisiadau arolwg (galw ymddygiadol). Cafodd y pwysau canlyniadol eu hail-raddio i gyrraedd swm 100% a'u defnyddio i ddadansoddi amcangyfrifon ar lefel sirol i lefel is-ardal.

Tabl 61. Amcangyfrif o'r angen am welyau cartrefi gofal yng Ngwynedd yn ôl is-ardaloedd hyd at 2043

Is-ardal yn seiliedig ar leoliad	Gofal preswyl					Gofal nyrsio				
	2025	2028	2033	2038	2043	2025	2028	2033	2038	2043
Ardudwy	-3	-3	-1	0	1	3	6	13	18	23
Y Bala / Penllyn	-1	-1	0	0	0	1	2	4	6	8
Bangor	-5	-5	-1	0	1	5	9	19	26	33
Caernarfon	-5	-5	-1	0	1	5	9	19	26	33
Dolgellau	-3	-3	-1	0	1	3	6	13	18	22
Dysynni	-4	-4	-1	0	1	4	7	16	21	27
Ffestiniog	-2	-1	0	0	0	1	3	6	8	10
Lleu / Nantlle	-3	-3	-1	0	1	3	6	13	18	22
Ogwen	-2	-2	0	0	0	2	4	9	12	15
Pen Llŷn	-3	-3	-1	0	1	3	6	12	17	21
Peris	-3	-3	-1	0	1	3	6	13	17	22
Porthmadog / Penrhyndeudraeth	-5	-5	-1	0	1	4	9	18	25	32
Pwllheli	-3	-3	-1	0	1	3	6	13	18	23
Gwynedd	**-44**	**-42**	**-7**	**2**	**10**	**40**	**80**	**167**	**230**	**292**

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd a HLIN. DS nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus

7. Crynodeb

Goblygiadau'r amcangyfrifon hyn o angen tai ymhlith y boblogaeth 65+ yw:

- Nid yw'r mwyafrif o bobl hŷn yn bwriadu symud o'u cartref presennol.
- O'r rhai sy'n bwriadu symud, mae'r mwyafrif angen tai prif ffrwd eraill, yn enwedig tai sydd wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch ac sy'n gallu cefnogi heneiddio gartref, e.e. tai sydd wedi'u cynllunio i safon Cartrefi Oes.
- Mae'n debygol y bydd galw cynyddol am addasiadau, ymhlith rhai sy'n ariannu eu hunain a phobl ar incwm isel sy'n gymwys i gael Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, ymhlith pobl hŷn sy'n aros yn eu cartrefi presennol neu sydd angen tai prif ffrwd eraill.
- Mae'n debygol y bydd galw cynyddol am dechnoleg, gan gynnwys technoleg a alluogir gan ofal, a all helpu pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol mewn tai prif ffrwd.
- Mae lleiafrif o bobl hŷn yn debygol o fod angen tai arbenigol fel tai ymddeol/gwarchod a thai gofal ychwanegol.

Gweler isod yn Nhabl 62 grynodeb o'r amcangyfrif o'r angen am dai arbenigol a llety i bobl hŷn erbyn 2043 i Wynedd ar gyfer:

- Tai gwarchod
- Tai gofal ychwanegol
- Tai i oedran penodol (gwahanol i dai gwarchod, h.y. nid oes gan dai oedran penodol y cyfleusterau cymunedol a'r staff cefnogol sydd fel arfer yn cael eu cysylltu â thai gwarchod)
- Tai hygyrch, h.y. tai wedi'u dynodi i gwrdd ag anghenion pobl anabl a phobl hŷn (ond ddim yn rhai ar gyfer oedran penodol), e.e. wedi'u dynodi i safonau Cartrefi Oes ac/neu safon hygyrchedd M4(2)
- Gofal preswyl (yn cynnwys pobl gyda dementia)
- Gofal nyrsio (yn cynnwys pobl gyda dementia)

Mae'r angen sy'n cael ei amcangyfrif yn Nhabl 62 yn gyson â'r dystiolaeth yn adroddiad Llechen Lân, h.y. symudiad radical tuag at fodelau tai sydd â'r potensial i liniaru anghenion gofal/cefnogaeth cynyddol ac sy'n cefnogi pobl hŷn i fyw yn annibynnol am gyhyd â phosib, yn cynnwys yr angen am dai gofal ychwanegol a modelau tai eraill sy'n cefnogi pobl hŷn i fod mewn llety priodol sy'n gweddu i'w hanghenion: Tabl 62. Y ddarpariaeth gyfredol a'r angen sy'n cael ei ragweld i'r dyfodol am dai a llety gwarchod ac arbenigol

- Amcan gynnydd arwyddocaol yn yr angen am dai gofal ychwanegol (pob daliadaeth) i gwrdd ag anghenion poblogaeth sy'n heneiddio ac i liniaru a gwyro'r galw i ffwrdd o'r defnydd o gartrefi gofal (preswyl).
- Cynnydd arwyddocaol yn yr angen am dai gwarchod cyfoes[17] (pob daliadaeth) i gwrdd ag anghenion pobl hŷn sydd angen tai sy'n addas wrth heneiddio ac lle mae mynediad at elfen o gefnogaeth.

[17]Mae cynllun tai newydd Adra, Plas Leiod yng Nghaernarfon, yn enghraifft o'r math hwn o dai gwarchod cyfoes/tai oedran penodol

- Cynnydd sylweddol yn yr angen am dai sydd wedi'u dylunio i fod yn hygyrch (megis at safon Cartrefi Oes), sy'n galluogi pobl hŷn i fyw mewn cartref sy'n gweddu'n well wrth heneiddio).
- Cynnydd yn y ddarpariaeth o welyau gofal nyrsio sy'n medru lletya pobl gydag anghenion iechyd a gofal cymhleth, yn cynnwys pobl gydag anghenion sy'n gysylltiedig â dementia. Ceir amcangyfrif bod yr angen ychwanegol am welyau gofal preswyl yn dipyn llai, a bod potensial i liniaru hyn yn llawn drwy'r angen sy'n cael ei amcangyfrif am dwf yn y ddarpariaeth o dai gofal ychwanegol.
- Dylid nodi bod goblygiadau staffio i'r tueddiadau yma, yn enwedig mewn perthynas â recriwtio a chadw staff nyrsio i weithio yn y ddarpariaeth cartrefi gofal nyrsio.

Tabl 62. Y ddarpariaeth gyfredol a'r angen sy'n cael ei ragweld i'r dyfodol am dai a llety gwarchod ac arbenigol yng Ngwynedd hyd at 2043

Math y tai a'r llety gwarchod ac arbenigol	Y ddarpariaeth bresennol	Angen amcangyfrifedig erbyn 2028	Angen amcangyfrifedig erbyn 2033	Angen amcangyfrifedig erbyn 2038	Angen amcangyfrifedig erbyn 2043
Tai Gofal Ychwanegol (unedau)	***113***	**286**	**437**	**587**	**729**
Tai marchnad		*86*	*131*	*176*	*219*
Tai cymdeithasol		*200*	*306*	*411*	*510*
Tai gwarchod (unedau)	***674***	**504**	**789**	**1,073**	**1,341**
Tai marchnad		*151*	*237*	*322*	*402*
Tai cymdeithasol		*353*	*553*	*751*	*939*
Tai hygyrch (unedau)		**1,149**	**1,726**	**2,289**	**2,799**
Tai marchnad		*345*	*518*	*687*	*840*
Tai cymdeithasol		*805*	*1,208*	*1,602*	*1,959*
Tai hygyrch i oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) (unedau)		**383**	**575**	**763**	**933**
Tai marchnad		*115*	*173*	*229*	*280*
Tai cymdeithasol		*268*	*403*	*534*	*653*
Cartrefi gofal preswyl (gwelyau)	***518***	**-42**	**-7**	**2**	**10**
Cartrefi gofal nyrsio (gwelyau)	***476***	**80**	**167**	**230**	**292**

Ffynhonnell: Ipsos, Cyngor Gwynedd a HLIN (2025)
DS: Nid yw amcangyfrifon o angen yn gronnus.

Tai gofal ychwanegol: Ar hyn o bryd, mae 113 o unedau tai gofal ychwanegol yng Ngwynedd. Mae'r modelu yma'n dangos y bydd angen darpariaeth ychwanegol sylweddol i gwrdd ag anghenion pobl hŷn sydd angen tai gyda gofal, tra'n parhau i fyw'n annibynnol. Mae'r amcangyfrif o'r angen ychwanegol fel a ganlyn:

437 o unedau ychwanegol erbyn 2033

739 o unedau ychwanegol erbyn 2043

Tai gwarchod: Argymhellir bod y ddarpariaeth tai gwarchod presennol yn oddeutu 674 uned ledled Gwynedd. Mae'r dadansoddiad yn nodi y bydd y galw am y math hwn o lety yn cynyddu'n sylweddol dros y cyfnod rhagfynegi. Mae'r amcangyfrif o'r angen ychwanegol fel a ganlyn:

- 789 o unedau ychwanegol erbyn 2033

- 1,341 o unedau ychwanegol erbyn 2043

Tai hygyrch: Mae tai hygyrch / Cartrefi Oes, yn chwarae rôl bwysig wrth alluogi pobl hŷn i barhau i fyw yn annibynnol mewn tai prif ffrwd. Er nad yw'r cyflenwad presennol wedi'i feintioli, mae'r modelu yn rhagweld y bydd angen y nifer isod o dai hygyrch er mwyn cwrdd â'r galw yn y dyfodol:

- 1,726 o gartrefi erbyn 2033
- 2,799 o gartrefi erbyn 2043

Tai hygyrch ar gyfer oedran penodol (tai cymdeithasol i bobl 55+ oed) : Amcangyfrifir bod y cyflenwad cyfredol o dai i oedran penodol yn 899 uned. Yn ogystal â llety arbenigol, rhagwelir hefyd y bydd galw am dai i oedran penodol yn benodol ar gyfer pobl hŷn. Mae'r modelu'n rhagweld y bydd angen y ddarpariaeth a ganlyn:

- 575 o unedau erbyn 2033
- 933 o unedau erbyn 2043

Cartrefi Gofal: Mae'r dadansoddiad yn nodi er bod darpariaeth gyfredol o 476 o welyau gofal nyrsio a 518 o welyau gofal preswyl, bydd angen darpariaeth ychwanegol dros y cyfnod rhagfynegi wrth i'r boblogaeth heneiddio a'r lefelau o anghenion gofal ac iechyd gynyddu.

- Gwelyau gofal nyrsio (yn cynnwys gofal dementia)
  - 167 o welyau ychwanegol erbyn 2033
  - 292 o welyau ychwanegol erbyn 2043
- Gwelyau gofal nyrsio (yn cynnwys gofal dementia)
  - dim gwelyau ychwanegol erbyn 2033
  - 10 o welyau ychwanegol erbyn 2043

8. Tueddiadau mewn tai cyfoes i bobl hŷn

Bwriad yr adran hon yw rhoi enghreifftiau o arferion cyfoes mewn perthynas â darparu tai a llety i bobl hŷn, a allai ddylanwadu ar ddatblygiadau yng Ngwynedd yn y dyfodol.

Mae enghreifftiau'n cael eu darparu mewn perthynas â thai a llety, wedi'u dylunio'n benodol i gwrdd ag anghenion pobl hŷn, yn cynnwys enghreifftiau ymarfer cyfoes o Wynedd.

Tai i oedran penodol

Mae sawl darparwr yn datblygu tai cyfoes i bobl hŷn sy'n canolbwyntio ar ddarparu tai hygyrch o ansawdd da gyda modelau staffio mwy cyfyngedig. Y bwriad yw creu cymunedau sy'n cefnogi ei gilydd gyda chefnogaeth gan y darparwr tai pan fo'r angen. Mae'r ffocws yn dal ar ddarparu cartrefi hygyrch, o ansawdd da, sy'n galluogi pobl i fyw yn annibynnol.

Tai Oed-gyfeillgar, Iwerddon (Clann Housing)

Mae model Clann Housing[18], '*age-friendly housing'*, yn un â ddatblygwyd gan Clúid Housing yn Iwerddon i gefnogi pobl hŷn i fyw yn annibynnol am yn hirach. Cafodd ei greu i ymdrin â'r bwlch rhwng tai prif ffrwd a gofal sefydliadol, gan fod nifer o drigolion hŷn yn symud i gartrefi nyrsio, nid oherwydd angen clinigol ond oherwydd bod eu tai yn anaddas.

Mae cynlluniau *'age-friendly housing'* Clann Housing yn darparu cartrefi wedi'u dylunio'n bwrpasol fydd yn galluogi pobl i heneiddio heb orfod symud, tra'n cadw eu hannibyniaeth.

Yr hyn sy'n ei wneud yn wahanol i dai gwarchod/ymddeol, yw'r athroniaeth a'r dull staffio. Canfu Clann bod cael staff ar y safle yn ddyddiol weithiau'n annog trigolion i ddibynnu arnynt yn ormodol, oedd yn mynd yn groes i'r nod o annibyniaeth. Felly, efallai y gall rheolwyr cynllun Clann ymdrin â sawl cynllun a chanolbwyntio ar ddatblygiad cymunedol yn hytrach na chefnogaeth ddyddiol. Un o'r prif nodau yw adeiladu rhwydweithiau cymunedol rhwng trigolion i leihau unigrwydd ac oedi anghenion gofal.

Ar y chwith isod mae Maydenhayes Lawn, sy'n darparu 12 byngalo oedran-gyfeillgar ym Meath, ac ar y dde isod mae Fernwood, sy'n darparu 17 byngalo oedran-gyfeillgar yn Nulyn.





Bruyn's Court, Thurrock (Thurrock Council)

[18] https://clannhousing.ie/schemes/

Mae 25 o fflatiau yn Bruyn's Court yn Thurrock, gyda phob un wedi'i ddylunio'n hyblyg i addasu i gwrdd ag anghenion newidiol trigolion wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn. Nid yw'r cynllun yn darparu gwasanaethau gofal a chefnogaeth; fodd bynnag, nod y cynllun yw gwella ansawdd bywyd pobl hŷn yn radical yn Thurrock, gan ystyried eu hanghenion cymdeithasol a chorfforol, ac annog rhyngweithiad cymdeithasol a chyd-gefnogaeth.

Mae'r datblygiad hefyd wedi'i ddylunio i helpu i adfywio canol y dref, gan foderneiddio'r amgylchedd adeiledig lleol tra'n ychwanegu hyfywedd masnachol pellach i siopau canol y dref. Mae wedi'i ddylunio i safonau HAPPI[19], safonau Cartrefi Oes[20] a Chod Cynaliadwy Lefel 4.



Tai gwarchod ac ymddeol

Adeilad newydd cyfoes

Mae sawl darparwr tai cymdeithasol yn datblygu fersiynau cyfoes o dai gwarchod i ehangu'r amrediad o opsiynau tai sydd ar gael i bobl hŷn a chreu dewisiadau tai deniadol fydd yn medru annog pobl i gael tŷ o'r maint cywir, neu *'rightsizing'*.

Bellach mae datblygiadau yn gynyddol ymgorffori egwyddorion dylunio HAPPI sy'n galluogi trigolion i heneiddio heb orfod symud, drwy ddarparu cartrefi hygyrch, yn cynnwys nodweddion megis mynediad heb stepiau, gofod mewnol y gellir ei addasu, technolegau cartref clyfar, a chartrefi *'dual aspect'*.

Tuedd allweddol yw darparu amgylcheddau sy'n hyrwyddo cyswllt cymdeithasol a heneiddio'n actif, ond sydd hefyd yn cynnwys lolfeydd cymunedol a gofod allanol deniadol sydd wedi'i dirlunio. Hefyd, mae cynaliadwyedd ac effeithiolrwydd ynni yn siapio tai gwarchod cyfoes. Yn aml, mae datblygiadau newydd yn ymgorffori safonau amgylcheddol uchel, yn cydnabod yr angen i leihau costau rhedeg i drigolion, tra'n cyfrannu at nodau hinsawdd ehangach.

Plas Leiod, Caernarfon, Gwynedd (Adra)

[19]Housing our Ageing Population Panel for Innovation (HAPPI). Cyfres o egwyddorion dylunio ar gyfer tai sy'n gweddu i bobl hŷn. https://www.housinglin.org.uk/Topics/browse/Design-building/HAPPI/

[20]Tai sydd wedi'u dylunio i fod yn hyblyg, yn hygyrch ac yn addasadwy, sy'n caniatáu i'w trigolion aros yn eu cartrefi yn gyfforddus wrth i'w hanghenion newid. Mae'r safonau hynny yn canolbwyntio ar fod yn gynhwysol, yn gynaliadwy, ac yn fforddiadwy, yn aml heb fawr o gost ychwanegol. Er bod safon rheoliadau adeiladu dewisol M4(2) wedi disodli hwn yn bennaf yn 2015, mae hwn yn parhau i fod yn feincnod ar gyfer dyluniadau hygyrch. https://www.housinglin.org.uk/Topics/browse/Design-building/AccessibleDesign/LifetimeHomes/

Fe wnaeth Adra adnabod angen am fwy o dai fforddiadwy i bobl hŷn yng Ngwynedd. Mae Plas Leiod[21] ar safle tir llwyd y cyn fusnes Lleiod Garage ac yno ceir 21 o fflatiau hunan-gynhwysol un a dwy lofft, gyda phob un ar gael ar rent cymdeithasol ac wedi'u dylunio'n bennaf i bobl 55 mlwydd oed a throsodd, neu bobl ag anableddau.

Mae'r fflatiau wedi'u hadeiladu yn unol â Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru a safonau Cartrefi Oes, ac i fanyleb insiwleiddio ar lefel uchel iawn a chyfleusterau gwresogi modern, megis PV Solar ac offer gwresogi ffynhonnell aer. Hefyd yn yr adeilad ceir gofodau cymunedol, ardaloedd tu allan wedi'u tirlunio a pharcio ar y safle. Mae mewn lleoliad canolog, hygyrch, ger canol tref Caernarfon.



Tŷ Darran, Risga (Caerphilly Homes, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)

Tŷ Darran yw cynllun cyntaf Caerphilly Homes yn Risga, sy'n cael ei alw'n *'later living'.* Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu ar safle cyn gartref gofal ac yno ceir llety modern, ynni effeithlon sydd wedi'i ddylunio ar gyfer trigolion hŷn sy'n dymuno byw yn annibynnol a chael mynediad at gefnogaeth a chyfleusterau cymunedol.

Mae'r datblygiad yn cynnwys 45 o fflatiau un llofft gyda gofodau cymunedol mewnol ac allanol, megis lolfeydd cymunedol a gardd ganolog, sydd wedi'u dylunio i annog rhyngweithio cymdeithasol a chefnogi llesiant trigolion. Mae hefyd yn ffurfio rhan o raglen ehangach y Cyngor i gyflwyno tai fforddiadwy, carbon isel, ledled y bwrdeistref. (gweler fideo o'r cynllun yma[22]).

[21] https://www.adra.co.uk/en/developments/lleoid-garages-caernarfon-gwynedd/

[22] https://www.caerphilly.gov.uk/news/news-bulletin/march-2026/from-vision-to-vibrant-community-official-opening



Addison House, Rhymni (Cyngor Dinas Caerdydd)

Er bod yma gyd-destun trefol o gymharu â Gwynedd, mae'n debyg mai Cyngor Dinas Caerdydd sydd â'r rhaglen ddatblygu mwyaf uchelgeisiol yn y DU ar gyfer 'tai gwarchod' cyfoes newydd, gan ddarparu 574 o gartrefi newydd i bobl hŷn yn y ddinas ar draws 11 cynllun 'Byw Cymunedol' newydd erbyn mis Mawrth 2028. Mae pob safle yn cynnig rhywbeth gwahanol, o dai gwarchod cyfoes i fodelau tai gofal ychwanegol, ynghyd â phentref llesiant a thai pontio'r cenedlaethau.

Addison House yw'r cyntaf i agor ac mae'n darparu 44 o fflatiau hunan-gynhwysol, yn cynnwys 32 fflat un llofft, a 12 fflat dwy lofft. Mae'r cynllun wedi'i ddylunio yn unol â safonau RNIB Platinum ac mae wedi'i ddylunio i gwrdd â safonau HAPPI. Fel y cyfryw, mae'r fflatiau yn rhai *'dual aspect'*, mae digon o ofod ynddynt ac maen nhw'n rhai cynllun agored, ac mae ganddyn nhw falconi preifat mawr i greu gofod ysgafn ac agored.

Mae rheolwr cynllun ar gael yn ystod oriau swyddfa o ddydd Llun i ddydd Gwener i gynnig cyngor ar faterion dydd-i-ddydd ac i helpu mewn argyfwng. Hefyd, mae gan bob fflat larwm wedi'i gysylltu i Teleofal gan gynnig cefnogaeth 24-awr a sicrwydd pan nad yw'r rheolwr cynllun ar y safle.



Tai gwarchod wedi'u hadnewyddu

Yn y sector tai cymdeithasol, mae mwyafrif y 'tai gwarchod' yn cynnwys stoc tai sydd wedi dyddio. Mae nifer o landlordiaid cymdeithasol yn dechrau ymdrin ag addasrwydd i bwrpas a hyfywedd y stoc hwn i'r dyfodol, llawer ohono a ddatblygwyd yn y 1970au/80au, ac nid yw'n gyson â safonau modern, h.y. safonau HAPPI neu egwyddorion TAPPI (*Technology for an Ageing Population: Panel for Innovation*)[23]. Mae mwyafrif y darparwyr yn rhoi'r gorau i

[23] https://www.housinglin.org.uk/tappi/

ddefnyddio'r terminoleg 'tai gwarchod' ac yn defnyddio terminoleg mwy oedran-bositif, e.e. Tai Ymddeol, Byw'n Annibynnol, *Later Living*.

Mae nifer o ddarparwyr tai cymdeithasol wedi bwrw ymlaen â rhaglenni ailfodelu/ailddatblygu, sydd wedi moderneiddio eu cynlluniau gwarchod a chreu cartrefi mwy hygyrch. Mae'r rhain wedi bod yn ffyrdd cymharol gost-effeithiol o adfywio cynlluniau, er nad yw wedi bod yn bosib bob amser i gwrdd â safonau hygyrchedd modern.

I ddangos beth mae rhai landlordiaid cymdeithasol wedi'i gyflawni gydag ailwampio/adnewyddu, mae rhai enghreifftiau wedi'u darparu isod.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Wrecsam Raglen Ailfodelu ac Ailwampio Tai Gwarchod uchelgeisiol, sydd wedi cynnwys ailfodelu ac ailwampio dau gynllun tai gwarchod yn Llys y Mynydd, Rhos a Tir y Capel, Llai, a fflatiau newydd ategol yng nghefn y cynllun presennol yn Llai.

Mae'r fflatiau byw â chymorth newydd wedi'u dylunio i fod 'yn barod i ofalu', gyda'r dechnoleg ddiweddaraf wedi'i bwriadu i gefnogi gwell iechyd a llesiant. Mae'r cyngor yn ceisio helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol yn eu cartref eu hunain am fwy o amser, drwy fuddsoddi yn y gwaith uwchraddio.

Ymysg y prif waith sydd wedi'i wneud mae, ailfodelu'r gosodiad presennol i gynyddu maint y fflatiau, darparu gwell cyfleusterau storio yn y fflatiau, ailwampio'r lolfeydd cymunedol, gwella effeithiolrwydd ynni'r cynllun, yn cynnwys darparu 2 wefrydd EV a chynyddu'r ddarpariaeth parcio ceir o amgylch y cynlluniau.



Eccles Grange, Backworth, North Tyneside (North Tyneside Council)

Roedd y gwaith adnewyddu yn Eccles Grange, Backworth, North Tyneside, yn rhan o brosiect £300m North Tyneside Living y Cyngor, lle gwelwyd mwy na 920 o gartrefi byw'n annibynnol, modern, yn cael eu creu neu eu hailwampio mewn 26 safle ledled y bwrdeistref.

Roedd y gwaith adnewyddu yn cynnwys creu mynedfa flaen eang, newydd, wedi'i hail-leoli, gyda drysau awtomatig modern a gofod eistedd sy'n creu mynedfa ddeniadol ac amlwg. Cafodd yr holl fflatiau eu hadnewyddu, oedd yn cynnwys gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd. Hefyd, cafodd y lolfa gymunedol, y coridorau ac ardaloedd y gerddi eu moderneiddio gyda dodrefn newydd a chegin i drigolion. Tu allan, cafodd y gwaith brics agored blaenorol ei rendro, er mwyn newid golwg a theimlad allanol yr adeilad.

Cyfanswm cost y gwaith ailwampio oedd tua £2.1m, gyda chyllid gan gontract Buddsoddwr Ariannol Preifat.



Tai gofal ychwanegol

Mae tai gofal ychwanegol yn fath o dai arbenigol sydd wedi bodoli am oddeutu 25 mlynedd. Mae'r term, tai gofal ychwanegol, yn cael ei ddefnyddio fel arfer i ddisgrifio datblygiadau sy'n cynnwys tai hunan-gynhwysol gyda nodweddion dylunio i gefnogi annibyniaeth ac argaeledd gofal ar y safle. Mae'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio gan y sector tai cymdeithasol a'r sector preifat, yn wahanol. Er bod landlordiaid cymdeithasol yn tueddu i ddefnyddio'r terminoleg tai gofal ychwanegol, mae datblygwyr preifat yn tueddu i osgoi cyfeirio at 'gofal ychwanegol' ac yn tueddu i ddefnyddio 'pentref/byw ar ôl ymddeol' (*retirement living/village*). Fodd bynnag, mae rhai landlordiaid cymdeithasol wedi gwneud penderfyniad bwriadol i beidio â defnyddio 'gofal ychwanegol' a defnyddio termau megis *'retirement living plus'*; Mae gwaith ymchwil LIN tai gyda phobl hŷn wedi dangos bod y term 'gofal ychwanegol' yn gallu gwneud i bobl gymryd yn erbyn y datblygiad, a bod rhai pobl dan yr argraff bod hyn yn golygu ei fod yn gartref gofal.

Yn wreiddiol, roedd tai gofal ychwanegol yn cael eu hadeiladu i letya cwsmer hŷn gydag 'anghenion yn ymwneud â'u hoedran', yn benodol fel dewis amgen i ofal preswyl. Mewn blynyddoedd diweddar, mae tai gofal ychwanegol ledled y DU wedi profi carfan o gwsmeriaid sy'n fwy amrywiol, o ganlyniad i bwysau cynyddol ar awdurdodau lleol i ganfod llety i bobl hŷn gydag amrediad o anghenion cefnogaeth, ynghyd â chynnydd mewn pobl hŷn sy'n byw gyda dementia.

Hafan Cefni, Ynys Môn (ClwydAlyn)

Mae cynllun tai gofal ychwanegol Hafan Cefni yn cynnwys 63 o fflatiau gofal ychwanegol o ansawdd uchel i'w rhentu; 15 ohonyn nhw wedi'u dylunio a'u haddasu'n benodol i bobl hŷn sy'n byw gyda dementia. Mae'r fflatiau ar gael i unigolion 60 oed a throsodd gydag angen gofal a chefnogaeth sydd wedi'i asesu.

Mae Hafan Cefni yn gweithredu fel hwb i'r ardal leol, tuedd sy'n cael ei gweithredu yn gynyddol ar draws tai gofal ychwanegol. Mae'r cyfleusterau cymunedol yn cynnwys caffi, bwyty, siop trin gwallt ac ystafelloedd aml-bwrpas y gellir eu defnyddio fel sinema bychan, cynnal gweithdai a gofod TG, fyddai ar agor i'r gymuned leol.



Dora Matthews House, Coleford (Ambient)

Mae Dora Matthews House yn cynnig 44 o fflatiau un a dwy lofft i bobl hŷn gydag angen gofal ac maent wedi'u dylunio i gefnogi'r rhai sy'n byw gyda dementia. Yng nghefn y safle, mae 5 byngalo siale dwy lofft i oedolion gydag anableddau dysgu yn ategu'r prif ddefnydd ac mae'n bosib i'r trigolion hynny gael cyfleoedd swyddi cysylltiedig.

Rhan allweddol o'r datblygiad yw canolfan llesiant, a 'Sixteen', sef y caffi cymunedol, sydd wedi'i leoli ar flaen y stryd, ac mae wedi'i gysylltu i'r llety gan bont gaeedig sy'n cysgodi cwrt cyhoeddus gyda seddi yn yr awyr agored. Mae hwn yn ganolbwynt i'r trigolion ac yn rhywle y gallant fynd i gymdeithasu a chwrdd â ffrindiau.



Hafod Y Parc, Abergele, Conwy (Cymdeithas Tai Gogledd Cymru)

Mae Hafod Y Parc yn cynnwys 49 o fflatiau hunan-gynhwysol (44 fflat dwy lofft, 5 fflat un llofft), i bobl 60 oed a throsodd gydag anghenion gofal a chefnogaeth[24]. Mae un fflat yn cael ei ddefnyddio fel fflat tymor byr.

Dyluniwyd y fflatiau yn unol â gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru a safonau Cartrefi Oes. Y prif nod oedd creu "cartref oddi cartref", a dylunio adeilad sy'n sympathetig i'w

24 https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/Practice_examples/Housing_LIN_case_studies/HLIN_CaseStudy_154_HafodYGest.pdf

gymdogion ac yn ymddangos yn adeilad preswyl yn hytrach na sefydliad, fel sydd i'w weld yn nyluniad crwm yr adeilad. Mae hyn wedi cael gwared ar y teimlad sefydliadol sy'n dod weithiau gyda choridorau hir ac unionsyth.



Hafod y Gest, Gwynedd (Grŵp Cynefin)

Hafod y Gest yw pedwerydd cynllun gofal ychwanegol Grŵp Cynefin ac fe'i datblygwyd mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd. Mae'n cynnwys 40 o fflatiau; 26 dwy lofft ac 14 un llofft ac mae wedi'i leoli yng nghanol tref Porthmadog felly mae yng nghanol y gymuned ac yn agos i'r siopau a chyfleusterau eraill. Mae'n cynnwys dyluniad mewnol o ansawdd uchel iawn.

Mae nifer o weithgareddau cymunedol a chymdeithasol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, yn cynnwys boreau coffi, sesiynau celf a chrefft, clwb llyfrau, gweithgareddau Dementia Go, sesiynau cerdd a Phrosiect Pontio'r Cenedlaethau poblogaidd iawn sy'n cael ei gynnal gydag ysgol gynradd leol.



Quayside, Totnes (Guinness)

1.01 Quayside yw datblygiad tai gofal ychwanegol diweddaraf Guinness, wedi'i leoli yn Totnes ger Afon Dart, i bobl dros 55 mlwydd oed. Mae gan y datblygiad 30 o fflatiau cyd-berchnogaeth a 30 ar rent fforddiadwy. Mae'r cyfleusterau cymunedol yn cynnwys caffi bistro, ardaloedd gweithgareddau ac 'ystafell bampro' lle y gall trigolion drefnu i gael torri eu gwallt, gwneud eu hewinedd a chael triniaethau harddwch. Nid oes lolfa gymunedol fawr; yn hytrach, mae ardaloedd eistedd llai yn manteisio ar y golygfeydd o'r safle. Mae'r addurniadau a'r gosodiad mewnol wedi'u dylunio i fod yn dementia-gyfeillgar, ond mewn ffordd sy'n ddeniadol a moethus.



Cymunedau sy'n pontio cenedlaethau

Roedd adroddiad 2026 yr *All-Party Parliamentary Group on Housing and Care for Older People Inquiry*, llywodraeth y DU (*i'w gyhoeddi ar 17 Mawrth 2026*), yn edrych ar sut mae sefydliadau yn ystyried sut maent yn creu cymunedau sy'n pontio cenedlaethau drwy ddarparu cymysgedd o fathau o dai i gefnogi pobl o wahanol oedran i fyw ochr yn ochr.

Pentref Pwylaidd Penrhos, Gwynedd (Tai ClwydAlyn)

Fel rhan o'r uno â'r Gymdeithas Tai Pwylaidd, mae Tai ClwydAlyn yn ailddatblygu safle sydd wedi bod yn gynllun tai i'r gymuned Pwylaidd ers diwedd yr ail ryfel byd.

Bydd y pentref newydd yn darparu 112 o gartrefi newydd, gyda chymysgedd o fyngalos a chartrefi anghenion cyffredinol, ynghyd â bloc o fflatiau dynodedig i oedran penodol fydd yn gysylltiedig â chartref gofal nyrsio fel y bydd modd i'r tenantiaid ddefnyddio cyfleusterau cymunedol y tai pobl hŷn a thrigolion y cartref gofal.

Mae'r datblygiad yn cynnwys tai hygyrch i bobl gydag anableddau dysgu a chartrefi i deuluoedd, a allai fod ar gyfer pobl lle mae ganddynt aelod o'r teulu ag anableddau. Bydd yr holl gartrefi yn cael eu dylunio i fod yn ynni effeithlon, ynghyd â chydymffurfio â safonau Ansawdd Tai Cymru a safonau Cartrefi Oes, i gefnogi pobl i heneiddio heb orfod symud.

Mae'r holl bartneriaid, Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a ClwydAlyn, yn parhau i gydweithio ar y model tai a gofal newydd ac arloesol hwn ar gyfer safle Penrhos, gyda'r cartrefi cyntaf i fod i gael eu cwblhau yn ystod 2026.



Pentref Llesiant (*Wellbeing Village*), Trelái (Cyngor Dinas Caerdydd)

Fel rhan o raglen gyflawni Cyngor Dinas Caerdydd i ddarparu tua 600 o gartrefi newydd ledled y ddinas i bobl hŷn, mae'n ailddatblygu cyn-goleg a safle tafarn yn Nhrelái fel 'Pentref Llesiant'.

Bydd y Pentref Llesiant yn gweld 265 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu, gyda 107 o fflatiau un a dwy lofft wedi'u dylunio ar gyfer pobl hŷn wedi'u dylunio'n unol ag egwyddorion

HAPPI. Mae penderfyniadau yn dal i gael eu gwneud ynghylch p'un a fydd tai i bobl hŷn yn cael eu darparu fel tai gyda neu heb ofal ar y safle, ond bydd hyn yn darparu tai cyfoes, hygyrch, sydd wedi'u bwriadu i annog pobl i gael tai o'r maint cywir (*rightsizing*).

Fel rhan o'r dyhead tuag at wasanaethau integredig, bydd y Pentref Llesiant hefyd yn cynnwys meddygfa meddygon teulu, fferyllfa, canolfan gymunedol, hwb y cyngor, canolfan seibiant a llety â chefnogaeth i wasanaethau oedolion, ynghyd â gerddi cyhoeddus a chaffi.

Y bwriad wrth integreiddio amrywiaeth o wasanaethau iechyd a llesiant ar yr un safle yw galluogi gweithio unedig rhwng gwasanaethau a gwasanaeth holistaidd i drigolion a phobl leol. Ynghyd â darparu cymdogaeth sy'n galluogi trigolion i fyw a heneiddio'n dda.



Melfield Gardens, Lewisham, Llundain (Phoenix Community Housing)

Melfield Gardens yw'r cynllun tai pontio'r cenedlaethau cyntaf yn y DU a gafodd ei ddylunio'n benodol ar gyfer y diben hwnnw. Mae'n cynnwys 30 o fflatiau fforddiadwy 'un llofft plws' i drigolion 55+ oed wedi'i ddylunio yn unol ag egwyddorion HAPPI a dau fflat pedair llofft i fyfyrwyr Prifysgol Goldsmith. Yn gyfnewid am rent is na rhent y farchnad, mae myfyrwyr yn ymrwymo i dreulio amser gyda'u cymdogion, gan adeiladu perthnasau a chefnogi gweithgareddau cymunedol.

Roedd Melfield Gardens yn adeiladu ar y dysgu o Hazelhurst Court, cynllun gofal ychwanegol 2018 gan Phoenix, oedd wedi creu cyfres o *'chain lettings'* pan wnaeth trigolion o gartrefi teulu Phoenix symud i mewn. Gyda 703 o gartrefi teulu Phoenix wedi'u meddiannu gan un person, hyd yma mae Melfield Gardens wedi galluogi deg o gartrefi i deuluoedd mwy i gael eu rhyddhau, ac mae'r *'chain lettings'* dilynol wedi bod o fudd uniongyrchol i 22 o bobl.

Mae hyn wedi cynnwys cynllun gosod lleol wedi'i gytuno, gyda'r London Borough of Lewisham yn rhoi blaenoriaeth i drigolion Phoenix sy'n 'tanfeddiannu' eu cartref.

Wedi'i ddylunio gan Levitt Bernstein Architects i Safon Passivhaus, mae'r cynllun wedi'i rannu yn ddau adeilad sy'n amgáu yn rhannol lwybr cyhoeddus a gofod gwyrdd canolog sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr. Mae drysau blaen trigolion yn edrych dros y gofod hwn, gan greu cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd yn naturiol, gan gynyddu'r siawns o ryngweithio a'r synnwyr cyffredinol o gymuned.



Cartrefi gofal

Mae cartrefi gofal cyfoes (cartrefi gofal preswyl a chartrefi gofal nyrsio) yn darparu ansawdd uchel o ofal mewn llety deniadol sydd wedi'i ddylunio'n bwrpasol i weddu i anghenion pobl hŷn gydag anghenion gofal ac iechyd cymhleth. Mae hwn yn fodel gofal cartref gwahanol iawn i gartref gofal mwy traddodiadol sy'n aml yn seiliedig ar drosi ac addasu adeiladau presennol. Mae gan gartrefi gofal cyfoes sy'n rhoi'r person yn ganolog 'deimlad cartrefol' ac mae'r dyluniad yn osgoi edrych yn sefydliadol.

Speedwell Court, Southampton (Abbeyfield)

Mae Abbeyfield Speedwell Court yn gartref gofal Abbeyfield sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol yn Southampton. Mae'r cartref gofal yn darparu gwasanaethau gofal preswyl a dementia-gyfeillgar preswyl o ansawdd uchel. Mae Speedwell Court yn darparu 80 o ystafelloedd *en-suite*, wedi'u trefnu dros 5 aelwyd o 16 o ystafelloedd i gyd, sy'n helpu i greu lleoliad llai o faint i drigolion. Mae pob aelwyd yn elwa o'u lolfa a'u hystafell fwyta eu hunain.



Winnerish, Wokingham (Abbeyfield)

Mae datblygiad Winnish, Abbeyfield, yn gartref gofal preswyl, sy'n canolbwyntio ar dementia, sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol. Mae hwn yn gartref gofal preswyl 60 gwely wedi'i rannu yn 4 cwrt cylchol sy'n edrych allan dros erddi preifat. Er bod *en-suite* ymhob ystafell, mae ystafelloedd ymolchi sba ar wahân yn y cartref hefyd, gyda goleuadau sensori a'r

dechnoleg i fedru chwarae cerddoriaeth ymlaciol. Mae salon harddwch, lolfeydd cymunedol a phreifat, sinema, siop a chaffi yno hefyd, ac fe all trigolion a ffrindiau a theulu sy'n ymweld ddefnyddio'r cyfleusterau yma. Mae'r ardd fawr a'r teras to wedi'u dylunio i annog byw tu allan, gyda llawer o ardaloedd ar gyfer gweithgareddau neu ymlacio.



Saffron Gardens, Bryste (Brunelcare)

Mae datblygiad Saffron Gardens, gan Brunelcare ym Mryste yn darparu pum cwrt gofal cartref wedi'u gosod o amgylch eu gerddi eu hunain ac sydd â gerddi cynllun agored cartrefol ac ardaloedd eistedd cyfforddus. Mae'r dyluniad cartref gofal arloesol hwn yn darparu 70 ystafell, i gyd yn rhai *en-suite*, ac mae'n cynnwys sawl nodwedd i alluogi'r mwyaf o annibyniaeth a chyfleoedd i bobl sy'n byw â dementia neu sydd â llawer o anghenion gofal nyrsio neu ofynion gofal diwedd oes. Mae'r cartref gofal wedi'i leoli ar yr un safle â 14 o fflatiau byw'n annibynnol.



Belong Atherton, Manceinion (Belong Villages)

1.02 Mae gan Belong (elusen), yn Atherton, 26 o fflatiau hunan-gynhwysol ar gyfer byw'n annibynnol, a chwe 'aelwyd' sy'n cael eu cefnogi, gydag ystafelloedd gwely *en-suite* modern ac ardaloedd lolfa a chegin cynllun agored (cartref gofal). Mae aelwydydd Belong yn cynnig dewis amgen i gartrefi gofal confensiynol. Maent yn gweithredu â chymhareb staffio uwch na'r cyfartaledd ac uchafswm o 12 trigolyn fesul aelwyd, gan gynnig awyrgylch deuluol. Mae'n cael ei ddisgrifio fel 'pentref gofal' gyda fflatiau byw'n annibynnol sydd ddim yn ffurfio rhan o'r gwasanaeth gofal cartref cofrestredig, ond sy'n ganolog i'r pentref gofal a'i

ddyluniad. Mae amrediad o fflatiau un neu ddwy lofft, sydd ar gael ar rent y farchnad neu i'w prynu, i unigolion neu gyplau.



Pentref Pwylaidd Penrhos, Gwynedd (Tai ClwydAlyn)

Fel y nodwyd uchod, mae ailddatblygiad Pentref Pwylaidd Penrhos yn mynd i weld cartref gofal nyrsio wedi'i leoli ar yr un safle ag amrediad o dai gwahanol.

Bydd y gymysgedd o dai a llety yn golygu bod pobl am fedru heneiddio heb symud, pe bai eu hanghenion yn newid dros amser.

Atodiad 1: Tystiolaeth gefnogol

Tabl 63. Manylion cyflenwi cartrefi gofal yng Ngwynedd

Cartref gofal	Math y gofal	Is-ardal	Mewnol/Preifat	Capasiti
Alexandra	Nyrsio	Tywyn / Dysynni	Preifat	25
The Bay	Nyrsio	Tywyn / Dysynni	Preifat	30
Bodawen	Nyrsio	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	Preifat	36
Bryn Awelon	Nyrsio	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	Preifat	28
Bryn Seiont	Nyrsio	Caernarfon	Preifat	107
Ceris Newydd	Nyrsio	Bangor	Preifat	44
Glyn Menai	Nyrsio	Bangor	Preifat	34
Cerrig yr Afon	Nyrsio	Caernarfon	Preifat	55
MC Porthmadog	Nyrsio	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	Preifat	42
MC Criccieth	Nyrsio	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	Preifat	38
Plas Gwyn	Nyrsio	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	Preifat	37
Cyfanswm y gwelyau gofal nyrsio				**476**
Bryn Meddyg	Preswyl	Caernarfon	Preifat	33
Dolwar	Preswyl	Pwllheli	Preifat	17
Gwynfa Lodge	Preswyl	Caernarfon	Preifat	20
Hillsboro	Preswyl	Tywyn / Dysynni	Preifat	5
Marbryn	Preswyl	Caernarfon	Preifat	18
Snowdon	Preswyl	Caernarfon	Preifat	27
Tirionfa	Preswyl	Bala / Penllyn	Preifat	11
Willow Hall	Preswyl	Caernarfon	Preifat	24
Plas Madryn	Preswyl	Pen Llŷn	Preifat	20
Plas Pengwaith	Preswyl	Caernarfon	Mewnol	31
Plas Hafan	Preswyl	Pen Llŷn	Mewnol	30
Hafod Mawddach	Preswyl	Dolgellau	Mewnol	31
Llys Cadfan	Preswyl	Tywyn / Dysynni	Mewnol	33
Plas Hedd	Preswyl	Bangor	Mewnol	28
Bryn Blodau	Preswyl	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	Mewnol	41
Plas Gwilym	Preswyl	Caernarfon	Mewnol	27
Plas Maesincla	Preswyl	Caernarfon	Mewnol	23
Cefn Rodyn	Preswyl	Dolgellau	Mewnol	21
Plas y Don	Preswyl	Pwllheli	Mewnol	28
Plas Ogwen	Preswyl	Ogwen	Mewnol	27
Gwynfa	Preswyl	Caernarfon	Preifat	23
Cyfanswm y gwelyau gofal preswyl				518
			Cyfanswm y gwelyau cartref gofal	**994**

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd, HLIN (2025)

Tabl 64. Manylion cyflenwi tai gwarchod yng Ngwynedd

Cymdeithasau Tai	Is-ardal	Cyfeiriad	Tref	Unedau
Tai Gogledd Cymru	Bangor	Y Gorlan, Stryd Fawr	Bangor	30
Grŵp Cynefin	Dysynni	Rhos Ddyfi	Aberdyfi	6
Grŵp Cynefin	Bangor	Llys Cadwaladr	Bangor	8
Grŵp Cynefin	Bangor	Carreg Y Garth	Bangor	10
Grŵp Cynefin	Caernarfon	Cae Morys	Beddgelert	6
Grŵp Cynefin	Ffestiniog	Fron Fawr	Blaenau Ffestiniog	1
Grŵp Cynefin	Ffestiniog	Trem Y Bwlch	Blaenau Ffestiniog	10
Grŵp Cynefin	Dysynni	Llain Yr Eglwys	Corris	4
Grŵp Cynefin	Dolgellau	Meyrick Square	Dolgellau	25
Grŵp Cynefin	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	Bro Gwgan	Garndolbenmaen	4
Grŵp Cynefin	Bala / Penllyn	Maes Y Priordy	Llandderfel	3
Grŵp Cynefin	Lleu / Nantlle	Bryn Rhedyw	Llanllyfni	7
Grŵp Cynefin	Pwllheli	Penlleiniau	Llannor	2
Grŵp Cynefin	Caernarfon	Cefn Elan	Llanrug	4
Grŵp Cynefin	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	Trem Y Moelwyn	Penrhyndeudraeth	4
Grŵp Cynefin	Lleu / Nantlle	Cae Capel Bach	Penygroes	3
Grŵp Cynefin	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	Stryd Fawr	Porthmadog	40
Grŵp Cynefin	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	Tai'r Felin	Porthmadog	10
Grŵp Cynefin	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	Cerrig Yr Afon	Porthmadog	9
Grŵp Cynefin	Pwllheli	Glan Rhyd	Pwllheli	2
Grŵp Cynefin	Pwllheli	Cefn Traeth	Pwllheli	2
Grŵp Cynefin	Pwllheli	Llys Madryn	Pwllheli	10
Grŵp Cynefin	Ffestiniog	Hafan Deg	Tanygrisiau	2
Grŵp Cynefin	Pen Llŷn	Bryn Meillion	Trefor	2
Grŵp Cynefin	Pen Llŷn	Hen Ysgol	Trefor	8
Grŵp Cynefin	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	Maes Y Môr	Tremadog	38
Grŵp Cynefin	Pen Llŷn	Cae Capel	Tudweiliog	2
Grŵp Cynefin	Pen Llŷn	Bro Dwylan	Tudweiliog	4
Grŵp Cynefin	Bala / Penllyn	Awel Y Coleg	Y Bala	30
Grŵp Cynefin	Bala / Penllyn	Plas y Ddôl	Y Bala	10
Adra	Dysynni	Morfa Cadfan	Tywyn	21
Adra	Dolgellau	Ffynhonnau	Dolgellau	13
Adra	Ardudwy	Hafan Deg	Abermaw	23
Adra	Ardudwy	Pentre Uchaf	Dyffryn Ardudwy	11
Adra	Porthmadog / Penrhyndeudraeth	Bro Llewelyn	Penrhyndeudraeth	21
Adra	Y Bala / Penllyn	Cysgod Y Coleg	Bala	26

Cymdeithasau Tai	Is-ardal	Cyfeiriad	Tref	Unedau
Adra	Pwllheli	Frondeg	Pwllheli	28
Adra	Caernarfon	Plas Leiod	Caernarfon	21
Adra	Bangor	Plas Penrhos	Bangor	39
Adra	Caernarfon	Tan Y Mur	Caernarfon	22
Adra	Caernarfon	Hafan Elan	Llanrug	25
Adra	Caernarfon	Tre Gôf	Caernarfon	2
Adra	Caernarfon	Wesley Street	Caernarfon	2
Adra	Ogwen	Rhydfadog	Deiniolen	4
Adra	Lleu / Nantlle	Trem Yr Wyddfa	Penygroes	11
Adra	Lleu / Nantlle	Bryn Llwyn	Penygroes	9
Adra	Lleu / Nantlle	Lôn Yr Eglwys	Penygroes	2
Adra	Lleu / Nantlle	Gwelfor	Rhosgadfan	5
Adra	Lleu / Nantlle	Cae Catrin	Penygroes	7
Adra	Bangor	Llys Dewi Sant	Bangor	21
Adra	Bangor	Craig Menai	Bangor	18
Adra	Ogwen	Maes Y Garnedd	Bethesda	6
Adra	Caernarfon	Llys Yr Eifl	Caernarfon	25
Adra	Caernarfon	Llys Y Foel	Caernarfon	8
Adra	Caernarfon	Cae Corn Hir	Caernarfon	8
			Cyfanswm	**674**

Tabl 65. Dosbarthiad wedi'i bwysoli yn ôl galw 65+ yn ôl is-ardal

Is-ardal	Poblogaeth 65+	Pob %	Ffafriaeth yr arolwg %	Cyfran ffafriaeth wedi'i normaleiddio	Sgôr wedi'i phwysoli (70/30)
Ardudwy	2,067	8%	8%	8%	8%
Y Bala / Penllyn	1,031	4%	0%	0%	3%
Bangor	2,812	10%	14%	14%	11%
Caernarfon	2,340	9%	18%	18%	11%
Dolgellau	1,455	5%	13%	13%	8%
Dysynni	2,444	9%	10%	10%	9%
Ffestiniog	1,377	5%	0%	0%	4%
Lleu / Nantlle	2,180	8%	7%	7%	8%
Ogwen	1,585	6%	4%	4%	5%
Pen Llŷn	2,219	8%	5%	5%	7%
Peris	2,382	9%	5%	5%	8%
Porthmadog / Penrhyndeudraeth	3,041	11%	10%	10%	11%
Pwllheli	2,474	9%	5%	5%	8%
Gwynedd	**27,408**	**100%**	**99%**	**100%**	**100%**

Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Gwynedd (2025), HLIN
DS: Caniatawyd sawl ymateb; roedd y ffafriaeth yn cael ei normaleiddio i 100% ar gyfer modelu.

Atodiad 2: Rhestr Termau

Tai fforddiadwy

Tai sy'n cael eu darparu ar rent neu gyd-berchnogaeth i bobl sy'n methu fforddio rhentu neu brynu eiddo ar y farchnad agored.

Technoleg Gofal

Y term a ddefnyddir i ddisgrifio dyfeisiau digidol neu glyfar a gwasanaethau sy'n medru cefnogi annibyniaeth person; i'w helpu nhw/eraill i hunan-reoli'n well a monitro eu hiechyd a'u llesiant ac/neu ddarparu tawelwch meddwl. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys teleofal (monitro o bell), technoleg gynorthwyol, megis cymorthyddion digidol, a teleiechyd (monitro iechyd o bell).

Tai gofal ychwanegol

Cartrefi hunan-gynhwysol gyda nodweddion dylunio a gwasanaethau cefnogi ar gael i alluogi hunan-ofal a byw'n annibynnol.

Tai Anghenion Cyffredinol

Tai sydd ddim wedi'u hadeiladu'n bwrpasol, eu haddasu na'u rheoli ar gyfer cleient/grŵp gofal penodol.

Cymdeithasau Tai

Sefydliad sy'n darparu tai a fflatiau i bobl ar incwm isel neu sydd ag anghenion. Hefyd yn cael eu hadnabod fel 'darparwr cofrestredig'.

Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai (HRS)

Gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i helpu pobl fregus i adennill, cadw neu gyflawni byw'n annibynnol.

Cofrestr tai

Cofrestr neu restr o bobl sy'n chwilio am dai cymdeithasol a fforddiadwy mewn LHMA, dinas neu ardal cyngor bwrdeistref. Mae gan y mwyafrif o gynghorau reolau lleol ynghylch pwy all ymuno â'u cofrestr tai.

Dull Gofal Integredig (ICS)

Partneriaethau sefydliadau sy'n dod ynghyd i gynllunio a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal unedig, a gwella bywydau pobl sy'n byw a gweithio yn eu hardal.

Cynllun Lleol

Dogfen wedi'i chynhyrchu gan LHMA, cynghorau dinas, bwrdeistref neu unedol i osod y fframwaith a'r polisïau ar benderfyniadau ar gynigion datblygu i'r dyfodol ac ymdrin â'r anghenion datblygu a chyfleoedd yr ardal am gyfnod o 15-20 mlynedd. Mae Cynlluniau Lleol yn adnabod safleoedd penodol ar gyfer datblygiad a'u hegwyddorion datblygu i ddangos bod modd iddo gwrdd â'r angen tai lleol. Fel arfer, mae Cynlluniau Lleol yn ymdrin â phynciau megis tai, cyflogaeth, manwerthu a'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi unrhyw ddatblygiad newydd (megis ysgolion, cyfleusterau iechyd, cludiant). Hefyd, bydd y Cynllun Lleol yn adnabod ble y dylai datblygiad ddigwydd ac ardaloedd lle dylid cyfyngu ar ddatblygiadau, o ystyried y cyfyngiadau amgylcheddol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Gofal nyrsio

Gofal personol a meddygol hirdymor wedi'i ddarparu mewn cartref gofal.

Gofal preswyl

Gofal personol hirdymor wedi'i ddarparu mewn cartref gofal yn hytrach na chartref person.

Tai gwarchod

Fel arfer, mae'r tai yma yn cynnig llety hunan-gynhwysol. Fel arfer, maent yn cael eu cefnogi gan reolwr cynllun dros dro/sy'n ymweld, a chymorth brys 24-awr drwy larwm. Yn aml, mae ardaloedd cymunedol ac mae rhai yn cynnig gweithgareddau. Yn y sector cymdeithasol, mae'r rhan fwyaf o lety yn cael ei gynnig ar rent cymdeithasol neu fforddiadwy, yn seiliedig ar angen, gan gynghorau lleol neu gymdeithasau tai. Yn y sector preifat, mae fel arfer yn cael ei adeiladu gan ddatblygwyr preifat i'w gwerthu ar y farchnad (ac weithiau ar rent y farchnad). Unwaith y bydd yr holl eiddo wedi'i werthu, mae'r cynllun weithiau'n cael ei redeg gan gwmni rheoli ar wahân sy'n cyflogi rheolwr cynllun sy'n trefnu'r gwaith cynnal a chadw a gwasanaethau eraill.

Tai ar gyfer oedran penodol

Maent yn wahanol i dai gwarchod, h.y. nid oes gan dai ar gyfer oedran penodol yr un cyfleusterau cymunedol a chefnogaeth gan staff sydd fel arfer yn gysylltiedig â thai gwarchod.

Tai gofal ychwanegol:

Yn aml, cyfeirir atynt fel 'tai gofal ychwanegol' pan maent yn cael eu darparu gan gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol (ar rent fforddiadwy a chyd-berchnogaeth) a 'byw â chymorth' neu 'bentrefi ymddeol' neu 'gymunedau ymddeol integredig' gan ddarparwyr sector preifat i'w gwerthu ar y farchnad (ac weithiau ar rent y farchnad). Mae tai gofal ychwanegol wedi'u dylunio ar gyfer pobl hŷn, rhai gyda lefelau uwch o anghenion gofal a chefnogaeth. Mae trigolion yn byw mewn cartrefi hunan-gynhwysol. Fel arfer, mae ynddynt fwy o gyfleusterau cymunedol ac maent yn cynnig mynediad at wasanaethau gofal ar y safle 24/7, sy'n cynnwys cymorth i baratoi prydau bwyd, golchi a dyletswyddau dyddiol eraill (gall rhai cynlluniau tai gofal ychwanegol gynnig mynediad at wasanaethau gofal gan staff gofal sydd ar y safle 24/7). Yn aml, mae'n cynnwys system larwm 24/7, presenoldeb rheolwr cynllun ac aelod o staff cefnogi.

Tai cymdeithasol

Tai sydd fel arfer yn cael eu darparu gan gynghorau lleol neu gymdeithasau tai. Mae gan gartrefi cymdeithasol lefel rhent sy'n adlewyrchu incwm lleol. Mae darparwyr y cartrefi yn cael eu monitro'n annibynnol gan reoleiddiwr cenedlaethol.

Tai a Llety â Chefnogaeth ac Arbenigol

Llety â Chefnogaeth ac Arbenigol yw lle mae tai, cefnogaeth ac/neu wasanaethau gofal yn cael eu darparu i helpu pobl gydag angen penodol i fyw mor annibynnol â phosib. Mae llety â chefnogaeth yn darparu cartrefi i amrediad eang o bobl, yn cynnwys pobl hŷn, pobl ag anabledd neu awtistiaeth, pobl gydag anghenion sy'n ymwneud â iechyd meddwl, a phobl ifanc bregus.

Deiliadaeth

Yr amodau y mae tir neu adeiladau yn cael eu dal, neu eu meddiannu oddi tanynt, er enghraifft, perchennog cyflawn, wedi'i sicrhau drwy forgais, wedi'i rentu gan landlord preifat neu wedi'i rentu gan Gymdeithas Tai.

Tud. 117

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y cyfarfod:	**10 Tachwedd 2026**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Craig ab Iago**
Swyddog Cyswllt:	**Bethan Richardson, Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd**
Teitl yr Eitem:	**Adroddiad Blynyddol 2025/26 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur**

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

---

1. Y penderfyniad a geisir

i. Bod y Cabinet yn ystyried ac yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2025/26 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd.

---

2. Y Rheswm Dros yr Angen am Benderfyniad

i. Mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi datganiad argyfwng hinsawdd fis Mawrth 2019 ac yn sgil hynny fe gyhoeddwyd y Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) 2022/23-2029/30 (CAHN) fis Mawrth 2022. Yn ystod 2025 fe gynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn adolygu'r cynllun, ac fe arweiniodd hynny at greu diweddariad o'r cynllun (fersiwn 2) a gafodd ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor fis Gorffennaf 2026. Er hynny, mae'r adroddiad blynyddol hwn yn asesu'r cynnydd ar y cynllun gwreiddiol a gyhoeddwyd Mawrth 2022.

ii. Mae'r CAHN yn un o'r prosiectau o fewn pennawd Gwynedd Werdd yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028, ac felly'n un o'n blaenoriaethau strategol.

iii. Mae adroddiadau blynyddol ar gynnydd y CAHN wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ers 2022/23 yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet.

iv. Mae llawer o'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adroddiad blynyddol hwn eisoes wedi ei graffu gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur a thrwy drefniadau herio perfformiad mewnol y Cyngor, ond mae'r adroddiad blynyddol yn dod â'r holl wybodaeth at ei gilydd am y tro cyntaf.

v. Trafodwyd fersiwn drafft o'r Adroddiad Blynyddol mewn cyfarfod o Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ar 1 Hydref, ac mae sylwadau'r pwyllgor wedi eu crynhoi yn 5. isod.

vi. Gan ddilyn yr un drefn â blynyddoedd blaenorol, dyma gyfle i'r Cabinet benderfynu os ydynt yn fodlon bod yr Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1 yn rhoi darlun cywir a chytbwys a'i peidio o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2025/26 er mwyn cyrraedd uchelgais y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (CAHN).

vii. Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau. Rydym yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn 'dyletswydd Adran 6' o fewn Adroddiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2025/26

viii. Gall y Cabinet hefyd gynnig sylwadau ac arweiniad ar drywydd gwaith y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur i'r dyfodol.

3. Cefndir

i. Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (y Cynllun) yn amlinellu sut y byddwn fel Cyngor yn addasu ein ffordd o weithio ac o ddarparu gwasanaethau er mwyn lleihau ein allyriadau carbon a chynyddu capasiti amsugno carbon. Mae'n cynnig enghreifftiau o brosiectau y byddwn yn eu dilyn, eu costau amlinellol a'r amserlen er mwyn cyflawni.

ii. Hon yw'r bedwaredd flwyddyn hefyd i ni, fel y rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru, gyflwyno data am ein lefelau allyriadau ac amsugno carbon i Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Gosodir canllawiau clir ar ba ddata sydd angen ei gasglu, ac mae hynny'n sicrhau cywirdeb a chysondeb rhwng sefydliadau.

iii. Rydym yn mesur ein allyriadau carbon ar draws y categorïau canlynol: adeiladau ac ynni; goleuadau stryd; fflyd ac offer; teithio busnes; cymudo staff; gweithio o gartref; gwastraff; caffael nwyddau a gwasanaethau. Rydym hefyd yn mesur lefelau amsugno carbon yn y tiroedd sy'n berchen i'r Cyngor.

iv. Mae angen i ni gasglu data am y carbon sy'n deillio o'n prosesau caffael, ond mae'r fethodoleg bresennol yn seiliedig ar fesur yn ôl gwariant ariannol yn unig. Yn syml, po fwyaf yr ydym yn ei wario, po fwyaf yw'r allyriadau. Oherwydd y gall hyn greu darlun amherffaith o'r gwir sefyllfa mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi dau set o ddata gwahanol – gyda chaffael a heb ddata caffael.

v. Mae data carbon Cyngor Gwynedd ar gyfer 2025/26 wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 14 Medi, ac mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol yn seiliedig ar yr hyn a gyflwynwyd. Mae hi'n rhy gynnar i ni dderbyn sylwadau yn ôl gan y Llywodraeth, ond roedd yr wybodaeth yn gywir hyd eithaf ein gallu.

vi. Ar sail y data hwn rydym yn gwybod faint yw'r 'bwlch i sero net' ac felly faint yn rhagor o waith sydd o'n blaenau os ydym am gyrraedd ein targed.

4. Prif Faterion

i. Mae pennod 5 yr Adroddiad Blynyddol yn rhoi gwybodaeth am y lefelau o allyriadau ac amsugno carbon yr oedd y Cyngor yn gyfrifol amdanynt, ac am y ffigwr holl-bwysig, sef y bwlch sy'n weddill er mwyn cyrraedd sero net.

ii. Mae'r allyriadau carbon o'n prosesau caffael yn seiliedig ar wariant yn unig ar hyn bryd, a gall hyn greu darlun camarweiniol o wir effaith ein gwariant ar yr hinsawdd. Yn syml, po fwyaf yr ydym yn ei wario po fwyaf yw'r allyriadau. O'r herwydd rydym yn cyflwyno dau set o ddata ym mhob pennod, sef 'gan gynnwys caffael' a 'heb gynnwys caffael'.

iii. Roedd cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Gwynedd yn 2025/26, gan gynnwys caffael, wedi gostwng 8% ers blwyddyn waelodlin 2019/20 a gostwng 11% ers 2024/25.

iv. Roedd cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Gwynedd yn 2025/26, heb gynnwys caffael, wedi lleihau 39% ers blwyddyn waelodlin 2019/20 a gostwng 6% ers 2024/25.

v. Wrth edrych ar ein data allyrru ac amsugno carbon gyda'i gilydd, heb ystyried data caffael, yna mae ein bwlch i sero net 37% yn llai yn 2024/25 o'i gymharu â 2019/20 a 7% yn llai nag yn 2024/25.

vi. Fe wnaeth canran yr allyriadau carbon leihau ym mhob categori heblaw cymudo, ac rydym o'r farn bod y cynnydd yn y categori hwnnw oherwydd ein bod wedi cynnal arolwg staff er mwyn casglu data fwy cywir na'r hyn a gawsom mewn blynyddoedd blaenorol.

5. Argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau

i. Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 1 Hydref ac mae eu sylwadau a'u hargymhellion o faterion i'w trafod gan y Cabinet wedi eu nodi isod:

1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.
2. Croesawyd y bwriad i drafod gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru o ran methodoleg cyfrifo allyriadau carbon yn y maes Caffael, ynghyd a dilyniant i'r cynllun EC04 sydd yn dirwyn i ben.

6. Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

i. Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau.

ii. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol, sef y 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur' yn 2015 oedd yn amlinellu'r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, ac ynddo y mae 6 amcan ar gyfer gweithredu. Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynllun eu hunain sy'n seiliedig ar gynllun Llywodraeth Cymru, ac yna mae angen adrodd ar y cynnydd.

iii. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn diweddaru ein Cynllun Adfer Natur ein hunain er mwyn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf, ond yn y cyfamser rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn 6 amcan y Cynllun Gweithredu Adfer Natur cenedlaethol drwy'r Adroddiad Blynyddol Hinsawdd a Natur. Mae'r wybodaeth i'w weld ym mhennod 3 ac ar ddiwedd penodau 6 i 11.

7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

i. A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

ii. Bydd yr Adroddiad Blynyddol terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar ôl derbyn sêl bendith y Cabinet a byddwn yn rhannu gwybodaeth amdano i holl aelodau'r Cyngor, ac i drigolion Gwynedd a'r cyhoedd yn gyffredinol.

iii. A ydych wedi ystyried **cydweithio**?

iv. Mae penodau 11 a 12 o'r Adroddiad Blynyddol yn adrodd ar waith sydd wedi ei gynnal yn rhannol gan Bartneriaeth Natur Gwynedd, sef consortiwm o fudiadau lleol sy'n cael eu harwain gan y Cyngor. Mae nifer o brosiectau eraill sydd yn y CAHN yn cael eu cynnal mewn partneriaeth ag eraill, megis prosiectau teithio llesol ar y cyd â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

v. Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

vi. Un o egwyddorion sylfaenol y CAHN yw ceisio atal cynnydd pellach yn nhymheredd cyfartalog y blaned ac i gyfyngu cynhesu byd eang i "ymhell islaw 2 ^{o}C" yn unol â Chytundeb Paris y Cenhedloedd Unedig. Mae pob un o brosiectau'r cynllun yn ceisio sefydlogi neu hyd yn oed wrthdroi y siawns bod y sefyllfa bresennol yn arwain at ragor o broblemau yn y dyfodol.

vii. Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

viii. Fel y nodwyd uchod, sail y CAHN yw ceisio atal problemau cynhesu byd eang rhag gwaethygu i'r dyfodol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i Gymru gyfan fod yn sero net erbyn 2050. Mae'r CAHN felly hefyd yn cymryd i ystyriaeth y bydd newid arferion trigolion a busnesau Gwynedd yn waith hirdymor y tu hwnt i oes y CAHN ei hun, sef 2030.

ix. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlygu bod y CAHN ei hun yn datgan bod yna waith pellach angen ei wneud er mwyn ymgorffori prosiectau fydd yn helpu trigolion, busnesau a chymunedau i ymateb i newid hinsawdd sydd eisoes yn newid ein tirwedd, megis effaith llifogydd a thywydd eithafol. Mae datblygu Strategaeth Addasu Newid Hinsawdd yn un o'r prosiectau yn fersiwn 2 o'r CAHN ac felly mae'n debygol iawn y gwelwn brosiectau ychwanegol i'r dyfodol fydd yn canolbwyntio ar helpu trigolion Gwynedd i addasu i'r anghenion gwahanol dros gyfnod hir o amser.

x. Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

xi. Mae nifer fawr o brosiectau'r CAHN yn cael eu cynllunio neu eu gweithredu ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill neu gyda'r sector wirfoddol a chymunedau. Gweler 7.iv.

xii. Mae nifer o gyrff cyhoeddus lleol gan gynnwys Cyngor Gwynedd yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac un o dri Amcan Llesiant yng Nghynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-2028 yw 'Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon'. Mae yna gydweithio parhaus gydag awdurdodau lleol eraill ar draws gogledd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth i Gymru sydd wedi arwain at gynllunio a chomisiynu gwaith ar y cyd. Mae nifer o brosiectau'r CAHN hefyd yn ddibynnol ar gydweithio llwyddiannus gyda phartneriaid eraill, megis ein prosiectau bioamrywiaeth a defnydd tir ar y cyd â Phartneriaeth Natur Gwynedd.

8. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

i. Lluniwyd Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur pan y gafodd ei fabwysiadu yng nghyfarfod y Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Mae'r asesiad hwn yn uniongyrchol berthnasol i'r Adroddiad Blynyddol ar y CAHN yn ogystal.

9. Camau nesaf ac amserlen

i. Byddwn yn cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar ein gwefan ac yn rhannu gwybodaeth amdano.

ii. Byddwn yn parhau i gyd-drafod ac adeiladu perthynas gyda phartneriaid allanol er mwyn trafod gwersi a ddysgwyd o waith ein gilydd, a sut orau i ddatblygu'r gwaith i'r dyfodol.

Barn y swyddogion statudol

Y Swyddog Monitro:

Mae'n briodol fod y Cabinet yn cael cyfle i gymeradwyo yr Adroddiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur. Dim sylwadau pellach I'w darparu o ran priodoldeb

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf yn fodlon na fydd cymeradwyo'r penderfyniad geisir yn creu ymrwymiad gwariant ychwanegol gan ei fod yn adrodd ar weithgareddau'r flwyddyn ddiwethaf. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol


---

Atodiadau

Atodiad 1 - Adroddiad Blynyddol 2025/26 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

Cyngor Gwynedd

Adroddiad Blynyddol Hinsawdd a Natur 2025/26



Drafft i gyfarfod
Cabinet Cyngor Gwynedd
10 Tachwedd 2026

gwynedd.llyw.cymru

Cynnwys

1. Rhagair Aelod Cabinet Amgylchedd
2. Mesur er mwyn cyrraedd y nod
3. Allyriadau ac Amsugno Carbon 2025/26
4. Bwlch i Sero Net
5. Adran 6 – Cynnal a Gwella Bioamrywiaeth
6. Adeiladau ac Ynni
7. Symud a Thrafnidiaeth
8. Gwastraff
9. Llywodraethu
10. Caffael
11. Defnydd Tir
12. Bioamrywiaeth

1. Rhagair Aelod Cabinet Amgylchedd

Nid bygythiad ymhell i'r dyfodol yw'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae ei effeithiau i'w gweld yn ein cymunedau, ar ein tir ac ar ein harfordir heddiw. Mae amgylchedd a byd natur Gwynedd yr un mor unigryw ac arbennig â'i phobl a'i hiaith, ac mae gennym gyfrifoldeb i'w gwarchod, nid yn unig ar ein cyfer ni heddiw, ond ar gyfer y cenedlaethau a ddaw ar ein holau.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi rheswm inni fod yn obeithiol. Yn ystod 2025/26 gostyngodd allyriadau carbon y Cyngor, heb gynnwys caffael, 39% o'i gymharu â blwyddyn waelodlin 2019/20 a 6% o'i gymharu â 2024/25. Wrth gwrs, nid yn 2019 y dechreuodd y gwaith hwn; ers dros ddegawd cyn hynny, mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad yng Nghymru wrth flaenoriaethu'r angen i leihau ein hôl troed carbon ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd.
Rydym yn cydnabod nad oes gan un cyngor, nac un gymuned, y gallu i ddatrys yr argyfwng hinsawdd ar ei ben ei hun, ond mae gennym gyfrifoldeb i wneud popeth o fewn ein gallu i arwain drwy esiampl a bod yn rym dros newid cadarnhaol. Mae'r cynnydd a welwn eleni yn arwydd clir ein bod yn symud i'r cyfeiriad iawn, ac yn dystiolaeth fod arweinyddiaeth, gweithredu cyson a buddsoddiad bwriadol yn gallu arwain at newid gwirioneddol.

Gwelwyd rhai o'r gostyngiadau mwyaf yn ein hallyriadau carbon drwy'r gwaith a gyflawnwyd ym maes adeiladau ac ynni. Rydym wedi parhau i weithredu yn rhagweithiol gan fuddsoddi yn ein hadeiladau drwy wella ffabrig adeiladau, gosod paneli solar ychwanegol, uwchraddio goleuadau LED a chyflwyno rhagor o systemau gwres carbon isel. Nid yn unig y mae'r buddsoddiad hwn yn lleihau allyriadau carbon, ond mae hefyd yn helpu i leihau costau rhedeg adeiladau a gwneud defnydd gwell o adnoddau cyhoeddus.

Mae'r un egwyddor yn wir am ein gwaith ym maes natur. Ni all y Cyngor gyflawni'r newid sydd ei angen ar ei ben ei hun, ac mae cydweithio'n ganolog i'n hymateb. Drwy Bartneriaeth Natur Gwynedd, rydym yn gweithio gyda sefydliadau cyhoeddus, mudiadau gwirfoddol, unigolion a chynghorau tref a chymuned i warchod a gwella byd natur. Yn ystod 2025/26, bu'r Bartneriaeth yn cydweithio â chynghorau tref a chymuned a mudiadau lleol er mwyn cryfhau bioamrywiaeth, cysylltu pobl â natur a sicrhau buddion parhaol i gymunedau.

Er gwaethaf y cynnydd, mae llawer o waith eto o'n blaenau. Mae'r bwlch i gyrraedd sero net yn sylweddol ac mae angen inni barhau i leihau allyriadau tra hefyd yn cynyddu gallu ein tiroedd a'n cynefinoedd i amsugno carbon.

Mae'r canlyniadau ar gyfer 2025/26 yn rhoi sylfaen gadarn inni adeiladu arni, ond maent hefyd yn ein hatgoffa bod angen parhau i wneud penderfyniadau dewr, buddsoddi'n ddoeth a chydweithio'n agos â'n cymunedau a'n partneriaid er mwyn gwneud y defnydd

gorau o bob punt sydd ar gael i ni. Drwy wneud hynny, gallwn barhau i leihau ein heffaith ar yr hinsawdd, adfer byd natur a chreu Gwynedd wyrddach, decach a mwy gwydn i genedlaethau'r dyfodol.



Cynghorydd Craig ab Iago
Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd

2. Mesur er mwyn cyrraedd y nod

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cyflwyno cyfrifon allyriadau ac amsugno carbon Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill - 31 Mawrth 2025/26, ac hefyd yn rhoi diweddariad ar y gwaith a wnaethpwyd er mwyn gweithredu Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur y Cyngor.


Drwy gymryd golwg gwrthrychol ar y gwaith a wnaethpwyd yn 2025/26, a chanlyniadau hynny yn nhermau allyriadau ac amsugno carbon, byddwn mewn gwell sefyllfa i fesur y ffordd orau ymlaen i gyrraedd ein nod i fod yn gyngor sero net ac ecolegol gadarnhaol.


3. Allyriadau ac Amsugno Carbon 2025/26

Fel y rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae Cyngor Gwynedd yn cyfrifo allyriadau carbon gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, ac yna'n cyflwyno'r canlyniad i'r llywodraeth yn flynyddol.
Mae'r allyriadau carbon yn cael eu cymharu â blwyddyn waelodlin y Cyngor sef 2019/20 a blwyddyn adrodd flaenorol 2024/25, tra'n darparu esboniad am unrhyw wahaniaethau.
Drwy fesur y data allyriadau ac amsugno carbon yn flynyddol bydd gennym dystiolaeth i weld ble yr ydym ar y daith i fod yn gyngor sero net ac ecolegol gyfeillgar.

Allyriadau Carbon
Cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Gwynedd yn 2025/26 **HEB** gynnwys allyriadau caffael oedd 20,061,200 kgCO2e. Mae hyn yn ostyngiad o 39% ers blwyddyn waelodlin 2019/20, ac yn ostyngiad o 6% ers 2024/25.
Cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Gwynedd yn 2025/26 **GAN** gynnwys allyriadau caffael oedd 67,364,600 kgCO2e. Mae hyn yn ostyngiad o 8% ers blwyddyn waelodlin 2019/20, ac yn ostyngiad o 11% ers 2024/25.

Mae'r siart cyntaf isod yn dangos ein allyriadau carbon dros 8 pennawd, ac yn cynnwys allyriadau caffael (prynu nwyddau a gwasanaethau).
Mae'r fethodoleg o fesur allyriadau carbon sy'n deillio o'n prosesau caffael yn amherffaith gan ei fod yn seiliedig ar faint o arian yr ydym yn ei wario. Po fwyaf yr ydym yn ei wario po fwyaf yw'r allyriadau.
Oherwydd y gall y data caffael greu darlun amherffaith mae'r ail siart yn cyflwyno data ar gyfer y 7 pennawd sy'n weddill ar ôl diystyru caffael.
Mae rhagor o wybodaeth am pam fod allyriadau yn codi neu ostwng i'w gael yn y penodau dilynol.






Amsugno Carbon

Mae faint o garbon deuocsid sy'n cael ei amsugno a'i storio gan asedau tir y Cyngor yn helpu i wrthbwyso cyfran o allyriadau carbon y Cyngor, ac i gau ychydig ar y bwlch i sero net.

Fodd bynnag, mae amcangyfrif amsugno carbon yn gywir yn heriol oherwydd y byddai angen lefel ddwfn iawn o fanylder am safleoedd, a hyd yma does dim arweiniad clir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar sut orau i gasglu data cywir.

Yn y cyfamser, rydym yn defnyddio data sy'n cael ei gasglu drwy fapiau OS a system rheoli asedau'r Cyngor. Cawsom broblem gyda defnyddio'r dechnoleg yma yn 2025/26 ac felly rydym wedi defnyddio data 2024/25 gan ein bod yn hyderdus nad oes llawer o newid mewn defnydd tir na phrynu a gwerthu tir rhwng un flwyddyn a'r llall.

Mae rhagor o wybodaeth am beth mae'r Cyngor wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn er mwyn gwella ansawdd tiroedd a'u gallu i amsugno carbon i'w weld yn y penodau Defnydd Tir a Bioamrywiaeth.
Mae tiroedd sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd wedi amsugno 3,123,254 kgCO2e o garbon yn ystod 2025/26.



4. Bwlch i Sero Net

Ein bwlch i sero net (**heb** gynnwys caffael) yn 2025/26 oedd 16,937,946 kgCO2e. Mae hyn yn ostyngiad o 37% ers blwyddyn waelodlin 2019/20, ac yn ostyngiad o 7% ers 2024/25.
Ein bwlch i sero net (**gan** gynnwys caffael) yn 2025/26 oedd 64,241,346 kgCO2e. Mae hyn yn ostyngiad o 5% ers blwyddyn waelodlin 2019/20, ac yn ostyngiad o 12% ers 2024/25.


Allyriadau
20,061,200
$kgCO_2e$



Amsugno
3,123,254
$kgCO_2e$

Bwlch i Sero Net
16,937,946 $kgCO_2e$

Yn syml iawn, y bwlch i sero net ydi faint o CO2e sydd angen i ni ddileu er mwyn cyrraedd ein uchelgais i fod yn gyngor sero net ac ecolegol gadarnhaol. Mae'r bwlch yn cael ei gyfrifo drwy dynnu gwerth cyfanswm y carbon sy'n cael ei amsugo allan o gyfanswm y carbon sy'n cael ei allyrru.
Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, a'r adroddiad blynyddol hwn, yn dangos fod Cyngor Gwynedd yn ceisio cau'r bwlch o'r ddwy ochr yr un pryd, ac yn cydnabod pwysigrwydd cyfartal lleihau allyriadau a chynyddu lefelau amsugno.



5. Adran 6 – Cynnal a Gwella Bioamrywiaeth

Nod Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd yw i fod yn gyngor sero net **ac ecolegol gadarnhaol**. Un llwybr at gyrraedd y nod hwnnw yw sicrhau ein bod yn gweithredu 'Adran 6'.

Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i "geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth" ac i "hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau"

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod rhaid i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, ystyried bioamrywiaeth a natur ym mhob agwedd ar eu gwaith, nid dim ond mewn prosiectau amgylcheddol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol, sef y 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur' yn 2015 oedd yn amlinellu'r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, a'r amcanion ar gyfer gweithredu. Mae'n cynnwys 6 amcan ar gyfer adferiad natur yng Nghymru:

- **Amcan 1**: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel
- **Amcan 2**: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth
- **Amcan 3**: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd
- **Amcan 4**: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd
- **Amcan 5**: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro
- **Amcan 6**: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Er mwyn i Gyngor Gwynedd gwrdd a gofynion 'Adran 6' mae angen i ni brofi sut yr ydym wedi cyfrannu at bob un o'r 6 amcan uchod.

Ar ddiwedd pob adran o'r adroddiad blynyddol hwn fe welwch ddisgrifiad o sut y mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn cyfrannu at wireddu un neu fwy o'r 6 amcan uchod, sydd yn ei dro yn cydymffurfio ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Dyma grynodeb o'r cysylltiad rhwng prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ac Amcanion Adran 6:

Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

	Amcan 1	Amcan 2	Amcan 3	Amcan 4	Amcan 5	Amcan 6
Adeiladau ac Ynni		✓	✓		✓	
Symud a Thrafnidiaeth		✓	✓			
Gwastraff	✓	✓	✓	✓		
Llywodraethu	✓				✓	✓
Caffael					✓	✓
Defnydd Tir	✓	✓	✓	✓	✓	
Ecoleg	✓	✓	✓	✓	✓	✓

6. Adeiladau ac Ynni

Mae'r allyriadau carbon o **adeiladau ac ynni** yn 2025/26 yn 45% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael), sy'n 23% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 10% o ostyngiad ers 2024/25.
Mae'r allyriadau carbon o **oleuadau stryd** yn 2025/26 yn 3% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael), sy'n 44% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 13% o ostyngiad ers 2024/25.

Adnewyddu adeiladau er mwyn arbed ynni
Mae 3 safle wedi derbyn gwelliannau i ffabrig adeiladau yn ystod 2025/26 sef cartref gofal Hafod Mawddach, Ysgol Llanbedrog, a chanolfan Byw'n Iach Penllyn (Y Bala). Gwnaed gwaith addasu sylweddol a hynny er mwyn peidio gwastraffu ynni fydd yn ei dro yn arbed arian a charbon. Mae'r gwaith yma'n angenrheidiol hefyd er mwyn paratoi'r safleoedd ar gyfer gosod pympiau gwres. Roedd hyn i gyd yn bosib oherwydd cyfraniad Grant Gwres Carbon Isel gan Lywodraeth Cymru. Rhagor o wybodaeth am Ysgol Llanbedrog isod.

Trydaneiddio systemau gwresogi
Ar ôl uwchraddio safleoedd Hafod Mawddach, Ysgol Llanbedrog a Byw'n Iach Penllyn roeddynt wedyn yn barod i ni osod pympiau gwres. Gan nad yw'n bosib cau'r safleoedd tra fod y gwaith yn cael ei wneud, mae'n rhaid bod yn amyneddgar wrth amserlenu'r gwaith, ond edrychwn ymlaen at weld canlyniadau diwedd y prosiect yn 2026.
Yn 2025/26 gosodwyd pympiau gwres hefyd mewn 3 safle newydd: Ysgol ein Harglwyddes (Bangor), Ysgol Felinwnda ac Uned Iaith Ysgol Maesincla (Caernarfon). Mae 11 safle wedi eu gwresogi gan bympiau gwres bellach.

Gosod paneli solar PV er mwyn arbed ynni a chostau
Gosodwyd paneli solar ar 6 safle newydd, ac fe ychwanegwyd rhagor o baneli ar 9 safle arall yn ystod 2025/26, gan gynhyrchu 973.25 kW o drydan glân yn flynyddol.
Daw hyn â chyfanswm safleoedd sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd sy'n cynhyrchu trydan eu hunain i 64. Mae 50 o'r rhain yn ysgolion a 6 yn gartrefi gofal neu nyrsio.
Fe welwn y canlyniadau'n llawn yn ystod 2026/27 ond mae disgwyl i'r holl osodiadau PV arbed costau prynu ynni o £34,495 bob blwyddyn yn ogystal ag arbedion carbon blynyddol o 128.7tCO2e.

Paneli Solar, a mwy...
Prosiect cyffrous iawn a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn oedd gosod canopi solar ar Ysgol Hafod Lon ym Mhenrhyndeudraeth, fel rhan o system ynni clyfar lleol. Rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn isod.
Diolch i grant gan Ynni Cymru fe osodwyd systemau ynni clyfar lleol yng nghanolfannau hamdden Byw'n Iach Plas Silyn (Penygroes) a Plas Ffrancon (Bethesda). Mae paneli solar wedi eu gosod fydd yn pweru'r adeiladau, gyda gweddill y trydan yn cael ei storio mewn batris. Bydd y rheiny yn eu tro yn pweru hwb gwefru cymunedol.

Cynllun Goleuadau LED
Mae bylbiau LED yn defnyddio llawer iawn llai o drydan na bylbiau golau 'hir oes' eraill, ac felly mae budd ariannol mawr mewn arbed costau trydan, a budd arbedion carbon yn sgil hynny.

Gosodwyd oleuadau LED ar 8 safle yn ystod 2025/26, ac o'r data sy'n bodoli rydym wedi arbed o leiaf 29,513 kWh o drydan mewn blwyddyn sy'n arwain at arbed £6,492.86 o gostau blynyddol.

Goleuadau stryd, arwyddion, a thraffig
Fe ychwanegwyd 64 safle newydd at rwydwaith goleuadau stryd Gwynedd yn ystod 2025/26 (ee. stadau tai newydd, priffyrdd). Er hynny, rydym yn dal i weld gostyngiad defnydd ynni a 13% o ostyngiad mewn allyriadau carbon ers y flwyddyn flaenorol oherwydd ein bod yn parhau efo rhaglen adnewyddu goleuadau LED. Mae'r gostyngiad carbon ers blwyddyn waelodlin 2019/20 yn 44%.

Cyngor ynni ar dlodi tanwydd
Mae Tîm Ynni y Cyngor yn cefnogi trigolion gyda chostau ynni, a gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni yn y cartref a gwybodaeth am dariffau. Cynhaliwyd dros 100 o sesiynau galw heibio i roi cyngor a gwybodaeth i drigolion, a llawer o'r rhain mewn cydweithrediad â mudiadau cymunedol lleol.
Mae ECO4 yn gynllun cenedlaethol sy'n helpu aelwydydd incwm is i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, gan leihau biliau a charbon. Fe wnaeth 1,140 o gartrefi yng Ngwynedd dderbyn grant ECO4, a chynyddu eu sgôr EPC gan leihau biliau.
Yn anffodus bydd cynllun ECO4 yn dod i ben yn derfynol fis Rhagfyr 2026 ond mewn gwirionedd mae ceisiadau mae'r cynllun wedi arafu'n sylweddol ers Rhagfyr 2025. Yr ydym yn disgwyl cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ar beth sy'n dod nesaf o dan y cynllun Cartrefi Cynnes.

Cynllun Ynni Ardal Lleol (*LAEP*)
Comisiynodd Llywodraeth Cymru raglen i bob awdurdod lleol yng Nghymru i ddatblygu Cynllun Ynni Ardal Leol er mwyn cyfrannu at y targedau cenedlaethol i gyrraedd sero net. Mabwysiadodd Cabinet Cyngor Gwynedd ein Cynllun Ynni Ardal Lleol fis Medi 2025, a'i fwriad ydi edrych ar y dulliau mwyaf effeithlon a chost effeithiol o ddadgarboneiddio system ynni gyflawn i Wynedd erbyn 2050.

Budd ychwanegol
Mae'r holl waith uchod wedi arwain at wariant gyda nifer o gontractwyr lleol, gyda 4 cwmni yn lleol i Wynedd. Nid yn unig y mae hyn wedi cadw'r bunt yn yr economi leol ond y mae hefyd wedi uwchraddio sgiliau'r gweithlu, gan gryfhau eu sefyllfa i'r dyfodol.

Stori lwyddiant - Ysgol Llanbedrog
Mae disgyblion a staff yr ysgol bellach yn yn dysgu a gweithio mewn awyrgylch llawer iawn fwy llwyddiannus. Mae'r prosiect gwres carbon isel hwn wedi adnewyddu'r system wresogi ynghyd ag ôl-osod gwelliannau i ffabrig adeilad Fictoraidd yr ysgol a'i estyniadau. Dechreuodd y prosiect yn 2024 yn dilyn llwyddiant y Cyngor wrth sicrhau nifer o grantiau drwy Raglen Grant Gwres Carbon Isel Llywodraeth Cymru. Disgwylir I'r prosiect gwblhau ym mis Hydref 2026.
Mae'r gwaith wedi cynnwys gosod pwmp gwres ffynhonnell aer (*ASHP*), insiwleiddio mewnol ac allanol, ffenestri gwydr triphlyg, a system awyru mecanyddol sydd yn adennill gwres (*MVHR*). Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn wedi creu prosiect ôl-osod cynhwysfawr sy'n gwella perfformiad ynni'r adeilad, yn lleihau allyriadau carbon, ac yn


darparu amgylchedd mwy cyfforddus a chynaliadwy i ddisgyblion a staff Ysgol Llanbedrog.


Stori lwyddiant - Ysgol Hafod Lon

Datblygwyd system ynni clyfar lleol newydd ar safle'r ysgol yn ystod 2025/26, ac mae'r trydan a gaiff ei gynhyrchu nid yn unig yn arbed costau ynni i'r ysgol, ond hefyd yn pweru pwynt gwefru ar gyfer bws mini trydan newydd sy'n cludo'r disgyblion i'r ysgol ac yn ôl adref.

Gosodwyd systemau solar 139kW ar y safle – cyfuniad o baneli solar ar y to ac 147 o baneli ar ganopi solar 120kW sydd yn cyflenwi trydan i adeilad yr ysgol, pwynt gwefru bws mini, ac i fatri 215kW.

Ar adegau brig o gynhyrchiant solar yn yr haf, amcangyfrifwyd fod yr ysgol yn 50% hunan-gynhaliol yn sgil y prosiect. Mae arbedion sylweddol yn sgil y prosiect yn nhermau mewnforio llai o ynni gan y grid, arbedion ariannol yn sgil biliau trydan llai (amcangyfrif o £19,941 y flwyddyn), ac arbedion carbon (amcangyfrif o 24tCO2e y flwyddyn).





r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** –

1. Anelu am fuddion tymor hir wrth gynllunio gwaith adeiladu neu adnewyddu adeiladau
2. Arbed 5% o allyriadau carbon o adeiladau drwy ddod â hwy i safon 'arfer dda' CIBSE
3. Datgarboneiddio cyflenwad ynni'r cyngor
4. Cynyddu ein 'credyd' carbon drwy osod ffermydd solar er mwyn cynhyrchu ynni y gall y Cyngor ei ddefnyddio neu ei werthu
5. Lleihau ein allyriadau carbon drwy ehangu ein defnydd o PV i greu ynni adnewyddadwy
6. Defnyddio dulliau adeiladu carbon isel *Passivhaus* wrth ddatblygu ein cynllun peilot tai arloesol
7. Cynnig cyngor a gwybodaeth i drigolion Gwynedd am fanteision a chyfleoedd i ddefnyddio dulliau adeiladu carbon isel wrth adeiladu cartrefi a systemau gwresogi/ynni carbon isel i gynnal cartref
8. Gwella ffabrig adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni a phosibl.
9. Trydaneiddio systemau gwresogi adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon
10. Gosod ffaniau awyru EC mewn adeiladau er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i'w rhedeg o'i gymharu â ffaniau arferol
11. Gosod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i wresogi adeilad
12. Uwchraddio goleuadau arbenigol mewn canolfannau hamdden er mwyn defnyddio llai o ynni
13. Uwchraddio goleuadau stryd ac arwyddion traffig er mwyn defnyddio llai o ynni
14. Rhwystro gor-ddatblygu cynlluniau ynni tanwydd ffosiledig
15. Uchafu i'r eithaf y buddion a ddaw o weithredu ein polisïau ynni a gwresogi
16. Offer a ddefnyddir o fewn adeiladau'r cyngor i fod mor effeithlon o ran ynni a phosibl
17. Gwella'r isadeiledd ynni yng Ngwynedd a gogledd Cymru er mwyn cynnal systemau ynni a thrafnidiaeth carbon isel

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r gwaith uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

7. Symud a Thrafnidiaeth

Mae'r allyriadau carbon o **fflyd** y cyngor yn 2025/26 yn 25% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 3% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 4% o ostyngiad ers 2024/25.
Mae'r allyriadau carbon o **gymudo staff** yn 2025/26 yn 20% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 30% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 6% o gynnydd ers 2024/25.
Mae'r allyriadau carbon o **deithio busnes** yn 2025/26 yn 6% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 37% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 4% o ostyngiad ers 2024/25.

Cynllun Fflyd Werdd
Ers mabwysiadu ein Cynllun Fflyd Werdd 2023-29 fis Ionawr 2023 ein polisi yw i brynu cerbydau trydan (EV) newydd ble mae'n bosib wrth i'r fflyd bresennol o geir petrol a disel ddod i ddiwedd eu hoes.
Mae'r Cyngor bellach yn berchen ar 82 car neu fan fechan trydan a 9 hybrid, a 6 offer trydan (*loading shovels*, peiriannau glanhau strydoedd), sef 40% o'r holl geir a faniau yr ydym yn berchen arnynt.





Rydym wedi llwyddo i arbed costau ynni ac allyriadau carbon yn ystod y flwyddyn gan i ni weld gostyngiad o 6.1% ar ddefnydd tanwydd (petrol a disel) rhwng 2024/25 a 2025/26. Roedd hyn oherwydd trosglwyddo i fflyd drydan a thywydd ffafriol yn golygu llai o deithiau graeanu yn y gaeaf.
Mae 66% o holl allyriadau carbon ein fflyd yn deillio o'n cerbydau HGV, a hynny oherwydd ein bod yn parhau i ddefnyddio loriau disel. Dylid cofio hefyd mai cerbydau casglu a danfon gwastraff, a cherbydau graeanu ffyrdd yw'r loriau HGV yma, ac felly mae allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chasglu gwastraff a'i ddanfon i gael ei brosesu yn cael ei gofnodi o dan allyriadu carbon 'fflyd' yn hytrach na 'gwastraff'.

Pwyntiau Gwefru Ceir Trydan
Fflyd – erbyn diwedd 2025/26 roedd gan y Cyngor 58 pwynt gwefru mewn 12 lleoliad ar draws y sir er mwyn cadw ein fflyd o gerbydau trydan ar y ffordd.
Cyhoeddus - erbyn diwedd 2025/26 roedd y Cyngor wedi gosod 48 o bwyntiau gwefru mewn 12 lleoliad, ac mae 12 pwynt gwefru ychwanegol ar 4 o safleoedd y Cyngor drwy gydweithrediad gyda Thrafnidiaeth Cymru.
Stori lwyddiant – Cynllun Fflyd Werdd
Adroddwyd gan y Gwasanaeth Ynni (Llywodraeth Cymru), fod gan Cyngor Gwynedd yr ail nifer fwyaf o gerbydau gwyrdd yn ei fflyd wrth gymharu gyda cynghorau gwledig eraill yng Nghymru.

Teithio llesol
Bangor - Gorffenwyd y gwaith o greu llwybr aml-ddefnydd ar gyfer beicwyr a cherddwyr rhwng Ysbyty Gwynedd a Threborth. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys gosod croesfan newydd o flaen Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd, Bangor
Mynytho – Crewyd llwybrau cerdded a chroesfannau ar gyfer Ysgol Foel Gron, ynghyd â gwell llwybr troed a chroesfan i gysylltu efo'r siop a'r swyddfa bost.
Mae nifer o brosiectau eraill a gychwynwyd yn 2025/26 sy'n cario mlaen i 2026/27 a 2027/28 -

- Llwybrau cerdded a beicio Chwilog i Afonwen, a Thywyn i Aberdyfi.
- Gwaith dichonoldeb a dylunio ar gyfres o gynlluniau eraill yn cynnwys llwybrau teithio: Llanberis-Caernarfon, Llanystumdwy-Cricieth, Bethel-Caernarfon.

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am reoli a chynnal llwybr yr arfordir yn y sir. Fe wnaethom osod dyfeisiadau monitro defnydd llwybrau mewn 8 lleoliad ar hyd y llwybr yr arfodir, a'r 3 safle efo'r defnydd uchaf o'r 8 oedd – Dinas Dinlle, Llanbedrog, Penrhyn Bangor.

Stori lwyddiant – Lôn Las Ogwen
Mae'r gwaith o adeiladau pont newydd, Pont Sarnau, wedi creu llwybr fwy diogel a hygyrch i bawb sydd eisiau cerdded, beicio neu olwynio ar hyd y Lôn Las yn y rhan yma o Ddyffryn Ogwen, gan wella cysylltiad gyda llwybrau i gyrraedd Llyn Ogwen ac atyniad Zip World.
Mae'r gwelliannau'n cynnwys gosod tanffordd ar gyfer gwartheg fel nad oes angen cau'r llwybr yn achlysurol, fydd yn helpu ffermwyr a defnyddwyr y llwybr fel ei gilydd.

Stori lwyddiant – Teithio llesol ysgolion
Paratowyd Becyn Trafnidiaeth Ysgolion fel rhan o ymdrechion i wella diogelwch o amgylch ysgolion ac annog mwy o deithio cynaliadwy ledled y sir. Mae'r pecyn wedi ei ddatblygu i ddarparu gwybodaeth glir ac ymarferol i benaethiaid, staff ysgolion a rhieni, ynghyd ag adnoddau defnyddiol i hyrwyddo teithio llesol a lleihau tagfeydd traffig o amgylch ysgolion, fydd yn ei dro yn gwella ansawdd aer y mae ein plant yn ei anadlu. Mae'r pecyn wedi ei ddatblygu gan Gyngor Gwynedd, ac wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru gyda chefnogaeth gan Drafnidiaeth Cymru.



Trafnidiaeth gyhoeddus
Yn ystod 2025/26 bu'r Cyngor yn peilota a monitro defnydd gwasanaethau Sherpa'r Wyddfa, y G23 rhwng Y Bermo a Phorthmadog a Fflecsi yn ne Meirionnydd – gwelwyd gynnydd o 6.6% yn nifer y teithiau ar y flwyddyn flaenorol.
Ar draws gwasanaethau bysiau'r sir fe welwyd gynnydd o 14.7% mewn siwrneiai bysiau yn 2025/26 o'i gymharu a 2024/25.
Gostyngiad 4% mewn teithiau gan rai sy'n talu am docyn ond cynnydd 36% mewn teithiau gyda thocyn teithio rhad. Mae 60% o siwrneiai gyda thocyn talu a 40% gyda thocyn teithio rhad.
Cwblhawyd welliannau gwerth £500,000 i aros fannau bysiau mewn 3 lleoliad yn Arfon, 3 yn Nwyfor a 3 ym Meirionnydd.

Cymudo Staff
Mae'r data yr ydym wedi ei gasglu ar gyfer 2025/26 ychydig yn wahanol i flynyddoedd blaenorol gan ein bod wedi cynnal holiadur cymudo staff. Gan nad oedd y sampl a gasglwyd yn ddigon cynrychioladol, mae'r data terfynol yn gyfuniad o ddadansoddiad o'r holiadur ac o ddata yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021.

Teithio Busnes
Un newid arwyddocaol a wnaethpwyd yn ystod 2025/26 oedd newid ein trefniadau er mwyn mesur yr allyriadau carbon sy'n deillio o deithiau busnes yn llawer fwy cywir na'r blynyddoedd blaenorol.
Mae staff a chynghorwyr yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu geir preifat er mwyn gwneud taith angenrheidiol ar gyfer eu gwaith, ac rydym bellach yn gallu cysylltu â systemau data'r DVLA er mwyn derbyn mesur cywir o allyriadau carbon injian y cerbyd.

Mae'n newyddion calonogol felly fod yr allyriadau yn gostwng, yn enwedig gan fod nifer o deithiau yn cael eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus neu gerbydau trydan personol.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** –

1. Symud oddi wrth defnyddio cerbydau tanwydd ffosil tuag at fflyd o gerbydau (ceir a faniau) ULEV
2. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer cerbydau'r cyngor
3. Bod ag opsiynau tanwydd carbon isel neu ddi-garbon ar gyfer fflyd trwm y cyngor
4. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer trigolion Gwynedd
5. Lleihau teithio busnes
6. Lleihau allyriadau carbon drwy arferion cymudo staff
7. Annog teithio llesol ymysg staff – er budd iechyd a lles ac i leihau allyriadau carbon
8. Annog teithio llesol ymysg trigolion ac ymwelwyr i Wynedd er mwyn gwella lles corfforol a meddyliol a lleihau allyriadau carbon teithiau ceir byr
9. Lleihau allyriadau carbon a phroblemau parcio mewn ardaloedd sy'n boblogaidd ymysg ymwelwyr
10. Cynyddu'r cyfleoedd i fudiadau cymunedol gael mynediad at gerbydau EV neu ULEV neu ddefnyddio technoleg carbon isel

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r gwaith uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

8. Gwastraff

Mae'r allyriadau carbon o wastraff y cyngor yn 2025/26 yn 0% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 100% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn gyson â ffigwr 2024/25.

Fe newidiodd Llywodraeth Cymru y fethodoleg o gyfrifo allyriadau carbon gwastraff yn 2024/25. Bellach mae pob dull o drin gwastraff, ar wahân i dirlenwi, (ee. ailgylchu, hylosgiad, treulio anerobig ayb) yn rhoi ffigwr o sero i ni. Mae holl wastraff gweddilliol trigolion a busnesau Gwynedd yn cael ei drin ar safle Parc Adfer yng Nglannau Dyfrdwy, ble mae'n cael ei losgi i gynhyrchu ynni, ac felly nid oes gwastraff yn mynd i dirlenwi. Dylid cofio mai ffigwr ar gyfer **prosesu** gwastraff yw 0%, gan fod allyriadau carbon **casglu** gwastraff a'i **ddanfon** i gael ei brosesu yn cael eu cyfri o dan allyriadau carbon fflyd – gweler y bennod 'Symud a Thrafnidiaeth'.
Er bod y gyfran o'n gwastraff sy'n cael ei ailgylchu wedi codi o 55% i 65% dros y ddegawd ddiwethaf, mae'r cynnydd wedi stopio. Canran ailgylchu Gwynedd yn 2025/26 oedd 65.1% o'i gymharu â 65.3% yn 2024/25. Bydd yn dipyn o her felly i ni gwrdd â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio 70% o'n gwastraff.

Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu 2025-2030
Bu 2025/26 yn flwyddyn o ddatblygu, ac ymgynghori â chyhoedd Gwynedd, ar y strategaeth newydd. Cafodd ei mabwysiadu'n derfynol gan y Cabinet fis Gorffennaf 2026.
Mae'r strategaeth yn rhoi pwyslais ar gynyddu ailgylchu, gwella gwasanaethau, cynnal seilwaith presennol a buddsoddi mewn isadeiledd y dyfodol.

Newid arferion ailgylchu
Tra fod yn gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd yn mynd rhagddo, bu'r gwasanaeth ailgylchu yn treialu trefniadau newydd er mwyn cynyddu faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu a lleihau faint sy'n cael ei ddanfon i'w brosesu ym Mharc Adfer:

- treial sachau hesian wedi ei beilota mewn 3 cylchdaith yn ardal Arfon
- agor bagiau du yn y canolfannau ailgylchu er mwyn trio symud gwastraff fyddai wedi cael ei daflu a'i roi yn y sgipiau ailgylchu yn lle
- ymgyrch codi ymwybyddiaeth i drigolion

Glendid a gwastraff strydoedd
Mae'r Tîm Tacluso yn cynnig gwasanaeth glanhau a chynnal a chadw strydoedd, a clirio tipio anghyfreithlon. Dyma rai canlyniadau:

- 31% o ostyngiad mewn tipio anghyfreithlon rhwng 2024/25 a 2025/26
- Mae Cadw Cymru'n Daclus yn monitro lefelau glendid ar draws awdurdodau lleol, ac roedd nifer y safleoedd archwilwyd yng Ngwynedd yn 2025 a oedd yn cyrraedd y lefel derbyniol yn 64.5% o'i gymharu â 58.5% yng Nghymru gyfan.

Lleihau gwastraff bwyd
Mae Cronfa Cymorth Argyfwng Bwyd yn grant sy'n cefnogi prosiectau sy'n darparu cymorth bwyd i bobl. Yn ystod 2025/26 cefnogwyd 41 o grwpiau cymunedol drwy'r gronfa, gyda £150,300 yn cael ei ddyrannu i gefnogi banciau bwyd, pantris bwyd, clybiau swper, a darpariaeth pecynnau bwyd.

Lleihau defnydd papur
Yn ystod 2025/26 fe gychwynodd cytundeb newydd ar gyfer argraffyddion ar draws safleoedd y Cyngor, a bydd y trefniadau newydd yn lleihau'n sylweddol ar ddefnydd papur ac yn arbed ynni.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** –

1. Trwsio ac addasu offer a fyddai fel arall yn cael ei waredu a'i losgi, a'i werthu
2. Lleihau'r nifer o eitemau sy'n cyrraedd safleoedd llosgi gwastraff drwy annog pobl i drwsio ac ail-ddefnyddio
3. Hyrwyddo economi gylchol er mwyn lleihau nifer yr eitemau sy'n cael eu gwaredu a lleihau allyriadau carbon yn y gadwyn gyflenwi o brynu nwyddau newydd
4. Lleihau gwastraff bwyd drwy gefnogi prosiectau cymunedol sy'n ceisio ail ddosbarthu bwyd fyddai fel arall yn cael ei daflu
5. Lleihau'r gwastraff stryd sy'n mynd i'w waredu a chynyddu'r gwastraff stryd sy'n cael ei ailgylchu
6. Lleihau defnydd papur

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
Mae'r gwaith uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:
Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel
Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth
Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd
Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

9. Llywodraethu

Nid oes allyriadau carbon yn deillio'n uniongyrchol o'r gwaith yn y maes Llywodraethu.

Gwella sgiliau a gwybodaeth
Rydym yn parhau i hyrwyddo ein e-fodiwl hyfforddiant Hinsawdd a Natur ymysg staff a chynghorwyr gan ei fod yn esbonio pam angen i'r Cyngor ymhel â gwaith yn y meysydd yma.
Gweler y bennod Bioamrywiaeth / Ecoleg am wybodaeth am hyfforddiant gwarchod coed.

Datblygu'r Gweithlu
Penodwyd 2 aelod newydd o staff ar gytundebau hyfforddai proffesiynol a phrentis yn ystod haf 2025:

- Hyfforddai Proffesiynol Ecolegydd Cynllunio
- Prentis Gradd Ynni

Adolygu Polisïau
Bu 2025/26 yn flwyddyn o adolygu ac ail greu rhai o'r prif strategaethau sy'n arwain gwaith hinsawdd a natur y Cyngor. Fe wnaethom ymgynghori yn ystod y flwyddyn ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur a'r Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu, ac yna fe gawsant eu derbyn gan y Cabinet yn fuan yn 2026/27.
Cafodd Strategaeth Caffael 2026-2031 hefyd ei derbyn gan Gabinet y Cyngor yn ystod y flwyddyn, ac mae hi'n rhoi arweiniad cadarn ar brynu'n lleol, ennill gwerth cymdeithasol a lleihau carbon.

Rhannu gwybodaeth er mwyn newid arferion
Rhaid cydnabod mai newid arferion sydd wedi eu gwreiddio'n ddwfn yw un o'r tasgau anoddaf ar ein taith i sero net. Er hynny, rydym wedi defnyddio ein cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth a straeon newyddion da am sut all trigolion a busnesau, yn ogystal â staff a chyngorwyr, leihau ein ôl troed carbon.
Buom yn ymgynghori'n eang â mudiadau cymunedol, sefydliadau cyhoeddus eraill, a thrigolion wrth ddatblygu'r Cynllun Ynni Ardal Lleol, ac mae gwaith wedi dechrau i drafod cydweithio ar gynlluniau ynni i'r dyfodol.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Aelodau etholedig a staff sydd:
    - yn deall oblygiadau effaith newid hinsawdd
    - yn cymryd penderfyniadau ar sail gwybodaeth am yr effeithiau
    - yn gweithredu yn y modd mwyaf cadarnhaol posib tuag at liniaru effaith newid hinsawdd a bod yn ecolegol gadarnhaol
2. Annog staff i ddatblygu gyrfa mewn meysydd sy'n lleihau effaith newid hinsawdd neu'n ecolegol gadarnhaol

3. Adolygu polisïau a strategaethau presennol y cyngor fel bod lleihau allyriadau carbon neu leihau effaith newid hinsawdd yn ffactor wrth ddod i benderfyniad
4. Rhannu gwybodaeth yn gyhoeddus am y gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud i leihau allyriadau carbon er mwyn annog eraill i newid arferion
5. Cefnogi cymunedau i gynllunio a darparu atebion lleol i anghenion lleol

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
Mae'r gwaith uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:
Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel
Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

10. Caffael

Roedd 70% o allyriadau carbon y cyngor yn ystod 2025/26 yn deillio o'n prosesau caffael, sydd yn 16% o gynnydd ers 2019/20 ac yn 14% o ostyngiad ers 2024/25.
Mae'r dull o fesur allyriadau carbon caffael, neu'r gadwyn gyflenwi, yn seiliedig ar wariant yn unig. Yn syml, po fwyaf yw'r gwariant, po fwyaf yw'r allyriadau. Mae'r gost gynyddol o brynu nwyddau a gwasanaethau, a chynnydd chwyddiant, yn arwain felly at gynnydd mewn allyriadau carbon o dan y pennawd 'caffael'.
Oherwydd problemau'r fethodoleg yma rydym yn cyflwyno dwy set o ddata allyriadau – hefo, a heb, data caffael.

Gwella ein tystiolaeth
Er mwyn ceisio symud i ffwrdd oddi wrth y fethodoleg gwariant yn unig, buom yn cydweithio gyda'n cyflenwyr mewn 4 maes sydd â gwariant uchel er mwyn cael gwybodaeth llawer fwy cywir am eu allyriadau carbon – cytundebau bwyd i ysgolion, cytundebau cludiant ysgolion, offer technoleg gwybodaeth, argraffwyr.
Rhoddwyd yr wybodaeth i mewn i adran 'Tier 2' yn nhaenlen data carbon Llywodraeth Cymru, ac mae'r canlyniadau wedi dangos bod yr allyriadau wedi gostwng o'i gymharu â mesur ar sail gwariant.

Cefnogi cyflenwyr
Os ydym yn helpu ein cyflenwyr i ddadgarboneiddio eu ffordd o weithio, bydd hynny yn ein helpu ni i ddeall allyriadau carbon ein cadwyn gyflenwi yn well, yn ogystal â helpu'r hinsawdd!
Yn ystod 2025/26 bu'r Cyngor yn cydweithio â Busnes Cymru ac Adra i gynnal sesiynau cymorth i ddarparwyr y sector gofal a tai, a'u helpu i greu Cynlluniau Rheoli Carbon.
Mae swyddogion wedi cynnal digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwyr' i amlygu'r disgwyliadau wrth osod cytundeb caffael, ac mae gostwng allyriadau carbon yn un o'r rheiny.

Strategaeth Caffael 2026-2031
Mae'r strategaeth newydd gafodd ei derbyn gan y Cabinet fis Ionawr 2026 yn adnabod saith maes blaenoriaeth sydd yn cynnwys: Budd Lleol, Carbon sero, Gwerth am arian, Gwerth Cymdeithasol, Technoleg, Trefniadau llywodraethu a'r Gymraeg.
Er mwyn helpu i weithredu'r strategaeth newydd rydym wedi bod yn cefnogi swyddogion o fewn y Cyngor sy'n gosod cytundebau yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r amcanion i brynu'n lleol, ennill gwerth cymdeithasol a lleihau carbon.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i fedru mesur effaith eu gweithrediadau ar eu ôl-troed carbon
2. Deall a mesur allyriadau carbon wrth wireddu contractau yn y gadwyn caffael

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:
Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Mae'r gwaith uchod yn cyfrannu at y ddau Amcan yma, gan y byddai derbyn a monitro Cynlluniau Rheoli Carbon yn rhoi tystiolaeth i ni o sut mae darparwyr am warchod bioamrywiaeth.

11. Defnydd Tir

Rydym yn defnyddio ffigwr wedi ei amcangyfrif ar hyn o bryd ar gyfer lefelau amsugno holl diroedd y cyngor (sy'n cynnwys safleoedd 'llwyd' sydd wedi eu hadeiladu) tra yr ydym yn gwirio cywirdeb y data.
Gan nad oes newidiadau mawr wedi bod rhwng 2025/26 a'r flwyddyn flaenorol rydym yn defnyddio data 2024/25 dros dro.
Mae holl diroedd y Cyngor yn amsugno gwerth 3,123,254 kgCO2e net o garbon yn 2024/25 a 2025/26. Mae hyn 47% yn llai na blwyddyn waelodlin 2019/20.
Mae gwrthbwyso'r carbon sy'n cael ei amsugno yn erbyn ein allyriadau carbon yn cyfrannu at leihau'r bwlch i sero net.

Sefydlu a datblygu meithrinfeydd coed
Bu'n rhaid rhoi gofal ychwanegol i dair meithrinfa goed bresennol – ym Mhlas Glyn y Weddw Llanbedrog, Blaenau Ffestiniog a Thregarth – yn dilyn stormydd mawr 2025/26, ond bu'n bosib gwneud y gwaith atgyweirio angenrheidiol.
Mae rhywogaethau newydd o goed eithnen ac afal cymreig sy'n unigryw yn enetig wedi eu darganfod a hadau wedi eu hel a'u ail blannu yn y meithrinfeydd.
Mae meithrinfa goed newydd wedi cychwyn cael ei sefydlu ym Mharc Glynllfion ger Caernarfon, mewn prosiect cyffrous newydd ar y cyd ag Adran Oedolion er mwyn cynnig cyfleoedd gwaith a lles i oedolion bregus.

Plannu coed trefol
Llwyddwyd i ddenu grant gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i redeg astudiaeth dichonoldeb i weld pa goed fydd orau i'w plannu ac ym mha leoliadau mewn ardaloedd trefol ac arfordirol. Dylai'r gwaith arwain at greu rhaglen blannu coed i helpu gyda risg llifogydd a chreu awyrgylch i helpu lles trigolion.

Gwarchod coedlannau
Drwy waith Partneriaeth Natur Gwynedd, bu'r Cyngor yn rhan o'r gwaith i wella mynediad i'r cyhoedd at goedlannau Parc Meurig ym Methesda a Coed Doctor yn Llanberis.
Planwyd 4 perllan gymunedol yng Nghricieth, Y Ffor, Carmel ac Abererch ar y cyd â mudiadau lleol.

Mesur carbon mewn coed
Dechreuodd y gwaith i ymchwilio pa fodel sydd yn siwtio ein coedlannau orau –mae drôn yn gallu mesur faint o bren a phren marw sydd mewn coedlan, ac rydym hefyd yn defnyddio systemau Ezytreev a systemau Forest Research.
Bydd gallu mesur yn gywir yn bwysig nid yn unig er mwyn deall gwerth carbon coed at bwrpas ein taith i sero net, ond hefyd er mwyn deall iechyd y coed er mwyn eu trin a'u gwarchod. Mae hyn yn hanfodol fel rhan o waith y tîm sy'n gyfrifol am Clwy'r Onnen.

Mesur carbon ein tiroedd
Buom yn cydweithio gyda DataMapWales a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gynllun cenedlaethol i weld os oedd yn bosib i fapio gwerth carbon tiroedd, ond yn

anffodus doedd canlyniadau'r prosiect ddim yr hyn yr obeithwyd amdano. Rydym felly'n parhau i arbrofi gyda'r dulliau gorau o fesur a chadw cofnod.
Yn y cyfamser, rydym yn defnyddio data sy'n codi o fapiau OS, a methodoleg casglu data carbon Llywodraeth Cymru.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Adnabod cyfraniad coed sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
2. Adnabod cyfraniad tiroedd sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
3. Sefydlu meithrinfeydd coed er mwyn tyfu coed yn barod i'w plannu
4. Adnabod cyfleon i blannu coed fel rhan o fenter Coedwig Cenedlaethol Cymru
5. Rheoli Clwy yr Onnen mewn coed a gwneud yn iawn am unrhyw allyriadau carbon fyddai'n ganlyniad i dorri coed
6. Bod coedlannau sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu gwarchod er mwyn gwneud y gorau o'u potensial i amsugno carbon a bod yn gynefinoedd i fyd natur
7. Gwarchod tir amaethyddol yng Ngwynedd a'i ddefnyddio i bwrpas cymwys, a rheoli prosiectau coedwigo

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at bob un o'r 6 amcan.

12. Bioamrywiaeth / Ecoleg

Cydweithio
Mae Partneriaeth Natur Gwynedd yn gasgliad o sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol ac unigolion sydd i gyd yn cydweithio er mwyn gwarchod a gwella byd natur yn y sir. Er mai Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu'r bartneriaeth, mae hi'n llwyddo oherwydd y lefel o gydweithio llwyddiannus.
Yn ystod 2025/26 bu'r Bartneriaeth yn cydweithio â 5 cyngor tref a chymuned ar waith i wella safon a mynediad at fyd natur yn y cymunedau. Bu'r Cyngor hefyd yn cydweithio, drwy'r Bartneriaeth, gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i wella safon a diogelwch tir ger Abersoch.

Cefnogi a rhoi'r gair ar led
Mae gwybodaeth am waith Partneriaeth Natur Gwynedd, Pen Llŷn a'r Sarnau, AHNE Llŷn a thimau bioamrywiaeth y Cyngor oll yn cael eu rhannu drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd, yn ogystal ag yng nghylchgronau Llygad Llŷn ac O Dan y Don.
Mae gweithdai addysgol wedi eu cynnal ym Mhlas Glyn y Weddw a safleoedd Tirlenwi Gwyllt Llwyn Isaf.
Bu'r Cyngor a'r Bartneriaeth yn ymweld â sioeau a ffeiriau lleol er mwyn magu diddordeb trigolion mewn gwarchod byd natur.





Stori lwyddiant - 'Iddyn Nhw'
Un o lwyddiannau mwyaf 2025/26 oedd ein cynlluniau i blannu a gwarchod dolydd blodau gwyllt, yn enwedig ar ymylon ffyrdd. Gosodwyd targed gan y llywodraeth i greu rhagor o ddolydd ar draws Cymru, a bellach mae dros 25% o'r holl ddolydd hynny yng Ngwynedd.
Mae'r prosiect hwn wedi profi nad oes angen tiroedd enfawr er mwyn gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Mae llecynnau o dir ar ochr ffordd, sy'n aml yn cael ei anwybyddu neu esgeuluso, yn gallu bod yn hafan gwerthfawr i bryfetach a bywyd gwyllt.
Peidiwch a meddwl, am fod gwair a blodau yn cael eu gadael i 'dyfu'n wyllt' nad oes llawer o ofal o'r lleoliad. I'r gwrthwyneb! Mae'r llun yn dangos peiriant sy'n cael ei ddefnyddio i dorri'r gwair yn ofalus ar ddiwedd y tymor er mwyn casglu hadau i'w plannu yn y tymor nesaf.





Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Adnabod y camau sydd angen i ni eu cymryd er mwyn gwarchod cynefinoedd natur a bioamrywiaeth i'r dyfodol

2. Adnabod ein rhywogaethau a'n cynefinoedd gwerthfawr a pha fesurau sydd eu hangen i'w gwarchod a'u hadfer
3. Cynyddu nifer y peillwyr drwy warchod cynefinoedd neu blannu cynefinoedd newydd
4. Cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol a chynghorau tref a chymuned sy'n gwarchod neu'n hybu byd natur
5. Meithrin a chynnal diddordeb trigolion Gwynedd mewn materion ecolegol er mwyn iddynt fod eisiau helpu i warchod byd natur
6. Gwarchod cynefinoedd gwerthfawr i fyd natur

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at bob un o'r 6 amcan.



CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2025/26
Aelod Cabinet:	Cyng. Nia Jeffreys
Swyddog perthnasol:	Dewi Wyn Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor
Dyddiad y cyfarfod:	10fed Tachwedd 2026

1. **Penderfyniad a Geisir:**
Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2025/26 ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu.

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**
Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2025/26 i'r Cabinet yn gyntaf am gymeradwyaeth.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ynghylch y cynnydd yn erbyn yr hyn a nodir yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 yn ystod 2025/26. Y bwriad yw darparu adroddiad cytbwys, sy'n rhoi sylw i'r agweddau na lwyddwyd i'w cyflawni yn ogystal ag i'r agweddau llwyddiannus. Nodir fod yr hunanasesiad yn ofyn statudol o dan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae adrodd yn rheolaidd yn ofyniad monitro hanfodol o fewn trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd mewn cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad Adrannol ac ers Mehefin 2025 mae adroddiadau perfformiad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu perthnasol er mwyn bod yn fwy tryloyw a darparu her annibynnol i berfformiad yn gyhoeddus.

Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2025/26 **(Atodiad 1 a 2)** wedi ei strwythuro er mwyn adlewyrchu fformat Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028. Yn y rhan gyntaf canolbwyntir ar berfformiad prosiectau Cynllun y Cyngor a'r gwaith dydd i ddydd tra mae'r ail ran yn cynnwys yr Hunanasesiad. Fel yn 2024/25 mae'r adroddiad yn llawer mwy cryno nac yn y gorffennol a'r bwriad oedd ei gwneud yn ddogfen sy'n rhwyddach i'w darllen tra'n parhau i roi sicrwydd i'r darllenydd fod y Cyngor yn adrodd yn ystyrlon ar ei berfformiad.

I ddangos effaith gwaith y Cyngor ar bobl Gwynedd, bydd detholiad o astudiaethau achos, a ddewiswyd gyda'ch mewnbwn fel Aelodau Cabinet, yn cael eu cynnwys ar ddiwedd pob blaenoriaeth, gyda rhagor i'w cyhoeddi ar y wefan. Byddwn hefyd yn

cyhoeddi fersiwn neu ddogfen hawdd ei darllen i sicrhau bod y wybodaeth mor hygyrch â phosibl.

Mae dyletswydd i gyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau'r hunanasesiad yn flynyddol ac i gwblhau'r gwaith "cyn gynted ag bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi."

Nodir dyletswydd hefyd i ymgynghori o leiaf unwaith mewn blwyddyn ariannol gyda phobl leol, busnesau lleol, staff y Cyngor a'r undebau llafur. Dylid defnyddio'r ymgynghoriadau hyn i gael adborth ar y graddau y mae'r awdurdod yn cyflawni'r gofynion perfformiad. Dros y flwyddyn diwethaf bu i'r Cyngor gynnal arolygon gyda staff a thrigolion y Sir ac ymgynghori hefo undebau llafur ynghylch ei berfformiad. Mae'n ofyn statudol fod sylw yn cael ei roi i ganlyniadau ymgynghoriadau wrth baratoi'r hunan asesiad a chadarnheir fod hyn wedi ei wneud a'i amlygu yn y ddogfen.

Wrth lunio hunanasesiad 2025/26, ystyriwyd adborth o arolygon, ymgynghoriadau a gwaith ymgysylltu. Roedd barn preswylwyr yn amlygu'r angen i gryfhau ymddiriedaeth, dangos gwerth am arian a sicrhau bod eu barn yn dylanwadu ar benderfyniadau. Nododd busnesau bwysau costau ac anawsterau recriwtio, ynghyd â galw am gymorth ymarferol ac ariannol. Roedd adborth staff yn gadarnhaol am y Cyngor fel gweithle, ond yn amlygu pwysau gwaith a'r angen am fwy o werthfawrogiad. Parhawyd i ymgysylltu â'r undebau llafur ar faterion strategol a'r gweithlu, ond ni dderbyniwyd ymateb ffurfiol i'r cais am adborth ar yr hunanasesiad. Mae'r dystiolaeth hon wedi llywio'r cryfderau, y risgiau a'r blaenoriaethau gwella a nodir yn yr hunanasesiad. (Ymhelaethir ar sylwadau a chanfyddiadau'r gwaith hyn ar dudalennau 7,8 a 9 o'r Hunanasesiad).

Y Grŵp Llywodraethu sydd wedi arwain/cymryd trosolwg o'r broses hon o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei berchnogi a'i arwain ar lefel strategol.

Mae'r canllawiau statudol yn mynnu cynnwys y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y broses hunanasesu, gan roi cyfle iddynt wneud sylwadau ac argymhellion a mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i'w hystyried. Fel yn 2024/25, cyflwynwyd y prif faterion posibl i'w cynnwys yn Hunanasesiad 2025/26 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor yn y cyfarfod ar y 9fed o Orffennaf a derbyniwyd nifer o argymhellion/sylwadau.

Cyflwynwyd drafft o'r ddogfen Hunanasesiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn eu cyfarfod ar yr 22ain o Hydref pryd y cytunwyd i dderbyn yr adroddiad drafft gan gynnig y sylwadau canlynol:

- Argymell i'r Cyngor ystyried ymgynghori gyda thrigolion Gwynedd ar y dreth Cyngor
- Argymell ychwanegu 'salwch staff' i'r rhestr o heriau/risgiau yn y ddogfen Hunanasesiad mewn ymateb i'r cynnydd yn y cyfnod salwch

Mae sylw wedi ei roi i'r sylwadau uchod o fewn y fersiwn ddrafft o'r Hunanasesiad.

Yn unol â gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 mae Atodiad 3 yn amlinellu sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd

Partneriaeth Gymdeithasol. Trafodwyd drafft o'r ddogfen hon hefo cynrychiolwyr o'r Undebau mewn cyfarfod Grŵp Cyswllt a'r Undebau ar y 21ain o Hydref a ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau/argymhellion.

Cynhaliwyd asesiad gan Banel ym mis Mawrth 2026 fel rhan o'r trefniadau i adolygu perfformiad a llywodraethu'r Cyngor. Nodir bod canfyddiadau'r hunanasesiad ar gyfer 2025/26 yn cyd-fynd â chanfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad gan Banel, gan roi sicrwydd pellach bod y materion allweddol wedi'u hadnabod yn gyson ac yn cael eu hystyried fel rhan o'r camai gweithredu nesaf.

3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
Mae trefniadau adolygu ac adrodd ac asesu ar berfformiad y Cyngor wedi bod yn destun newid deddfwriaethol drwy drefniadau Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae hyn yn gofyn i'r Cyngor fesur ei berfformiad yn erbyn tair agwedd sef;

(a) Ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol
(b) Ei fod yn defnyddio adnoddau yn economaidd, effeithiol, effeithlon a
(c) Bod ei drefniadau llywodraethu yn effeithlon yn cyflawni hyn.

Mae'r adroddiad yma yn ymateb i'r gofynion newydd yma.

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
Ers 1 Ebrill 2024, mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, sy'n golygu bod yn rhaid iddo gydweithio â chynrychiolwyr staff neu undebau llafur wrth osod amcanion llesiant neu wneud penderfyniadau strategol. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, bydd angen cyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos sut y bu'r Cyngor yn cydymffurfio â'r ddyletswydd, gan gynnwys tystiolaeth o gydweithio, canlyniadau'r broses, a barn y gweithlu.

Deddf Cydraddoldeb 2010
Fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun y Cyngor 2023-28 paratowyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac mae'r asesiad yma yn cael ei addasu pan yr adolygir y Cynllun yn flynyddol. Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Cyfrifoldeb Arweinyddion Prosiect yw cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ar brosiectau unigol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae angen i ni adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf ac yn benodol yr amcanion llesiant sydd wedi eu mabwysiadu gennym. Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio ar sail ein hamcanion llesiant (y saith maes blaenoriaeth) gan amlinellu'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn y cyfnod dan sylw. Er hwylustod bydd tabl ar ddiwedd yr adroddiad perfformiad yn nodi'r amcanion y mae'r prosiectau'n cyfrannu tuag atynt.

3.3 Camau nesaf ac amserlen

Bydd y Cyngor Llawn yn trafod ac yn derbyn, neu beidio, yr adroddiad yn ei gyfarfod ar y 3ydd o Ragfyr 2026. Pan fydd yr adroddiad terfynol wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor bydd yn cael ei gyhoeddi. Trefnir hysbysu'r cyhoedd o'r adroddiad drwy gyfathrebu'r adroddiad a'r prif lwyddiannau yn weledol ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy argraffu a rhannu copïau drwy gyfryngau a lleoliadau arferol y Cyngor e.e. llyfrgelloedd.

4. Sylwadau Swyddogion Statudol

4.1 Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a'r Hunanasesiad yn ddogfen allweddol sydd erbyn hyn yn rhan greiddiol o arddangos priodoldeb trefniadau llywodraethu a pherfformiad y Cyngor. Rwyf yn fodlon fod cynnwys y ddogfen yn adlewyrchiad teg a chywir o sefyllfa Cyngor Gwynedd.

4.2 Swyddog Monitro

Fel y nodir mae cynnal yr hunan asesiad yma yn rhan o ddyletswyddau statudol ar y Cyngor ynglŷn ac asesu ac adrodd ar ei berfformiad. Mae sawl cam statudol yn ynghlwm â chyrraedd y pwynt yma a nodir yr rhain yn benodol yn yr adroddiad pen ac yn yr Adroddiad Perfformiad ac Hunan Asesiad ynghyd â sut mae'r Cyngor i roi sylw i'r elfennau yma. Mae rhain yn benodol ynglŷn ag ymgynghori â barn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr argymhelliad.

Rhestr Atodiadau:

Atodiad 1 – Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2025/26 (Drafft)

Atodiad 2 - Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2025/26 (Drafft)

Atodiad 3 - Adroddiad Blynyddol ar Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2025/26 (Drafft)

Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad 2025-26

Rhagair yr Arweinydd

Y Cynghorydd Nia Jeffreys
Arweinydd y Cyngor

DRAFT

Cyflwyniad

Mae 'Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28' yn cynnwys cyfres o brosiectau uchelgeisiol fydd yn ein galluogi i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau i drigolion y sir dros gyfnod o bum mlynedd. Daw'r prosiectau dan saith maes blaenoriaeth:

- **Gwynedd Yfory**
  Rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
- **Gwynedd Lewyrchus**
  Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- **Gwynedd Glyd**
  Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- **Gwynedd Ofalgar**
  Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- **Gwynedd Gymraeg**
  Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posibl i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- **Gwynedd Werdd**
  Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
- **Gwynedd Effeithlon**
  Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau bod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod trydedd blwyddyn Cynllun y Cyngor. Mae'n arferiad cynnal adolygiad blynyddol o'r Cynllun er mwyn sicrhau bod y prosiectau yn parhau yn addas, ac i roi cyfle i'r Cyngor eu haddasu yng ngoleuni datblygiadau lleol a chenedlaethol dros gyfnod y Cynllun. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adrodd ar y cynllun fel a gytunwyd gan y Cyngor ar y 6ed o Fawrth, 2025.

Fel y llynedd, rhennir yr adroddiad i benodau sy'n adlewyrchu'r saith maes blaenoriaeth, gan ddisgrifio'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ynghyd â'r prif gyflawniadau yng ngwaith dydd i ddydd ein hadrannau, er enghraifft addysg, yr amgylchedd a chyllid.

Y Meysydd Blaenoriaeth o fewn y ddogfen hon yw ein Hamcanion Llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr Amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Wrth weithredu byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r pum ffordd o weithio o fewn y Ddeddf drwy ystyried yr hirdymor, atal, gweithio'n integredig, gweithio'n gydweithredol a chynnwys pobl o bob oed. Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu ffordd o weithio sydd yn canolbwyntio ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mae'r tabl ar ddiwedd yr adroddiad yn dangos cyfraniad pob prosiect blaenoriaeth tuag at y pum ffordd o weithio.

Gan edrych ymlaen, bydd adolygiad y Cynllun ar gyfer 2026/27 yn adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes wedi'i gyflawni drwy gyflwyno a rhoi mwy o bwyslais ar faes blaenoriaeth newydd, **Gwynedd Gyfartal**, a **Chynllun Ymateb: Cyfiawnder Trwy ein Dewrder**. Bydd Gwynedd Gyfartal yn pwysleisio bod cydraddoldeb, tegwch a chynhwysiant yn sail greiddiol i

holl waith y Cyngor, gan ddwyn ynghyd y gwaith i sicrhau tegwch i bawb, cryfhau cynrychiolaeth gynhwysol mewn arweinyddiaeth, a datblygu Gwynedd yn sir sy'n gyfeillgar i blant ac yn ystyriol o drawma. Bydd rhoi lle amlwg i'r Cynllun Ymateb hefyd yn tanlinellu ei bwysigrwydd ac ymrwymiad parhaus y Cyngor i weithredu argymhellion yr adroddiad. Er nad oedd yn rhan o Gynllun y Cyngor yn 2025/26 rydym wedi bod yn adrodd yn gyson ar gynnydd y mesurau sydd wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb i argymhellion dros y misoedd diwethaf a byddwn yn parhau i wneud hynny. Gellir gweld yr adroddiadau hyn ar wefan y Cyngor.

Ail ran yr adroddiad perfformiad ydi ein hunanasesiad ar gyfer y flwyddyn. Dyma ein pumed hunanasesiad. Disgwylir i'r Cyngor gyflwyno hyn yn flynyddol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Atodir y rhan sy'n amlinellu sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol sy'n ofyn adrodd newydd o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

Mae'r angen i wneud arbedion ariannol bron â bod yn her flynyddol i Lywodraeth Leol bellach, a doedd y llynedd ddim gwahanol. Mae arbedion gwerth bron i £47 miliwn, sef 93% o'r cynlluniau diwygiedig ers 2015 bellach wedi'u gwireddu. Er gwaethaf yr heriau ariannol yma, mae'r Cyngor yn dygymod yn gyson gan geisio canfod ffyrdd gwell a mwy effeithlon o ddarparu gwasanaethau.

Fel rhan o'n trefniadau perfformiad, cynhelir cyfres o gyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad adrannol yn rheolaidd er mwyn gweld sut gynnydd mae'r adrannau yn ei wneud gyda'u gwaith dydd i ddydd yn ogystal â phrosiectau Cynllun y Cyngor. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad yma. Nid tynnu sylw at y pethau da yn unig yw bwriad yr adroddiad, ond rhoi darlun teg a gonest o'n perfformiad yn ystod y flwyddyn. Wrth wneud hynny, rydym yn gallu dathlu ein llwyddiannau a gweld pa agweddau o'n gwaith sydd angen sylw pellach, er mwyn ein cynorthwyo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i drigolion y sir o fewn yr adnoddau sydd gennym.

Mae'r Adroddiad blynyddol hwn yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ac i gyfarfod y Cyngor Llawn ar gyfer cymeradwyaeth.

Gwynedd Yfory

Mae Gwynedd Yfory yn canolbwyntio ar roi'r cychwyn gorau posibl i blant a phobl ifanc. Drwy fuddsoddi mewn addysg, llesiant, chwarae, cynhwysiad a chefnogaeth gynnar, rydym yn gweithio i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle teg i ddysgu, datblygu a ffynnu yn eu cymunedau.

Ein huchelgais yw sicrhau bod pob disgybl a addysgir yng Ngwynedd yn cael:

- Eu trin yn gyfartal, eu hannog i drin eraill yn gyfartal a sicrwydd bod eu llesiant a'u hapusrwydd yn flaenoriaeth gennym.
- Addysg o'r safon orau gan gynnwys mynediad at ystod eang o bynciau academaidd a galwedigaethol er mwyn cyflawni gofynion y 'Cwricwlwm i Gymru' newydd.

- Mynediad at Addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu cyfnod mewn addysg.
- Eu haddysgu mewn adeiladau sydd mewn cyflwr da, yn ddiogel ac yn addas i bwrpas hyd orau ein gallu.
- Y cyfle i ddatblygu i fod yn bobl gyflawn, hapus a hyderus yn y byd.
- Cefnogaeth gan wasanaethau proffesiynol wedi eu teilwra i gwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Y cyfle i gael pryd maethlon yn yr ysgol yn ddigost i gymaint o ddisgyblion â phosibl.
- Mynediad at gyfarpar a thechnoleg sy'n hybu dysgu cyfoes ac effeithiol.
- Sicrhad bod caeau chwarae a chyfleusterau addas ar gael i blant a phobl ifanc yn eu hamser hamdden.

Prosiectau

- Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar
- Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu
- Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol
- Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir
- Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd
- Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd

Diweddariad ar y prosiectau

Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar

Mae'r gwaith blynyddoedd cynnar wedi canolbwyntio ar ehangu mynediad at ofal plant a chefnogi rhieni gyda chyngor ymarferol:

- Ymestynnwyd y Cynllun Gofal Plant 2 oed i'r ardaloedd canlynol: Tywyn, Harlech, Llandderfel a Llanuwchllyn, Penrhyndeudraeth, Efailnewydd/Buan, Botwnnog/Tudweiliog, Cricieth, Seiont 1 – Caernarfon, Llanberis a Phorthmadog Gorllewinol gan sicrhau bod rhagor o ardaloedd o fewn y Sir yn elwa o'r Cynllun. Mae'r Cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd drwy roi mynediad i 12.5 awr o ofal plant am ddim, gan helpu i leihau costau byw. Gwelir effaith gadarnhaol ar blant, drwy iddynt gael mynediad at ofal o ansawdd a gweithgareddau sy'n cefnogi eu datblygiad ochr yn ochr â'u cyfoedion. Mae'r Cynllun yn galluogi'r darparwyr i elwa drwy fuddsoddiad ariannol mewn adnoddau a chefnogaeth a chymorth proffesiynol gan Athrawes Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar a'r tîm gofal plant ehangach.
- Fe gafodd y Polisi Toiledu i ysgolion Gwynedd ei newid ym Medi 2025 a pharatowyd teuluoedd at y newid drwy gydweithio yn draws adrannol gydag Iechyd a chrëwyd pennod o bodlediad *Mam, Dad a Magu* yn canolbwyntio ar doiledu. Mae'r podlediad yn helpu teuluoedd ar y daith drwy blynyddoedd cychwynnol ac allweddol plentyndod. Mae'r podlediad ar gael ar amryw o lwyfannau fel YouTube a Spotify.

Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu

Mae'r gwaith moderneiddio ysgolion wedi symud ymlaen er mwyn sicrhau amgylcheddau dysgu mwy addas, diogel a chynaliadwy i blant a staff:

- Parhaodd y Cyngor i fuddsoddi mewn moderneiddio adeiladu addysgol er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael mynediad at amgylcheddau dysgu diogel, cynaliadwy ac addas ar gyfer anghenion y dyfodol. Bydd y buddsoddiad hwn

nid yn unig yn gwella profiadau addysgol dysgwyr, ond hefyd yn cyfrannu at lesiant cymunedol lleol. Cymeradwyodd y Cabinet gynyddu cyllideb prosiect Ysgol Tryfan o £18 miliwn i £23.6 miliwn i gyflawni gofynion sero net, gan gefnogi amgylchedd dysgu modern a mwy cynaliadwy i ddysgwyr Bangor. Mae'r tîm dylunio yn parhau i weithio ar ddatblygu'r cynllun a bydd yr achos busnes yn cael ei gyflwyno yn nhymor yr Haf 2026.

- Yn ardal Bontnewydd, cwblhawyd adeilad dros dro newydd sydd wedi galluogi'r ysgol a'r ganolfan gymunedol barhau i weithredu heb darfu ar ddarpariaeth addysgol na gweithgareddau cymunedol. Mae hyn wedi sicrhau sefydlogrwydd i ddisgyblion, staff a defnyddwyr y ganolfan tra bo'r gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu'r adeilad parhaol newydd.
- Yn Ysgol Ein Harglwyddes, cwblhawyd y gwaith adeiladu ar yr ysgol newydd. Gan ddarparu cyfleusterau modern o safon uchel i ddisgyblion a staff. Bydd yr adeilad newydd yn cefnogi profiadau dysgu gwell, yn cynnig amgylchedd mwy hygyrch a deniadol, ac yn cyfrannu at lesiant y gymuned ysgol gyfan am flynyddoedd i ddod. Agorodd yr ysgol ar ôl gwyliau'r haf 2026.
- Yn ogystal, cwblhawyd y gwaith dylunio ar gyfer datblygiad Ysgol Hirael yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gam pwysig tuag at ddarparu cyfleusterau modern a fydd yn cryfhau'r ddarpariaeth addysgol leol ac yn sicrhau bod dysgwyr ardal Bangor yn gallu manteisio ar amgylchedd dysgu sy'n diwallu anghenion addysg gyfoes. Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn cael mynediad at adeiladau modern, cynaliadwy ac ysbrydoledig sy'n cefnogi eu haddysg a'u llesiant. Yn ogystal â gwella profiadau dysgu, mae'r buddsoddiad yn cryfhau cymunedau lleol trwy ddarparu cyfleusterau o ansawdd uchel y gall ysgolion a chymunedau eu defnyddio a'u mwynhau gyda'i gilydd.

Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol

Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar ddeall a lleihau'r costau sy'n gallu rhwystro plant rhag cymryd rhan lawn ym mywyd ysgol:

- Mae'r ysgolion wedi defnyddio canfyddiadau'r Awdit ysgol Cost Gyfeillgar i weithredu camau ymarferol er mwyn lleihau costau i deuluoedd. O ganlyniad, maent wedi adolygu polisïau gwisg ysgol, hyrwyddo cynlluniau dillad ail-law, ystyried cost tripiau ysgol a gweithgareddau ychwanegol, gan sicrhau bod gwybodaeth am gymorth ariannol ar gael yn glir ac wedi'u rhannu â rhieni a gofalwyr. Yn dilyn hyn, datblygwyd Siarter Ysgol Cost Gyfeillgar, a bellach mae'r ysgolion yn gweithio tuag at gyflawni'r mesuryddion perthnasol er mwyn cael eu hadnabod fel ysgolion 'Cost Gyfeillgar'. Cefnogir yr ysgolion i weithredu egwyddorion y Siarter, rhannu arferion llwyddiannus ar draws y sir, a sicrhau bod llais teuluoedd a dysgwyr yn parhau i lywio'r ddarpariaeth. Yn ogystal rhoddir mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau, waeth beth yw sefyllfa ariannol y teulu.
- Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at leihau'r pwysau ariannol ar deuluoedd Gwynedd ar adeg pan fo llawer yn wynebu heriau costau byw sylweddol. Trwy leihau costau sy'n gysylltiedig â gwisg ysgol, teithiau a gweithgareddau, mae ysgolion yn helpu i sicrhau bod pob plentyn yn gallu manteision ar gyfleoedd addysgol a datblygiadol yn gyfartal. Mae hyn yn cefnogi llesiant plant a phobl ifanc, yn cryfhau eu hymdeimlad o berthyn i gymuned yr ysgol, ac yn lleihau'r risg y bydd unrhyw blentyn yn cael ei eithrio oherwydd amgylchiadau ariannol.

Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir
Mae'r prosiect chwarae ac ieuenctid wedi canolbwyntio ar roi mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gymdeithasu, chwarae a chael llais.

- Sefydlwyd fforymau pobl ifanc ar draws y sir, gyda chynlluniau i lansio fforwm llais pobl ifanc llawn y Cyngor. Mae hyn yn creu cyfleoedd newydd i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, gan sicrhau bod gwasanaethau'n fwy ymatebol i'w hanghenion a bod lleisiau grwpiau sydd yn aml yn cael eu tangynrychioli yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi.
- Mae'r gwaith hwn wedi ehangu cyfleoedd i blant a phobl ifanc Gwynedd gymdeithasu a chael llawi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae hyn yn cyfrannu ar wella eu llesiant, datblygu hyder a'u sgiliau cymdeithasol, a chryfhau eu hymdeimlad o berthyn i'w hysgolion a'u cymunedau lleol.
- Defnyddiwyd grant Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru i wella 29 o gaeau chwarae ar draws y sir. Mae hyn yn rhoi mannau chwarae mwy diogel, deniadol a hygyrch i blant a theuluoedd yn eu cymunedau lleol.

Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd
Mae'r strategaeth Ysgolion 2026-2036 wedi'i ddatblygu i osod cyfeiriad clir ar gyfer dyfodol addysg yng Ngwynedd.

- Cyflwynwyd y strategaeth ddrafft i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ac i'r Cabinet, ar ôl ymgysylltu ag ysgolion, llywodraethwyr, plant a phobl ifanc Gwynedd. Mae hyn yn sicrhau bod cyfeiriad hirdymor addysg yng Ngwynedd yn cael ei lywio gan brofiadau dysgwyr a dyheadau dysgwyr, teuluoedd a'r gweithlu addysg. Mae'r Strategaeth yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer datblygu darpariaeth addysg dros y ddegawd nesaf, gan helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn meddu ar y sgiliau, y gefnogaeth a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ffynnu yn yr ysgol ac yn eu bywydau yn y dyfodol.
- Bydd y Strategaeth hefyd yn helpu'r Cyngor, ysgolion a phartneriaid i gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer heriau a chyfleoedd y dyfodol, gan sicrhau bod buddsoddiad mewn addysg yn parhau i ganolbwyntio ar wella canlyniadau a llesiant plant a phobl ifanc Gwynedd.

Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd
Mae'r gwaith cynhwysiad wedi canolbwyntio ar gryfhau cefnogaeth i ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol:

- Mae Uned Cyfeirio Disgyblion 'Camu i'r Copa' yn Llanwnda bellach yn weithredol fel darpariaeth gofrestredig. Sefydlwyd Camu i'r Copa fel darpariaeth arbenigol i gefnogi dysgwyr sydd yn ei chael yn anodd ffynnu o fewn addysg brif lif. Prif nod yr Uned yw adfer hyder dysgwyr, meithrin eu gwydnwch a'u helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ailgysylltu ag addysg mewn ffordd gadarnhaol. Mae'n darparu cefnogaeth addysgol, emosiynol a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a meithringar, gan helpu dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol i aros mewn addysg, gwella eu llesiant a datblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i lwyddo. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn rhoi sicrwydd ychwanegol i deuluoedd bod eu plant yn cael y gefnogaeth briodol mewn amgylchedd sy'n ymateb i'w hanghenion unigol.

- Cyhoeddwyd y Strategaeth Cynhwysiad i grwpiau strategol penaethiaid. Bydd hyn yn helpu ysgolion a'r Cyngor i ddarparu cefnogaeth fwy cyson a chyd gysylltiedig i ddysgwyr bregus ar draws y sir, gan leihau rhwystrau i ddysgu a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael yr help sydd ei angen arnynt cyn gynted â phosibl. O ganlyniad, bydd mwy o deuluoedd yn gallu cael mynediad at gymorth clir a chyson, gan roi'r cyfle gorau i'w plant gymryd rhan lawn ym mywyd ysgol a chyflawni eu potensial.
- Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at greu system addysg fwy cynhwysol yng Ngwynedd lle mae plant a phobl ifanc yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ffynnu yn academaidd, yn gymdeithasol ac yn emosiynol, lle mae teuluoedd yn gallu bod yn hyderus bod anghenion eu plant yn cael eu hadnabod a'u diwallu mewn modd amserol a phriodol. I lawer o'r bobl ifanc, mae'r ddarpariaeth wedi cynnig dechrau newydd. Mae gysgwyr wedi cael cyfle i feithrin perthnasoedd cadarnhaol gydag oedolion a chyfoedion, datblygu mwy o hyder ynddynt eu hunain a chryfhau eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. Mae hyn wedi helpu i wella llesiant, eu hymgysylltiad â dysgu a'u parodrwydd i gymryd rhan mewn addysg.

Rhai o'n prif gyflawniadau

- Mae'r Gwasanaethau Ieuenctid yn darparu 34 o brosiectau a chlybiau cymunedol wythnosol ar draws Gwynedd, gydag 16 yn Arfon, 10 ym Meirionnydd ac 8 yn Nwyfor, gan sicrhau lledaeniad daearyddol eang a mynediad teg i bobl ifanc ledled y sir. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys 12 clwb a ariennir gan gynghorau lleol, 3 Clwb Cyfeillgar mewn partneriaeth â Derwen, 18 o glybiau cymunedol symudol sy'n ymateb yn hyblyg i anghenion lleol, ac 1 clwb Niwro arbenigol.
- Mae lefelau uchel o gyfranogiad, 489 o achrediadau wedi'u cwblhau gan bobl ifanc, 97% yn adrodd gwelliant yn eu lles ar ôl defnyddio'r gwasanaeth, a 95% yn mwynhau'r ddarpariaeth.
- Mae'r ddarpariaeth Cinio Ysgol am Ddim i bob dysgwr cynradd wedi parhau i fod yn llwyddiant yn ystod 2025/26. Ym mis Mawrth 2026, ar gyfartaledd, darparwyd 6,160 o brydau cinio ysgol am ddim ar unrhyw ddiwrnod. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi parhau i gefnogi blaenoriaethau ehangach y Cyngor drwy hyrwyddo bwyd lleol, lleihau gwastraff bwyd a chodi ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr o bwysigrwydd bwyta'n iach.
- Presenoldeb cyfartalog disgyblion o fewn yr Awdurdod hyd at Ebrill 2026 oedd 91.0%. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd Cymru ar gyfer yr un cyfnod. Mae data hanesyddol Gwynedd yn dangos cynnydd cyson dros gyfnod o dair blynedd. Mae cefnogaeth uniongyrchol drwy Swyddogion Lles Addysg wedi parhau'n elfen allweddol o'r gwaith, gan helpu i leihau rhwystrau i fynychu'r ysgol a chefnogi dysgwyr i ail-ymgysylltu â'u haddysg. Cefnogir y cynnydd yma gan ffocws parhaus ar ymyrraeth gynnar, monitro o batrymau presenoldeb a chydweithio agos rhwng ysgolion, gwasanaethau'r Awdurdod a theuluoedd.
- Cafodd 100% o geisiadau Mynediad Blwyddyn 7 eu dewis cyntaf, a 99.8% o geisiadau dosbarth Derbyn lle yn yr ysgol ddewisol gyntaf.
- Mae lefelau boddhad defnyddwyr yn gyson uchel iawn (yn aml 97%-100%) ar draws nifer o wasanaethau ADY, gyda thystiolaeth glir o gynnydd ymysg plant sy'n derbyn cefnogaeth arbenigol.

DRAFT

Astudiaeth Achos - Ceir astudiaethau pellach ar y wefan perfformiad y Cyngor [linc]

Camu i'r Copa - Uned Cyfeirio Disgyblion yn Felinwnda

Sefydlwyd Uned Cyfeirio Disgyblion Camu i'r Copa ar safle cyn Ysgol Felinwnda, Llanwnda, ym mis Medi 2025 mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n wynebu anghenion emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol cymhleth. Ei nod yw darparu cefnogaeth arbenigol i bobl ifanc sy'n ei chael yn anodd ymgysylltu ag addysg brif ffrwd, gan helpu i atal ymddieithrio, gwella presenoldeb a lleihau'r risg o wahardd o'r ysgol.

Yn ystod ei blwyddyn gyntaf, datblygwyd amgylchedd dysgu diogel, sefydlog a meithringar gyda dosbarthiadau bach, cynlluniau dysgu personol, cwricwlwm hyblyg a chymorth emosiynol wedi'i deilwra i anghenion unigol. Rhoddwyd pwyslais hefyd ar gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr Uned, ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau partner er mwyn sicrhau trefniadau pontio effeithiol a chefnogaeth i ddysgwyr.

Mae'r ddarpariaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar lawer o bobl ifanc drwy wella eu hyder, eu gwydnwch, eu sgiliau cymdeithasol a'u hymgysylltiad ag addysg. Mae teuluoedd wedi elwa o weld eu plant yn derbyn cefnogaeth briodol mewn amgylchedd sy'n deall eu hanghenion, gan roi mwy o sicrwydd a lleihau pryderon. Mae ysgolion hefyd wedi manteisio ar arbenigedd yr Uned i gynllunio cefnogaeth fwy effeithiol. Er mai blwyddyn gyntaf y ddarpariaeth yw hon, mae'r dystiolaeth gynnar yn dangos bod Camu i'r Copa eisoes yn chwarae rhan bwysig wrth ailgysylltu dysgwyr bregus ag addysg a gosod sylfaen gadarn ar gyfer eu llwyddiant yn y dyfodol.

DRAFT

Gwynedd Lewyrchus

Mae Gwynedd Lewyrchus yn canolbwyntio ar gryfhau'r economi leol, cefnogi busnesau a chreu cyfleoedd gwaith gwell i bobl Gwynedd. Drwy fuddsoddi yn ein heconomi leol, diwylliant, twristiaeth gynaliadwy a chaffael lleol, rydym yn gweithio i gadw mwy o fudd economaidd o fewn cymunedau'r Sir. Ein huchelgais yw sicrhau:

- Swyddi o safon.
- Cefnogaeth i fusnesau ffynnu.
- Twristiaeth gynaliadwy er budd cymunedau.
- Cymunedau cryf a gwydn.
- Canol trefi llewyrchus a llawn bwrlwm.

Prosiectau

- Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy
- Adfywio cymunedau a chanol trefi
- Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith
- Cadw'r Budd yn Lleol

Diweddariad ar y prosiectau

Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy

Mae'r gwaith diwylliant ac economi ymweld wedi canolbwyntio ar gryfhau atyniadau lleol a chefnogi twristiaeth sy'n dod â budd i gymunedau:

- Dechreuwyd trafodaethau ar ddatblygu gofod Arosfan yn Nhywyn yn dilyn cwblhau safleoedd Cricieth, Pwllheli, Llanberis a Chaernarfon. Bydd hyn yn helpu i reoli aros dros nos yn well ac i sicrhau bod ymwelwyr yn cyfrannu'n fwy cadarnhaol at gymunedau lleol. Mae bwriad i gynnal gwerthusiad o'r peilot yn 2026/27 er mwyn dod i ganfyddiad o werth a phrif gwersi sydd i'w dysgu.
- Cwblhawyd gwelliannau i Amgueddfa Lloyd George a mae'r amgueddfa bellach wedi ail agor. Mae hyn yn cryfhau cynnig diwylliannol yr ardal ac yn rhoi mwy o gyfleoedd i drigolion ac ymwelwyr ddysgu am dreftadaeth leol.
- Mae gwelliannau allanol Storiel ar waith, a mae'r caffi wedi ailagor. Mae'r arddangosfeydd a'r Cynllun Datblygu Cynulleidfa yn helpu i ddenu mwy o bobl i'r safle ac i gryfhau rôl Storiel fel canolfan ddiwylliannol i'r gymuned.
- Mae prosiectau sylweddol ar waith ar draws y tirlun llechi, gan helpu cymunedau i elwa o dreftadaeth y Safle Treftadaeth y Byd drwy weithgareddau, celf gyhoeddus a buddsoddiad lleol:
    - Mae'r prosiect Llewyrch o'r Llechi eisoes wedi denu dros £35 miliwn o fuddsoddiad i gymunedau llechi Gwynedd. Mae'r prosiect wedi derbyn estyniad, a mae pob elfen o'r rhaglen bellach ar waith. Bydd hyn yn sicrhau bod y buddsoddiad yn parhau i gefnogi cymunedau llechi Gwynedd.
    - Cynhaliwyd 68 o ddigwyddiadau gyda 3,100 o bobl yn mynychu, gan gynnwys 1,938 o blant. Mae hyn yn helpu trigolion i gysylltu â'u treftadaeth ac yn sicrhau bod statws Treftadaeth y Byd yn dod â budd uniongyrchol i gymunedau lleol

DRAFT

- Gosodwyd celf cyhoeddus mewn pedwar o'r chwe lleoliad, gyda threfniadau'n symud ymlaen ar gyfer Llanberis a Bethesda. Mae hyn yn gwella golwg a hunaniaeth llefydd lleol ac yn helpu i ddathlu hanes a diwylliant yr ardaloedd llechi.
- Cynhaliwyd gweithgareddau LleCHI LleNI mewn cymunedau ac ysgolion. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i blant, pobl ifanc a thrigolion ddeall a gwerthfawrogi treftadaeth lechi eu hardaloedd.

Adfywio cymunedau a chanol trefi

Mae gwaith wedi canolbwyntio ar fuddsoddi mewn canol trefi a phrosiectau lleol sy'n gwella cyfleusterau, cefnogi busnesau a chryfhau balchder cymunedol:

- Sicrhawyd £800,000 o Gronfa Ffyniant Cyffredin ar gyfer cronfa sy'n cefnogi prosiectau adfywio lleol fel Menter y Tŵr, Meithrinfa Seren Fach, Hen Lyfrgell Pentre Deiniolen, Canolfan Rhyd Ddu, Antur Nantlle a Menter Rabar i wella cyfleusterau a chefnogi gweithgarwch lleol.
- Sicrhawyd £1.3 miliwn o Gronfa Ffyniant Cyffredin ar gyfer Cynllun Adfywio Gwynedd Ni. Mae'r pecyn wedi cefnogi gwelliannau i fannau cyhoeddus, toiledau, adeiladau cymunedol a chynlluniau lleol, gan wneud trefi a phentrefi'n fwy deniadol i drigolion, busnesau ac ymwelwyr.
- Mae'r rhaglen Eiddo Gwag wedi helpu i ddod â 13 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd mewn canol trefi, a mae £995,000 wedi'i sicrhau ar gyfer peilot Stryd Fawr Bangor. Mae hyn yn helpu i adfywio canol trefi ac i greu defnydd newydd i eiddo sydd wedi bod yn segur.
- Sicrhawyd grant Trawsnewid Trefi ar gyfer prosiectau yng Nghanolfan Porthmadog, Cob Crwn a Llety Arall, ynghyd ag arian rhagbaratoi ar gyfer Camp Rhufeinig Bangor a Chei Llechi. Mae pecyn £1.5 miliwn hefyd wedi'i ddatblygu ar gyfer Cronfa Effaith Balchder Bro, gan greu cyfleoedd pellach i wella llefydd lleol yn 2026/27.
- Fel rhan o Gynllun Adfywio Gwynedd Ni, cynigiwyd grantiau i 55 o gynghorau tref a chymuned drwy gronfa beilot o £370,000. Mae hyn wedi cefnogi prosiectau lleol fel murluniau, offer chwarae newydd, dodrefn stryd a phaneli gwybodaeth, gan wella mannau cymunedol a chodi balchder lleol
- Ers 2022/23 sicrhawyd £31.8 miliwn o grantiau ar gyfer datblygu a gweithredu prosiectau adfywio canol trefi yng Ngwynedd. Mae'r buddsoddiad hwn yn helpu i wella llefydd lleol, cefnogi busnesau a chreu canol trefi mwy bywiog i drigolion ac ymwelwyr.

Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith

Mae'r gwaith economaidd wedi canolbwyntio ar gefnogi busnesau, creu swyddi a helpu trigolion i ddatblygu sgiliau a chael gwaith:

- Sicrhawyd £500,000 i barhau ARFOR ar draws Gwynedd, Môn, Ceredigion a Sir Gâr. Mae hyn yn helpu i drosglwyddo'r dysgu o'r rhaglen ac i ddatblygu ymyraethau sy'n cefnogi pobl ifanc, mudo cadarnhaol a chymunedau Cymraeg.
- Cynhaliwyd Wythnos Busnes 2025 ym mis Hydref a rhannwyd newyddion a chyfleoedd â dros 4,000 o fusnesau yn wythnosol trwy fwletinau busnes. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth amserol i fusnesau lleol ac yn eu helpu i fanteisio ar gefnogaeth a chyfleoedd datblygu.

- Datblygwyd strategaeth economaidd newydd a gafodd ei chymeradwyo gan y Cabinet a'r Cyngor Llawn. Bydd hyn yn rhoi cyfeiriad clir i fuddsoddiad economaidd y Cyngor ac yn targedu adnoddau at y meysydd sydd â'r potensial mwyaf i greu budd i fusnesau, gweithwyr a chymunedau lleol.
- Mae nifer o brosiectau economaidd mawr yn symud ymlaen, gan gynnwys unedau diwydiannol Parc Bryn Cegin, Hwb Gwledig Glynllifon, Academi Croeso Portmeirion, datblygiadau Zip World (Chwarel Penrhyn a Llechwedd), Ysgol Fusnes Albert Gubay (Prifysgol Bangor) a Chanolfan Sgiliau a Gwyddoniaeth Trawsfynydd . Bydd y buddsoddiadau hyn yn creu cyfleoedd gwaith, hyfforddiant a busnes newydd mewn gwahanol rannau o Wynedd.

Cadw'r Budd yn Lleol

Mae'r gwaith caffael wedi canolbwyntio ar sicrhau bod mwy o wariant y Cyngor yn creu budd lleol, gwerth cymdeithasol ac effaith gadarnhaol ar yr economi leol:

- Datblygwyd Strategaeth Caffael newydd sy'n gosod blaenoriaethau clir ym meysydd sicrhau budd lleol, lleihau carbon, gwerth am arian, gwerth cymdeithasol, technoleg, llywodraethu a'r Gymraeg.
- Mae pryniant mewn meysydd fel gofal cartref, tai, cludiant ysgolion, hurio offer ac ailgylchu yn cael eu darparu gan gwmnïau lleol. Mae hyn yn helpu i gadw mwy o wariant cyhoeddus o fewn economi Gwynedd.
- Datblygwyd a chynhaliwyd sesiynau hyfforddi i swyddogion sy'n caffael yn rheolaidd. Mae hyn yn cynyddu dealltwriaeth o sut i brynu'n lleol, sicrhau gwerth cymdeithasol a lleihau carbon drwy benderfyniadau caffael dydd i ddydd.
- Cydweithiwyd â Busnes Cymru ac Adra i godi ymwybyddiaeth busnesau o gyfleoedd caffael a'r rheoliadau caffael cenedlaethol newydd. Mae hyn yn helpu busnesau lleol i ddeall sut i gystadlu am waith ac i fanteisio ar gyfleoedd yn y sector cyhoeddus.

Rhai o'n prif gyflawniadau

Datblygu'r Economi ac adfywio cymunedau

- Ers Mehefin 2024 i ddiwedd Mawrth 2026 mae 3,518 o archebion parcio dros nos wedi'u gwneud drwy safleoedd Arosfan yng Nghaernarfon, Cricieth, Llanberis a Phwllheli. Mae hyn helpu i reoli aros dros nos yn well, lleihau pwysau ar gymunedau lleol a gwella profiad ymwelwyr. Darperir cyfleusterau dŵr ffres, dŵr gwastraff cemegol, ailgylchu a sbwriel cyffredinol yn y safleoedd. Mae'r safleoedd wedi'u lleoli o fewn pellter cerdded i drefi a chyrchfannau allweddol y sir.
- Cynigiwyd grantiau gwerth bron i £300,000 i 69 o sefydliadau cymunedol ar draws Gwynedd i gefnogi gweithgareddau diwylliannol a byw'n iach, gan gynnwys Clybiau Chwaraeon, digwyddiadau diwylliannol a chymunedol, gweithgareddau i blant a phobl ifanc a phrosiectau llesiant. Mae'r prosiect Diwyllesiant yn cefnogi budd a lles cymunedau, amgylchedd a busnesau Gwynedd drwy hybu a datblygu cyfleoedd yn y meysydd blaenoriaeth, sef Diwylliant threftadaeth, Hamdden a chwaraeon ac Economi ymweld gynaliadwy.
- Sicrhawyd £1.3 miliwn o grantiau o gronfeydd Llywodraeth i gefnogi 118 o fusnesau Gwynedd yn 2025/26. Mae'r cymorth, ynghyd â sesiynau galw heibio ac arolwg busnes, wedi helpu mentrau lleol i leihau costau, cynyddu incwm a chael mynediad at wybodaeth a hyfforddiant perthnasol.

- Darparwyd cymorth i 255 o drigolion Gwynedd gael gwaith, a chefnogwyd 130 o drigolion i ennill cyflog gwell, datblygu sgiliau neu oresgyn rhwystrau. Mae hyn yn cynyddu incwm, hyder a sefydlogrwydd i unigolion a theuluoedd ledled y sir.

Diwylliant a Hamdden

- Cofnodwyd bron i 965,000 ymweliad â chanolfannau Byw'n Iach, gan ddangos defnydd a galw cryf am y gwasanaethau.
- Cafwyd dros 1.2 miliwn o ymweliadau ac ymgysylltiadau digidol gyda'r gwasanaeth amgueddfeydd ac orielau. Roedd boddhad cwsmeriaid yn gyson uchel ar draws gwasanaethau diwylliannol, gan gynnwys 95% mewn Amgueddfeydd ac Orielau, 98% mewn Llyfrgelloedd a 95% yn Neuadd Dwyfor.
- Nododd rhwng 97% a 100% o gyfranogwyr eu bod wedi elwa o brosiectau celfyddydol cymunedol a llesiant.
- Denodd Neuadd Dwyfor bron i 20,000 o werthiannau tocynnau a dros £200,000 o incwm, tra gwelwyd cynnydd sylweddol mewn ymweliadau a gweithgareddau mewn lleoliadau diwylliannol eraill.

<u>Astudiaeth Achos - Ceir astudiaethau pellach ar y wefan perfformiad y Cyngor [linc]</u>

Gwaith Gwynedd

Mae'r nifer o bobl sydd eisiau swydd ond yn methu cael yng Ngwynedd yn isel; ond mae mwy na'r arfer o bobl oed gwaith yn ein cymuned sydd heb waith a ddim yn chwilio am swydd.

Gwaith Gwynedd yw enw gwasanaeth Cyngor Gwynedd i helpu ein trigolion oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag gweithio neu gael swydd well. Yn ystod 2025/26 fe wnaeth Cyngor Gwynedd sicrhau £1.5 miliwn o fuddsoddiad ar gyfer y maes pwysig yma gan gyflogi tîm o 14 i gynnig help yn uniongyrchol i'n trigolion ac ariannu cymorth pellach gan bartneriaid o fewn ein cymunedau.

Yn sgil yr ymrwymiad a'r gefnogaeth ddwys yma, fe wnaeth 255 o unigolion gael swydd yn ystod y flwyddyn a cwblhaodd 130 arall hyfforddiant fydd yn eu helpu i gael swydd sy'n talu'n well.

Un o fuddiolwyr Gwaith Gwynedd yn 2025/26 oedd Seimon:

Roedd Seimon yn ddigartref, yn cysgu ar y stryd ac heb unrhyw incwm pan gyfeiriodd ei hun i Gwaith Gwynedd ar gyngor y Ganolfan Byd Gwaith. Cefnogwyd Seimon i gael mynediad brys at tîm digartrefedd y Cyngor ac yna, wedi iddo gael llety dros dro, dyma Gwaith Gwynedd yn ei helpu i ymgeisio am swyddi yn lleol ac i'w baratoi ar gyfer cyfweliad. Gyda'n cefnogaeth, o fewn mis, dyma Seimon yn symud o fod yn cysgu allan i fod efo llety a swydd. I wneud yn siŵr fod ei lwyddiant yn gynaliadwy mae Gwaith Gwynedd wedi darparu tocyn bws iddo er mwyn sicrhau ei fod yn gallu teithio i'r gwaith tan iddo dderbyn ei gyflog cyntaf.

Dychwelodd Seimon am gymorth pellach yn dilyn colli ei swydd, sydd ddim yn anarferol gydag unigolyn sydd wedi profi digartrefedd. Mae'n parhau i fyw mewn llety dros dro, ond wedi sicrhau cyflogaeth newydd ac ar hyn o bryd yn aros am ddyddiad cychwyn.

DRAFT

Gwynedd Glyd

Mae Gwynedd Glyd yn canolbwyntio ar helpu pobl i fyw mewn cartrefi addas, fforddiadwy ac o safon yn eu cymunedau. Drwy gynyddu'r cyflenwad o dai, dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, lleihau tlodi tanwydd a chryfhau trefniadau digartrefedd, rydym yn gweithio i wella ansawdd bywyd, iechyd a llesiant trigolion Gwynedd. Byddwn yn ceisio cyflawni hyn drwy osod uchelgais i:

- Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd.
- Helpu trigolion Gwynedd i fod yn berchen ar gartref fforddiadwy yn eu cymuned.
- Sicrhau bod tai newydd yng Ngwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar.
- Sicrhau bod tai Gwynedd yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant trigolion y sir.

Prosiectau

- Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol
- Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd
- Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

Diweddariad ar y prosiectau

Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

Mae'r gwaith i gynyddu'r cyflenwad o dai wedi canolbwyntio ar greu mwy o gartrefi i bobl leol a gwneud gwell defnydd o eiddo presennol:

- Datblygwyd 139 o dai cymdeithasol yn ystod flwyddyn, gan ddod i gyfanswm o 506 ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai (CGT), sy'n rhagori ar y targed o 500. Mae hyn yn cynyddu'r dewis o gartrefi fforddiadwy ac yn helpu mwy o bobl i aros neu ddychwelyd i'w cymunedau lleol.
- Bwriadwyd dod â 28 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy'r grantiau tai gwag yn ystod trydedd flwyddyn y Cynllun. Llwyddwyd i ddod â 37 eiddo gwag pellach yn ôl i ddefnydd yn ystod y flwyddyn trwy'r grant, gan ddod â'r cyfanswm i 145 o dai gwag ers dechrau'r CGT.
- Prynwyd 85 eiddo drwy'r Cynllun Prynu Cartref gan helpu 221 o bobl i fyw yn eu cymunedau lleol. Mae hyn yn rhoi cyfle ymarferol i unigolion a theuluoedd gael cartref addas yn agos at eu rhwydweithiau a'u gwasanaethau lleol.
- Gosodwyd targed i brynu 68 o dai oddi ar y farchnad agored drwy'r Cynllun Prynu i Osod erbyn Mawrth 2026, gyda'r dyhead i osod o leiaf 40 ohonynt i denantiaid sydd mewn angen tai. Prynwyd 66, gyda 4 pellach yn y broses cyfreithiol. Gosodwyd 32 o dai, gyda 7 arall yn y broses o'u gosod.
- Mae trafferthion gyda chysylltiad dŵr wedi oedi'r gwaith. Bu rhywfaint o lithriad gyda'r ddau ddatblygiad Tŷ Gwynedd oedd i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn 2025/26 sef Dôl Afon Goch yn Llanberis a safle Coed Mawr ym Mangor ond fe'u cwblheir yn ystod 2026/27 ac mae dau ddatblygiad pellach ar y gweill.

Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd

Mae'r gwaith ar dlodi tanwydd wedi canolbwyntio ar gefnogi trigolion sy'n wynebu costau ynni uchel ac ar wella effeithlonrwydd cartrefi:

- Cyfeiriwyd bron i 650 o unigolion at ECO4 a Nyth yn 2025/26 gan ragori ar yr uchelgais gwreiddiol o 300. Mae hyn yn helpu trigolion gael mynediad at welliannau ynni sy'n gallu gwneud cartrefi'n gynhesach, yn fwy effeithlon ac yn rhatach i'w rhedeg. Rhwng Hydref 2022 a Mawrth 2026 mae 1158 o dai wedi gweld gwelliant yn eu perfformiad ynni gyda chodiad yn yr EPC (Energy Performance Certificate), gyda 125 wedi cynyddu i A; 824 i B ac 166 i C. Golygai hyn bod gwariant o dros £10 miliwn wedi'i wneud yn y sir ers cychwyn ECO4.
- Dosbarthwyd 309 o dalebau gwerth £11,880 i drigolion mewn angen oedd ar fesuryddion rhag-dalu. Ers dechrau'r cynllun, mae 6,515 o dalebau gwerth £264,773 wedi mynd yn uniongyrchol at drigolion mwyaf bregus y sir, gan roi cymorth uniongyrchol gyda chostau byw hanfodol. Mae hyn wedi cynorthwyo trigolion mwyaf bregus y sir i dderbyn cymorth gyda chostau gwresogi.
- Cyfeiriwyd 67 o drigolion at wasanaethau cymorth fel y banciau bwyd, Age Cymru, Cynnal Gofalwyr, Canllaw, Cyngor Ar Bopeth a chymdeithasau tai. Mae hyn yn sicrhau bod pobl yn cael eu cysylltu â'r gefnogaeth fwyaf addas ar gyfer eu sefyllfa.
- Cynhaliwyd 32 o sesiynau galw mewn ynni ar draws Gwynedd . Mae'r sesiynau hyn yn rhoi cyngor wyneb-yn-wyneb i drigolion ac yn eu helpu i ddeall pa gymorth sydd ar gael i leihau costau ynni.

Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd

Mae'r gwaith digartrefedd wedi canolbwyntio ar gynyddu opsiynau llety addas a lleihau dibyniaeth ar lety argyfwng:

- Cwblhawyd gwaith uwchraddio ar 35 Ffordd y Coleg, Bangor a mae tenantiaid i symud mewn yn ystod y misoedd nesaf. Mae tenantiaid hefyd wedi symud i 137 Stryd Fawr Bangor, sy'n darparu llety i 12 o unigolion. Mae hyn yn cynyddu'r opsiynau llety lleol ac yn helpu pobl i symud ymlaen o sefyllfaoedd bregus.
- Cynhaliwyd diwrnod agored ar gyfer cynllun Penrallt, Caernarfon a mae'r cais cynllunio yn barod i'w gyflwyno. Bydd y cynllun yn helpu i greu darpariaeth llety ychwanegol ac addas i bobl sydd angen cefnogaeth.
- Mae dibyniaeth ar lety argyfwng costus, anaddas ar gyfer cartrefu pobl digartref yn parhau'n uchel yng Ngwynedd, ond mae'r adran Tai ac Eiddo'n gwneud ymdrechion bwriadol a llwyddiannus i leihau'r ddibyniaeth a chynyddu'r opsiynau llety dros dro ymhellach. Mae'r adran yn edrych am gyfleoedd i brynu adeiladau parod, a phrynwyd 3 adeilad dros y cyfnod diwethaf er mwyn cynyddu'r opsiynau llety dros dro ymhellach – 1 fis Chwefror (Bangor) a 2 fis Mawrth (Caernarfon a Bangor).

Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

Mae'r gwaith ar ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr wedi canolbwyntio ar reoli effaith y farchnad dai ar gymunedau lleol:

- Cyflwynwyd yr adroddiad Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) i'r Cabinet ym Mehefin 2025, a chafodd ei fabwysiadu i gynorthwyo ymgeiswyr i ddeall a gweithredu polisïau cynllunio perthnasol wrth gyflwyno ceisiadau. Fodd bynnag, yn Chwefror 2026 gwrthododd y Barnwr ganiatáu apêl y Cyngor, gan ddiddymu Cyfarwyddyd Erthygl 4. O ganlyniad, nid yw'r CCA bellach yn weithredol. Er hynny, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r argyfwng tai, gwarchod cymunedau Gwynedd, a sicrhau cyfleoedd teg i drigolion fyw yn y sir.

- Adroddwyd ar ganlyniadau'r gwaith ymchwil i effaith y Premiwm Treth Cyngor o ran unrhyw newid defnydd eiddo i'r Cyngor ar Ragfyr 4ydd 2025. Dangoswyd bod y premiwm wedi gwneud cyfraniad at ddod ag ail gartrefi yn ôl i ddefnydd fel prif breswylfeydd. Cadwyd lefel y Premiwm Treth Cyngor heb ei newid ar gyfer ail gartrefi yn 150% (2025/26) a chynyddu'r Premiwm Treth Cyngor ar eiddo gwag hirdymor i 150% yn 2026/27, o ganlyniad i'r nifer o dai gwag sydd dal yn bodoli. Mae'r arian a gesglir ers cyflwyno'r Premiwm yn 2018/19 wedi cyfrannu at ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai, sy'n anelu i adeiladu, prynu neu adnewyddu dros 2,000 o unedau a fydd yn helpu dros 15,000 o drigolion Gwynedd dros oes y Cynllun. Mae hyn wedi arwain at helpu 13,194 o bobl Gwynedd ers cyflwyno'r Premiwm yn 2018/19.

Rhai o'n prif gyflawniadau

- Mae'r grant tai gwag wedi helpu 145 o bobl Gwynedd i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Mae'r grant, sydd bellach ar gael i ystod ehangach o brynwyr, yn cefnogi gwaith hanfodol fel gwaith ar doeau, insiwleiddio a systemau gwresogi, gan droi tai segur yn gartrefi addas ac o safon i bobl leol.
- Drwy'r Cynllun Prynu i Osod, prynwyd 66 o dai o'r farchnad agored, gyda 32 eisoes wedi'u gosod ac eraill yn cael eu hadnewyddu neu yn y broses o'u gosod. Mae hyn yn cadw mwy o gartrefi mewn defnydd ac yn cynnig opsiynau rhentu mwy fforddiadwy i bobl ar y gofrestr tai canolraddol.
- Mae'r amser cyfartalog mewn llety wedi aros yn sefydlog dros y flwyddyn diwethaf, a gellir adrodd bod y nifer mewn gwely a brecwast wedi lleihau o'i uchafswm sef 217 yng Ngorffennaf 2025 i 182 ym Mawrth 2026.
- Mae Cynllun Lesu Cymru yn gynllun sy'n rhoi cyfle i landlordiaid a pherchnogion cartrefi gwag lesio eu heiddo i'r awdurdod lleol am gyfnod rhwng 5 ac 20 mlynedd. Mae'r cynllun yn gwarantu incwm rhent misol i berchnogion eiddo a gwasanaeth rheoli eiddo llawn gan yr awdurdod lleol, heb yr angen i dalu comisiwn. Derbyniwyd 53 o ffurflenni mynegi diddordeb i Gynllun Lesu Cymru dros y flwyddyn gan landlordiaid a pherchnogion cartrefi gwag, ac mae sawl eiddo'n mynd drwy'r broses o gael eu hasesu neu drafod camau pellach. Mae 91 o unigolion wedi elwa o'r tai sydd gan y Cyngor ar les, a mae'r gallu i symud aelwydydd o lety argyfwng i lety mwy addas dros dro wedi lleddfu peth o'r pwysau sydd ar y gwasanaeth digartrefedd.
- Mae 13,194 o bobl wedi derbyn cymorth i fyw mewn tŷ lleol trwy gynlluniau'r Cynllun Gweithredu Tai ers ei lansio. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys Llety â chefnogaeth i'r digartref, Tŷ Gwynedd, Cynllun Prynu Cartref a Siop Un Stop.
- Datblygwyd 506 o unedau cymdeithasol drwy'r Cynllun Gweithredu Tai, sy'n rhan o Rhaglen Ddatblygu Tai Cymdeithasol, gyda 299 arall ar y gweill ar y Prif Raglen ar wahanol gamau o'r broses.
- Mae'r Cyngor wedi helpu i ddod â 343 o dai gwag yn ôl i ddefnydd gyda 62 eiddo ychwanegol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig.
- Cafodd 97% o osodiadau tai cymdeithasol eu gwneud i bobl â chysylltiad lleol â Gwynedd dros y 12 mis diwethaf, gan sicrhau bod tai'n diwallu anghenion cymunedau lleol.

DRAFT

Astudiaeth Achos - Ceir astudiaethau pellach ar y wefan perfformiad y Cyngor [linc]

Cwpl ifanc lleol yn cael tŷ ym Mhorthmadog trwy'r Cynllun Prynu i Osod
Mae cynllun Cyngor Gwynedd i brynu ac uwchraddio tai er mwyn eu gosod i bobl leol eisoes yn newid bywydau trigolion y sir, gan gynnwys cwpl ifanc ym Mhorthmadog sydd bellach wedi derbyn goriadau i gartref fforddiadwy yn eu cymuned eu hunain.

Ers 2021, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu'r cynllun Prynu i Osod, sy'n rhan ganolog o Gynllun Gweithredu Tai gwerth £190 miliwn. Y nod yw prynu 100 eiddo trwy'r sir a'u gosod i bobl leol er mwyn mynd i'r afael â phrinder tai rhent fforddiadwy yng Ngwynedd.
Trwy'r cynllun, hyd yma mae:

- 66 eiddo wedi cael eu prynu gan Gyngor Gwynedd
- 32 o'r rhain wedi cael eu gosod i bobl leol
- Y gweddill yn y broses o gael eu hadnewyddu i safonau priodol cyn cael eu gosod.

Mae'r eiddo hyn yn cynnwys tai mewn ardaloedd lle mae llawer iawn o bobl Gwynedd yn cael trafferth dod o hyd i dai fforddiadwy, fel cymunedau Aberdyfi, Llanberis, Cricieth, ac ardal Pen Llŷn.

Mae'r Cyngor yn cydweithio gydag Adra ar y cynllun hwn, gydag Adra yn cymryd cyfrifoldeb am reoli'r eiddo ar ran y Cyngor. Mae'r cartrefi ar gael i unigolion sy'n bodloni meini prawf Tai Teg. I'r rhai sydd â diddordeb, cofrestru gyda Tai Teg yw'r cam cyntaf i wneud cais am un o'r tai.

Un o'r rhai sydd wedi elwa yw Ffion Morris a'i phartner Rhodri, sydd bellach yn byw mewn tŷ drwy'r cynllun ym Mhorthmadog:

"Fel cwpl lleol, un o Benrhyndeudraeth ac un o Borthmadog, roeddem wedi bod yn chwilio am gartref ers tro ond yn cael trafferth dod o hyd i le addas i rentu yn yr ardal.

Mae symud i'n cartref newydd drwy gynllun Prynu i Osod y Cyngor yn teimlo fel breuddwyd ac yn gyfle anhygoel i ni.

Rydym yn gweld dyfodol disglair yma yn ein tŷ newydd ac yn ddiolchgar dros ben i'r Cyngor, Tai Teg ac Adra am ein cefnogi drwy'r broses."

DRAFT

Gwynedd Ofalgar

Mae gofalu am unigolion bregus yn un o'n prif gyfrifoldebau a'n huchelgais yw cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau drwy:

- Ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus neu sy'n agored i niwed.
- Cefnogi trigolion i gymryd rhan ac ymgysylltu gyda'u cymunedau, ac i leihau tlodi a'i effeithiau.
- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn byw bywydau hapus ac yn cyrraedd eu potensial o ran eu haddysg, eu hiechyd a'u lles.
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i drigolion Gwynedd i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol.
- Galluogi trigolion Gwynedd i fyw'n annibynnol mewn llety addas a chydag urddas gyhyd ag y bo modd yn eu cymuned.
- Cefnogi gofalwyr di-dâl.
- Darparu gofal a chefnogaeth o safon uchel yn y lle iawn ar yr amser iawn.
- Cefnogi ein cymunedau i sicrhau hygyrchedd ac i ddatblygu i fod yn sir Oed Gyfeillgar.

Prosiectau

- Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol
- Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal
- Sicrhau bod cefnogaeth amserol a llawn i'w gael i gefnogi pobl i allu byw adref gyda'u teuluoedd
- Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned
- Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth
- Llechen Lân
- Cefnogi Llesiant Pobl
- Cynllun Awtistiaeth
- Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan

Diweddariad ar y prosiectau

Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol

Mae'r gwaith moderneiddio gofal wedi canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau a llety sy'n addas i anghenion pobl nawr ac yn y dyfodol. Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau bod cartrefi gofal y sir yn cyd-fynd â safonau modern a bod ystod eang o opsiynau llety ar gael i gefnogi unigolion sy'n parhau i allu byw'n annibynnol gydag ychydig o gefnogaeth. Mae achos busnes amlinellol ar gyfer cartref nyrsio a dementia newydd ym Mhenyberth wedi'i gyflwyno i'r Cabinet yn Rhagfyr 2025. Mae'r cynllun yn bartneriaeth rhwng y Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chymdeithas Tai ClwydAlyn. Bydd y cynllun yn rhan o gampws iechyd a gofal integredig Penrhos, gan gynnig darpariaeth gofal modern a dwyieithog, fydd gyda 56 o welyau gan gynnwys darpariaeth dementia a nyrsio o safon uchel yn nes at gartref. Mae'r model newydd hwn o ofal nyrsio yn helpu pobl i dderbyn gofal addas yn nes at eu cymunedau.

- Cwblhawyd 2 dŷ gyda chefnogaeth i unigolion gydag anableddau dysgu yn Harlech a Phenrhyndeudraeth. Mae'r Tai â Chefnogaeth yn y Gymuned yn cynnig cartrefi gofal addas a diogel i unigolion ac yn rhoi cyfle iddynt fyw'n annibynnol, gyda'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.
- Mae gwaith datblygu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli yn parhau. Bydd y cynllun yn helpu pobl i fyw'n annibynnol am gyfnod hirach, gyda chefnogaeth ar gael pan fydd ei angen.
- Cyflwynwyd briff ac achos busnes i'r adran Tai ac Eiddo ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Caernarfon. Ond oherwydd yr angen i gadarnhau gwybodaeth ymarferol, mae oedi ar y gwaith o lunio'r amserlen.
- Er ein bod wedi bwriadu comisiynu gwaith yn ystod y flwyddyn i lunio dadansoddiad llawn o gartrefi preswyl mewnol y Cyngor i adnabod y buddsoddiadau sydd eu hangen er mwyn cwrdd â safonau modern, mae'r amserlen wedi llithro. Bwriedir penodi cwmni i ymgymryd a'r gwaith yn fuan.
- Comisiynwyd gwaith ar y cyd â'r Adran Tai ac Eiddo gan Housing LIN i lunio adroddiad yn crynhoi'r galw am lety gofal yng Ngwynedd dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn ein galluogi i gynllunio datblygiadau lletya ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn seiliedig ar dystiolaeth glir. Disgwylir y bydd y fersiwn terfynol yn barod yn ystod 2026/27.

Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal

Mae'r gwaith digidol wedi canolbwyntio ar helpu pobl a'u teuluoedd i gael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn haws:

- Mae gwefan Dewis Cymru yn rhannu gwybodaeth am wasanaethau, sefydliadau, mudiadau a digwyddiadau sy'n cefnogi unigolion yn eu cymuned, gyda nifer o'r gwasanaethau yn rhai statudol. Parhawyd i hyrwyddo'r wefan ac i hyfforddi golygyddion i gefnogi'r system i'r dyfodol. Mae hyn yn helpu trigolion ddod o hyd i wybodaeth leol am wasanaethau cymorth a gweithgareddau llesiant.
- Gwelwyd bod nifer o ddefnyddwyr teleofal yn parhau i gynyddu'n raddol, a hynny wrth i unigolion drosglwyddo o wasanaethau gan gymdeithasu tai Adra a Grŵp Cynefin. Mae'r tîm yn parhau i gydweithio'n agos gyda'r cymdeithasau tai er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn i drigolion. Mae timau gwaith cymdeithasol yn cael eu cefnogi i ddeall a defnyddio dyfeisiadau teleofal er mwyn gallu hyrwyddo'r ddewislen o ddyfeisiadau teleofal i unigolion a theuluoedd. Mae hyn yn galluogi pobl a'u teuluoedd i ofyn am offer drwy wefan y Cyngor, gan helpu mwy o bobl i fwy'n ddiogel ac yn annibynnol gartref. Y nod yw i hyrwyddo annibyniaeth a byw'n dda, gan leihau'r angen am ymyrraeth gofal draddodiadol.
- Mae'r prosiect i drosglwyddo pobl sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol i'r system cardiau cyflogi newydd wedi wynebu nifer o heriau. Er bod y trefniadau newydd yn galluogi monitro yn agosach a chydweithio gwell gydag unigolion a'u gofalwyr, mae problemau gyda'r darparwr presennol wedi arwain yr adran i ystyried opsiynau amgen er mwyn sicrhau gwell dewis i ddefnyddwyr.

DRAFT

Sicrhau bod cefnogaeth amserol a llawn i'w gael i gefnogi pobl i allu byw adref gyda'u teuluoedd

Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar sicrhau bod cefnogaeth i unigolion a gofalwyr yn fwy amserol, clir a chydlynol:

- Mae'r Cyngor yn annog pobl sydd â chyflyrau meddygol neu sy'n fregus i fod yn rhan o gynllun cenedlaethol a allai arbed amser hanfodol mewn argyfwng. Wrth gydweithio â phartneriaid lleol, mae'r Cyngor yn hyrwyddo'r y cynllun 'Neges mewn Potel', sef ffordd o gadw manylion personol a meddygol allweddol lle mae'r gwasanaethau brys yn gwybod i edrych amdano mewn argyfwng. Mae'n cynnwys ffurflen i gofnodi manylion megis alergeddau, cyflyrau iechyd, meddyginiaeth, a chysylltiadau brys, a gedwir yn ddiogel mewn potel fach â chroes werdd arni yn yr oergell. Rhoddir sticeri a chroes werdd i'w harddangos yn y cartref, gan dynnu sylw'r gwasanaethau brys at bresenoldeb y botel. Mae hyn yn rhoi tawelwch meddwl i deuluoedd ac yn helpu gwasanaethau i ymateb yn gyflymach pan fo angen.
- Er bod rhestrau aros am ofal cartref wedi aros yn gymharol debyg, mae'r gwaith ar weithredu'r rhaglen waith wedi bod yn mynd rhagddo'n gyson a mae'r nifer sy'n disgwyl dros 91 diwrnod am ofal cartref wedi lleihau. Mae'r gwaith yn parhau i hybu cydweithio agosach rhwng y timau gwaith cymdeithasol a'r darparwr.
- Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd Tîm Gwasanaethau Hybu Annibyniaeth newydd er mwyn dod â meysydd taliadau uniongyrchol, teleofal, technoleg gynorthwyol, deallusrwydd artiffisial (AI) a datblygu cwmnïau micro ynghyd. Nod y gwaith yw sicrhau bod unigolion yn cael y gefnogaeth, y dechnoleg a'r dewisiadau sydd eu hangen i fyw mor annibynnol â phosibl, yn unol â'u dymuniadau a'u hamgylchiadau.

Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned

Mae cydweithio â gwasanaethau iechyd wedi parhau er mwyn cefnogi pobl i fyw ei bywyd gorau yn y gymuned:

- Mae'r adran Oedolion yn parhau i dreialu rôl Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol sydd wedi'i leoli gyda Chydlynwyr Rhyddhau Ysbyty er mwyn hwyluso rhyddhau cleifion ac atal cyfeiriadau anaddas rhag cyrraedd y timau adnoddau cymunedol. Mae hyn yn caniatáu mynediad at y wybodaeth a'r arbenigedd gofal lleol er mwyn sicrhau'r gefnogaeth fwyaf priodol yn y gymuned y mae'r claf yn byw ynddi. Mae'r canlyniadau yn galonogol a dengys y data perfformiad bod cynnydd yn y nifer o asesiadau sy'n cael eu cynnal.
- Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn hyrwyddo llesiant unigolion yn llawn, mae timau adnoddau cymunedol lleol bellach yn gweithio ar sail is-ardaloedd, gan gymryd mwy o berchnogaeth dros becynnau gofal lleol. Mae hyn yn gwella trosolwg o anghenion pobl ac yn helpu i ddarparu gofal mwy cydlynol.
  Drwy wneud defnydd mwy effeithiol o gefnogaeth y drydedd sector, mae'n galluogi'r Cyngor i ddarparu cefnogaeth amgen er mwyn hyrwyddo byw'n dda ac adnabod anghenion yn gynnar. Disgwylir y bydd hyn yn lleihau pwysau ar wasanaethau statudol ac yn galluogi'r Cyngor i ganolbwyntio'i adnoddau ar y sawl sydd ei angen fwyaf. Cynhaliwyd adolygiad o gomisiynu gwasanaethau 3ydd sector, a byddwn yn parhau i gydweithio gyda Mantell Gwynedd.
- Darpara Dementia Actif Gwynedd weithgareddau, gwybodaeth a chefnogaeth i unigolion sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd. Helpa'r gwasanaeth bobl i gadw'n weithgar, yn gysylltiedig â'u cymunedau ac i gael mynediad at gymorth ar ôl

diagnosis gan leihau unigedd a chefnogi llesiant a hyder unigolion a gofalwyr. Mae'r effaith wedi bod yn sylweddol a gwelwyd cynnydd unwaith eto yn y nifer sy'n gwneud cyswllt â'r gwasanaeth: ym Mawrth 2026, mynychodd 305 o unigolion, 55 yn byw gyda dementia, 61 yn ofalwyr di-dâl, a 189 arall yn elwa'n gymdeithasol. Dengys hyn werth Dementia Actif wrth gynorthwyo unigolion i fyw'n annibynnol ac i gefnogi gofalwyr.

Datblygu cyfleoedd hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth
Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i unigolion sydd angen cefnogaeth ychwanegol:

- Mae gwaith o godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau dysgu o fewn y Cyngor yn dechrau dwyn ffrwyth. Mae mwy o unigolion bellach wedi'u cyflogi, a mae trafodaethau'n parhau gyda gwasanaethau eraill i ehangu'r cyfleoedd hyn. Mae hyn yn helpu pobl i ddatblygu sgiliau, hyder ac annibyniaeth. Erbyn diwedd 2025/26 roedd 134 o unigolion yn rhan o'r cynllun, gyda 60 o'r rhain mewn gwaith cyflogedig a'r gweddill yn gwirfoddoli. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig iawn o ran safbwynt llesiant ac ymdeimlad o gyflawni i'r unigolyn, gan hefyd hyrwyddo annibyniaeth a rhoi cyfle i wneud ag eraill o fewn y gymuned ac o ganlyniad yn lleihau'r galw am wasanaethau gofal.
- Mae'r gwaith Anabledd Dysgu: Ehangu Cyfleoedd Gwaith wedi ennill cydnabyddiaeth genedlaethol, gyda'r tîm yn cael ei wahodd i gyflwyno yng nghynhadledd IMPACT 'Gwella Gofal Oedolion Gyda'n Gilydd; yng Nghaerdydd. Roedd hyn yn gyfle i rannu arfer da Gwynedd, gan arddangos y dull arloesol o gefnogi pobl ag anableddau dysgu mewn i waith ystyrlon, a chryfhau proffil y sir fel arweinydd yn y maes.
- Mae'r gwaith wedi cychwyn ar ddatblygu strategaeth cyfleon cymunedol gyda phartneriaid yr adran ar gyfer anableddau dysgu yng Ngwynedd. Bydd y gwaith yn parhau yn 2026/27 ochr yn ochr ag ail-lunio'r Cynllun Llwybrau Llesiant. Parhawyd i ariannu'r gwasanaeth cefnogi cyflogaeth hyd at Fawrth 2027 ond rydym eto i ddatrys sut bydd y gwasanaeth yn cael ei ariannu yn barhaol i'r dyfodol.

Llechen Lân
Mae'r gwaith Llechan Lân wedi canolbwyntio ar ddod â gwaith yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ynghyd mewn ffordd fwy clir a chydlynol:

- Bwriedir creu un cynllun ar gyfer dod â holl waith yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ynghyd er mwyn symleiddio'r ffrydiau gwaith. Wrth baratoi dadansoddiad o ddemograffeg Gwynedd; y galw am wasanaeth ac arferion gorau gwasanaethau cymdeithasol oedolion, byddwn yn deall ac yn amlygu'n well y galw am wasanaeth a'r adnoddau cysylltiedig fydd eu hangen ar gyfer yr ugain mlynedd nesaf.

Cefnogi Llesiant Pobl
Mae gwaith cefnogi llesiant wedi canolbwyntio ar sicrhau bod cefnogaeth leol ar gael i drigolion sy'n wynebu caledi, unigedd neu bwysau costau byw :

- Mae'r Cyngor yn cefnogi rhwydweithiau o Hybiau Cymunedol, ac maent ar waith ymhob un o'r 13 ardal ar draws y Sir. Mae'r hybiau yn rhoi help o ran gwybodaeth am bethau fel bwyd, ynni ac arian, yn ogystal â gweithgareddau a gwasanaethau yng nghymunedau'r trigolion.

- Mae'r Hwylusydd Lles wedi sefydlu rhaglen o sesiynau galw heibio mewn llyfrgelloedd lleol a digwyddiadau partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o gymorth costau byw a gwasanaethau cefnogi sydd ar gael. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i bobl gael cyngor a chefnogaeth yn agos at eu cartrefi.
- Mae grantiau gwerth £217,743 wedi eu dyrannu i grwpiau cymunedol a banciau bwyd i gryfhau cefnogaeth lleol i drigolion. Mae'r Cynllun Bwyd yn cynnwys sefydlu cronfa grant ar gyfer cynlluniau bwyd a bwydo gan grwpiau cymunedol, cyrsiau coginio yn y gymuned ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd a chreu gerddi a rhandiroedd cymunedol.
- Fel rhan o gryfhau'r gefnogaeth a gynigir i drigolion, mae'r Cyngor wedi dechrau cyflwyno hyfforddiant Money Guiders i staff rheng flaen i ddatblygu sgiliau cefnogi trigolion gyda materion ariannol a chyllidebu. Mae'r hyfforddiant yn dod mewn tair lefel, ac yn anelu at roi'r sgiliau a'r hyder i staff gefnogi unigolion gyda materion ariannol mewn ffordd sensitif ac effeithiol. Mae staff mewn llyfrgelloedd, Siopau Gwynedd a Galw Gwynedd eisoes wedi dechrau mynychu'r hyfforddiant, gan symud tuag at ddarparu cymorth mwy cynhwysfawr yn hytrach na dull trafodol yn unig.
- Drwy Brosiect Gwydnwch Cymunedol, mae'r Cyngor yn parhau i weithio â Chyngor ar Bopeth ac Advice Mid Wales er mwyn cryfhau'r gefnogaeth a'r cyngor ariannol sydd ar gael i bobl yn lleol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi unigolion i lenwi ffurflenni cais ariannol cenedlaethol. Daw hyn â chyngor arbenigol yn nes at bobl sydd angen cymorth a rhoddir cefnogaeth rhifedd a chyllidebu i drigolion Gwynedd.
- Fel rhan o'n hymdrechion i fynd i'r afael â than-hawlio, cynhaliwyd ymgyrchoedd Credyd Pensiwn yn ystod 2025/26, gan dargedu 167 o drigolion a nodwyd fel rhai cymwys ond nad oeddent yn hawlio'r budd-dal. Gall hyn olygu hyd at £23,199 yn ychwanegol y flwyddyn i drigolion, neu tua £209,874 dros oes gyfartalog rhywun sy'n ei hawlio.
- Mae'r tariff cymdeithasol yn cynnig 'cap' ar filiau i aelwydydd ar incwm is neu mewn amgylchiadau bregus, gan helpu i leihau pwysau costau byw hanfodol. Ym mis Medi 2025 nodwyd bod 2,607 o drigolion Gwynedd yn hawlio tariff cymdeithasol HelpU Dŵr Cymru. Fodd bynnag, gall hyd at 5,400 o drigolion fod yn gymwys i'r cymorth hwn, ond nad ydynt yn ei hawlio ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor yn falch o gydweithio â Dŵr Cymru i hyrwyddo'r cynllun hwn ac i sicrhau bod mwy o drigolion yn ymwybodol o'u hawl ac yn cael y cymorth y maent ei haeddu.
- Dosbarthwyd 26,368 o becynnau bwyd gan sicrhau cymorth brys a hanfodol i filoedd o aelwydydd ar adeg o bwysau ariannol.
- Yn ystod 2025/26 cefnogwyd 41 o grwpiau cymunedol drwy'r Grant Argyfwng Bwyd gyda swm o £150,335 yn mynd tuag at Fanciau Bwyd, Pantris Bwyd, Clybiau Swper a Chinio a Phecynnau Bwyd mewn cymunedau.
- Mae Budd-dal Tai yn parhau i fod yn ffynhonnell gymorth hanfodol i drigolion Gwynedd, gyda 2,557 o ddinasyddion yn ei dderbyn yn ystod 2025/26, ar werth cyfanswm o £11,779,117.
- Mae'r gwasanaeth Budd-daliadau yn gweinyddu'r Gronfa Taliadau Tai Dewisol (DHP) sy'n darparu cymorth ariannol ychwanegol i'r rhai sy'n wynebu anawsterau tai. Yn ystod 2025/26 roedd 1,105 o deuluoedd wedi derbyn cymorth drwy gronfa DHP gyda gwerth o £451,296.
- Mae nifer fawr o leoliadau Croeso Cynnes yng Ngwynedd yn parhau i dyfu o nerth i nerth. Yn ystod 2025/26, cofrestrwyd 67 lleoliad newydd ar y map Croeso Cynnes, ac

fe ddyrannwyd £49,045 mewn grantiau i gefnogi amrywiaeth o leoliadau. Mae'r cynllun yn cynnig mannau cynnes, croesawgar ledled y sir lle gall pobl alw heibio i gael paned a sgwrs, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, neu gael tamaid o fwyd, gan helpu i leihau unigrwydd a chryfhau cysylltiadau cymunedol.

- Mae gwefan Costau Byw y Cyngor wedi derbyn defnydd sylweddol, gan gynnwys 495 ymweliad i dudalen cymorth ynni, 544 ymweliad i dudalen hybiau cymunedol a 412 i dudalen am wybodaeth am gadw'n gynnes.
- Mae'r ymgyrch Paratoi at y Gaeaf wedi denu tua 1,900 o ymwelwyr i'r dudalen wybodaeth ar y wefan ers fis Medi 2025. Argraffwyd hefyd lyfryn penodol i gyd-fynd, gan eu dosbarthu i feddygfeydd, hybiau cymunedol, llyfrgelloedd ac amrywiol leoliadau cymunedol a phartneriaid.

Cynllun Awtistiaeth

Mae'r Cynllun Awtistiaeth wedi parhau i gryfhau dealltwriaeth, cefnogaeth ac adnoddau i bobl niwroamrywiol, eu teuluoedd a'r gweithlu:

- Mae 2163 o weithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cwblhau hyfforddiant lefel 1 a 2 Awtistiaeth, gyda hyfforddiant pellach ar waith mewn meysydd fel gwaith cymdeithasol drwy lens niwro-gadarnhaol yn y gweithle. Mae hyn yn gwella dealltwriaeth staff ac yn helpu i ddarparu cefnogaeth fwy addas i bobl niwroamrywiol. Mae'r tîm hefyd yn hyfforddi gweithwyr i hwyluso a rhedeg grwpiau a rhaglenni cefnogi ac addysgol i rieni a gofalwyr, yn ogystal â hunaniaeth i bobl ifanc awtistig.
- Mae rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwr Cygnet yn rhedeg yn chwarterol, a mae rhaglen cefnogi rhieni drwy'r Gymraeg wedi'i ddatblygu yn fewnol sy'n adlewyrchu llais rhieni/gofalwyr, ymchwil cyfredol gydag ethos a dull niwro-gadarnhaol. Rhoddir cefnogaeth mwy perthnasol, hygyrch ac ymatebol i rieni a gofalwyr.

Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan

Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddarparu lleoliadau lleol, sefydlog a chartrefol i blant mewn gofal:

- Mae'r cynllun datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartref grŵp bychan wedi datblygu'n sylweddol erbyn hyn. Mae'r cartref sydd wedi'i leoli ym Morfa Bychan yn weithredol gyda dau blentyn yn byw yno ers 2025, a mae'r tŷ wedi derbyn cofrestriad gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae sicrhau eu bod yn derbyn gofal yng Ngwynedd yn caniatáu iddynt fynychu ysgolion lleol a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau. Er bod gwaith adnewyddu a chofrestru'n parhau, mae'r tŷ yn Neiniolen bellach yn weithredol gyda dau blentyn yn byw yno, gan gynyddu'r ddarpariaeth leol i blant mewn gofal.
- Mae gwaith adnewyddu'r tŷ preswyl i blant yn Edern yn parhau, ac nid oes plant yn byw yno eto. Mae'r adran Plant a Theuluoedd yn gweithio ar gais cofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod y cais yn barod unwaith bydd staff y tŷ wedi'u penodi.

Rhai o'n prif gyflawniadau:

- Cyflwynwyd technoleg RoboPet i rai aelodau o'r gymuned o fewn gwasanaeth Pobl Hŷn ac Anabledd Corff a'r gwasanaeth Anableddau Dysgu, a hynny ar ffurf anifail

anwes. Gall y dechnoleg syml hon helpu i leihau unigrwydd, lleihau gor-bryder, cynnig cysur a chysylltiad ar sail dyddiol a gwella llesiant pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain.

- Datblygwyd a lansiwyd yr Ap Niwro Cymru dwyieithog gan Awtistiaeth Gwynedd i gefnogi plant a phobl ifanc ac oedolion niwrowahanol, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae'r Ap yn cynnig gwybodaeth glir a dibynadwy, gweithgareddau hwyliog a lleddfol, mannau digwyddiadau lleol a chymorth yn ogystal ag adnoddau eraill. Drwy drafod a phobl ifanc Gwynedd a'u teuluoedd, defnyddiwyd eu syniadau i greu cynnwys, nodweddion allweddol a dyluniad logo'r Ap.
- Roedd cyfanswm o 293 o blant mewn gofal yng Ngwynedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a dros y flwyddyn diwethaf, mae 7% ohonynt wedi gadael gofal ac wedi dychwelyd adref. Cynhaliwyd 96% o gynadleddau achos ble roedd llais neu farn plentyn dros 5 oed wedi'i glywed. A mae 100% o asesiadau bellach wedi'u cwblhau gan ddefnyddio iaith plentyn. Mae hyn yn dangos bod llais y plentyn yn cael lle mwy canolog mewn penderfyniadau.
- O fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, gostyngodd y nifer o bobl ifanc a ddaeth mewn i'r gwasanaeth am y tro cyntaf i 20, sef gostyngiad o 17%. Mae hyn yn cael ei groesawu o ystyried yr ymdrechion a wnaed gan y gwasanaeth a'r Bwrdd Rheoli yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae'n adlewyrchu gwaith atal a chefnogi sy'n helpu pobl ifanc i osgoi cysylltiad pellach â'r system gyfiawnder.
- Cynhaliwyd 39 sesiwn Hwyl yn ystod 2025/26, gydag 1,142 o blant yn mynychu. Yn ogystal, mynychodd 706 o blant a 323 o rieni 34 sesiwn y Trelar Chwarae yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd chwarae, cymdeithasu a chefnogaeth i blant a theuluoedd ar draws y sir.
- Sicrhawyd arian ychwanegol i gefnogi gwasanaethau Plant a Theuluoedd, gan gynnwys swyddi gweithredol, gwasanaeth preswyl, lleoliadau all-sirol, taliadau uniongyrchol a gweithwyr cefnogol Derwen. Mae hyn yn helpu i gynnal gwasanaethau mwy sefydlog ac ymatebol i blant a theuluoedd Gwynedd.
- Mae'r Tîm Ôl Ofal yn parhau i adnabod cyfleoedd i bobl ifanc ddod at ei gilydd, i gymdeithasu a chael cefnogaeth ychwanegol. Yn ystod mis Mai rhoddwyd cyfle i rai sy'n rieni ifanc ddod at ei gilydd yng nghwmni unigolyn o'r Academi Gofal i drafod y cyfleoedd sydd ar gael iddynt o fewn y maes gofal yng Ngwynedd.
- Cynhaliwyd 150 o ddigwyddiadau gyrfa i hyrwyddo'r Academi Gofal, a threfnwyd 110 cyfnod profiad gwaith. Penodwyd 6 hyfforddai Academi Gofal Gwynedd newydd ym mis Chwefror 2026, sy'n dod â nifer hyfforddeion yr Academi i 11. Derbyniwyd 51 cais ar gyfer y cyfle hwn. Bydd hyn yn cynyddu'r gweithlu gan helpu i ymateb i heriau recriwtio drwy ddatblygu talent leol.
- Cynnydd o 72% yn nifer o ddilynwyr gwasanaeth Teulu Gwynedd ar y cyfryngau cymdeithasol yn dilyn ail-frandio ac ail strwythuro'r tîm i gael mwy o swyddogion yn gweithredu ar yr elfen marchnata ac ymgysylltu.
- Mae 'Y Ffordd Gywir' gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant wedi'i fabwysiadu fel y prif fframwaith cenedlaethol, gan ganolbwyntio ar wreiddio hawliau plant (UNCRC) ym mhob agwedd o bolisi, cynllunio a gwasanaethau. Ym mis Chwefror 2026, cynhaliwyd gweithdy 'Y Ffordd Gywir' ar gyfer Aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion Craffu, yr Uwch Dîm Reoli a'r Fforwm Ieuenctid gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth a chryfhau dealltwriaeth o'r egwyddorion.

DRAFT

Astudiaeth Achos - Ceir astudiaethau pellach ar y wefan perfformiad y Cyngor [linc]

Tîm o Amgylch y Teulu

Cyfeiriwyd person ifanc at wasanaethau cymorth yn dilyn pryderon am ei ymddygiad yn y gymuned, lle'r oedd eisoes wedi derbyn dau gerdyn melyn ac mewn perygl o fynd i drafferthion pellach. Roedd hefyd yn wynebu heriau addysgol sylweddol oherwydd anghenion dysgu ychwanegol nad oeddent wedi'u deall yn llawn, gyda risg o gael ei wahardd o'r ysgol. O ganlyniad, roedd tensiynau a gwrthdaro yn y cartref yn cynyddu, gan effeithio ar lesiant y teulu cyfan.

Darparwyd cefnogaeth drwy benodi Cydlynydd Tîm o Amgylch y Teulu i asesu anghenion y teulu a chydlynu gwasanaethau. Cynhaliwyd ystod eang o ymyriadau, gan gynnwys cefnogaeth rhianta, sesiynau cwnsela awyr agored, cymorth i wella cyfathrebu rhwng y rhieni, a chymorth addysgol drwy Rhwyd Arall. Cafodd aelodau eraill y teulu fynediad at wasanaethau cymorth ychwanegol hefyd.

Erbyn diwedd yr ymyrraeth, roedd y person ifanc yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd am dri diwrnod yr wythnos ac yn ymgysylltu'n dda â'i addysg. Roedd dealltwriaeth llawer gwell o'i anghenion wedi arwain at gefnogaeth fwy addas, tra bod tensiynau teuluol wedi lleihau'n sylweddol. Nododd y fam welliant yn ei hiechyd meddwl a'i pherthynas â'i phlentyn, ac roedd y teulu'n teimlo'n gryfach ac yn fwy sefydlog. Cafodd yr effaith gadarnhaol hon ei chadarnhau drwy adborth y teulu, gwell presenoldeb ysgol a mesurau asesu a oedd yn dangos cynnydd clir.

DRAFT

Gwynedd Gymraeg

Fel arweinydd cenedlaethol byddwn yn hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir. Ein huchelgais yw:

- Sicrhau bod pob plentyn yng Ngwynedd yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ysgol ac yn gymdeithasol.
- Hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir a sicrhau bod cyfleoedd digonol i bawb allu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu cymunedau.
- Cydweithio gyda'n partneriaid i hwyluso'r gallu i drigolion Gwynedd gael mynediad at holl wasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau bod hybu'r Gymraeg yn rhan allweddol o holl waith y Cyngor, ac unrhyw gynlluniau sydd yn effeithio ar bobl Gwynedd.
- Cefnogi ymdrechion i greu siaradwyr newydd o bob oed.
- Sicrhau mynediad at wybodaeth a chyfleusterau hamdden, diwylliannol a chelfyddydol o safon.

Prosiectau

- Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant
- Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd
- Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau bod yr holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg

Diweddariad ar y prosiectau

Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant
Mae'r gwaith moderneiddio'r gyfundrefn drochi wedi canolbwyntio ar wella'r adnoddau sydd ar gael i blant, athrawon ac ysgolion, a rhannu arferion da yn ehangach:

- Lansiwyd gwefan newydd, sy'n cynnwys blogiau wythnosol ac adnoddau. Mae'r adnoddau hefyd wedi'u rhannu ag ysgolion drwy HWB, ynghyd ag adnoddau ychwanegol ar gais. Mae hyn yn rhoi mynediad haws i ysgolion at ddeunyddiau o ansawdd uchel, gan gefnogi mwy o blant i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, magu hyder yn y Gymraeg a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol a'u cymunedau.
- Cynhaliwyd hyfforddiant ar yr egwyddorion addysg drochi i ddarpar athrawon ym Mhrifysgol Bangor ym mis Hydref 2025, gyda rhai yn ymweld â chanolfannau trochi i arsylwi'r gwaith yn uniongyrchol. Mae hyn yn helpu i ddatblygu gweithlu addysg medrus a hyderus sy'n gallu cefnogi plant i gaffael y Gymraeg yn effeithiol, gan sicrhau profiad dysgu o safon uchel i ddysgwyr newydd i'r iaith.
- Mae'r gwaith hwn yn ehangu'r cyfleodd sydd ar gael i blant a phobl ifanc Gwynedd ddatblygu sgiliau Cymraeg a ffynnu mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hefyd yn cefnogi teuluoedd sy'n newydd i'r Gymraeg drwy sicrhau bod cefnogaeth a darpariaeth briodol ar gael, gan gyfrannu ar nod y Cyngor o gryfhau'r Gymraeg a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir dros y tymor hir.
- Mae'r Gyfundrefn Drochi wedi datblygu unedau gwaith sy'n addas i'w defnyddio mewn ysgolion i gefnogi disgyblion sy'n dilyn cwrs Agored Cymru – Sgiliau Byd Gwaith. Maent wedi sicrhau bod cefnogaeth ieithyddol wedi'i gynnwys o fewn yr unedau fel bod modd i ddisgyblion sy'n hwyrach yn dod at y Gymraeg gael mynediad

at y gwaith. Trafodwyd yr angen i ddatblygu'r unedau gydag Agored Cymru er mwyn sicrhau bod y gwaith yn diwallu gofynion y fframwaith ac yn ddefnyddiol i ysgolion sydd eisoes yn cynnig Sgiliau Byd Gwaith fel rhan o'u cynnig cwricwlaidd.

Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd

Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd ymarferol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn busnesau, gweithleoedd a chymunedau:

- Cydweithiwyd â Menter Iaith Gwynedd a'r Tîm Cefnogi Busnes i annog busnesau i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda chwsmeriaid. Targedwyd tua 200 o fusnesau yn Nolgellau, Blaenau Ffestiniog, Penrhyndeudraeth, Tywyn a Bro Peris i arddangos poster yn nodi eu bod yn hapus i siarad Cymraeg a chefnogi siaradwyr newydd. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i drigolion a dysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg wrth siopa a derbyn gwasanaethau yn lleol.
- Derbyniwyd sêl bendith y Cabinet i fabwysiadu Twf – Siarter y Gymraeg yn y Gwaith mewn partneriaeth â Chyngres Undebau Llafur Cymru ac undebau lleol. Mae hyn yn atgyfnerthu safle'r Cyngor fel sefydliad sy'n arwain y ffordd o ran meithrin diwylliant sy'n rhoi'r Gymraeg yn ganolog i'w waith, gan fod y gweithle cyntaf yng Nghymru i lofnodi a mabwysiadu'r Siarter. Bydd y Siarter yn cefnogi gweithwyr, undebau llafur a chyflogwyr i greu gweithleoedd dwyieithog ac i gynyddu defnydd naturiol y Gymraeg yn y gwaith.
- Cychwynnwyd ar y gwaith o sefydlu Bwrdd Prosiect y Gymraeg i roi trosolwg strategol gwell o'r gwaith sy'n digwydd ar draws adrannau'r Cyngor. Bydd hyn yn helpu i gytuno ar flaenoriaethau cliriach ar gyfer hybu'r Gymraeg yn y dyfodol.
- Sefydlwyd yr Is-Grŵp Pobl Ifanc Fforwm Iaith Gwynedd a chynhaliwyd ymgynghoriad gyda phobl ifanc 16-18 oed sy'n byw neu'n gweithio yng Ngwynedd ynghylch eu defnydd o'r Gymraeg. Cafwyd 200 o ymatebion gan amlygu'r angen i gryfhau hyder pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig yn ysgrifenedig ac ar gyfryngau cymdeithasol.

Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau bod yr holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg

Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar sicrhau bod polisïau a gwasanaethau addysg Gwynedd yn gosod sylfaen gref i'r Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddiwedd addysg statudol:

- Mabwysiadwyd Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Gwynedd i gryfhau addysg Gymraeg a chefnogi ysgolion i ymateb i ofynion deddfwriaethol newydd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc ledled y sir yn cael profiad addysgol cyson sy'n datblygu eu sgiliau Cymraeg a'u hyder i ddefnyddio'r iaith yn yr ysgol, yn y gymuned ac yn y gweithle yn y dyfodol.
- Mae'r polisi i Wynedd ac yn adlewyrchu Gwynedd, ei gwerthoedd, ei huchelgais, ei hanghenion ac anghenion plant a phobl ifanc y sir.
- Cwblhawyd yr adroddiad ar y Gwerthusiad Drochi gan Brifysgol Bangor a oedd yn adolygu trefniadau ymarferol y cwrs 10 wythnos a grymuso'r ddarpariaeth ôl ofal, a'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Hydref 2025 lle cafodd ei dderbyn. Mae'r gwaith ymchwil yn nodi cryfderau amlwg ac yn cynnig pedwar argymhelliad i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Mae'r gwaith hwn yn helpu i

sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd, beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol, yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau Cymraeg cryf a manteisio ar fuddion addysg Gymraeg.

Rhai o'n prif gyflawniadau

- Cyflwynwyd drafft o'r Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol i'r Cabinet, cyn cynnal ymgysylltiad cyhoeddus ac wedyn mabwysiadu'r Polisi fel model ar gyfer ysgolion Gwynedd. Mae hyn yn rhoi cyfeiriad clir a chyson i ysgolion wrth weithredu gofynion newydd Deddf y Gymraeg ac Addysg (2025).
- Datblygwyd canllawiau, sesiynau gwybodaeth a rhaglen gefnogi ar gyfer penaethiaid, llywodraethwyr ac ysgolion er mwyn cefnogi gweithrediad cyson y Polisi Iaith ar draws y sir.
- Lansiwyd gwefan newydd y Gyfundrefn Dorchi, gan ddarparu adnoddau, blogiau ac offer cefnogol i ysgolion, staff a dysgwyr ledled Gwynedd.
- Datblygwyd ac adnewyddwyd adnoddau trochi ar gyfer ysgolion a siaradwyr newydd gan gynnwys deunyddiau ar HWB ac unedau gwaith newydd ar gyfer dysgwyr hŷn.
- Darparwyd hyfforddiant i ddarpar athrawon a staff dysgu ar egwyddorion addysg drochi, gan gryfhau arbenigedd y gweithlu a chefnogi ansawdd y ddarpariaeth i ddysgwyr newydd i'r Gymraeg.
- Cafodd ansawdd y ddarpariaeth drochi ei gydnabod yn gadarnhaol gan Estyn, a nododd fod y ddarpariaeth yn hynod werthfawr wrth gefnogi disgyblion newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg a llwyddo mewn addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cydweithiodd Menter Iaith Gwynedd â Sesiwn Fawr Dolgellau i gynnal digwyddiad hwiangerddi i rieni a phlant. Cynhyrchwyd rhestr chwarae broffesiynol er mwyn i deuluoedd allu parhau i wrando a chyd-ganu gartref, gan helpu i gyflwyno'r Gymraeg i blant bach mewn ffordd naturiol a hwyliog.
- Darparwyd gweithgareddau cymunedol a sesiynau sgwrsio i ddysgwyr ymhob ardal llesiant yng Ngwynedd. Mae hyn wedi rhoi cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr ymarfer Cymraeg, magu hyder a defnyddio'r iaith yn eu cymunedol lleol.
- Cefnogwyd mudiadau cymunedol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn lleol gan gynnwys pwyllgor Neuadd Rhiwlas, grŵp yn Ninas Mawddwy ac aelwydydd Yr Urdd yn Llanystumdwy ac ym Mhenrhosgarnedd. Mae hyn yn cryfhau cyfleoedd i bobl o bob oed ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol.
- Datblygwyd Prosiect Cefnogi Clybiau Chwaraeon i gynnal a chynyddu defnydd o'r Gymraeg. Bu clybiau pêl-droed a rygbi lleol yn cyfrannu at ddatblygu'r pecyn gan sicrhau bod y gefnogaeth yn ymarferol ac yn berthnasol i glybiau sy'n chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl ifanc a chymunedau.
- Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd sylw i gynyddu gweledegdd enwau Cymraeg yn ogystal â'u hyrwyddo wrth weithredu Rhaglen waith Enwau Lleoedd. Cydweithiwyd â Pheirianwyr ardal Arfon a Dwyfor i osod tua 40 o arwyddion strydoedd Cymraeg newydd a thrafodwyd rhestr o arwyddion strydoedd eraill i'w gosod yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Trefnwyd bod arwyddion Cymraeg eu hiaith yn cael eu gosod yn nhraethau Porth Neigwl a Phorthor.
- Cynghorodd y Cyngor eraill megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Mynwy ar brosesau mewnol y Cyngor yn ymwneud ag enwi eiddo, map enwau digidol ac ap

DRAFT

enwau i staff a rhoddwyd cyngor i Gymdeithas Ddinesig Caernarfon ynglŷn â hyrwyddo rhestr o blaciau hen Enwau Strydoedd Caernarfon.

- Mae 97% o ddisgyblion cynradd a 79.24% o ddisgyblion uwchradd yn cwblhau o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol drwy'r Gymraeg, gyda lefelau uchel iawn o hyder ymhlith athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Canolfannau Iaith hefyd yn cyflawni canlyniadau rhagorol gyda 100% o ddysgwyr yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch.

Astudiaeth Achos - Ceir astudiaethau pellach ar y wefan perfformiad y Cyngor [linc]

Datblygu a Gweithredu Polisi Iaith Addysg Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo ers blynyddoedd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu sgiliau Cymraeg cadarn ac yn gallu defnyddio'r iaith yn hyderus. Fodd bynnag, yn sgil newidiadau demograffig a datblygiadau polisi cenedlaethol, daeth yn amlwg fod angen adolygu a moderneiddio'r fframwaith oedd yn llywio addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y sir.

Er bod holl ysgolion Gwynedd yn rhannu ymrwymiad i'r Gymraeg, roedd angen sicrhau disgwyliadau cyson ar draws y system addysg gyfan. Nodwyd yr angen am bolisi cyfoes a strategol a fyddai'n darparu cyfeiriad clir i ysgolion wrth gynllunio datblygiad ieithyddol dysgwyr ac wrth gyfrannu at y nod o gynnal a chryfhau Cymreictod cymunedau Gwynedd.

Datblygwyd Polisi Iaith Addysg Gwynedd newydd i ddarparu fframwaith strategol cyson ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws ysgolion y sir. Lluniwyd y polisi ar sail ymchwil, dadansoddi tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys penaethiaid, llywodraethwyr, dysgwyr, rhieni, swyddogion, aelodau etholedig a'r gymuned yn ehangach.

Wedi cyfnod o ymgynghori a mireinio, cyflwynwyd y polisi drwy brosesau democrataidd ffurfiol y Cyngor, gan gynnwys y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a Chabinet Cyngor Gwynedd, lle cafodd ei gymeradwyo.

Datblygwyd y polisi newydd yn seiliedig ar dystiolaeth, ymchwil ac arferion presennol, gyda mewnbwn gan ysgolion a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod ei gynnwys yn adlewyrchu anghenion a realiti ysgolion Gwynedd. Cafodd y polisi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar gyfer herio ac adolygu cyn cael ei gyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd i'w gymeradwyo. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd y polisi i benaethiaid ysgolion ledled y sir a chafodd ysgolion eu hannog i'w ystyried ar gyfer mabwysiadu. Er mwyn cefnogi'r broses weithredu, darparwyd canllawiau, sesiynau gwybodaeth a chyfleoedd trafod i sicrhau dealltwriaeth glir o'r disgwyliadau a , lle bo angen, mynychwyd cyfarfodydd cyrff llywodraethu i egluro cynnwys y polisi ac ymateb i ymholiadau. Yn ogystal, cafodd ysgolion gefnogaeth ymarferol i gryfhau Cymreictod a chynyddu defnydd naturiol o'r Gymraeg o fewn eu cymunedau ysgol.

DRAFT

O fabwysiadu'r polisi mae dysgwyr Gwynedd yn elwa ar gyfeiriad clir a chyson ar gyfer datblygu eu sgiliau. Mae ysgolion a chyrff llywodraethu hefyd yn elwa drwy gael fframwaith strategol i gefnogi cynllunio, gwerthuso a datblygu eu darpariaeth ieithyddol.

Yn ehangach, mae cymunedau Gwynedd yn elwa gan fod y polisi yn helpu ysgolion i gyfrannu at gynnal a chynyddu defnydd y Gymraeg, gan gefnogi'r iaith fel rhan greiddiol o fywyd cymunedol a diwylliant y sir.

Er mai cam cyntaf taith pob ysgol yw mabwysiadu'r polisi, mae effaith bwysig eisoes i'w gweld. Mae gan ysgolion Gwynedd bellach fframwaith strategol cyffredin sy'n gosod cyfeiriad clir ar gyfer datblygu'r Gymraeg a chynllunio cynnydd ieithyddol dysgwyr.

Mae'r polisi wedi sbarduno trafodaethau strategol mewn ysgolion ynghylch eu darpariaeth Gymraeg bresennol. Mae hefyd wedi darparu llwybr clir i ysgolion werthuso eu sefyllfa bresennol a chynllunio camau pellach i gryfhau defnydd y Gymraeg.

Yn ogystal, mae'r gwaith wedi cryfhau parodrwydd ysgolion i ymateb i ddatblygiadau cenedlaethol megis trefniadau categoreiddio ieithyddol ysgolion a datblygiadau polisi iaith Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Mae nifer cynyddol o ysgolion eisoes wedi mabwysiadu'r Polisi Iaith Addysg neu wrthi'n ystyried ei fabwysiadu drwy eu prosesau llywodraethu lleol. Mae'r ymrwymiad hwn yn dangos bod ysgolion yn cydnabod gwerth y polisi fel fframwaith strategol ar gyfer cynllunio darpariaeth ieithyddol.

Mae trafodaethau gyda phenaethiaid a llywodraethwyr yn dangos bod y polisi eisoes yn sbarduno myfyrio ar ddarpariaeth Gymraeg ysgolion ac yn darparu sail gyffredin ar gyfer cynllunio datblygiadau pellach. Mae'r galw am gyflwyniadau, eglurhad a chefnogaeth ymarferol gan swyddogion yr Adran Addysg hefyd yn dystiolaeth bod ysgolion yn defnyddio'r polisi i lywio eu cynlluniau a'u penderfyniadau.

Mae datblygu a gweithredu Polisi Iaith Addysg Gwynedd yn enghraifft gref o arweinyddiaeth strategol, cydweithio ac adeiladu consensws ar draws system addysg gyfan. Nid diwedd y daith yw mabwysiadu'r polisi gan ysgolion, ond dechrau cyfnod newydd o gynllunio a datblygu. Drwy ddarparu cyfeiriad clir a disgwyliadau cyffredin, mae'r polisi yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer cryfhau'r Gymraeg, cefnogi dysgwyr a sicrhau bod Cymreictod yn parhau'n elfen ganolog o addysg yng Ngwynedd am flynyddoedd i ddod.

DRAFT

Gwynedd Werdd

Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan argyfwng hinsawdd, ac mae ein nod o fod yn gyngor carbon sero net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030 yn parhau'n ganolog i'r maes hwn. Drwy leihau carbon, gwella bioamrywiaeth, cryfhau trefniadau ailgylchu, rheoli risgiau llifogydd a gwella opsiynau teithio, rydym yn gweithio i greu cymunedau mwy gwydn, glanach ac iachach i bobl Gwynedd:

- Lleihad sylweddol mewn allyriadau carbon.
- Ymateb i effeithiau newid hinsawdd.
- Cynnydd mewn bioamrywiaeth a chynefinoedd natur.
- Rhwydwaith rhagorol o lwybrau i drigolion gael y dewis o deithio llesol i'w man gwaith, addysg neu hamdden.
- Rhwydwaith cludiant cyhoeddus sy'n cwrdd ag anghenion cymunedau Gwynedd.

Prosiectau

- Gweithredu ar risgiau llifogydd
- Gwastraff ac ailgylchu
- Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur
- Teithio Llesol
- Trafnidiaeth Gyhoeddus
- Cynllun Datblygu Lleol newydd
- Cymunedau Glân a Thaclus

Diweddariad ar y prosiectau

Gweithredu ar risgiau llifogydd

Mae'r gwaith i reoli risgiau llifogydd wedi canolbwyntio ar roi trefniadau cliriach ar waith i ddiogelu cymunedau rhag effeithiau tywydd eithafol:

- Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gofyn bod y 22 Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALILlA) yng Nghymru yn llunio Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol. Cwblhawyd a chyflwynwyd y strategaeth ar gyfer Gwynedd i Lywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer rheoli risgiau lleol i ddiogelu cartrefi, busnesau a seilwaith cymunedol. Mae'n adnabod y peryglon presennol ac yn y dyfodol yn gysylltiedig gyda llifogydd ac erydu arfordirol, gan sicrhau bod trigolion yn ymwybodol o'r holl ffynonellau llifogydd yn y gymuned. Mae'r cynllun gwaith sy'n cyd-fynd â'r strategaeth bellach yn rhan o waith dydd i ddydd y Cyngor. Bydd hyn yn helpu i ymateb yn fwy rhagweithiol i risgiau llifogydd ac i gynyddu gwydnwch cymunedau dros amser.

Gwastraff ac ailgylchu

Mae gwaith wedi parhau i wella trefniadau gwastraff ac ailgylchu er mwyn ei gwneud yn haws i drigolion ailgylchu mwy a lleihau faint o wastraff sy'n cael ei waredu:

- Cyflwynwyd Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu ddrafft i'r Cabinet ac ymgynghorwyd â thrigolion dros gyfnod o fwy na saith wythnos. Derbyniwyd 1,245 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac adroddodd 62% bod eu bin gwastraff gweddilliol ond tua tri chwarter llawn neu lai ar ddiwedd y cyfnod o 3 wythnos. Mae'r adborth wedi'i

ddefnyddio i gryfhau'r strategaeth, fel bod trefniadau'r dyfodol yn adlewyrchu profiad ac anghenion pobl Gwynedd.

- Treialwyd sachau hesian yn hytrach na'r cart-gylchu mewn tair cylchdaith yn ardal Arfon mewn tua 1,500 o gartrefi, gyda chanlyniadau cymharol lwyddiannus. Bwriedir cynnal treialon pellach mewn ardaloedd eraill o'r sir. Mae'r treial sachau hesian wedi dangos potensial i gynyddu capasiti ailgylchu am gost is na'r cart-gylchu, gyda 78% o ymatebwyr yn fodlon eu defnyddio ar gyfer deunyddiau ychwanegol.
- Nod yr adran Amgylchedd yw annog a pherswadio trigolion i wella eu harferion ailgylchu. Cynhaliwyd ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth penodol a derbyniodd pob aelwyd wybodaeth am wasanaethau ailgylchu. Mae hyn yn helpu i ysgogi newid ymddygiadol, gan hefyd helpu trigolion ddeall beth sydd ar gael ac i ailgylchu'n fwy cyson, a sicrhau bod y cyfraddau ailgylchu yn parhau i wella.

Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed cynnydd ymarferol i leihau ôl troed carbon y Cyngor, cryfhau seilwaith ynni glân a gwarchod natur yng Ngwynedd:

- Mae'r Cyngor bellach yn berchen ar 82 car neu fan fechan trydan a 9 hybrid, a 6 offer trydan (loading shovels, peiriannau glanhau strydoedd), sef 40% o'r holl geir a faniau y Cyngor.
- Erbyn diwedd 2025/26 mae 58 pwynt gwefru mewn 12 lleoliad ar draws y sir i gadw'r fflyd o gerbydau trydan ar y ffordd. Yn ystod yr un cyfnod gosodwyd 48 o bwyntiau gwefru mewn 12 lleoliad cyhoeddus, a 12 pwynt gwefru ychwanegol ar 4 o safleoedd y Cyngor drwy gydweithrediad â Thrafnidiaeth Cymru. Adroddwyd gan Gwasanaeth Ynni (Llywodraeth Cymru) bod gan y Cyngor ail nifer fwyaf o gerbydau gwyrdd yn ei fflyd wrth ei gymharu â chynghorau gwledig eraill yng Nghymru.
- Mae'r prosiect peilot o osod goleuadau LED ar draws stad y Cyngor wedi'i gwblhau mewn 8 safle, a bydd y ddarpariaeth yn cael ei hymestyn ar draws stad y Cyngor yn 2026/27. Bydd y gwaith hyn yn lleihau defnydd ynni a chostau rhedeg gan hefyd gyfrannu at leihau allyriadau carbon.
- Mabwysiadwyd y Cynllun Ynni Lleol gan y Cabinet ym mis Medi 2025 a bydd pob prosiect yn arbed neu'n cynhyrchu ynni yn cyfrannu at weithredu'r cynllun.

Teithio Llesol

Mae'r gwaith teithio llesol wedi canolbwyntio ar wella llwybrau cerdded a beicio, fel bod gan drigolion fwy o ddewis i deithio'n ddiogel ac yn gynaliadwy, gan sicrhau bod cerdded a beicio yn dod yn ddewis arferol ar gyfer teithiau bob dydd:

- Cwblhawyd gwaith ar Wedd 3 Ffordd Penrhos/Penchwintan ym Mangor gan greu llwybr aml-ddefnydd rhwng Ysbyty Gwynedd a Threborth. Mae'r llwybr a'r groesfan newydd ger Ysgol y Faenol yn gwneud teithio ar droed neu ar feic yn fwy diogel i blant, teuluoedd a gweithwyr lleol.
- Mae gwaith ar lwybrau cerdded a chroesfannau ar gyfer Ysgol Foel Gron, Mynytho, wedi gwella cysylltiadau yn y pentref. Mae hyn yn helpu plant, rhieni a thrigolion i symud o gwmpas yn fwy diogel.
- Defnyddiwyd £500,000 o Gronfa Cyfalaf Craidd Teithio Llesol i symud nifer o gynlluniau ymlaen, gan gynnwys, Chwilog i Afonwen, Tywyn i Aberdyfi, Llanberis i Gaernarfon, Llanystumdwy i Gricieth a Bethel i Gaernarfon. Bydd y cynlluniau hyn yn gwella cysylltiadau lleol ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i deithio heb ddibynnu ar gar.

- Datblygwyd pecynnau gwybodaeth ar gyfer penaethiaid i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch y ffyrdd, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd ymgynghoriad pellach yn 2026 yn rhoi cyfle i drigolion ddylanwadu ar flaenoriaethau teithio llesol y dyfodol.

Trafnidiaeth Gyhoeddus
Mae gwaith trafnidiaeth gyhoeddus wedi canolbwyntio ar wella mynediad at wasanaethau bysiau a gwneud teithio yn haws i drigolion ac ymwelwyr:

- Parhawyd i beilota a monitro gwasanaethau Sherpa'r Wyddfa, G23 rhwng Bermo a Phorthmadog a'r gwasanaeth Fflecsi yn Ne Meirionnydd. Gwnaed 563,783 o siwrneiau yn 2025/26 sy'n gynnydd o 6.6% ar y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dangos bod mwy o bobl yn defnyddio opsiynau teithio cyhoeddus.
- Gan bod hen aros fannau bysiau y Sir wedi gweld dyddiau gwell, adnabuwyd safleoedd i flaenoriaethu gwelliannau a gosod aros fannau newydd. Cwblhawyd gwelliannau gwerth £500,000 i aros fannau bysiau yn unol â'r rhaglen mewn 9 lleoliad ar draws Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Mae hyn wedi gwneud teithio ar fws yn fwy cyfforddus, hygyrch a dibynadwy, sy'n cynnig gwell profiad i deithwyr.

Cynllun Datblygu Lleol newydd
Mae gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd wedi dechrau gosod y sylfaen ar gyfer cynllunio dyfodol cymunedau Gwynedd:

- Cynhaliwyd arolwg anffurfiol i gasglu barn ar y materion y dylai'r Cynllun Datblygu Lleol eu hystyried. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl gyfrannu at benderfyniadau sy'n gallu dylanwadu ar dai, swyddi, gwasanaethau a'r amgylchedd lleol.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu opsiynau strategol, gan gynnwys ystyried tystiolaeth demograffig Gwynedd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cynllun yn ymateb i anghenion cymunedau lleol dros y blynyddoedd nesaf.

Cymunedau Glân a Thaclus
Mae'r prosiect Cymunedau Glân a Thaclus wedi canolbwyntio ar wella golwg trefi a chymunedau, a chefnogi amgylcheddau lleol mwy dymunol i drigolion, busnesau ac ymwelwyr:

- Mae'r glanhawyr canol tref bellach yn weithredol yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Mae eu presenoldeb yn helpu i gadw canol trefni'n lanach ac yn fwy deniadol i bobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â'r ardaloedd hyn.
- Prynwyd wyth peiriant ysgubo ffordd pwrpasol fel rhan o'r broses o foderneiddio'r fflyd glanhau. Bydd hyn yn helpu'r gweithlu i ymateb yn fwy effeithiol ac i gynnal safonau glendid mewn cymunedau lleol.
- Mae Timau Tacluso Ardal Ni yn parhau i gydweithio â chynghorau cymuned a thref ac aelodau lleol. Bydd adborth gan y cynghorau hyn yn helpu i flaenoriaethu gwaith taclus lle mae'r angen mwyaf. Mae hyn yn hybu perchnogaeth leol gan ddatblygu ymdeimlad o falchder bro drwy weithio ar lefel cymunedol.

DRAFT

Rhai o'n prif gyflawniadau

- Mae gwelliannau mewn canolfannau ailgylchu megis sicrhau bod paent dros ben yn gallu cael ei ail-ddefnyddio. Mae hyn yn lleihau gwastraff, yn arbed costau ac yn rhoi budd ymarferol i drigolion sy'n gallu defnyddio adnoddau fyddai fel arall yn cael eu taflu.
- Mae astudiaeth diweddar yn dangos bod 57% o gynnwys biniau trigolion a 58% o finiau busnes yn cynnwys deunyddiau y gellid eu hailgylchu. Mae treial agor bagiau duon mewn canolfannau ailgylchu wedi lleihau faint o ddeunydd ailgylchadwy sy'n mynd i'r gwastraff gweddilliol. Mae hyn yn helpu trigolion i wneud gwell defnydd o gyfleusterau ailgylchu ac yn lleihau effaith amgylcheddol gwastraff.
- Cyflwynwyd glanhawyr tref yng nghanol Bangor, Caernarfon a Phorthmadog. Mae eu presenoldeb dyddiol yn golygu bod problemau glendid yn cael sylw'n gynt, gan greu canol trefi mwy croesawgar i drigolion, busnesau ac ymwelwyr.
- Mae'r gwaith o drosglwyddo fflyd y Cyngor i gerbydau gwyrdd yn parhau gyda 89 o geir neu faniau yn drydan neu'n hybrid erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. O gymharu 2024/25 â 2025/26 gwelir gostyngiad o 6.1% yn y defnydd o danwydd neu 102,525 litr yn llai o danwydd. Gwelir y gostyngiad oherwydd trosglwyddiad nifer o gerbydau o rhai tanwydd traddodiadol i rai trydan. Mae tywydd ffafriol hefyd yn golygu bod llai o ddefnydd o gerbydau graeanu ac ati yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn lleihau allyriadau ac yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus glanach ar draws Gwynedd.
- Cwblhawyd gwelliannau ar Lôn Las Ogwen, a gosodwyd pont droed aml-ddefnydd newydd dros Afon Ogwen. Mae hyn yn gwella mynediad i gerddwyr a beicwyr, ac yn cryfhau cysylltiadau rhwng cymunedau, llwybrau hamdden ac atyniadau lleol.
- Mae'r gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu yn llwyddo i gasglu 99.8% o finiau yn gywir a phrydlon, gan adlewyrchu lefel uchel o berfformiad gweithredol. Yn ystod y cyfnod rhwng 2023/24 a 2024/25 cofnodwyd gostyngiad sylweddol o dros 8,200 o gwynion, sy'n cyfateb i leihad o 44%. Bu gostyngiad pellach o 1,600 (15%) o gwynion rhwng 2024/25 a 2025/26. Mae'r gostyngiad parhaus yn adlewyrchu gwelliannau sylweddol yn nhrefniadau gweithredu'r adran.

<u>Astudiaeth Achos - Ceir astudiaethau pellach ar y wefan perfformiad y Cyngor [linc]</u>

Canolfannau Ailgylchu

Er mwyn moderneiddio canolfannau ailgylchu Gwynedd a lleihau gwastraff, cyflwynwyd nifer o welliannau ymarferol yn ystod 2025/26. Roedd dau brif her yn bodoli: y gost a'r gwastraff a oedd yn gysylltiedig â gwaredu potiau paent hanner llawn, a'r ffaith bod llawer o ddeunyddiau ailgylchadwy yn cael eu taflu mewn bagiau duon gyda gwastraff gweddilliol yn hytrach na chael eu hailgylchu.

Mewn ymateb, cyflwynwyd cynllun i ail-ddefnyddio paent dros ben mewn canolfannau ailgylchu, gan alluogi trigolion i fynd â phaent o'r canolfannau ailgylchu yn rhad ac am ddim. Mae hyn wedi helpu i leihau gwastraff, arbed arian i drigolion a'r Cyngor, a sicrhau bod adnoddau defnyddiol yn cael eu hailddefnyddio yn hytrach na'u taflu. Yn ogystal,

cyflwynwyd cynllun i agor bagiau duon mewn canolfannau ailgylchu er mwyn adnabod a gwahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu cyn iddynt gael eu gwaredu.

Mae'r gwelliannau hyn wedi bod o fudd i drigolion ac i'r amgylchedd. Mae'r cynllun paent wedi derbyn adborth hynod gadarnhaol gan y cyhoedd, tra bod llai o baent yn cael ei waredu. Yn yr un modd, mae'r cynllun agor bagiau duon wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y swm o ddeunydd ailgylchadwy sy'n mynd i'r ffrwd wastraff gweddilliol, gan gynyddu cyfraddau ailgylchu yn y canolfannau. Mae'r fenter yn enghraifft o sut y gall newidiadau syml ond effeithiol leihau gwastraff, gwella perfformiad amgylcheddol a gwneud defnydd gwell o adnoddau lleol.

DRAFT

Gwynedd Effeithlon

Mae Gwynedd Effeithlon yn canolbwyntio ar sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio ei bobl, ei gyllid, ei dechnoleg a'i asedau yn y ffordd orau er mwyn darparu gwasanaethau da, teg a chadarn i drigolion Gwynedd:

- Hybu diwylliant gweithio agored a chynhwysol sydd bob amser yn rhoi anghenion pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Darparu adnoddau staffio digonol ac addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.
- Bod yn sefydliad sy'n gofalu am lesiant ein gweithlu ac yn gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb yn naturiol ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.

Prosiectau

- Cynllunio'r Gweithlu
- Datblygu diwylliant y Cyngor
- Sicrhau tegwch i bawb
- Merched mewn Arweinyddiaeth
- Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol
- Cynllun Digidol
- Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch
- Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol

Diweddariad ar y prosiectau

Cynllunio'r Gweithlu

Mae gwaith cynllunio'r gweithlu wedi canolbwyntio ar sicrhau bod gan y Cyngor gyflenwad digonol o staff cymwys i'w alluogi i ddarparu gwasanaethau i drigolion y sir, yn ogystal â staff a'r sgiliau cywir i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i drigolion: Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Drwy gydweithio ag adrannau a gwasanaethau'r Cyngor i gynhyrchu cynlluniau gweithlu, lluniwyd Cynllun Gweithlu drafft, gyda'r bwriad o ymgynghori arno yn ystod 2026/27. Bydd y cynllun yn helpu'r Cyngor i baratoi'n well ar gyfer anghenion staffio'r dyfodol ac i gynnal gwasanaethau sefydlog i bobl Gwynedd, drwy adnabod swyddi allweddol wedi'u hasesu ar sail risg i barhad gwasanaeth, dadansoddi proffil gweithlu'r timau, cynhyrchu cynlluniau gweithredu a sefydlu trefniadau adolygu i'r cynlluniau.

Datblygu diwylliant y Cyngor

Mae gwaith datblygu diwylliant y Cyngor wedi parhau i wreiddio ffordd o weithio sy'n rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i benderfyniadau a gwasanaethau:

- Parhawyd i weithredu cynllun gwaith i ddatblygu diwylliant y Cyngor, gyda ffocws penodol ar wrando ar staff, cryfhau cyfathrebu a chefnogi rheolwyr yn eu rôl arwain. Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff 2026, gyda'r canlyniadau yn cael eu rhannu a'u trafod gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol, timau rheoli adrannol a'r Rhwydwaith Rheolwyr. Datblygwyd cynlluniau ymateb adrannol er mwyn sicrhau bod adborth staff yn arwain at

gamau gweithredu ymarferol ac i gryfhau ymddiriedaeth bod barn staff yn gwneud gwahaniaeth.

- Parhawyd i ddefnyddio'r Rhwydwaith Rheolwyr fel cyfrwng allweddol i drafod diwylliant sefydliadol, rhannu canfyddiadau o'r Arolwg Llais Staff a hyrwyddo disgwyliadau arweinyddiaeth y Cyngor. Roedd hyn yn cyfrannu at gryfhau perchnogaeth rheolwyr o'r agenda diwylliant a chefnogi gwell cyfathrebu a chydweithio ar draws adrannau.
- Yn ogystal, sefydlwyd trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer gwaith Llais Staff, gan gynnwys grwpiau trawsadrannol i fonitro cynnydd, rhannu arfer da ac adnabod gwelliannau corfforaethol. Mae hyn yn cefnogi'r uchelgais i feithrin diwylliant lle mae staff yn teimlo bod eu llais yn cael ei wrando arno a bod y sefydliad yn dysgu ac yn gwella'n barhaus.

Sicrhau tegwch i bawb

Mae gwaith tegwch wedi canolbwyntio ar sicrhau bod penderfyniadau'r Cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ystyried effaith ar wahanol bobl a chymunedau. Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Crëwyd dashfwrdd craidd o ddata am Wynedd i gefnogi asesiadau effaith. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau mwy gwybodus a sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n decach i bawb.
- Mae trefn electroneg newydd ar gyfer asesiadau effaith cydraddoldeb yn barod i'w hyrwyddo, a mae'r gwaith o godi ymwybyddiaeth wedi dechrau gyda thimau rheoli. Bydd codi ymwybyddiaeth rheolwyr o'r angen i wneud asesiad yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn gwella'r polisïau a'r gweithdrefnau, a sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael sylw dyledus wrth wneud unrhyw newidiadau.

Merched mewn arweinyddiaeth

Mae'r gwaith Merched mewn Arweinyddiaeth wedi parhau i gefnogi menywod i ddatblygu hyder, eu rhwydweithiau a'u cyfleoedd i arwain:

- Cynhaliwyd dwy gyfres o'r fforwm 'Sgyrsiau Dros Baned', gyda'r sesiynau yn parhau i fod yn boblogaidd. Maent yn rhoi cyfle i fenywod sydd mewn rolau arwain yn ogystal â merched allanol i fod yn rannu eu profiadau a'u cefndir ac yn fodd i fagu hyder a chefnogi ei gilydd o fewn y gweithle. Mae'n fforwm gyfeillgar ac anffurfiol.
- Crëwyd fideo i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched a llwyddiannau menywod o fewn y Cyngor. Mae hyn yn codi proffil merched mewn arweinyddiaeth ac yn annog eraill i ystyried cyfleoedd datblygu. Daeth chweched gyfres y rhaglen ddatblygol i ben, gyda 13 o fenywod yn cymryd rhan eleni a 71 wedi cymryd rhan ers ei sefydlu. Mae hyn yn cryfhau'r llif datblygu arweinyddiaeth ac yn cefnogi mwy o fenywod i ystyried a symud ymlaen i swyddi uwch.
- Nid oes digwyddiad penodol wedi'i gynnal yn uniongyrchol i godi ymwybyddiaeth ymysg dynion o gyfleoedd y rhaglen Merched Mewn Arweinyddiaeth, ond defnyddir cyfleoedd i hyrwyddo gwaith y prosiect mewn amrywiol rwydweithiau a chyfarfodydd.

DRAFT

Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol
Mae'r gwaith ar reoli effaith toriadau cyllidol wedi canolbwyntio ar fonitro sefyllfa ariannol y Cyngor a chynllunio arbedion mewn ffordd gyfrifol:

- Monitrwyd perfformiad ac adroddwyd arno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn sicrhau goruchwyliaeth glir dros gynnydd ac yn helpu i wneud penderfyniadau ariannol tryloyw.
- Yn dilyn sefydlu'r Bwrdd Rhaglen Cynllun Ariannol Tymor Canolig, darparwyd gwybodaeth ar arbedion a thoriadau 2025/26. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i gynllunio'n well a lleihau'r effaith ar wasanaethau i drigolion lle bo modd.

Cynllun Digidol
Mae'r Cynllun Digidol wedi canolbwyntio ar wella systemau, cryfhau cadernid seibr a gwneud gwasanaethau'n fwy effeithlon i staff a thrigolion:

- Cwblhawyd y gwaith o wella darpariaeth ffôn y Cyngor, gyda phawb wedi symud i'r ddarpariaeth newydd. Mae hyn yn cynnwys 3 Canolfan Cyswllt, 1719 ffôn meddal a 1539 ffôn ddesg sydd bellach yn fyw. Mae'n cryfhau'r gallu i gysylltu â gwasanaethau'r Cyngor mewn ffordd fwy dibynadwy.
- Dewiswyd cyflenwr newydd ar gyfer cyflwyno system Cyflogau ac Adnoddau Dynol newydd, gyda'r nod o dalu cyflogau drwy'r system newydd ym mis Rhagfyr 2026. Bydd hyn yn moderneiddio prosesau mewnol ac yn cefnogi gwasanaeth mwy effeithlon i staff.
- Ychwanegwyd Swyddog Cadernid Seibr i'r tîm TG, a mae gwaith yn parhau i ddatblygu a phrofi cynllun ymateb i ddigwyddiadau. Bydd hyn yn cryfhau diogelwch gwasanaethau digidol ac yn helpu i ddiogelu gwybodaeth pobl Gwynedd.

Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch
Mae'r adolygiad Iechyd a Diogelwch wedi canolbwyntio ar greu trefniadau mwy cyson a rhagweithiol i reoli risgiau ar draws y Cyngor:

- Cwblhawyd cam cyntaf system Technoleg Gwybodaeth newydd ar gyfer Iechyd a Diogelwch sef ffurflen electronig i adrodd damweiniau, digwyddiadau a methiannau agos. Cynhaliwyd peilot cynlluniedig, ochr wrth ochr â rhaglen strwythuredig i reolwyr, gan fabwysiadu dull 'hyfforddi'r hyfforddwyr'. Mae dros 450 o reolwyr wedi derbyn hyfforddiant, gan amlygu effeithlonrwydd, cysondeb a gwell ansawdd adrodd.
- Cryfhawyd y gofrestr risg corfforaethol i fapio gofynion deddfwriaethol ar draws y Cyngor. Bydd hyn yn helpu i flaenoriaethu archwiliadau ar sail risg wirioneddol ac i reoli iechyd a diogelwch yn fwy effeithiol dros y tymor hir.
- Gwnaed cynnydd ar gynllun gweithredu i gyflwyno model integredig ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch. Bydd hyn yn lleihau risgiau, gwella llesiant y gweithlu ac yn cefnogi gwasanaethau mwy diogel a dibynadwy i drigolion.

Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol
Mae gwaith ar asedau eiddo wedi canolbwyntio ar sicrhau bod adeiladu'r Cyngor yn addas, hygyrch ac yn cefnogi ffyrdd modern o weithio:

DRAFT

- Adnabuwyd anghenion swyddfa yn Ffordd y Cob a Phenarlâg, a chomisiynwyd gwaith dichonoldeb ar gyfer safle Penarlâg. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i wneud defnydd gwell o'i safleoedd ac i gynllunio lleoliadau gwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol.
- Cwblhawyd y Gofod Lles yn y Pencadlys a mae bellach yn weithredol, ac yn cael ei ddefnyddio yn ystod amser cinio, i gynnal cyfarfodydd ac at ddefnydd unigol. Sicrhawyd cyllid hefyd i wella darpariaethau cydraddoldeb a hygyrchedd, gan greu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol i staff ac ymwelwyr.
- Cynlluniau hefyd wedi eu gwneud i wneud addasiadau i Swyddfeydd Penrallt er mwyn adleoli swyddogion PP/YGC o swyddfeydd Cibyn a chanoli'r gwasanaethau plant.

Rhai o'n prif gyflawniadau

- Mae arbedion gwerth bron i £7 miliwn, sef 93% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015/16 bellach wedi'u gwireddu.
- Ers fis Tachwedd 2025, mae 100% o daliadau wedi'u talu trwy BACS. Mae'r ymgyrch i symud mwy i BACS wedi'i gwblhau ac yn golygu ein bod wedi gallu symud i ffwrdd yn llwyr o dalu efo sieciau. Bydd hyn yn moderneiddio'r broses dalu, gan ddileu'r angen am sieciau a chreu trefniadau mwy effeithlon, diogel a dibynadwy.
- Drwy'r Academi Gofal, trefnwyd 65 o brofiadau gwaith a phenodwyd 6 hyfforddai newydd yn 2026, a mae bellach 11 o hyfforddeion yn rhan o'r Academi. Mae'r cynllun yn darparu amryw o gyfleoedd i weithio gyda phobl brofiadol o fewn y Cyngor a rhoi'r cyfle i ddatblygu sgiliau er mwyn sicrhau gyrfa hir a llwyddiannus o fewn gwasanaethau Gofal Cyngor Gwynedd.
- Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff yn ystod y flwyddyn, a mae'r canlyniadau yn cael eu defnyddio i adnabod anghenion ein gweithwyr a sut gall y Cyngor wella ymhellach.
- Mae Cynllun Yfory a'r Cynllun Prentisiaethau yn cyfrannu at gryfhau gweithlu'r Cyngor drwy ddatblygu talent fewnol, denu pobl newydd i feysydd allweddol a chefnogi cynllunio olyniaeth ar draws gwasanaethau. Ar gyfer 2026, mae cyfanswm o 30 o swyddi newydd ar gael, sef 22 swydd prentis a 8 swydd i raddedigion gyda rhan fwyaf wedi eu llenwi yn barod.

<u>Astudiaeth Achos - Ceir astudiaethau pellach ar y wefan perfformiad y Cyngor [linc]</u>

Hyfforddeion – Prentisiaid a'r Graddedigion

Ers 2019, mae'r Cynllun Prentisiaethau wedi rhoi cyfle i 103 o unigolion ar gytundeb prentis sy'n un o'r niferoedd uchaf yng Nghymru wrth gymharu gyda phoblogaeth a maint Cynghorau eraill. Yn yr un modd, ers 2017, mae'r Cynllun Graddedigion, sef Cynllun Yfory, wedi rhoi cyfle i 47 hyfforddai proffesiynol.

Mae nifer o enghreifftiau o lwyddiant, gydag amryw o unigolion sydd wedi cychwyn ar y cynlluniau yn derbyn dyrchafiadau a swyddi parhaol o fewn y Cyngor. Ar gyfer 2026, mae cyfanswm o 30 o swyddi newydd ar gael, sef 22 swydd prentis a 8 swydd i raddedigion gyda rhan fwyaf wedi eu llenwi yn barod. Mae meysydd y swyddi yn amrywio – o feysydd newydd fel cynnal tiroedd, coedyddiaeth a marchnata digidol, i rhai sefydlog megis Peirianneg sifil,

Cyllid a busnes i enwi dim ond rhai. Canmolwyd y cynlluniau gan Archwilio Cymru mewn adroddiad diweddar yn 2026.

DIWEDD

DRAFT

Cyfraniad at y 5 Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

	Hirdymor	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
GWYNEDD YFORY					
Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar	✓	✓	✓	✓	✓
Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu	✓	✓	✓	✓	✓
Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol	✓	✓	✓	✓	✓
Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir	✓	✓	✓	✓	✓
Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd	✓	✓	✓	✓	✓
Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD LEWYRCHUS					

DRAFT

Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy	✓	✓	✓	✓	✓
Adfywio cymunedau a chanol trefi	✓	✓	✓	✓	✓
Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith	✓	✓	✓	✓	✓
Cadw'r Budd yn Lleol	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD GLYD					
Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol	✓	✓	✓	✓	
Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd	✓	✓		✓	
Sicrhau bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd	✓	✓		✓	
Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD OFALGAR					

DRAFT

Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol	✓	✓	✓	✓	✓
Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal	✓	✓	✓	✓	✓
Sicrhau bod cefnogaeth amserol a llawn i'w gael i gefnogi pobl i allu byw adref gyda'u teuluoedd	✓	✓	✓	✓	✓
Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned	✓	✓	✓	✓	✓
Datblygu cyfleoedd hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth	✓	✓	✓	✓	✓
Llechen Lân	✓	✓	✓	✓	✓
Cefnogi Llesiant Pobl		✓	✓	✓	✓
Cynllun Awtistiaeth	✓	✓		✓	✓
Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD GYMRAEG					

DRAFT

Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant	✓	✓			
Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd	✓	✓	✓	✓	✓
Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau bod yr holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD WERDD					
Gweithredu ar risgiau llifogydd	✓	✓	✓	✓	✓
Gwastraff ac ailgylchu	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur	✓	✓	✓	✓	✓
Teithio Llesol	✓	✓	✓	✓	✓
Trafnidiaeth Gyhoeddus	✓	✓	✓	✓	✓

DRAFT

Cynllun Datblygu Lleol newydd	✓	✓	✓	✓	✓
Cymunedau Glân a Thaclus	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD EFFEITHLON					
Cynllunio'r Gweithlu	✓	✓	✓	✓	✓
Datblygu diwylliant y Cyngor	✓	✓	✓	✓	✓
Sicrhau tegwch i bawb	✓	✓		✓	
Merched mewn Arweinyddiaeth				✓	
Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun Digidol	✓	✓	✓	✓	✓
Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch	✓	✓	✓	✓	✓
Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol	✓	✓	✓	✓	✓

DRAFT

https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru

https://www.gov.wales/well-being-of-future-generations-wales

DRAFT

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Hunan Asesiad Cyngor Gwynedd 2025/26

Cefndir a Chyflwyniad

Dyma'r pumed hunanasesiad i Gyngor Gwynedd ei gynnal dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor yng Nghymru adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw i ba raddau:-

i. y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
ii. y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon;
iii. y mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau gofynion perfformiad i. a ii.

Eleni, fel y llynedd, rydym yn ystyried y tri chwestiwn yma yng nghyd destun cryfderau a risgiau/heriau pob un o'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor. Pwrpas y Cynllun 5 mlynedd hwn yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a diwedd Mawrth 2028, felly mae ystyried y tri chwestiwn uchod wrth fanylu ar ein prif gryfderau a risgiau/heriau yn ddull addas ac effeithiol o daflu golau ar berfformiad y Cyngor.

Ers mabwysiadu'r Cynllun 5 mlynedd, mae adolygiadau blynyddol wedi eu cynnal er mwyn sicrhau fod y Cynllun yn parhau i fod yn berthnasol a'i fod yn ymateb i anghenion a blaenoriaethau cyfredol y Cyngor.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun fe ystyriwyd ystod eang o faterion i'w blaenoriaethu a bu i ni ymgysylltu ac ymgynghori gyda phobl leol, aelodau etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned a phartneriaid. Un rhan o waith oedd yn allweddol yn natblygiad Cynllun y Cyngor oedd gwaith Ardal Ni sy'n amlinellu'r hyn sy'n dda am yr ardal, yr hyn sydd ddim cystal, a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn creu gwell ardal erbyn 2035.

Bwriad y broses hunanasesu yw annog gonestrwydd, gwrthrychedd a thryloywder ynghylch perfformiad a llywodraethu'r Cyngor. Er bod y ddyletswydd hon yn un eithaf newydd, mae'r Cyngor eisoes yn paratoi nifer o ddogfennau sy'n cynnwys y math o wybodaeth sy'n ddisgwyliedig i ni ei gynnwys o fewn yr hunanasesiad. Mae hyn yn cynnwys dogfennau megis adroddiadau blynyddol Perfformiad, Cydraddoldeb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Datganiad Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu.

Y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, sy'n cynnwys swyddogion megis y Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol ymysg eraill, sydd wedi arwain/cymryd trosolwg o'r gwaith hyn o fewn y Cyngor. Bwriad hyn yw sicrhau fod y gwaith yn cael ei berchnogi a'i arwain ar lefel strategol.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd Asesiad Perfformiad Panel annibynnol ar waith y Cyngor. Mae angen cynnal Asesiad Panel o leiaf unwaith o fewn cylch etholiadol ac mae'n gysylltiedig â'r ddyletswydd i fod yn cynnal hunanasesiadau blynyddol ar berfformiad gyda'r dogfennau hyn yn ffurfio rhan o'r sail dystiolaeth.

Mae ein trefniadau herio a chefnogi perfformiad wedi bod yn eu lle ers sawl blwyddyn bellach. Cynhelir cyfarfodydd ar lefel Adrannol bob yn ail fis, a maent yn canolbwyntio ar gynnydd prosiectau Cynllun y Cyngor, perfformiad gwasanaethau (sef y gwaith 'dydd i ddydd'), a'r ymateb i'r prif risgiau o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Mae'r wybodaeth wedyn yn bwydo i mewn i adroddiadau perfformiad rheolaidd a gyflwynir gan bob Aelod Cabinet yn ystod y flwyddyn ynghyd â'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ceir copi o Adroddiadau Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar wefan y Cyngor. Gwnaethpwyd addasiadau i'r trefniadau herio a chefnogi perfformiad o Ebrill 2025 ymlaen, pan gyflwynwyd trefn i adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgorau Craffu. Mae hyn wedi arwain at roi mwy o fewnbwn i'r broses herio a chefnogi perfformiad ar gyfer aelodau.

Mae'r ddogfen yn cynnwys asesiad o'n trefniadau llywodraethu gan ymateb i'r 3 gofyniad perfformiad y disgwylir i Gynghorau ymateb iddynt fel rhan o'r hunanasesiad. Rydym hefyd wedi ystyried y fethodoleg ddrafft a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Asesiadau Panel wrth baratoi'r hunanasesiad ar gyfer 2024/25 gan ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- Pa mor dda 'rydym ni'n gwneud?
- Sut 'rydym ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni wneud er mwyn gwella, a sut?

Yr hunanasesiad ar gyfer 2021-22 oedd ein hasesiad cyntaf a rhoddwyd camau mewn lle er mwyn cyfarch y gwelliannau oedd wedi eu hadnabod. Gwelwyd bod rhai o'r gwelliannau hynny yn parhau yn y blynyddoedd canlynol gan eu bod yn faterion hirdymor, ond ategwyd nifer o bwyntiau ychwanegol hefyd. Eleni, gwelir y patrwm yn parhau, gyda'r materion hirdymor yn ail-ymddangos ond gydag ystyriaethau newydd yn cael eu hychwanegu yn ogystal.

Mae'r ddogfen hon felly yn grynodeb lefel uchel o berfformiad y Cyngor yn ystod 2025/26, wedi ei gategoreiddio fel cyfres o Gryfderau a Risgiau/Heriau dan bob maes blaenoriaeth sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a welir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yng Nghynllun y Cyngor.

Mae'r Cryfderau yn seiliedig ar:

- uchafbwyntiau yr adroddiad perfformiad blynyddol
- adborth sydd wedi ei dderbyn gan gyrff archwilio allanol (e.e. Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn etc.)
- Materion yn deillio o'r broses herio a chefnogi perfformiad mewnol
- Asesiad Perfformiad Panel annibynnol

Mae'r Risgiau/Heriau yn seiliedig ar:

- ein prif risgiau fel a nodir yn y gofrestr risg corfforaethol
- materion wedi eu hadnabod gan gyrff archwilio allanol
- materion eraill yr ydym wedi eu hadnabod a'u cynnwys yng Nghynllun y Cyngor
- materion yn deillio o'r broses herio a chefnogi perfformiad mewnol
- Asesiad Perfformiad Panel annibynnol

Mae'n bwysig nodi fod nifer fawr o'n cryfderau wedi eu cynnwys yn rhannau eraill yr adroddiad blynyddol, yn enwedig ble mae nhw'n ymwneud â phrosiectau Cynllun y Cyngor a'n gwaith dydd-i-ddydd. Er mwyn osgoi ail-adrodd, nid ydym (gan amlaf) yn eu rhestru yn yr Hunanasesiad hefyd. I'r darllenydd, bydd ystyried y ddwy ddogfen (yr Adroddiad Blynyddol a'r Hunanasesiad) gyda'i gilydd yn rhoi darlun llawnach o berfformiad y Cyngor dros y cyfnod dan sylw.

Er bod nifer o'r blaenoriaethau yn cynnwys cyfrifoldebau traws-adrannol, dylid nodi fod 'Gwynedd Effeithlon' yn llawer mwy corfforaethol ei natur gan fod nifer o'r cryfderau a'r gwendidau sydd i'w gweld yma yn rhai sefydliadol. Mae'r flaenoriaeth yma ychydig yn wahanol i'r gweddill felly, sy'n fwy tueddol o adlewyrchu cryfderau a gwendidau adrannol.

Yn unol ag adrannau 90 a 91 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'r Cyngor wedi ystyried safbwyntiau pobl leol, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, undebau llafur cydnabyddedig, busnesau, partneriaid a rhanddeiliaid eraill wrth ddod i'w gasgliadau ynghylch ei berfformiad yn ystod 2025/26.

Casglwyd y safbwyntiau hyn drwy ystod o weithgareddau, gan gynnwys yr Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol, arolygon ac ymgynghoriadau lleol, yr Arolwg Llais Staff, trafodaethau ag undebau llafur, adborth a chwynion defnyddwyr gwasanaethau, a gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd wrth ddatblygu ac adolygu cynlluniau'r Cyngor.

Mae'r dystiolaeth hon wedi'i hystyried ochr yn ochr â gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau, sefyllfa ariannol y Cyngor, risgiau corfforaethol, adborth cyrff archwilio ac arolygu, ac Asesiad Perfformiad y Panel. Mae wedi dylanwadu ar y cryfderau, y risgiau a'r gwelliannau a nodir yn yr hunanasesiad hwn. Yn benodol, mae barn trigolion wedi cyfrannu at y casgliad bod angen gwneud mwy i gryfhau ymddiriedaeth a bodlonrwydd, dangos gwerth am arian, sicrhau bod barn trigolion yn dylanwadu ar benderfyniadau, a gwella'r defnydd o wybodaeth ymgysylltu i lywio gwasanaethau.

Gwynedd Effeithlon

Cryfderau

- Mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddygymod gyda chyfnodau o lymder/diffyg arian yn effeithiol, ond mae'r sefyllfa yn dod yn gynyddol anoddach wrth i'r cyllid a ddarperir gan y Llywodraeth leihau. Mae'r Cyngor yn pryderu yn fawr am y pwysau mae hyn yn ei roi ar drigolion y sir i gwrdd â lefel gymharol uchel y Dreth Cyngor (y 6ed uchaf yng Nghymru, pan fo lefelau incwm trigolion y Sir yn gymharol isel), ynghyd â gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau digonol i boblogaeth Gwynedd o fewn ein cyllideb.
- Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cadw golwg parhaus, disgybledig ar faterion llywodraethu, yn codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.
- Mae gennym drefniadau Llywodraethu corfforaethol da ar y cyfan. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'n swyddogaethau yn effeithiol, rydym yn gosod mesurau perfformiad mewn lle er mwyn herio perfformiad ar draws yr holl wasanaethau. Rydym yn adolygu'r mesurau hyn o dro i dro er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, ac rydym yn ymwybodol o'r angen i herio ein hunain yn barhaus a gosod mesurau sydd yn ystyrlon er mwyn ein caniatáu ni i wella yn gyson. Rydym yn cydnabod fod gennym le i wella o safbwynt y gwaith o flaengynllunio llif gwaith manwl dros gyfnod Cynllun y Cyngor 2023-28, ac o ganlyniad rydym wedi cyflwyno cyfres o gerrig milltir blynyddol ar gyfer pob un o'r prosiectau er mwyn caniatáu i ni fesur cynnydd yn ogystal â chynllunio gwaith ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwaith i wella hyn ymhellach yn parhau, yn enwedig er mwyn sicrhau fod y trefniadau sydd mewn lle yn cael eu dilyn yn gyson.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu codau ymddygiad ar gyfer ei aelodau a swyddogion, yn seiliedig ar reoliadau cenedlaethol (codau fel y Cod Perthynas Aelod/Swyddog; y Cod Ymddygiad Aelodau; y Cod Ymddygiad Swyddogion; Y Polisi Gwrth Dwyll a Llygredd a'r Cod Ymarfer Canu'r Gloch) ac mae rhain at ei gilydd yn gosod sylfaen ar gyfer sicrhau intergriti a moeseg. Mae tystiolaeth glir fod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddilys i adroddiadau'r Ombwdsman fel rhan o waith y Pwyllgor Safonau, sy'n gweithio'n effeithiol.
- Mae'r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu blynyddol sy'n amlinellu ein trefniadau llywodraethu a'u heffeithiolrwydd gan ddilyn egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace Delivering Good Governance in Local Government.
- Cynhelir gweithdy blynyddol ar sicrwydd ac ansawdd gydag archwilwyr allanol (Archwilio Cymru, Arolygaeth Gofal Cymru ac Estyn) er mwyn rhannu ein cryfderau/llwyddiannau a risgiau/heriau.
- Pan gyhoeddir argymhellion gan gyrff archwilio allanol, bydd ymateb sefydliadol yn cael ei baratoi ar ran y Cyngor ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gyfrifol am

adolygu ac asesu'r ymateb ynghyd â'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Yn 2025 cyflwynwyd trefn newydd ble mae adrannau yn cael uchafswm o 12 mis i weithredu ar argymhellion archwilwyr allanol. Bydd hyn yn sicrhau fod y Cyngor yn ymateb ac yn gweithredu yn brydlon yn dilyn argymhellion yr archwilwyr.

- Mae Cynllun Gwybodaeth y Cyngor 2021-2026 (diweddariad 2024) yn cynnwys nifer o gynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â risgiau rheoli gwybodaeth a'r defnydd o ddata. Mae'r Grŵp Gwybodaeth trawsadrannol yn cymryd trosolwg corfforaethol o'r maes yma.
- Mae Polisi Iechyd a Diogelwch wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor sy'n cael ei adolygu'n flynyddol. Ceir trefniadau priodol i ymateb i unrhyw adroddiadau gan Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE).
- Noder bod prif risgiau llywodraethu wedi eu sgorio yn gorfforaethol ac ar lefel Adran gan fod lefel y risg yn amrywio. Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu mewnol gyda throsolwg ac yn gyfrifol am sicrwydd ansawdd o fewn Cyngor Gwynedd.
- O ran materion llywodraethu arwyddocaol, bu i hunan-asesiad gan y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu (yn unol â gofynion Fframwaith CIPFA/Solace Delivering Good Governance in Local Government a gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) adnabod y gwelliannau canlynol fydd yn cael eu gweithredu yn 2026-27:
  - Mewn ymateb i argymhellion astudiaeth gan Archwilio Cymru byddwn yn edrych i wella'n trefniadau comisiynu gwasanaethau.
  - Gwella hyfforddiant ar adnabod a rheoli risg.
  - Gweithredu ar yr argymhellion perthnasol yn yr adroddiad Asesiad Panel.
  - Gweithredu ar yr argymhellion perthnasol yn adroddiad Local Partnerships.
  - Gweithredu ar ganfyddiadau Arolwg Llais Staff, gan gynnwys gwerthfawrogiad a llesiant.
- Mae Cynllun Rheoli Asedau newydd ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd 2024-2034 wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ar 11 Gorffennaf 2024.
- Yn ystod 2025/26 comisiynwyd *Local Partnerships* i gynnal adolygiad o'n trefniadau llywodraethu, gan roi her annibynnol a gwrthrychol i'r Cyngor yn ogystal â chynnig argymhellion i wella. Rhoddwyd sylw penodol i:
  i. Gynnal adolygiad trwyadl o'n trefniadau presennol gan gynnwys ein trefniadau llywodraethiant a threfniadau ariannol.
  ii. Adolygu ein trefniadau llywodraethiant yng nghyd-destun y Cyfansoddiad presennol er mwyn asesu os yw'n addas i bwrpas.
  iii. Asesu os yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cyflawni ei bwrpas.
  iv. Adnabod sut rydym yn cyrraedd yr ystod llawn o ofynion statudol wrth wneud penderfyniadau, e.e. Cydraddoldeb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Y Gymraeg.
  v. Gwerthuso'r modd yr ydym yn adnabod ac asesu risgiau ac yn eu hadolygu a'u monitro.
  vi. Gwerthuso'r modd yr ydym yn monitro a chyflawni argymhellion i wella gan reoleiddwyr allanol a mewnol gan ddysgu gwersi ar draws y sefydliad.
  vii. Adnabod beth allwn ei wneud er mwyn cryfhau ein trefniadau llywodraethiant i'r dyfodol.

- Mae gan y Grŵp Llywodraethu raglen waith ar waith i ymateb i'r argymhellion a ddeilliodd o waith *Local Partnerships*.
- Mae gan y Cyngor broses i reoli risgiau drwy gael Cofrestr Risg Corfforaethol yn ei lle.
- Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, cynhaliwyd Asesiad Panel annibynnol ar drefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd yn ystod Mawrth 2026. Roedd y Panel yn cydnabod fod gwaith pellach i'w wneud er mwyn cysoni'r trefniadau rheoli risg, ac mae hyn yn cynnwys parhau i adolygu'r drefn er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad. Byddwn yn gweithredu cynllun ymateb i argymhellion y Panel, a fydd wedi eu plethu gyda'r ymateb i argymhellion ein hyswirwyr. Bydd y camau gweithredu hyn yn rhoi'r Cyngor mewn lle cryfach o ran cysoni'r broses o adnabod, asesu, sgorio a lliniaru risgiau.
- Er bod y drefn a strategaethau rheoli risg i'r dyfodol yn gwella a chryfhau ar y cyfan, mae trefniadau newydd wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ceisio safoni a cheisio cysoni y sgoriau ar gyfer risgiau uchel iawn. Yn ystod 2025/26 comisiynwyd ein hyswirwyr i adolygu ein trefniadau rheoli risg a bydd eu hargymhellion yn cael eu gweithredu yn ystod 2026/27Bydd gwaith Archwilio Cymru i gynnal Adolygiad o Drefniadau Rheoli Risg y Cyngor yn ystod 2026/27 (wedi llithro o 2025/26) yn bwydo i'r gwaith yma, ynghyd ag argymhellion adolygiad *Local Partnerships*.
- Mae'r strategaeth i reoli risgiau wedi'i berchnogi ar lefel gorfforaethol drwy'r Grŵp Llywodraethu y cyfeirir tuag ato uchod, gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn herio'r sgoriau risg llywodraethu.
- Awgrymodd yr Asesiad Panel fod angen i'r Cyngor ddatblygu a chytuno ar strategaeth risg gorfforaethol sy'n mynegi archwaeth risg y cyngor ac yn:
    i. Sicrhau cofrestr a strategaeth risg gorfforaethol gyfoes
    ii. Diffinio rôl y tîm arweinyddiaeth, y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, y cabinet, a'r cyngor llawn wrth oruchwylio a monitro'r strategaeth a'r gofrestr yn rheolaidd
    iii. Ystyried anghenion hyfforddi a datblygu aelodau ar oruchwylio risg y cyngor

  O ganlyniad, byddwn yn:
    i. Cwblhau a chyflwyno'r Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg Corfforaethol (gan gynnwys datganiad archwaeth risg) i'w gymeradwyo gan y Cabinet/Cyngor Llawn, ac adolygiad blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
    ii. Sicrhau bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyfoes: safoni'r templed cofrestr risg, diffinio perchnogion risg, a chadarnhau bod pob risg yn cynnwys sgoriau Cyfredol (Residual) a Tharged (Target) gan ddefnyddio matrics 5x5 y Cyngor.
    iii. Gosod trefniadau llywodraethu, adrodd ac adolygu:
        a. Tîm Rheoli Corfforaethol i adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn chwarterol a chytuno ar esgyn/diraddio risgiau;
        b. adrodd chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
        c. Cabinet i osod archwaeth risg y Cyngor, gan sicrhau bod penderfyniadau'n ystyried risgiau ac yn aros o fewn y terfynau, tra'n adolygu a gwella trefniadau rheoli risg yn rheolaidd.

iv. Datblygu a darparu rhaglen hyfforddi a datblygu ar reoli risg ar gyfer Aelodau (gan gynnwys rôl goruchwylio, archwaeth risg, darllen cofrestr risg, a herio rheolaethau), ac i reolwyr fel "perchnogion risg"; cofnodi presenoldeb a chynnal sesiynau adnewyddu'n flynyddol.

- Atgyfnerthu'r broses a'r diwylliant: sefydlu amserlen adolygu cofrestrau risg gwasanaeth (o leiaf chwarterol), defnyddio dull "SMART" i olrhain camau lliniaru, a chofnodi "gwersi a ddysgwyd" o ddigwyddiadau/awdits i lywio gwelliant parhaus.
- Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2025/26, ystyriwyd bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol honno yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.
- Mae Gwynedd yn awdurdod lletya i nifer o bartneriaethau gwahanol, ac mae'n darparu cefnogaeth effeithiol ar eu cyfer.
- Mae trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer cefnogi Aelodau Etholedig yng Ngwynedd, gyda 97% o Gynghorwyr Gwynedd yn adrodd bod y gwasanaeth gan y Tîm Democratiaeth yn dda/dda iawn. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y seiliau cadarn hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.
- Mae'r Pennaeth Cyllid wedi cynnal hunanasesiad o gydymffurfiaeth gyda Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA, ac yn ei ddiweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn a mae'r asesiad cyfredol yn dangos cydymffurfiaeth uchel ar draws pob un o'r safonau. Ers 2025, rydym wedi comisiynu CIPFA i ymgymryd â gwiriad annibynnol o'r hunanasesiad, a bydd canlyniad y gwaith hwnnw yn cael ei ystyried wrth ddylunio gwasanaeth cefnogaeth gyllidol ar gyfer y dyfodol.
- Ers 2019, mae'r Cynllun Prentisiaethau wedi rhoi cyfle i **103** o unigolion ar gytundeb prentis sy'n un o'r niferoedd uchaf yng Nghymru wrth gymharu gyda phoblogaeth a maint Cynghorau eraill. Yn yr un modd, ers 2017, mae'r Cynllun Graddedigion, sef Cynllun Yfory, wedi rhoi cyfle i **47** hyfforddai proffesiynol. Mae nifer o enghreifftiau o lwyddiant, gydag amryw o unigolion sydd wedi cychwyn ar y cynlluniau yn derbyn dyrchafiadau a swyddi parhaol o fewn y Cyngor. Ar gyfer 2026, mae cyfanswm o **30** o swyddi newydd ar gael, sef 22 swydd prentis a 8 swydd i raddedigion gyda rhan fwyaf wedi eu llenwi yn barod. Mae meysydd y swyddi yn amrywio – o feysydd newydd fel cynnal tiroedd, coedyddiaeth a marchnata digidol, i rhai sefydlog megis Peirianneg Sifil, Cyllid a Busnes i enwi dim ond rhai. Canmolwyd y cynlluniau gan Archwilio Cymru mewn adroddiad diweddar yn 2026.
- Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff yn 2026. Roedd hyn yn dilyn cyfnod heriol oedd yn cynnwys ansicrwydd cyllidol, newidiadau gwleidyddol yn y Cyngor, a chyfnod o gyflwyno newidiadau pellach i'n trefniadau gwaith 'gweithio i'r dyfodol'. Gwelwyd cynnydd bychan yn lefel bodlonrwydd staff mewn ymateb i'r mwyafrif o'r cwestiynau, ac mae'r lefel bodlonrwydd yn parhau yn uchel ar gyfer rhai o'r prif ddangosyddion e.e. y sgôr ar gyfer y datganiad 'mae'r Cyngor yn lle da i weithio' yn 80%, ac yn 88% ar gyfer "Mae fy ngwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl Gwynedd." Fel ag yn arolwg y llynedd, roedd 4 rhan i'r arolwg eleni – Fi a'm Llesiant, Fi a'm swydd, Fi a'm gwasanaeth, a Fi a'm Cyflogwr.

Gwelwyd fod rhai o'r themâu ddaeth i'r amlwg y llynedd a'r flwyddyn flaenorol yn cael eu hailadrodd, yn enwedig materion yn ymwneud â derbyn gwerthfawrogiad a chydnabyddiaeth, ac er fod gwelliant wedi bod, mae'r rhain yn parhau yn bwyntiau i'w gwella. Mae pwysau gwaith, sydd o bosib yn ganlyniad i'r wasgfa ariannol sydd wedi wynebu'r cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, wedi gwella ychydig ond mae'n parhau i fod yn bryder a bydd hyn hefyd yn derbyn sylw pellach.

Cwblhaodd 1,279 o staff yr holiadur Llais Staff, sef tua 21% o'r staff gafodd gyfle i ateb yr arolwg. Gan gynnwys staff y Cyngor a staff ysgolion y sir, nododd 69.6% eu bod yn cytuno neu cytuno'n gryf fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol. Roedd 65.8% yn cytuno neu cytuno'n gryf fod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddo, ac roedd 69.2% yn cytuno neu cytuno'n gryf fod gan y Cyngor drefniadau yn eu lle i sicrhau ei fod yn perfformio yn effeithiol.

Mae'r canlyniadau uchod yn debyg iawn i'r hyn adroddwyd y llynedd.

- Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu Grŵp Cyswllt rhwng y Cyngor a'r undebau llafur ers nifer o flynyddoedd ac mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol. Cryfhawyd y trefniadau partneriaeth gymdeithasol yn ystod y flwyddyn drwy gynnal cyfarfodydd rhwng Prif Swyddogion y Cyngor, gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, a'r undebau llafur. Defnyddiwyd y cyfarfodydd hyn i drafod materion strategol sy'n effeithio ar y sefydliad a'r gweithlu, gan gynnwys Cynllun y Cyngor a'r gyllideb.
- Fel rhan o'r broses o lunio Hunanasesiad y Cyngor ar gyfer 2025/26, gofynnwyd i'r undebau llafur cydnabyddedig am eu hadborth a'u sylwadau ar berfformiad yr awdurdod a meysydd posibl i'w gwella. Ni dderbyniwyd ymateb ffurfiol i'r cais hwn ond byddwn yn parhau â'r drafodaeth yng nghyfarfodydd y Grŵp Cyswllt a'r cyfarfod efo'r Prif Swyddogion.
- Mae'r Cyngor yn casglu barn pobl y sir mewn sawl ffordd wahanol er mwyn gwella gwasanaethau a hefyd er mwyn cwrdd y gofyniad cyfreithiol sydd ar gynghorau i ymgysylltu â phreswylwyr dan wahanol ddeddfau fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Yn 2025 roedd Gwynedd yn rhan o'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol, y cyntaf o'i fath i'w gynnal yng Nghymru. Er ein bod yn sylweddoli cyfyngderau arolwg o'r fath, mae'n fodd ychwanegol o gasglu barn a byddwn yn triongli'r canfyddiadau gyda data a gwybodaeth eraill a gesglir gennym er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn briodol. Un mantais penodol gyda'r arolwg hwn yw ei fod yn caniatáu i ni gymharu ein canlyniadau gyda chynghorau eraill, rhywbeth na fu'n bosib gydag arolygon mewnol yn unig. Cafwyd 3,094 o ymatebion i'r arolwg ac mae'r canlyniadau yn cynnwys:

    i. Canran yr ymatebwyr sy'n weddol fodlon neu'n fodlon iawn ar sut mae'r Cyngor yn rhedeg pethau:

    Gwynedd: 31% (3ydd allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

    ii. Canran yr ymatebwyr sy'n credu'n gyffredinol bod y cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

    Gwynedd: 55% (3ydd allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

iii. Canran yr ymatebwyr sy'n credu'n gyffredinol bod y cyngor yn darparu gwasanaethau sy'n cynrychioli gwerth da am arian (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

Gwynedd: 43% (3ydd allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

O ran canlyniadau eraill a welir yn yr arolwg mae:

iv. Canran yr ymatebwyr sy'n credu'n gyffredinol bod y cyngor yn cymryd barn preswylwyr i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

Gwynedd: 27% (2il allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

v. Canran yr ymatebwyr sy'n credu'n gyffredinol bod y cyngor yn gweithredu ar bryderon preswylwyr lleol (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

Gwynedd: 30% (2il allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

vi. Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ychydig neu'n gryf bod cysylltu a'r cyngor yn syml:

Gwynedd: 50% (1af yng Nghymru o'r 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

vii. Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ychydig neu'n gryf bod cael gafael ar wybodaeth gyfredol am wasanaethau'r cyngor yn hawdd

Gwynedd: 45% (1af yng Nghymru o'r 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

viii. Canran yr ymatebwyr sy'n ymddiried yn y cyngor cryn dipyn neu'n fawr iawn

Gwynedd: 37% (cyd 3ydd o'r 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

- Bwriedir cynnal arolwg preswylwyr eto yn yr Hydref, 2027.
- Cynhaliwyd sawl arolwg lleol yng Ngwynedd gyda trigolion yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn fodd i'r Cyngor wneud penderfyniadau am ddatblygiad gwasanaethau a sut i flaenoriaethu gwariant yn y dyfodol gan sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, ymysg ffactorau eraill. Ymysg y prif rai oedd ymgynghoriadau ar:
  i. Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur
  ii. Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Bangor
  iii. "Compact" (Cytundeb Partneriaeth) Cyngor Gwynedd a'r 3ydd Sector
  iv. Arolwg Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu
  v. Arolwg Twristiaeth - Trigolion Gwynedd 2025
  vi. Heneiddio'n dda yng Ngwynedd
  vii. Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Gwynedd
  viii. Polisi Cludiant Addysg Drafft
  ix. Arolwg Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd
-
- Mae sylwadau o'r gwaith ymgysylltu wedi cyfrannu at y casgliad bod angen gwneud mwy i gryfhau ymddiriedaeth a bodlonrwydd, dangos gwerth am arian, sicrhau bod barn

trigolion yn dylanwadu ar benderfyniadau a defnyddio gwybodaeth ymgysylltu'n fwy cyson i lywio gwasanaethau.

- Cynhaliwyd arolygon gyda busnesau yn y sir hefyd, gan gynnwys yr Arolwg Busnes blynyddol, ac roedd rhannau penodol o ymgynghoriadau eraill ar gyfer busnesau hefyd e.g. yr Arolwg Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu gan fod anghenion busnesau yn dra gwahanol i'r cyhoedd yn gyffredinol. Yn yr Arolwg Busnes nododd 20% o'r ymatebion eu bod wedi derbyn cymorth gan Dîm Cymorth Busnes Cyngor Gwynedd yn y 12 mis diwethaf, a rhoddwyd cyfle i'r holl fusnesau nodi pa fath o gymorth fyddai o fudd iddynt yn y dyfodol. Nodwyd fod busnesau lleol yn parhau i wynebu pwysau economaidd sylweddol, gyda chynnydd mewn prisiau ynni, costau rhedeg ac ansicrwydd economaidd ymhlith y prif heriau. Roedd chwarter y busnesau wedi profi anawsterau recriwtio, yn bennaf oherwydd diffyg arbenigedd lleol, ac roedd rhwystrau ariannol a rheoleiddiol yn cyfyngu ar allu nifer i fuddsoddi. Er hynny, roedd uchelgais i ddatblygu, gyda 41% yn bwriadu tyfu dros y 12 mis nesaf. Roedd yr arolwg hefyd yn amlygu galw am gymorth ymarferol ac ariannol, gan gynnwys grantiau, cymorth i wella cynaliadwyedd busnesau a chefnogaeth un-i-un..
- Er bod y Cyngor yn ymgysylltu â thrigolion ar ystod o faterion ariannol a gweithredol, mae cyfle i ddatblygu ymhellach y dulliau o gynnwys y cyhoedd mewn trafodaethau am flaenoriaethau gwariant, penderfyniadau treth a chyllideb. Mae her hefyd i sicrhau bod cyfleoedd ystyrlon ar gael i drigolion gyfrannu at y trafodaethau hyn o fewn yr amserlenni tynn a osodir gan broses setliad ariannol Llywodraeth Cymru.
- Wrth ddod i gasgliadau'r hunanasesiad, ystyriwyd y canlyniadau hyn ochr yn ochr â thystiolaeth berfformiad arall. Arweiniodd hyn at gydnabod cryfderau o ran hygyrchedd gwybodaeth a pha mor hawdd yw cysylltu â'r Cyngor, ond hefyd at nodi meysydd i'w gwella o ran ymddiriedaeth, bodlonrwydd, gwerth am arian a'r graddau y mae trigolion yn gweld bod eu barn yn dylanwadu ar benderfyniadau. Mae'r casgliadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn adran gasgliadau'r hunanasesiad.
- Rydym hefyd yn paratoi adroddiad blynyddol am gwynion, ac yn addasu ein gwasanaethau yn barhaus pan fydd sylwadau neu gwynion yn awgrymu gwelliannau. Gwelir fod y nifer o Gwynion Ffurfiol Dilys wedi cynyddu a'r rhai sydd wedi mynd at yr Ombwdsmon wedi codi eto eleni o'i gymharu ar un cyfnod yn 2024/2025. Mae'r patrwm / tueddiad dros gyfnod hirach yn dangos bod nifer Cwynion Ffurfiol wedi gostwng yn raddol o 2018/2019 tan 2021/2022 pan fu cynnydd sylweddol, ond mae pethau i weld yn eithaf sefydlog. Gwelwyd newid mewn diwylliant gyda'r mwyafrif o Wasanaethau yn derbyn cwynion mewn ffordd fwy positif ac adeiladol er mwyn dysgu ohonynt, gyda'r amser ymateb yn gostwng yn ôl yn raddol. Rydym yn dal i weithio ar leihau'r amser a gymerir i ymateb i gwynion trwy weithredu'r Cynllun Gofal Cwsmer.
- Mae'r Tîm Caffael yn darparu cyngor a chymorth i wasanaethau, ac yn sicrhau fod y sefydliad yn dilyn rheoliadau ac ymarfer orau yn y maes caffael. Nod y tîm yw galluogi'r Cyngor i gyflawni gwerth am arian, cryfhau a datblygu'r arbenigedd caffael, mabwysiadu'r arfer orau yn y maes a chefnogi'r farchnad leol.
- Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu Polisi Caffael Cynaliadwy sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy fabwysiadu'r

Polisi, y bwriad yw ystyried yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl y gall ein penderfyniadau caffael ei gael a pha gamau y gellir eu cymryd i wneud y defnydd gorau posibl o wariant y Cyngor, er lles y Sir.

- Mae gwaith parhaus yn digwydd i gefnogi busnesau i ymateb i ofynion mewn tendrau yn sgìl unrhyw ddatblygiadau yn y maes, fel ennill achrediadau neu ymateb i ofynion y Ddeddfwriaeth newydd. Rydym yn parhau i weithio gyda'r gadwyn gyflenwi i asesu'r effaith amgylcheddol a cheisio lleihau ôl- troed carbon, a bydd helpu busnesau gyda'r trefniadau caffael yn parhau yn flaenoriaeth.
- Mae Ffordd Gwynedd yn parhau i fod yn un o gryfderau allweddol y Cyngor, a chydnabu'r Asesiad Perfformiad gan Banel hyn fel cryfder sefydliadol pwysig sydd wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwylliant a pherfformiad y Cyngor. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod angen ail-bwysleisio ei diben a'i rôl fel fframwaith cyffredin ar gyfer y sefydliad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol, yn ddealladwy ac yn ddylanwadol ar draws pob gwasanaeth.
- O safbwynt gweithgareddau mewnol y Cyngor, mae gennym drefniadau ymgysylltu a chyfathrebu da yn eu lle gyda negeseuon pwysig yn cael eu rhannu'n ganolog efo staff mewn amrywiol ffyrdd gan gynnwys bwletin staff wythnosol, Grŵp Facebook staff, y mewnrwyd, hunanwasanaeth staff, cylchgrawn Gair o Gyngor, ymweliadau staff rheng flaen a sesiynau cwestiwn ac ateb gyda'r Prif Weithredwr. Yn ychwanegol at hyn, mae gweithgareddau cyfathrebu adrannol a rheolaethol yn digwydd yn rheolaidd. Fodd bynnag rydym yn cydnabod ein bod angen sicrhau llais cryfach i'r gweithlu wrth ddatblygu'n cynlluniau strategol a thrawsnewidiol yn y dyfodol, gan ddod â'r gwahanol feysydd ymarfer sydd eisoes yn bodoli o fewn y Cyngor ynghyd, er mwyn sicrhau dull Cyngor gyfan o gynnwys ac ymgysylltu mewnol.
- Darparwyd rhaglen hyfforddiant eang ar gyfer Aelodau Etholedig yn ystod 2025/26 oedd yn cynnwys hyfforddiant craidd mewn wyth maes penodol:
    i. Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol
    ii. Cod Ymddygiad
    iii. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
    iv. Diogelu Plant ac Oedolion
    v. Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb
    vi. Eich Cyfrifoldeb fel Rhiant Corfforaethol
    vii. Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi
    viii. Trais yn erbyn Menywod, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol
- Yn ogystal â hyn roedd hyfforddiant yn cael ei gynnig mewn sawl maes arall ynghyd â chyfle i bob Cynghorydd dderbyn cyfweliad datblygiad personol er mwyn adnabod meysydd datblygol penodol. Mae cynnig i gynghorwyr gael sesiynau penodol cyn iddynt ymgymryd â rolau ar wahanol bwyllgorau e.e. Aelodau Cabinet, a nifer o bwyllgorau eraill megis Cynllunio, Trwyddedu, a Llywodraethu ac Archwilio. Ymhellach, cynhelir sesiynau briffio i'r aelodau hefyd, sy'n gyfle i gyflwyno diweddariad ar faterion o bwys e.e. pan fo newidiadau mewn deddfwriaeth ayyb.
- Rydym fel Cyngor yn manteisio ar gyfleoedd i arloesi a gwreiddio technoleg ddigidol i wella bywydau ein trigolion, i gydweithio yn well â phartneriaid, a chryfhau a gwella

ymatebolrwydd ein gwasanaethau i anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid. I'n cynorthwyo gyda hyn, yn 2023 cymeradwywyd Cynllun Digidol newydd Cyngor Gwynedd ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2023-28. Mae cyfnod y Cynllun hwn yn cyd-redeg efo cyfnod Cynllun y Cyngor (yn yr un modd ag y mae cyfnod Cynllun Ffordd Gwynedd). Mae cyllid wedi'i sicrhau i gyflawni rhaglen waith ddwy flynedd gyntaf y Cynllun Digidol, ac mae nifer o'r blaenoriaethau eisoes ar waith. Yn ystod 2025/26 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ei weithredu i'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol, a bydd y Cynllun yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor.

- Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu newidiadau yn arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor gyda phenodiad sawl Aelod Cabinet newydd, yn ogystal â phenodiadau newydd ymysg uwch swyddogion y Cyngor. Gwyddom y gall y newidiadau fel hyn beri heriau o ran arweinyddiaeth gyson ac achosi oedi wrth wneud penderfyniadau strategol, ond rydym wedi bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd yma, ac wedi mynd i'r afael â'r mater. Cyfeiriodd yr Asesiad Perfformiad Panel at berthynas waith iach a phriodol rhwng aelodau a swyddogion, ac mae hyn yn cadarnhau fod y Cyngor wedi delio gyda'r newidiadau yn effeithiol.

Risgiau

- Er bod amddiffynfeydd cryf yn eu lle ar gyfer gwrthsefyll ymosodiad Seibr, gan gynnwys waliau tân, meddalwedd gwrth-firws, protocolau a pholisïau mynediad a gweithdrefnau cynnal a chadw, mae'r risg o ymosodiad seibr yn parhau i fod yn uchel a gwelwyd ymosodiadau ar sawl sefydliad cyhoeddus arall yn ystod y flwyddyn.
- Bydd gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2027/28 yn sialens, yn enwedig yn sgil yr angen i sicrhau bod cyllidebau adrannol yn ddigonol er mwyn darparu'r lefel angenrheidiol o wasanaethau i bobl Gwynedd, ac i osgoi gorwariant fel a welwyd yn 2024/25 a 2025/26.
- Yn 2025/26 gwelwyd cynnydd mewn grant Cyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru o 3.8%, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £9.1m mewn ariannu allanol. Fodd bynnag, rhagwelwyd byddai angen cynyddu gwariant y Cyngor o £25.8m er mwyn "sefyll yn llonydd" a hynny oherwydd y galw am wasanaethau yn ogystal â phwysau chwyddiant yn parhau'n uchel. Ac felly, roedd rhaid cyflwyno arbedion a thoriadau a chodi lefel y Dreth Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys.
- Gwelwyd pwysau ar wasanaethau'r Cyngor yn ystod 2025/26, gyda gorwariant o £6.6m ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf yn y maes gofal oedolion a phlant a'r maes gwastraff. Bu i dderbyniad grant a thanwariant ar gyllidebau corfforaethol cynorthwyo i leddfu rhywfaint ar sefyllfa ariannol, ond bu rhaid trosglwyddo £3.2m o'r Gronfa Strategaeth Ariannol i fantoli'r sefyllfa o ddiffyg ariannol yr adrannau. Adroddwyd ar sefyllfa alldro ariannol 2025/26 i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 19 Mai 2026. Cymeradwyodd aelodau'r Cabinet orwariant net gwasanaethau o £160k am y flwyddyn.
- Rydym wedi cynnal adolygiad mewnol a darparu cefnogaeth ychwanegol er mwyn ceisio gwella'n trefniadau casglu Treth Cyngor, ac mae camau gweithredu wedi eu cyflwyno er mwyn cynyddu'r cyfraddau casglu. Er gwaethaf hynny, mae'r mater yn parhau i fod yn

her, ac o ganlyniad bydd yn parhau i dderbyn sylw a chefnogaeth ychwanegol am y flwyddyn i ddod. Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau fod materion fel hyn yn derbyn sylw yn gynharach yn y dyfodol, a byddwn yn adolygu ein trefniadau er mwyn sicrhau fod hyn yn digwydd. Bydd Archwilio Cymru yn gwneud gwaith pellach i edrych ar ein trefniadau casglu Treth Cyngor yn ystod 2026-27.

- Mae anawsterau recriwtio mewn meysydd allweddol, megis gofal cymdeithasol ac addysg, yn gallu peryglu parhad gwasanaethau. Arweiniodd y pryder hwn at sefydlu prosiect penodol yng Nghynllun y Cyngor, sef 'Cynllunio'r Gweithlu', er mwyn mynd i'r afael â'r her a datblygu amrywiaeth o atebion. Yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ystyriwyd y mater gan yr Asesiad Perfformiad Panel ddechrau 2026, a nododd y Panel bwysigrwydd cynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau'r Cyngor. Cymeradwyodd y Panel Gynllun Yfory, sef cynllun y Cyngor i recriwtio graddedigion a phrentisiaid, ac mae'r Cyngor ei hun wedi cydnabod gwerth a phwysigrwydd y cynllun hwn ers nifer o flynyddoedd.
- Rydym yn awyddus i fireinio ein trefniadau rheoli perfformiad, ac er mwyn gwneud hynny byddwn yn adolygu a mapio'n trefniadau rheoli perfformiad presennol ar draws y Cyngor er mwyn uno prosesau, lleihau dyblygu a chreu fframwaith corfforaethol mwy cydlynol. Bydd hyn yn cynnwys:
    - Datblygu set glir o fesurau a dangosyddion perfformiad sy'n dangos cyfraniad gwasanaethau ac adrannau at gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol.
    - Integreiddio adroddiadau perfformiad â'r gofrestr risg gorfforaethol a chofrestrau risg adrannol er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng cynnydd, risgiau a chamau lliniaru.
    - Cryfhau trefniadau craffu a her drwy sefydlu cyfleoedd rheolaidd i gymheiriaid o fewn ac y tu hwnt i'r Cyngor adolygu perfformiad, rhannu arfer da a chynnig her adeiladol.
    - Cryfhau trefniadau monitro, adrodd ac adolygu rheolaidd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth perfformiad yn cael ei defnyddio'n gyson i lywio penderfyniadau, gwella gwasanaethau a chefnogi atebolrwydd corfforaethol.
- Mae'r Cyngor yn rhan o nifer o bartneriaethau lleol a rhanbarthol megis Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Teg fyddai nodi bod effeithiolrwydd y partneriaethau hyn yn amrywio ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i weithio er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn elwa o'r trefniadau hyn. Yn yr un modd mae ein perthynas gyda'r trydydd sector yn parhau i esblygu a byddwn, gyda chefnogaeth y Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector, yn edrych ar hyn eto yn ystod 2026/27.
- Mae'r gwaith o sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio'n ddwfn o fewn gwaith y Cyngor er mwyn gwella ein gwasanaethau ar gyfer pawb o bobl Gwynedd yn parhau. Datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-28 er mwyn rhoi fframwaith i wella tegwch o fewn y Cyngor, a sicrhau ein bod yn trin pobl yn ôl eu hanghenion. Mae'r gwaith yma yn parhau ac rydym yn nhrydedd flwyddyn y cynllun erbyn hyn, gyda llawer o'r pwyntiau gweithredu wedi cyflawni, er enghraifft datblygu'r fframwaith hyfforddiant, cychwyn ar sefydlu dashfwrdd data, ymchwilio hygyrchedd ein gwefan a

chodi ymwybyddiaeth ar ein hasesasid effaith.Fel sydd wedi ei nodi eisoes, mabwysiadwyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yn ystod 2023, ac mae tair mlynedd bellach wedi mynd heibio. Erbyn hyn, dylai'r rhan fwyaf o'r cynlluniau fod wedi eu diffinio'n glir, gyda'r adnoddau angenrheidiol wedi eu hadnabod a'u hystyried fel rhan o'r cylchoedd cynllunio a chyllidebu blynyddol. O ganlyniad, nid yw diffyg arian ynddo'i hun yn debygol o fod yn brif reswm dros beidio â chyflawni'r hyn sydd yn y Cynllun. Y risg bellach yw sicrhau bod y Cyngor yn parhau i flaenoriaethu'n glir, yn cynnal ffocws ar y prosiectau mwyaf trawsnewidiol, ac yn rheoli capasiti a dibyniaethau yn effeithiol er mwyn cyflawni'r hyn sy'n realistig erbyn diwedd Mawrth 2028.

- Mae angen datblygu dull trawsnewidiol corfforaethol unedig sy'n gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer newid ar draws y Cyngor cyfan. Bydd hyn yn dod â'r gwahanol raglenni, prosiectau a mentrau trawsnewid presennol at ei gilydd o fewn fframwaith cydlynol gyda blaenoriaethau, canlyniadau a threfniadau llywodraethu clir. Byddwn yn rhoi sylw arbennig i hyn wrth lunio ein Cynllun Cyngor nesaf, gan ganolbwyntio ar nifer llai o brosiectau trawsnewidiol eu natur fydd yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Gwynedd.
- Mae'r Adran Gyllid, mewn cyswllt agos â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, yn cynnal adolygiadau parhaus o ragolygon ariannol y Cyngor dros y 3 blynedd nesaf, gan ddiweddaru'r model yn rheolaidd pan dderbynnir gwybodaeth newydd gan adrodd yn rheolaidd i aelodau'r Cabinet ac i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adran). Mae'r cylch cynllunio corfforaethol yn cyd-fynd â chylch statudol cynllunio'r gyllideb ac rydym yn anelu i gyflwyno diweddariad blynyddol Cynllun y Cyngor i'r un cyfarfod o'r Cyngor Llawn â'r gyllideb.
- Pob blwyddyn mae'r Cyngor yn paratoi Strategaeth Ariannol ac yn gosod Cyllideb gytbwys (balanced) er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi Datganiad o'r Cyfrifon ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol sy'n dangos ei wariant blynyddol. Mae'r gwaith o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau, a monitro fod arbedion wedi'u cyflawni gan holl adrannau'r Cyngor, yn sicrhau bod y gwasanaethau yn gweithredu'n effeithlon. Fodd bynnag, fel a nodwyd yn gynharach, mae'r pwysau cynyddol ar gyllideb y Cyngor yn ei gwneud hi'n anoddach i adrannau gynnal yr un lefel o wasanaethau o fewn y gyllideb a ddarperir, a mae hynny yn arwain at risg o orwariant.
- Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi creu dyletswyddau newydd i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol gymryd elfen o gyfrifoldeb dros hyrwyddo ymddygiad da a chydweithredu â'r Pwyllgor Safonau. Cytunwyd ar brotocol a meini prawf ar gyfer asesu cyflawniad y ddyletswydd mewn gweithdy rhwng aelodau'r Pwyllgor a'r Arweinyddion. Mabwysiadwyd y rhain gan y Pwyllgor Safonau a byddent yn cyfrannu at baratoi adroddiad blynyddol y Pwyllgor. Mae'r gwaith yma wedi ei gefnogi gan gyfarfodydd a chyfathrebu rheolaidd gyda'r Swyddog Monitro.
- Mae absenoldebau salwch yn parhau i fod yn risg i gapasiti a chynaliadwyedd gwasanaethau'r Cyngor. Yn ystod 2025/26, cynyddodd y cyfartaledd dyddiau salwch y pen i 13.01 diwrnod (12.94 diwrnod yn 2024/25), gyda salwch tymor hir yn cyfrif am 62% o'r holl absenoldebau. Mae straen yn parhau i fod yn un o'r prif achosion salwch, gan gyfrannu at 28.3% o'r holl absenoldebau. Mae'r Cyngor yn ymateb drwy gryfhau

trefniadau rheoli presenoldeb, gwella systemau cofnodi a monitro salwch, darparu cymorth drwy'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol, cynnal adolygiadau o achosion unigol a datblygu cefnogaeth ac hyfforddiant i reolwyr er mwyn lleihau salwch tymor hir a chefnogi iechyd a llesiant staff.

- Pan gynhaliwyd yr Asesiad Perfformiad Panel annibynnol ddechrau 2026, nodwyd y dylai'r Cyngor adolygu capasiti ei arweinyddiaeth strategol ar lefel weithredol er mwyn ei alluogi i gyflawni ei flaenoriaethau allweddol a chynllunio ar gyfer yr hir dymor. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i hyn gan adolygu capasiti arweinyddiaeth strategol i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni blaenoriaethau a chynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol.
- Rydym am sicrhau fod gennym drefniadau diogelu corfforaethol hollol gadarn, ac mae nifer o gamau gweithredu eisoes wedi eu cyflawni, gan gynnwys sicrhau fod y Panel Strategol Diogelu yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod yr agenda diogelu yn gorfforaethol, a chyflwyno hyfforddiant e-ddysgu diogelu ar gyfer staff. Mae meysydd fel yr agenda gwrth-derfysgaeth a caethwasiaeth fodern hefyd yn cael eu trafod dan yr agenda hwn.
- Mae'r Cyngor wedi adnabod yr angen i wella ac uwchraddio'r system ariannol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud hyn, ond yn y cyfamser mae risg yn bodoli os na gyflawnir hyn yn amserol.
- Mae risg wedi ei hadnabod ynghylch rheoli tîr agored sydd ym mherchnogaeth y Cyngor, sydd yn amrywio o lecyn o dir fflat, gwyrdd i chwareli ble nad oes cynllun rheoli mewn lle ar eu cyfer. Mae'r Adran Tai ac Eiddo wrthi yn adnabod rheolwyr safle ar bob safle trwy gydweithio gydag adrannau, ac mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth adrannau o diroedd sydd wedi eu dynodi iddynt.
- Rydym yn ymwybodol o'r angen i wella ein blaengynllunio a'n rheolaeth o brosiectau ar draws y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys rheoli'r heriau sydd ynghlwm â chyflwyno sustemau/meddalwedd TG newydd, yn ogystal â rheoli prosiectau adrannol eraill.

Gwynedd Ofalgar

Cryfderau

- Adolygiadau Statudol amserol o ansawdd da yn cael eu cynnal i sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn parhau i fod yn briodol.
- Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd Tîm Gwasanaethau Hybu Annibyniaeth newydd er mwyn dod â meysydd taliadau uniongyrchol, teleofal, technoleg gynorthwyol, deallusrwydd artiffisial (AI), a datblygu cwmnïau micro ynghyd. Nod y gwaith yw sicrhau bod unigolion yn cael y gefnogaeth, y dechnoleg a'r dewisiadau sydd eu hangen i fyw mor annibynnol â phosibl, yn unol â'u dymuniadau a'u hamgylchiadau.
- Cynnydd yn y defnydd priodol o daliadau uniongyrchol ac ymarfer seiliedig ar gryfder a datblygiadau yn y maes tai gofal ychwanegol.
- Bellach, gall unigolion a'u teuluoedd wneud cais uniongyrchol am offer teleofal drwy wefan y Cyngor, gan hwyluso mynediad at gefnogaeth yn gynt ac yn haws. Ar yr un pryd, mae'r gwaith o drosglwyddo trigolion o systemau analog i dechnoleg ddigidol yn

cyflymu. Cydweithia'r Cyngor yn agos gyda'r cymdeithasau Tai (Adra a Grŵp Cynefin) er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn a diogel i drigolion.

- Penodwyd pennaeth newydd i'r Adran Oedolion a phennaeth newydd dros-dro i'r Adran Plant. Mae'r penodiadau yn cynnig cyfle i ail ystyried systemau a strwythurau gweithredu'r adrannau.
- Mae gwasanaethau dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Ngwynedd wedi parhau i ddatblygu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn, gyda modelau amrywiol ar draws y sir yn diwallu anghenion lleol ac yn hyrwyddo lles unigolion.
- Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i sicrhau nad oedd rhestr aros ar gyfer asesiadau iechyd meddwl a cafodd y mwyafrif helaeth o unigolion eu hasesu o fewn tua 10 diwrnod, gyda dim ond nifer fach yn aros hyd at bythefnos. Yn ogystal, comisiynwyd nifer o leoliadau preswyl ar gyfer unigolion â phroblemau iechyd meddwl, gan sicrhau bod cymorth priodol ar gael pan oedd ei angen.
- Profodd adroddiad Llechen Lân yn ddefnyddiol yn ystod y flwyddyn aeth heibio gan ein cynorthwyo i gynllunio ar gyfer anghenion hirdymor gwasanaethau cymdeithasol. Byddwn yn diweddaru'r adroddiad yn dilyn cyhoeddi rhagamcanion demograffig newydd, a pharhau i weithredu'r argymhellion gyda ffocws ar ddatblygu dulliau ataliol a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau gofal traddodiadol.
- Yn ystod y flwyddyn, datblygodd Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd ddangosfwrdd gwybodaeth byw ar gyfer unigolion yn Ysbyty Gwynedd sydd angen dychwelyd adref gyda chefnogaeth. Mae'r gwaith hwn, ynghyd â'r trefniadau diogelwch rhyddhau dros gyfnod y gaeaf, wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda'r systemau data cysylltiedig bellach yn cael eu mireinio a'u rhannu'n rhanbarthol ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Mae Gwynedd yn parhau i fod yr unig awdurdod yng Ngogledd Cymru nad yw'n defnyddio gweithwyr cymdeithasol asiantaeth, sefyllfa sydd wedi'i chynnal ers dros ddegawd. Mae pob awdurdod arall yn y rhanbarth, ynghyd â'r mwyafrif llethol o gynghorau ledled Cymru, bellach yn dibynnu ar staff asiantaeth i ryw raddau. Ymysg y manteision a welir o hyn yng Ngwynedd mae gwasanaeth mwy cyson i bobl y sir ynghyd a'r gallu i ddarparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Adolygwyd cyllidebau adrannol eto eleni er mwyn cymryd i ystyriaeth yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen er mwyn cwblhau unrhyw gynlluniau gweithredu, ac i ddelio gyda diffygion cyllidebol hanesyddol mewn rhai adrannau (e.g. gwasanaethau cymdeithasol). Bwriad hyn yw sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gallu cael eu darparu oddi mewn i'r gyllideb sylfaenol er mwyn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Bydd gwaith o adolygu darpariaethau mewn cyllidebau yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf wrth baratoi cyllideb 2027/28.
  Mae datblygiadau pellach ym maes deallusrwydd artiffisial (AI) yn dechrau trawsnewid y ffordd mae gwasanaethau'n gweithredu. Bu peilot Beam Notes yn llwyddiannus gyda charfan o staff yn ystod dechrau 2026, a bwriedir ymestyn y defnydd o'r dechnoleg ar draws y gwasanaeth yn ystod 2026/27. Mae technoleg fel Beam Notes yn cymryd cofnod o sgwrs, gan helpu i leihau'r amser a dreulir ar waith gweinyddol a felly rhyddhau mwy o amser i weithwyr cymdeithasol ganolbwyntio ar weithio'n uniongyrchol gydag unigolion a theuluoedd.

Risgiau

- Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru, Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder, yn yr hydref, lluniwyd cynllun ymateb cynhwysfawr gan Gyngor Gwynedd i fynd i'r afael â'r argymhellion, ynghyd â materion ehangach a nodwyd mewn archwiliadau ac ymchwiliadau cysylltiedig. Roedd hwn yn adroddiad heriol a damniol, ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwersi pwysig i'w dysgu. Sefydlwyd Bwrdd Ymateb i oruchwylio'r gwaith, dan gadeiryddiaeth yr Athro Sally Holland, cyn Gomisiynydd Plant Cymru. Mae'r bwrdd wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi elwa ar fewnbwn ac arweiniad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn, Swyddfa Comisiynydd Plant a Llywodraeth Cymru. Ystyriwyd hefyd y dysgu o'r archwiliad ar y cyd gan AGC ac Estyn ym mis Tachwedd 2025. Mae yr Athro Sally Holland yn adrodd yn chwarterol i Gabinet y Cyngor, tra bod Grŵp Sicrwydd Gweinidogol Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Erbyn Mawrth 2026, cyflawnwyd cynnydd cadarnhaol ar nifer o'r camau a nodwyd. Fodd bynnag, erys gwaith pellach, ac mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i weithredu ar y dysgu a sicrhau gwelliannau parhaus. Ceir manylion yr hyn sydd eisoes wedi'i wneud a'r hyn sydd ar y gweill ar wefan: Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb
- Ni lwyddwyd i gyrraedd y targed o sicrhau nad oedd unrhyw berson yn aros mwy na 28 diwrnod am becyn gofal cartref yn dilyn asesiad. Er bod heriau staffio wedi cyfrannu at hyn, mae'r perfformiad yn dangos bod angen gwneud mwy i sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir. Mae hyn yn amlygu'r angen i gyflymu gweithredu argymhellion adroddiad Llechen Lân: Gwasanaethau Pobl Hŷn i'r Dyfodol, yn enwedig y gwaith i sicrhau bod opsiynau amgen i ofal cartref traddodiadol yn cael eu cynnig yn gyson ar draws y sir. Drwy gryfhau'r dull hwn, gallwn roi mwy o lais a dewis i unigolion, lleihau dibyniaeth ar becynnau gofal traddodiadol, a sicrhau bod cefnogaeth fwy hyblyg ar gael yn gynt i ddiwallu anghenion pobl. Byddwn yn parhau i geisio lleihau ein rhestrau aros am becynnau gofal cartref newydd a sicrhau nad oes unrhyw berson yng Ngwynedd yn aros mwy na 28 diwrnod yn dilyn asesiad gofal.
- Er mwyn sicrhau gwasanaethau o'r safon uchaf a rheoli costau'n effeithiol mae angen i'r timau gydweithio yn amlddisgyblaethol gyda phartneriaid fel iechyd, yr heddlu, y trydydd sector, a darparwyr gofal. Mae camau eisoes wedi eu cymryd i gryfhau'r partneriaethau yma er fod gwaith pellach i'w wneud, er enghraifft er mwyn datblygu'r berthynas cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd ymhellach.
- Os na ellir recriwtio digon o staff, mae perygl na ellir darparu'r gwasanaethau gorau i bobl Gwynedd. Rydym felly wedi adolygu cyflogau a chyflwyno prosiect Llechen Lân, yn ogystal â chyflwyno Academi Gofal er mwyn ceisio gwella'r sefyllfa ac rydym yn bwriadu cymryd camau ychwanegol cyn bo hir hefyd.
- Yn gyffredinol, cydnabuwyd bod y ffocws ar adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder a'r gwaith dilynol wedi cymryd y rhan fwyaf o'r amser a'r adnoddau oedd ar gael dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ei gwneud yn anodd rhoi sylw cyfartal i bob maes o'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Gallai perthynas wan gyda rhanddeiliaid sefydliadol arwain at fethu darparu gwasanaethau o safon i bobl Gwynedd. Mae camau yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau

perthynas dda rhwng sefydliadau, ynghyd â cheisio symleiddio'r berthynas waith sy'n gallu bod yn or-gymhleth oherwydd rhwystrau deddfwriaethol.

- Mae cynnydd yn y galw am wasanaethau ynghyd â chynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion, yn arwain at bwysau cyllidebol a risg o orwariant.
- Mae angen ail-edrych a symleiddio'r "drysau ffrynt" i greu profiad cyson a syml i drigolion wrth iddynt gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol.
- Yn mis Mawrth 2025 derbyniwyd y rhagolygon poblogaeth cenedlaethol, a bydd y gwaith ymchwil yn cael ei ddiweddaru ymhellach yn seiliedig ar ddata poblogaeth newydd. Yr awgrym yw bydd yn dangos lefelau galw hyd yn oed yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol.
- Mae angen cryfhau'r gefnogaeth i ofalwyr di-dâl drwy sicrhau eu bod yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn derbyn cefnogaeth lawn i'w helpu i barhau yn eu rôl heb beryglu eu lles eu hunain.
- Mae pryder yn bodoli ynghylch argaeledd swyddogion adolygu statudol yn y maes Plant a Theuluoedd. Os nad oes swyddog adolygu statudol ar gael nid oes sicrwydd bod llais y plentyn sydd mewn gofal yn cael ei glywed.
- Os nad yw gwasanaethau Busnes, Comisiynu a Monitro Gofal yn effeithiol ac effeithlon, mae risg i ddiogelwch unigolion a staff, yn ogystal a risg nad ydym yn darparu gwasanaethau o safon i drigolion Gwynedd.
- Methu cael asesiadau iechyd meddwl y tu allan i oriau gwaith yn gadael unigolion mewn perygl ac yn wynebu trallod iechyd meddwl heb gefnogaeth briodol.
- Roedd angen sicrhau system newydd gan fod y system ddata gwasanaethau cymdeithasol bresennol (WCCIS) yn dod i ben. Bu cydweithio â awdurdodau lleol ledled Gogledd Cymru i gwblhau'r broses dendro o fewn amserlen heriol, ac ers hynny mae system MOSAIC wedi ei phrynu. Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd gwaith helaeth o baratoi ar gyfer y trosglwyddiad, gan gynnwys cynllunio, gwaith technegol a pharatoi'r gweithlu. Mae'r amserlen weithredu bellach wedi llithro i Fawrth 2027. Disgwylir i MOSAIC wella cofnodi, rhannu gwybodaeth a chyfathrebu â thrigolion a phartneriaid
- Er bod arweinyddiaeth dros dro yn ei le erbyn hyn, pery ansicrwydd o ran arweinyddiaeth adran plant y Cyngor yn yr hir dymor.
- Mae lleihau'r elw sylweddol a wneir gan gwmnïau preifat wrth ddarparu gwasanaethau plant yn flaenoriaeth cenedlaethol. Mae angen cyflymu'r gwaith ar gryfhau darpariaeth leol, gan gynnwys ehangu cyfleoedd maethu, lleihau'r ddibyniaeth ar leoliadau costus y tu allan i'r sir, a sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn gallu aros yn agos at eu teuluoedd, eu hysgolion a'u cymunedau.Gall unrhyw gystadleuaeth gyda chyflogau staff mewn siroedd/rhanbarthau cyfagos beri anfodlonrwydd ac effeithio'r farchnad recriwtio.

Gwynedd Yfory

Cryfderau

- Mae deilliannau arolygu ysgolion cynradd ac uwchradd yn gryf yn gyffredinol.

- Cymorth o ran bodloni anghenion dysgwyr/darpariaeth y Gymraeg – gan gynnwys y gyfundrefn Addysg Drochi.
- Mae Strategaeth Ysgolion newydd ar gyfer 2026-2036 bellach mewn lle
- Rydym yn parhau i wneud gwelliannau i ysgolion ledled y sir, ac mae cynlluniau cyfalaf sylweddol ar y gweill ym Mangor a Bontnewydd. Rydym wedi cymryd pob cyfle i ymgeisio am gymorth grant i'n galluogi i foderneiddio adeiladau presennol a datblygu adeiladau newydd.

Risgiau

- Mae newidiadau yn nemograffeg y sir yn effeithio hyfywdra'r gyfundrefn ysgolion presennol, ac yn cynyddu'r diffyg tegwch sy'n bodoli oherwydd yr amrywiaeth sylweddol yng nghost y pen fesul disgybl.
- Mae angen gwella trefniadau monitro, gwerthuso a hyrwyddo presenoldeb disgyblion. Mae lefelau presenoldeb yn parhau i fod yn bryder yn dilyn y cwymp fu yn sgil y pandemig. Mae presenoldeb hefyd yn flaenoriaeth gan y Llywodraeth ac Estyn.
- Rydym am gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno.
- Sicrhau bod ein trefniadau diogelu mewn ysgolion i'r safon gorau posib a chyflawni cynnwys ein Cynllun Ymateb i Droseddu. Rydym eisoes wedi creu gwasanaeth newydd Tîm Diogelu a Llesiant yn yr Adran Addysg.
- Methu darparu gwasanaethau Arlwyo a Glanhau yn ddigonol a diogel.

Gwynedd Lewyrchus

Cryfderau

- Fel rhan o Fframwaith Adfywio newydd, mae Cynllun Adfywio Lleol wedi'i baratoi ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio yn y Sir. Mae'r cynlluniau yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol amlygwyd yn ystod ymgynghoriad 'Ardal Ni' gyda thrigolion Gwynedd. Mae'r Cynlluniau Adfywio Lleol yn ymgorffori prosiectau sydd yn cael eu datblygu gan ystod eang o sefydliadau a grwpiau sydd yn weithredol yn yr ardal ac yn cyfrannu at wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol neu yn ddiwylliannol er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gyda lle amlwg a chanolog i'r iaith Gymraeg.
- Datblygwyd 'Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035' ar y cyd gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae hwn yn gynllun sy'n torri tir newydd ac yn cyflwyno ffordd newydd o weithredu, cefnogi a mesur effaith yr economi ymweld yn ei gyfanrwydd ar yr ardal.
- Eto eleni rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid sylweddol o ffynonellau megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Gyda'n partneriaid rydym wedi dyrannu £8.2 miliwn pellach o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gynlluniau sydd wedi cyfrannu tuag at gryfhau economi

Gwynedd, gwella sgiliau a chreu balchder yn ein cymunedau. Yn ystod 2025/26 mae dros 780 o fusnesau, mentrau a sefydliadau wedi derbyn cymorth, dros 100 o swyddi wedi eu creu neu warchod ac mae dros 300 o bobl lleol wedi derbyn hyfforddiant.

- Mae'r cyfanswm o dros £32.6 miliwn wedi ei fuddsoddi yng nghynlluniau lleol ers 2022 gan Cyngor Gwynedd drwy law y Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Mae Cynlluniau Canol Tref wedi eu creu ar gyfer sawl tref yng Ngwynedd. Mae'r Cynlluniau yn rhoi sylw penodol i ardaloedd stryd fawr, gyda'r bwriad o'u gwneud yn lleoedd mwy deniadol i ymweld â nhw ac i weithio, ac i annog pobl i dreulio eu hamser a'u harian yno.
- Cynlluniau newydd ar y gweill yn cynnwys:
    - Gwaith i sefydlu'r Ardoll Ymwelwyr wedi datblygu'n dda a byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn yn fuan yn 2026-27.
    - Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd – pecyn cyfalaf £20M bron yn ei le a'r achos busnes wedi ei gwblhau.
    - Cynllun Twf – prosiect Glynllifon a Bryn Cegin yn disgwyl cymeradwyaeth y CBC mis yma.

Risgiau

- Goblygiadau yn sgil Rhaglen ARFOR yn dod i ben wedi arwain at addasiad posibl i Gynllun y Cyngor i sefydlu prosiect newydd "Nôl i Wynedd"
- Rhaglen SPF yn dod i ben gyda dim ond trefniadau pontio rhannol wedi eu cadarnhau drwy'r cronfeydd newydd (Balchder Bro a Chronfa Twf Leol).
- Lleihad sylweddol mewn cyllid, hyblygrwydd a sgôp o gymharu â SPF yn creu ansicrwydd ynghylch cyllid a gweinyddiaeth i'r dyfodol.
- Canol Dinas Bangor – parhau i geisio sefydlu'r pecyn cyfalaf ar gyfer yr Hwb Iechyd.

Gwynedd Glyd

Cryfderau

- Cynlluniau Cyfalaf sylweddol wedi eu cwblhau ac ar y gweill.
- Y Cynllun Gweithredu Tai yn parhau i greu tai cymdeithasol newydd, dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd, ac i brynu tai er mwyn eu gosod.
- Siop Un Stop Tai wedi ei sefydlu ym mis Medi 2025 ar gyfer holl ymholiadau tai a llety.
- Wedi cynyddu'r Premiwm Treth Cyngor Tai gwag i 150% i'w ail fuddsoddi yn y maes tai yn bennaf.
- Mae'r adran Tai ac Eiddo yn cydweithio'n agos gyda'i bartneriaid tai ar ddatblygiadau tai cymdeithasol a chanolraddol er mwyn cyfarch y galw aruthrol sydd am dai yng Ngwynedd.
- Trwy'r Cynllun Prynu i Osod, mae'r Cyngor yn prynu tai oddi ar y farchnad agored er mwyn eu gosod i drigolion sydd mewn angen tai.

- Er mwyn dod â mwy o dai gwag yn ôl i ddefnydd, mae nifer o ymyraethau ar gael i bobl Gwynedd fanteisio arnynt
- Mae'r Adran wedi llwyddo i ddenu arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni mwy o ddatblygiadau tai fforddiadwy.
- Mae'r Cyngor yn helpu nifer o drigolion y sir i osgoi neu ddod allan o dlodi tanwydd trwy ddarparu cefnogaeth i insiwleiddio tai, derbyn offer gwresogi effeithiol ac uwchraddiadau eco-gyfeillgar megis paneli solar a phympiau gwres sy'n defnyddio aer.

Risgiau

- Mae digartrefedd yn parhau yn her er i nifer o ymyraethau newydd gael eu cyflwyno. Byddwn yn parhau i weithredu nifer o gynlluniau uchelgeisiol gan gynnwys datblygu sawl safle ychwanegol ar draws y sir.
- Rheoli disgwyliadau a thensiynau yn ymwneud â cheisiadau datblygiadau tai cymdeithasol.
- Cynnydd yng nghostau adeiladu, argaeledd contractwyr a gweithlu digonol. Ee manddaliadau, tai Prynu i Osod.
- Defnydd o bwerau cynllunio fel un o'n ymyraethau ar gyfer Rheolaeth Ail-Gartrefi yn y sir, yn arbennig yng nghyd-destun Erthygl 4.
- Yn dilyn achos llys dros Erthygl 4, bydd y Cyngor yn edrych eto ar y sefyllfa ac yn ystyried os oes unrhyw wersi i'w dysgu.

Gwynedd Werdd

Cryfderau

- Rydym wedi diweddaru ein 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur' er mwyn cwrdd â'r uchelgais o fod yn garbon-sero net ac yn ecolegol gadarnhaol.
- Strategaeth Llifogydd wedi ei mabwysiadu sy'n amlygu'r peryglon presennol ac i'r dyfodol o lifogydd ac erydu arfordirol yn y Sir a sut y bydd y risgiau yn cael eu rheoli.
- Wedi denu grantiau sylweddol gan y Llywodraeth i ariannu cynlluniau ynni adnewyddadwy, fflyd cerbydau trydan a phwyntiau gwefru cyhoeddus ac i'r fflyd.
- Parodrwydd i arbrofi ac arloesi - bydd grantiau Llywodraeth Cymru a chyfalaf gan y Cyngor yn ariannu prosiectau i ostwng allyriadau carbon.
- Cydweithio â phartneriaid allanol – Cyngor yn arwain Partneriaeth Natur Gwynedd
- Yn unol â Chynllun Fflyd Werdd y Cyngor, pan fo cerbydau angen eu hadnewyddu rydym wedi bod yn trosi i gerbydau trydan ble mae hynny'n bosibl. Mae 48% o geir a faniau bychan y Cyngor bellach yn gerbydau trydan.

Risgiau

- Er mwyn cyrraedd y targed ailgylchu cenedlaethol o 70% ac osgoi dirwy ariannol, mae angen newid ymddygiadau trigolion fel eu bod yn ailgylchu mwy ac yn lleihau y gwastraff gweddilliol sydd angen ei gasglu.
- Mae angen moderneiddio safleoedd trin gwastraff ynghyd â gwneud gwelliannau i'n canolfannau ailgylchu.
- Mae risg sylweddol yn bodoli o lifogydd o'r môr allai gael effaith niweidiol ar nifer o gymunedau megis Fairbourne.
- Methu cyflawni targedau amlder mewn perthynas ag arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd.
- Gall disgwyliadau a newidiadau cenedlaethol arwain at oedi wrth i ni ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd.
- Mae 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30' y Cyngor yn gosod uchelgais sy'n nodi y "bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Mae'r Cynllun yn cynnwys amrediad eang o brosiectau i leihau allyriadau carbon ac i amsugno carbon ar draws nifer o feysydd: adeiladau ac ynni, symud a thrafnidiaeth, gwastraff, caffael, llywodraethu, defnydd tir, ecoleg. Rydym yn cydnabod mai gwaith hirdymor yw cyrraedd sero net, ond mae'r cynllun hwn yn gosod nifer o gerrig milltir penodol er mwyn i ni fesur ein cynnydd bob blwyddyn hyd at 2030. Mae yna gymaint o ffactorau polisi, deddfwriaethol a chyllidol sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, ac yn cael dylanwad enfawr ar allu'r Cyngor i wireddu nifer o'n prosiectau, megis cyflenwadau rhwydwaith grid trydan neu buddsoddiad mewn ynni a gwresogi adeiladau. Er hynny, mae'r Cyngor wedi dewis gwario cyllid sylweddol o'n coffrau er mwyn gwireddu nifer o'r prosiectau yn ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, ac fe neilltuwyd £3M ar gyfer y gwaith. Er gwaethaf y buddsoddiad fodd bynnag, mae'r ansicrwydd o safbwynt y ffactorau allanol yn golygu fod cwrdd â'r uchelgais i fod yn ...'garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030' yn parhau i fod yn risg ymarferol a chyllidol i'r Cyngor.
- Er bod y Cyngor wedi buddsoddi £3M o'i gyllid ei hun ers 2022, sy'n barhad o fuddsoddiad sylweddol mewn cynlluniau arbed carbon ers 2010, mae risg gwirioneddol i beidio bod â chyllid nag adnoddau dynol i gyflawni'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn ei gyfanrwydd.
- Mae gwaith yn parhau er mwyn sicrhau bod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gofynion statudol eraill yn integreiddio'n llawn o fewn ein fframweithiau cynllunio corfforaethol, yn hytrach na gwneud hynny mewn ffordd sy'n ymatebol a thameidiog ei natur.
- Diogelu adeiladau peryglus e.e. Corbett Arms, a gweithredu ar faterion gorfodaeth rheolaeth adeiladu.

Gwynedd Gymraeg

Cryfderau

- Mae'r Gymraeg yn rhan allweddol o holl waith y Cyngor, ac unrhyw gynlluniau sydd yn effeithio ar bobl Gwynedd. Cymraeg yw prif iaith weinyddol y Cyngor, sy'n golygu ein bod yn un o gyflogwyr mwyaf y wlad sydd yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn y gweithle.
- Rydym yn cynnig cyfleon i staff ddatblygu eu sgiliau ieithyddol gan gynnwys hyfforddiant i ddysgu Cymraeg ac i ddatblygu sgiliau Cymraeg ymhellach, a hynny ar draws pob lefel.
- Mae'r Cyngor wedi moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant, ac mae'n bwriadu cynyddu'r ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sir ymhellach.

Risgiau

- Efallai bod canfyddiad gan rai bod angen Cymraeg o safon 'Prifysgol' i weithio i'r Cyngor, ac er nad yw hynny'n gywir, gall effeithio ar recriwtio i rai swyddi.
- Pobl ifanc Cymraeg eu hiaith yn mudo.

Casgliadau'r Hunanasesiad

Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei chasglu, y casgliad cyffredinol yw bod Cyngor Gwynedd yn gweithredu o sylfaen sefydliadol gadarn. Mae'r trefniadau llywodraethu, craffu, rheoli risg, ymgysylltu a monitro perfformiad yn darparu sail resymol i'r Cyngor asesu ei berfformiad, ac mae enghreifftiau megis y Cynlluniau Prentisiaethau a Graddedigion a'r £8.2m o gyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn 2025/26 sy'n dangos gallu'r Cyngor i droi blaenoriaethau'n gamau ymarferol.

Wrth werthuso'r darlun ehangach, mae'r data meintiol yn dangos perfformiad cymysg. Mae canlyniadau Arolwg Llais Staff 2026 yn gadarnhaol o ran balchder a phwrpas, gyda 80% yn cytuno bod y Cyngor yn lle da i weithio ac 88% yn cytuno bod eu gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl Gwynedd. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau ar y tri gofyniad perfformiad yn is, sef 69.6% ar gyflawni dyletswyddau'n effeithiol, 65.8% ar wneud y defnydd gorau o adnoddau, a 69.2% ar drefniadau i sicrhau perfformiad effeithiol. Mae'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol (2025) yn atgyfnerthu'r darlun hwn: er bod Gwynedd yn gymharol gryf o ran cysylltu â'r Cyngor a chael gwybodaeth, dim ond 31% oedd yn fodlon ar sut mae'r Cyngor yn rhedeg pethau, 43% oedd yn gweld gwasanaethau fel gwerth da am arian, a 37% oedd yn ymddiried yn y Cyngor (dylid nodi fod Cyngor Gwynedd ymysg y 3 awdurdod lleol gorau allan o 9 a gymerodd rhan yn yr Arolwg yn 2025). Mae hyn yn dangos bod sylfeini cadarn, ond bod angen gwneud mwy i gryfhau ymddiriedaeth, bodlonrwydd a'r defnydd cyson o wybodaeth i wella gwasanaethau. Mae'r casgliad hwn wedi'i lywio'n uniongyrchol gan safbwyntiau trigolion, staff, busnesau a rhanddeiliaid eraill, ac mae'r Cyngor wedi ystyried y

safbwyntiau hynny wrth adnabod ei gryfderau, ei risgiau a'i flaenoriaethau gwella ar gyfer 2026/27.

Gellir dod i gasgliad bod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol mewn sawl maes, ond bod angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer gwella a datblygu gwasanaethau, ynghyd a sut mae mesur cynnydd. Mae risgiau sylweddol yn parhau o ran cynaliadwyedd ariannol, costau a staffio gwasanaethau gofal, cynaliadwyedd ysgolion, cyfraddau ailgylchu a'r uchelgais i fod yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Mae'r rhain yn feysydd lle mae'r effaith ar drigolion yn uniongyrchol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau amserol, costau gwasanaethau, profiad plant a phobl ifanc, ac ansawdd yr amgylchedd lleol.

Gwelliannau ychwanegol wedi eu hadnabod ar gyfer 2026-27

Gwelliant	Cyfrifoldeb
• Byddwn yn diweddaru adroddiad Llechen Lân yn dilyn cyhoeddi rhagamcanion demograffig newydd, a pharhau i weithredu'r argymhellion gyda ffocws ar ddatblygu dulliau ataliol a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau gofal traddodiadol.	Dylan Owen
• Gweithredu ar yr argymhellion yn dilyn yr Asesiad gan Banel.	Grŵp Llywodraethu

Gwelliannau sydd wedi eu hadnabod o fewn Hunanasesiadau yn y gorffennol ac a fydd yn parhau i 2026/27.

Gwelliant	
Byddwn yn:	**Ein cynnydd hyd yma**
• Mewn ymateb i argymhellion astudiaeth gan Archwilio Cymru byddwn yn edrych i wella'n trefniadau comisiynu gwasanaethau.	• Camau gweithredu wedi eu llunio mewn ymateb i'r argymhellion o fewn astudiaeth Archwilio Cymru. Cyflwynwyd y cynllun i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2026 gyda'r bwriad o fod wedi ymateb yn llawn i'r argymhellion erbyn diwedd 2026/27.
• Gwella hyfforddiant ar adnabod a rheoli risg.	• Mae gwaith i gryfhau trefniadau rheoli risg yn cael ei ddatblygu mewn ymateb i argymhellion gan ein hyswirwyr ac fel rhan o'r Asesiad Perfformiad gan Banel. Bydd hyn yn cynnwys datblygu a darparu rhaglen hyfforddi i Aelodau a rheolwyr fel perchnogion risg, gyda sesiynau adnewyddu blynyddol.
• Gweithredu ar yr argymhellion perthnasol yn adroddiad Local Partnerships.	• Comisiynwyd Local Partnerships yn ystod 2025/26 i gynnal adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor a gwnaed nifer o argymhellion. Mae gan y Grŵp

	Llywodraethu raglen waith ar waith i ymateb i'r argymhellion a ddeilliodd o'r gwaith hwnnw.
• Ystyried sut y gallwn adeiladu ar yr arolwg preswylwyr a drefnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Data Cymru a chael mwy o wybodaeth/tystiolaeth er mwyn ein galluogi i wella gwasanaethau.	• Bu Gwynedd yn rhan o'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol yn 2025, gyda 3,094 o ymatebion. Mae'r canlyniadau'n darparu sail gymharol newydd i ddeall barn trigolion, a bydd y Cyngor yn defnyddio'r canfyddiadau ar y cyd hefo data a gwybodaeth arall er mwyn llywio gwelliannau gwasanaeth. Bwriedir cynnal arolwg preswylwyr eto yn Hydref 2027 a byddwn yn parhau i edrych ar opsiynau er mwyn cael mwy o wybodaeth/tystiolaeth er mwyn ein galluogi i wella gwasanaethau fel rhan o'n hymateb i argymhellion yr Asesiad gan Banel.
• Adolygu'r drefn o adnabod a sgorio risgiau, yn enwedig er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad o ran y broses asesu a sgorio.	• Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol wedi bod yn edrych yn benodol ar y risgiau uchel iawn er mwyn sicrhau bod y risgiau cywir wedi eu cynnwys a bod cysondeb yn y modd y maent yn cael eu sgorio. Mae trefniadau newydd hefyd wedi eu rhoi ar waith i geisio cysoni sgoriau risgiau uchel iawn, ac mae gwaith pellach i gryfhau'r strategaeth a'r gofrestr risg gorfforaethol yn parhau.
• Parhau hefo gwaith i gryfhau ein trefniadau mewnol er mwyn sicrhau bod gofynion/canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth yn elfen greiddiol ac wedi eu hintegreiddio'n well hefo ein gwaith cynllunio corfforaethol.	• Yn ystod 2025/26 parhawyd â'r gwaith o gryfhau'r defnydd o asesiadau effaith, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth ohonynt fel rhan o weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at sicrhau bod gofynion statudol, gan gynnwys cydraddoldeb, y Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cael eu hystyried yn rhan annatod o drefniadau cynllunio a gwneud penderfyniadau'r Cyngor. • Yn ogystal, nodir bod argymhellion yr Asesiad Perfformiad gan Banel yn rhoi pwyslais ar gryfhau'r cysylltiadau rhwng cynllunio corfforaethol, rheoli perfformiad a rheoli risg. Mae cynllun gweithredu er mwyn ymateb i'r argymhellion o fewn yr asesiad wedi ei greu fydd yn cyfrannu at y gwelliant hwn.
• Parhau hefo gwaith o adolygu Cynllun Asedau'r Cyngor er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau yn parhau i fod yn gyfredol yn sgil profiadau a datblygiadau'r blynyddoedd diwethaf.	• Yn ystod 2025/26, parhawyd â'r gwaith o ddatblygu'r trefniadau rheoli asedau yn dilyn mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau 2024–2034 (Gorffennaf 2024). Adolygwyd polisïau perthnasol a chynhaliwyd trafodaethau ag adrannau'r Cyngor i sicrhau bod y blaenoriaethau'n adlewyrchu anghenion a datblygiadau diweddar. Mae'r gwaith o baratoi Cynllun Gweithredu Asedau Eiddo yn parhau ac yn gysylltiedig â datblygu'r Strategaeth Rheoli Eiddo Corfforaethol.

• Edrych i ddatblygu ffordd o fesur gwerth am arian (effeithlonrwydd) ar lefel gwasanaeth fel rhan o'n trefniadau herio perfformiad.	• Mae'r Adran Gyllid wedi dechrau'r gwaith o ddatblygu fframwaith meincnodi er mwyn edrych ar feysydd lle gellir ystyried ymyraethau priodol ar gyfer gwella gwerth am arian lle'n bosib, sy'n cynnwys cymharu gyda chostau cymharol mewn awdurdodau eraill. Mae'r gwaith hwn ar y gweill yn ystod 2026/27 gyda'r bwriad o allu adrodd ar ganlyniadau cychwynnol cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd hyn yn waith parhaus ac mae ystod o ddatrysiadau addas eraill o dan ystyriaeth hefyd, gan gynnwys gweithredu yn unol ag awgrymiadau gan CIPFA.

Tystiolaeth bellach i'n canfyddiadau:

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2024-28

Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd

Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2024-25

Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunan Asesiad Cyngor Gwynedd 2024-25

Datganiad Llywodraethu 2025/26

Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2025-26

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2025-26

Adroddiad Blynyddol 2023-24 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Adroddiad Blynyddol 2024-25 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Strategaeth Cyfranogiad 2023

Cynllun Ffordd Gwynedd 2023 - 28

Cofrestr Risg Corfforaethol

Gweithdy blynyddol gyda'r Rheoleiddwyr a'r Aelodau Cabinet

Adroddiadau perfformiad Aelodau Cabinet unigol

Adroddiad Blynyddol ar y Weithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gyfer 2022-23

Polisi a Chanllaw Caffael Cynaliadwy

Datganiad o'r Cyfrifon 2024-25

Cynllun Asedau Cyngor Gwynedd 2019/20 – 2028/29

Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2025

Adroddiad Archwilio Cymru: Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn - Cyngor Gwynedd

Adroddiad Blynyddol 2025-26 Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd

Cyfrifon Terfynol 2025/26 – Alldro Refeniw

Cyngor Gwynedd – Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol (2024) (archwilio.cymru)
Cynnyrch Archwilio Mewnol
Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd
Arolygon Staff

Cyngor Gwynedd

Adroddiad Blynyddol ar Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2025-26

1. Cyflwyniad

Nod yr adroddiad yw dangos sut mae Cyngor Gwynedd wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bartneriaeth Gymdeithasol.

Mae **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023** (y "Ddeddf SPPP"), a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2024, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys **Cyngor Gwynedd**, lunio adroddiad blynyddol i ddangos sut y maent wedi cydymffurfio â'r **Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol** a sefydlwyd gan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.

Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol geisio **consensws neu gyfaddawd** gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig, pan fyddant:

i. yn pennu eu **hamcanion llesiant**; a
ii. yn gwneud **penderfyniadau strategol** ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae **Adran 16(2)** o'r Ddeddf yn nodi nifer o ofynion penodol sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd, y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus gydymffurfio â hwy wrth "geisio consensws neu gyfaddawd".

Er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawd, rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill o'i staff yn y broses o bennu amcanion neu wneud penderfyniadau, drwy (yn benodol):

a) ymgynghori â hwy ar **gyfnod cynnar** o'r broses, a
b) eu cynnwys drwy gydol y broses drwy:
   i. ddarparu **digon o wybodaeth** iddynt i allu ystyried yn briodol yr hyn a gynigir, a
   ii. darparu **digon o amser** iddynt i ystyried yr hyn a gynigir ac ymateb yn briodol.

Yn ôl **Adran 18** o'r Ddeddf:

1. Rhaid i gorff cyhoeddus baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, adroddiad o'r hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd.
2. Rhaid i'r adroddiad gael ei **gytuno gyda'r undebau llafur cydnabyddedig** neu gynnwys datganiad yn egluro pam na chafodd ei gytuno.

DRAFT

3. Rhaid i'r corff cyhoeddus **gyhoeddi'r adroddiad**, a'i gyflwyno i'r **Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol**, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

2. Cefndir

Yn ogystal a dyletswyddau o dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) mae gofynion o fewn Deddfau eraill megis Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau i fod yn ymgynghori hefo gwahanol garfannau (gan gynnwys staff).

Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu Grŵp Cyswllt rhwng y Cyngor a'r undebau llafur ers nifer o flynyddoedd, i atgyfnerthu'r berthynas iach sydd yn bodoli ar y cyfan ers degawd a mwy. Bwriad y grŵp hwn yw rhoi pwyslais ar gynnal perthnasau gweithio da rhwng y Cyngor a'r Undebau Llafur, gan drafod a datrys materion cyflogaeth cynhennus yn rhagweithiol, yn ogystal â trin a thrafod datblygiad yr amodau gwaith lleol a mentrau cyflogaeth eraill. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan y Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol ac yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Cyngor (Rheolwr y Gwasanaeth Adnoddau Dynol, Rheolwr Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant, swyddogion adnoddau dynol) a chynrychiolwyr o'r Undebau Llafur (GMB, UNISON ac Unite).

Yr undebau llafur a gydnabyddir gan Gyngor Gwynedd yw:

- GMB
- UNISON
- Unite

3. Sut y bu i ni gwrdd/cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Yn ystod 2025/26 parhaodd Cyngor Gwynedd i ddatblygu a chryfhau ei drefniadau partneriaeth gymdeithasol gyda'r undebau llafur, gan adeiladu ar berthynas waith adeiladol sydd wedi bodoli ers nifer o flynyddoedd. Mae'r berthynas hon yn seiliedig ar drafodaeth agored, cydweithio ymarferol a'r nod cyffredin o gefnogi gweithlu'r Cyngor a sicrhau gwasanaethau effeithiol i drigolion Gwynedd.

Rydym yn cyd-gyfarfod fel Grŵp Cyswllt yn fisol fel rheol, ac mae yna hefyd drefniant yn ei le i gyfarfod y swyddogion undeb yn unigol ar sail misol, er mwyn ceisio datrys unrhyw sefyllfaoedd sydd yn unigryw i'r undeb honno. Mae yna gyswllt cadarn rhwng y swyddogion undeb a timau rheoli rhai adrannau unigol hefyd, ond mae lle i ddatblygu mwy ar hynny eto.

DRAFT

Cryfhawyd y trefniadau partneriaeth gymdeithasol yn ystod y flwyddyn drwy gynnal cyfarfodydd rhwng Prif Swyddogion y Cyngor, gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, a'r undebau llafur. Defnyddiwyd y cyfarfodydd hyn i drafod materion strategol sy'n effeithio ar y sefydliad a'r gweithlu, gan gynnwys Cynllun y Cyngor a'r gyllideb. Mae rhaglen o gyfarfodydd bellach mewn lle ddwywaith y flwyddyn, neu yn ôl yr angen, er mwyn cynnal deialog barhaus a chefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.

Fel rhan o'r broses o lunio Hunanasesiad y Cyngor ar gyfer 2025/26, gofynnwyd i'r undebau llafur cydnabyddedig am eu hadborth a'u sylwadau ar berfformiad yr awdurdod a meysydd posibl i'w gwella. Yn benodol, gofynnwyd:

- A yw'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol?
- A yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael?
- A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau perfformiad effeithiol?
- Pa awgrymiadau sydd ganddynt ar gyfer gwella ymgysylltiad a lles staff?

Ni dderbyniwyd ymateb ffurfiol i'r cais hwn ond byddwn yn parhau a'r drafodaeth yng nghyfarfodydd y Grŵp Cyswllt a'r cyfarfod hefo'r Prif Swyddogion.

Mae mabwysiadu *Twf – Siarter y Gymraeg yn y Gwaith* yn enghraifft gadarnhaol o bartneriaeth gymdeithasol ar waith rhwng Cyngor Gwynedd, TUC Cymru a'r undebau llafur cydnabyddedig, sef Unsain, GMB ac Unite. Drwy lofnodi a mabwysiadu'r Siarter, daeth Cyngor Gwynedd y gweithle cyntaf yng Nghymru i wneud hynny, gan ddangos ymrwymiad clir i hyrwyddo a chryfhau'r Gymraeg fel iaith waith o fewn y sefydliad.

Drwy'r gwaith hwn, adlewyrchir ymrwymiad ar y cyd i sicrhau bod hawliau ieithyddol gweithwyr yn cael eu parchu, bod cynhwysiant yn cael ei hybu, a bod arweinyddiaeth ac atebolrwydd clir wrth ddatblygu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Yn ogystal, mae'n cefnogi'r egwyddor bod gweithwyr yn gallu cael mynediad at gynrychiolaeth undeb yn eu dewis iaith, gan gryfhau llais staff a'r berthynas waith rhwng y Cyngor a'r undebau.

Sefydlwyd **Fforwm Cydraddoldeb Staff** sy'n darparu sianel bwysig i staff gyfrannu at drafodaethau ar gydraddoldeb, cynhwysiant, llesiant a phrofiad gwaith. Mae'r trefniant yn cryfhau llais staff ac yn galluogi'r Cyngor i ddefnyddio profiadau ac adborth gweithwyr i lywio datblygiad polisïau, trefniadau cyflogaeth ac arferion gwaith. Mae hyn yn ategu egwyddorion partneriaeth gymdeithasol drwy hyrwyddo deialog agored, cyfranogiad staff a diwylliant gwaith teg a chynhwysol.

Fel rhan o'r adolygiad o amodau gwaith, rhoddir sylw i faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y gweithlu, gan gynnwys amodau gwaith, cydraddoldeb a chynhwysiant, trefniadau Canu'r Gloch, ymateb i aflonyddu rhywiol, tryloywder ac atebolrwydd, a newidiadau deddfwriaethol perthnasol.

Drwy ymgysylltu â'r undebau llafur ar y materion hyn, gall y Cyngor sicrhau bod safbwyntiau a phrofiadau'r gweithlu yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau ac arferion gwaith. Mae hyn yn ategu egwyddorion partneriaeth gymdeithasol drwy hyrwyddo deialog adeiladol, cyfranogiad cynnar a chydweithio ar faterion sydd â goblygiadau uniongyrchol i staff.

Ers Ebrill 2025 y mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid i'n galluogi i gefnogi'r undebau i ryddhau staff er mwyn ymgymryd â gweithgareddau undebau. Mae hyn yn rhoi mwy o sicrwydd y gellir rhyddhau staff o'u swyddi er mwyn ymgymryd â'u rolau gyda'r undebau.

I'r dyfodol bydd y Cyngor yn parhau gydag ymdrechion i wreiddio'r egwyddor o bartneriaeth gymdeithasol a meithrin perthynas adeiladol gyda'r undebau llafur. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

1. **Partneriaeth Gymdeithasol:** Cryfhau ymhellach y berthynas adeiladol gyda'r undebau llafur a datblygu trefniadau partneriaeth gymdeithasol ar draws y Cyngor.
2. **Cynllunio Gweithlu:** Datblygu cynllun gweithlu strategol i gefnogi cynllunio olyniaeth, datblygu sgiliau a sicrhau bod gan y Cyngor y capasiti a'r arbenigedd angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.
3. **Polisïau a Hyfforddiant:** Adolygu polisïau a threfniadau cyflogaeth er mwyn ymateb i newidiadau deddfwriaethol (e.e. Deddf Hawliau Cyflogaeth) gan sicrhau bod rheolwyr yn cael y gefnogaeth a'r hyfforddiant priodol i weithredu'r newidiadau hynny'n gyson ac yn effeithiol.
4. **Presenoldeb, Iechyd a Llesiant:** Parhau i ddatblygu trefniadau sy'n cefnogi presenoldeb cadarnhaol yn y gwaith, gyda ffocws arbennig ar leihau absenoldebau tymor hir, cefnogi iechyd meddwl a llesiant staff, a sicrhau bod rheolwyr yn meddu ar yr offer a'r hyder i reoli achosion yn effeithiol ac yn sensitif.
5. **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant:**
   Gweithredu'r camau gweithredu perthnasol o'r Cynllun Cydraddoldeb 2024-28, gan sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hymgorffori ym mhob agwedd ar waith y gwasanaeth a phenderfyniadau cyflogaeth y Cyngor.

DRAFT

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Argymhellion yn deillio o Asesiad Perfformiad Panel – Ymateb y Cyngor
Aelod Cabinet:	Cyng. Nia Jeffreys
Swyddog perthnasol:	Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr
Dyddiad y cyfarfod:	10 Tachwedd 2026

1. Y Penderfyniad a Geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

1. Groesawu a derbyn argymhellion yr adroddiad Asesiad Perfformiad gan Banel yn llawn ac i weithredu'r argymhellion cyn gynted a phosib.
2. Gymeradwyo'r ymateb drafft a'r Cynllun Gweithredu i argymhellion yr Asesiad, ac argymell i'r Cyngor Llawn eu mabwysiadu yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2026.
3. Nodi bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi adolygu'r ymateb drafft ar 22 Hydref 2026 ac nad oedd yn argymell unrhyw newid iddo.
4. Cefnogi'r bwriad i gyflwyno diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ymhen 12 mis ar y cynnydd wrth weithredu'r argymhellion.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i drefnu Asesiad Perfformiad Panel o leiaf **unwaith** o fewn cylch etholiadol, ac i lunio ymateb i gasgliadau ac argymhellion yr asesiad.

Cyflwynir yr adroddiad a'r ymateb drafft i'r Cabinet er mwyn ystyried y canfyddiadau a'r camau gweithredu arfaethedig, cyn argymell eu mabwysiadu gan y Cyngor Llawn. Yn unol â threfniadau'r Cyngor, y Cyngor Llawn sy'n gyfrifol am fabwysiadu'r ymateb i adroddiad ac argymhellion y Panel.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Cefndir

Mae'r Asesiad Perfformiad Panel yn rhan o'r fframwaith statudol ar gyfer adolygu perfformiad a threfniadau llywodraethu llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n gysylltiedig â'r ddyletswydd i gynnal hunanasesiad blynyddol, ac yn ystyried y graddau y mae'r Cyngor:

- yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; ac
- â threfniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau'r uchod.

Nid archwiliad nac arolygiad yw'r Asesiad Perfformiad Panel. Dylid darllen ei gasgliadau ochr yn ochr â hunanasesiad y Cyngor, gwaith archwilio mewnol, ac adolygiadau archwilio a rheoleiddio allanol. Mae'r adroddiad, fodd bynnag, yn darparu her annibynnol werthfawr ac yn nodi meysydd datblygu a fydd yn cryfhau gallu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau'n gynaliadwy.

Comisiynwyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnal yr asesiad o'r Cyngor; dyma sydd wedi digwydd ym mhob Cyngor arall yng Nghymru hefyd. Roedd y Panel Asesu yn cynnwys 4 person, gan gynnwys Cadeirydd annibynnol; cymar o'r sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol ehangach; uwch swyddog llywodraeth leol sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd (lefel PW neu Gyfarwyddwr) ac uwch aelod etholedig o Gyngor arall. Ceir rhestr o'r aelodau ar gyfer y Panel yng Ngwynedd isod:

- Emlyn Dole – Cadeirydd (Cyn Arweinydd Cyngor Sir Gâr)
- Cyng. Gwyneth Ellis – Aelod Etholedig (Cyngor Sir Ddinbych)
- Rob Thomas – Uwch Swyddog (Prif Weithredwr Cyngor Bro Morgannwg)
- Sian Elin Flint Freel – cymar o'r sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol ehangach

Cynhaliwyd y gwaith ar y safle dros bedwar diwrnod, rhwng 10 a 13 Mawrth 2026. Roedd yn cynnwys adolygu dogfennau, data ac adroddiadau allanol, ynghyd â chyfarfodydd a grwpiau ffocws gydag aelodau etholedig, swyddogion, staff, undebau llafur, partneriaid, busnesau, trigolion a chynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned.

Canolbwyntiodd y gwaith ar dair thema yr oedd y Cyngor wedi'u hadnabod fel meysydd lle byddai mewnwelediad allanol yn arbennig o werthfawr:

- **Llywodraethu ac Arweinyddiaeth:** I ba raddau mae'r arweinwyr gwleidyddol ac uwch swyddogion yn gosod cyfarwyddyd clir ac yn annog newid, ac a yw'r strwythurau llywodraethu a'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau'n ddigon cadarn i sicrhau canlyniadau hirdymor gwell ar gyfer preswylwyr?
- **Cynllunio Strategol, Adnoddau a Chapasiti:** A oes gennym ni'r capasiti a'r gallu i ddarparu ein blaenoriaethau strategol, ac a yw'r adnoddau sydd ar gael wedi'u halinio'n effeithiol â'r blaenoriaethau hyn?
- **Monitro, Mesur a Gwerthuso Perfformiad:** A oes gennym ni drefniadau priodol ar waith i fonitro ac asesu perfformiad y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid a thrigolion i sicrhau gwelliant parhaus?

Gweler yn **Atodiad 1** raglen yr wythnos sy'n dangos ehangder y gwaith a'r amrediad eang o gyfleodd i herio ac arsylwi a gafodd y panel tra yma.

3.2 Prif ganfyddiadau'r Asesiad

Daeth y Panel i'r casgliad fod Cyngor Gwynedd yn cyflawni ei ddyletswyddau perfformiad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Casglwyd fod trefniadau llywodraethu cadarn yn eu lle, perthnasoedd adeiladol rhwng aelodau a swyddogion, ac ymrwymiad clir i welliant parhaus. Amlygwyd hefyd falchder cryf yn y Sir, ymrwymiad i'w hunaniaeth ddiwylliannol a chymdeithasol, ac enw da'r Cyngor fel partner rhanbarthol dibynadwy a chydweithredol.

Ar yr un pryd, amlygwyd fod y Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sy'n fwyfwy cyfyngol ynghyd â heriau'r gweithlu, a bod hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd cyflymu trawsnewid sefydliadol gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes. Dylai'r Cyngor hefyd uno ei drefniadau rheoli perfformiad a risg yn gryfach, gan sicrhau cysylltiad clir â'r Cynllun Corfforaethol a pharhau i gefnogi penderfyniadau tryloyw, craffu cadarn a her adeiladol.

Derbyniwyd copi terfynol o'r Adroddiad Asesiad Perfformiad gan Banel ym mis Mehefin 2026 ac mae'n cynnwys 7 o argymhellion adeiladol i'r Cyngor eu hystyried. Ceir copi llawn o'r Adroddiad Asesiad Perfformiad gan Banel yn **Atodiad 2**.

3.3 Argymhellion y Panel

Yn unol ag Adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio ymateb i adroddiad yr Asesiad Perfformiad Panel, gan nodi:

A. I ba raddau y mae'r cyngor yn derbyn casgliadau'r adroddiad ynghylch i ba raddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad;

- Argymhellir y dylid croesawu a derbyn canfyddiadau ac argymhellion yr Asesiad Perfformiad Panel yn llawn. Mae nifer o'r argymhellion yn faterion oedd wedi eu hadnabod eisoes gan y Grŵp Llywodraethu a rhai ar waith.

- Roedd yn hynod werthfawr cael Panel o unigolion profiadol yma am wythnos a bu eu gwaith yn drylwyr a chynhwysol. Bu arsylwi a herio ar waith Aelodau a Swyddogion ac ystyriwyd swmp sylweddol o ddogfennaeth perthnasol. Roedd yn arbennig o werthfawr derbyn barn annibynnol gan unigolion sydd wedi cyfrannu a gweithio mewn rolau arweiniol mewn Llywodraeth Leol ar hyd a lled y wlad.

- Mae casgliadau yr adroddiad yn gadarnhaol ac yn rhoi hyder i ni fod y Cyngor yn gweithredu'n briodol wrth gyflawni ein dyletswyddau. Mae hynny i'w groesawu yn amlwg, ond mae hefyd yn cynnig argymhellion a fyddai, o'u mabwysiadu, yn cynnig y cyfle i ni anelu hyd yn oed yn uwch a chyflawni yn well ar ran trigolion Gwynedd.

B. i ba raddau y mae'r cyngor yn bwriadu gweithredu unrhyw argymhellion yn yr adroddiad; ac

C. unrhyw gamau y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

Mae Argymhellion y Panel fel a ganlyn:

Argymhelliad	Manylion yr Argymhelliad
Argymhelliad 1a *Cynllunio Strategol*	Dylai Cyngor Gwynedd adeiladu ar y dull presennol sy'n seiliedig ar themâu wrth baratoi a datblygu'r Cynllun Corfforaethol nesaf, gyda ffocws ar: • Cynllunio hirdymor. • Gosod gweledigaeth ar gyfer Gwynedd a'r gwerthoedd sy'n hanfodol i'w chyflawni. • Sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer y Cyngor a Gwynedd fel lle. • Cynnwys staff, aelodau a'r gymuned ehangach i ddatblygu a chyflawni Cynllun Corfforaethol sy'n seiliedig ar le. • Alinio'n llawn â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth Trawsnewid y Cyngor.
Argymhelliad 1b *Cynllunio Strategol*	Dylai Cyngor Gwynedd adolygu capasiti ei arweinyddiaeth strategol ar lefel weithredol er mwyn ei alluogi i gyflawni ei flaenoriaethau allweddol a chynllunio ar gyfer yr hirdymor.
Argymhelliad 2a *Trawsnewid*	Sicrhau bod y gweithlu yn greiddiol i'r gwaith cynllunio strategol a thrawsnewidiol yn y dyfodol, gan ddod â'r gwahanol feysydd ymarfer sydd eisoes yn bodoli o fewn y Cyngor ynghyd, er mwyn sicrhau dull Cyngor cyfan o gynnwys ac ymgysylltu mewnol.
Argymhelliad 2b *Trawsnewid*	Dylai Cyngor Gwynedd ddatblygu dull trawsnewidiol unedig sy'n gosod cyfeiriad cyffredinol a blaenoriaethau newid y sefydliad yn glir. Dylai'r dull hwn: • Weithredu ar lefel strategol y sefydliad cyfan. • Parhau i sylweddoli a defnyddio gwerth partneriaid. • Cael ei integreiddio â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a'i ariannu drwyddo. • Darparu sail gadarn ar gyfer diogelu gwydnwch ariannol hirdymor y sefydliad.
Argymhelliad 3 *Gweithio mewn Partneriaeth*	Er mwyn meithrin capasiti a chryfhau cydweithio gyda phartneriaid: • Dod â strategaeth economaidd fabwysiedig yn fyw ar bob lefel ledled Gwynedd. • Gwireddu potensial gweithio mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned.

	• Cynyddu gallu'r Cyngor i gyflawni ei uchelgeisiau economaidd a chymdeithasol. • Sicrhau bod Cytundeb Mantell Gwynedd yn cael ei weithredu a'i fonitro'n llawn.
Argymhelliad 4 *Rheoli Risg*	Mae angen i Gyngor Gwynedd ddatblygu a chytuno ar strategaeth risg gorfforaethol sy'n mynegi archwaeth risg y Cyngor ac yn: • Sicrhau cofrestr a strategaeth risg gorfforaethol gyfoes. • Diffinio rôl y tîm arweinyddiaeth, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cabinet a'r Cyngor Llawn wrth oruchwylio a monitro'r strategaeth a'r gofrestr yn rheolaidd. • Ystyried anghenion hyfforddi a datblygu aelodau ar oruchwylio risg y Cyngor.
Argymhelliad 5 *Rheoli Perfformiad*	Dylai Cyngor Gwynedd fireinio ac uno ei drefniadau rheoli perfformiad, gyda ffocws penodol ar ddangos cyfraniadau tuag at: • Gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. • Gysylltu â risgiau corfforaethol ac adrannol. • Gynyddu cyfleoedd her gan gymheiriaid ar draws a thu hwnt i'r Cyngor.

Mewn ymateb, mae Cynllun Gweithredu drafft **(Atodiad 3)** wedi'i lunio sy'n amlinellu'r camau gweithredu a'r trefniadau y bwriedir eu rhoi yn eu lle i fynd i'r afael â'r argymhellion a chefnogi gwelliant parhaus.

3.4 Ystyriaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Cyflwynwyd adroddiad yr Asesiad Perfformiad Panel a'r ymateb drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar y 22ain Hydref 2026.

Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr ymateb drafft i'r adroddiad, gan nodi nad oedd unrhyw newid yn cael ei argymell i'r ymateb. Yn ogystal, croesawyd y bwriad i gyflwyno diweddariad ymhen 12 mis ar y cynnydd wrth weithredu'r argymhellion.

O ganlyniad, cyflwynir yr ymateb drafft i'r Cabinet heb unrhyw newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor.

4. Goblygiadau ac ystyriaethau perthnasol

4.1 Adnoddau a chyllid

Mae argymhellion y Panel yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod blaenoriaethau strategol a gwaith trawsnewid y Cyngor yn cyd-fynd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Nid yw adroddiad y Panel yn nodi cyfanswm cost gweithredu'r argymhellion a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig nac yn cynnwys cais penodol am gyllid ychwanegol. Bydd hyn yn derbyn ystyriaeth wrth ddatblygu'r cynlluniau unigol o fewn y Cynllun gweithredu.

4.2 Risgiau

Mae'r Panel wedi amlygu'r angen i ymateb i bwysau ariannol a heriau'r gweithlu, a chryfhau'r cysylltiad rhwng cynllunio, perfformiad a risg. Mae'r ymateb drafft a'r Cynllun Gweithredu yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn.

4.3 Cydraddoldeb, y Gymraeg a llesiant

Nid yw'r adroddiad yn asesu'n benodol sut y byddai mabwysiadu'r ymateb yn effeithio ar gydraddoldeb, y Gymraeg na llesiant. Bydd angen ystyried goblygiadau ar gyfer y tri maes wrth ddatblygu'r cynlluniau unigol o fewn y Cynllun Gweithredu.

5. Camau nesaf ac amserlen

Yn dilyn ystyriaeth y Cabinet, cyflwynir adroddiad yr Asesiad Perfformiad Panel a'r ymateb drafft, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu ac unrhyw addasiadau sy'n deillio o drafodaeth y Cabinet, i'r Cyngor Llawn ar 3 Rhagfyr 2026 i'w mabwysiadu.

Yn dilyn mabwysiadu'r ymateb, trefnir cyhoeddi adroddiad terfynol yr Asesiad Perfformiad Panel ac ymateb y Cyngor. Darperir copïau i aelodau'r Panel Asesu, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Estyn a Gweinidogion Cymru yn unol â'r gofynion statudol.

6. Sylwadau Swyddogion Statudol

6.1 Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Asesiad Perfformiad gan Banel yn cynnig argymhellion defnyddiol ar gyfer cryfhau ymhellach trefniadau llywodraethu'r Cyngor. Bydd swyddogion Cyllid yn cefnogi'r Cyngor fel bo'r angen wrth iddo fynd i'r afael â'r cynllun gweithredu.

6.2 Swyddog Monitro

Sefydlwyd trefniadau Perfformiad ac Asesiadau Perfformiad yn Rhan 6 o Deddf Lywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fel cyfundrefn newydd a ddaeth i rym rhwng 2021 a 2022. Mae cwblhau yr Asesiad Perfformiad gan Banel yn cynrychioli gwireddu rhan olaf o'r camau sydd angen eu cyflawni o fewn tymor y Cyngor presennol. Mae felly yn gam arwyddocaol yn yr ystyr yna. Amlygir y daith gwblhau yr Asesiad Panel yn yr adroddiad . Mater i'r Cyngor Llawn fydd derbyn yr adroddiad a chymeradwyo y cynllun ymateb yn dilyn ar ystyriaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rwy'n fodlon fod y broses wedi ei gweithredu yn unol a'r gofynion statudol ac o fewn yr amserlen ar gyfer cyhoeddi yr ymateb.

Atodiad 1 - Rhaglen wythnos yr ymweliad gan y Panel

Atodiad 2 - Adroddiad Asesiad Perfformiad gan Banel Cyngor Gwynedd: Mawrth 2026

Atodiad 3 – Cynllun Gweithredu er mwyn ymateb i Argymhellion yr Asesiad Perfformiad gan Banel

AMSERLEN ASESU PANEL PERFFORMIAD - Cyngor Gwynedd

10 Mawrth 2026 - 13 Mawrth 2026

Diwrnod 1				
08:30 - 09.30	**Cyrraedd, pasiau ymwelwyr, housekeeping e.g. diogelwch a cylchdaith (30 munud)**			
	Amser cyn cyfarfod i'r Panel y Cyfoedion - (30 munud) Base Camp (Ystafell Prif Weithredwr)			
9.30 - 10.00	**Cyflwyniad Llawn i'r Panel (Y Cyngor i benderfynu ar y mynychwyr, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Arweinydd o leiaf): Siambr Hywel Dda**			
10:00 - 11:30	Cabinet Focus Group [wyneb yn wyneb] - **Siambr Hywel Dda**			
11:30 - 12:30	Prif Weithredwr 1-2-1 Ystafell Gwyrfai	Swyddog Monitro 1-2-1, **Ystafell Iwan Evans**		
12:30 - 13:30	**Cinio (1 awr)**			
13:30 - 15:00	Aled Jones-Griffith, Prif Weithredwr Grŵp Llandrillo-Menai **(rhithiol - Teams)** (1:00-2:00y.p). **Ystafell Yr Arweinydd**	Bethan Williams, Mantell Gwynedd **Gwyrfai** (wyneb-yn-wyneb)(1:30-2:30y.p)		Arsylwi Cyfarfod Cabinet mewn person/arlein
15:00 - 16:00	Grŵp Ffocws: Arweinwyr y Grŵp Gwrthblaid **Rhithiol** (Teams) - **Gwyrfai**	Cyfarwyddwr Corfforaethol Catrin Thomas - **Swyddfa Catrin Thomas**		
16:00 - 17:00	Fforwm Ieuenctid (**Rhithiol - Teams**) - **Gwyrfai**	Alwen Williams, Bwrdd Uchelgais (Rhithiol) - **Teams - Ystafell Yr Arweinydd**		
17:00 - 18:00	**Wedi'i ddal ar gyfer adborth diwedd y dydd**			

Diwrnod 2			
09:00 - 10.30	Grŵp Thematig: Arweinyddiaeth a Llywodraethu mewn person - Siambr Hywel Dda		
10.30 - 11.30	Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol Dylan Owen - **Ystafell Dylan Owen**	Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Llywodraethu ac Archwilio - **Rhithiol** (Zoom) **(Gwyrfai)**	
11:30 - 12.00			
12:00 - 13:00	Panel Trigolion Grŵp Ffocws - **Rhithiol (Zoom) - Gwyrfai**	Staff [Grŵp Ffocws] - **Siambr Hywel Dda**	Cyfweliad Unigol: **Nia Wyn Jeffreys, Arweinydd Cabinet**. 12:30-1:30y.p. Ystafell Arweinydd Cabinet
13:00 - 14:00	**Cinio**		
14:00 - 15:00		Ar Gadw: Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd	Grŵp Ffocws Undebau (UNSAIN) 2:00-

	Grŵp Ffocws Fforwm Busnes - **Rhithiol** (Teams) - **Gwyrfai**	Dem Services Manager - Vera Jones 1-2-1 - Ystafell Vera Jones mewn person	2:30y.p (**mewn person**) **Desg 8 Hen Glinic C-1011**
15:00 - 16:30	Grŵp Thematig: Cynllunio Strategol, Adnoddau a Chapasiti **Siambr Hywel Dda**	Grŵp Ffocws Craffu - Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion 15:00 - 16:00 **Rhithiol** (teams) **Gwyrfai**	
Wedi'i ddal ar gyfer adborth diwedd y dydd			

Diwrnod 3

9.00 - 10.00	Grŵp Ffocws Cwmnïau Hyd-braich (wyneb-yn-wyneb)	Grŵp Thematig: Monitro, Mesur a Gwerthuso Perfformiad 9:00-10:30y.b **Siambr Hywel Dda**	
10.00 - 11.00	Grŵp Ffocws Undebau - **Rhithiol** (**Gwyrfai**)	Hold: Arweinydd Gofal Cwsmer - Joanne Parry a Catrin Love **Desg 8 Hen Glinic C-1011**	**Sgwrs Unigol: Llio Elenid Owen (Rhithiol) - Ystafell Arweinydd**
11.00 - 11.15	**Break (15mins)**		
11.15 - 12.15	Grŵp Ffocws Penaethiaid Gwasanaeth Heads of Service Focus Group **Gwyrfai**	Grŵp Ffocws Aelodau Mainc Gefn Mewn Person / Hybrid **Siambr Dafydd Orwig** 11:15 - 12:45	
12.15 - 1.15	151 Officer 1-2-1 Dewi Morgan - **Ystafell Gwyrfai** **1:00-2:00y.p**		
1.15 - 2.00	**Cinio (45 mins)**		
2.00 - 3.00	Cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned: Grwp Ffocws **(rhithiol) - Gwyrfai**		Parc Cenedlaethol Eryri - Jonathan Cawley **- Rhithiol - ystafell Nia Wyn Jeffreys**
3.00 - 4.00	Cyngor Môn a Chyngor Wrecsam **- Rhithiol - - Gwyrfai**	Fforwm Ieuenctid (Rhithiol) - **Desg 8 Hen Glinic C-1011**	**Sgwrs Unigol: Huw Wyn Jones (Rhithiol)**
04:00 - 05:00	**Wedi'i ddal ar gyfer adborth diwedd y dydd**		

Diwrnod 4

9.00 - 12.00	**PARATOI ADBORTH**
1.00 - 2.30	**SESIWN ADBORTH FFURFIOL - Siambr Hywel Dda** **Panel i'r Cyngor (gwahoddedigion yn ôl disgresiwn y cyngor)**



Adroddiad Asesiad Perfformiad Panel
Cyngor Gwynedd: Mawrth 2026

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad 2
Crynodeb Gweithredol 3
Y Panel 5
Cwmpas a Dull 5
Trefniadaeth Wleidyddol 6
Trefniadaeth Gorfforaethol 7
Heriau Lleol a Chenedlaethol 8
Cryfderau a Meysydd Arloesi 9
Gofyniad Perfformiad: Mae mesurau llywodraethu effeithiol ar waith 10
Gofyniad Perfformiad: Y graddau y mae'r Cyngor yn defnyddio'i adnoddau'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon 11
Gofyniad Perfformiad: Arfer ei swyddogaethau'n effeithiol 18
Cydnabyddiaeth 23

1.0 Cyflwyniad

1.1 Yn unol â'r dyletswyddau perfformiad dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, comisiynodd Cyngor Gwynedd Asesiad Perfformiad Panel (APP) trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

1.2 Cwblhawyd yr asesiad ar y safle dros gyfnod o bedwar diwrnod, a ddaeth i ben ar 13 Mawrth 2026 a chyflwynwyd adborth i'r Cyngor yn egluro'r prif argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

1.3 Cynhaliwyd yr asesiad yn seiliedig ar y ddogfen gwmpasu y bu i'r Cyngor gytuno arni a methodoleg APP CLlLC, a ddatblygwyd gyda'r sector.

1.4 Yn unol â'r canllawiau statudol, nid archwiliad nac arolygiad yw'r APP ac nid yw'n ceisio dyblygu'r gwaith a wneir gan reoleiddwyr a chyrff eraill. Er bod y panel wedi cynnal asesiad corfforaethol, dylid ystyried yr asesiad hwn ochr yn ochr â ffynonellau sicrwydd eraill fel hunanasesiad y Cyngor ei hun, adolygiadau archwilio mewnol ac adolygiadau archwilio a rheoleiddio allanol.

1.5 Er mwyn sicrhau fod yr APP wedi mynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf i'r sefydliad, cynhyrchodd y Cyngor ddogfen gwmpasu'n amlinellu nifer o feysydd ychwanegol i'w hystyried gan y panel. Amlinellir y meysydd ffocws cytunedig hyn ym mharagraff 4.2.

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cryno o gasgliadau'r panel a adroddir yn ôl eithriadau.

1.7 Fel rhan o'i waith paratoadol, ystyriodd y panel y canfyddiadau a oedd ar gael yn gyhoeddus a'r gwaith parhaus mewn perthynas â'r Adolygiad Ymarfer Plant annibynnol sy'n cael ei gynnal yng Nghyngor Gwynedd, fel rhan o'i ddarllen ymlaen llaw er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth gyd-destunol briodol. Fodd bynnag, gan gydnabod bod y Cyngor wedi sefydlu panel arbenigol ar wahân i archwilio'r mater hwn yn fanwl, bu'r panel APP yn ofalus i beidio â dyblygu gwaith nac ymyrryd â chylch gwaith, cwmpas na llinellau ymholi'r gwaith hwnnw. Yn hytrach, canolbwyntiodd y panel yn llwyr ar drefniadau llywodraethu corfforaethol, perfformiad a threfniadaeth ehangach y Cyngor, gan sicrhau gwahaniaeth clir rhwng yr APP statudol a gwaith yr Adolygiad Ymarfer Plant.

Crynodeb Gweithredol

2.0 Casgliad Cyffredinol

2.1 Yn gyffredinol, er ei fod yn gweithredu o fewn amgylchedd economaidd ac ariannol heriol a rennir gan gynghorau ledled Cymru, canfu'r panel fod Cyngor Gwynedd yn cyflawni ei ddyletswyddau perfformiad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r Cyngor yn dangos trefniadau llywodraethu cadarn yn gyffredinol, perthnasoedd adeiladol a pharchus rhwng aelodau a swyddogion, ac ymrwymiad clir i welliant parhaus. Ochr yn ochr â'r cryfderau hyn, nododd y panel amrywiaeth o feysydd lle byddai datblygiad pellach yn gwella gallu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau'n effeithiol ac yn gynaliadwy dros y tymor canolig i'r hirdymor. Gyda'i gilydd, mae canfyddiadau'r panel yn tynnu sylw at nifer o themâu rhyng-gysylltiedig sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ariannol y Cyngor, ei gapasiti sefydliadol, rheoli perfformiad a risg, a'i ddull o weithredu trawsnewidiol.

2.2 Nododd y panel y balchder amlwg yng Ngwynedd a rennir gan staff, aelodau etholedig a phartneriaid lleol, ynghyd ag ymrwymiad cyfunol cryf i weithio gyda'i gilydd er budd y sir. Adlewyrchwyd yr ymdeimlad hwn o le a phwrpas a rennir yn gyson mewn trafodaethau ar draws gwasanaethau a sectorau, gyda rhanddeiliaid yn pwysleisio gwreiddiau dwfn y Cyngor yn ei gymunedau a'i ymrwymiad i ddiogelu a hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol a chymdeithasol Gwynedd.

2.3 Mynegodd partneriaid ar lefel leol a rhanbarthol barch at arweinyddiaeth y Cyngor a'i ddull cydweithredol, gan gydnabod Cyngor Gwynedd fel presenoldeb adeiladol, dibynadwy ac y gellir ymddiried ynddo o fewn strwythurau rhanbarthol. Tynnodd llawer sylw at barodrwydd y Cyngor i ymgysylltu'n agored, rhannu gwybodaeth, cydweithio ar faterion cymhleth ac, lle bo'n briodol, ysgwyddo rôl arweiniol ar ran y sector a'r rhanbarth, gan gynnwys ei gyfraniad at sefydlu a chefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn barhaus. Roedd brwdfrydedd amlwg ymhlith partneriaid i adeiladu ar y perthnasoedd hyn wrth i heriau a chyfleoedd barhau i esblygu.

2.4 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i wynebu pwysau ariannol sy'n fwyfwy cyfyngol a heriau di-baid o ran y gweithlu, gan atgyfnerthu pwysigrwydd cyflymu ei ymdrechion trawsnewid sefydliadol. Trwy adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes a mynd i'r afael â'r gwaith hwn gyda momentwm o'r newydd, bydd y Cyngor mewn sefyllfa well i gryfhau ei wydnwch, addasu'n hyderus i gyfyngiadau ariannol, ac achub ar gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer twf hirdymor, cynaliadwy.

2.5 Wrth i'r Cyngor ddechrau edrych ymlaen at iteriad nesaf ei Gynllun Corfforaethol, bydd yn bwysig ystyried trawsnewid, cynllunio'r gweithlu, a chynaliadwyedd ariannol fel blaenoriaethau rhyng-gysylltiedig. Bydd dull cyfannol yn helpu i sicrhau bod model gweithredu'r sefydliad i'r dyfodol yn gydlynol, yn ymarferol, ac yn cyd-fynd â'r cyfeiriad strategol y mae'r Cyngor yn dymuno ei osod ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

2.6 Er bod Cyngor Gwynedd wedi sefydlu ystod o drefniadau rheoli perfformiad a risg, nid ydynt eto'n gweithredu fel fframwaith corfforaethol cwbl unedig. Mae amrywiadau mewn arfer adrannol, diffyg strategaeth risg gorfforaethol glir ac archwaeth risg wedi'i diffinio, a chysylltiadau anghyson rhwng perfformiad, risg a chyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i gael golwg gydlynol, sefydliadol gyfan o

gyflawni a phwysau sy'n dod i'r amlwg, ac i ddangos yn glir sut mae'r materion hyn yn cael eu datrys ar lefel gorfforaethol.

2.7 Nododd y panel nifer o ddatblygiadau cadarnhaol, gan gynnwys trefniadau her perfformiad strwythuredig, adrodd gwell i'r Cabinet, a chamau diweddar i gryfhau rôl craffu mewn rheoli perfformiad, a chafodd y rhain oll groeso eang gan y rhai a ymgysylltodd â'r panel. Byddai mynd i'r afael â'r bylchau sy'n weddill drwy uno trefniadau rheoli perfformiad ymhellach a chryfhau dull corfforaethol y Cyngor o reoli risg yn gwella llywodraethu ac yn cefnogi penderfyniadau mwy gwybodus.

2.8 Mae'r aliniad cryf rhwng arweinyddiaeth gorfforaethol a gwleidyddol yn cael ei ategu gan gydweithredu adeiladol a phroffesiynol rhwng y Cabinet ac uwch swyddogion, gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau cydlynol a chyflawni'n gyson. Mae'r berthynas hon yn ased i'r sefydliad ac yn cefnogi ymdeimlad o bwrpas a rennir ar draws haenau arweinyddiaeth. Wrth i'r perthnasoedd gwaith agos hyn barhau, bydd yn bwysig eu bod yn dal i gael eu cefnogi gan drefniadau clir ar gyfer tryloywder, pellter proffesiynol priodol a chraffu cadarn, gan gynnwys dulliau adborth sy'n dangos sut y mae her ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi llywio penderfyniadau, fel bod yr her adeiladol bresennol yn parhau'n weladwy a bod safonau llywodraethu presennol yn cael eu cynnal.

3.0 Y Panel

3.1 Comisiynwyd y cymheiriaid canlynol gan CLILC i gynnal yr asesiad. Cytunwyd ar y detholiad o gymheiriaid yn ôl disgresiwn y Cyngor, ar sail addasrwydd eu sgiliau a'u profiad:

- Cadeirydd Annibynnol: Emlyn Dole (Cyn Arweinydd Cyngor: Cyngor Sir Gâr)
- Uwch Aelod y Cymheiriaid: Gwyneth Ellis (Cyngor Sir Ddinbych)
- Uwch Swyddog y Cymheiriaid: Rob Thomas (Prif Weithredwr, Cyngor Bro Morgannwg)
  Cymar o'r Sector Cyhoeddus, Preifat neu Wirfoddol Ehangach: Siân-Elin Flint Freel (Ymgynghorydd)

3.2 Cefnogwyd y panel gan Joseph Lewis (Uwch Swyddog Polisi: Gwelliant) a Sarah Evans (Uwch Swyddog Cefnogi: Gwelliant).

4.0 Cwmpas a Dull

4.1 Roedd gofyn i'r panel asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn:

- Arfer ei swyddogaethau'n effeithiol
- Defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; a
- Gweithredu trefniadau llywodraethu effeithiol i sicrhau'r uchod.

4.2 Nododd y Cyngor y cwestiynau canlynol i'w hystyried gan y panel fel rhan o'r asesiad:

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth: I ba raddau mae'r arweinwyr gwleidyddol ac uwch swyddogion yn gosod cyfarwyddyd clir ac yn annog newid, ac a yw'r strwythurau llywodraethu a'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau'n ddigon cadarn i sicrhau canlyniadau hirdymor gwell ar gyfer preswylwyr?

Cynllunio Strategol, Adnoddau a Chapasiti: A oes gennym ni'r capasiti a'r gallu i ddarparu ein blaenoriaethau strategol, ac a yw'r adnoddau sydd ar gael wedi'u halinio'n effeithiol â'r blaenoriaethau hyn?

Monitro, Mesur a Gwerthuso Perfformiad: A oes gennym ni drefniadau priodol ar waith i fonitro ac asesu perfformiad y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid a thrigolion i sicrhau gwelliant parhaus?

4.3 Fel rhan o'r asesiad, cynhaliodd y panel adolygiad o ddogfennau, data, adroddiadau allanol a gwybodaeth berthnasol arall y Cyngor. Roedd y rhan honno o'r adolygiad a gynhaliwyd ar y safle'n cynnwys cyfres o gyfarfodydd unigol a grwpiau ffocws gyda'r budd-ddeiliaid canlynol:

- Arweinydd y Cyngor a'r Cabinet
- Y Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151
- Penaethiaid Adrannau a Swyddogion Allweddol y Cyngor
- Aelodau o'r Gwrthbleidiau
- Cynrychiolwyr Staff
- Undebau Llafur

- Y Fforwm Fusnes
- Prif Swyddogion Gweithredol Rhanbarthol
- Cadeirydd/Is-gadeirydd: Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Cadeirydd/Is-gadeirydd: Pwyllgorau Craffu
- Cynrychiolwyr Trydydd Sector
- Trigolion
- Cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned
- Cynrychiolwyr Cyngor yr Ifanc
- Cynrychiolwyr o bartneriaid hyd braich y Cyngor.

5.0 Trefniadaeth Wleidyddol

5.1 Ar adeg Asesiad Perfformiad y Panel, dyma oedd cyfansoddiad y Cyngor:

Enw'r Grŵp	Nifer
Plaid Cymru	45
Annibynnol	21
Gwynedd yn Gyntaf	2
Aelod Unigol	1
Cyfanswm	**69**

5.2 Ar adeg Asesiad Perfformiad y Panel, dyma oedd cyfansoddiad y Cabinet:

Portffolio	Cynghorydd	Ymlyniad Gwleidyddol
Arweinydd y Cyngor	Nia Jeffreys	Plaid Cymru
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd	Menna Trenholme	Plaid Cymru
Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg	Llio Elenid Owen	Plaid Cymru
Aelod Cabinet Addysg	Dewi Jones	Plaid Cymru
Aelod Cabinet Cyllid	Huw Wyn Jones	Plaid Cymru
Aelod Cabinet Amgylchedd	Craig ab Iago	Plaid Cymru
Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant	Dilwyn Morgan	Plaid Cymru
Aelod Cabinet dros Briffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	June Jones	Plaid Cymru
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo	Paul Rowlinson	Plaid Cymru

Aelod Cabinet Economi a Chymuned	Medwyn Hughes	Plaid Cymru

5.3 Mae gan Gyngor Gwynedd y Pwyllgorau Craffu canlynol;

- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
- Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Pwyllgorau Craffu Gofal

6.0 Trefniadaeth Gorfforaethol

6.1 Cyflwynodd Cyngor Gwynedd ddogfen gwmpasu gychwynnol i'r panel yn amlinellu ei strwythur corfforaethol. Roedd y ddogfen hon yn egluro bod y Tîm Rheoli Corfforaethol yn cynnwys haen uchaf o reolwyr y Cyngor. Mae'r tîm yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Adran a'r Swyddog Monitro, ac yn gyfrifol am ddarparu blaenoriaethau strategol y Cyngor a sicrhau llywodraethu cadarn ar draws y sefydliad.

6.2 Dafydd Gibbard yw Prif Weithredwr y Cyngor. Penodwyd Dafydd i'r rôl ym mis Mai 2021. Mae rôl y Prif Weithredwr yn cynnwys:

- Arweinyddiaeth: Gweithio gydag Aelodau Etholedig y Cyngor i sicrhau arweinyddiaeth a chyfarwyddyd cryf a gweledol. Annog a galluogi rheolwyr i gymell ac ysbrydoli eu staff i gyflawni amcanion a gytunwyd gan y Cyngor.

- Cyfeiriad Strategol: Gwireddu blaenoriaethau strategol a amlinellir gan Aelodau Etholedig a budd-ddeiliaid y Cyngor, gan sicrhau fod staff yn deall ac yn dilyn y rhain.

- Cynghori ar bolisïau: Gweithredu fel prif ymgynghorydd ar bolisïau i Aelodau Etholedig y Cyngor.

- Partneriaethau: Arwain a datblygu partneriaethau cryf gyda gwasanaethau cyhoeddus, busnesau a grwpiau gwirfoddol eraill ar draws Gwynedd a thu hwnt er mwyn gwella ansawdd bywyd yn y sir.

- Llywodraethu: Goruchwylio a chydlynu gwaith rheoli cyllid a pherfformiad, rheoli risg, rheoli pobl a rheoli newid yn y Cyngor.

6.3 Y Prif Weithredwr sy'n arwain y cyfeiriad strategol, effeithlonrwydd gweithredol a chyngor ar bolisi i Aelodau, yn ogystal â threfniadau herio perfformiad yn yr adrannau a'r meysydd canlynol:

- Addysg
- Economi a Chymuned
- Cynllun Digidol
- Gwasanaethau Corfforaethol
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Blaenoriaethu Adnoddau

- Trefniadau Llywodraethu
- Cyd-Bwyllgorau Corfforedig
- Cynllunio Rhag Argyfwng
- Diwylliant Gweithlu

7.0 Heriau Cenedlaethol a Lleol

7.1 Mae Cyngor Gwynedd yn parhau i weithredu mewn cyd-destun cenedlaethol a lleol heriol sy'n darparu cefndir pwysig i ganfyddiadau'r panel mewn perthynas â pherfformiad, llywodraethu a gwerth am arian. Yn yr un modd â nifer o awdurdodau gwledig yng Nghymru, mae'r Cyngor yn wynebu cyfuniad o newid demograffig, galw cynyddol am wasanaethau, a phwysau ariannol parhaus, sydd i gyd yn siapio ei amgylchedd gweithredu ac yn dylanwadu ar y dewisiadau sydd ar gael i'r sefydliad.

7.2 Mae'r tueddiadau demograffig yn cyflwyno heriau arbennig i'r sir. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yng Ngwynedd, gydag amcanestyniadau'n dangos cynnydd sylweddol mewn preswylwyr 65 oed a hŷn dros y degawdau nesaf, ynghyd â gostyngiad yn y boblogaeth a llai o bobl ifanc oedran gweithio. Mae'r tueddiadau hyn eisoes yn cael effaith ar y galw am wasanaethau, yn arbennig mewn gofal cymdeithasol, darpariaeth iechyd a thai, ac yn rhoi pwysau ar allu'r Cyngor i recriwtio a chadw gweithlu cynaliadwy.

7.3 Mae cysylltiad agos rhwng y pwysau demograffig hyn a sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor. Nododd y panel, er bod Cyngor Gwynedd wedi parhau i osod cyllidebau cytbwys, cyflawnwyd hyn yn erbyn cyd-destun o orwariant cyson mewn gwasanaethau sy'n seiliedig ar alw, gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant, gwastraff a llety brys. Yn ddiweddar, lleddfwyd gwariant adrannol drwy danwariant corfforaethol a mesurau untro, wedi'u cefnogi ar adegau gan gyllid diwedd y flwyddyn, gan ganiatáu ar gyfer cydbwyso sefyllfaoedd alldro cyffredinol. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflawni cyfanswm o £47m o arbedion effeithlonrwydd ac addasiadau gwasanaeth ers 2015.

7.4 Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn amlygu graddfa'r her sy'n wynebu'r Cyngor. Er gwaethaf hanes cryf o ddarparu arbedion, mae'r cynllun yn nodi bylchau cyllido sylweddol dros y tair blynedd nesaf, gan adlewyrchu cynnydd parhaus mewn galw, pwysau chwyddiannol a rhagolygon o gyllid cyfyngedig. Er bod gan y Cyngor lefelau cymharol iach o gronfeydd wrth gefn, mae dibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn ac atebion untro i liniaru pwysau strwythurol yn tynnu sylw at yr angen i gryfhau cynaliadwyedd ariannol tymor hwy.

7.5 Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn dangos cyd-destun gweithredu heriol ac ansicr. Mae cynnydd parhaus mewn galw, yn enwedig mewn gwasanaethau statudol, ynghyd â chyfyngiadau ariannol, yn cynyddu pwysigrwydd blaenoriaethu clir, rheoli risg effeithiol a goruchwylio perfformiad cadarn. Mae'r cyd-destun hwn yn amlygu lefel yr her sy'n wynebu'r Cyngor mewn perthynas â chyflawni uchelgeisiau'r Cynllun Corfforaethol a chynnal gwytnwch gwasanaethau dros y tymor canolig a'r hirdymor.

8.0 Cryfderau a Meysydd Arloesi

8.1 Er bod yr heriau ariannol a demograffig a amlinellir yn Adran 7 yn parhau'n sylweddol, cydnabu'r panel hefyd ymatebion cadarnhaol ac uchelgeisiol ar draws y Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu, arloesi mewn gwasanaethau a chynaliadwyedd hirdymor. Clywodd y panel dystiolaeth o

<u>Astudiaeth Achos:</u>

Cynllun Yfory

Mae Cynllun Yfory, cynllun prentisiaethau'r Cyngor, yn cynrychioli cryfder clir yn ymagwedd Gwynedd tuag at gynllunio'r gweithlu. Mae'r cynllun wedi'i alinio'n uniongyrchol â heriau mwyaf dybryd y Cyngor mewn perthynas â'r gweithlu ac yn darparu llwybr strwythuredig i bobl ifanc ddatblygu sgiliau proffesiynol gan aros yn y sir. Mae'n cynnig cyfleoedd wedi'u targedu mewn proffesiynau allweddol megis Peirianneg Sifil, Cynllunio, Ecoleg, Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd a Diogelwch, gan gefnogi'r Cyngor i ddatblygu talent cynaliadwy ar gyfer y dyfodol mewn meysydd lle mae recriwtio ar draws y sector yn dod yn gynyddol anodd. Mae'r cynllun yn adlewyrchu arfer gorau cydnabyddedig o ran datblygu capasiti proffesiynol i'r dyfodol ac yn dangos ymrwymiad rhagweithiol yn seiliedig ar le i feithrin talent leol.

Astudiaeth Achos: Llechen Lân

Mae Llechen Lân yn darparu dull clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddeall a chynllunio ar gyfer cynaliadwyedd gofal cymdeithasol pobl hŷn yng Ngwynedd i'r dyfodol. Daw â modelu demograffeg, gweithlu ac ariannol at ei gilydd i ragweld y galw dros y 10-20 mlynedd nesaf, gan gymharu patrymau presennol Gwynedd gyda chynghorau gwledig eraill a gosod liferi ymarferol i leihau'r pwysau ar wasanaethau traddodiadol. Mae'r gwaith yn amlygu rôl atal ac arloesi, yn cynnwys cryfhau dulliau cymunedol ac sy'n seiliedig ar gryfderau, ehangu gofal a alluogir gan dechnoleg a thaliadau uniongyrchol, a chynyddu opsiynau llety addas fel tai gofal ychwanegol, wedi'u cefnogi gan drefniadau cynllunio, comisiynu a datblygu gweithlu hirdymor sy'n fwy clir.

Mae hefyd yn amlygu sut mae'r Cyngor eisoes yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i gefnogi ei uchelgeisiau gofal cymdeithasol, ac yn darparu argymhellion o ran sut gellir datblygu hynny ymhellach.

ymdrechion ymarferol i gryfhau gwytnwch sefydliadol ac ymateb i bwysau'r dyfodol. Mae Cynllun Yfory a Llechen Lân yn enghreifftiau o'r dull ehangach hwn, gan ddangos sut mae'r Cyngor yn datblygu capasiti proffesiynol lleol ac yn defnyddio cynllunio sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ystyried cynaliadwyedd gwasanaethau allweddol yn y dyfodol.

Trosolwg o'r Canfyddiadau

9.0 Gofyniad Perfformiad: Mae'n arfer ei swyddogaethau'n effeithiol

9.1 Daeth adolygiad y panel o'r adroddiadau rheoleiddio o'r ddwy flynedd ddiwethaf, a chyfweliadau ar y safle, i'r casgliad bod tystiolaeth yn dangos bod y Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol.

9.2 Mae gan Gyngor Gwynedd Gynllun Corfforaethol sy'n amlinellu gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor tan 2028, gan alinio ei waith gyda'r Nodau Lles, Ffyrdd o Weithio ac Egwyddor Cynaliadwyedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n trefnu uchelgeisiau'r Cyngor yn saith maes blaenoriaeth, pob un wedi'i gefnogi gan brosiectau wedi'u targedu gyda'r nod o wella canlyniadau i drigolion a chryfhau lles hirdymor. Mae'r cynllun yn adlewyrchu cymunedau Cymraeg eu hiaith unigryw y sir ac yn cydnabod yr angen am ymatebion yn seiliedig ar leoedd.

9.3 Ymgysylltodd y panel â nifer o bartneriaid strategol allweddol Cyngor Gwynedd, gan gynnwys Mantell Gwynedd, Coleg Menai, Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru (y Cyd-bwyllgor Corfforedig), a Phrif Weithredwyr Cyngor Ynys Môn a Chyngor Wrecsam. Amlygodd y trafodaethau hyn aeddfedrwydd partneriaethau'r Cyngor a chryfder y fforymau sy'n eu cefnogi. Cadarnhaodd partneriaid eu hymrwymiad i gydweithio a sicrhau bod blaenoriaethau lleol yn derbyn sylw mewn modd cydlynol ac effeithiol. Mewn llawer o achosion, fe wnaeth y sgyrsiau hyn hefyd amlygu cyfraniadau strategol Cyngor Gwynedd at ddatblygiad fforymau rhanbarthol ar draws y gogledd orllewin a rhanbarth ehangach y gogledd, yn enwedig pan oedd y fforymau hyn yn gymharol newydd.

9.4 Nododd y panel hefyd dealltwriaeth dda ar draws yr awdurdod o werthoedd corfforaethol y Cyngor, a gaiff eu mynegi'n glir drwy Ffordd Gwynedd fel ethos craidd y sefydliad a thrwy ymddygiad staff ar bob lefel, gan gynnwys rheolwyr gweithredol a thimau rheng flaen. Nododd y panel hefyd nifer o ganlyniadau penodol a gyflawnwyd trwy Ffordd Gwynedd gan gynnwys cyfraniad cadarnhaol at y modd y mae'r Cyngor yn cyflawni'r dyletswyddau perfformiad a ystyriwyd gan y panel, gan gynnwys mentrau fel sefydlu'r Rhwydwaith Rheolwyr ac Arweinwyr Tîm ac ymestyn cynlluniau prentisiaethau a hyfforddeion, a sefydlu'r Academi Gofal.

9.5 Fodd bynnag, clywodd y panel hefyd fod Ffordd Gwynedd wedi colli rhywfaint o'i eglurder a'i effaith wreiddiol. Er bod staff ar bob lefel yn cydnabod enw cryf Ffordd Gwynedd a'r bwriad cadarnhaol sy'n sail iddo, roedd llawer yn teimlo nad oedd ei bwrpas mor amlwg bellach. Clywodd y panel bryderon bod elfennau o newid cenhadaeth wedi dod i'r amlwg, gyda rhagor o bobl yn ystyried Ffordd Gwynedd fel strategaeth fewnol ychwanegol yn hytrach na ffordd unedig o weithio. Yn y cyd-destun hwn, disgrifiodd rai aelodau staff ymdeimlad ei fod bellach yn sefyll ochr yn ochr, ac ar adegau yn cystadlu, gyda strategaethau sefydliadol allweddol eraill, megis cynlluniau datblygu a thrawsnewid y gweithlu, yn hytrach na darparu fframwaith diwylliannol clir sy'n siapio darpariaeth ar draws y sefydliad yn gyson.

9.6 Mae asesiad y panel yn dangos aliniad da rhwng tîm yr uwch swyddog gweithredol ac arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor. Mae'r aliniad hwn yn arbennig o amlwg yn eu hymrwymiad cyffredin i flaenoriaethau'r Cyngor a'u dealltwriaeth o'r heriau

ariannol a demograffig. Dangosodd y trafodaethau gydag arweinwyr gwleidyddol eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan swyddogion, gan gynnal y gofod a'r hyder i ddarparu cyfeiriad gwleidyddol clir i swyddogion.

9.7 Roedd y panel yn cydnabod bod cynlluniau gweithlu Cyngor Gwynedd yn pwysleisio datblygiad cyflogaeth hirdymor i'r dyfodol drwy ei raglenni prentisiaethau, hyfforddeion a datblygiad proffesiynol. Mae'r llwybrau hyn yn helpu pobl ifanc i ddechrau gweithio mewn swyddi gwasanaeth cyhoeddus arbenigol, megis cynllunio, iechyd yr amgylchedd, peirianneg, gofal cymdeithasol a gwasanaethau rheoleiddio, ar adeg lle mae'r awdurdod mewn perygl o golli arbenigedd sylweddol wrth i staff profiadol ymddeol. Drwy fuddsoddi mewn llwybrau hyfforddi strwythuredig, mae'r Cyngor yn cefnogi talent leol, yn mynd i'r afael â phrinder sgiliau ac yn cryfhau gwytnwch sefydliadol, gan sicrhau fod ganddo'r gallu technegol sydd ei angen i fodloni cyfrifoldebau statudol nawr ac i'r dyfodol.

9.8 Wrth i'r Cyngor baratoi ar gyfer fersiwn nesaf ei Gynllun Corfforaethol, mae cyfle i ddatblygu cryfderau'r dull cyfredol yn seiliedig ar themâu ymhellach, a datblygu gweledigaeth gliriach, fwy hirdymor, ar gyfer Gwynedd a'i chymunedau. Byddai ffocws mwy strategol ar flaenoriaethau uchaf y Cyngor, gyda chefnogaeth ystyrlon gan staff, aelodau etholedig a thrigolion lleol, yn helpu i sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol yn adlewyrchu anghenion a dyheadau Gwynedd fel lle. Bydd alinio'r gwaith hwn yn llawn â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth Trawsnewid y Cyngor yn darparu fframwaith cydlynol sy'n cysylltu adnoddau, cyfeiriad strategol a chanlyniadau, gan alluogi'r sefydliad i gynllunio'n hyderus ar gyfer y dyfodol.

9.9 Argymhellion

1a	Dylai Cyngor Gwynedd adeiladu ar y dull presennol sy'n seiliedig ar themâu wrth baratoi a datblygu'r Cynllun Corfforaethol nesaf gyda ffocws ar: • Cynllunio hirdymor • Gosod gweledigaeth ar gyfer Gwynedd a'r gwerthoedd sy'n hanfodol i'w gyflawni • Sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer y Cyngor a Gwynedd fel lle • Cynnwys staff, aelodau a'r gymuned ehangach i ddatblygu a chyflawni Cynllun Corfforaethol sy'n seiliedig ar le • Alinio'n llawn â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth Trawsnewid y Cyngor

10.0 Gofyniad Perfformiad: Y graddau y mae'r Cyngor yn defnyddio'i adnoddau'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon

10.1 Ar y cyfan, canfu'r panel fod Cyngor Gwynedd yn defnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol o fewn cyd-destun ariannol a demograffig heriol. Fodd bynnag, mae graddfa a pharhad y pwysau a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn enwedig gorwariant rheolaidd mewn gwasanaethau allweddol a dibyniaeth gynyddol ar fesurau untro, yn amlygu'r angen am ddull cliriach a mwy unedig o gynllunio strategol a thrawsnewid sefydliadol. Er bod y

Cyngor yn elwa o arweinyddiaeth ymroddedig, hanes cryf o gyflawni cynilion a phartneriaethau sefydledig, nid yw'r cryfderau hyn yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws y sefydliad eto. Roedd y panel o'r farn y byddai'r Cyngor yn elwa o fynegi dull trawsnewid clir ar draws y sefydliad sy'n dod â gweithgarwch gwella presennol at ei gilydd mewn un fframwaith cydlynol. Dylai dull o'r fath gydnabod a gwneud y mwyaf o werth partneriaid allanol, gan sicrhau bod gweithgarwch trawsnewid yn seiliedig ar brofiadau a gallu sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol Gwynedd ac yn cael ei ymgorffori a'i gefnogi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i gryfhau gwytnwch ariannol hirdymor.

10.2 Mae'r adran hon hefyd yn ystyried un o feysydd ffocws ychwanegol y Cyngor a gytunwyd ar gyfer yr asesiad, sy'n gysylltiedig â Chynllunio Strategol, Adnoddau a Chapasiti. Drwy wneud hyn, nid yn unig mae'r panel wedi archwilio p'un a oes gan Gyngor Gwynedd y gallu mewnol i ddarparu ei flaenoriaethau strategol, maent hefyd wedi archwilio p'un a yw'n gwneud defnydd effeithiol o'r ystod lawn o adnoddau sydd ar gael iddo. Nododd y panel na all y Cyngor gyflawni ei uchelgeisiau ar ei ben ei hun ac y dylid deall adnoddau yn ehangach na gallu ariannol yn unig, gan gynnwys cyfraniad partneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Mae'r adran hon felly'n archwilio'r graddau y mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn defnyddio'r partneriaethau allanol hyn fel rhan hanfodol o'r ddarpariaeth adnoddau ac yn ymateb i raddfa'r pwysau ariannol, demograffig a gwasanaeth y mae'n ei wynebu.

Adran Adnoddau Ariannol

10.3 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig Cyngor Gwynedd yn weithredol am dair blynedd, ac fe'i cydnabyddir gan y Cyngor fel dogfen 'fyw'. Er bod y gyllideb flynyddol gysylltiedig yn cael ei hadnewyddu bob blwyddyn ac yn cael ei chefnogi gan gynllun incwm a gwariant manwl, mae elfen tymor canolig y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn parhau i fod yn asesiad lefel uchel o sefyllfa ariannol y Cyngor dros gyfnod o dair blynedd. Bydd y rhagolwg hwn yn cael ei ddiweddaru wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael, gan gynnwys newidiadau i ragdybiaethau ariannol cenedlaethol a lleol, amcanestyniadau incwm, pwysau gwasanaeth a chynlluniau arbedion.

10.4 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn parhau i fod yn heriol, gan ragweld bwlch ariannol cronnol o £40 miliwn ar draws 2026/27 - 2028/29 yn absenoldeb ymyrraeth bellach. Er bod cyllideb 2026/27 wedi'i chydbwyso trwy gyfuniad o gynnydd yn y Dreth Gyngor (5.32%), ceisiadau gwasanaeth lleol a chyllidebu corfforaethol darbodus, mae gwytnwch ariannol yn dibynnu fwyfwy ar gronfeydd wrth gefn a mesurau untro. Mae pwysau o fewn gofal cymdeithasol, llety brys a gorwariant ar wasanaethau gwastraff yn parhau i fod yn strwythurol o ran natur ac mae'r panel o'r farn y byddant yn ymofyn ail-ddylunio gwasanaethau mewn modd trawsnewidiol, yn hytrach nag fel addasiadau cynyddrannol. Mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o gynlluniau a strategaethau i ymateb i'r pwysau yma, yn cynnwys Cynllun Gweithredol Tai a Strategaeth Gwastraff, sy'n nodi mesurau i leihau'r gorwariant presennol.

10.5 Nododd y panel fod gan y Cyngor hanes cryf o ddarparu arbedion cyffredinol, gan gyflawni 93% (£43 miliwn) o'r arbedion arfaethedig ers 2015. Fodd bynnag, er gwaethaf yr hanes cryf cadarnhaol hwn, nododd y panel fod gorwariant rheolaidd wedi parhau ar draws sawl maes gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan adlewyrchu effaith gynyddol newid demograffig - yn enwedig poblogaeth sy'n heneiddio a lefelau cynyddol o anghenion cymhleth - sy'n rhoi pwysau parhaus ar wasanaethau ac yn golygu nad yw'r ddibyniaeth bresennol ar gamau lliniaru tymor byr yn gynaliadwy.

10.6 Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal sefydlogrwydd ariannol tymor byr; ond mae'n parhau i wynebu pwysau strwythurol sylweddol a fydd yn ymofyn trawsnewidiad sefydliadol parhaus a chynllunio ariannol hirdymor cryfach. Yn ddiweddar, mae gorwariant adrannol rheolaidd - yn enwedig o fewn Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Oedolion, Gwastraff a Llety Brys - wedi dod yn nodwedd sefydledig o sefyllfa ariannol y Cyngor, gyda gorwariant o £6.6 miliwn yn 2024/25 wedi'i liniaru trwy danwariant corfforaethol eithriadol a grantiau hwyr gan Lywodraeth Cymru yn unig. Er bod darpariaeth arbedion cronnol y Cyngor yn parhau i fod yn gryf, gyda 93% o'r arbedion arfaethedig wedi'u gwireddu ers 2015, mae pwysau lefel gwasanaeth yn parhau i ddwysáu, gan adlewyrchu twf parhaus mewn galw a chwyddiant yn hytrach na ffactorau tymor byr neu untro.

Adran Drawsnewid

10.7 Roedd y panel yn cydnabod bod arweinyddiaeth gorfforaethol a gwleidyddol yn cydnabod yr angen am drawsnewid sefydliadol fel elfen hanfodol o gyflawni cynaliadwyedd hirdymor.

10.8 Er bod y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys ystod eang o brosiectau sy'n canolbwyntio ar newid ar draws ei saith maes blaenoriaeth - yn arbennig o fewn Gwynedd Effeithlon - canfu'r panel bod y mentrau hyn yn cael eu cyflwyno i raddau helaeth fel gweithredoedd gwasanaeth neu thematig unigol yn hytrach nag fel rhan o un rhaglen drawsnewid gydlynol. Mae tystiolaeth o Adroddiad Perfformiad a Gwariant 2025-26 y Cyngor yn dangos bod gweithgarwch gwella sylweddol ar y gweill, gan gynnwys datblygiadau digidol, mesurau effeithlonrwydd, mentrau'r gweithlu ac ailgynllunio gwasanaethau, gyda chefnogaeth trefniadau perfformiad a chraffu sefydledig. Fodd bynnag, mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei ddisgrifio a'i asesu fesul prosiect yn bennaf, a byddai'n fuddiol esbonio'n iawn sut mae mentrau unigol gyda'i gilydd yn cyfrannu at uchelgais a rennir, sef trawsnewid, neu at fynd i'r afael â chynaliadwyedd ariannol a sefydliadol tymor hwy.

10.9 O ganlyniad, daeth y panel i'r casgliad bod anghysondeb o ran uchelgeisiau trawsnewid y Cyngor ar hyn o bryd, a bod gweithgarwch mewn perthynas â newid yn canolbwyntio ar gyflawni prosiectau ar wahân yn hytrach nag fel rhaglen newid gydlynol ar gyfer y sefydliad cyfan. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i ddangos yn glir sut mae gweithgarwch gwella'n cael ei flaenoriaethu, ei ddilyniannu a'i dargedu mewn ymateb i bwysau ariannol, demograffig a gweithredol parhaus. Roedd y panel o'r farn y byddai sefydlu fframwaith trawsnewid mwy integredig a throsfwaol yn helpu i egluro bwriad hirdymor y Cyngor, cryfhau aliniad ar draws gwasanaethau, a darparu cipolwg cliriach o sut mae prosiectau unigol yn cyfrannu at

gyfeiriad teithio a rennir. Yn hanfodol, dylai dull o'r fath fod wedi'i alinio'n llawn â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, gan sicrhau bod gweithgarwch trawsnewid yn cael ei lywio'n uniongyrchol gan raddfa'r her ariannol ac yn cael ei gefnogi gan asesiad realistig o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni newid cynaliadwy.

10.10 Roedd y panel yn teimlo bod gan y Cyngor gyfle clir i wneud defnydd mwy effeithiol o Ffordd Gwynedd wrth lunio ei flaenoriaethau trawsnewid yn y dyfodol. Er bod yr ethos yn parhau i fod yn rhan werthfawr a chydnabyddedig o hunaniaeth y sefydliad, roedd y panel yn llai clir ynglŷn â sut mae Ffordd Gwynedd yn cyfrannu at weledigaeth flaengar y Cyngor ar hyn o bryd, gan nodi bod ei bwrpas strategol wedi dod yn llai clir dros amser.

10.11 Byddai ailosod Ffordd Gwynedd o fewn fframwaith trawsnewid ar draws y sefydliad yn cryfhau ei berthnasedd a'i alluogi i weithredu fel angor diwylliannol gwleidyddol dros newid. Byddai gwneud hyn yn atgyfnerthu disgwyliadau mewn perthynas ag ymddygiadau arweinyddiaeth, penderfyniadau a chynlluniau gwasanaeth, ac yn sicrhau fod dull diwylliannol y Cyngor yn cael ei integreiddio'n llawn gyda'i heriau ariannol, gweithlu a gweithredol hirdymor. Byddai'r aliniad hwn hefyd yn helpu i sefydlu ethos mwy cyson ar draws adrannau, gan alluogi Ffordd Gwynedd i weithredu fel sbardun uniaethol o gyfeiriad y Cyngor i'r dyfodol yn hytrach na chysyniad y cyfeirir ato mewn modd anghyson ar draws y sefydliad.

Staff

10.12 Yn ystod yr asesiad ar y safle, cyfarfu'r panel ag ystod o staff o wahanol adrannau ar draws y sefydliad. Mynegodd staff farn gadarnhaol am weithio i'r Cyngor, gan dynnu sylw at y manteision o fod yn rhan o awdurdod sy'n siarad Cymraeg, y diwylliant o gydbwysedd cryf rhwng bywyd a gwaith, a dull hygyrch ac agored y tîm arwain.

10.13 Nododd staff fod y Rhwydwaith Rheolwyr ac Arweinwyr Tîm yn cael ei chydnabod o fewn y sefydliad fel fforwm gwerthfawr ar gyfer ymgysylltiad staff. Mae'n darparu platfform effeithiol ar gyfer rhannu mewnbwn sefydliadol, cryfhau cyfathrebu, a chefnogi dealltwriaeth gyson o flaenoriaethau corfforaethol ar draws adrannau.

Uwch Arweinyddiaeth

10.14 Nododd y panel fod gan y Prif Weithredwr bortffolio strategol eang, ac amlinellir hyn yn 6.1 – 6.4, sy'n cwmpasu meysydd fel Addysg, Economi a Chymuned, Digidol, Gwasanaethau Corfforaethol, Gwasanaethau Cyfreithiol, llywodraethu, cynllunio argyfwng, a diwylliant y gweithlu. Er bod hyn yn adlewyrchu arweinyddiaeth bersonol gref, mae graddfa'r cyfrifoldeb yn sylweddol ar gyfer un rôl. Mae'r panel o'r farn bod bellach angen i'r Cyngor gryfhau ac ehangu ei allu strategol uwch i sicrhau bod y sefydliad yn gallu rheoli ei uchelgeisiau moderneiddio, ymateb yn effeithiol i bwysau sy'n dod i'r amlwg, a chynnal gwytnwch ar y lefel uchaf.

10.15 Daw'r panel i'r casgliad bod capasiti uwch arweinyddiaeth Cyngor Gwynedd yn fain iawn o ystyried cwmpas a chymhlethdod y sefydliad. Mae ehangder y cyfrifoldebau a'r llinellau adrodd i'r Prif Weithredwr, ochr yn ochr â'r gofynion yn sgil y trawsnewid mawr a rheoli newid, pwysau sy'n gwrthdaro, rheolaeth ariannol gynaliadwy, rheoli risgiau, heriau gweithlu, a'r angen i gynnal y ddarpariaeth a'r perfformiad, yn golygu

bod capasiti'r arweinyddiaeth strategol yn annigonol yn nhermau ymdriniaeth a dosraniad. Mae hyn yn cynyddu'r risg o orddibynnu ar unigolion allweddol, yn lleihau capasiti sefydliadol i fwrw ymlaen â blaenoriaethau trawsbynciol ac yn cyfyngu ar gyflymder a chysondeb y gwaith o gynllunio, llywodraethu a chyflawni trawsnewid.

1b	Dylai Cyngor Gwynedd adolygu capasiti ei arweinyddiaeth strategol ar lefel weithredol er mwyn ei alluogi i gyflawni ei flaenoriaethau allweddol a chynllunio ar gyfer yr hirdymor.
2a	Sicrhau bod y gweithlu yn greiddiol i'r gwaith cynllunio strategol a thrawsnewidiol yn y dyfodol, gan ddod â'r gwahanol feysydd ymarfer sydd eisoes yn bodoli o fewn y Cyngor ynghyd, er mwyn sicrhau dull Cyngor cyfan o gynnwys ac ymgysylltu mewnol.

Partneriaethau

10.16 Nododd y panel fod Cyngor Gwynedd yn cydnabod y pwysigrwydd o ddefnyddio adnoddau cyfunol ei bartneriaid i gyflawni ei amcanion. Tynnodd y panel sylw at berthynas gref a sefydledig y Cyngor â'r trydydd sector drwy Mantell Gwynedd, ochr yn ochr ag adnewyddiad parhaus y Cytundeb Compact ffurfiol gyda'r sector.

10.17 Nododd y panel fod y bartneriaeth hon wedi cael gafael ar £24.4 miliwn o gyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ers 2021. Nododd y panel fod Mantell Gwynedd wedi awgrymu bod ei Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) rhwng £1.85 a £3.36 am bob £1 o gyllid a dderbynnir ar brosiectau penodol.

10.18 Er bod y partneriaethau hyn yn cynrychioli cryfder sefydliadol clir, pwysleisiodd y panel bod angen cysylltu'r potensial cydweithredol hwn yn fwy penodol â'r heriau ariannol a gweithredol sylweddol a amlinellir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Roedd y panel o'r farn y byddai aliniad dyfnach rhwng gweithio mewn partneriaeth, ailgynllunio gwasanaethau, a chynllunio ariannol hirdymor yn helpu'r Cyngor i sicrhau defnydd llawn o allu cyfunol partneriaid lleol i fodloni'r pwysau strwythurol hyn a chefnogi model gweithredu mwy cynaliadwy yn y dyfodol.

10.19 Fodd bynnag, sylwodd y panel hefyd nad yw'r lefel hon o ffocws strategol yn cael ei defnyddio'n gyson ar draws pob sector; er bod trefniadau gwaith partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol wedi'u sefydlu a'u strwythuro'n dda, nid yw'r trefniadau cyfatebol gyda'r gymuned fusnes wedi'u datblygu cystal ac nid oes ganddynt yr un lefel o gydlyniant a bwriad strategol.

"Er mwyn cyrraedd amcanion Cynllun Corfforaethol Cyngor Gwynedd, mae cydweithio effeithiol a defnyddio adnoddau lleol yn effeithlon yn hanfodol. Trwy gydweithio â'r trydydd sector, nod Cyngor Gwynedd yw sicrhau elw a budd leol i drigolion, gan gael y gwerth gorau am arian a manteisio ar y gwerth ychwanegol y mae sefydliadau'r trydydd sector yn ei gynnig."

"Compact" (Cytundeb Partneriaeth) Drafft Cyngor Gwynedd a'r 3ydd Sector

Y Gymuned Fusnes

10.20 Nododd y panel fod gan y Cyngor ystod o fecanweithiau ar waith i ymgysylltu â busnesau, a bod y trefniadau hyn wedi esblygu dros amser. Mae'r Cyngor hefyd wedi defnyddio adnoddau ychwanegol yn ddiweddar i gryfhau ymgysylltiad â'r sector, gan gynnwys Swyddog Ymgysylltu penodedig, Bwletin Busnes ac Arolwg Blynyddol. Er bod y datblygiadau hyn yn gadarnhaol, roedd y panel o'r farn bod y dull cyffredinol yn parhau i fod ar gam cymharol gynnar ac nad yw eto mor gydlynol nac mor ddatblygedig yn strategol â'r trefniadau cyfatebol gyda phartneriaid eraill y Cyngor.

10.21 Dywedodd cynrychiolwyr y gymuned fusnes leol wrth y panel fod perthnasoedd â'r Cyngor yn gwella, ond bod y trefniadau ymgysylltu presennol yn dal i gael eu profi'n aml fel rhai anffurfiol ac yn canolbwyntio ar faterion gweithredol. Roedd rhai o'r gyfwelwyd o'r farn nad oedd mecanwaith clir na ffurfiol ar waith i'r gymuned fusnes ehangach gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor neu godi pryderon sy'n dod i'r amlwg, gan awgrymu bod angen gwneud mwy i gryfhau gweledded, strwythur a chyrhaeddiad y trefniadau presennol. Ar adeg yr asesiad, nid oedd y Cyngor yn gweithredu fforwm busnes sefydlog; yn lle hynny, cynullodd swyddogion grŵp ad hoc at ddibenion yr asesiad, a oedd yn cynnwys sefydliadau a oedd eisoes yn gysylltiedig â'r awdurdod yn bennaf.

10.22 Yn y cyd-destun hwn, croesawodd y panel ymrwymiad y Cyngor yn ei Strategaeth Economaidd Gwynedd ddrafft, i sefydlu Fforwm Economi Gwynedd ffurfiol. Byddai trefniant mwy systematig a chynhwysol o'r math hwn yn cryfhau dealltwriaeth y Cyngor o anghenion economaidd lleol, yn cefnogi cynllunio strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn atgyfnerthu ei rôl fel arweinydd economaidd sy'n seiliedig ar leoedd.

10.23 Yn fwy cyffredinol, roedd y panel o'r farn bod cysylltiad agos rhwng y materion hyn a chwestiwn ehangach y Cyngor am gapasiti ac adnoddau. Er mwyn cyflawni uchelgeisiau strategol y Cyngor, bydd angen dealltwriaeth well o'r ystod lawn o adnoddau sydd ar gael ar draws y Cyngor, gan gydnabod y bydd partneriaid lleol yn hanfodol er mwyn cyflawni newid parhaus. Mae'r perthnasoedd adeiladol a sefydledig a ddatblygwyd gyda'r trydydd sector yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y gwaith hwn, gan gynnig model y gellid ei ymestyn i sectorau eraill a'i gymhwyso'n ehangach ar draws gogledd Cymru.

10.24 Pwysleisiodd y rhai a gafodd gyfweliad hefyd yr angen am ddull mwy rhagweithiol ac allblyg o hyrwyddo Gwynedd fel cyrchfan ar gyfer buddsoddi. Er bod y sir yn elwa o gydnabyddiaeth brand genedlaethol gref, gwelwyd presenoldeb cyfyngedig y Cyngor mewn digwyddiadau masnach mawr a fforymau economaidd fel cyfle a gollwyd i osod Gwynedd fel lleoliad cystadleuol ar gyfer mentrau newydd. Mynegodd rhai busnesau ansicrwydd ynghylch dull ehangach y Cyngor o fuddsoddi mewnol, gan gynnwys cyfrifoldebau arweinyddiaeth a phrosesau ymgysylltu.

Cwmnïau Hyd Braich

10.25 Nododd y panel berthynas gref ac adeiladol rhwng y Cyngor a Byw'n Iach, y cwmni hyd braich sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau hamdden ar ran yr awdurdod. Mae cynrychiolwyr o Byw'n Iach wedi dangos dealltwriaeth glir o ddyheadau strategol y Cyngor a sut mae gwaith Byw'n Iach yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau hynny. Ystyriwyd bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol, gyda phrosiectau cydweithredol parhaus yn adlewyrchu ymrwymiad a rennir i ymestyn ffocws y sefydliad ar les ehangach ynghyd â darpariaeth hamdden draddodiadol.

10.26 Fodd bynnag, nododd y panel bryderon am gynaliadwyedd ariannol Byw'n Iach. Nid yw'r cwmni'n gweithredu ar sail fantoledig ar hyn o bryd ac mae'n parhau i ddibynnu ar gefnogaeth ariannol ategol gan y Cyngor. Mae'r sefyllfa wedi cyfrannu at rwystredigaeth o fewn y sefydliad ynghylch adnoddau prin a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â hyn o ran gallu darparu a thyfu ei gynnig lles. Roedd y panel yn ystyried y dylai'r Cyngor fynd i'r afael â'r problemau hyn fel rhan o'i ymrwymiad ehangach i drawsnewid gwasanaethau a datblygu dull gweithredu cynaliadwy yn ariannol i'r dyfodol.

Undebau Llafur

10.27 Yn ystod eu cyfnod ar y safle, bu i'r panel estyn gwahoddiad i bob UndebLlafur a gydnabyddir gan y Cyngor i gymryd rhan mewn trafodaethau fel rhan o'r adolygiad. Roedd yr adborth a gafwyd yn adlewyrchu perthynas waith gyffredinol gadarnhaol ac adeiladol gyda'r Cyngor, gyda chynrychiolwyr Undebau Llafur yn disgrifio amgylchedd sy'n gwella ar gyfer deialog agored ac ymgysylltu. Yn benodol, clywodd y panel adborth cadarnhaol am gyfarfod diweddar a drefnwyd gan y Prif Weithredwr gyda chydweithwyr o'r Undebau Llafur, a groesawyd fel cyfle am drafodaeth agored a gonest, gan alluogi materion i gael eu harchwilio'n adeiladol ac mewn ysbryd o dryloywder.

10.28 Roedd adborth yr Undebau Llafur yn amlygu'r berthynas gyda'r Cyngor fel un broffesiynol ac adeiladol, gan nodi bod cynnydd wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf i gryfhau ymgysylltiad a gwella dealltwriaeth ar y cyd. Rhoddwyd enghreifftiau i'r panel o achosion lle'r oedd camau wedi'u cymryd i gynnwys yr Undebau Llafur yn gynharach yn y broses o ddatblygu polisi, gan gynnwys mewn perthynas â'r Polisi Cyffuriau ac Alcohol, a ystyriwyd yn gam cadarnhaol tuag at ymgynghori mwy ystyrlon.

10.29 Er gwaethaf y gwelliannau hyn, clywodd y panel hefyd bod cwmpas i gryfhau trefniadau cyfathrebu, yn enwedig yn ystod cyfnodau o newid sefydliadol ac ailstrwythuro. Roedd yr adborth yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfathrebu cliriach a mwy cyson ynghylch y rhesymau dros newid, sut yr oedd safbwyntiau a fynegwyd drwy ymgynghori yn dylanwadu ar wneud penderfyniadau, ac amseriad y camau allweddol o fewn prosesau ailstrwythuro. Byddai mynd i'r afael â'r meysydd hyn yn helpu i atgyfnerthu'r cynnydd a wnaed hyd yma ac i wreiddio ymhellach egwyddorion partneriaeth gymdeithasol effeithiol ar draws y sefydliad.

Trigolion

10.30 Yn ystod eu cyfnod ar y safle, cyfarfu'r panel â drigolion lleol mewn fforwm a drefnwyd gan y Cyngor. Roedd y fforwm yn cynnwys aelodau o Banel Trigolion y Cyngor, ac roedd pob un ohonynt wedi derbyn gwahoddiad i fynychu.

10.31 Ar y cyfan, disgrifiodd drigolion brofiadau cadarnhaol o wasanaethau'r Cyngor, yn arbennig mewn perthynas â darpariaeth rheng flaen statudol, a ystyriwyd yn ymatebol ac yn effeithiol. Gwelodd y panel hyn fel cryfder pwysig, o ystyried y cyd-destun gweithredu heriol. Ynghyd â hyn, mynegodd drigolion rywfaint o ansicrwydd ynghylch cyfeiriad cyffredinol y Cyngor, arferion cyfathrebu a'r cysondeb o ran y gwerthoedd a adlewyrchir ar draws y sefydliad.

10.32 Roedd nifer o drigolion yn teimlo nad oedd y prosesau cyfathrebu mewn perthynas â chyfeiriad strategol y Cyngor yn ddigon clir, a disgrifiwyd bod prosesau ymgysylltu ac ymgynghori braidd yn unochrog ac nad oedd llawer o gyfle i gyflwyno adborth am ddylanwad eu mewnbwn ar benderfyniadau. Roedd safbwyntiau cymysg o ran meysydd polisi penodol, gyda rhai'n cwestiynu pa mor gyson y caiff uchelgeisiau a nodwyd, megis hyrwyddo'r Gymraeg, eu hadlewyrchu mewn polisïau a chynlluniau ehangach. Ar y cyfan, mynegodd drigolion ddyhead am gyfathrebu cliriach, rhagor o dryloywder mewn perthynas â blaenoriaethau, a chyfleoedd gwell i ddylanwadu ar benderfyniadau lleol.

2b	Dylai Cyngor Gwynedd ddatblygu dull trawsnewidiol unedig sy'n gosod cyfeiriad cyffredinol a blaenoriaethau newid y sefydliad yn glir. Dylai'r dull hwn: • Weithredu ar lefel strategol sefydliad cyfan • Gwneud y mwyaf o werth partneriaid • Cael ei integreiddio â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a'i ariannu drwyddo • Darparu sail gadarn ar gyfer diogelu gwydnwch ariannol hirdymor y sefydliad.


3	Er mwyn meithrin capasiti a chryfhau cydweithio gyda phartneriaid: • Dod â strategaeth economaidd fabwysiedig yn fyw ar bob lefel ledled Gwynedd • Gwireddu potensial gweithio mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned • Cynyddu gallu'r Cyngor i gyflawni ei uchelgeisiau economaidd/cymdeithasol • Sicrhau fod Cytundeb Mantell Gwynedd yn cael ei weithredu a'i fonitro'n llawn

11.0 Gofyniad Perfformiad: Mae mesurau llywodraethu effeithiol ar waith

11.1 Ar y cyfan, daeth y panel i'r casgliad fod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith, gan nodi rhai meysydd i'w gwella mewn perthynas ag egluro'r aliniad rhwng rheoli perfformiad a risg gydag amcanion strategol allweddol y Cyngor, eu parodrwydd i dderbyn risg, a'u blaenoriaethau trawsnewid dros y tymor byr, tymor canolig a'r hirdymor.

11.2 Mae gan y Cyngor gyfansoddiad a chynllun dirprwyo sy'n amlinellu'n glir beth yw'r cyfrifoldebau o ran gwneud penderfyniadau. Mae'r Cyngor hefyd yn gwerthuso ei berfformiad ei hun yn rheolaidd yn erbyn fframwaith hunanwerthuso.

11.3 Mae'r Cyngor wedi darparu trosolwg i'r Panel o'i strwythurau llywodraethu, sydd wedi'u nodi yn y diagram isod. Mae'r diagram yn amlinellu sut mae proses hunanasesu'r Cyngor, Cynllun y Cyngor ac adolygiadau perfformiad blynyddol yn cysylltu â'r saith maes blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r elfennau hyn yn cysylltu â threfniadau monitro a herio perfformiad y Cyngor, a sut maent yn helpu i ddarparu blaenoriaethau o fewn pob maes.



11.4 Fe wnaeth y panel adolygu hunanasesiadau'r Cyngor a nodi eu bod yn darparu trosolwg eang o berfformiad. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn amlinellu bwriad y Cyngor i gyflwyno darlun cytbwys o berfformiad, gan amlinellu meysydd o lwyddiant a'r rhai sy'n ymofyn sylw pellach. Er bod y panel yn cydnabod gwerth y dull naratif hwn, nododd hefyd bod yr hunanasesiad yn rhoi rhagor o bwyslais ar sylwebaeth ddisgrifiadol a thematig yn hytrach na dadansoddiad gwerthusol, mesurau meintiol neu asesiadau effaith wedi'u dadansoddi'n glir.

11.5 Er bod yr hunanasesiad yn bodloni gofynion statudol felly, ystyriodd y panel y gellid gwellid gwella ei werth fel arf sicrwydd drwy gynyddu'r defnydd o ddata mesuradwy, darparu sylwebaeth gwerthuso gliriach a chasgliadau mwy eglur. Byddai cyflwyno statws RAG gyson ar draws blaenoriaethau a meysydd gwasanaeth yn gwella eglurder ymhellach, gan alluogi tueddiadau perfformiad, risgiau a meysydd sy'n ymofyn sylw i gael eu cyflwyno mewn modd mwy tryloyw a hygyrch.

Rheoli Perfformiad a Risg

11.6 Roedd y panel yn cydnabod bod Cyngor Gwynedd wedi cymryd camau cadarnhaol i gryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad a risg, a gefnogwyd gan gyfarfodydd adrannol strwythuredig bob deufis i ystyried cynnydd yn erbyn prosiectau'r Cyngor, perfformiad gwasanaeth dydd i ddydd a Chofrestr Risgiau Gorfforaethol y Cyngor. Mae allbynnau'r broses hon yn llywio'r adroddiadau perfformiad rheolaidd a gyflwynwyd gan Aelodau Cabinet yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

11.7 Er i'r panel glywed fod y rhan fwyaf o adrannau yn dilyn dull cymharol gyson o adrodd ar berfformiad, fel arfer drwy gynhyrchu dangosfwrdd cyffredinol a ategir gan graffiau a naratif, nid yw'r dull hwn eto'n cael ei gymhwyso'n gyson ar draws y sefydliad. Erys amrywiad mewn nifer fach o adrannau, yn enwedig yn y systemau a'r dulliau a ddefnyddir i gasglu, llunio a chyflwyno gwybodaeth am berfformiad, gan arwain at lefelau gwahanol o ddadansoddi, adrodd a herio. Gyda'i gilydd, mae'r anghysondebau hyn yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i gael golwg gydlynol ar draws y sefydliad ar gyflawni, pwysau perfformiad a risgiau sy'n dod i'r amlwg.

11.8 Mae canllawiau a arweinir gan y sector yn tynnu sylw at y ffaith bod fframwaith risg a pherfformiad cydlynol, ledled y sefydliad, wedi'i gefnogi gan atebolrwydd clir, prosesau cyson a diwylliant cryf sy'n ymwybodol o risg, yn galluogi Cynghorau i wneud penderfyniadau gwell, ymateb yn effeithiol i ansicrwydd a chynnal ffocws ar flaenoriaethau hirdymor. O ystyried graddfa a chymhlethdod yr uchelgeisiau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol, mae'r panel o'r farn bod uno trefniadau rheoli perfformiad a chryfhau trefniadau risg corfforaethol yn feysydd pwysig i'w gwella.

11.9 Nododd y panel hefyd ymdrechion i wella rôl craffu mewn rheoli perfformiad trwy gyflwyno cyfleoedd her perfformiad o fis Ebrill 2025 ymlaen. Er nad yw'r broses hon ynghyd â newidiadau pellach mewn perthynas â chraffu wedi'u hymgorffori'n llawn eto, croesawyd y datblygiad hwn yn eang gan y rhai a ymgysylltodd â'r panel.

11.10 Canfu'r panel fod y Cyngor yn elwa o berthnasoedd gwaith adeiladol a phroffesiynol rhwng aelodau a swyddogion, wedi'u cefnogi gan drefniadau craffu a llywodraethu sefydledig. Er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf posibl o'r trefniadau hyn, mae'r

panel yn ystyried ei bod yn bwysig bod pwyllgorau craffu a mecanweithiau herio eraill yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn dryloyw, gydag adborth clir ar sut mae herio, argymhellion craffu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi llywio penderfyniadau. Byddai hyn yn helpu i atgyfnerthu hyder mewn prosesau llywodraethu a chryfhau gweledded herio adeiladol ar draws y sefydliad.

11.11 Nododd y panel fod dull Cyngor Gwynedd o graffu wedi esblygu mewn ymateb i argymhellion gan Archwilio Cymru, gan gynnwys cryfhau'r cysylltiadau rhwng y Rhaglen Waith Craffu a Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Nododd y rhai a gyfwelwyd, er nad yw'r trefniadau craffu diwygiedig wedi'u hymgorffori'n llawn eto, eu bod yn cyfrannu at welliannau mewn perfformiad craffu. Fodd bynnag, mynegodd rai o'r rhai a gyfwelwyd ei bod yn well ganddynt y trefniadau blaenorol, gan amlygu'r pwysigrwydd bod y Cyngor yn canolbwyntio'n barhaus ar gryfhau effeithiolrwydd craffu.

11.12 Cyfarfu'r panel â Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor a chanfu, er bod y pwyllgor yn gweithredu o fewn fframwaith llywodraethu sylfaenol gadarn, bod nifer o ffactorau yn cyfyngu ar ei effeithiolrwydd cyffredinol. Nododd y rhai a gyfwelwyd y gall amlder a hyd cyfarfodydd, ynghyd â rhaglenni gorlawn a phapurau hir, gyfyngu'r amser sydd ar gael ar gyfer ystyried materion risg uchel a strategol.

11.13 Er bod cefnogaeth swyddogion a chyfraniadau aelodau lleyg yn adeiladol, nododd y panel gyfleoedd i gryfhau prosesau cynefino a hyfforddi, yn ogystal â defnyddio arbenigedd aelodau lleyg mewn ffordd fwy systematig, yn enwedig wrth gynllunio rhaglenni gwaith, datblygu adroddiadau a pharatoi dogfennau llywodraethu allweddol fel y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

11.14 Er bod gan y Cyngor strategaeth risg sefydledig, nododd rai aelodau lleyg y byddai gwybodaeth fwy cyson ac amserol am risgiau lefel uchel, gan gynnwys risgiau i enw da, yn cefnogi eu rôl sicrwydd ymhellach.

11.15 Nododd y panel hefyd y gallai maint cymharol fawr y pwyllgor, o'i gymharu â normau'r sector, gyfrannu at yr heriau hyn, gan effeithio ar effeithlonrwydd, cynyddu gofynion hyfforddi ar gyfer aelodau lleyg ac etholedig, a rhoi pwysau ychwanegol ar raglenni. Gyda'i gilydd, mae'r materion hyn yn awgrymu, er bod trefniadau llywodraethu yn ddigonol, y byddai mireinio maint y pwyllgor, strwythur cyfarfodydd, trefniadau hyfforddi ac integreiddio arbenigedd aelodau lleyg yn gwella effeithiolrwydd cyffredinol y pwyllgor ac yn cryfhau sicrwydd llywodraethu ar draws y Cyngor. O ystyried rôl ganolog y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o fewn fframwaith llywodraethu cyffredinol y Cyngor, mae'n bwysig bod y trefniadau hyn yn parhau i gael eu hadolygu a'u cryfhau er mwyn sicrhau bod y pwyllgor yn parhau i fod yn effeithiol wrth ddarparu sicrwydd annibynnol a thrwyadl.

11.16 Yn ehangach, clywodd y panel hefyd sylwadau am gwmpas a chydbwysedd y trefniadau craffu ar draws yr awdurdod, gan gynnwys yr her o graffu ar faterion addysg ac economaidd o fewn un pwyllgor. O ystyried graddfa a phwysigrwydd statudol y portffolio addysg, roedd rhai o'r farn y gall hyn gyfyngu ar ddyfnder y craffu a roddir i faterion economaidd.

11.17 Nododd y panel thema gyffredin gan gadeiryddion ac is-gadeiryddion y pwyllgorau y bu'n ymgysylltu â nhw, sef bod lle i gryfhau eu cysylltiad â'r broses lywodraethu ehangach, gan gynnwys derbyn gwybodaeth fwy cyson rhwng cyfarfodydd. Nododd y rhai a gyfwelwyd hefyd y gall bylchau hirach rhwng cylchoedd pwyllgorau, ar adegau, ohirio adborth ar faterion a godwyd, ac y gall defnyddio adroddiadau drafft yn hytrach nag adroddiadau terfynol gyfyngu ar eglurder ac effeithiolrwydd craffu.

11.18 Nododd y panel fod datblygu arferion craffu yn cael ei gefnogi drwy weithdai pwyllgor blynyddol i gytuno ar raglenni gwaith, yn cynnwys hyfforddiant gloywi ar egwyddorion craffu effeithiol.

11.19 Awgrymodd yr Aelodau fod yr hyfforddiant yn tueddu i ganolbwyntio ar y broses ac egwyddorion craffu, yn hytrach nag adnoddau ymarferol a thechnegau i gefnogi cwestiynu effeithiol. Pwysleisiodd y panel fod y ddau yn hanfodol ar gyfer pwyllgorau craffu llwyddiannus.

11.20 Yn 2025/26, addaswyd y cynnig hwn i gefnogi cyflwyniad trefniadau herio perfformiad newydd, gyda dwy sesiwn hyfforddi fis Mai 2025. Fodd bynnag, gwelodd y panel dystiolaeth fod y niferoedd yn amrywio

11.21 **Argymhellion**

4	Mae angen i Gyngor Gwynedd ddatblygu a chytuno ar strategaeth risg gorfforaethol, sy'n mynegi parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg a: • Sicrhau cofrestr a strategaeth risg gorfforaethol gyfoes • Diffinio rôl y tîm arweinyddiaeth, y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, y cabinet, a'r cyngor llawn wrth oruchwylio a monitro'r strategaeth a'r gofrestr yn rheolaidd • Ystyried anghenion hyfforddi a datblygu aelodau ar oruchwylio risg y Cyngor
5	Dylai Cyngor Gwynedd fireinio ag uno ei drefniadau rheoli perfformiad gyda ffocws penodol ar ddangos cyfraniadau tuag at: • Gyflawni'r Cynllun Corfforaethol • Cysylltu â risgiau Corfforaethol ac adrannol • Cynyddu cyfleoedd ar gyfer herio cyfoedion ar draws a thu hwnt i'r Cyngor

12.0 Cydnabyddiaeth

12.1 Hoffai'r panel a CLILC ddiolch i'r Cyngor, ei Aelodau a'i Swyddogion am y gefnogaeth wrth gydlynu ceisiadau am ddogfennau, ymatebion i ymholiadau, trefnu cyfarfodydd a gweithdai a darparu cefnogaeth ymatebol ar y safle.

12.2 Hoffai'r Panel hefyd ddiolch i'r sefydliadau, y partneriaid a'r rhai a gyfwelwyd y cawsant gwrdd â nhw tra roeddent ar y safle.

Cynllun Gweithredu er mwyn ymateb i Argymhellion yr Asesiad Perfformiad gan Banel (10-13 Mawrth 2026)

Argymhelliad	Manylion yr Argymhelliad	Camau gweithredu Cyngor Gwynedd	Swyddog(ion) arweiniol	Dyddiad Cwblhau
Argymhelliad 1a **Cynllunio Strategol**	Dylai Cyngor Gwynedd adeiladu ar y dull presennol sy'n seiliedig ar themâu wrth baratoi a datblygu'r Cynllun Corfforaethol nesaf gyda ffocws ar: • Cynllunio hir dymor • Osod gweledigaeth ar gyfer Gwynedd a'r gwerthoedd sy'n hanfodol i'w gyflawni • Sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer y Cyngor a Gwynedd fel lle • Cynnwys staff, aelodau a'r gymuned ehangach i ddatblygu a chyflawni Cynllun Corfforaethol sy'n seiliedig ar le • Alinio'n llawn â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth Trawsnewid y Cyngor	• Sefydlu trefniadau clir a chynllun prosiect ar gyfer paratoi'r Cynllun Corfforaethol nesaf, gan gynnwys cylch gwaith, amserlen, adnoddau, pwy fydd yn gyfrifol a threfn adrodd cynnydd chwarterol.	Prif Weithredwr/Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Pennaeth Cyllid a Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor	Mawrth 2028 – Cyngor yn mabwysiadu Cynllun y Cyngor newydd
		• Adolygu'r Cynllun Corfforaethol presennol a'r dystiolaeth (perfformiad, data poblogaeth, asesiadau effaith, asesiadau llesiant, adborth partneriaid) i nodi themâu hirdymor a blaenoriaethau strategol.		
		• Datblygu gweledigaeth glir ar gyfer Gwynedd a set o werthoedd, gyda meini prawf llwyddiant a chanlyniadau y gellir eu mesur.		
		• Cynnal ymgysylltiad strwythuredig â staff ac aelodau (gweithdai/themâu) ac ymgynghoriad ehangach â'r gymuned a phartneriaid i fireinio'r blaenoriaethau "seiliedig ar le".		

		• Sicrhau aliniad llawn â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth Trawsnewid: mapio pob blaenoriaeth i gostau, buddion, risgiau a cherrig milltir, a chytuno ar drefniadau monitro ac adrodd.		
		• Cydweithio'n gynnar ac yn barhaus â'r Cabinet yn dilyn etholiadau 2027 i gytuno ar flaenoriaethau, dull "seiliedig ar le", a gwneud yn siŵr bod y Cynllun Corfforaethol nesaf yn adlewyrchu cyfeiriad gwleidyddol y tymor newydd.		
Argymhelliad 1b **Cynllunio Strategaethol am y dyfodol**	Dylai Cyngor Gwynedd adolygu capasiti ei arweinyddiaeth strategol ar lefel weithredol er mwyn ei alluogi i gyflawni ei flaenoriaethau allweddol a chynllunio ar gyfer yr hir dymor.	• Cwblhau adolygiad o gapasiti arweinyddiaeth strategol ar lefel weithredol gan asesu a yw'r trefniadau presennol yn ddigonol i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor a chefnogi cynllunio hirdymor.	Prif Weithredwr	Gorffennaf 2027
		• Mapio cryfderau, bylchau a risgiau o fewn y strwythur arweinyddiaeth presennol, gan gynnwys gwydnwch, olyniaeth a gallu'r Cyngor i arwain trawsnewid corfforaethol.		
		• Cymharu trefniadau arweinyddiaeth a strwythurau		

		rheoli â chynghorau tebyg er mwyn nodi arfer da a gwersi perthnasol.		
		• Datblygu opsiynau wedi eu costio ar gyfer cryfhau capasiti strategol, gan ystyried y goblygiadau o ran cyfrifoldebau corfforaethol, trefniadau cymorth a'r gallu i weithredu.		
		• Cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad i Bwyllgorau perthnasol, gyda chynllun gweithredu, amserlen a threfniadau monitro clir.		
Argymhelliad 2a **Trawsnewid**	Sicrhau bod y gweithlu yn greiddiol i'r gwaith cynllunio strategol a thrawsnewidiol yn y dyfodol, gan ddod â'r gwahanol feysydd ymarfer sydd eisoes yn bodoli o fewn y Cyngor ynghyd, er mwyn sicrhau dull Cyngor gyfan o gynnwys ac ymgysylltu mewnol.	Mapio a chydlynu'r trefniadau, sianeli a gweithgareddau ymgysylltu mewnol presennol ar draws y Cyngor er mwyn nodi cryfderau, bylchau, dyblygu a gwella chydlynu.	Pennaeth Gwasanaethau Gorfforaethol	Hydref 2027
		• Datblygu dull corfforaethol unedig ar gyfer cynnwys ac ymgysylltu â'r gweithlu gan gynnwys egwyddorion, safonau ymgysylltu, sianeli cyfathrebu a threfn defnyddio adborth staff.		
		• Diffinio rolau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu clir i sicrhau bod y gweithlu yn cael ei		

		gynnwys yn gyson ac yn ystyrlon mewn rhaglenni newid a blaenoriaethau corfforaethol.		
		• Sefydlu mecanweithiau cyfathrebu ac adborth rheolaidd gan gynnwys calendr ymgysylltu blynyddol, dulliau casglu adborth a threfn adrodd sut mae adborth wedi dylanwadu ar benderfyniadau.		
		• Monitro ac adolygu effeithiolrwydd y dull newydd yn rheolaidd, gan ddefnyddio data cyfranogiad, adborth staff ac enghreifftiau o newidiadau a wnaed i lywio gwelliant parhaus.		
Argymhelliad 2b **Trawsnewid**	Dylai Cyngor Gwynedd ddatblygu dull trawsnewidiol unedig sy'n gosod cyfeiriad cyffredinol a blaenoriaethau newid y sefydliad yn glir. Dylai'r dull hwn: • Weithredu ar lefel strategol sefydliad cyfan • Parhau i sylweddoli a defnyddio gwerth partneriaid • Cael ei integreiddio â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a'i ariannu drwyddo	• Datblygu dull trawsnewidiol corfforaethol unedig gan nodi cyfeiriad strategol, egwyddorion gweithredu a'r prif flaenoriaethau newid ar draws y Cyngor.	Prif Weithredwr / Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Pennaeth Cyllid	Mehefin 2027
		• Mapio pob rhaglen, prosiect a menter drawsnewid bresennol a'u rhoi o fewn fframwaith cydlynol sy'n nodi perchnogion, canlyniadau, cerrig milltir a threfniadau llywodraethu.		
		• Cytuno ar drefniadau gweithio gyda phartneriaid erbyn Mawrth 2027,		

	• Ddarparu sail gadarn ar gyfer diogelu gwydnwch ariannol hirdymor y sefydliad	gan nodi pa bartneriaid sy'n cyfrannu at bob blaenoriaeth drawsnewid a sut y bydd eu gwerth yn cael ei fesur.		
		• Integreiddio'r fframwaith trawsnewid â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig drwy gostio blaenoriaethau newid, nodi ffynonellau ariannu a diffinio buddion ariannol ac anariannol disgwyliedig.		
		• Defnyddio'r fframwaith fel sail i gryfhau gwydnwch ariannol hirdymor y sefydliad a monitro cynnydd yn erbyn y canlyniadau disgwyliedig.		
Argymhelliad 3 **Adnoddau a Gweithio mewn Partneriaeth**	Er mwyn meithrin capasiti a chryfhau cydweithio gyda phartneriaid: • Dod â strategaeth economaidd fabwysiedig yn fyw ar bob lefel ledled Gwynedd • Gwireddu potensial gweithio mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned • Cynyddu gallu'r cyngor i gyflawni ei uchelgeisiau economaidd/cymdeithasol	• Paratoi cynllun gweithredu ar gyfer gweithredu'r strategaeth economaidd fabwysiedig gan gysylltu pob blaenoriaeth â chanlyniadau mesuradwy, perchnogion a cherrig milltir.	Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Corfforaethol/Pennaeth Economi a Chymuned	Hydref 2027
		• Cryfhau'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned, gan adnabod cyfleoedd ymarferol ar gyfer cydweithio, rhannu adnoddau a chyflawni blaenoriaethau lleol.		

	• Sicrhau bod Cytundeb Mantell Gwynedd yn cael ei weithredu a'i fonitro'n llawn	• Adolygu'r capasiti ac adnoddau'r Cyngor i gyflawni uchelgeisiau economaidd a chymdeithasol, a chyflwyno opsiynau i gryfhau'r gallu hwnnw lle bo angen. • Cytuno ar drefniadau gweithredu, cydlynu, monitro ac adrodd ar gyfer Cytundeb Mantell Gwynedd, gan gynnwys perchnogion gwaith, cerrig milltir a threfn adrodd cynnydd.		
Argymhelliad 4 **Risg**	Mae angen i Gyngor Gwynedd ddatblygu a chytuno ar strategaeth risg gorfforaethol, sy'n mynegi archwaeth risg y cyngor ac yn: • Sicrhau cofrestr a strategaeth risg gorfforaethol gyfoes • Diffinio rôl y tîm arweinyddiaeth, y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, y cabinet, a'r cyngor llawn wrth oruchwylio a monitro'r strategaeth a'r gofrestr yn rheolaidd • Ystyried anghenion hyfforddi a datblygu aelodau ar oruchwylio risg y cyngor	• Cwblhau a chyflwyno'r Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg Corfforaethol diwygiedig (gan gynnwys datganiad archwaeth risg) i'w gymeradwyo gan y Cabinet, ac adolygiad blynyddol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio . • Sicrhau bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyfoes: safoni'r templed cofrestr risg, diffinio perchnogion risg, a chadarnhau bod pob risg yn cynnwys sgoriau Cyfredol (Residual) a Tharged (Target) gan ddefnyddio matrics 5x5 y Cyngor. • Gosod trefniadau llywodraethu, adrodd ac adolygu: (a) Tîm Rheoli Corfforaethol i adolygu'r Gofrestr	Pennaeth Cyllid	Mehefin 2027

		Risg Gorfforaethol yn chwarterol a chytuno ar esgyn/diraddio risgiau; (b) adrodd chwarterol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; (c) Cabinet i osod archwaeth risg y Cyngor, gan sicrhau bod penderfyniadau'n ystyried risgiau ac yn aros o fewn y terfynau, tra'n adolygu a gwella trefniadau rheoli risg yn rheolaidd.		
		• Datblygu a darparu rhaglen hyfforddi a datblygu ar reoli risg ar gyfer Aelodau (gan gynnwys rôl goruchwylio, archwaeth risg, darllen cofrestr risg, a herio rheolaethau), ac i reolwyr fel "perchnogion risg"; cofnodi presenoldeb a chynnal sesiynau adnewyddu'n flynyddol.		
		• Atgyfnerthu'r broses a'r diwylliant: sefydlu amserlen adolygu cofrestrau risg gwasanaeth (o leiaf chwarterol), defnyddio dull "SMART" i olrhain camau lliniaru, a chofnodi "gwersi a ddysgwyd" o ddigwyddiadau/awdits i lywio gwelliant parhaus.		
Argymhelliad 5	Dylai Cyngor Gwynedd fireinio ag uno ei drefniadau rheoli	• Adolygu a mapio'r trefniadau rheoli perfformiad presennol ar draws y Cyngor er mwyn uno prosesau,	Prif Weithredwr / Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor	Hydref 2027

Rheoli Perfformiad	perfformiad gyda ffocws penodol ar ddangos cyfraniadau tuag at: • Gyflawni'r Cynllun Corfforaethol • Gysylltu â risgiau Corfforaethol ac adrannol • Gynyddu cyfleoedd her gan cymheiriaid ar draws a thu hwnt i'r Cyngor	lleihau dyblygu a chreu fframwaith corfforaethol mwy cydlynol.		
		• Datblygu set graidd o fesurau a dangosyddion perfformiad sy'n dangos cyfraniad gwasanaethau ac adrannau at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol.		
		• Integreiddio adroddiadau perfformiad â'r gofrestr risg gorfforaethol a chofrestrau risg adrannol er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng cynnydd, risgiau, camau lliniaru a phenderfyniadau rheoli.		
		• Sefydlu rhaglen flynyddol o graffu a her gan gymheiriaid o fewn ac y tu hwnt i'r Cyngor, gan gofnodi adborth, argymhellion a chamau gwella sy'n deillio o'r broses.		
		• Cryfhau trefniadau monitro, adrodd ac adolygu rheolaidd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth perfformiad yn cael ei defnyddio'n gyson i lywio penderfyniadau, gwella gwasanaethau a chefnogi atebolrwydd corfforaethol.		

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	**TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR**
Aelod Cabinet:	**Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid**
Swyddog perthnasol:	**Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid**
Dyddiad y cyfarfod:	**10 Tachwedd 2026**

1. PENDERFYNIAD A GEISIR:

Argymell i'r Cyngor llawn ar 3 Rhagfyr 2026 mai'r canlynol yw'r opsiwn a ffafrir o safbwynt lefel y Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2027/28:

- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).**
- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).**
- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 150% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).**

2. Y RHESWM PAM FOD ANGEN I'R CABINET WNEUD Y PENDERFYNIAD:

2.1 Yn unol â gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniad blynyddol os yw am godi Premiwm ar Dreth Cyngor eiddo gwag hir-dymor ac ail gartrefi ("anheddau wedi eu meddiannu'n gyfnodol). Heb benderfyniad, byddai'n rhaid cynnig disgownt o 50% ar Dreth Cyngor eiddo o'r fath.

2.2 Er mai'r Cyngor llawn sydd rhaid gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â disgownt neu bremiwm Treth Cyngor, a lefel y disgownt neu bremiwm, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor mae angen i'r Cabinet wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn.

2.3 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27, mae'r Cyngor wedi codi Premiwm Treth Cyngor o 150% ar ail gartrefi ac ar eiddo gwag hirdymor, ond mae deddfwriaeth yn rhoi caniatâd i'r Cyngor godi Premiwm o hyd at 300%.

2.4 Fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn cynyddu'r gyfradd Premiwm, bydd yn rhaid iddo ystyried a fyddai penderfyniad o'r fath yn rhesymol ar ôl ystyried y canllawiau statudol, canlyniad ymchwil a chyngor cyfreithiol y mae'r awdurdod wedi'i gael.

2.5 Mae copi o'r Canllawiau Statudol diweddaraf yn Atodiad 1.

3. CYFLWYNIAD A RHESYMEG

Cefndir/ Cyflwyniad

3.1 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi Premiwm ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.

3.2 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.

3.3 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i ganiatáu DIM disgownt i eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.

3.4 Ychwanegodd Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "Premiwm" o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi dosbarth B (Adran 12B)

3.5 Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai'n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor, yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Ar 4 Mawrth 2021, penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu'r Premiwm i 100%, sef y lefel uchaf bosib dan y ddeddfwriaeth, ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, ac ar 2 Rhagfyr 2021 penderfynodd gadw lefel y Premiwm yn 100% ar gyfer 2022/23.

3.6 Mae *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 (SI 2022/370 Cy.90)* wedi addasu Adrannau 12A a 12B Deddf 1992 sy'n rhoi grym i awdurdodau bilio godi premiwm o hyd ar 300% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a blynyddoedd ariannol dilynol.

3.7 Mewn ymateb i'r newid deddfwriaethol yma, ar 1 Rhagfyr 2022 penderfynodd y Cyngor gynyddu'r Premiwm ar ail gartrefi i 150% a chadw'r Premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Roedd hyn yn dilyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr yn ystod hydref 2022. Ar 7 Rhagfyr 2023 penderfynodd y Cyngor gadw'r Premiwm ar yr un lefel yn 2024/25.

3.8 Mae adroddiad y Cyngor ar 1 Rhagfyr 2022, pan osodwyd lefel presennol y Premiwm am y tro cyntaf, i'w gael yma: Rhaglen ar gyfer Y Cyngor ar Dydd Iau, 1af Rhagfyr, 2022, 1.00 y.h. Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r holl resymeg dros osod y lefelau hynny.

3.9 Yn 2022 daethpwyd i'r casgliad:

"12.6. Mae'r Cabinet wedi gwneud ei argymhelliad gan ddod i'r casgliad nad oes modd sefydlu cyfiawnhad cyffelyb i gynyddu'r premiwm uwchlaw cyfradd o 150%. Nid yw nifer o'r camau pellach hyn megis newidiadau i'r gyfundrefn cynllunio na threth busnes wedi dod yn weithredol eto a felly nid ydym wedi cael cyfle i asesu ardrawiad y polisïau hyn yng ngwyneb newid sylweddol iawn yn y Premiwm, na'r oblygiadau ymarferol."

3.10 Roedd hyn yn dilyn proses ymgynghori eang yn ystyried yr ystod o gynnydd oedd yn agored hyd at 300%. Bellach mae sawl newid wedi dod yn weithredol a dechrau cael effaith ar y farchnad. Mae'r system trethi busnes wedi newid ers 1 Ebrill 2023 gan gynyddu y gofynion i ganiatáu trosglwyddo eiddo gwyliau i dreth busnes i osod am 182 diwrnod ac argaeledd o 282 diwrnod.

3.11 Er mwyn gallu amddiffyn penderfyniad i godi Premiwm ar gyfradd uwch i ail gartrefi nag y mae ar hyn o bryd, felly, bydd angen gallu arddangos **beth sydd wedi newid** ers i'r lefel presennol gael ei osod yn Rhagfyr 2022, a bod hynny yn gosod sail a rhesymeg i adolygu.

3.12 Yn Rhagfyr 2025, penderfynodd y Cyngor, ar sail argymhelliad gan y Cabinet, i gynyddu'r Premiwm ar eiddo gwag hirdymor i 150% fel ei fod y gyson â'r Premiwm ar ail gartrefi. Roedd hyn fel canlyniad i ystadegau a gwybodaeth oedd yn tynnu sylw at effaith y premiwm ar eiddo y math penodol hwn. Ar yr un pryd, roedd nifer yr eiddo gwag hirdymor wedi aros yn ddigyfnewid ers y penderfyniad yn 2022. Y rhagdybiaeth a gymerwyd yn 2022 o ganlyniad i'r ymgynghoriad oedd gosod lefel benodol i gyflawni bwriad y premiwm. Fodd bynnag, erbyn 2025 roedd yr ystadegau yn arwain at y casgliad bod angen adolygu'r lefel. O ganlyniad, roedd sail i barhau i ddibynnu ar yr ymgynghoriad a'r canlyniad wrth ystyried y wybodaeth ddiweddaraf i adolygu'r lefel premiwm eiddo gwag hirdymor. Gan nad oes argymhelliad i newid y Premiwm ni ystyrir gan ddal sylw at yr Arweiniad Statudol fod angen penodol i ymgynghori ar hyn o bryd.

3.13 Mae'r penderfyniad a geisir yn cynnig cadw graddfa'r premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag fel y maent.

4. GWAITH YMCHWIL

4.1 Wrth osod lefel cyfredol y Premiwm ar ail gartrefi, gofynnodd y Cyngor llawn am waith ymchwil er mwyn dadansoddi'r effaith yr oedd y Premiwm yn ei gael ar gymunedau Gwynedd.

4.2 Cyflwynwyd canlyniad y gwaith ymchwil hwn i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn yn Tachwedd a Rhagfyr 2024, ac i'w gael yma:

Tystiolaeth am effaith y premiwm treth gyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd, Tachwedd 2024

Atodiadau

4.3 Comisiynwyd gwaith ymchwil pellach ar gyfer penderfyniad 2025. Unwaith eto, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlyniadau gan y Cabinet a'r Cyngor Llawn:

Tystiolaeth am effaith y premiwm treth gyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd, Diweddariad Tachwedd 2025

Atodiadau

4.4 Casgliadau'r gwaith ymchwil oedd na chafodd cadw graddfa'r Premiwm ar gyfer eiddo gwag hirdymor ar lefel is na'r Premiwm ar ail gartrefi effaith ar leihau nifer yr eiddo gwag. Mae gan y Cyngor Gynllun Tai Gwag yn ei le sydd yn anelu i ddod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd, ond serch hynny gwelwyd fod nifer yr anheddau oedd wedi bod yn wag yng ers nifer o flynyddoedd yn parhau'n bryder ac fel roedd y gwaith ymchwil yn nodi nid oedd lefel Premiwm o 100% i weld fod wedi cael effaith ar hyn.

4.5 Penderfynwyd, felly, y byddai'n briodol fod lefel y Premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei adolygu gyda'r canlyniad ei fod yn cynyddu i 150% o 1 Ebrill 2026 ymlaen.

4.6 Mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i allu dod i gasgliad pendant os ydi'r cynnydd hwn wedi cael yr effaith a ddymunir i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

Ystyriaethau eraill

4.7 Roedd y gwaith ymchwil yn dangos fod nifer yr ail gartrefi wedi cynyddu ers 2024/25 ar ôl sawl blwyddyn o ostwng, gyda'r newid yn fwy amlwg nag oedd yng ngwaith ymchwil Tachwedd 2024. Roedd y newid sydyn yma o ganlyniad i newid deddfwriaethol lle bellach rhaid gosod eiddo am 182 diwrnod y flwyddyn i fod yn gymwys i fod ar y rhestr ardrethi annomestig.

4.8 Fel canlyniad i'r newid, roedd Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr wedi trosglwyddo nifer o eiddo o fewn Gwynedd o'r gyfundrefn ardrethi annomestig i fand Treth Cyngor a gan nad oes trigolyn yn yr eiddo mae'r anheddau hyn hefyd yn destun Premiwm.

4.9 Fodd bynnag, rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2026 mae Swyddfa'r Prisiwr wedi trosglwyddo 454 eiddo *yn ôl* i'r gyfundrefn ardrethi annomestig, unai yn dilyn apêl gan y trethdalwr, gwybodaeth bellach wedi cael ei gyflwyno iddynt neu mae'r gosod bellach yn cwrdd â'r trothwy 182 diwrnod. Mae hyn yn dangos fod sefyllfa statws eiddo yn parhau yn un hynod gyfnewidiol a felly a ni welir fod yna gyfiawnhad i newid y raddfa Premiwm ar ail gartrefi (Adran 12B Deddf 1992) ar gyfer 2027/28.

4.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori yn ddiweddar ar addasiadau i'r rheolau "182 diwrnod" a gall hyn newid y sefyllfa eto yn y flwyddyn nesaf. Mae'r ansicrwydd yma hefyd yn fater i'w ystyried ac yn awgrymu y byddai'n gynamserol newid y gyfradd premiwm i ail gartrefi ar hyn o bryd.

5. DEFNYDD Y PREMIWM

5.1 Ers cyflwyno'r Premiwm ar gychwyn blwyddyn ariannol 2018/19, mae'r arian sy'n cael ei gasglu trwy'r Premiwm wedi cael ei osod mewn cronfa benodol, a hynny er mwyn ariannu prosiectau penodol sydd wedi cael eu hamlinellu yn y Cynllun Gweithredu Tai. Ers blwyddyn ariannol 2023/24 mae £3m (wedi ei gynyddu â chwyddiant) yn cael ei ddefnyddio yn y gyllideb refeniw tuag at ariannu'r gwasanaeth Digartrefedd.

5.2 Bydd y Cynllun Gweithredu Tai yn buddsoddi dros £180m dros oes y Cynllun, a hynny trwy dynnu ar sawl ffynhonnell ariannol, megis Grant Cymorth Tai a Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor ac wrth gwrs y Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi a Thai Gwag.

5.3 Mae'r cyllid a dderbynnir o'r gronfa Premiwm Treth wedi'i glustnodi'n llawn yn erbyn sawl prosiect yn y Cynllun Gweithredu Tai, megis cynlluniau llety â chefnogaeth, codi ein tai ein hunain, cyfrannu at elfennau trigiannol mewn cynlluniau cymunedol, dod â thai gwag y sir yn ôl i ddefnydd, a sicrhau bod pobl anabl yn gallu parhau i fyw yn eu cartrefi presennol.

5.4 Mae gallu cynnwys y Premiwm fel ffynhonnell ariannol wedi galluogi i'r Adran Tai ac Eiddo ddenu sawl grant ychwanegol. Rhoddwyd blaenoriaeth i wario'r grantiau hynny'n gyntaf gan fod terfyn amser arnynt, ac mae hynny yn ei dro wedi caniatáu i'r Cyngir flaenoriaethu gwariant o'r premiwm a sicrhau bod hynny'n dod â'r budd mwyaf i bobl Gwynedd.

5.5 Cyflwynwyd dau adroddiad ar ddefnydd y Premiwm yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ar 19 Mai 2026 a 7 Gorffennaf 2026. Penderfyniad y Cabinet bryd hynny oedd i ddyrannu incwm ychwanegol o'r premiwm ar eiddo gwag ac ail-gartrefi i'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn yr adroddiadau.

6. ASESIADAU EFFAITH

6.1 Mae'r Asesiad Effaith sydd yn Atodiad 2 yn adlewyrchu gofynion a datblygiadau diweddar, amgylchiadau newidiol, a chanlyniadau'r ymgynghoriad cynhwysfawr a gynhaliwyd yn 2022.

6.2 Canlyniad yr Asesiad Effaith a gwblhawyd yn 2022 wrth osod lefel gyfredol y Premiwm yw fod ychydig o dystiolaeth y byddai cynyddu'r premiwm ar ail-gartrefi yn gwahaniaethau yn erbyn grŵp gwarchodedig, gyda data yn awgrymu fod perchnogion ail gartrefi yn tueddu i fod yn bobl hŷn ac yn adnabod eu hunain fel Saeson. Bwriad y polisi o safbwynt Premiwm Treth Cyngor yw cydnabod fod eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cynyddu rhai o broblemau cymdeithasol Gwynedd, a dylai'r perchnogion wneud cyfraniad ariannol i liniaru peth o'r anfanteision maent yn eu hachosi.

6.3 Roedd asesiad 2022 hefyd yn dod i gasgliad y byddai'r Premiwm yn cael effaith bositif ar y cyfan ar yr iaith Gymraeg a chydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy. Fodd bynnag, nodir fod hyn yn ganlyniad nifer o ffactorau positif a negyddol sy'n effeithio ar yr Iaith, sy'n cael sylw mewn nifer o fannau yn yr adroddiad yma a'r atodiadau.

7. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

7.1 Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.

7.2 Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol:

- Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor
- Trigolion sy'n Iach ac yn Annibynnol gyda Safon Bywyd Da

7.3 Mae'r Premiwm presennol yn ariannu Cynllun Gweithredu Tai y Cyngor (a chostau gweinyddu ychwanegol cysylltiedig), sy'n ymgais ragweithiol i gryfhau cynaladwyedd y cymunedau hynny o fewn Gwynedd sydd â nifer uchel o ail gartrefi a thai gwag hir dymor.

7.4 Mae Strategaeth Tai y Cyngor yn nodi'r weledigaeth o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".

7.5 Mae'r Strategaeth yn adnabod pum amcan yr oedd yn rhaid ceisio eu cyfarch os oedd y Cyngor am gyflawni'r weledigaeth hon:

1. Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
2. Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
3. Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
4. Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
5. Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

7.6 Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys nifer o brosiectau sydd, gyda'i gilydd, yn mynd ati i wireddu'r amcanion hyn.

8. CAMAU NESAF

8.1 Bydd argymhelliad y Cabinet yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:

Swyddog Monitro:

Mae'r drefn ar gyfer penderfynu a'r camau i wneud yr argymhelliad yn cyd fynd a'r arweiniad cyfreithiol sydd wedi ei ddarparu yn flaenorol .

Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

DOGFENNAU CEFNDIR

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Treth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi

Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar bremiymau'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Mawrth 2023

Diweddarwyd ddiwethaf: 9 Mawrth 2023

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

Rhagymadrodd

Rhan 1: gweithredu premiwm y dreth gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol yng Nghymru

Rhan 2: gweinyddu a Gorfodi

Rhan 3: monitro ac adrodd ar bremiymau'r dreth gyngor

Rhan 4: apeliadau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Rhagymadrodd

Ers 1 Ebrill 2017, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gallu codi premiwm o hyd at 100% o gyfradd safonol y dreth gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol (y cyfeirir atynt yn fwy cyffredin fel ail gartrefi) yn eu hardaloedd. O 1 Ebrill 2023, bydd y premiymau uchaf y gall awdurdodau lleol eu pennu ar gyfer y dreth gyngor yn cynyddu i 300%. Pwerau disgresiwn yw'r pwerau a roddir i awdurdodau lleol, felly mater i bob awdurdod lleol fydd penderfynu a fydd yn codi premiwm ar eiddo gwag hirdymor neu ail gartrefi (neu'r ddau).

Diben y canllawiau hyn yw sicrhau bod dull teg a chyson yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru a helpu awdurdodau lleol i wneud y canlynol:

- penderfynu a ddylid codi premiwm neu ddiwygio premiwm yn eu hardal leol
- gweinyddu a gorfodi premiymau
- cymhwyso'r eithriadau
- monitro ac adrodd ar y defnydd a wneir o bremiymau

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar bremiwm ar gyfradd safonol y dreth gyngor fel y nodir yn adrannau 12A (3) a 12B (4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (‘Deddf 1992’) fel y'u mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (‘Deddf 2014’).

Ni ddylid trin y canllawiau hyn fel dehongliad o'r ddeddfwriaeth. Mater i'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf yw dehongli'r ddeddfwriaeth, a'r llysoedd sy'n gyfrifol am roi dehongliad diffiniol.

Rhan 1: gweithredu premiwm y dreth gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

feddiennir yn gyfnodol yng Nghymru

Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer premiymau'r dreth gyngor

Mae'r adran hon yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol sy'n berthnasol i'r premiwm ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol. Caiff gofynion penodol ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn Adran 12a, a chaiff gofynion penodol ar gyfer anheddau a feddiennir yn gyfnodol yn Adran 12b.

Adrannau 12A a 12B i alluogi awdurdod bilio (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) yng Nghymru i ddatgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd i anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol a chymhwyso swm uwch o dreth gyngor (premiwm).

Diwygiodd Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 ('Rheoliadau 2022') adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992 gan gynyddu'r swm uwch o dreth gyngor y gall awdurdod bilio (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) ei gymhwyso i anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol i 300% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023 i 2024 a blynyddoedd dilynol.

Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu codi premiwm, rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad o'r penderfyniad mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn ei ardal o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad.

Yn ogystal, os bydd awdurdod bilio yn penderfynu codi premiwm, bydd hyn yn datgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd o dan adran 11(2)(a) o Ddeddf 1992 ar gyfer anheddau lle nad oes preswylwyr.

Gall awdurdod bilio wneud, amrywio, neu ddirymu penderfyniad a wnaed o dan adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992, ond dim ond cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddi. Drwy arfer y pwerau hyn, gall

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

awdurdod bilio hefyd benderfynu ar y mathau neu'r dosbarthiadau o eiddo yn y categorïau anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi y byddant yn cymhwyso premiwm iddynt. Mae hyn yn galluogi pob awdurdod i deilwra ei benderfyniadau at amgylchiadau lleol.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau hefyd o dan adran 12A(4) a 12A(5), a 12B(5) a 12B(6) o Ddeddf 1992 i ragnodi, drwy reoliadau, ddosbarthiadau penodol o anheddau na ellir codi premiwm arnynt. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) 2015 yn rhagnodi'r eithriadau ac fe'u nodir yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn.

Mae system y dreth gyngor eisoes yn darparu sawl eithriad penodol rhag y dreth gyngor. Mae'r grwpiau esempt wedi'u nodi yng Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992 (fel y'i diwygiwyd). Mae sawl esemptiad ar gyfer anheddau sydd heb eu meddiannu, er enghraifft:

- pan fo'r preswylydd yn yr ysbyty neu mewn lleoliad gofal preswyl hirdymor
- pan fo adeiladwaith annedd yn cael ei atgyweirio (am hyd at flwyddyn)
- pan fo'r preswylydd wedi marw (am hyd at chwe mis ar ôl y grant profiant neu lythyrau gweinyddu)

Ni ellir codi premiwm ar annedd sy'n esempt rhag y dreth gyngor. Fodd bynnag, os nad yw annedd yn gymwys i gael esemptiad mwyach, ac nid oes neb yn ei meddiannu o hyd, gellir codi premiwm arni os oes un yn gymwys. Yn achos annedd wag, gellir codi premiwm arni ar ôl iddi fod yn wag am gyfnod parhaus o flwyddyn, a bydd hyn yn cynnwys y cyfnod y bydd unrhyw esemptiad wedi cael ei gymhwyso ar ei gyfer.

Adran 12A: swm uwch ar gyfer anheddau gwag hirdymor

At ddiben yr adran hon, caiff annedd wag hirdymor ei diffinio fel annedd nad yw'n cael ei meddiannu ac sydd heb fawr o ddodrefn am gyfnod parhaus o

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

flwyddyn o leiaf.

Os caiff annedd ei dodrefnu neu'i meddiannu am un neu fwy o gyfnodau o chwe wythnos neu lai yn ystod y flwyddyn, ni fydd hyn yn effeithio ar ei statws fel annedd wag hirdymor. Hynny yw, ni all person newid statws annedd fel annedd wag hirdymor drwy feddiannu neu ddodrefnu'r annedd am gyfnod byr.

Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu codi premiwm ar anheddau gwag hirdymor, gall bennu canrannau gwahanol ar gyfer anheddau gwahanol yn seiliedig ar y cyfnod y maent wedi bod yn wag. Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i weithredu fesul cam, gan gynyddu premiymau yn raddol dros amser.

Adran 12B: swm uwch ar gyfer anheddau a feddiennir yn gyfnodol

At ddiben yr adran hon, caiff ail gartref ei ddiffinio fel annedd nad yw'n unig neu brif gartref person ac sydd wedi'i dodrefnu'n sylweddol. Mae Deddf 1992 yn cyfeirio at yr anheddau hyn fel anheddau a feddiennir yn gyfnodol ond cyfeirir atynt yn gyffredin fel ‘ail gartrefi’.

Er mwyn i bremiwm fod yn gymwys i anheddau a feddiennir yn gyfnodol, rhaid i awdurdod bilio wneud ei benderfyniad cyntaf o dan adran 12B o leiaf flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm yn berthnasol iddi.

O hyn ymlaen, bydd y canllawiau yn cyfeirio at eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

Penderfynu codi premiymau'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi

Bwriedir i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol godi premiwm fod yn adnodd i

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

helpu i wneud y canlynol:

- sicrhau bod eiddo gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto er mwyn darparu cartrefi diogel a fforddiadwy
- helpu awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwneud cymunedau lleol yn fwy cynaliadwy

Gall awdurdodau lleol gymhwyso premiymau i eiddo gwag hirdymor neu ail gartrefi neu'r ddau, a gallant bennu premiymau gwahanol i bob dosbarth.

Cafodd y pwerau eu dylunio'n benodol i fod yn bwerau disgresiwn er mwyn galluogi awdurdodau lleol i'w defnyddio yn eu ffyrdd eu hunain i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol ac adlewyrchu'r patrymau gwahanol o ran argaeledd tai a'r angen am dai sydd i'w gweld ledled Cymru.

Mae ystod o ffactorau a allai helpu awdurdodau lleol i benderfynu a ddylid codi premiwm ai peidio. Bydd rhai ffactorau yn benodol i eiddo gwag hirdymor neu ail gartrefi, ond bydd ffactorau eraill yn berthnasol i'r ddau. Mae'r ffactorau hyn wedi'u rhestru isod er mwyn helpu awdurdodau lleol. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr.

- Nifer a chanrannau'r eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi yn yr ardal leol.
- Dosbarthiad eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd penodol.
- Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth.
- Patrymau o ran y galw am gartrefi fforddiadwy a faint ohonynt sydd ar gael.
- Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol.
- Yr effaith bosibl ar y gymuned leol.
- Yr effaith bosibl ar y Gymraeg.
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau er mwyn cynyddu'r cyflenwad tai a nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael.
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau er mwyn helpu i sicrhau bod eiddo

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto.

Fel arfer, bydd penderfyniad awdurdod lleol i godi premiwm o dan adran 12A neu 12B o Ddeddf 1992 yn rhan o broses pennu'r gyllideb gan ei fod yn debygol o effeithio ar benderfyniadau ynghylch gwariant a phennu trethi. Felly, caiff y penderfyniad ei wneud gan y Cyngor llawn fel rheol. Cyn gwneud hynny, rhaid i awdurdod lleol roi ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng Nghymru a ddaeth i rym yn 2011, yn ogystal ag unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut mae ei bolisi yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn cyfrannu'n benodol at yr amcanion o greu Cymru lewyrchus; Cymru sy'n fwy cyfartal; a Chymru o gymunedau cydlynus.

Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried amseriad unrhyw benderfyniadau i gyflwyno neu amrywio premiwm ar gyfer blwyddyn ariannol. Bydd unrhyw newid i bremiwm yn newid cynlluniau refeniw awdurdod a dylai'r awdurdod gadw hyn mewn cof wrth bennu'r gyllideb. Fel rheol, disgwylir i awdurdod lleol adlewyrchu ei sylfaen drethu arfaethedig, gan gynnwys pob disgownt a phremiwm, erbyn diwedd mis Rhagfyr ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, felly mae unrhyw benderfyniadau a wneir ar ôl hyn yn peryglu hygrededd data cyhoeddedig a gallant arwain at feirniadaeth.

Dylai awdurdod lleol ystyried sut mae'n ymgysylltu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol a pherchnogion ail gartrefi, cyn penderfynu codi premiwm.

Anogir awdurdodau lleol yn gryf i ymgynghori cyn gwneud penderfyniad cyntaf i godi premiwm. Ar gyfer ail gartrefi, rhaid gwneud y penderfyniad cyntaf i godi premiwm o leiaf 12 mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm arfaethedig yn berthnasol iddi. Nid yw hyn yn berthnasol i eiddo gwag ond, gan fod yn rhaid i annedd wag fod yn wag am o leiaf 12 mis cyn y gellir cymhwyso premiwm iddi, awgryma Llywodraeth Cymru y dylid gwneud penderfyniad cyntaf

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

i gymhwyso premiwm i anheddau gwag hirdymor o leiaf chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm yn berthnasol iddi. Dylai awdurdod lleol gynnal asesiad llawn o'r effeithiau posibl, gan gynnwys ar y boblogaeth leol, ei gymunedau, a'r economi leol.

Rhaid cadarnhau unrhyw fwriad i amrywio neu ddirymu penderfyniad i gymhwyso premiwm cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi. Hefyd, anogir awdurdodau lleol yn gryf i ymgynghori cyn penderfynu cynyddu premiwm uwchlaw 100% gan wneud hynny o leiaf chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r cynnydd arfaethedig i'r premiwm yn berthnasol iddi. Bydd hyn yn golygu y bydd modd ystyried y premiwm wrth bennu lefelau'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf a bydd yn rhoi digon o amser i drethdalwyr ystyried effaith premiwm uwch ar eu hamgylchiadau ariannol personol a gwneud dewisiadau ynghylch eu heiddo.

Ar ôl penderfynu cyflwyno neu amrywio premiwm, yn ychwanegol at y gofyniad i gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol o fewn 21 diwrnod, dylai awdurdod lleol ystyried sut y bydd yn rhannu gwybodaeth am ei benderfyniad yn ehangach, yn enwedig i'r rhai y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt. Gellir gwneud hyn drwy gyhoeddi datganiadau i'r wasg, darparu gwybodaeth ar dudalennau gwe neu drwy lwybrau eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth, er enghraifft, cyfathrebu'n uniongyrchol â'r sawl sy'n talu'r dreth gyngor ac y mae'n debygol y bydd y premiwm yn gymwys iddynt. Dylai awdurdod lleol hefyd ystyried sut y mae'n hysbysu'r rhai nad ydynt yn byw yn yr ardal leol o bosibl ond y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt.

Eithriadau i bremiymau'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi

Mae adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi un dosbarth neu fwy o anheddau na chaiff awdurdod bilio benderfynu cymhwyso premiwm iddynt. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

(Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 wedi'u gwneud o dan y pwerau hyn ni ellir codi premiwm ar annedd sy'n dod o dan eithriad. Rhaid i awdurdod lleol ystyried yr eithriadau hyn cyn penderfynu rhoi premiwm ar waith.

Mae'r rheoliadau yn rhagnodi saith dosbarth o anheddau esempt. Mae dosbarthiadau 1, 2, 3 a 4 yn gymwys i eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Mae dosbarthiadau 5, 6 a 7 yn gymwys i ail gartrefi yn unig. Amlinellir y dosbarthiadau anheddau yn y tabl canlynol a cheir rhagor o fanylion isod.

Dosbarth 1: anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu neu lle mae cynnig i brynu'r annedd wedi cael ei dderbyn gyda therfyn amser o flwyddyn

Cymhwyso

Eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

Dosbarth 2: anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod neu lle mae cynnig i rentu'r annedd wedi cael ei dderbyn gyda therfyn amser o flwyddyn

Cymhwyso

Eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dosbarth 3: anecsau sy'n rhan o'r brif annedd neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd

Cymhwyso

Eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

Dosbarth 4: anheddau a fyddai'n unig neu'n brif breswylfa i rywun pe na bai'n byw mewn llety i'r lluoedd arfog

Cymhwyso

Eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

Dosbarth 5: lleiniau carafanau ac angorfeydd cychod a feddiennir

Cymhwyso

Ail gartrefi.

Dosbarth 6: anheddau lle mae amod cynllunio yn nodi na ellir eu meddiannu drwy gydol y flwyddyn neu'n barhaol, neu'n nodi'n benodol mai dim ond fel llety gwyliau y gellir eu defnyddio, neu'n atal person rhag eu defnyddio fel

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

unig neu brif breswylfa

Cymhwyso

Ail gartrefi.

Dosbarth 7: anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi

Cymhwyso

Ail gartrefi.

Dosbarth 1: anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ar ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu. Mae hefyd yn cwmpasu anheddau lle mae cynnig i brynu'r annedd wedi cael ei dderbyn ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto.

I fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn, rhaid bod annedd ar werth am bris sy'n rhesymol i'r annedd honno. Wrth ystyried a yw pris yn rhesymol ai peidio, dylid ystyried prisiau gwerthu anheddau tebyg yn yr ardal. Mae canllawiau ychwanegol ar gael yn Rhan 2 Gweinyddu a Gorfodi er mwyn helpu awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

Mae'r eithriad yn para am gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y caiff yr eithriad ei roi. Ar ôl i eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sydd ar y farchnad i'w gwerthu yn gymwys i gael eithriad arall oni bai ei bod wedi cael ei gwerthu.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dosbarth 2: anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod. Mae hefyd yn cwmpasu anheddau lle mae cynnig rhentu wedi cael ei dderbyn ond nad oes hawl gan y tenant feddiannu'r eiddo eto am nad yw'r denantiaeth wedi dechrau.

I fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn, rhaid bod annedd ar y farchnad i'w gosod am rent rhesymol, hynny yw, y rhent y byddai disgwyl i'r eiddo ei sicrhau o ystyried y rhent a godir ar anheddau tebyg. Mae canllawiau ychwanegol ar gael yn Rhan 2 Gweinyddu a Gorfodi er mwyn helpu awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

Mae'r eithriad yn para am gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y caiff yr eithriad ei roi. Ar ôl i'r eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sydd ar y farchnad i'w gosod yn gymwys i gael eithriad arall oni bai bod tenantiaeth wedi cael ei rhoi am gyfnod o chwe mis neu fwy ar gyfer yr annedd honno.

Dosbarth 3: anecsau sy'n rhan o'r brif annedd neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ar ail gartrefi.

Mae'r eithriad hwn yn gymwys pan fydd perchennog wedi addasu ei annedd i ddarparu anecs ac mae'r anecs bellach yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r brif annedd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dosbarth 4: anheddau a fyddai'n unig neu'n brif breswylfa i rywun pe na bai'n byw mewn llety i'r lluoedd arfog

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ar ail gartrefi.

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i anheddau a fyddai'n unig neu'n brif breswylfa person ond nad yw'n cael ei meddiannu am fod y person hwnnw yn byw mewn llety i'r lluoedd arfog.

Bwriedir bod yr eithriad hwn yn cynnwys aelodau o'r lluoedd arfog nad yw eu cartrefi yn cael eu meddiannu am eu bod yn byw mewn llety i'r lluoedd arfog dramor.

Dosbarth 5: lleiniau carafanau ac angorfeydd cychod a feddiennir

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n cwmpasu anheddau sy'n cynnwys llain a feddiennir gan garafán neu angorfa a feddiennir gan gwch lle nad oes preswylydd yn byw yn y garafán neu'r cwch ar hyn o bryd, ond y bydd y garafán neu'r cwch yn unig neu'n brif breswylfa person y tro nesaf y cânt eu defnyddio.

Dosbarth 6: cartrefi tymhorol neu lety gwyliau nad oes modd eu meddiannu drwy gydol y flwyddyn neu'n barhaol

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n gymwys i anheddau sy'n ddarostyngedig i amodau cynllunio sy'n golygu na allant gael eu meddiannu am gyfnod parhaus o 28 diwrnod o leiaf yn ystod unrhyw gyfnod o

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

12 mis.

Caiff yr eithriad hwn ei gymhwyso'n aml i gartrefi gwyliau neu gabanau gwyliau a adeiladwyd at y diben sy'n ddarostyngedig i amodau cynllunio sy'n cyfyngu ar feddiannaeth drwy gydol y flwyddyn neu sy'n gwarchod nodweddion lleol, er enghraifft, pan fo safle gerllaw cynefin dan fygythiad y mae angen ei warchod ar adegau penodol o'r flwyddyn. Mae'r eithriad hwn yn seiliedig ar y diffiniad o'r disgownt disgresiwn presennol ar gyfer cartrefi tymhorol (Dosbarth A) yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998.

O 1 Ebrill 2023, caiff Dosbarth 6 ei ymestyn i gynnwys pob annedd a gyfyngir gan amod cynllunio sy'n:

- atal meddiannaeth am gyfnod parhaus o o leiaf 28 diwrnod yn ystod unrhyw gyfnod o flwyddyn
- nodi mai dim ond fel llety gwyliau y dylid ei defnyddio
- atal person rhag meddiannu'r annedd fel ei unig neu brif breswylfa

Dosbarth 7: anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi

Mae'r eithriad hwn ond yn gymwys i'r premiwm ar ail gartrefi yn unig ac mae'n gymwys i anheddau a feddiennir gan berson sy'n bodloni'r amodau canlynol:

- person cymhwysol mewn perthynas â'r annedd ond sy'n preswylio mewn annedd arall sy'n gysylltiedig â'i swydd (fel y diffinnir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau)
- person cymhwysol mewn perthynas ag annedd sy'n gysylltiedig â swydd

Caiff person cymhwysol ei ddiffinio fel a ganlyn:

- person sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor mewn perthynas ag annedd ar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ddiwrnod penodol, boed hynny ar y cyd â pherson arall ai peidio
- person a fyddai'n atebol i dalu'r dreth gyngor mewn perthynas ag annedd ar ddiwrnod penodol, boed hynny ar y cyd â pherson arall ai peidio os nad oedd yr annedd honno yn perthyn i'r canlynol (i) Dosbarth O o Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992 (ii) Dosbarth E o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchenogion) 1992

Mae'r eithriad hwn yn gymwys pan fo'n ofynnol i berson breswylio mewn annedd sy'n gysylltiedig â'i swydd. Mae'n gymwys i ail gartref a feddiennir yn gyfnodol am ei bod yn ofynnol i berson fyw mewn llety sy'n gysylltiedig â'i swydd rywle arall. Mae'n gymwys hefyd pan fo'r llety sy'n gysylltiedig â'r swydd yn ail gartref person.

Mae'r diffiniad o annedd sy'n gysylltiedig â swydd i'w weld yn yr Atodlen i'r Rheoliadau. Er bod yr eithriad hwn yn debyg i'r disgownt sy'n gysylltiedig â swyddi o dan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, mae'n wahanol am fod y disgownt ond yn gymwys os yw'r annedd sy'n gysylltiedig â swydd yn unig neu'n brif breswylfa person.

Ffordd arall y mae'n wahanol i'r disgownt ar gyfer anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi yw nad yw'n ofynnol i'r trethdalwr dalu'r dreth gyngor ar gyfer dwy annedd, sy'n golygu y gall person sydd â phrif gartref dramor neu annedd sy'n gysylltiedig â swydd dramor gael budd o'r eithriad hefyd.

Mae canllawiau ychwanegol ar gael yn Rhan 2 Gweinyddu a Gorfodi er mwyn helpu awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

Lleihau atebolrwydd am bremiymau'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi

Wrth arfer y pŵer o dan adran 12A a 12B o Ddeddf 1992, gall awdurdod bilio bennu'r mathau neu ddosbarthiadau penodol o eiddo o fewn y categorïau o

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

eiddo gwag tymor hir neu ail gartrefi y bydd yn defnyddio premiwm iddynt neu na fydd yn cymhwyso premiwm. At hynny, o dan adran 13A o Ddeddf 1992, mae gan awdurdodau bilio bwerau disgresiwn i leihau atebolrwydd y dreth gyngor fel y gwêl yr awdurdod bilio yn dda. Gellir arfer y pŵer hwn mewn achosion penodol neu wrth benderfynu ar ddosbarth o achosion. Gellir defnyddio'r pŵer i gyflwyno unrhyw lefel o leihad i atebolrwydd y dreth gyngor, gan gynnwys mewn amgylchiadau lle gall awdurdod lleol godi premiwm fel arall. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r pwerau hyn, er enghraifft, i leihau neu ddatgymhwyso premiwm ac, o bosibl, fel ffordd o dargedu'r modd y maent yn defnyddio premiymau.

Dyma rai enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gall awdurdod lleol ystyried defnyddio'r pwerau hyn:

- pan fo rhesymau pam nad oes modd byw yn yr annedd fel preswylfa barhaol
- pan fo rhesymau pam na ellir gwerthu neu osod annedd
- pan fo cynnig wedi cael ei dderbyn ar eiddo ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto ac mae cyfnod yr eithriad wedi dod i ben
- pan fo defnydd y perchennog o eiddo yn cael ei gyfyngu gan amgylchiadau nas cwmpesir gan eithriad rhag y premiwm
- lle gallai codi premiwm achosi caledi

Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr a bydd awdurdodau bilio am ystyried pob ffactor sy'n berthnasol yn eu barn nhw wrth benderfynu lleihau atebolrwydd y dreth gyngor ar gyfer eiddo penodol neu ddosbarth o eiddo ac asesu'r effaith bosibl.

Llety hunanddarpar

O 1 Ebrill 2023, os na fydd llety hunanddarpar yn cyrraedd y trothwyon gosod newydd a sefydlwyd gan Orchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022, caiff ei gyfrif fel eiddo domestig a bydd yn atebol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

i dalu'r dreth gyngor. Os bydd yr awdurdod lleol wedi penderfynu cymhwyso premiwm i ail gartrefi, bydd y perchennog yn atebol i dalu'r ffi ychwanegol hefyd oni bai bod eithriad yn gymwys i'w eiddo, neu bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu peidio â chodi premiwm ar gyfer y math hwnnw neu'r dosbarth hwnnw o eiddo.

Gall rhai achosion godi lle byddai eiddo hunanddarpar yr ystyrir ei fod yn anaddas i fyw ynddo'n barhaol yn dod yn ddarostyngedig i'r dreth gyngor a phremiwm am nad oes eithriad yn gymwys iddo. Yn yr achosion hyn, anogir awdurdodau lleol i ystyried defnyddio eu pwerau disgresiwn i deilwra penderfyniad neu i leihau atebolrwydd y dreth gyngor er mwyn cymedroli'r effaith gan leihau'r premiwm i bob pwrpas. Byddai cadw'r atebolrwydd i dalu cyfradd safonol y dreth gyngor ar gyfer eiddo nad yw'n bodloni'r meini prawf gosod yn cyd-fynd â'r nod o sicrhau bod pawb sy'n berchen ar eiddo yn 'gwneud cyfraniad teg' i'w cymunedau lleol. Dyma rai enghreifftiau lle gall awdurdod lleol ystyried defnyddio'r pwerau hyn:

- tai allan neu ysguboriau a gaiff eu haddasu a'u troi yn llety gwyliau fel rhan o ymdrechion i arallgyfeirio ffermydd
- anecsau neu garejis wedi'u haddasu sy'n rhan o brif breswylfa perchennog
- carafannau neu gabanau gwyliau

Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu a fydd yn defnyddio'r pwerau disgresiwn yn adrannau 12A, 12B neu 13A i leihau atebolrwydd y dreth gyngor mewn perthynas â phremiwm neu i leihau rhwymedigaeth safonol y dreth gyngor, neu'r ddau, fel y bo'n briodol. Dylai'r polisi hwn gwmpasu amrywiaeth o sefyllfaoedd lle byddai awdurdod lleol yn ystyried defnyddio ei bwerau dewisol, gan gynnwys eiddo nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i gael eu dosbarthu fel rhai annomestig. Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, dylai fod gan awdurdod lleol bolisi clir ynghylch a gaiff y pwerau hyn eu defnyddio a sut. Fodd bynnag, dylai'r awdurdod ystyried pob achos yn unigol ar ôl pwyso a mesur amgylchiadau'r achos.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dylid nodi bod ystyriaethau ynghylch defnyddio pwerau disgresiwn adran 13A yn debygol o fod yn wahanol os ystyrir eu bod yn lleihau atebolrwydd y dreth gyngor sy'n deillio o bremiwm o gymharu â lleihau atebolrwydd o gyfradd safonol y dreth gyngor. Y rheswm am hyn yw bod anheddau sy'n atebol i dalu premiwm eisoes yn atebol i dalu cyfradd safonol y dreth gyngor.

Defnyddio refeniw ychwanegol sy'n deillio o bremiymau'r dreth gyngor

Gall awdurdod lleol gadw unrhyw arian ychwanegol sy'n dod i law drwy weithredu'r premiymau ac mae diwygiadau wedi cael eu gwneud i sylfaen drethu'r dreth gyngor er mwyn hwyluso hyn. Caiff addasiadau eu gwneud er mwyn cynyddu'r premiwm uchaf y gellir ei godi o 1 Ebrill 2023. Gall awdurdodau ddefnyddio'r refeniw ychwanegol at unrhyw ddiben, ond fe'u hanogir i'w ddefnyddio er mwyn helpu i ddiwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau.

Caiff gofynion penodol mewn perthynas ag adrodd ar unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir a'r defnydd a wneir ohono wedyn eu cynnwys yn Rhan 3 Monitro ac adrodd ar bremiymau'r dreth gyngor.

Rhan 2: gweinyddu a Gorfodi

Pennu atebolrwydd ar gyfer premiymau'r dreth gyngor a chymhwystra ar gyfer eithriadau

Wrth benderfynu codi premiwm, bydd angen i awdurdod lleol nodi a yw annedd yn eiddo gwag hirdymor neu'n ail gartref ac a fyddai, felly, yn atebol i dalu premiwm.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'n rhesymol i awdurdod lleol ofyn am dystiolaeth fel biliau cyfleustodau sy'n dangos y defnydd a wneir o wasanaethau, trwydded yrru fel prawf o gyfeiriad, neu dderbynebau neu dystiolaeth arall o gostau symud os dywedir bod eiddo wedi'i feddiannu (nad yw'n wag) neu wedi'i feddiannu fel unig neu brif gartref (nad yw'n ail gartref). Bydd y broses yn debyg i'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i asesu cymhwystra ar gyfer eithriadau a disgowntiau'r dreth gyngor.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhagnodi eithriadau penodol o ran premiymau'r dreth gyngor a chyfrifoldeb person atebol fydd gwneud cais i awdurdod lleol am eithriad os yw'n credu ei fod yn gymwys, a darparu tystiolaeth i gefnogi ei gais. Dylai pob awdurdod lleol nodi'n glir ac egluro'r dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn bod yn dryloyw ac yn deg.

Yn yr un modd â threfniadau i fonitro a gorfodi eithriadau a disgowntiau presennol y dreth gyngor, disgwylir i awdurdodau lleol gymryd camau i gadarnhau'r dystiolaeth a ddarperir i gefnogi cais am eithriad. Gall awdurdod lleol hefyd gynnal arolygiadau neu ymweliadau rheolaidd â'r safle i gadarnhau bod eiddo yn parhau i fod yn gymwys.

Bydd awdurdodau lleol yn ymwybodol y gellir rhoi cosbau sifil i berson sy'n cyflenwi gwybodaeth anghywir yn fwriadol o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Mae'r adrannau canlynol yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol er mwyn helpu awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriadau yn benodol ar gyfer:

- anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu
- anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod
- anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dosbarth 1: anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu. Mae hefyd yn cwmpasu anheddau lle mae cynnig i brynu'r annedd wedi cael ei dderbyn ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto.

I fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn, rhaid bod annedd ar werth am bris sy'n rhesymol i'r annedd honno. Rhaid i berchennog atebol fodloni awdurdod lleol fod ei eiddo ar werth am bris rhesymol, h.y., pris y byddai'n rhesymol disgwyl iddo ei sicrhau ar y farchnad agored.

Wrth ystyried cais am eithriad, efallai yr hoffai awdurdod lleol ystyried amrywiaeth o ffactorau'n ymwneud â gwerthu anheddau, fel y canlynol:

- am ba hyd y mae gwahanol eiddo yn yr ardal wedi bod ar werth
- pris cyfartalog eiddo tebyg yn yr ardal leol a'r cyfnod cyfartalog y bu'r eiddo ar y farchnad
- a oes amodau cyfyngol afresymol, fel y pris, yn cael eu gosod ar yr annedd i'w hatal rhag cael ei gwerthu
- unrhyw ffactorau rhesymol eraill

Er mwyn penderfynu a yw annedd ar y farchnad i'w gwerthu go iawn, efallai yr hoffai awdurdod lleol ystyried gwahanol fathau o dystiolaeth a allai gynnwys y canlynol:

- hysbyseb ar wefannau, er enghraifft gwefannau asiantiaid eiddo, Rightmove a Zoopla, neu dystiolaeth o ffyrdd eraill y mae'r eiddo yn cael ei farchnata
- contract ag asiant eiddo
- rhestrau asiant eiddo neu fanylion gwerthu os caiff yr eiddo ei farchnata'n breifat
- tystysgrif Perfformiad Ynni (sy'n ofynnol pan gaiff eiddo ei adeiladu neu'i

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

werthu)

Mae'r eithriad yn para am gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y caiff yr eithriad ei roi ond gellir ei ymestyn os bydd cynnig wedi cael ei dderbyn ar yr eiddo ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau fwy na blwyddyn ar ôl i'r eithriad ddod i rym. Byddai'r eithriad yn dod i rym ar ddyddiad gwerthu'r eiddo. Ar ôl i eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sydd ar y farchnad i'w gwerthu yn gymwys i gael eithriad arall oni bai ei bod wedi cael ei gwerthu.

Dosbarth 2: anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod

Mae'r eithriad hwn hefyd yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod. Mae hefyd yn cwmpasu anheddau lle mae cynnig rhentu wedi cael ei dderbyn ond nad oes hawl gan y tenant feddiannu'r eiddo eto am nad yw'r denantiaeth wedi dechrau.

I fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn, rhaid i berchennog atebol fodloni awdurdod lleol bod yr eiddo ar y farchnad i'w osod am bris rhesymol, h.y., y rhent y byddai'n rhesymol disgwyl i'r eiddo ei sicrhau o ystyried y rhent a godir ar anheddau tebyg.

Wrth ystyried a yw'r eithriad yn gymwys, efallai yr hoffai awdurdod lleol ystyried amrywiaeth o ffactorau sy'n ymwneud â gosod anheddau, fel y canlynol:

- am ba hyd y mae gwahanol eiddo yn ei ardal wedi bod ar gael i'w rentu
- rhent cyfartalog eiddo rhent tebyg yn yr ardal leol a'r cyfnod cyfartalog y bu'r eiddo ar y farchnad
- a oes amodau cyfyngol afresymol, fel y rhent, yn cael eu gosod ar yr eiddo i'w atal rhag cael ei osod
- unrhyw ffactorau rhesymol eraill

Er mwyn i awdurdod lleol benderfynu a yw perchennog atebol yn marchnata ei

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

eiddo i'w rentu go iawn, efallai yr hoffai awdurdod lleol ystyried gwahanol fathau o dystiolaeth a allai gynnwys y canlynol:

- contract ag asiantaeth gosod eiddo
- rhestrau asiantiaid eiddo neu lyfrynnau asiantiaid gosod eiddo
- cofrestru a thrwyddedu landlord ac asiant ar gyfer annedd sydd ar y farchnad i'w gosod, drwy Rhentu Doeth Cymru
- rhestrau o eiddo a gynigir i'w rhentu a ddarperir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- tystysgrif Perfformiad Ynni (sy'n ofynnol pan gaiff eiddo ei adeiladu neu'i osod)
- tystysgrif diogelwch nwy ddilys sy'n ofynnol ar gyfer cartrefi a gaiff eu gosod

Mae'r eithriad yn para am gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y caiff yr eithriad ei roi. Ar ôl i'r eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sydd ar y farchnad i'w gosod yn gymwys i gael eithriad arall oni bai bod tenantiaeth wedi cael ei rhoi am gyfnod o chwe mis neu fwy ar gyfer yr annedd honno.

Mae eithriadau 3 i 6 yn ddosbarthiadau mwy penodol ac ni chânt eu trafod ymhellach yn y rhan hon o'r canllawiau.

Dosbarth 7: anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi

Mae'r eithriad hwn ond yn gymwys i'r premiwm ar ail gartrefi yn unig ac mae'n gymwys i anheddau a feddiennir gan berson cymhwysol. Mae'r meini prawf ar gyfer person cymhwysol wedi eu nodi o dan Dosbarth 7 yn Rhan 1.

Wrth ystyried cymhwystra ar gyfer yr eithriad hwn, gall awdurdod lleol ofyn am fathau penodol o dystiolaeth i brofi ei bod yn ofynnol i berson atebol fyw mewn annedd sy'n gysylltiedig â'i swydd. Gallai hyn gynnwys y canlynol:

- contract cyflogaeth

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- hysbysiad galw am dalu'r dreth gyngor (i ddangos atebolrwydd mewn perthynas ag eiddo arall os yw'r prif gartref neu'r ail gartref yn y DU)
- ffurflenni treth neu ddatganiadau talu
- llythyr enwadol (mewn perthynas â Gweinidog Crefyddol)
- llythyr neu gontract ysgrifenedig gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (mewn perthynas â'r lluoedd arfog)

Rhan 3: monitro ac adrodd ar bremiymau'r dreth gyngor

Yn ystod haf 2021, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanddarpar. Ystyriwyd effeithiolrwydd y pwerau disgresiwn a roddwyd i awdurdodau lleol gymhwyso premiymau'r dreth gyngor i ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Galwodd llawer o ymatebion ar i awdurdodau lleol fod yn fwy tryloyw ynghylch sut maent yn gwario'r arian sy'n cael ei godi drwy'r premiwm.

Er mwyn asesu effeithiolrwydd y premiymau a sicrhau bod gwybodaeth ynghylch sut y cânt eu defnyddio ar gael yn glir i'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn lleol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol adrodd ar y modd y caiff y premiymau eu gweithredu a'r refeniw ychwanegol a gynhyrchir.

Wrth ystyried y canllawiau hyn, dylai awdurdodau lleol hefyd roi ystyriaeth ddyledus i gyhoeddi gwybodaeth i gynorthwyo aelodau o'r cyhoedd a rhaid iddynt roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru ar gais.

Mae awdurdodau lleol eisoes yn cyflwyno'r wybodaeth ganlynol am bremiymau drwy ffurflen statudol CT1 (Anheddau'r Dreth Gyngor). Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i lunio'r datganiadau ystadegol blynyddol ar gasglu'r dreth gyngor.

- nifer yr eiddo sy'n atebol i dalu'r premiymau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- canran y premiwm a gymhwysir i gartrefi gwag hirdymor
- canran y premiwm a gymhwysir i ail gartrefi

O 1 Ebrill 2023, anogir awdurdodau lleol i gyhoeddi manylion am yr incwm a gynhyrchwyd drwy godi premiwm ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol ar eu gwefannau.

Dylid cynnwys y canlynol o leiaf:

- cyfanswm nifer yr (i) Eiddo gwag hirdymor a (ii) ail gartrefi
- nifer yr eiddo a oedd yn atebol i dalu pob premiwm (i) Eiddo gwag hirdymor a (ii) ail gartrefi
- faint o incwm a gynhyrchwyd drwy godi premiwm ar eiddo gwag hirdymor
- faint o incwm a gynhyrchwyd drwy godi premiwm ar ail gartrefi
- sut mae'r incwm ychwanegol a godwyd wedi cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r problemau a gaiff eu hachosi gan eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, neu fynd i'r afael â phroblemau tai lleol eraill

Rhan 4: apeliadau

Os bydd person yn anfodlon â'i awdurdod lleol o ganlyniad i benderfyniad a wnaed ynghylch cyfrifo ei dreth gyngor, gan gynnwys ei atebolrwydd i dalu premiwm, dylai gysylltu â'r awdurdod lleol yn gyntaf i drafod y penderfyniad.

Os bydd person yn anfodlon o hyd ar ôl trafod â'i awdurdod lleol, gall gyflwyno apêl i'w awdurdod lleol.

Os bydd person yn anghytuno â chanlyniad proses apêl yr awdurdod lleol neu os na fydd yr awdurdod lleol yn darparu penderfyniad o fewn yr amserlenni gofynnol, gall y person gyflwyno apêl i Dribiwnlys Prisio Cymru. Ni chaiff person wneud hyn oni bai ei fod wedi dilyn proses apêl yr awdurdod lleol ac wedi

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cydymffurfio ag unrhyw brosesau sy'n ofynnol gan y Tribiwnlys cyn y gellir cyflwyno apêl.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Asesiad Effaith Cyfansawdd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
    - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
    - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
    - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Premiwm Treth Cyngor ar Eiddo Gwag Hir Dymor ac Ail Gartrefi

Awdur: Dewi Aeron Morgan

Teitl Swydd: Pennaeth Cyllid

Dyddiad: 29/10/2026

Fersiwn: Hydref 2026

CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Penderfyniadau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu y gymuned ehangach yn cynnwys comisiynu/dad-gomisiynu neu adolygu gwasanaethau

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2021 roedd y Cyngor wedi bod yn codi premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor, ac ers 1 Ebrill 2021 cynyddwyd lefel y Premiwm i 100%. O 1 Ebrill 2023 mae'r ddeddfwriaeth wedi newid a bydd gan y Cyngor yr hawl i gynyddu lefel y Premiwm i 300%

Ers 1 Ebrill 2026 mae'r Premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor ill dau yn 150%

Bydd angen i'r Cyngor llawn wneud ei benderfyniad ar y lefel Premiwm ar gyfer blwyddyn ariannol 2027/28 yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2026 a hynny ar sail argymhelliad sydd i'w benderfynu gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 10Tachwedd.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ddiwethaf yn 2022. Yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2022, cytunodd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar sut dylai ymateb i'r newid deddfwriaeth sy'n galluogi'r Cyngor i gynyddu lefel y Premiwm y tu hwnt i'r 100% oedd yn bodoli ar y pryd, i 300% o 1 Ebrill 2023 ymlaen..

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

Mae gan y Cyngor y grym o dan Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd) i addasu lefel y Premiwm hyd at 300% o 1 Ebrill 2023 ymlaen, wedi i'r Ddeddf gael ei addasu gan Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 (SI 2022/370 Cy.90). Yr uchafswm blaenorol oedd 100%. Fodd bynnag, mae'n ddisgwyliad echblyg i ni ymgynghori hefo'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus, gyda sylw wedi ei roi yn y wasg lleol ac ar wefannau cymdeithasol, ac ysgrifennodd y Cyngor at berchnogion eiddo sy'n destun y Premiwm.

Y partneriaid a rhanddeiliaid allweddol oedd:

- Trigolion Gwynedd
- Trethdalwyr ar eiddo gwag ac ail gartrefi

Bu cydweithio gyda nifer o bartneriaid mewnol, e.e.:

- Adran Cyllid

- Adran Gwasanaethau Corfforaethol
- Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd
- Y Cyngor Llawn

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Ymgynghoriad Cyhoeddus	Medi / Hydref 2022	Rydym wedi ymdrechu i adnabod unigolion gyda nodweddion gwarchodedig gan fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn gofyn i'r ymatebwyr ein hysbysu o unrhyw nodweddion gwarchodedig fel bod modd ystyried rhain wrth ddatblygu'r polisi. Roedd yr ymgynghoriad yn un cyhoeddus ac roedd yr holiadur ar gael i unrhyw un i'w lenwi ar-lein. Cyhoeddwyd dau ddatganiad i'r wasg yn codi ymwybyddiaeth ohono, a

		defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth. Ysgrifennodd y Cyngor at bob aelwyd oedd yn destun y Premiwm gyda llythyr yn tynnu eu sylw at yr ymgynghoriad. Lle roedd y cyfeiriad gohebiaeth gwahanol wedi ei gofnodi yn y system Treth Cyngor, defnyddiwyd hwnnw. Roedd y llythyr yn cyfeirio at wefan y Cyngor a'r cyfle i lenwi'r holiadur yno, ond roedd gwefan y Cyngor yn nodi y gallai unrhyw un gysylltu gyda'r Cyngor os oeddynt yn dymuno derbyn copi papur o'r ymgynghoriad.

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

	Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol	Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Codir y Premiwm ar bob ail gartref ac eiddo gwag hirdymor heb wahaniaethu mewn unrhyw fodd ar lle mae'r perchnogion yn byw na beth yw eu hil neu genedligrwydd. Er hynny, rydym yn cydnabod fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dangos fod cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson ac felly mae'n debyg y bydd y polisi yn cael effaith ariannol negyddol ar y garfan yma. Serch hynny, bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol, sy'n ddeilliant positif.	Bwriad y polisi o godi premiwm yw i fynd i'r afael â'r sefyllfa nad oes tai ar gael i bobl leol, ac mae'r effaith yn bositif ar y garfan yma. Bydd y polisi yn effeithio ar bobl o'r tu allan i Wynedd ac mae rhai o ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn honni y byddai'r Polisi yn hiliol gan ei fod yn targedu pobl o'r tu allan i Gymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ystyriaeth o hil perchnogion yr eiddo pan fydd premiwm yn cael ei godi ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.
Anabledd	Effaith Ansylweddol	Mae posibilrwydd bychan o wahaniaethau yn anuniongyrchol ar sail anabledd os oes rhywun anabl yn cadw eiddo sydd wedi ei addasu yng Ngwynedd gan nad oes modd iddynt gael gwyliau mewn man arall.
Rhyw	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Oedran	Positif	Dangosodd astudiaeth yn 2013 fod gwneuthuriad demograffig y cymunedau sydd â chyfrannau uchel o ail gartrefi yn wahanol; yn gyffredinol, mae'r boblogaeth breswyl yn 'hŷn'. Mae hyn yn effeithio ar gydbwysedd y cymunedau a bydd yn cael effaith ar wydnwch a chynaladwyedd yr ardaloedd hyn yn y dyfodol.

		Aethpwyd ymlaen i nodi fod proffiliau perchnogion ail gartrefi eu hunain yn awgrymu eu bod yn gyffredinol yn ganol oed neu wedi ymddeol, ac yn gyfoethocach na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fe wnaeth Shelter (2011) (Taking Stock, an assessment of under utilisation of housing stock in England) amcangyfrif fod 60% o berchnogion ail gartrefi yn genedlaethol rhwng 45 a 60 mlwydd oed o gymharu â 40% ar draws yr holl perchen-feddiant yn y grŵp oedran hwn. Mae ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus cyfredol wedi awgrymu yr un peth. Felly, mae tystiolaeth fod y rhai fydd ar eu colled yn ariannol yn hŷn, ond disgwylir y bydd y bobl hŷn sy'n byw yn yr ardaloedd perthnasol trwy'r flwyddyn ar eu hennill gan y bydd y gymdeithas leol yn fwy gwydn a chynaliadwy. Serch hynny, mae tystiolaeth gryf fod darparwyr gofal yn wynebu trafferthion recriwtio dybryd. Mae sicrhau cydbwysedd cymunedol yn hollbwysig er mwyn cael digon o bobl ieuengach i warchod a rhoi gofal i bobl hŷn, a bwriad y polisi o godi Premiwm ydi helpu pobl ifanc i aros yn yr ardal leol trwy allu darparu cartrefi lleol iddynt. Ar y cyfan, felly, bydd y polisi yn cael effaith bositif gan ei fod yn helpu teuluoedd ifanc i gael cartref. Bydd hyn wedyn yn rhoi effaith mwy bositif na negyddol ar gydbwysedd cymunedol
Crefydd a Chred	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Ail-bennu rhywedd	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod

Priodas a Phartneriaetgh Sifil	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Iaith Gymraeg	Positif	Bydd effaith anuniongyrchol ar yr iaith gan mai pwrpas codi premiwm yw i annog perchnogion eiddo gwag hir dymor ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i'r stoc dai lleol, neu i dalu Treth Cyngor ychwanegol. Mae cynnyrch y Premiwm hyd yma wedi ei ddefnyddio i diwallu anghenion tai lleol. Mae cefnogi'r iaith Gymraeg, felly, yn rhan greiddiol o'r polisi yma. Yn benodol, bydd effaith bositif ar gydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy.
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Positif	Wrth benderfynu yn Chwefror 2021 i argymell i'r Cyngor llawn gynyddu lefel y Premiwm i 100%, nododd aelodau'r Cabinet fod argyfwng tai o fewn y sir. Pwysleisiwyd yr egwyddor fod y Cyngor yn awyddus i drigolion gael cartrefi yn eu cymunedau, i sicrhau cymunedau sydd yn ffynnu. Ategwyd fod tai yn flaenoriaeth ac fod gofyn i sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu'r Strategaeth Dai. Mae'r grym i godi premiwm wedi ei gyflwyno trwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'r canllawiau statudol yn nodi: Bwriadwyd i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol: • adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a

		• chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Hawliau Dynol	Dim	Mae'r polisi yn ymwneud ag addasu lefelau Treth Cyngor yn seiliedig ar fod yn berchennog ail gartref neu sydd yn wag yn yr hirdymor. Nid yw'r asesiad yn gweld y bydd hyn yn tramgwyddo hawliau dynol unrhyw unigolyn neu garfan o bobl.
Arall	Dim	Dim

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Mae ystod eang o ddata wedi cael ei gasglu dros nifer o flynyddoedd erbyn hyn ac rydym yn fodlon â chadernid yr wybodaeth.

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?

Nid ydym yn credu hynny.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?

Mae'r Polisi yn rhoi cyfle cyfartal i bobl leol sy'n methu fforddio cartref ar hyn o bryd. Mae'r sefyllfa tai ar hyn o bryd yn anghyfartal a bwriad y penderfyniad ydi sefydlogi ac unioni'r sefyllfa yma

Gall y polisi o godi Premiwm hyrwyddo perthnasau da gyda pobl o fewn cymunedau Gwynedd os ydi'r Polisi yn rhoi cyfle iddynt cael gwell cartref, neu gartref cyntaf, gan fod nifer y tai gwyliau ac anheddau gwag yn cael ei ganfod fel cael effaith andwyol ar allu pobl lleol i gael lle i fyw. Gall polisi o godi Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac anheddau gwag wella'r perthnasau os ydi trigolion Gwynedd yn teimlo fod y polisi'n gymorth iddynt fod â gwell cyfle i gael cartref yn eu hardal leol.

Mae rhai perchnogion ail gartrefi wedi honni yn eu hymateb i'r ymgynghoriad y bydd cynyddu lefel y Premiwm yn achosi drwg-deimlad cymunedol, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i law gefnogi'r honiad yma. Mae'r anghyfartaledd presennol yn fwy tebygol o greu drwgdeimlad.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai yn Rhagfyr 2020 sy'n cynnwys ystod o brosiectau yn eu lle i wneud y defnydd o gynnyrch y Premiwm er mwyn mynd i'r afael ag achosion o anfantais economaidd-gymdeithasol. Yr egwyddor sylfaenol yw fod y rhai sy'n gallu fforddio sawl eiddo yn cynorthwyo'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas sy'n methu cael cartrefi o gwbl. Y prosiectau yn y Cynllun Gweithredu Tai sy'n gwneud defnydd o arian y Premiwm yw:

- Cynlluniau tai â chefnogaeth i'r digartref
- Llety â chefnogaeth i ieuenctid digartref

- Unedau hunan-gynhaliol ar gyfer unigolion ag anghenion cymdeithasol dwys
- Pecynnau cefnogaeth i landlordiaid preifat
- Llety a chefnogaeth ychwanegol yn Arfon
- Adeiladu mwy o dai cymdeithasol na'r hyn y gellir ei ariannu drwy'r grant tai cymdeithasol
- Datblygu tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu yn y farchnad dai.
- Ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu anghenion tai
- Plotiau hunan adeiladu
- Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag
- Eithriad Treth Cyngor ar dai gwag i brynwyr tro cyntaf
- Cynllun cymorth prynu
- Prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol
- Elfen trigiannol mewn cynlluniau adfywio cymunedol
- Sefydlu gwasanaeth Cadwraeth Ynni newydd i berchnogion tai er mwyn cyfrannu tuag at ein dyhead i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd
- Cynllun peilot Tai Arloesol
- Ariannu'r diffyg ariannol yn achosion busnes tai arloesol
- Tai gyda chefnogaeth – ieuenctid
- Tai gofal estynedig – henoed
- Tai gyda chefnogaeth – oedolion gydag anghenion dwys

- Cartrefi addas i blant gyda anghenion corfforol dwys
- Frondeg, Caernarfon
- Benthyciadau di log i wella cyflwr tai
- Siop un stop i faterion Tai

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Mae'r Polisi yn ymwneud â defnydd eiddo, nid cenedligrwydd y perchennog. Fodd bynnag, bydd effaith bositif ar gydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy.

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.

Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol:

- Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor
- Trigolion sy'n lach ac yn Annibynnol gyda Safon Bywyd Da

Mae'r Premiwm presennol yn ariannu Cynllun Gweithredu Tai y Cyngor, sy'n ymgais ragweithiol i gryfhau cynaladwyedd y cymunedau hynny o fewn Gwynedd sydd â nifer uchel o ail gartrefi a thai gwag hir dymor.

Mae Strategaeth Tai y Cyngor yn nodi'r weledigaeth o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".

Mae'r Strategaeth yn adnabod pum amcan yr oedd yn rhaid ceisio eu cyfarch os oedd y Cyngor am gyflawni'r weledigaeth hon:

- 1. Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- 2. Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- 3. Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- 4. Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- 5. Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys nifer o brosiectau sydd, gyda'i gilydd, yn mynd ati i wireddu'r amcanion hyn.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Na fydd

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:
Bwriad y polisi o godi'r Premiwm yw amddiffyn cymunedau Gwynedd drwy'r Cynllun Gweithredu Tai. Mae hyn yn debygol o gael effaith gadarnhaol sylweddol.

Effaith Negyddol Sylweddol:
Bydd angen i berchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor dalu mwy o Dreth Cyngor. Mae "Polisi Adran 13A" yn ei le er mwyn cefnogi a rhoi chymorth dewisol i liniaru'r effaith ar y rhai sydd yn dioddef caledi fel canlyniad i'r Polisi.

14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Wrth wneud penderfyniad ar y Premiwm rhaid bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd fod gwahaniaethu anuniongyrchol yn bodoli. Er mai defnydd eiddo sy'n golygu os yw Premiwm yn daladwy arno neu beidio, nid ei berchnogaeth, mae canlyniad yr ymgynghoriad yn awgrymu fod perchnogion eiddo o'r fath yn dueddol o fod yn Saeson ac yn bobl hŷn ac mae angen bod yn ymwybodol o'r risg o wahaniaethu anuniongyrchol yn erbyn y carfannau hyn.

Fodd bynnag, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan fod hyn yn gyfreithiol os yw'r polisi yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, ac yn yr achos hwn mae'n fodd o wireddu gweithrediad gadarnhaol, sef mynd i'r afael ag argyfwng tai i bobl leol.

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Na fydd

Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau

N ystyrir fod hyn yn weithredu anghyfreithiol. Mae'r Premiwm yn ei le ers 2018 bellach a nid oes sail cyfreithiol wedi cael ei gynnig yn ei erbyn.

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Dau garfan benodol o'r boblogaeth fydd yn destun y premiwm, sef perchnogion ail gartrefi, a perchnogion tai gwag hir dymor.

Dylid nodi fod ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd ag astudiaethau cenedlaethol yn awgrymu'n gryf fod perchnogion ail gartrefi yn dueddol o fod yn bobl hŷn. Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu fod rhai o'r perchnogion hŷn yma yn "asset rich / cash poor". Hynny yw, maent wedi prynu'r eiddo ers sawl blwyddyn neu wedi ei etifeddu, ond nid yw eu hincwm o reidrwydd yn uchel. Mae hyn yn y pen draw yn codi gronyn o amheuaeth os yw'r Cyngor yn gwireddu ei ddyletswyddau statudol, ond rhaid pwyso hynny yn erbyn y tlodi, diweithdra a

digartrefedd sydd yng nghefn gwlad Gwynedd. Yn ôl y Cynllun Gweithredu Tai, mae 59% o drigolion Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad yng Ngwynedd.

Mae'r Premiwm yn cael ei godi ar bob eiddo sy'n ail gartref neu'n eiddo gwag hirdymor heb ystyried y perchnogaeth.

Un o prif ganlyniadau'r Premiwm ydi ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai. Bydd y cynllun hwn yn mynd i'r afael ag anghysondeb cymdeithasol o fewn Gwynedd. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd wrth baratoi'r Cynllun Gweithredu Tai yn nodi'r camau positif iawn fydd yn deillio o weithredu'r Cynllun, gyda chymorth ariannol y Premiwm:

Bwriad y Premiwm yw anelu i leihau anghydraddoldeb o fewn cymunedau Gwynedd, ac mae'n cyfrannu at hynny drwy ariannu prosiectau penodol.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Ni chredir fod camau pellach yn angenrheidiol.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Ni chredir fod camau pellach yn angenrheidiol.

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Dal ati gyda'r cynllun am fod modd cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth
Monitro data	2027/28	Blynyddol	Pennaeth Cyllid	Na

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	**Amserlen ac Amlder**	**Cyfrifoldeb Arweiniol**	**Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth**
Adroddiad i'r Cabinet a'r Cyngor	Blynyddol	Pennaeth Cyllid	Na

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	**Trosolwg Arbedion:** **Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid**
Swyddog perthnasol:	**Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau**
Dyddiad y cyfarfod:	**10 Tachwedd 2026**

1. Penderfyniad a geisir

1.1 I dderbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2026/27 a blynyddoedd blaenorol.

1.2 Cymeradwyo dileu arbedion gwerth £925,600 gan ddefnyddio'r ddarpariaeth benodol a osodwyd o'r neilltu yn y gyllideb er mwyn ei ariannu.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

2.1 Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

Cefndir / Cyflwyniad

3.1 Mae'r adroddiad yma'n rhoi trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2026/27 a blynyddoedd blaenorol yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Awst 2026.

3.2 Yn adroddiad Cyllideb 2026/27 i'r Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2026, adroddwyd fod arbedion gwerth £583k wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2026/27. Cymeradwywyd gwerth £240k o arbedion gan y Cabinet ar 11 Chwefror 2025, tra bod £343k yn gynlluniau arbedion sydd wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol, ond yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2026/27.

4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Ail-asesu arbedion

4.1 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Er hyn, yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd bod trafferthion gwireddu arbedion mewn rhai meysydd, oedd i'w weld amlycaf yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac yn y maes Gwastraff.

4.2 Yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, rhoddwyd darpariaeth arbedion corfforaethol gwerth £1.3m wrth sefydlu'r gyllideb, er mwyn galluogi dileu cynlluniau arbedion petai'r angen yn codi ac er mwyn ymateb i'r risg o fethiant i gyflawni rhai cynlluniau arbedion.

4.3 Yn dilyn adolygiad diweddar o'r cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau arbedion oedd bellach yn anghyraeddadwy, argymhellir fod rhan o'r ddarpariaeth yn cael ei ddefnyddio i ddileu'r arbedion. Lluniwyd rhaglen i ddileu gwerth £925,600 o gynlluniau na fu modd eu cyflawni.

4.4 Mae **Atodiad 1** yn rhestru'r cynlluniau gwerth £925,600 sydd i'w dileu ac mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r arbedion fesul Adran.

Tabl 1 : Arbedion i'w Dileu Fesul Adran

Adran	Arbedion i'w dileu £	Nifer cynlluniau
Priffyrdd, Peirianneg a YGC	190,000	*2*
Oedolion, Iechyd a Llesiant	535,600	*4*
Amgylchedd	200,000	*3*
Cyfanswm	**925,600**	***9***

4.5 Bydd yr adroddiad yn adrodd ar sefyllfa'r arbedion yn dilyn dileu y cynlluniau arbedion yn rhan 4.

5. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2025/26

5.1 Yn seiliedig ar sefyllfa adolygiad Awst 2026 am y flwyddyn ariannol 2025/26, mae gwerth cyfanswm o £3.1m wedi eu proffilio am y flwyddyn. Mae **gwerth bron i £2.6m neu 83% wedi eu gwireddu.** Bu llithriad mewn gwireddu dau gynllun gwerth £40k tra fod rhai risgiau o gyflawni arbedion gwerth cyfanswm o £486k.

6. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2026/27

6.1 O'r cynlluniau gwerth cyfanswm o £533k a broffilwŷd ar gyfer 2026/27, **mae £242k neu 45% eisoes wedi gwireddu** a £91k pellach ar drac i wireddu'n amserol. Mae'r Adran Amgylchedd yn rhagweld rhai risgiau i wireddu un cynllun yn y maes Gwastraff, sydd werth £200k.

7. Cynlluniau Arbedion Adrannol Hanesyddol 2015/16 – 2026/27

7.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn eu targedau arbedion o **£34.037 miliwn** ar gyfer y cyfnod 2015/16 – 2026/27 yn seiliedig ar adolygiad Awst 2026. **Gellir adrodd bod gwerth £34.018 miliwn, neu 99.9% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae risg gwireddu un o'r cynlluniau arbedion yn parhau.

7.2 Mae'r un cynllun sydd heb ei wireddu gan yr Adran Economi a Chymuned sydd yn wynebu risgiau i'w gyflawni (£20k), bu i darged incwm cynllun Neuadd Dwyfor gael ei leihau o £100k i £20k ar sail dros dro ar gyfer 2025/26 a 2026/27, er mwyn rhoi amser i adnabod cyfleon i weithredu. Bydd £80k y flwyddyn am gyfnod o ddwy flynedd yn cael ei bontio o Ddarpariaeth Arbedion y Cyngor.

8. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2023/24 – 2026/27

8.1 Mae **Atodiad 3** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion ar gyfer y cyfnod 2023/24 – 2026/27 **sydd yn gyfanswm o bron i £15.7 miliwn,** yn seiliedig ar adolygiad Awst 2026. **Gellir adrodd fod £14.6 miliwn, neu 93% o'r cynlluniau yma eisoes wedi eu gwireddu, gyda £91k pellach, neu 0.6% ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol.**

8.2 Mae dau gynllun gwerth cyfanswm o £91k ar drac i wireddu'n llawn ac yn amserol, tra fod llithriad ar dri cynllun gwerth cyfanswm o £86k sydd wedi eu rhaglennu i'w gwireddu yn ystod 2024/25 a 2025/26, ond nid yw'r adrannau'n rhagweld problemau i'w gwireddu. Ar hyn o bryd, rhagwelir bod rhai risgiau gwireddu gwerth bron i £856k o gynlluniau arbedion sydd yn cynnwys un cynllun gan yr Adran Addysg (£25k), pedwar cynllun gan yr Adran Amgylchedd (£760k) ac un cynllun gan yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC (£71k).

9. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2027/28 ymlaen

9.1 Un cynllun yn unig, gwerth £98.5k gan yr Adran Addysg sydd wedi ei broffilio ar gyfer 2027/28, mae'n gynamserol i adrodd ar statws y cynllun yma ar hyn o bryd.

9.2 Bydd Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet maes o law, fydd yn ystyried y bwlch cyllidol ar gyfer 2027/28 a'r bwriad o ran ymateb i'r sefyllfa ariannol sydd yn ein wynebu fel Cyngor er mwyn gosod cyllideb hafal yn 2027/28.

10. Casgliad

10.1 Gellir adrodd bod cyfanswm o dros £49 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 98% o'r £50 miliwn gofynnol dros y cyfnod. Mae'n anorfod bod gwireddu'r arbedion wedi bod yn heriol ac rwyf yn ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma.

10.2 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 gyda 98% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

Tabl 2: Crynodeb o statws yr holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015

Statws yr Arbediad	**Porth**	**£m**	**%**
Wedi gwireddu	1	48.6	97.9
Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol	2	0.1	0.2
Llithriad/Oediad, ond yn symud yn ei flaen	3	0.1	0.2
Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu methu	4	0.9	1.7
Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol	5	0.0	0.0
Cyfanswm arbedion		**49.7**	**100**

10.3 Ers cychwyn y cyfnod i'r Cyngor orfod ddod o hyd i arbedion nôl yn 2010/11, gellir adrodd bod cyfanswm o bron i £72.5 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu, sydd yn 98.4% o'r £73.6 miliwn gofynnol dros y cyfnod.

10.4 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion. Ymhellach i hyn, dileu y cynlluniau arbedion gwerth cyfanswm o £925,600.

11. Camau nesaf ac amserlen

11.1 Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd 2026.

12. Sylwadau Swyddogion Statudol

12.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

12.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

Atodiadau:

Atodiad 1 - Cynlluniau arbedion i'w dileu fesul Adran
Atodiad 2 - Trosolwg cynlluniau arbedion hanesyddol 2015/16 - 2026/27 fesul adran
Atodiad 3 - Trosolwg cynlluniau arbedion 2023/24 - 2026/27 fesul adran

CYNLLUNIAU ARBEDION I'W DILEU FESUL ADRAN

Adran	Cynllun	2019/20 £	2020/21 £	2021/22 £	2022/23 £	2023/24 £	2024/25 £	2025/26 £	2026/27 £	Cyfanswm £	
Priffyrdd, Peirianneg a YGC	Gwella effeithlonrwydd/rhesymoli safleoedd depos priffyrdd						60,000			60,000	
	Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Priffyrdd							130,000		130,000	*
Cyfanswm Priffyrdd, Peirianneg a YGC		-	-	-	-	-	**60,000**	**130,000**	-	**190,000**	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn	185,600								185,600	*
	Cartrefi Preswyl a Nyrsio: Helpu 20 o unigolion i barhau i fyw yn y gymuned (yn hytrach na chartref gofal preswyl) dros amser							50,000	50,000	100,000	
	Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd)							200,000		200,000	
	Cartrefi Pobl Hŷn: Edrych ar drefniadau ar gyfer paratoi ail ddewis prydau bwyd mewn cartrefi gofal							50,000		50,000	
Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant		**185,600**	-	-	-	-	-	**300,000**	**50,000**	**535,600**	
Amgylchedd	Rhesymoli trefniadau cefnogaeth adrannol						50,000			50,000	*
	Gwasanaeth Gwastraff - Caniatáu i rhai mathau o gwmnïau masnachol ddefnyddio'r canolfannau ailgylchu						50,000			50,000	
	Gwasanaethau Gwastraff - Gwell rheolaeth ar ddyledion gan gwsmeriaid masnachol, marchnata Gwasanaethau Masnachol - cynyddu incwm a chynyddu incwm drwy gasglu Gwastraff Masnachol o lety gwyliau						100,000			100,000	*
Cyfanswm Amgylchedd		-	-	-	-	-	**200,000**	-	-	**200,000**	
Cyfanswm Arbedion i'w dileu										**925,600**	

** dileu'n rhannol*

ATODIAD 2

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2015/16 I 2026/27 FESUL ADRAN

TABL 1
CYNLLUNIAU WEDI EU GWIREDDU

Adran	Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2026/27 £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Canran cynlluniau wedi eu gwireddu
Addysg	1,659,740	1,659,740	100%
Ysgolion	4,331,620	4,331,620	100%
Amgylchedd	2,972,463	2,972,463	100%
Gwasanaethau Corfforaethol	2,569,218	2,569,218	100%
Cyllid	1,881,636	1,881,636	100%
Economi a Chymuned	2,916,422	2,896,422	99.3%
Oedolion, Iechyd a Llesiant	6,409,381	6,409,381	100%
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,318,908	2,318,908	100%
Priffyrdd, Peirianneg a YGC	6,531,580	6,531,580	100%
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	403,240	403,240	100%
Tai ac Eiddo	843,230	843,230	100%
Is-gyfanswm	**32,837,438**	**32,817,438**	100%
Arbedion Rheolaethol	1,200,360	1,200,360	100%
CYFANSWM	**34,037,798**	**34,017,798**	99.9%

TABL 2
CYNLLUNIAU ETO I'W GWIREDDU

Adran *(nifer cynlluniau)*	2025/26 £	2026/27 £	Cyfanswm £
Economi a Chymuned *(1 cynllun)*	20,000	0	20,000
Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:			
Oherwydd y risg o beidio gallu gweithredu arbedion cynllun Neuadd Dwyfor, penderfynwyd lleihau'r targed incwm o £100k i £20k ar gyfer 2025/26 a 2026/27, er mwyn rhoi amser i adnabod cyfleon i weithredu.			

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2023/24 I 2026/27 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion newydd 2023/24 i 2026/27 £ - *nifer*		Cynlluniau wedi eu gwireddu £ - *nifer*		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ - *nifer*		Cynlluniau sydd yn llithro a chynlluniau gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion £ - *nifer*		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	1,555,010	*35*	1,530,270	*34*	-		24,740	*1*	Mae'r adran yn rhagweld rhai risgiau i wireddu y cynllun *Trosglwyddo Canolfan Ieuenctid Maesgeirchen i Hwb Cymunedol Maes Ni* (£25k).
Ysgolion	1,966,100	*1*	1,966,100	*1*	-		-		Yr un cynllun am y cyfnod wedi ei wireddu.
Amgylchedd	2,147,380	*36*	1,387,380	*32* *	-		760,000	*4* *	Mae'r adran yn rhagweld rhai risgiau i wireddu 4 cynllun arbedion gwerth cyfanswm o £760k sydd yn cynnwys y cynlluniau *Rhesymoli trefniadau cefnogaeth adrannol* (£100k), *arbedion yn y gwasanaethau Gwastraff* (2 gynllun gwerth cyfanswm o £330k) a *gwasanaeth Gwastraff Masnachol* (£330k).
Gwasanaethau Corfforaethol	865,620	*30*	865,620	*30*	-		-		Y cynlluniau am y cyfnod i gyd wedi eu gwireddu.
Cyllid	873,430	*21*	833,430	*19* *	-		40,000	*2* *	Bu llithriad ar 2 gynllun sef A*ilstrwythuro yr Uned Incwm* gyda balans o £20k eto i'w wireddu ac 1 cynllun *Gosod targed incwm ar yr Uned Cyflogau i adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud i asiantaethau eraill* gwerth £20k.
Economi a Chymuned	648,780	*41*	648,780	*41*	-		-		Y cynlluniau am y cyfnod wedi eu gwireddu i gyd.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	2,491,860	*19*	2,491,860	*19*	-		-		Y cynlluniau am y cyfnod wedi eu gwireddu i gyd.
Plant a Chefnogi Teuluoedd	308,140	*8*	308,140	*8*	-		-		Y cynlluniau am y cyfnod wedi eu gwireddu i gyd.
Priffyrdd, Peirianneg a YGC	1,459,940	*23*	1,251,940	*19*	91,000	*2*	117,000	*2*	Mae 2 gynllun gwerth cyfanswm o £91k ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol eleni. Mae'r adran yn rhagweld risgiau i wireddu 1 cynllun sef *Lleihau adnodd drwy gyfuno'r Gwasanaeth Cynnal Tiroedd gyda'r gwasanaeth Edrychiad Stryd* (£71k). Bu llithriad o 2024/25 yn ymwneud ag 1 cynllun sef *Newid trefn torri gwledig ucheldir/amlder/fertigol a'r amser rhwng y tymor tyfu* (£46k).
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	161,190	*8*	161,190	*8*	-		-		Y cynlluniau am y cyfnod wedi eu gwireddu i gyd.
Tai ac Eiddo	780,350	*14*	780,350	*14*	-		-		Y cynlluniau am y cyfnod wedi eu gwireddu i gyd.
Arbedion Rheolaethol	2,400,000	*1*	2,400,000	*1*	-		-		Yr un cynllun am y cyfnod wedi ei wireddu.
CYFANSWM	**15,657,800**	***237***	**14,625,060**	***226***	**91,000**	***2***	**941,740**	***9***	**Yn nhermau ariannol (£), mae 93% o gynlluniau arbedion 2023/24 i 2026/27 eisoes wedi eu gwireddu a bron i 1% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.**

** cynlluniau gyda rhaniad statws gwahanol yn y blynyddoedd maent wedi eu proffilio*

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Cyllideb Refeniw 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog perthnasol:	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau
Dyddiad y cyfarfod:	10 Tachwedd 2026

Crynodeb

- *Rhagwelir diffyg cyllidebol o £9.8 miliwn am y flwyddyn ariannol 2026/27.*
- *Mae pedair o adrannau'r Cyngor yn goddef o ddiffyg cyllideb uwchlaw'r trothwy o £100,000 gyda gwariant yn y meysydd lleoliadau all-sirol plant, gwastraff, gofal preswyl a gofal cartref, gofal Ôl-16 a gwasanaeth Derwen, yn uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd iddynt.*
- *Nid yw targedau incwm yn parcio ac yn y maes priffyrdd yn cael eu cyflawni.*
- *Cynnyrch treth cyngor a'r premiwm treth cyngor £5.3 miliwn yn is na'r gyllideb eleni.*
- *Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi cynnal cyfarfod brys efo pob pennaeth adran perthnasol i gael gwell dealltwriaeth o'r materion yn yr adrannau a rhaglen glir i ymateb gan gynnwys parhau i wthio i gyflawni arbedion. Fodd bynnag, diffyg yn y galw yw'r rheswm amlwg dros y rhan helaeth o'r diffyg cyllidebol ac mae rheoli hynny tu hwnt i allu'r Cyngor.*
- *Rhagwelir bydd angen gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gyllido'r blwch ariannol sydd bron yn anorfod. Bydd angen i'r Cabinet wneud penderfyniad bryd hynny pa gronfeydd fydd yn briodol i'w defnyddio, ar sail argymhellion y Swyddog Cyllid Statudol. Eleni bydd rhaid talu sylw penodol i'r effaith sylweddol gaiff y trosglwyddiadau tai o eiddo sy'n talu treth a phremiwm i eiddo sy'n destun trethi annomestig.*

1. Penderfyniad a geisir

Fod y Cabinet yn:

1.1 Derbyn yr adroddiad gan nodi bod rhagolygon o ddiffyg cyllideb sylweddol ar gyfer 2026/27 gan yr Adran Plant a Theuluoedd, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, gyda diffyg i raddau llai yn yr Adran Amgylchedd a'r Adran Priffyrdd hefyd

1.2 Cymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol uwchlaw'r taliad cytundebol i Gwmni Byw'n Iach i'w gyllido o'r gronfa trawsffurfio, gan ddirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet dros Economi mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i gytuno ar swm y gefnogaeth ariannol derfynol uwchlaw y tâl cytundebol gyda Byw'n Iach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

1.3 Cymeradwyo cyllido'r gwariant o £1.006 miliwn sydd uwchlaw'r gyllideb yn y maes Gwastraff drwy ddefnyddio £1.006 miliwn o'r Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio rhoi tafluniad o'n sefyllfa refeniw erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Felly mae'r symiau a nodir isod yn amcan o'r hyn a ragwelwn erbyn Mawrth 2027 ac nid symiau sy'n cynrychioli'r diffyg yn y gyllideb heddiw.

2.2 Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

Cefndir / Cyflwyniad

3.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno adolygiad diwedd Awst 2026 o gyllideb refeniw'r Cyngor am y flwyddyn ariannol 2026/27, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd gan pedair o'r adrannau ddiffyg cyllidebol sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir y prif ddiffyg yn:

- Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – Cartrefi Preswyl a Gofal Cartref
- Adran Plant a Theuluoedd – Lleoliadau all-sirol, Ôl-16 a Derwen
- Adran Amgylchedd - Gwastraff a Pharcio
- Priffyrdd, Peirianneg a YGC – Priffyrdd a Bwrdeistrefol

3.2 Isod, ac yn **Atodiad 2,** rhoddir manylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau ble rhagwelir diffyg cyllideb , ynghyd ag argymhellion penodol lle'n briodol.

4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Sefyllfa Arbedion

4.1 Yn adroddiad Cyllideb 2026/27 i'r Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2026, adroddwyd fod arbedion gwerth £583k wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2026/27. Mae'r cyllidebau wedi eu lleihau o'r swm yma ac felly adroddir ar y sefyllfa yn dilyn ystyriaeth o'r arbedion.

4.2 Cyflwynir adroddiadau rheolaidd, ddwywaith y flwyddyn, i'r Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyflwyno diweddariad am y gwaith o wireddu arbedion, a dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi adrodd ar risgiau i gyflawni arbedion. Yn dilyn adolygiad diweddar o'r cynlluniau arbedion, argymhellir fod gwerth £925,600 yn cael eu dileu gan nad ydynt bellach yn gyraeddadwy.

4.3 Y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr arbedion yw bod gwerth £242k – sef 45% o'r £533k perthnasol i flwyddyn ariannol 2026/27 – eisoes wedi gwireddu, gyda £91k pellach ar drac i wireddu'n amserol. Golyga hyn fod bron i £49 miliwn, sef 98% o'r holl gynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi cael eu gwireddu, sydd yn gyfanswm o £72.5 miliwn o arbedion ers 2010/11.

5. Adrannau'r Cyngor

5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Dyrannwyd gwerth dros £3.3 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2026/27 ymlaen. Awgryma'r rhagolygon diweddaraf os na fydd newid yn ystod y flwyddyn y bydd diffyg cyllidebol o £2.3 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gwelwyd pwysau cynyddol ar ofal preswyl a nyrsio a hefyd ar ofal cartref. Mae costau staff uwchlaw'r gyllideb yn faterion yn y gwasanaethau darparu. Yn dilyn adolygiad o arbedion yr adran, bu i werth £536k o arbedion problemus nad oedd yn gwireddu gael eu dileu, tra bod nifer o gynlluniau arbedion eraill wedi cael eu gwireddu yn ddiweddar gan yr adran.

Mae'r cynnydd yn y galw yn parhau i ddilyn yr hyn a ragwelwyd ac a ragrybuddiwyd yn Llechen Lân ac yn debygol o barhau am flynyddoedd i ddod.

5.2 Adran Plant a Theuluoedd

Gwelwyd cynnydd pellach yn nifer yr unigolion sydd angen gofal arbenigol tu mewn a thu allan i'r sir a'r gofal hwnnw yn gostus, sydd yn bwysau o £5.7 miliwn uwchlaw'r gyllideb. Ymhellach i hyn gwelwyd cynnydd yn y ddarpariaeth am ofal i blant ag anableddau yn y sir drwy wasanaethau Derwen a Hafan y Sêr a hefyd gan y gwasanaeth Ôl-16. Rhagwelir y bydd diffyg cyllidebol o oddeutu £6.5 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol os na fydd newid yn yr hyn a ddarperir yn ystod y flwyddyn.

5.3 Adran Addysg

Pwysau yn y maes cludiant ysgolion ar yr elfen anghenion dysgu ychwanegol, ond ei effaith yn cael ei leihau gan danwariant gan gynnwys derbyniad grant mewn meysydd eraill. Mae'r Adran yn bwriadu mantoli sefyllfa ariannol yr adran erbyn diwedd y flwyddyn drwy wneud defnydd o arian o gronfa wrth gefn adrannol.

5.4 Byw'n Iach

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cwmni Byw'n Iach wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan y Cyngor uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu er mwyn galluogi cynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ychwanegol yma wedi lleihau dros y blynyddoedd gyda'r swm yn £550k yn 2022/23, £308k yn 2023/24, £281k yn 2024/25 a £269k yn 2025/26. Rhagwelir fod y galw am gefnogaeth ariannol yn parhau yn 2026/27 ond fod y swm gofynnol wedi lleihau i £115k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r symudiad yma i'r cyfeiriad cywir i'w groesawu.

5.5 Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC

Rhagwelir diffyg cyllidebol o £329k gan yr adran erbyn diwedd y flwyddyn. Gwelwyd lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd yn cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau priffyrdd. Yn y Gwasanaeth Bwrdeistrefol, mae cyfuniad o ffactorau gan gynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau glanhau toiledau cyhoeddus. Tra bod colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Mae arbedion nad ydynt yn gwireddu yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol.

5.6 Adran Amgylchedd

Rhagwelir diffyg cyllidebol o oddeutu £467K erbyn diwedd y flwyddyn, sydd yn cynnwys diffyg incwm parcio tra bod tueddiad blynyddol o wariant uwchlaw'r gyllideb yn y maes gwastraff yn parhau ac yn gyfrifol am £1 miliwn o'r pwysau ariannol adrannol. Mae sawl cynllun ar y gweill gan yr Adran er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa ariannol, ond er mwyn gwneud y cam olaf dros y flwyddyn nesaf bydd angen cwblhau ail strwythuro'r Gwasanaeth gwastraff a'r newidiadau gweithredol pellach. Mae arbedion nad ydynt yn gwireddu gwerth £760k yn cyfrannu at sefyllfa ariannol yr adran a bydd angen penderfyniadau amserol os am allu cyflawni rhai o'r rhain a lleihau'r baich ariannol ar yr adran.

Bwriad yr adran yw gwneud defnydd o incwm newydd i gyfarch unrhyw ddiffyg yng nghyllideb gwastraff eleni, gyda'r arian yn deillio o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr, er mwyn hybu ailgylchu gan y cwmnïau sy'n creu'r gwastraff hwn.

5.7 Adran Tai ac Eiddo

Rhagwelir y bydd yr adran yn ei gyfanrwydd yn tanwario (£49k) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn dilyn blynyddoedd o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng, bu i'r holl ymyraethau bwriadol gan y gwasanaeth olygu fod lleihad mewn gwariant ar y maes, lawr i £5.4 miliwn eleni o'i gymharu â £6.1 miliwn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Er bod dyraniad ychwanegol un tro gwerth £800k wedi ei glustnodi ar gyfer llety argyfwng yn

2026/27, ni ragwelir y bydd galw ar y ddarpariaeth bellach ac felly mae modd dychwelyd yr arian yn gorfforaethol.

Premiwm treth cyngor sydd yn cyllido £4.2m o gyllideb llety argyfwng yn 2026/27.

5.8 Corfforaethol

Awgryma'r rhagolygon diweddaraf y bydd cynnyrch treth cyngor a'r premiwm treth cyngor £5.3 miliwn yn is na'r gyllideb eleni. Bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatáu nifer arwyddocaol o eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig yn ystod y flwyddyn, gyda 361 eiddo wedi trosglwyddo hyd at ddiwedd Awst (283 yn 2025/26). Gwelwyd hefyd leihad o 246 yn nifer yr ail gartrefi'r premiwm hyd at ddiwedd Awst (74 yn 2025/26). Bu lleihad hefyd o 185 yn nifer o eiddo i drosglwyddo o drethi annomestig i dreth cyngor (618 yn 2025/26). Mae'r golled yn cael ei ddwysau ymhellach yn 2025/26 gan fod ceisiadau yn cael eu hôl-ddyddio rhai blynyddoedd, felly effaith nifer o flynyddoedd yn mynd yn erbyn sefyllfa ariannol eleni. Yn wyneb y lleihad yn y cynnyrch treth diweddar, bydd effaith hyn yn derbyn ystyriaeth buan yng nghyd-destun ariannu yr ymrwymiadau allan o'r premiwm treth cyngor.

Yn groes i'r darlun yma, mae rhagolygon gwell ar benawdau eraill Corfforaethol gan gynnwys derbyniad incwm a grantiau uwch, effaith ffafriol ad-dalu benthyciad hanesyddol, dychwelyd arian bidiau nad oes defnydd llawn iddynt eleni, lleihad mewn costau cyfalaf cyffredinol ynghyd â llai o bwysau ar nifer o gyllidebau amrywiol. O ystyried Corfforaethol yn ei gyfanrwydd, rhagwelir pwysau o £408k uwchlaw'r gyllideb.

Rhagwelir bydd angen gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gyllido'r blwch ariannol.

6. Casgliad

6.1 Yn dilyn adolygiad ar ddiwedd Awst, rhagwelir sefyllfa o ddiffyg cyllideb o £9.8 miliwn, er mwyn gallu parhau i gyfarfod y galw ar wasanaethau am weddill y flwyddyn ar sail yr wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd. Mae'r ffigwr yn seiliedig ar ddiffyg cyllidebol o £9.4 miliwn gan yr adrannau a £0.4 miliwn pellach ar gyllidebau corfforaethol.

Mae 69% sef £6.5 miliwn ohono yn deillio o'r galw cynyddol ar wasanaethau plant, yn bennaf ar leoliadau all-sirol.

Rhagwelir y bydd pedair o adrannau'r Cyngor yn gwario'n sylweddol uwchlaw'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn, gyda chynnydd yn y galw i'w weld mewn nifer o feysydd eraill gan gynnwys yn y maes gofal oedolion a chludiant yn y maes anghenion dysgu ychwanegol ysgolion.

Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi cynnal cyfarfod brys efo pob pennaeth adran perthnasol i gael gwell dealltwriaeth o'r materion yn yr adrannau a rhaglen glir i ymateb gan gynnwys parhau i wthio i gyflawni arbedion.

O ystyried y rhagolygon gorwariant diweddaraf, argymhellir ei bod yn briodol fod camau i rewi gwariant anorfod yn cael ei weithredu am weddill y flwyddyn ariannol. Serch hynny, rhagwelir bydd angen gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gyllido'r blwch ariannol sydd bron yn anorfod. Bydd angen i'r Cabinet wneud penderfyniad bryd hynny pa gronfeydd fydd yn briodol i'w defnyddio, ar sail argymhellion y Swyddog Cyllid Statudol. Eleni bydd rhaid talu sylw penodol i'r effaith sylweddol gaiff y trosglwyddiadau tai o eiddo sy'n talu treth a phremiwm i eiddo sy'n destun trethi annomestig.

7. Camau nesaf ac amserlen

7.1 Cyflwynir adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd i'r Cabinet yn Ionawr 2027.

8. Sylwadau Swyddogion Statudol

8.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

8.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

Cyllideb Refeniw 2026/27 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Diwedd Awst			
	Cyllideb Arfaethedig 2026/27 £'000	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27 £'000	Addasiadau a Argymhellir £'000	Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2026/27 £'000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	**91,344**	**2,273**	**0**	**2,273**
Plant a Theuluoedd	**28,239**	**6,499**	**0**	**6,499**
Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	**3,067**	**(101)**	**0**	**(101)**
Addysg	**130,326**	**0**	**0**	**0**
Economi a Chymuned	**6,635**	**170**	**(115)**	**55**
Priffyrdd, Peirianneg ac YGC	**19,554**	**329**	**0**	**329**
Amgylchedd	**19,297**	**1,473**	**(1,006)**	**467**
Tai ac Eiddo	**15,440**	**(49)**	**0**	**(49)**
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	**2,742**	**11**	**0**	**11**
Gwasanaethau Corfforaethol	**13,593**	**(70)**	**0**	**(70)**
Cyllid	**5,489**	**(17)**	**0**	**(17)**
Cyllidebau Corfforaethol *(Gwahaniaethau yn unig)*	*****	**408**	**0**	**408**
Cyfansymiau (net)	**341,215**	**10,926**	**(1,121)**	**9,805**

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Oedolion						
Rheolaeth	649	542	(107)		(107)	(117)
Anabledd Dysgu	33,778	33,740	(38)		(38)	(414)
Iechyd Meddwl	7,495	7,380	(115)		(115)	558
Pobl Hŷn gan gynnwys Anabledd Corff						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	27,065	28,862	1,797		1,797	455
Gofal Cartref	13,434	13,692	258		258	(21)
Taliadau Uniongyrchol	3,371	3,018	(353)		(353)	(334)
Eraill	3,846	3,939	93		93	224
	47,716	49,511	1,795	0	1,795	324
Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion	**89,638**	**91,173**	**1,535**	**0**	**1,535**	**351**
Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)						
Gofal Preswyl	515	1,068	553		553	821
Gofal Cartref	1,191	1,395	204		204	211
Eraill	0	(19)	(19)		(19)	(2)
Cyfanswm Gwasanaethau Darparu	**1,706**	**2,444**	**738**	**0**	**738**	**1,030**
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26					0	(1,281)
Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant	**91,344**	**93,617**	**2,273**	**0**	**2,273**	**100**

Oedolion, Iechyd a Llesiant

Dyrannwyd gwerth dros £3.3 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2026/27 ymlaen. Awgryma'r rhagolygon diweddaraf os na fydd newid mewn gweithredu yn ystod y flwyddyn y bydd diffyg cyllidebol o £2.27 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Rheolaeth yr Adran - tanwariant ar gostau staff ynghyd â derbyniad grant.

Anabledd Dysgu - bu i'r gwasanaeth dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol o £1.4 miliwn yn 2026/27. Adroddir ar danwariant o (£38k), sydd yn cynnwys sefyllfa gymysg o fewn y gwasanaethau gyda chynnydd yn y pwysau ar yr elfen cartrefi nyrsio, gwasanaethau dydd a chynlluniau cefnogol ond lleihad yn y pwysau ar daliadau uniongyrchol. Mae'r gwaith o adolygu pecynnau gofal yn parhau ac yn dwyn ffrwyth.

Iechyd Meddwl - dyrannwyd £1.2 miliwn o arian ychwanegol i'r maes yn 2026/27. Gwelwyd llai o bwysau ar daliadau uniongyrchol wrth i achos cymhleth ddod i ben yn gynharach yn y flwyddyn ac ni welwyd cynnydd mewn niferoedd preswyl a nyrsio hyd yn hyn eleni, sydd yn golygu fod tanwariant o (£115k) yn cael ei ragweld.

Pobl Hŷn - galw cynyddol ar y ddarpariaeth Preswyl a Nyrsio ac felly rhagolygon o ddiffyg cyllidebol o £1.8 miliwn, gyda chynnydd yn nifer yr achosion yn ystod y flwyddyn.

Rhagwelir £258k o ddiffyg cyllidebol ar ofal cartref, gyda chynnydd mewn gwariant am ofal cartref preifat i'w weld yn ardaloedd Porthmadog a Thywyn. O ran taliadau uniongyrchol, niferoedd yr achosion yn amrywio rhwng ardaloedd ond y gwaith o sicrhau effeithlonrwydd y taliadau yn cynorthwyo'r darlun.Yn 'Eraill', achos cymhleth yn llety cefnogol wedi cychwyn yn ystod y flwyddyn.

Gwasanaethau Darparu - costau staff uwchlaw'r gyllideb yn faterion yng ngofal preswyl ac yng ngofal cartref, gyda defnydd o staff asiantaeth i'w weld yng ngofal preswyl.

Arbedion - yn dilyn adolygiad o'r arbedion, bu i werth £536k o arbedion problemus nad oedd yn gwireddu gael eu dileu, tra bod nifer o gynlluniau arbedion eraill wedi cael eu gwireddu yn ddiweddar gan yr adran.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Plant a Theuluoedd	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	812	794	(18)		(18)	0
Gweithredol	3,356	3,500	144		144	478
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	6,916	12,605	5,689		5,689	2,011
Cartrefi Grwpiau Bychan	312	480	168		168	80
Maethu Drwy Asiant	2,014	1,996	(18)		(18)	(138)
Maethu Mewnol	3,215	3,271	56		56	95
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	2,390	2,409	19		19	241
	14,847	20,761	5,914	0	5,914	2,289
Ôl-16	1,895	2,267	372		372	437
Gwasanaeth Derwen	3,969	4,239	270		270	443
Cyfiawnder Ieuenctid	283	281	(2)		(2)	(11)
Blynyddoedd Cynnar	150	20	(130)		(130)	(186)
Uned Datblygu'r Gweithlu	245	245	0		0	0
Eraill	2,682	2,631	(51)		(51)	(54)
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26	0	0	0		0	(3,296)
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	**28,239**	**34,738**	**6,499**	**0**	**6,499**	**100**

Plant a Theuluoedd

Dyrannwyd gwerth £791k o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2026/27. Awgryma'r rhagolygon diweddaraf y bydd diffyg cyllidebol o £6.5 miliwn gan yr adran erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Rheolaeth - costau staffio ychwanegol un tro ond sydd yn cael ei wrthbwyso gan ddefnydd o grantiau tuag at sefydlu system gwybodaeth.

Gweithredol - dyrannwyd £212k o arian ychwanegol ar gyfer cynlluniau cefnogol yn 2026/27 ond y pwysau yn parhau, staffio uwchlaw'r gyllideb i'w weld ar weithwyr maes.

Lleoliadau - gwelwyd cynnydd pellach yn y nifer cyfartalog lleoliadau all-sirol unwaith eto eleni i 41 (37 yn 2025/26, 34.3 yn 2024/25, 32.5 yn 2023/24, 25.7 yn 2022/23), gyda chost gyfartalog y lleoliadau bellach wedi cynyddu i £317k. Mae 8 achos eithriadol, sydd yn costio £720k y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae un achos parhaol newydd wedi cychwyn ers dechrau'r flwyddyn ariannol.

Yn Maethu Mewnol nid yw'r cyfraniad gan y Swyddfa Gartref ar gyfer y ceiswyr lloches heb rieni neu warcheidwaid sydd yn derbyn gwasanaeth yn ddigonol o ystyried y costau.

Cartrefi Grwpiau Bychan - mae'r cartrefi wrthi'n cael eu sefydlu yng Ngwynedd gyda dau gartref bellach yn weithredol a'r trydydd tŷ yn dod yn weithredol yn ystod 2026/27. Mae'r ddarpariaeth fewnol yma yn golygu y bydd modd lleoli plant yn fewnol yn hytrach nac efo darparwyr allanol all-sirol. Bu i'r Cyngor dderbyn grantiau i sefydlu'r cartrefi ynghyd â chyfraniad tuag at gostau rhedeg y cartrefi eleni, ond rhagwelir y bydd y costau cyflogi uwchlaw'r ariannu sydd ar gael.

ÔI-16 - pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth yn dilyn i ddau achos eithriadol gael eu trosglwyddo o'r gwasanaeth all-sirol. Pwysau hefyd ar yr elfen ceiswyr lloches dros 18 oed, gan nad yw'r cyfraniad gan y Swyddfa Gartref yn ddigonol i gyfarch y costau. Staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr cymdeithasol hefyd yn cyfrannu at y gwariant uwchlaw'r gyllideb.

Derwen - pwysau uwchlaw'r gyllideb ar yr elfen gweithwyr yn yr Uned Egwyl Fer, bu modd defnyddio grantiau tuag at y costau mewn blynyddoedd blaenorol ond nid yw'r ffynhonnell ariannu ar gael eleni.

Blynyddoedd Cynnar - grantiau ar gael i gyllido gwariant craidd yn arwain at ragolygon tanwariant.

Eraill - trosiant staff a swyddi gwag yn y tim trothwy gofal ac ar yr ochr weinyddol, ond costau cyfreithiol uwchlaw'r gyllideb yn lleihau'r tanwariant a adroddir.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cefnogaeth a Chomisiynu	1,271	1,145	(126)		(126)	(22)
Incwm a Chyllid	1,497	1,471	(26)		(26)	(57)
Gwasanaethau Ataliol	299	350	51		51	(20)
Cyfanswm Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	**3,067**	**2,966**	**(101)**	**0**	**(101)**	**(99)**

Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal

Cefnogaeth a Chomisiynu - derbyniad grant tuag at amser nifer o staff sydd ynghlwm â'r gwaith sylweddol i weithredu meddalwedd achosion gofal ar hyd gogledd Cymru. Rhagwelir y bydd llai o bwysau ar gyllidebau cyflenwadau a gwasanaethau sydd hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa.

Incwm a Chyllid - cyfuniad o danwariant ar gostau staff mewn paratoad ar gyfer ail-strwythuro, ynghyd â derbyniad grant tuag at amser staff sydd ynghlwm â gwaith i weithredu meddalwedd achosion gofal ar hyd gogledd Cymru. Am gyfnod bydd dwy system wybodaeth gofal yn cyd-redeg. Mae'r tanwariant yn cael ei leihau gan gynlluniau arbedion nad ydynt yn gwireddu.

Gwasanaeth Ataliol - buddsoddiad ychwanegol mewn offer ataliol ond yr effaith ariannol yn cael ei leihau gan dderbyniad ffioedd incwm uwch am y gwasanaeth.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Addysg	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,453	2,109	(344)		(344)	53
Ysgolion Datganoledig	108,440	108,440	0		0	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(2,128)	(2,318)	(190)		(190)	(55)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	8,436	8,992	556		556	0
Gwasanaeth Atodol	1,512	1,575	63		63	(253)
Eraill	4,322	4,313	(9)		(9)	109
	14,270	14,880	610	0	610	(144)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	6,102	6,093	(9)		(9)	122
Gwasanaeth Ieuenctid	1,114	1,122	8		8	0
Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran	75	0	(75)		(75)	0
Cyfanswm Addysg	**130,326**	**130,326**	**0**	**0**	**0**	**(24)**

Addysg

Arweinyddiaeth a Rheolaeth - gwariant un tro ar weithredu system rheoli gwybodaeth newydd ar gyfer yr ysgolion i'w gyllido o gyllideb wrth gefn ynghyd â llai o gyfraniad i gronfa na'r hyn sydd wedi ei gyllidebu ar ei gyfer.

Gwasanaeth Ansawdd Ysgolion - cyfuniad o ddenu grantiau yn y maes Blynyddoedd Cynnar a'r Gymraeg, llwyddiant i ddenu incwm gan y Ganolfan Fusnes a gwariant o fewn y gyllideb.

Cludiant - yn dilyn pwysau ariannol sylweddol ar gludiant dros y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd cyllideb o £896k ar sail barhaol i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion, derbyniwyd £939k hefyd ar sail un tro yn 2025/26, felly gan nad yw'r arian ar gael yn 2026/27 rhagwelir pwysau ar y maes ac yn benodol yn y maes anghenion dysgu ychwanegol, gydag amcan gwariant uwchlaw'r gyllideb yn £556k erbyn diwedd y flwyddyn.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - salwch yn y maes glanhau a gofalu ac arlwyaeth yn parhau, tra bod lleihad yn y pwysau ariannol ar yr elfen gofal o'r clybiau brecwast yn dilyn derbyniad bid ar gyfer 2026/27.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill - sefyllfa gymysg ar yr amrywiol benawdau gan gynnwys costau un tro sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau eraill.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - bu i'r gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynwysiad ar y cyd rhwng Gwynedd a Môn ddod i ben ar ddiwedd Awst 2026, felly'r gwasanaeth mewn cyfnod trosiannol yn ystod 2026/27. Mae costau un tro yn cael eu hariannu o fewn y sefyllfa ariannol y flwyddyn.

Er mwyn diddymu'r gorwariant a adroddir, mae'r adran yn defnyddio £75k o gronfa adrannol.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Economi a Chymuned	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	410	415	5		5	(11)
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	666	658	(8)		(8)	(3)
Morwrol a Pharciau Gwledig	(170)	(143)	27		27	101
Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill	2,530	2,657	127	(115)	12	34
Rhaglenni Datblygu Economaidd	(79)	(79)	0		0	(4)
Marchnata a Digwyddiadau	270	270	0		0	0
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,888	1,814	(74)		(74)	(29)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	1,120	1,213	93		93	9
Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran	0	0	0		0	(49)
Defnydd o Gronfa Arall yr Adran	0	0	0		0	(48)
Cyfanswm Economi a Chymuned	**6,635**	**6,805**	**170**	**(115)**	**55**	**0**

Economi a Chymuned

Morwrol a Pharciau Gwledig - Yn Morwrol, rhagolygon o wariant uwchlaw'r gyllideb o £71k yn Noc Fictoria, Caernarfon, tra bod diffyg incwm net o £37k gan y Traethau, ond rhagolygon incwm mwy addawol ar gyfer Hafan, Pwllheli (£54k) a Harbyrau o (£26k). Sefyllfa gytbwys yn y parciau gwledig gan fod bwriad i ddefnyddio unrhyw danwariant ar y maes i gyllido cynlluniau cyfalaf a ariennir yn bennaf gan grant.

Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n Iach yn Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r cwmni wedi derbyn cefnogaeth ariannol flynyddol ychwanegol gan y Cyngor oedd yn £550k yn 2022/23, £308k yn 2023/24, £281k yn 2024/25 a £269k yn 2025/26, oedd uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Rhagwelir fod y gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol yn £115k erbyn diwedd y flwyddyn.

Ymhellach, gorwariant o £12k ar gyllideb rhedeg yr adeiladau hamdden gan yr Adran Economi a Chymuned.

Llyfrgelloedd Gwynedd - tanwariant ar staff ynghyd ag effaith ariannol cau dwy lyfrgell am ran o'r flwyddyn tra bydd gwaith adnewyddu sylweddol yn digwydd yn Llyfrgell Caernarfon a Thywyn.

Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd - gorwariant yn bennaf gan fod costau trydan a diffyg incwm yn gyfrifol am orwariant o £52k yn Neuadd Dwyfor tra bod costau staff uwchlaw'r gyllideb ynghyd â diffyg incwm yn faterion yn Storiel £36k ac yn Amgueddfa Lloyd George £13k.

Argymhellir i'r Cabinet gymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol i Gwmni Byw'n Iach ar ddiwedd y flwyddyn os yw'r gorwariant yn parhau, gyda'r rhagolygon presennol yn amcanu cymorth gwerth £115k.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau:						
Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	12,595	12,750	155		155	318
Peirianneg	423	441	18		18	(76)
Bwrdeistrefol	6,480	6,631	151		151	180
Ymgynghoriaeth Gwynedd	56	61	5		5	(15)
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26	0	0	0		0	(307)
Cyfanswm Priffyrdd, Peirianneg ac YGC	**19,554**	**19,883**	**329**	**0**	**329**	**100**

Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Priffyrdd - rhagolygon o leihad yn yr incwm ar gytundeb gan asiantaeth allanol tra bod tanwariant yn cael ei ragweld yn y maes goleuo a rheolaeth ffyrdd sirol.

Gwasanaethau Peirianneg - arbedion i'w darganfod yn y maes carthffosiaeth a phibelli dŵr a mân orwariant ar nifer o benawdau ar Bont yr Aber, Caernarfon.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gan gynnwys pwysau ar gostau nwyddau glanhau ac ar staff glanhau toiledau cyhoeddus, a methiant i wireddu arbedion gwerth £117k yn nhiroedd agored. Mae colledion incwm hefyd yn parhau i fod yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Tanwariant ar gyflogau yng ngorfodaeth stryd, glanhau strydoedd a thimau taclus sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Ymgynghoriaeth Gwynedd - rhagolygon o ragori ar incwm gan sefydliadau allanol megis cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru yn y maes ffyrdd a pheirianneg tra bod diffyg yn yr incwm yn cael ei ragweld yn y Gwasanaeth Adeiladu.

Arbedion - rhagwelir na fydd arbedion adrannol gwerth £117k yn cael eu gwireddu ac felly yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Amgylchedd	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	854	953	99		99	172
Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	762	772	10		10	(225)
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	308	(73)	(381)		(381)	(445)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(2,745)	(2,243)	502		502	474
Cludiant Integredig	2,250	2,517	267		267	250
	(187)	201	388	0	388	279
Marchnadoedd	8	14	6		6	5
Cefn Gwlad a Mynediad	887	891	4		4	18
Gwarchod y Cyhoedd	2,020	1,980	(40)		(40)	(127)
Gwastraff	14,953	15,959	1,006		1,006	1,256
Cyfanswm Amgylchedd	**19,297**	**20,770**	**1,473**	**0**	**1,473**	**1,378**
Defnydd o Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer						**(786)**
Defnydd o Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu				**(1,006)**	**(1,006)**	**(470)**
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26						**(22)**
Cyfanswm	**19,297**	**20,770**	**1,473**	**(1,006)**	**467**	**100**

Amgylchedd

Rheolaeth yr Adran - oediad mewn gwireddu gwerth £100k o gynlluniau arbedion ynghyd â gwariant uwchlaw'r gyllideb ar gostau cerbydau.

Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu - darlun cymysg gan gynnwys diffyg incwm yn parhau i fod yn faterion yn Rheolaeth Datblygu, Rheolaeth Adeiladu a Phridiannau Tir ond fod trosiant staff a swyddi gwag yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.

Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) - rhagori ar incwm ffioedd gwaith stryd, swyddi gweigion a thanwariant pellach ar nifer o benawdau'r gyllideb.

Parcio a Gorfodaeth Parcio - yn dilyn i ffioedd parcio gael eu codi yn Ebrill 2025, roedd disgwyliad fod incwm parcio am wella ond rhagwelir diffyg incwm o £529k o'i gymharu â £464k yn 2025/26. Mae swyddi gwag a thanwariant ar gyllideb gweithiau yn cynorthwyo i wella'r sefyllfa a adroddir.

Cludiant Integredig - gwelwyd cynnydd mewn costau contractau dros y blynyddoedd ac nid yw'r grantiau a dderbynnir yn cyfarch yr holl gostau cysylltiedig â chontractau cludiant. Tanwariant ar gostau staff ac ar gyllidebau eraill yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Gwarchod y Cyhoedd - swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys ar gostau cerbydau. Rhagolygon fod incwm safonau masnach a diogelwch bwyd yn rhagori'r targed ond y bydd diffyg ar incwm trwyddedau tacsis.

Gwastraff - mae nifer o faterion yn gyfrifol am y gwariant uwchlaw'r gyllideb a ragwelir o £1.006 miliwn, gan gynnwys diffyg incwm o £374k ar gasglu gwastraff masnachol tra bod gwariant uwchlaw'r gyllideb o £445k ar nifer o benawdau'r gyllideb gan y gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu. Rhagwelir y bydd gwariant uwchlaw'r gyllideb o £217k ar safle trin Caergylchu, Caernarfon.

Bu llithriad ar y gwaith o ailstrwythuro a chyflwyno newidiadau i'r maes gyda nifer o gamau ynghlwm â'r broses. Mae'r camau cyntaf eisoes wedi eu gweithredu gyda'r camau nesaf i ddilyn ac o ganlyniad mae llithriad ar y cynlluniau arbedion cysylltiedig, ac felly ni ragwelir y bydd gwerth £660k o gynlluniau arbedion gwastraff yn gwireddu erbyn diwedd y flwyddyn.

Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu - derbyniad incwm newydd i gynghorau sydd yn deillio o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr, er mwyn hybu ailgylchu. Mae £1.006 miliwn i'w ddefnyddio yn 2026/27 i gyfarch y diffyg gan y gwasanaeth gwastraff gyda'r gweddill yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y maes gwastraff.

Arbedion - mae gwerth £760k o arbedion nad ydynt yn cael eu gwireddu ac felly maent yn cyfrannu at y sefyllfa o wariant uwchlaw'r gyllideb.

Argymhellir fod y gwariant uwchlaw'r gyllideb o £1.006 miliwn a ragwelir gan y gwasanaeth gwastraff yn cael ei gyllido drwy ddefnyddio'r Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Tai ac Eiddo	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	735	716	(19)		(19)	(216)
Gwasanaethau Tai						
Digartrefedd	6,008	5,958	(50)		(50)	280
Tai Sector Breifat	486	507	21		21	17
Eraill	657	675	18		18	(124)
	7,151	7,140	(11)	0	(11)	173
Gwasanaethau Eiddo						
Eiddo	7,565	7,540	(25)		(25)	22
Gofalu, Arlwyo a Glanhau	(11)	(5)	6		6	1
	7,554	7,535	(19)	0	(19)	23
Cyfanswm Tai ac Eiddo	**15,440**	**15,391**	**(49)**	**0**	**(49)**	**(20)**

Tai ac Eiddo

Rheolaeth - tanwariant ar gostau staff ynghyd â thanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau.

Digartrefedd - yn dilyn blynyddoedd o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng, yn dilyn yr holl ymyraethau bwriadol gan y gwasanaeth, rhagwelir lleihad mewn gwariant ar y maes lawr i £5.4 miliwn eleni o'i gymharu â £6.1 miliwn yn 2025/26 a 2024/25, gyda'r rhagolygon presennol yn amcanu tanwariant o (£149k).

Mae cyllideb barhaol gwerth £4.1 miliwn wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor i lety argyfwng. Er y bu i'r gwasanaeth dderbyn dyraniad ychwanegol un tro o £800k ar gyfer y pwysau ychwanegol oedd yn cael ei ragweld ar lety argyfwng yn 2026/27, ni ragwelir erbyn hyn y bydd galw ar y ddarpariaeth yma yn ystod y flwyddyn, gyda'r cyllid felly yn cael ei ddychwelyd yn gorfforaethol.

Tai Sector Breifat - rhagwelir y bydd diffyg ar ffioedd incwm tai gyda nifer o breswylwyr, ond fod yr effaith ariannol yn cael ei leihau gan fod yna drosiant staff yn y maes Gorfodaeth.

Gwasanaethau Tai, Eraill - costau un tro gan y siop un stop yn arwain at ragolygon o wariant uwchlaw'r gyllideb.

Gwasanaethau Eiddo - trosiant staff ond ei effaith yn cael ei leihau gan bwysau ar y gyllideb gwasanaethau a chyflenwadau.

Gofalu, Arlwyo a Glanhau - costau ychwanegol ar gostau glanhawyr ac ar nwyddau glanhau ond rhagori ar incwm yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adrannau Canolog	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,742	2,753	11		11	(39)
Cyllid	5,489	5,472	(17)		(17)	(38)
Gwasanaethau Corfforaethol	13,593	13,523	(70)		(70)	(20)
Cyfanswm Adrannau Canolog	**21,824**	**21,748**	**(76)**	**0**	**(76)**	**(97)**

Adrannau Canolog

Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - rhagolygon o gostau gwasanaeth y Crwner £19k uwchlaw'r gyllideb, ond tanwariant cyffredinol a swydd wedi bod yn wag am ran o'r flwyddyn yn y Tim Rheoli Corfforaethol yn golygu fod y pwysau ariannol a adroddir yn cael ei leihau.

Cyllid - cyfuniad o drosiant staff a derbyniad incwm a grantiau ychwanegol yn cynorthwyo'r adran i ymdopi gyda chynnydd prisiau meddalwedd uwchlaw lefelau chwyddiant ynghyd â chostau ychwanegol systemau ariannol yr adran.

Gwasanaethau Corfforaethol - swyddi gwag a throsiant staff mewn nifer o feysydd gan gynnwys yn Nhechnoleg Gwybodaeth, a rhagwelir y bydd Cyfieithu a'r Gwasanaeth Democrataidd yn rhagori ar incwm tra bod lleihad mewn incwm gan y gwasanaeth Cofrestru a'r Argraffdy.

CYLLIDEB REFENIW 2026/27 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Amcan Cyllideb 2026/27	Amcan Sefyllfa 2026/27	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2026/27**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2026/27**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth Cyngor a Phremiwm Treth Cyngor	*	*	5,277		5,277	0
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	(198)		(198)	0
Costau Cyfalaf	*	*	(289)		(289)	0
Darpariaeth Arbedion	*	*	(398)		(398)	0
Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau	*	*	(858)		(858)	0
Eraill	*	*	(3,126)		(3,126)	0
Cyfanswm Corfforaethol	*	*	**408**	**0**	**408**	**0**

Corfforaethol

Treth Cyngor a Phremiwm Treth Cyngor - awgryma'r rhagolygon diweddaraf y bydd cynnyrch treth cyngor a'r premiwm treth, £5.3 miliwn yn is na'r gyllideb eleni a hynny o ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys:
- bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatáu nifer arwyddocaol o eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig hyd at ddiwedd Awst 2026, sef 361 eiddo, sydd 35% yn uwch na'r ffigwr ar gyfer y llynedd (283 yn 2025/26, 189 yn 2024/25, 193 yn 2023/24).
- bu lleihad o 246 yn y nifer o ail gartrefi'r premiwm hyd at ddiwedd Awst 2026,(lleihad o 74 yn 2025/26, cynnydd o 387 2024/25).
- bu lleihad yn y nifer o eiddo sydd yn trosglwyddo o drethi annomestig i dreth cyngor o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, sef 185 o eiddo hyd at ddiwedd Awst 2026 (618 yn 2025/26, 692 yn 2024/25, 381 yn 2023/24).

Mae'r golled wedi ei ddwysau gan fod y ceisiadau yn cael eu hôl-ddyddio rhai blynyddoedd, felly effaith nifer o flynyddoedd yn mynd yn erbyn sefyllfa ariannol eleni.

Yn 2026/27 mae £14.5 miliwn o bremiwm treth cyngor wedi ei neilltuo, £8.1 miliwn ohono ar gyfer y Strategaeth Dai, £4.7 miliwn pellach ar gyfer y maes Digartrefedd ynghyd â £1.7 miliwn o ymrwymiadau eraill.

Gostyngiadau Treth Cyngor - yn dilyn ymgyrch i dargedu grwpiau gwahanol i gynyddu niferoedd y ceisiadau, gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â'r tueddiad mewn blynyddoedd blaenorol, ond rhagwelir y bydd o fewn sefyllfa'r gyllideb.

Costau Cyfalaf - lleihad mewn costau cyfalaf gan na fu raid benthyca yn allanol ac felly yn osgoi'r costau cysylltiedig.

Darpariaeth Arbedion - mae darpariaeth gorfforaethol wedi ei sefydlu yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd. Yn dilyn adolygiad diweddar bu i werth £926k o arbedion problemus gael eu dileu, sef £536k yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, £190k ym Mhriffyrdd, Peirianneg YGC a £200k yn yr Adran Amgylchedd.

Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau - bu i fidiau nad oes defnydd blwyddyn lawn iddynt eleni, gael eu dychwelyd gan yr adrannau gan gynnwys £800k o'r maes llety argyfwng.

Eraill - cyfuniad o resymau gan gynnwys effaith ffafriol ad-dalu benthyciad hanesyddol, rhagori ar incwm a derbyniad grant, gan gynnwys yr elfen ychwanegol o chwyddiant athrawon o Fedi 2026 ymlaen gan y disgwylir y bydd yn cael ei gyllido gan y Llywodraeth. Ymhellach i hyn, ni ragwelir y bydd y galw ar y ddarpariaeth mor uchel â'r hyn a ragwelwyd wrth osod y gyllideb.

CYFARFOD	Cabinet Cyngor Gwynedd
DYDDIAD	10 Tachwedd 2026
AELOD CABINET	Y Cyng. R.Medwyn Hughes
SWYDDOG CYSWLLT	Roland Evans Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned
TEITL	Ein Diwylliant, Ein Dyfodol: Cynllun ar gyfer Diwylliant yng Ngwynedd

Y penderfyniad a geisir

1. Derbyn yr adroddiad a chydnabod yr ymchwil i Werth Diwylliant Gwynedd
2. Cymeradwyo Ein Diwylliant, Ein Dyfodol: Cynllun ar gyfer Diwylliant yng Ngwynedd (Atodiad A)
3. Cymeradwyo'r trefniadau gweithredu a monitro fel yr amlinellir yn yr adroddiad a'r Cynllun.

Y rheswm dros yr angen am benderfyniad

4. Nid oes gan Gyngor Gwynedd unrhyw weledigaeth neu gynllun ar gyfer cefnogi Diwylliant neu'r sector diwylliant yn y Sir. Mae hyn wedi ei amlygu fel cyfle i'w flaenoriaethu yng Nghynllun y Cyngor.
5. Mae ymchwil i werth diwylliant yng Ngwynedd yn dangos pwysigrwydd y sector yn economaidd ac yn gymdeithasol (Atodiad C)
6. Trwy gydweithio efo'r sector diwylliant, mae datganiad, gweledigaeth, egwyddorion a chynllun gweithredu wedi eu cyd-ddatblygu yn Ein Diwylliant, Ein Dyfodol.
7. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r broses sydd wedi ei dilyn, yn cyflwyno'r datganiad, y weledigaeth a'r egwyddorion ac yn rhoi trosolwg o gynnwys Ein Diwylliant, Ein Dyfodol: Cynllun ar gyfer Diwylliant yng Ngwynedd.

Cyflwyniad

8. Mae'r maes diwylliant wedi profi cyfnod heriol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl yr adroddiad Degawd o Doriadau gan Bwyllgor Diwylliant Senedd Cymru, mae Cymru yn yr ail safle o'r gwaelod ymhlith gwledydd Ewropeaidd o ran gwariant y pen ar wasanaethau diwylliannol.
9. Mae adroddiad Pwyllgor y Senedd yn gwneud nifer o argymhellion allweddol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu mwy o arian, cydnabod pwysigrwydd diwylliant fel gwariant ataliol ac yn gofyn am gymorth strategol i ariannu diwylliant a chwaraeon yn draws-adrannol er mwyn cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru 2015).
10. Mae Rhaglen Lywodraethu Cymru 2026-2030 yn amlygu'r meysydd blaenoriaeth perthnasol canlynol:
    a. Gweithio gyda'r sector, gan gynnwys ein diwydiannu creadigol, i ddatblygu a chyflwyno Strategaeth Diwylliant a Chwaraeon wedi'i thargedu er mwyn creu Cymru iachach, gyfoethocach a mwy gwydn.

b. Blaenoriaethu mynediad cyfartal at y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a chwaraeon i bobl o bob oedran, cefndir a gallu, gan ystyried sut y gall ein polisïau mynediad gefnogi hyn.
c. Buddsoddi yn rôl ataliol diwylliant, treftadaeth a chwaraeon i hybu iechyd da i bobl o bob oedran, cefndir a gallu.

11. Mae blaenoriaethau diweddar Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn cynnwys gosod diwylliant wrth galon llesiant Cymru, datblygu hawliau diwylliannol cliriach i ddinasyddion, ac archwilio'r achos dros Fil Diwylliant i Gymru a fyddai'n rhoi sail gryfach i gyrff cyhoeddus ddiogelu, hyrwyddo a buddsoddi mewn diwylliant fel rhan o'u cyfrifoldebau hirdymor.
12. Mae diwylliant yn bwysig i Wynedd, a Gwynedd yn bwysig i ddiwylliant Cymru, ond serch hynny, mae heriau cyllidebol wedi effeithio'n uniongyrchol ar y sector o fewn y Sir yn sgil arbedion a thoriadau.
13. Mae blaenoriaeth Gwynedd Lewyrchus o fewn i Gynllun Gwynedd 2023-2028 yn cynnwys *Hyrwyddo ein Diwylliant ac Economi Ymweld Cynaliadwy*. O fewn y flaenoriaeth hon mae ystyried Datblygu Cynllun Diwylliant i Wynedd yn flaenoriaeth weithredol.
14. O ran 'diwylliant' diffinnir y sector diwylliannol yn eang, yn unol ag arfer Llywodraeth Cymru, i gynnwys y celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, yr amgylchedd hanesyddol a'r Diwydiannau Creadigol.

Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

15. O ystyried yr heriau diweddar a'r ffaith nad oes gan Gyngor Gwynedd strategaeth na chynllun diwylliant, fe ddaethpwyd a'r sector at ei gilydd er mwyn hybu rhwydweithio a chael barn ar sefydlu gweledigaeth a chynllun / strategaeth i'r Sir. Gwnaed hyn yn bosib trwy nawdd Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU trwy brosiect *'Diwyllesiant'* ac yn ddiweddarach trwy gyllid gan Lywodraeth Cymru trwy eu cymorth refeniw i sectorau diwylliant lleol yng Nghymru.
16. Roedd nifer o fewn y sector yn ogystal â gwasanaethau diwylliannol y Cyngor yn teimlo bod cyfle amlwg yng Ngwynedd i ddatblygu cynllun neu strategaeth ddiwylliannol – yn enwedig wrth ymgeisio am gronfeydd cyllidol a chystadlaethau megis Dinas neu Dref Diwylliant y DU.
17. Cynhaliwyd y gynhadledd a'r gweithdai cyntaf erioed i'r sector ar 18 Chwefror 2025 yn Nyth, Bangor trwy gomisiwn i Gwmni Frân Wen. Mynychodd bron i 70 y gynhadledd honno.
18. Yn sgil y gynhadledd, roedd barn cryf nad oedd y sector eisiau gweld strategaeth na chynllun manwl yn cael ei ddatblygu, ond roedd awch a brwdfrydedd gwirioneddol i sefydlu datganiad, gweledigaeth ac egwyddorion ar gyfer y sector i'r dyfodol gyda 'gweithredu' yn flaenoriaeth yn hytrach na 'geiriau' ar silff.
19. Cytunwyd i lunio datganiad, gweledigaeth ac egwyddorion ar gyfer diwylliant yng Ngwynedd wedi eu cefnogi gan Gynllun Gweithredu perthnasol.
20. Cynhaliwyd gweithdy ar 15 Hydref 2025 i fwrw ymlaen ar ddatblygu'r gwaith. Gwahoddwyd dros 80 o bobl gyda dros 30 yn mynychu'r gweithdy yn Neuadd Dwyfor, Pwllheli.
21. Ar sail y trafodaethau grŵp ac yn dilyn ymgynghori pellach gyda'r hwyluswyr, gwasanaethau diwylliant y Cyngor a'r sector ehangach, cytunwyd ar ddatganiad, gweledigaeth ac egwyddorion drafft.

22. Cynhaliwyd digwyddiad ‘Diwylliant Gwynedd: Ers Lles Pawb’ ym Mhortmeirion ar 4 Mawrth 2026 pan roedd yn gyfle i rannu’r weledigaeth a’r egwyddorion, yn ogystal â bod yn gyfle i glywed am y prosiect SPF – Diwyllesiant a oedd wedi cefnogi cymaint o weithgaredd diwylliannol yng Ngwynedd dros 2 flynedd. Roedd hefyd yn gyfle i glywed enghreifftiau o sut mae diwylliant yn cefnogi llesiant yng Ngwynedd ac i rannu gwybodaeth am y bwriad o sefydlu Rhwydwaith Diwylliant newydd i Wynedd a chyflwyno aelodau Bwrdd Llywio Cysgodol y Rhwydwaith.
23. Isod fe welir y datganiad, y weledigaeth ac egwyddorion drafft sydd wedi eu cyd-ddatblygu gyda’r sector ar gyfer diwylliant Gwynedd ac sy’n ystyried y sylwadau a wnaethpwyd yn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi:

    Datganiad:

    “Mae diwylliant yng Ngwynedd yn hanfodol, yn arloesol ac wedi’i wreiddio yn ein cymunedau. Mae’n rhoi lliw i fywyd, yn hyrwyddo lles, ac yn adlewyrchu ein hunaniaeth amrywiol, y Gymraeg a’n Cymreictod yn hyderus i Gymru a’r byd.

    Gweledigaeth:

    Mae ein diwylliant yn fyrlymus ac yn fyw. Wedi ei wreiddio yn y Gymraeg ac yn perthyn i bawb, gyda'n gilydd rydym am hybu, dathlu a chefnogi ein diwylliant - heddiw ac i'r dyfodol.

24. Yn wreiddiol, adnabuwyd 10 egwyddor ar gyfer cefnogi’r datganiad, ond yn dilyn trafodaethau pellach ar 7 Gorffennaf 2026 gyda Bwrdd Llywio Cysgodol, cytunwyd i geisio lleihau’r nifer yma i 6:
    i. Balch o'n Hunaniaeth, Treftadaeth a'r Gymraeg
    ii. Diwylliant wrth Wraidd Bywyd
    iii. Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig
    iv. Uchelgeisiol, Heriol a Beiddgar
    v. Cyfoethogi Pobl a Lleoedd
    vi. Cynaliadwy a Chyfrifol dros Genedlaethau'r Dyfodol

Gwerth Diwylliant Gwynedd

25. I gefnogi’r gwaith yma, mae comisiwn wedi ei lunio gan y Cyngor gyda nawdd Llywodraeth Cymru sydd wedi ein galluogi i benodi arbenigwyr i’n cynorthwyo i gefnogi’n dealltwriaeth o’r sector diwylliant yng Ngwynedd ac i ddatblygu cynllun gweithredu (Atodiad C).
26. Mae’r ymchwil yma yn cryfhau’r achos dros sicrhau ein bod yn parhau i fuddsoddi mewn diwylliant yng Ngwynedd ac yn amlygu gwerth economaidd a chymdeithasol y sector.
27. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod y sector diwylliannol yng Ngwynedd yn cynhyrchu cyfraniad economaidd blynyddol amcangyfrifedig o £316.07 miliwn.
28. Mae diwylliant yn cyfrif am oddeutu 11% o gyfanswm allbwn economaidd Gwynedd, gan ei osod ochr yn ochr â sectorau mawr eraill yn economi'r sir.
29. Yn ogystal â'i gryfder economaidd, mae diwylliant yn cynhyrchu £178.02 miliwn o werth cymdeithasol bob blwyddyn yn cynnwys iechyd a llesiant, cydlyniant cymdeithasol, addysg a sgiliau, hunaniaeth ac ymdeimlad o le.
30. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod buddsoddi mewn diwylliant yn darparu buddion sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i weithgarwch economaidd yn unig, gan gefnogi llesiant

unigolion, cydnerthedd cymunedol, datblygiad sgiliau, y Gymraeg, a hunaniaeth ddiwylliannol unigryw'r sir.

Cynllun Gweithredu ar gyfer Diwylliant yng Ngwynedd 2027 - 2035

31. Trwy ystyried y gwaith ymchwil i werth economaidd a chymdeithasol, y datganiad, y weledigaeth a'r egwyddorion sydd wedi eu cytuno yn ogystal â'r adborth gan y sector mai gweithredu yw'r peth pwysicaf yn hytrach na 'geiriau'; aethpwyd ati i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer diwylliant yng Ngwynedd (Atodiad B)
32. Cynhaliwyd gweithdy o Grwp Llywio Cysgodol Diwylliant Gwynedd i ddatblygu Cynllun Gweithredu yn rhithiol ar 9 Mehefin 2026 ac mewn person yn Storiel ar 7 Gorffennaf 2026.
33. Mae'r Cynllun Gweithredu drafft yn amlygu meysydd gweithredu i'w mabwysiadu er mwyn cefnogi a datblygu'r sector diwylliant yng Ngwynedd.
34. Amlygir 34 o weithrediadau wedi eu rhannu i gyfnodau gweithredu sylfaenol, tymor byr, canolig ac uchelgeisiol. Bydd y Cynllun Gweithredu'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd.
35. Disgwylir y bydd y Bwrdd Llywio Diwylliant yn cymryd perchnogaeth dros fonitro gweithredu a chyflawni'r Cynllun Gweithredu pan fydd trefniadau wedi eu cadarnhau.

Adnoddau a chyllid

36. Dylid nodi na fydd adnoddau ychwanegol yn deillio o lunio Ein Diwylliant, Ein Dyfodol – ond bydd yn ffordd o dynnu'r sector diwylliant ynghyd yng Ngwynedd ac yn fodd o ymgeisio am adnoddau ariannol o ffynonellau cyllido allanol.
37. Yn gyfochrog a'r Cynllun, bwriedir hefyd sefydlu Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd am y tro cyntaf - fel fforwm fydd yn rhannu arfer da, cefnogi rhwydweithio ac yn perchnogi'r weledigaeth a'r egwyddorion. Eisoes mae Bwrdd Cysgodol wedi ei ffurfio ac aelodaeth wedi ei gytuno ar gyfer 2026.
38. Bydd y rhwydwaith yma yn esblygiad o'r rhwydwaith Gwynedd Greadigol sydd eisoes wedi ei sefydlu fel rhwydwaith celfyddydol yn y sir, a bydd yn adeiladu ar lwyddiant ac yn dysgu o weithrediad y rhwydwaith hwnnw gan ei addasu i fod yn rwydwaith diwylliannol ar gyfer Gwynedd.
39. Awgrym gan y sector diwylliant yw bod y rhain yn weledigaeth ac egwyddorion y gellid eu mabwysiadu gan Gyngor Gwynedd, ond gyda chefnogaeth a pherchnogaeth gan y sector i'w gwireddu trwy'r rhwydwaith newydd a'r bwrdd llywio diwylliant.

Camau Nesaf

40. Bwriedir dathlu gwerth y sector a lansio Ein Diwylliant, Ein Dyfodol – Cynllun ar gyfer Diwylliant yng Ngwynedd; mewn digwyddiad arbennig ym Mangor ar 19 Tachwedd 2026.
41. Yn dilyn hyn, bydd y Bwrdd Diwylliant Cysgodol yn cael ei ffurfioli gan esblygu ar drefniadau a chyfansoddiad pwyllgor presennol Gwynedd Greadigol.
42. Bydd y Bwrdd Diwylliant a'r Rhwydwaith Diwylliant yn bwrw ati yn syth i gyflawni'r Cynllun Gweithredu ac yn monitro ei weithrediad.

Ymgynghori

43. Ymgynghorwyd yn helaeth wrth ddatblygu'r Cynllun trwy gynrychiolwyr o'r sector diwylliant yng Ngwynedd yn ogystal â gwasanaethau diwylliant Cyngor Gwynedd.
44. Cafodd Aelodau Pwyllgor Craffu Addysg a'r Economi gyfle i graffu'r fframwaith yn eu cyfarfod ar 8 Hydref 2026.
45. Gwnaethpwyd y sylwadau bod angen i'r Gymraeg fod yn fwy amlwg yn y gwaith a phwysigrwydd diwylliant i gynnal y Gymraeg, bod angen mesuryddion clir i'r Cynllun Gweithredu a sicrhau bod yn uchelgeisiol. Penderfyniad y Pwyllgor oedd:
    a. Ystyried edrych eto ar eiriad y weledigaeth i gynnwys cyfeiriad penodol at y Gymraeg gan eirio'r weledigaeth i nodi uchelgais/nod. Darparwyd gweledigaeth amgen gan Gadeirydd y Pwyllgor i'w ystyried ymhellach, sef: *"Gan mai yng Ngwynedd y mae'r Gymraeg ar ei chryfaf yng Nghymru ac felly bod disgwyliad i'r sir arwain yn cyfoethogi ac yn ffurfio'r gwareiddiad Cymraeg a thrwy hynny i gyfranu at amrywiaeth ddiwylliannol y ddynoliaeth, anelwn at wneud ac at gadw'r Gymraeg yn ran annatod o fywyd y sir."*
    b. Gwneud cais i'r gwasanaeth adrodd ar ddata ynghylch sy'n cymharu allfudiad mewn ardaloedd tebyg (megis ardal y llynnoedd) er mwyn cymharu â sefyllfa Gwynedd i weld os yw'r diwylliant yma yn angori pobl i'r Sir.
46. Ystyriwyd y weledigaeth â gynigiwyd gan y Cadeirydd, a thrafodwyd y sylwadau a wnaethpwyd yn y Pwyllgor gan Fwrdd Cysgodol Rhwydwaith Diwylliant:
    a. Mae'r datganiad a'r weledigaeth wedi eu haddasu i gynnwys y Gymraeg er mwyn amlygu'r cyswllt hwn yn fwy pendant a phwysigrwydd diwylliant i gefnogi'r iaith.
    b. Tra'n cytuno am bwysigrwydd cael uchelgais, roedd teimladau cryf bod y datganiad a'r weledigaeth yn bwysig gan eu bod wedi eu cyd-greu, ac y byddai uchelgais cyflawni'r datganiad yn hollol ddibynnol ar yr adnoddau allai fod ar gael.
    c. Teimlwyd bod elfennau o'r weledigaeth amgen gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu yn bwysig i'w cynnwys o fewn i naratif y Cynllun ac mae hynny wedi ei wneud o fewn y cyflwyniad.
    d. Mae'r Cynllun Gweithredu'n cynnwys mesuryddion posib yn ogystal â un weithred sy'n ymwneud â adnabod mesuryddion cyffredin ar draws y sector.
47. Bydd yr Adran yn casglu gwybodaeth o ardaloedd eraill i ystyried os ydi diwylliant yn gyfrifol am angori pobl fwy yng Ngwynedd nac mewn ardaloedd gwledig eraill.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

48. Mae'r gwaith hwn yn cyfarch pob un o'r 7 nod llesiant ac amlygir hynny yn y weledigaeth a'r egwyddorion sydd wedi eu cytuno.
49. Mae trigolion a defnyddwyr gwasanaeth wedi eu **cynnwys** trwy gynnal digwyddiad cyhoeddus ar ddechrau'r broses ar gyfer unrhyw un oedd efo diddordeb yn y maes diwylliant yng Ngwynedd.
50. Mae **cydweithio** wedi digwydd trwy gydol y broses o ddatblygu gweledigaeth ac egwyddorion ar gyfer Diwylliant yng Ngwynedd, yn ogystal â'r Cynllun Gweithredu. Mae hyn yn sicrhau cyd-berchnogaeth o'r gwaith wrth edrych i'r dyfodol a bydd sefydlu Rhwydwaith Diwylliant i Wynedd yn sicrhau y bydd y cydweithio'n parhau i'r dyfodol wrth i ni weithredu a chefnogi'r sector diwylliant.
51. Bydd sefydlu Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd gyda Bwrdd Llywio yn sicrhau ein bod yn **atal** problemau rhag codi neu'n gallu ymateb iddynt mewn partneriaeth cyn iddynt

ddatblygu waethygu. Bydd rhwydweithio a chydweithio cyson yn sicrhau ein bod yn atal problemau rhag codi.

52. Mae'r weledigaeth a'r egwyddorion wedi eu cytuno i fod yn rai ar gyfer yr **hirdymor** er mwyn tynnu'r sector gyda'i gilydd. Mae'r Cynllun Gweithredu a fydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn gosod allan blaenoriaethau gweithredu dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor ac wrth adolygu bydd cyfle i ychwanegu ato.
53. Er mwyn sicrhau **integreiddio**, rhoddwyd gwahoddiad i gyrff cyhoeddus eraill i fynychu'r digwyddiadau i ddatblygu'r weledigaeth, yr egwyddorion a'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Gwasanaethau Diwylliannol Cyngor Gwynedd a phartneriaid diwylliannol eraill o Ogledd Cymru.

Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

54. Mae Asesiad Effaith Cyfansawdd wedi ei baratoi ac i'w weld yn Atodiad Ch.
55. Mae'r Asesiad yn amlygu'r cyfleon sy'n bodoli trwy ddatblygu'r gwaith yma i gydweithio i sicrhau bod pawb yn elwa o ddiwylliant Gwynedd.
56. Bydd y Cynllun yn sicrhau bod Diwylliant yng Ngwynedd yn cydweithio i un weledigaeth ac egwyddorion a chynllun gweithredu fydd yn sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd.
57. Amlygir sut y bwriedir monitro ac asesu gweithredu a'r strwythur y bwriedir ei sefydlu trwy Rwydwaith Diwylliant Gwynedd wedi ei gefnogi gan Fwrdd Strategol i hybu cydweithio, gweithrediad y Cynllun Gweithredu ac i fonitro llwyddiant y cynllun.

Sylwadau Swyddogion Statudol

Swyddog Monitro

"Mae mabwysiadu'r Strategaeth yma yn rhoi cyfle i'r Cabinet osod cyfeiriad a blaenoriaethau yn y maes allweddol yma. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir."

Prif Swyddog Cyllid

"Rwyf yn fodlon na fydd mabwysiadu'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol newydd. Serch hynny, o safbwynt ariannol rwyf yn cefnogi'r cynllun gan y bydd yn cyfrannu at greu sylfaen gadarn ar gyfer blaenoriaethu adnoddau o fewn y maes diwylliannol yn y dyfodol."

Atodiadau

Atodiad A – Ein Diwylliant, Ein Dyfodol: Cynllun ar gyfer Diwylliant yng Ngwynedd 2035
Atodiad B – Ein Diwylliant, Ein Dyfodol: Cynllun Gweithredu
Atodiad C – Asesiad o werth Diwylliant Gwynedd
Atodiad Ch – Asesiad Effaith Cyfansawdd

Ein Diwylliant, Ein Dyfodol

Cynllun ar gyfer Diwylliant yng Ngwynedd

diwylliant

[bôn y f. *diwylliaf: diwyllio*+-*iant*]

- *eg.* ll. *diwylliannau*.

Datblygiad neu wrteithiad meddyliol person(au) yn deillio oddi wrth addysg neu hyfforddiant, coethder chwaeth; triniaeth tir, amaethiad:

Geiriadur Prifysgol Cymru

Credoau, iaith, ymddygiadau, a holl ffordd o fyw grŵp benodol o bobl mewn cyfnod penodol o amser yw diwylliant. Mae'r cysyniad o ddiwylliant yn cynnwys traddodiadau ac arferion, crefydd a chred, seremonïau, gwyliau a dathliadau, technoleg a dyfeisiadau, a chelfyddydau.

Wicipedia

Gair gan yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned

Ar ran Cyngor Gwynedd, mae hi'n fraint gennyf gyflwyno'r cynllun hwn, Ein Diwylliant, Ein Dyfodol: Cynllun ar gyfer Diwylliant yng Ngwynedd.

Mae diwylliant yn bwysig i Wynedd, ac mae Gwynedd yn bwysig i ddiwylliant Cymru a'r byd. Mae'r Sir wedi bod yn ffwrnais o greadigrwydd dros ganrifoedd ac mae cynnal y fflam hon yn hanfodol i barhad ein hunaniaeth, y Gymraeg a'n traddodiadau cyfoethog ac amrywiol i'r dyfodol.

Yr hyn sy'n arbennig am y gwaith yma, yw nad yw'n gynllun a luniwyd gan Gyngor Gwynedd ar ei ben ei hun - mae wedi ei gyd-ddatblygu gyda phartneriaid ar draws y Sir.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi cynnal cynadleddau, gweithdai a digwyddiadau cyhoeddus ar draws Gwynedd er mwyn casglu barn ac adeiladu consensws. Mae ymhell dros gant o bobl wedi bod yn ran o'r broses hon.

Y neges glir a ddaeth o'r trafodaethau a gafwyd oedd nad oedd partneriaid eisiau strategaeth arall i gasglu llwch ar silff. Roeddent eisiau datganiad a gweledigaeth clir, egwyddorion cytûn a chynllun gweithredu ymarferol a fyddai'n arwain at gamau pendant. Dyna sydd yma.

Mae'r gwaith ymchwil a gomisiynwyd ac a welir yma yn amcangyfrif bod y sector diwylliannol yn cyfrannu dros £316m y flwyddyn i economi Gwynedd. Yn ogystal â hynny, amcangyfrifir bod y gwerth cymdeithasol a gaiff ei greu yn werth dros £178 miliwn bob blwyddyn. Mae'r ffigurau hynny'n gadarnhad fod buddsoddi mewn diwylliant yn gwneud synnwyr economaidd yn ogystal â synnwyr cymdeithasol.

Rydym i gyd yn ymwybodol o'r heriau ariannol sy'n ein wynebu, ond nid mater o gefnogi gweithgareddau diwylliannol yn unig yw hwn. Mae'n ymwneud â chefnogi swyddi, datblygu sgiliau, cryfhau cymunedau, diogelu'r Gymraeg, gwella iechyd a llesiant, a chreu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio a ffynnu yma yng Ngwynedd.

Hoffwn ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r gwaith cyd-ddatblygu. Bydd cyd-weithio trwy'r rhwydwaith newydd yn hollol greiddiol i lwyddiant cyflawni'r cynllun hwn; a dymunaf yn dda i'r holl bartneriaid wrth i ni symud i gyflawni'r cynllun gyda'n gilydd er mwyn cynnal, dathlu, cefnogi a thyfu ein diwylliant ar gyfer ein dyfodol.

Y Cyng. R.Medwyn Hughes

Cyflwyniad

Rydym i gyd yn ymwybodol o gyfoeth diwylliannol Gwynedd a'r cyfraniad sylweddol y mae ein diwylliant yn ei wneud i wareiddiad Cymru, i'r Gymraeg ac i amrywiaeth ein byd.

Yn sgil hyn, mae cyfle wedi'i adnabod i gydnabod a datgan yn ffurfiol werth a phwysigrwydd diwylliant, gan gadarnhau ei rôl allweddol wrth gyfoethogi bywydau pobl heddiw, sicrhau ei etifeddiaeth ar gyfer y dyfodol ac amlygu ei gyfraniad i amrywiaeth ddiwyllianol y ddynoliaeth.

Trwy ddod a'n partneriaid at ei gilydd i gyd-ddatblygu'r Cynllun hwn ac i hybu cydweithio er lles ein diwylliant ac er lles pawb i'r dyfodol, rydym yn dathlu ac yn cydnabod ei bwysigrwydd.

Cyd-ddatblygwyd datganiad, gweledigaeth ac egwyddorion gyda phartneriaid o bob cwr o Wynedd a datblygwyd cynllun gweithredu gydag aelodau o Fwrdd Llywio Cysgodol Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd gyda mewnbwn o holiadur penodol ar gyfer partneriaid.

Nid creu 'strategaeth' i hel llwch na chytuno ar 'uchelgais' y tu hwnt i'n cyrraedd oedd dyhead ein partneriaid. Dymuniad y partneriaid oedd i gyd-greu datganiad a gweledigaeth sy'n gosod allan yn glir ein safbwynt a'n dyhead am ddiwylliant a hwnnw wedi ei gefnogi gan egwyddorion clir a chynllun gweithredu hawdd i'w fesur a'i berchnogi gan bawb.

Beth ydi ein diffiniad o ddiwylliant?

Yn y cynllun hwn, diffinnir 'diwylliant' yn eang, yn unol ag arfer Llywodraeth Cymru, i gynnwys y celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, yr amgylchedd hanesyddol a'r Diwydiannau Creadigol.

Diwylliant yng Ngwynedd

Mae diwylliant yng Ngwynedd yn hanfodol, yn arloesol ac wedi'i wreiddio yn ein cymunedau. Mae'n rhoi lliw i fywyd, yn hyrwyddo lles, ac yn adlewyrchu ein hunaniaeth amrywiol, y Gymraeg a'n Cymreictod yn hyderus i Gymru a'r byd.

Gweledigaeth

"Mae ein diwylliant yn fyrlymus ac yn fyw. Wedi ei wreiddio yn y Gymraeg ac yn perthyn i bawb, gyda'n gilydd rydym am hybu, dathlu a chefnogi ein diwylliant - heddiw ac i'r dyfodol".

Egwyddorion

1. Balch o'n Hunaniaeth, Treftadaeth a'r Gymraeg

Mae diwylliant yn dathlu ac yn hyrwyddo hunaniaeth unigryw Gwynedd, ei threftadaeth, creadigrwydd a'r Gymraeg, gan eu rhannu'n hyderus gyda Chymru a'r byd.

2. Diwylliant wrth Wraidd Bywyd

Mae diwylliant yn rhan hanfodol o iechyd, lles, addysg a hapusrwydd pobl Gwynedd, gan gyfoethogi bywyd bob dydd a chreu cyfleoedd i fwynhau, dysgu a chymdeithasu.

3. Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig

Mae diwylliant yn perthyn i bawb. Mae'n groesawgar a hygyrch, gan feithrin rhwydweithiau cryf, hyder, parch ac ymdeimlad o berthyn.

4. Uchelgeisiol, Heriol a Beiddgar

Mae diwylliant yn ysbrydoli syniadau newydd, yn croesawu neu'n herio newid, yn gosod safonau uchel ac yn manteisio ar gyfleoedd a buddsoddiad i wireddu a mesur effaith uchelgais.

5. Cyfoethogi Pobl a Lleoedd

Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd.

6. Cynaliadwy a Chyfrifol dros Genedlaethau'r Dyfodol

Mae diwylliant yn gwarchod ac yn cyfoethogi adnoddau, yr amgylchedd a rhinweddau arbennig Gwynedd, gan sicrhau buddion hirdymor.

Gwerth Diwylliant Gwynedd

Mae'r sector diwylliannol yn rhan sylweddol o economi Gwynedd, yn llawer mwy na'r hyn y mae nifer o bobl yn ei sylweddoli, ac mae'n cael ei yrru gan waith gweithwyr proffesiynol creadigol ledled y sir.

Er mai prif ffocws yr adroddiad 'Gwerth Diwylliant' yw'r effaith economaidd, mae maint y gwerth cymdeithasol ehangach a nodwyd yn atgyfnerthu'r casgliad bod diwylliant yn gwneud cyfraniad sylweddol nid yn unig at economi Gwynedd, ond hefyd at ansawdd bywyd ei thrigolion a chryfder ei chymunedau.

Canfyddiad allweddol:

"Mae'r dadansoddiad yn dangos bod y sector diwylliannol yng Ngwynedd yn cynhyrchu cyfraniad economaidd blynyddol amcangyfrifedig o ***£316.07 miliwn****."*

Mae hyn yn cynnwys:

- **£121.98m o effaith uniongyrchol** - gweithgarwch a gynhyrchir gan sefydliadau diwylliannol a busnesau creadigol.
- **£135.54m o effaith anuniongyrchol** - gwariant ar draws y gadwyn gyflenwi.
- **£58.55m o effaith ysgogedig** - gwariant cyflogau yn yr economi leol.

Mae diwylliant yn cyfrif am oddeutu **11% o gyfanswm allbwn economaidd Gwynedd**, gan ei osod ochr yn ochr â sectorau mawr eraill yn economi'r sir.

O ble y daw'r gwerth?

- **Diwydiannau creadigol a busnesau diwylliannol:** £77.63m
- **Treftadaeth, amgueddfeydd ac archifau:** £28.62m
- **Y celfyddydau perfformio a digwyddiadau:** £6.51m
- **Crefftau a'r celfyddydau cymhwysol:** £6.62m
- **Llyfrgelloedd a llenyddiaeth:** £1.42m
- **Y celfyddydau gweledol ac orielau:** £1.18m

Mae'r ffigurau hyn yn dangos economi ddiwylliannol amrywiol a chyd-gysylltiedig, lle mae pobl greadigol yn cyfrannu ar bob lefel, o weithwyr llawrydd ac artistiaid i gynhyrchwyr, gwirfoddolwyr a sefydliadau.

Yn ogystal â'i gryfder economaidd, mae diwylliant yn cynhyrchu **£178.02 miliwn o werth cymdeithasol bob blwyddyn**.

Mae hyn yn cynnwys:

- **£44.51m** o fanteision iechyd a llesiant
- **£71.21m** o effeithiau ar gyflogaeth, yr economi ymwelwyr a'r gadwyn gyflenwi

- **£26.72m** o werth sy'n deillio o gydlyniant cymdeithasol a chymunedol
- **£17.78m** o werth ym maes addysg a sgiliau
- **£9.41m** o werth sy'n gysylltiedig â hunaniaeth ddiwylliannol a'r Gymraeg
- **£8.39m** o werth amgylcheddol a gwerth sy'n deillio o ymdeimlad o le

Mae diwylliant yn cryfhau cymunedau, yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant, yn meithrin hyder, yn cysylltu cenedlaethau, ac yn atgyfnerthu hunaniaeth unigryw Gwynedd. Cyflawnir hyn yn aml drwy waith creadigol, gweithdai, perfformiadau a phrosiectau a arweinir gan ymarferwyr ledled y sir.

Mae'r dystiolaeth yn glir: **mae diwylliant yn seilwaith hanfodol, nid yn rhywbeth "braf i'w gael" yn unig.**

Mae'n:

- Cefnogi swyddi a busnesau lleol
- Denu ymwelwyr a buddsoddiad
- Cryfhau trefi a chymunedau
- Hybu'r Gymraeg a hunaniaeth leol
- Gwella llesiant ac ansawdd bywyd
- Cyfrannu at addysg, datblygu sgiliau a chyfleoedd i bobl ifanc

Fel y nodir yn yr adroddiad:

"Dylid deall diwylliant fel rhan bwysig o seilwaith economaidd Gwynedd, yn hytrach nag fel gweithgaredd dewisol neu ymylol."

I weithwyr proffesiynol creadigol, mae'r gydnabyddiaeth hon yn bwysig. Mae'n gosod gwaith diwylliannol wrth galon dyfodol Gwynedd ac yn amlygu gwerth llafur creadigol, sgiliau ac ymarfer creadigol. Mae hefyd yn cydnabod y cyfraniad sylweddol y mae artistiaid, gweithwyr llawrydd, ymarferwyr creadigol a sefydliadau diwylliannol yn ei wneud i economi, cymunedau a llesiant y sir.

Cynllun Gweithredu

O ystyried y datganiad, y weledigaeth, yr egwyddorion a'r ymchwil i werth economaidd a chymdeithasol sydd wedi eu cytuno yn ogystal â'r adborth gan bartneriaid mai gweithredu yw'r peth pwysicaf yn hytrach na 'geiriau'; mae Cynllun Gweithredu wedi ei ddatblygu.

Mae Cynllun Gweithredu Diwylliant Gwynedd ar hyn o bryd yn nodi 34 o gamau gweithredu ymarferol, cyllidadwy a mesuradwy sydd wedi'u cynllunio i gryfhau diwylliant ledled y sir.

Mae pob cam gweithredu wedi'i gysylltu ag un neu fwy o'r chwe egwyddor y cytunwyd arnynt, gan wneud y cynllun yn hawdd ei lywio a sicrhau bod pob elfen yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatganiad ddiwylliant Gwynedd ac yn cefnogi'r bobl sy'n darparu gweithgarwch diwylliannol ar lawr gwlad.

Mae'r cynllun wedi'i strwythuro'n llwyr o amgylch y chwe egwyddor hyn. Mae pob cam gweithredu'n dangos yn glir sut mae'n cyfrannu atynt, o gyfranogiad ar lawr gwlad a gwaith iechyd creadigol i gyfleoedd mawr, tâl teg, cynaliadwyedd, eiriolaeth ac uchelgeisiau hirdymor. Mae'r egwyddorion yn darparu cyfeiriad cyffredin i'r sector a ffordd ymarferol o olrhain cynnydd dros amser.

Mae pob cam gweithredu yn nodi:

- Sefydliad arweiniol neu bartneriaeth glir
- Amserlen realistig
- Yr adnoddau sydd eu hangen
- Dulliau syml o fesur cynnydd

Mae'r cynllun yn cydbwyso uchelgais ag ymarferoldeb, gan gyfuno cyfleoedd effaith uchel â chamau ymarferol y gallwn ddechrau eu cyflawni ar unwaith. Mae'n darparu llwybr cyflawni ar y cyd ar gyfer sefydliadau, gweithwyr llawrydd, cymunedau a Chyngor Gwynedd i gydweithio, gan sicrhau bod diwylliant yn parhau i gyfoethogi pobl a lleoedd ledled y sir.

I ymarferwyr creadigol, mae'r cynllun yn cynnig llwybrau cliriach at gymorth, rhwydweithiau cryfach, a chyfleoedd newydd i lywio a siapio dyfodol diwylliant Gwynedd.

Bydd hon yn ddogfen fyw sy'n addasu, esblygu a datblygu gydag amser wrth i'r Rhwydwaith Diwylliant sefydlu ac aeddfedu ac wrth i gyd-weithio ddwyn ffrwyth.

Bwriedir adolygu'r blaenoriaethau gweithredu a chynnydd wrth gyflawni o leiaf un waith y flwyddyn yng nghyfarfodydd y Rhwydwaith a'r Bwrdd Llywio.


Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd a monitro gweithredu

Bwriedir sefydlu Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd fel fforwm newydd fydd yn rhannu arfer da, cefnogi rhwydweithio ac yn perchnogi'r Cynllun.

Bydd y rhwydwaith yn esblygiad o 'Gwynedd Greadigol' sydd eisoes wedi ei sefydlu fel rhwydwaith celfyddydol yn y sir, a bydd yn adeiladu ar lwyddiant ac yn dysgu o weithrediad y rhwydwaith hwnnw gan ei addasu i fod yn rwydwaith diwylliannol ar gyfer Gwynedd.

Bwrdd Llywio Diwylliant Gwynedd fydd yn cymryd perchnogaeth dros fonitro gweithredu a chyflawni'r Cynllun Gweithredu pan fydd trefniadau wedi eu cadarnhau. Pan yn weithredol, amcanir y bydd hyd at 12 aelod o'r Bwrdd Llywio Diwylliant gyda Chadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd wedi eu hethol o blith aelodau'r Bwrdd.

Cynnig clir gan y partneriaid diwylliannol yw bod y datganiad a'r egwyddorion yn rai y dylid eu mabwysiadu gan Gyngor Gwynedd, ond gyda chefnogaeth a pherchnogaeth gan y sector i'w gwireddu trwy'r Rhwydwaith Diwylliant newydd a'r Bwrdd Llywio Diwylliant.



Adnoddau a chyllid

Bydd y dystiolaeth a gasglwyd yn helpu Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch â ble i ganolbwyntio ymdrechion, buddsoddiad a chydweithio, gan gynnwys y cymorth a ddarperir i artistiaid, gweithwyr llawrydd a sefydliadau creadigol.

Ni fydd cyllideb nac adnoddau ychwanegol yn deillio'n uniongyrchol o fabwysiadau'r Cynllun hwn, ond bydd y gwaith yn cael ei ddefnyddio i:

- **Arwain penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch diwylliant yng Ngwynedd**, gan sicrhau bod diwylliant yn cael ei gydnabod fel elfen hanfodol o lesiant, hunaniaeth ac economi'r sir.
- **Cryfhau ceisiadau am gyllid ac achosion dros fuddsoddi**, drwy ddefnyddio tystiolaeth gadarn i ddangos maint ac effaith gweithgarwch diwylliannol.
- **Cefnogi cydweithio ar draws y sector**, gyda Rhwydwaith Diwylliant a chydlynu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun.
- **Gwella'r ffordd y cesglir a monitro data**, drwy ddefnyddio mesurau cyffredin a chyson sy'n helpu i olrhain cynnydd yn erbyn y chwe egwyddor.
- **Blaenoriaethu gweithredoedd sy'n sicrhau'r budd mwyaf**, gan gydbwyso uchelgais â gwaith ymarferol y gellir ei ddechrau ar unwaith.
- **Adeiladu ecosystem ddiwylliannol wydn a hyderus**, lle gall ymarferwyr creadigol, sefydliadau a chymunedau ffynnu gyda'i gilydd.

Gyda'i gilydd, mae'r asesiad o werth a'r Cynllun Gweithredu yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer datblygiad diwylliannol hirdymor yng Ngwynedd.

Mae'r cyfeiriad hwn wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn, wedi'i lunio ar y cyd â'r sector, ac wedi'i gynllunio i sicrhau effaith ystyrlon a pharhaol i bobl a lleoedd ledled y sir. Mae'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwneud y mwyaf o gyfraniad diwylliant at economi, cymunedau, llesiant a hunaniaeth Gwynedd am flynyddoedd i ddod.

Cefndir Strategol

Yn ôl yr adroddiad Degawd o Doriadau gan Bwyllgor Diwylliant Senedd Cymru, mae Cymru yn yr ail safle o'r gwaelod ymhlith gwledydd Ewropeaidd o ran gwariant y pen ar wasanaethau diwylliannol.

Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion allweddol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu mwy o arian, gwariant ataliol a chymorth strategol.

Mae Rhaglen Lywodraethu Cymru 2026-2030 yn amlygu'r meysydd blaenoriaeth perthnasol canlynol ar gyfer diwylliant:

a. Gweithio gyda'r sector, gan gynnwys ein diwydiannu creadigol, i ddatblygu a chyflwyno Strategaeth Diwylliant a Chwaraeon wedi'i thargedu er mwyn creu Cymru iachach, gyfoethocach a mwy gwydn.

b. Blaenoriaethu mynediad cyfartal at y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a chwaraeon i bobl o bob oedran, cefndir a gallu, gan ystyried sut y gall ein polisïau mynediad gefnogi hyn.

c. Buddsoddi yn rôl ataliol diwylliant, treftadaeth a chwaraeon i hybu iechyd da i bobl o bob oedran, cefndir a gallu.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi blaenoriaeth amlwg i ddiwylliant fel un o'r nodau llesiant - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Yn ddiweddar bu i'r Comisiynydd amlygu gosod diwylliant wrth galon llesiant Cymru fel un o'i flaenoriaethau.

Mae blaenoriaeth Gwynedd Lewyrchus o fewn i Gynllun Gwynedd 2023-2028 yn cynnwys *Hyrwyddo ein Diwylliant ac Economi Ymweld Cynaliadwy*. O fewn y flaenoriaeth hon mae ystyried Datblygu Cynllun Diwylliant i Wynedd yn flaenoriaeth weithredol.

Rhoddir lle canolog i ddiwylliant yn nifer o gynlluniau a strategaethau gan Gyngor Gwynedd a mudiadau lleol eraill, yn cynnwys y canlynol:

- Gwynedd ac Eryri 2035: Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy
- Gwynedd 2035: Economi sy'n gweithio i bawb
- Cynlluniau Ardal Ni
- Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru
- Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd
- Strategaeth Ysgolion Gwyned 2026-2036
- Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn
- Cynllun Llyfrgelloedd Gwynedd: Llyfrgelloedd llawn bywyd
- Cynllun Eryri

Cysylltu â ni

Ein Diwylliant, Ein Dyfodol

Tim Celfyddydau Cymunedol, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl,

Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

07765 652742

post@gwyneddgreadigol.com

Ein Diwylliant, Ein Dyfodol: Cynllun Gweithredu

Crynodeb

Cod	Egwyddor	Disgrifiad	Gweithredoedd cysylltiedig	Prif ffit
P1	Yn falch o'n Hunaniaeth, ein Treftadaeth a'r Gymraeg	Mae diwylliant yn dathlu ac yn hyrwyddo hunaniaeth unigryw Gwynedd, ei threftadaeth, creadigrwydd a'r Gymraeg, gan eu rhannu'n hyderus gyda Chymru a'r byd.	8	5
P2	Diwylliant wrth wraidd bywyd	Mae diwylliant yn rhan hanfodol o iechyd, lles, addysg a hapusrwydd pobl Gwynedd, gan gyfoethogi bywyd bob dydd a chreu cyfleoedd i fwynhau, dysgu a chymdeithasu.	10	3
P3	Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig	Mae diwylliant yn perthyn i bawb. Mae'n groesawgar a hygyrch, gan feithrin rhwydweithiau cryf, hyder, parch ac ymdeimlad o berthyn.	13	7
P4	Uchelgeisiol, Heriol a Beiddgar	Mae diwylliant yn ysbrydoli syniadau newydd, yn croesawu neu'n herio newid, yn gosod safonau uchel ac yn manteisio ar gyfleoedd a buddsoddiad i wireddu a mesur effaith uchelgais.	11	8
P5	Cyfoethogi Pobl a Lleoedd	Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd.	14	8
P6	Cynaliadwy a Chyfrifol ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol	Mae diwylliant yn gwarchod ac yn cyfoethogi adnoddau, yr amgylchedd a rhinweddau arbennig Gwynedd, gan sicrhau buddion hirdymor.	5	3

Gweithredoedd cysylltiedig = gweithredoedd sy'n rhestru'r egwyddor yn rhywle. Prif ffit = gweithredoedd sy'n ei rhestru yn gyntaf.

Cyfeirnod	Camau / Menter	Egwyddor (ion)	Daearyddiaeth	Ffurfiau celf / Is-sectorau	Graddfa	Arweinydd / Partneriaid	Amserlen	Statws	Adnoddau / Cost	Metrig - meintiol	Metrig – ansoddol
A01	Cydweithrediad cydgysylltiedig, wedi'i drefnu'n dda ar draws ffurfiau celf, gan arwain at arddangosfeydd a digwyddiadau cyhoeddus	P3, P2	Ledled y sir	Celfyddydau gweledol, crefft, aml-ffurf gelfyddydol	Bach	Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd; artistiaid llawrydd	2026–27	Arfaethedig	Amser cydlynu; cronfeydd prosiectau bach	Cydweithrediadau wedi'u ffurfio; arddangosfeydd/ digwyddiadau wedi'u cynnal; artistiaid yn cymryd rhan	Ansawdd cydweithredu; adborth artistiaid
A02	Celf gyhoeddus a grëwyd gan y gymuned sy'n dod â gwahanol grwpiau at ei gilydd (e.e. pobl hŷn a phlant ysgol gynradd)	P3, P2	Ledled y sir (yn y gymuned)	Celf gyhoeddus, mosaigau, gosodiadau; gallai ymestyn i gerddoriaeth / darlleniadau pop-up; archifau, amgueddfeydd a threftadaeth	Bach	Artistiaid llawrydd, ysgolion; lleoliadau gofal/dydd; Cyngor Gwynedd	2026–28	Arfaethedig	Cronfeydd prosiectau; deunyddiau	Gosodiadau wedi'u creu; cyfranogwyr ar draws cenedlaethau	Cysylltiad rhwng cenedlaethau; balchder cymunedol
A03	Ariannu digwyddiadau cymunedol tymhorol sy'n dathlu diwylliant gwerin a phentrefi Cymru	P1, P2	Pentrefi ledled y sir	Gwerin, cerddoriaeth, perfformiad, arferion tymhorol	Bach	Sefydliadau cymunedol; gweithwyr llawrydd, Cyngor Gwynedd	Parhaus / blynyddol	Arfaethedig	Grantiau digwyddiadau tymhorol; Pot digwyddiadau'r Cyngor	Digwyddiadau wedi'u cynnal; presenoldeb; gwirfoddolwyr	Cydlyniant cymunedol; dathlu diwylliant lleol

A04	Cynnal cyfranogiad gwledig ar lawr gwlad, cost isel (5 oed-oedolion) gyda llwybrau gwirfoddoli a dilyniant	P3, P5, P2	Gwynedd Wledig	Pob math o ddiwylliant — sgiliau syrcas, cerddoriaeth, drama, dawns, celfyddydau cyfranogol	Bach	Partneriaid cymunedol, gweithwyr llawrydd, Cyngor Gwynedd	Parhaus	Ar y gweill	Cymorth craidd/gwirfoddolwyr; hyfforddiant a diogelu gweithwyr	Cyfranogwyr wythnosol; gwirfoddolwyr; dilyniant i hyfforddiant/gyrfaoedd	Mynediad ar garreg y drws; llwybrau pobl ifanc
A05	Allgymorth cynhwysol drwy sianeli nad ydynt yn ddigidol i gyrraedd cynulleidfaoedd hŷn a gwledig (nid ar-lein yn unig)	P3, P2	Ledled y sir; gwledig	Ffurf drawsgelfyddydol	Bach	llyfrgelloedd; gweithwyr cymunedol a sefydliadau celfyddydol; Cyngor Gwynedd	Parhaus	Arfaethedig	Cyllid argraffu, postio a dosbarthu (nodwyd cyfaddawd cost ac amgylcheddol)	Estyn allan ar draws ardal ddaearyddol; cysylltiadau nad ydynt yn ddigidol	Cyrraedd cynulleidfaoedd sydd ddim ar-lein
A06	Rhaglen ddiwylliannol gydlynus yn gweithio gyda, a thuag at, y ddwy Eisteddfod: Y Genedlaethol (Awst 2027) a'r Urdd (Mai 2028)	P1, P4	Ledled y sir	Aml-ffurf gelfyddydol	Mawr	Cyngor Gwynedd; Eisteddfod Genedlaethol; Urdd Gobaith Cymru	2026–28	Arfaethedig	I'w gadarnhau - chwilio am gyllid allanol	Digwyddiadau wedi'u cyflwyno; cynulleidfaoedd wedi'u cyrraedd	Balchder cymunedol; gwaddol
A07	Comisiynu digwyddiad creadigol blaenllaw a thrawsffurfiol yn ysbryd	P4, P1	Ledled y sir	Perfformiad, cerddoriaeth, aml-ffurf gelfyddydol	Mawr	I'W GADARNHAU; Partneriaid yr Eisteddfod	2027–28	Syniad	Uchel - angen cyllid	Presenoldeb; cyrraedd y cyfryngau	Ymdeimlad o drawsnewid i'r ardal

	canmlwyddiant 2017 Hedd Wyn										
A08	Archwilio cais Dinas Diwylliant y DU 2033 ar gyfer Bangor, gan ddal yr uchelgais, y cerrig milltir a'r heriau	P4, P5	Bangor (y ddinas bid); effaith ar draws y sir os yw'n llwyddiannus	Popeth	Mawr	Cyngor Gwynedd; Bwrdd	2026–33	Syniad	I'W GADARNHAU	Cerrig milltir y bid wedi'u cyrraedd	Uchelgais hirdymor wedi'i mynegi
A09	Cronfa fechan ar gyfer comisiynau 'anarferol' / arbrofol: syniadau beiddgar, nad ydynt, o reidrwydd, yn gostus	P4	Ledled y sir	Popeth / arbrofol	Bach	Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd	2026 ymlaen	Syniad	Potiau bach; nid o reidrwydd yn gostus. Gweithdy: cronfa i'w rhannu — ystyriwch gronfa CCC yn yr A24	Comisiynau wedi'u hariannu	Unigryw; ysbrydoliaeth
A10	Cysylltu'r cynllun â Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi a'r gwaith o adnewyddu Amgueddfa Llechi Cymru	P1, P6	Dyffrynnoedd llechi; Llanberis	Aml-ffurf gelfyddydol — treftadaeth, dehongli	Cymy sg	Amgueddfa Cymru (Amgueddfa Llechi Genedlaethol); Cyngor Gwynedd	2026–27	Syniad	I'W GADARNHAU	Gweithgareddau cysylltiedig wedi'u cyflwyno	Perthnasedd treftadaeth i gymunedau
A11	Llinyn 'Celf Llechi': gwaith creadigol newydd wedi'i wreiddio mewn treftadaeth a thirwedd llechi	P1, P4	Ardaloedd llechi; ledled y sir	Celfyddydau gweledol, crefft, cerflunio; ehangu i lenyddiaeth, cerddoriaeth a ffurfiau eraill	Bach	Artistiaid llawrydd; Partneriaid Treftadaeth	2026–28	Syniad	Cronfeydd prosiect	Gweithiau celf / comisiynau; artistiaid sy'n cymryd rhan	Treftadaeth yn cael ei mynegi drwy waith newydd
A12	Rhoi'r Gymraeg wrth wraidd brandio, dehongli	P1	Ledled y sir	Popeth	Bach	Cyngor Gwynedd;	2026–27	Arfaethedig	Adnoddau presennol / amser staff	Lleoliadau sy'n mabwysiadu arfer gorau dwyieithog	Gweledded a hyder yn y Gymraeg

	a chyfathrebu diwylliannol ar draws lleoliadau a digwyddiadau					lleoliadau a phartneriaid					
A13	Cefnogi gwaith cyfalaf (a chynnal a chadw parhaus) sy'n diogelu adeiladau diwylliannol arbennig ac yn gwella mynediad a chynaliadwyedd	P6, P1, P3	Ledled y sir	Pob ffurf o ddiwylliant; lleoliadau aml-ddefnydd	Mawr	Sefydliadau amrywiol	2026–29	Arfaethedig	Cyfalaf a chynhaliaeth — grantiau allanol (e.e. NLHF). Gweithdy: Cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei hystyried yn hanfodol	Prosiectau cyfalaf a gefnogir; gwelliannau mynediad	Lleoedd arbennig wedi'u diogelu; mannau croesawgar
A14	Datblygu'r berthynas ddiwylliannol â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr — gan gynnwys presgripsiynu cymdeithasol — gyda phrosiectau penodol yn eistedd oddi tani (e.e. "Dod nôl i'n Coed", Theatr Cynefin)	P2, P5	Ledled y sir; BIPBC	Pob ffurf o gelf; ymarfer creadigol sy'n seiliedig ar natur	Cymysg	Cyngor Gwynedd; Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Theatr Cynefin; Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd	2026–28	Arfaethedig	Amser staff i adeiladu'r berthynas; cyllid prosiect i'w ddilyn (iechyd + celfyddydau)	Perthynas wedi'i sefydlu; blaenoriaethau ar y cyd wedi'u cytuno arnynt; llwybrau presgripsiynu cymdeithasol wedi'u hagor; prosiectau wedi'u cyflawni	Diwylliant wedi'i gydnabod fel rhan o'r ddarpariaeth iechyd
A15	Tyfu gwaith iechyd creadigol, hel atgofion a dementia gyda phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol	P2, P3	Llyfrgelloedd ledled y sir (e.e. Tywyn, Porthmadog, Caernarfon, Cricieth)	Cerddoriaeth, hel atgofion, crefft	Bach	Llyfrgelloedd Gwynedd (Eifion Parry); Dementia Actif Gwynedd; gweithwyr llawrydd	Parhaus	Ar y gweill	Grantiau bach (e.e. Darllen yn Well / Reading Well)	Sesiynau; mynychwyr; lleoliadau	Hel atgofion a llesiant; adborth gan gyfranogwyr

A16	Cefnogi artistiaid ac ymarferwyr ar draws pob ffurf gelfyddydol sy'n gweithio ym maes iechyd a lles	P2, P5	Ledled y sir; lleoliadau iechyd	Pob ffurf o gelf	Bach	Llenyddiaeth Cymru; Cyngor Celfyddydau Cymru; Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; partneriaid iechyd	2026-28 sefydlu'r angen; 2027–28 ymgorffori	Ar y gweill	Arian y prosiect	Ymarferwyr wedi'u hyfforddi; prosiectau wedi'u cyflawni	Effaith ar iechyd/lles; llais profiad byw
A17	Adolygu ac ail-lansio Gwynedd Greadigol fel Rhwydwaith Diwylliant annibynnol Gwynedd (pwyllgor, swyddogion, gwefan, aelodaeth), a cheisio cyllid yn 2026 iddo weithredu fel ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Cynllun Gweithredu	P3, P5	Ledled y sir	Popeth	Bach	Gwynedd Greadigol; Cyngor Gwynedd (Gwasanaeth Celfyddydau Cymunedol)	2026 (blwyddyn beilot; cyllid ysgrifenyddiaeth wedi'i geisio)	Ar y gweill	Cydlynu gan staff y cyngor; model aelodaeth i'w gynnal; ymgeisio am gyllid yn 2026 ar gyfer rôl ysgrifenyddiaeth (ar hyn o bryd tua 5 awr â thâl yr wythnos)	Aelodau; cyfarfodydd; sesiynau hyfforddi; cyllid ysgrifenyddiaeth wedi'i sicrhau	Ansawdd cydweithredu; perchnogaeth y sector
A18	Gwarantu llais a chynrychiolaeth llawrydd, a thâl teg — cytuno a chyhoeddi cyfradd diwrnod sylfaenol ledled y sir ar gyfer amser artistiaid, ac annog contractau	P5, P3	Ledled y sir	Popeth	Bach	Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd	2026 ymlaen	Cytuno	Polisi/ymrwymiad; gallu i gytuno a chyhoeddi cyfraddau; ffioedd cyllidebu i brosiectau. Gweithdy: Cyflog Byw Go Iawn fel sylfaen	Cynrychiolaeth gweithwyr llawrydd; artistiaid wedi'u talu	Hyder gweithwyr llawrydd; triniaeth deg

	hirach, mwy parhaus fel y gall gweithwyr llawrydd gynllunio ymlaen llaw										
A19	Cynnig hyfforddiant a datblygiad proffesiynol (diogelu, Iechyd a Diogelwch, treth/cyfrifon, DBS, codi arian, rheoli prosiectau)	P5	Ledled y sir	Popeth	Bach	Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd; partneriaid (e.e. Llenyddiaeth Cymru)	2026 ymlaen	Arfaethedig	Cyllideb hyfforddi; partneriaid yn cyflawni	Sesiynau hyfforddiant; cyfranogwyr	Magu sgiliau a hyder
A20	Datblygu'r cynnig o ofodau creadigol sefydlog a fforddiadwy - gan ddeall yn gyntaf pam nad yw'r ddarpariaeth gyfredol yn cael ei defnyddio yn llawn, ac yna weithio tuag at gynnig sy'n cyd-fynd â'r angen, gan gynnwys gofod camu a phroffesiynol ar y cyd i bobl ifanc.	P5, P3	Ledled y sir	Popeth	Cymysg	Cyngor Gwynedd; partneriaid y sector	2026 (deall faint sy'n ei ddefnyddio); 2027–28 (datblygu'r cynnig)	Arfaethedig	Sgopio'r capasiti yn 2026; yna costau gofod: Cyngor Gwynedd, Tai Gwynedd, siopau gwag, hybiau presennol	Deall faint sy'n defnyddio'r gofod presennol; y gofod sydd ar gael ac yn cael ei feddiannu; pobl ifanc yn cael mynediad at y gofod	Gofodau sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ei angen ar bobl mewn gwirionedd; llwybrau camu i bobl ifanc
A21	Piblinell dalent ar gyfer pobl greadigol ifanc (awduron/artistiaid ifanc 16–25,	P5, P2	Ledled y sir; ysgolion	Ysgrifennu; creadigol ehangach	Bach	Llenyddiaeth Cymru (Sgwad Ysgrifennu Genedlaethol); Criw Celf;	2026–28	Ar y gweill	Cyllid rhaglenni	Pobl ifanc wedi'u cefnogi; mentoriaid	Datblygu crefftau; cymuned greadigol

	bardd plant a gwaith ysgolion)					ysgolion; Rhwydwaith					
A22	Cymorth wedi'i dargedu i artistiaid gweledol — gofod stiwdio, arddangosfeydd a chyfleoedd comisiynu	P5	Ledled y sir	Celfyddydau gweledol, gwneud printiau, celfyddydau cymhwysol	Bach	Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd; Cyngor Gwynedd	2026–28	Arfaethedig	Cefnogaeth stiwdio/arddangosfa; comisiynau	Artistiaid wedi'u cefnogi; arddangosfeydd/ comisiynau	Ymarfer celfyddydau gweledol parhaus
A23	Symleiddio a safoni casglu data diwylliannol — cytuno ar 2–3 o gyd-fetrigau	P4	Ledled y sir	Popeth	Bach	Cyngor Gwynedd; partneriaid y sector	2026	Arfaethedig	Amser staff	Ffigyrau cyffredin (gwerthiant tocynnau, presenoldeb)	Dyfyniadau a theimladau yn y foment
A24	Cyflwyno cais ~£20k gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ariannu capasiti data ledled y sir	P4	Ledled y sir	Popeth	Bach	Cyngor Gwynedd; Cyngor Celfyddydau Cymru	2026	Syniad	~£20k yn cael ei geisio	Cyllid wedi'i sicrhau; dyddiau/swyddi yn cael eu cefnogi	Mynd i'r afael â'r bwlch capasiti
A25	Datblygu mecanweithiau sy'n gwneud cynaliadwyedd amgylcheddol a'r Gymraeg yn feini prawf allweddol wrth asesu a chefnogi cynigion creadigol a diwylliannol ledled y sir	P6	Ledled y sir	Popeth	Cymysg	Pob partner; Cyngor Gwynedd	2026 (datblygu meini prawf); yn parhau ar ôl hynny	Arfaethedig	Amser staff i ddatblygu a chytuno ar feini prawf; adnoddau presennol; rhywfaint o gyfalaf ar gyfer lleoliadau	Meini prawf wedi'u cytuno a'u mabwysiadu; cynigion wedi'u hasesu yn eu herbyn	Cynaliadwyedd yn cael ei drin fel amod o gymorth, nid ychwanegiad
A26	Alinio'r cynllun â CDLl y Parc Cenedlaethol (sy'n cael ei adolygu),	P6	Ledled y sir; Parc Cenedlaethol	Popeth	Bach	Cyngor Gwynedd; Awdurdod Parc	2026 (CDLl dan adolygiad)	Arfaethedig	Gwrthddiwylliant	Pwyntiau alinio wedi'u mapio	Cydlyniad â chynlluniau ehangach

	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a pholisïau lleol a chenedlaethol eraill (e.e. Cynllun Gwynedd, blaenoriaethau diwylliant)					Cenedlaethol Eryri					
A27	Cydlynu strategaeth ariannu i gyflawni'r cynllun — piblinell o geisiadau	P4	Ledled y sir	Wedi'i dargedu - archifau, treftadaeth, celfyddydau gweledol, llenyddiaeth, iaith	Bach	Cyngor Gwynedd; Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd	2026 ymlaen	Arfaethedig	Amser staff; ysgrifennu bidiau	Bidiau wedi'u cyflwyno; cyllid wedi'i sicrhau	Adnoddau ar gyfer y cynllun a'r cynllun wedi cael ei gyflawni
A28	Cytuno ar lywodraethu a chylch adolygu blynyddol, gan adrodd ar gynnydd yn erbyn y chwe egwyddor	P4	Ledled y sir	Popeth	Bach	Cyngor Gwynedd; Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd	Blynyddol o 2026	Arfaethedig	Amser staff	Bwrw ymlaen â'r camau gweithredu; adolygiad blynyddol wedi'i gynnal	Atebolrwydd yn erbyn yr egwyddorion
A29	Defnydd dros dro gofodau masnachol gwag: gweithio gyda pherchnogion eiddo i agor unedau gwag ledled y sir fel gofod creadigol tymor byr, fforddiadwy ar	P5, P6	Ledled y sir; canol trefi	Popeth	Cymysg	Cyngor Gwynedd; Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd; Tai Gwynedd; landlordiaid masnachol	2027–28 (ar ôl i'r A20 weithio allan pam nad yw'r gofod presennol yn cael ei ddefnyddio)	Syniad	Amser broceriaeth; templedi prydles dros dro; yswiriant; ffitio golau	Unedau wedi'u hagor; meddiannaeth; ffurfiau celf yn defnyddio'r gofod	P'un a yw defnyddwyr yn gweld bod y gofod yn gweddu i'w hanghenion; p'un a ydynt yn symud ymlaen i ofod tymor hwy

	draws pob ffurf gelf										
A30	Datblygu gyrfa: manteisio i'r eithaf ar gyllid hyfforddiant a datblygiad proffesiynol Cyngor Celfyddydau Cymru drwy gyfeirio a chefnogi ceisiadau, gan gynnwys tystiolaeth o'r galw lleol. Datblygu cais hyfforddi ledled y sir i linyn sefydliadol CCC (gallai helpu i gyflawni A19).	P5, P4	Ledled y sir	Popeth	Bach	Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd; Cyngor Celfyddydau Cymru; Cyngor Gwynedd; Llenyddiaeth Cymru; Criw Celf	Cyfeirio a chymorth ymgeisio o 2026; cais am hyfforddiant ledled y sir 2026–27 (drwy A27)	Arfaethedig	Amser rhwydwaith; help gydag ysgrifennu cynigion; pot lleol bach, os oes angen, yn cael ei geisio drwy A27; ffioedd ar gyfradd A18	Ceisiadau Gwynedd i CCC a dyfarniadau gan CCC (unigol a sefydliadol); gwerth yr hyfforddiant a ddygwyd i'r sir; dyfarniadau lleol a lleoliadau â thâl, os bydd y gronfa yn mynd yn ei blaen	P'un a oedd gyrfaoedd yn symud ymlaen a beth arweiniodd y cyfle ato nesaf
A31	Lobïo ac eirioli ar y materion na all diwylliant eu datrys ar ei ben ei hun: Mae materion posibl yn cynnwys (1) cyflog teg, gyda'r Cyflog Byw Go Iawn fel llawr; (2) hyd: contractau hirach/parhad fel	P5, P3	Ledled y sir	Popeth	Bach	Bwrdd Diwylliant; Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd; Cyngor Gwynedd (gan gynnwys timau trafnidiaeth a datblygu economaidd); Llywodraeth	Cytuno ar yr agenda yn 2026; adolygu bob blwyddyn drwy A28	Arfaethedig	Amser Bwrdd a Rhwydwaith	Materion wedi'u codi; cyfarfodydd wedi'u cynnal a chyflwyniadau wedi'u gwneud	P'un a yw partneriaid yn newid polisi neu arfer o ganlyniad

	y gall gweithwyr llawrydd gynllunio ymlaen llaw; (3) trafnidiaeth: cost ac argaeledd teithio.					Cymru; Cyngor Celfyddydau Cymru					
A32	Cofrestr eiriolaeth: mae'r Rhwydwaith yn cadw cofrestr a rennir o dystiolaeth gan aelodau (astudiaethau achos, ffilm, cyhoeddiadau, dyfyniadau a'r materion y maent yn eu hwynebu). Yn rhoi rhywbeth i eiriolaeth (A31) dynnu arno a'i ddefnyddio i adeiladu partneriaethau newydd y tu allan i'r sector	P4, P3	Ledled y sir	Popeth	Bach	Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd; Cyngor Gwynedd; Aelodau	2026 ymlaen	Arfaethedig	Amser rhwydwaith; fformat syml a rennir; rhywfaint o gyllideb ffilm neu ddogfennaeth	Cofnodion wedi'u cofnodi; astudiaethau achos a ffilmiau wedi'u cyhoeddi	P'un a yw'r dystiolaeth yn cael ei defnyddio mewn cynigion, eiriolaeth neu sgyrsiau partner
A33	Cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb rheolaidd yn y sector: digwyddiad gyda chyhoeddusrwydd da ar gyfer y sector cyfan bob 1-2 flynedd. Yn agored i bawb,	P3, P2	Ledled y sir; lleoliad yn newid bob tro	Popeth	Bach	Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd; Cyngor Gwynedd; lleoliad sy'n newid bob tro	Y cyfarfod cyntaf yn 2027; yna yn flynyddol neu bob dwy flynedd	Arfaethedig	Lleoliad, siaradwyr, mynediad a chymorth teithio	Presenoldeb, gan gynnwys mynychwyr tro cyntaf	Pa mor ysbrydoledig a defnyddiol oedd y digwyddiad i bobl; pa gysylltiadau a arweiniodd atynt

	gan gynnwys pobl nad ydynt fel arfer yn dod i gyfarfodydd Rhwydwaith.										
A34	Wrth i Wynedd Greadigol ddatblygu, gwahaniaethu rhwng rolau sy'n wynebu'r cyhoedd a rolau sy'n wynebu'r rhwydwaith: (1) cyfeiriadur dwyieithog sy'n wynebu'r cyhoedd o artistiaid a sefydliadau Gwynedd, yn seiliedig ar fodel cyfeiriadur Awduron Cymru; (2) un lle sy'n wynebu rhwydwaith ar gyfer cyfleoedd, cyllid, tendrau, cydweithrediadau a gofod	P3, P5, P1	Ledled y sir; Gogledd Cymru am gyfleoedd	Popeth	Bach	Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd / Gwynedd Creadigol; Cyngor Gwynedd	2026–27, fel rhan o ail-lansio A17	Arfaethedig	Datblygu gwe; amser parhaus i'w gadw'n gyfredol (rôl ysgrifenyddiaeth o dan A17)	Rhestrau cyfeiriaduron; cyfleoedd wedi'u postio; defnyddwyr	P'un a yw pobl yn dal i deimlo eu bod yn "methu pethau"

Tud. 389

Deyton Bell Limited

ASESIAD O WERTH ECONOMAIDD A CHYMDEITHASOL Y SECTOR DIWYLLIANT YNG NGWYNEDD

Asesiad Economaidd

Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Cefndir a nodau'r astudiaeth

3. Cwmpas yr astudiaeth

4. Canfyddiadau'r Adroddiad

5. Methodoleg

6. Ffynonellau data a gwerthoedd cyfatebol

7. Casgliadau

8. Atodiad 1. Ffynonellau a mesurau cyfatebol a ddefnyddiwyd yn yr asesiad

Asesiad o werth economaidd y sector diwylliant yn ardal Gwynedd

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn asesu gwerth economaidd a chymdeithasol ehangach y sector diwylliannol ar draws Gwynedd ac yn darparu sail dystiolaeth i lywio buddsoddiad yn y dyfodol, datblygu polisi, a gweithredu Cynllun Gweithredu Diwylliant Gwynedd. Mae'r asesiad wedi'i baratoi i ddangos y cyfraniad y mae diwylliant yn ei wneud i economi Gwynedd drwy gyflogaeth, gweithgarwch sefydliadol, gwariant ymwelwyr, cadwyni cyflenwi, a gwytnwch economaidd lleol ehangach, tra hefyd yn cydnabod y lles ehangach a'r manteision cymunedol a gynhyrchir gan gyfranogiad a buddsoddiad diwylliannol.

Mae'r dadansoddiad yn canfod bod y sector diwylliannol yng Ngwynedd yn cynhyrchu cyfanswm cyfraniad economaidd blynyddol amcangyfrifedig o £316.07 miliwn. Mae hyn yn cynnwys £121.98 miliwn o weithgarwch economaidd uniongyrchol a gynhyrchir gan sefydliadau diwylliannol a busnesau diwylliannol eu hunain, £135.54 miliwn o effaith anuniongyrchol trwy wariant ar y gadwyn gyflenwi, a £58.55 miliwn o effaith ysgogedig a gynhyrchir gan wario cyflogau ac enillion yn yr economi ranbarthol ehangach. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod diwylliant yn sector economaidd arwyddocaol yng Ngwynedd ac yn un sy'n cefnogi gweithgarwch ymhell y tu hwnt i'r sefydliadau sy'n darparu darpariaeth ddiwylliannol yn uniongyrchol.

Mae cyfraniad uniongyrchol y sector yn adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y gweithgarwch diwylliannol sy'n digwydd ar draws y sir. Mae'r elfen fwyaf o werth economaidd uniongyrchol yn cael ei gynhyrchu gan y Diwydiannau Creadigol a'r sector busnes diwylliannol ehangach, ac amcangyfrifir ei fod yn £77.63 miliwn y flwyddyn. Mae atyniadau treftadaeth, amgueddfeydd ac archifau yn cyfrannu £28.62 miliwn arall, gan danlinellu pwysigrwydd amgylchedd hanesyddol unigryw Gwynedd ac asedau diwylliannol a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae celfyddydau perfformio a digwyddiadau, crefft a'r celfyddydau cymhwysol, llyfrgelloedd a llenyddiaeth, a'r celfyddydau gweledol ac orielau yn gwneud cyfraniadau ychwanegol, gan ddangos bod y sector yn gweithredu fel economi ddiwylliannol rhyng-gysylltiedig yn hytrach na set o weithgareddau ynysig.

Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos bod gan y sector diwylliannol effeithiau lluosog cryf ar draws economi ehangach Gwynedd. Mae effeithiau anuniongyrchol yn cael eu cynhyrchu wrth i sefydliadau diwylliannol brynu nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau mewn meysydd fel cynnal a chadw, trafnidiaeth, marchnata, manwerthu, adeiladu a gwasanaethau proffesiynol. Mae effeithiau ysgogedig yn codi pan fydd y rhai a gyflogir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy'r sector yn gwario eu hincwm yn lleol. Mae'r effeithiau ehangach hyn yn sylweddol ac yn dangos bod gwerth economaidd diwylliant yn ymestyn y tu hwnt i incwm sefydliadol uniongyrchol i gefnogi gweithgarwch busnes, swyddi a gwariant ehangach ledled Gwynedd.

Canfyddiad pellach o'r adroddiad yw bod y sector diwylliannol yn cynhyrchu gwerth cymdeithasol ehangach sylweddol. Gan ddefnyddio dulliau prisio lles sy'n cyd-fynd â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF, mae'r asesiad yn amcangyfrif bod gweithgarwch diwylliannol yng Ngwynedd yn cynhyrchu £178.02 miliwn o werth cymdeithasol bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys gwerth sy'n gysylltiedig â chanlyniadau economaidd, iechyd a lles, cydlyniant cymdeithasol a chymunedol, addysg a sgiliau, stiwardiaeth amgylcheddol, a hunaniaeth ddiwylliannol. Er mai ffactorau economaidd yw prif bwyslais yr adroddiad hwn, mae maint y gwerth cymdeithasol ehangach yn atgyfnerthu'r casgliad bod diwylliant yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd bywyd Gwynedd yn ogystal â'i heconomi.

Datblygwyd yr adroddiad gan ddefnyddio methodoleg gadarn a chymesur sydd wedi'i chynllunio i adlewyrchu nodweddion economi ddiwylliannol Gwynedd. Mae'r asesiad yn cyfuno setiau data cenedlaethol a lleol, tystiolaeth gan sefydliadau diwylliannol, gwybodaeth am economi ymwelwyr, deunydd astudiaeth achos, a thechnegau lluosydd sefydledig. Amcangyfrifir effeithiau uniongyrchol o drosiant a arsylwir, gwariant, presenoldeb, a gweithgarwch sefydliadol lle mae data ar gael, tra bod effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig yn cael eu modelu gan ddefnyddio perthnasoedd economaidd cydnabyddedig a rhagdybiaethau ar ddal lleol, gollyngiadau, a gwariant cartrefi. Mae gwerth cymdeithasol yn cael ei drin fel llinyn dadansoddol ar wahân, gan ddefnyddio mesurau dirprwyol cydnabyddedig a dulliau prisio lles i amcangyfrif canlyniadau nad ydynt yn cael eu prisio'n uniongyrchol mewn marchnadoedd.

Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn dangos y dylid deall diwylliant fel rhan bwysig o seilwaith economaidd Gwynedd yn hytrach nag fel gweithgaredd dewisol neu ymylol. Mae'r sector yn cefnogi cyflogaeth leol, yn denu ymwelwyr, yn cynnal cadwyni cyflenwi, yn cryfhau trefi a chymunedau, ac yn cyfrannu at atyniad Gwynedd fel lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef. Mae'r canfyddiadau yn darparu sail glir ar gyfer buddsoddiad parhaus mewn seilwaith diwylliannol, rhaglennu a gallu sefydliadol, ac maent yn sefydlu sail dystiolaeth lle gellir nodi blaenoriaethau yn y dyfodol a monitro cynnydd dros amser.

1. CYFLWYNIAD

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Deyton Bell a Counterculture ar ran Cyngor Gwynedd i asesu gwerth economaidd a chymdeithasol y sector diwylliannol ar draws Gwynedd.

Mae'r astudiaeth wedi'i chomisiynu fel rhan o raglen ehangach Cyngor Gwynedd i gefnogi a chryfhau diwylliant ar draws y sir, yn dilyn cyllid llwyddiannus a sicrhawyd drwy raglen Lywodraeth Cymru *Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant – Cymorth Lleol Estynedig i'r Sector Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.* Mae'r comisiwn yn ymateb i gydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd diwylliant wrth gefnogi cymunedau ffyniannus, gwytnwch economaidd, lles, hunaniaeth, a'r Gymraeg ledled Gwynedd.

Mae'r sector diwylliannol, fel y'i diffinnir gan Lywodraeth Cymru, yn cwmpasu'r celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, yr amgylchedd hanesyddol, a'r Diwydiannau Creadigol. Gyda'i gilydd, mae'r gweithgareddau a'r sefydliadau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at ansawdd bywyd trigolion Gwynedd, yn cefnogi cyflogaeth a busnesau lleol, yn denu ymwelwyr, yn diogelu treftadaeth, ac yn creu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad, dysgu a chreadigrwydd.

Pwrpas yr asesiad hwn yw sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn sy'n dangos cyfraniad cyfredol diwylliant i economi a chymdeithas Gwynedd. Bwriad y canfyddiadau yw cefnogi buddsoddiad yn y dyfodol, llywio gwneud penderfyniadau, cryfhau eiriolaeth i'r sector, a bod yn sylfaen i ddatblygu Cynllun Gweithredu Diwylliant Gwynedd.

Mae'r adroddiad yn archwilio'r effeithiau economaidd mesuradwy a gynhyrchir gan weithgarwch diwylliannol a'r gwerth cymdeithasol ehangach a grëir drwy gyfranogiad, ymgysylltu, gwirfoddoli, lles, cydlyniant cymunedol, hunaniaeth ddiwylliannol, a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae'r asesiad yn tynnu ar setiau data cenedlaethol a lleol, tystiolaeth a ddarperir gan sefydliadau diwylliannol a phartneriaid, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chyfres o astudiaethau achos sy'n tynnu sylw at enghreifftiau o arfer dda o bob rhan o'r sir.

Mae'r gwaith hwn hefyd wedi'i lywio gan drafodaethau a gynhaliwyd eisoes drwy Rwydwaith Diwylliant Gwynedd a datblygu cyd-weledigaeth ar gyfer diwylliant yng Ngwynedd. Mae'r weledigaeth honno sy'n dod i'r amlwg yn cydnabod diwylliant fel grym hanfodol ac arloesol sydd wedi'i wreiddio mewn cymunedau, sy'n cyfoethogi lles, yn cryfhau hunaniaeth, yn cefnogi ffyniant economaidd, ac yn dathlu'r Gymraeg a threftadaeth unigryw Gwynedd. Amcanion yr adroddiad hwn yw:

- Asesu gwerth economaidd y sector diwylliannol yng Ngwynedd.
- Asesu'r gwerth cymdeithasol a'r manteision cymunedol ehangach a gynhyrchir trwy weithgarwch diwylliannol.
- Nodi enghreifftiau o ymarfer ac arloesi effeithiol o fewn y sector.

- Tynnu sylw at gryfderau, heriau a chyfleoedd cyfredol.
- Darparu sail dystiolaeth i lywio Cynllun Gweithredu Diwylliannol Gwynedd a blaenoriaethau buddsoddi yn y dyfodol.
- Cefnogi datblygiad parhaus sector diwylliannol cysylltiedig a gwydn ar draws Gwynedd.

Dylid ystyried yr adroddiad fel asesiad o gyfraniad presennol y sector ac adnodd strategol i gefnogi datblygiad diwylliant yng Ngwynedd yn y dyfodol.

2. CEFNDIR A NODAU'R ASTUDIAETH

2.1 Cefndir

Mae diwylliant yn chwarae rhan bwysig ym mywyd economaidd Gwynedd. Mae'r sir yn gartref i ystod amrywiol o sefydliadau diwylliannol, gweithgareddau, lleoliadau ac ymarferwyr, gan gynnwys amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, safleoedd treftadaeth, sefydliadau celfyddydol, gwyliau, ymarferwyr creadigol, a mentrau diwylliannol a arweinir gan y gymuned. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cyfrannu at gyflogaeth leol, yn cefnogi twristiaeth, yn denu buddsoddiad allanol ac yn cynhyrchu gwariant ar draws ystod o sectorau.

Mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud gwaith sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gryfhau cydweithrediad ar draws y sector diwylliannol, gan gynnwys sefydlu Rhwydwaith Diwylliannol Gwynedd ac ymgysylltu â sefydliadau diwylliannol ledled y sir. Mae'r trafodaethau hyn wedi tynnu sylw at bwysigrwydd diwylliant nid yn unig fel ased cymdeithasol a chymunedol, ond hefyd fel sbardun economaidd sy'n cyfrannu at fywiogrwydd a gwytnwch cymunedau Gwynedd.

Mae'r sector diwylliannol hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi amcanion polisi ehangach, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, blaenoriaethau diwylliannol Llywodraeth Cymru, uchelgeisiau datblygu economaidd, a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae diwylliant yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflogaeth a gweithgarwch busnes tra hefyd yn cefnogi twristiaeth, creu lleoedd, hyder cymunedol, ac atyniad Gwynedd fel lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Er gwaethaf y pwysigrwydd hwn, ni fu asesiad cynhwysfawr o'r gwerth economaidd a gynhyrchir gan y sector diwylliannol ar draws Gwynedd ar gael o'r blaen. Mae'r astudiaeth hon yn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch tystiolaeth hwnnw a darparu dealltwriaeth glir o'r cyfraniad y mae diwylliant yn ei wneud i'r economi leol.

2.2 Nodau'r Astudiaeth

Prif nod yr astudiaeth hon yw asesu gwerth economaidd y sector diwylliannol yng Ngwynedd a sefydlu sail dystiolaeth gadarn i gefnogi unrhyw benderfyniadau a wneir a buddsoddiad yn y dyfodol.

Mae'r astudiaeth yn ceisio:

- Meintioli cyfraniad economaidd uniongyrchol y sector diwylliannol yng Ngwynedd.
- Asesu'r effeithiau economaidd anuniongyrchol ac ysgogedig a gynhyrchir trwy weithgaredd diwylliannol, cyflogaeth a chadwyni cyflenwi.
- Ystyried cyfraniad diwylliant at wariant ymwelwyr a'r economi ymwelwyr ehangach.
- Nodi'r gwerth economaidd a gynhyrchir trwy weithgarwch a buddsoddiad diwylliannol a ariennir yn gyhoeddus.
- Dangos cyfraniad diwylliant at wydnwch economaidd lleol, cyflogaeth a thwf busnes creadigol.

- Darparu tystiolaeth i gefnogi ceisiadau cyllid yn y dyfodol, datblygu polisi, a chynllunio strategol.
- Llywio datblygiad a gweithredu Cynllun Gweithredu Diwylliant Gwynedd.

Bwriad yr asesiad yw darparu cipolwg ar gyfraniad economaidd cyfredol diwylliant a fframwaith a all gefnogi monitro a gwerthuso'r sector yn y dyfodol.

3. CWMPAS YR ASTUDIAETH

Mae'r asesiad hwn yn archwilio cyfraniad economaidd y sector diwylliannol yng Ngwynedd. Mae'r astudiaeth yn ystyried y diffiniad eang o ddiwylliant a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n cwmpasu'r celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, a'r amgylchedd hanesyddol, a'r Diwydiannau Creadigol.

3.1 Meysydd Dadansoddi

Mae'r asesiad yn canolbwyntio ar y dimensiynau canlynol o effaith economaidd:

- Effeithiau cyflogaeth a gweithlu, gan gynnwys swyddi a gefnogir yn uniongyrchol gan sefydliadau a gweithgareddau diwylliannol.
- Gwariant sefydliadol ac effeithiau ar y gadwyn gyflenwi leol sy'n deillio o brynu nwyddau a gwasanaethau.
- Cynhyrchu incwm trwy weithgaredd diwylliannol, gan gynnwys gwerthu tocynnau, derbyniadau, aelodaeth, comisiynau, grantiau, a gweithgarwch masnachol.
- Gwariant ymwelwyr sy'n gysylltiedig â chyfranogiad diwylliannol, gan gynnwys gwariant ar lety, bwyd a diod, trafnidiaeth, manwerthu, a gwasanaethau lleol eraill.
- Effeithiau economaidd anuniongyrchol ac ysgogedig a gynhyrchir trwy wariant gan sefydliadau diwylliannol, gweithwyr ac ymwelwyr.
- Cyfraniad ehangach diwylliant i ddatblygiad economaidd, atyniad lleoedd, a'r economi ymwelwyr.

3.2 Gwaharddiadau

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gyfraniad economaidd diwylliant yng Ngwynedd yn unig.

Nid yw'r astudiaeth yn ceisio darparu asesiad manwl o effeithiau cymdeithasol, diwylliannol, addysgol neu les, sy'n cael eu hystyried ar wahân o fewn y comisiwn ehangach. Yn yr un modd, nid yw'r asesiad yn meintioli effeithiau amgylcheddol, buddion lleihau carbon na chanlyniadau cymdeithasol ehangach a gynhyrchir gan weithgarwch diwylliannol.

3.3 Cyfyngiadau

Dylid dehongli'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yng nghyd-destun sawl cyfyngiad.


Mae argaeledd a chysondeb data ar draws y sector diwylliannol yn amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau a gweithgareddau. Mewn rhai achosion, mae amcangyfrifon a rhagdybiaethau wedi'u cymhwyso gan ddefnyddio dulliau modelu economaidd cydnabyddedig lle nad oes data lleol cyflawn ar gael.

Bwriad yr asesiad yw darparu amcangyfrif cadarn o werth economaidd yn hytrach na mesur union o'r holl weithgarwch economaidd a gynhyrchir gan ddiwylliant.

4. CANFYDDIADAU'R ADRODDIAD

4.1 Cyfraniad economaidd cyffredinol

Mae'r asesiad yn amcangyfrif bod y sector diwylliannol yn cynhyrchu cyfanswm cyfraniad economaidd blynyddol o **£316.07 miliwn** i Wynedd. Mae hyn yn cynnwys effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig a gynhyrchir trwy sefydliadau diwylliannol, gwariant ymwelwyr, cadwyni cyflenwi, a gwariant gweithwyr. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod diwylliant yn cyfrannu'n sylweddol at economi Gwynedd, gan gefnogi busnesau, cyflogaeth a gweithgarwch economaidd ehangach ar draws y sir.



Elfen	Gwerth (£m, y flwyddyn)	Sylw
Effaith uniongyrchol	£121.98m	GYC/allbwn a gynhyrchir gan sefydliadau diwylliannol yng Ngwynedd
Effaith anuniongyrchol	£135.54m	Effeithiau Cadwyn Gyflenwi Ychwanegol
Effaith ysgogedig	£58.55m	Effeithiau gwariant cyflog yn economi Gwynedd / rhanbarthol
Cyfanswm manteision economaidd	**£316.07m**	**Cyfraniad economaidd cyffredinol**
Gwerth cymdeithasol	**£178.02m**	**Lles wedi'i ariannu a chanlyniadau cymdeithasol ehangach (Alinio â'r Llyfr Gwyrdd)**

Mae effeithiau uniongyrchol yn cyfrif am oddeutu £122 miliwn o weithgarwch economaidd a gynhyrchir gan sefydliadau diwylliannol eu hunain. Mae £135.5 miliwn arall yn cael ei gynhyrchu drwy weithgaredd yn y gadwyn gyflenwi, tra bod gwariant gweithwyr yn cyfrannu amcangyfrif o £58.6 miliwn trwy effeithiau ysgogedig. Mae hyn yn dangos bod manteision buddsoddiad diwylliannol yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r sefydliadau sy'n cyflawni gweithgareddau diwylliannol.

4.2 Cyfraniad economaidd uniongyrchol

Mae effeithiau economaidd uniongyrchol yn cynrychioli'r gwerth a grëir drwy weithredu sefydliadau diwylliannol, atyniadau a busnesau creadigol yng Ngwynedd. Mae hyn yn cynnwys cyflogaeth, gwariant sefydliadol, derbyniadau, incwm masnachu a gweithgarwch economaidd cysylltiedig.

Gweithgaredd	Buddion	Sylw
Treftadaeth, Amgueddfeydd ac Archifau	£28.62m	Yn cynnwys Cestyll, Llechi, Rheilffyrdd, Portmeirion ac ati.
Llyfrgelloedd a Llenyddiaeth	£1.42m	
Celfyddydau Perfformio a Digwyddiadau	£6.51m	Yn cynnwys; Theatrau a digwyddiadau diwylliannol
Celfyddydau Gweledol ac Orielau	£1.18m	
Crefft a'r Celfyddydau Cymhwysol	£6.62m	
Diwydiannau Creadigol a Busnes Diwylliannol Ehangach	£77.63m	Yn cynnwys y Diwydiannau Creadigol (e.e. dylunio, cyfryngau, cyhoeddi, cerddoriaeth a'r sector clyweledol) a busnesau diwylliannol a chreadigol eraill sy'n gweithredu ledled Gwynedd

Cyfanswm Buddion Uniongyrchol	**£121.98m**	

Daw'r cyfraniad uniongyrchol mwyaf o'r Diwydiannau Creadigol a'r sector busnes diwylliannol ehangach (£77.63 miliwn), sy'n adlewyrchu ehangder y mentrau creadigol sy'n gweithredu ar draws Gwynedd. Mae atyniadau treftadaeth, amgueddfeydd ac archifau yn cyfrannu £28.62 miliwn, gan danlinellu pwysigrwydd asedau treftadaeth Gwynedd a gydnabyddir yn rhyngwladol i'r economi leol. Mae celfyddydau perfformio, gwyliau, diwydiannau crefft, llyfrgelloedd, a'r celfyddydau gweledol i gyd yn gwneud cyfraniadau pwysig er gwaethaf eu graddfa gymharol lai.

4.3 Effeithiau Anuniongyrchol ac Ysgogedig

Mae'r dadansoddiad yn dangos bod y sector diwylliannol yn cael effeithiau lluosydd sylweddol ledled yr economi ehangach. Mae sefydliadau'n prynu nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr lleol, gan greu effeithiau anuniongyrchol yr amcangyfrifir eu bod yn £135.54 miliwn. Mae staff a gyflogir yn y sector hefyd yn gwario eu henillion o fewn yr economi leol, gan gynhyrchu £58.55 miliwn arall mewn gweithgarwch economaidd ysgogedig.

4.4 Gwerth Cymdeithasol

Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfraniad economaidd y sector diwylliannol yng Ngwynedd, mae'r dadansoddiad hefyd yn nodi gwerth cymdeithasol ehangach sylweddol a gynhyrchir trwy gyfranogiad a buddsoddiad diwylliannol. Gan ddefnyddio methodolegau prisio lles sy'n cyd-fynd â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF, mae'r asesiad yn amcangyfrif bod y sector diwylliannol yn cynhyrchu oddeutu £178.02 miliwn o werth cymdeithasol bob blwyddyn.

Mae'r gyfran fwyaf o'r gwerth hwn yn gysylltiedig â chanlyniadau economaidd, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth, gwariant ymwelwyr, a gweithgarwch cadwyn gyflenwi. Mae gwerth ychwanegol sylweddol yn cael ei gynhyrchu drwy welliannau mewn iechyd a lles, cryfhau cydlyniant cymunedol, gwirfoddoli, addysg a datblygu sgiliau, stiwardiaeth amgylcheddol, a chadw a hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Gwynedd a'r iaith Gymraeg.

Mae'r canfyddiadau hyn yn atgyfnerthu'r farn bod buddsoddi mewn diwylliant yn darparu buddion ymhell y tu hwnt i enillion ariannol uniongyrchol. Mae sefydliadau a gweithgareddau diwylliannol yn cyfrannu at gymunedau iachach, hunaniaeth leol gryfach, mwy o gyfranogiad dinesig a gwell ansawdd bywyd, tra hefyd yn cefnogi amcanion polisi cyhoeddus ehangach ar draws iechyd, addysg, adfywio a datblygu cymunedol.

Elfen	Gwerth	Sylw
Economaidd	**71.21m**	Swyddi, GYC, economi ymwelwyr, effeithiau'r gadwyn gyflenwi
Iechyd a lles	**44.51m**	Prisiad lles, yn osgoi costau'r GIG/iechyd meddwl i gymunedau
Cymdeithasol a chymunedol	**26.72m**	Cyfalaf cymdeithasol, llai o ynysu, cymunedau gwirfoddoli
Addysg a Sgiliau	**17.78m**	Cyrhaeddiad, sgiliau creadigol, sgiliau Cymraeg
Amgylcheddol/lle	**8.39m**	Cyflwr ased treftadaeth, arferion cynaliadwy
Diwylliannol a hunaniaeth	**9.41m**	Balchder mewn lle, unigrywedd diwylliannol, iaith
Cyfanswm	**178.02m**	

Mae adroddiad cydymaith ar wahân yn ystyried yr effeithiau cymdeithasol, cymunedol a lles ehangach a gynhyrchir gan ddiwylliant ar draws Gwynedd.

4.5 Arwyddocâd Economaidd

Mae'r dadansoddiad yn dangos bod y sector yn cefnogi lefelau cryf o gyflogaeth leol, yn cynnal cadwyni cyflenwi, yn denu ymwelwyr, ac yn cyfrannu at fywiogrwydd trefi a chymunedau ledled y sir. Mae graddfa'r gweithgarwch economaidd a nodwyd yn yr asesiad hwn yn atgyfnerthu pwysigrwydd buddsoddiad parhaus mewn seilwaith diwylliannol a rhaglennu.

4.6 Cyd-destun Economaidd Ehangach

Er mwyn helpu i osod y canfyddiadau hyn mewn cyd-destun, mae'r adran hon yn cymharu graddfa cyfraniad economaidd y sector diwylliannol â maint economïau ehangach Gwynedd a Chymru. Yn ôl data Cyfrifon Rhanbarthol y Swyddfa Ystadegau Gwladol a gyhoeddwyd drwy StatsCymru, amcangyfrifwyd bod cyfanswm allbwn economaidd Gwynedd, wedi'i fesur fel Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC), yn £2,842 miliwn yn 2023, y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer (dros dro). Amcangyfrifwyd bod cyfanswm GYC Cymru dros yr un cyfnod yn £81,458 miliwn.

Ar y sail hon, mae cyfanswm cyfraniad economaidd blynyddol y sector diwylliannol o £316.07 miliwn yn cynrychioli oddeutu 11% o holl allbwn economaidd Gwynedd – cyfran sylweddol i sector sydd weithiau'n cael ei ystyried fel rhan ddewisol neu ymylol o'r economi leol. Hyd yn oed o ystyried dim ond y gweithgarwch economaidd uniongyrchol a gynhyrchir gan sefydliadau diwylliannol a busnesau diwylliannol eu hunain (£121.98 miliwn), mae diwylliant yn cyfrif am dros 4% o GYC Gwynedd, gan ei osod ar raddfa debyg i sectorau cydnabyddedig eraill o'r economi leol. Ar lefel genedlaethol, mae cyfraniad sector diwylliannol Gwynedd o £316.07 miliwn yn cyfateb i oddeutu 0.4% o gyfanswm GYC Cymru gyfan, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod Gwynedd yn cyfrif am gyfran gymharol fach, er ei bod yn economaidd arwyddocaol, o economi ehangach Cymru.

Metrig	Gwerth	Ffynhonnell / Sail
Cyfanswm allbwn economaidd Gwynedd (GVA), 2023 [p]	£2,842m	Cyfrifon Rhanbarthol yr ONS, drwy StatsCymru
Cyfanswm allbwn economaidd Cymru (GYC), 2023 [p]	£81,458m	Cyfrifon Rhanbarthol yr ONS, drwy StatsCymru
Cyfanswm cyfraniad economaidd y sector diwylliannol fel cyfran o GYC Gwynedd	**~11%**	£316.07m ÷ £2,842m
Cyfraniad economaidd uniongyrchol y sector diwylliannol fel cyfran o GYC Gwynedd	**~4%**	£121.98m ÷ £2,842m
Cyfanswm cyfraniad economaidd y sector diwylliannol fel cyfran o GYC Cymru	**~0.4%**	£316.07m ÷ £81,458m
Cyfanswm y swyddi a gefnogir yng Ngwynedd (yn seiliedig ar y gweithle)	69,000	Amcangyfrifon Dwysedd Swyddi yr ONS (Nomis)

Mae'r cymariaethau hyn yn dangos nad yw diwylliant yn cyfrannu'n ymylol at ffyniant Gwynedd, yn hytrach, mae'n un o sectorau economaidd arwyddocaol y sir, ac yn cynhyrchu gweithgarwch economaidd ar raddfa sy'n sefyll ochr yn ochr â rhannau craidd eraill o'r economi leol. Er mwyn cael cyd-destun pellach ar raddfa economi ehangach Gwynedd, roedd y sir yn cefnogi tua 69,000 o swyddi (yn seiliedig ar y gweithle) yn ôl yr ystadegau marchnad lafur diweddaraf sydd ar gael, ac mae hyn yn cynnig meincnod ychwanegol y gellir ei ddefnyddio i ddeall graddfa gweithgarwch y sector diwylliannol a nodwyd yn yr asesiad hwn yn ei erbyn, er bod cyfrif cyflogaeth uniongyrchol gymharol yn benodol ar gyfer y sector diwylliannol y tu allan i gwmpas y data sydd ar gael ar gyfer yr adroddiad hwn. Fel gyda'r amcangyfrifon eraill yn yr adroddiad hwn, dylid trin y ffigurau cymharol hyn fel dangosyddion eang o raddfa yn hytrach na mesurau manwl, o ystyried gwahaniaethau yn y blynyddoedd sylfaen, methodolegau a diwygiadau rhwng setiau data.

5. METHODOLEG

Mae'r fethodoleg yn nodi dull dadansoddol o gyfrifo gwerth economaidd sector diwylliannol Gwynedd a dylid ei ddarllen fel sail dechnegol i'r prif adroddiad. Mae'r adroddiad yn diffinio'r sector diwylliannol yn fras, yn unol ag arfer Llywodraeth Cymru, i gynnwys y celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, yr amgylchedd hanesyddol, a'r Diwydiannau Creadigol, ac mae'n asesu effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig yng Ngwynedd ochr yn ochr â chyfraniad diwylliant i'r economi ymwelwyr.

Mae'r asesiad wedi'i gynllunio i ddarparu amcangyfrif cadarn o werth economaidd yn hytrach na chyfrifiad manwl gywir o bob trafodiad a gynhyrchir gan ddiwylliant. Mae hyn yn adlewyrchu defnydd datganedig yr adroddiad o ffynonellau tystiolaeth gymysg, gan gynnwys setiau data cenedlaethol a lleol, gwybodaeth a ddarperir gan sefydliadau, tystiolaeth economi ymwelwyr, astudiaethau achos, a thechnegau effaith economaidd cydnabyddedig sy'n seiliedig ar luosydd.

5.1 Fframwaith dadansoddol

Mae'r fethodoleg wedi'i hadeiladu o amgylch model effaith economaidd lleol safonol gyda phedair prif gydran: effeithiau uniongyrchol, effeithiau anuniongyrchol, effeithiau ysgogedig, a gwerth cymdeithasol. Yn y prif adroddiad, daeth y rhain at ei gilydd i amcangyfrif cyfanswm cyfraniad economaidd blynyddol o £316.07 miliwn, sy'n cynnwys £121.98 miliwn o effaith uniongyrchol, £135.54 miliwn o effaith anuniongyrchol a £58.55 miliwn o effaith ysgogedig, gydag amcangyfrif gwerth cymdeithasol ar wahân o £178.02 miliwn.

At ddibenion asesu economaidd, mae'r effaith uniongyrchol yn dal y gweithgaredd a gynhyrchir gan sefydliadau diwylliannol a busnesau diwylliannol eu hunain, gan gynnwys trosiant, gwariant gweithredol, cyflogaeth, ac incwm sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i weithgaredd diwylliannol. Mae'r effaith anuniongyrchol yn dal y gweithgaredd cadwyn gyflenwi a gynhyrchir pan fydd y sefydliadau hynny'n prynu nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau eraill, tra bod yr effaith anwythol yn dal y gwariant aelwydydd ychwanegol a gefnogir gan gyflogau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol.

5.2 Diffiniad a chwmpas y sector

Mae'r prif adroddiad yn mabwysiadu diffiniad diwylliannol bwriadol eang fel bod yr asesiad yn adlewyrchu strwythur economi ddiwylliannol leol Gwynedd yn hytrach na model cul celfyddydol yn unig. Mae'r sector felly yn cynnwys atyniadau treftadaeth, amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, gweithgareddau llenyddiaeth, celfyddydau perfformio a digwyddiadau, celfyddydau gweledol ac orielau, crefft a chelfyddydau cymhwysol, a'r Diwydiannau Creadigol a'r sylfaen fusnes ddiwylliannol ehangach sy'n gweithredu yng Ngwynedd.

Craidd daearyddol yr asesiad yw ardal awdurdod lleol Gwynedd. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn cydnabod bod rhai effeithiau economaidd yn ymestyn y tu hwnt i ffin y sir, yn enwedig lle mae gweithgarwch diwylliannol yn denu ymwelwyr o rannau eraill yng Nghymru, y DU ehangach a thramor, felly mae'r dull yn gwahaniaethu rhwng effeithiau sy'n digwydd yn lleol yng Ngwynedd ac effeithiau sy'n ymledu'n ehangach lle mae tystiolaeth yn caniatáu.

5.3 Sail dystiolaeth a chasglu data

Mae'r fethodoleg yn tynnu ar dystiolaeth gynradd ac eilaidd. Mae'r adroddiad yn nodi bod tystiolaeth wedi'i chasglu o setiau data cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a chyrff cyhoeddus eraill; monitro a gwybodaeth am berfformiad gan sefydliadau a phrosiectau diwylliannol; gwybodaeth ariannol a gweithredol gan sefydliadau lle bo hynny ar gael; setiau data economi ymwelwyr a thwristiaeth; tystiolaeth astudiaeth achos; a thechnegau lluosydd a ddefnyddir yn gyffredin mewn asesu effaith economaidd.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y model yn cyfuno tystiolaeth o'r gwaelod i fyny â meincnodi o'r brig i lawr. Defnyddir tystiolaeth o'r gwaelod i fyny lle gall sefydliadau ddarparu ffigurau gwirioneddol ar gyflogaeth, gwariant, trosiant, derbyniadau, cyfranogiad, gwerthiant tocynnau, aelodaeth, comisiynau, incwm grantiau, neu niferoedd ymwelwyr, tra bod rhagdybiaethau o'r brig i lawr yn cael eu defnyddio lle mae gwybodaeth leol yn anghyflawn, yn anghyson neu'n anfodlon.

5.4 Amcangyfrif effeithiau uniongyrchol

Amcangyfrifir effeithiau uniongyrchol drwy nodi'r gweithgarwch economaidd gros a gynhyrchir gan sefydliadau diwylliannol, lleoliadau, safleoedd, digwyddiadau, a busnesau diwylliannol cysylltiedig yng Ngwynedd. Mae hyn yn cynnwys trosiant neu allbwn sefydliadol, cyflogaeth a gefnogir yn uniongyrchol gan weithgarwch diwylliannol, gwariant gweithredol, derbyniadau ac incwm a enillwyd, a mathau eraill o weithgaredd masnachol neu weithgaredd a gefnogir gan grant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol.

Mae'r model uniongyrchol wedi'i strwythuro yn ôl is-sector i adlewyrchu cyfansoddiad economi ddiwylliannol Gwynedd. Yn yr adroddiad, cyflwynir cyfraniadau uniongyrchol ar gyfer treftadaeth, amgueddfeydd ac archifau; llyfrgelloedd a llenyddiaeth; celfyddydau perfformio a digwyddiadau; celfyddydau gweledol ac orielau; crefft a chelfyddydau cymhwysol; a'r Diwydiannau Creadigol a'r sector busnes diwylliannol ehangach, sydd gyda'i gilydd yn gyfanswm o £121.98 miliwn y flwyddyn.

5.5 Adeiladu effaith uniongyrchol

Mae'r amcangyfrif uniongyrchol yn synthesis o sawl ffrwd dystiolaeth. Pan fo cyfrifon archwiliedig neu reoli ar gael, gellir defnyddio data trosiant a gwariant yn uniongyrchol; lle mae data presenoldeb yn bodoli ar gyfer lleoliadau, atyniadau neu ddigwyddiadau, gellir cyfieithu'r rhain i effeithiau gwariant gan ddefnyddio rhagdybiaethau gwariant ymwelwyr; a lle mai dim ond data lleol rhannol sydd ar gael, gellir cymhwyso perthnasoedd

meincnodi rhwng cyflogaeth, trosiant ac allbwn gan ddefnyddio cyfartaledd sector neu dystiolaeth ddiwylliannol debyg.

Mae angen gofal i osgoi cyfrif dwbl o fewn yr amcangyfrif uniongyrchol. Er enghraifft, ni ddylid cyfrif incwm a dderbynnir gan un sefydliad diwylliannol o sefydliad diwylliannol arall yng Ngwynedd ddwywaith os yw'r ddau gorff eisoes wedi'u cynnwys ym mhoblogaeth yr astudiaeth; Yn yr un modd, dylid trin grantiau a throsglwyddiadau yn ofalus fel bod y fethodoleg yn mesur gweithgarwch economaidd a gynhyrchir, yn hytrach na dim ond olrhain symudiad cyllid rhwng sefydliadau.

5.6 Effeithiau economi ymwelwyr

Elfen ganolog o'r fethodoleg yw trin gwariant ymwelwyr sy'n gysylltiedig â diwylliant. Mae'r adroddiad yn nodi'n benodol wariant ymwelwyr ar lety, bwyd a diod, trafnidiaeth, manwerthu a gwasanaethau lleol eraill fel rhan o'r cyfraniad economaidd sy'n cael ei asesu, ac mae'n cydnabod rôl diwylliant wrth gefnogi economi ymwelwyr ehangach Gwynedd.

Yn nhermau methodolegol, mae effeithiau ymwelwyr wedi'u hamcangyfrif trwy gymhwyso dull priodoli. Mae hyn yn golygu nodi nifer yr ymwelwyr sy'n gysylltiedig â gweithgarwch diwylliannol, gwahaniaethu rhwng trigolion ac ymwelwyr o'r tu allan i Wynedd, ac amcangyfrif y gyfran o wariant y gellir ei briodoli'n rhesymol i'r cynnig diwylliannol yn hytrach nag i'r galw cyffredinol am dwristiaeth.

Pan fo tystiolaeth arolwg ar gael, y dull sy’n cael ei ffafrio yw defnyddio data gwariant a chymhelliant a arsylwir yn lleol. Lle nad yw hyn ar gael, cymhwyswyd meincnodau gwariant twristiaeth rhanbarthol neu genedlaethol i gyfrif ymwelwyr, wedi'u haddasu at ddibenion y daith, tarddiad, hyd yr arhosiad a'r gyfran o'r gwariant sy'n ychwanegol at Wynedd yn hytrach na dadleoli o rywle arall yn y sir.

5.7 Amcangyfrif effeithiau anuniongyrchol

Amcangyfrifir effeithiau anuniongyrchol gan ddefnyddio patrymau gwariant a pherthnasoedd lluosydd i ddangos sut mae sefydliadau diwylliannol yn cefnogi gweithgarwch yn eu cadwyni cyflenwi. Mae'r adroddiad yn disgrifio hyn fel yr effaith ychwanegol ar y gadwyn gyflenwi a gynhyrchir gan wariant sefydliadol ac yn amcangyfrif ei fod yn £135.54 miliwn y flwyddyn.

Yn ymarferol, mae'r cam hwn yn gofyn am ddosbarthu gwariant sefydliadol i gategorïau mewnbwn eang fel gwasanaethau proffesiynol, cynnal a chadw, cyfleustodau, arlwyo, marchnata, trafnidiaeth, cyflenwad manwerthu, gwasanaethau cynhyrchu a gwariant adeiladu neu gyfleusterau. Yna cymhwysir rhagdybiaethau cadw lleol i amcangyfrif pa gyfran o'r gwariant hwn sy'n cael ei ddal gan fusnesau yng Ngwynedd, ac ar ôl hynny defnyddir lluosydd i olrhain y rowndiau ychwanegol o weithgarwch busnes-i-fusnes a gefnogir yn yr economi leol.

5.8 Cadw’n lleol a cholledion lleol

Mater methodolegol allweddol yw trin colledion. Nid yw'r holl wariant gan sefydliadau diwylliannol yn aros yng Ngwynedd, yn enwedig lle mae nwyddau neu wasanaethau arbenigol yn cael eu caffael o'r tu allan i'r sir, felly mae'r model wedi cymhwyso rhagdybiaethau realistig ynghylch caffael a chyflenwi lleol yn hytrach na chymryd yn ganiataol bod pethau'n cael eu cadw'n lleol. Mae ffigwr o 7.5% wedi'i ddefnyddio yn unol â chanllawiau'r Llyfr Gwyrdd.

Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn economi sirol fel Gwynedd, lle gall rhywfaint o gaffael lifo i gyflenwyr mewn mannau eraill yng Ngogledd Cymru, gweddill Cymru a thu hwnt. Felly, mae angen i'r model anuniongyrchol amcangyfrif cyfran y gwariant a gadwyd yn lleol, y gyfran sy'n cael ei cholli y tu allan i'r ardal, a'r gyfran sy'n cynrychioli mewnforion i economi'r sir.

5.9 Amcangyfrif yr effeithiau a achoswyd

Mae effeithiau ysgogedig yn mesur effaith gwariant cartrefi sy'n deillio o dâl, cyflogau ac enillion hunangyflogedig a gefnogir gan y sector diwylliannol. Yn adroddiad Gwynedd, amcangyfrifir bod yr elfen hon yn £58.55 miliwn y flwyddyn ac mae'n cynrychioli gwariant gweithwyr a gweithwyr y mae eu hincwm yn cael ei gefnogi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan weithgarwch diwylliannol.

Mae'r model ysgogedig yn dechrau gydag incwm llafur sy'n gysylltiedig â'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Tybir wedyn bod cyfran o'r incwm hwn yn cael ei wario yng Ngwynedd ar nwyddau a gwasanaethau defnyddwyr, gydag addasiadau wedi'u gwneud ar gyfer trethiant, cynilion, patrymau cymudo, a gollyngiadau gwariant y tu allan i'r sir. Yna cymhwysir lluosydd gwariant cartrefi priodol i amcangyfrif yr allbwn neu'r incwm ychwanegol a gefnogir yn y sectorau manwerthu, lletygarwch, trafnidiaeth a gwasanaeth lleol.

5.10 Ychwanegoldeb gros a net

Er mwyn sicrhau bod yr amcangyfrifon yn ddefnyddiol i benderfyniadau, mae'r fethodoleg yn symud o effeithiau gros tuag at effeithiau ychwanegol net lle bynnag y mae tystiolaeth yn caniatáu. Mae hyn yn gofyn am ystyriaeth benodol o ffactorau ychwanegoldeb gan gynnwys pwysau marw, dadleoli, gollyngiadau, ac amnewid.

- Mae pwysau marw yn ystyried i ba raddau y byddai'r gweithgaredd a nodwyd wedi digwydd beth bynnag heb y sefydliad diwylliannol, yr ased neu'r ymyrraeth.
- Mae dadleoli yn ystyried a yw gwariant neu gyflogaeth a gefnogir gan ddiwylliant yn dargyfeirio'r galw o fusnesau neu leoedd eraill yng Ngwynedd.
- Mae colledion yn ystyried y gyfran o'r gwariant sy'n gadael economi Gwynedd.
- Mae amnewid yn ystyried a yw defnyddwyr neu sefydliadau yn disodli un math o weithgaredd lleol gydag un arall yn hytrach na chreu gwerth ychwanegol.

Mewn astudiaeth strategol sector-gyfan fel hyn, gall rhai amcangyfrifon aros yn agosach at gyfraniad gros nag at effaith net llawn oherwydd cyfyngiadau tystiolaeth.

5.11 Trin cyflogaeth, trosiant a GYC

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at werth economaidd yn fras ac yn cyflwyno'r prif bennawd fel cyfanswm cyfraniad economaidd blynyddol. Mae'r fethodoleg yn defnyddio Trosiant neu allbwn yn mesur cyfanswm refeniw busnes neu werth cynhyrchu, tra bod GYC yn mesur y gwerth a gynhyrchir ar ôl tynnu mewnbynnau canolradd a dyma'r mesur mwyaf priodol ar gyfer cymharu cyfraniad y sector i'r economi leol.

Er cysondeb, mae'r dull a ddefnyddir wedi adeiladu'r model o drosiant neu wariant a arsylwir ac yna trosi i GYC a chyflogaeth gan ddefnyddio cymarebau perthnasol i'r sector lle nad yw data GYC uniongyrchol ar gael. Mae hyn yn caniatáu i amcangyfrifon is-sector gael eu cyfuno i fframwaith cydlynol ac yn osgoi cyfrif dwbl trafodion canolradd.

5.12 Rhyngwyneb gwerth cymdeithasol

Mae'r amcangyfrif gwerth cymdeithasol o £178.02 miliwn wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio dulliau prisio lles wedi'u halinio â'r Llyfr Gwyrdd. Felly, mae gwerth cymdeithasol yn cael ei drin fel llinyn dadansoddol ar wahân ac nid yw'n cael ei ychwanegu at fuddion economaidd uniongyrchol, anuniongyrchol neu ysgogedig tan y cam adrodd, er mwyn atal gorgyffwrdd cysyniadol.

Cyfrifwyd Gwerth Cymdeithasol drwy:

- Nodi set o feysydd canlyniadau (e.e. iechyd a lles, cymdeithasol a chymunedol, addysg a sgiliau, amgylcheddol/lle, hunaniaeth ddiwylliannol, canlyniadau economaidd).
- I Wynedd, mae'r adroddiad yn grwpio Gwerth Cymdeithasol yn chwe elfen sydd â gwerthoedd cysylltiedig: Economaidd, Iechyd a lles, Cymdeithasol a chymunedol, Addysg a sgiliau, Amgylcheddol/lle, a Diwylliannol a hunaniaeth.

Yna fe wnaethom sefydlu dangosyddion penodol a grwpiau buddiolwyr

- Ar gyfer pob canlyniad, nodwch ddangosyddion mesuradwy (e.e. nifer y cyfranogwyr, gwirfoddolwyr, digwyddiadau, cyfleoedd dysgu, asedau treftadaeth a gynhelir, defnydd y Gymraeg).
- Diffinio pwy sy'n profi pob canlyniad: preswylwyr, ymwelwyr, gwirfoddolwyr, cyfranogwyr, sefydliadau, cymunedau penodol.

Fe wnaethom gymhwyso gwerthoedd prisiad lles neu ddirprwy

- Defnyddiwyd prisiad lles sy'n alinio â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF a/neu ddirprwyon gwerth cymdeithasol cydnabyddedig i drosi canlyniadau yn werthoedd ariannol.
- Mae dulliau nodweddiadol yn cynnwys:
    - Prisiad lles (cysylltu newidiadau mewn boddhad bywyd â newidiadau incwm cyfatebol).

- Banc Gwerth Cymdeithasol neu lyfrgelloedd dirprwy tebyg ar gyfer canlyniadau fel "gwell hyder," "rhyddhad rhag gorbryder / iselder," "cyfranogiad aml yn y celfyddydau," "teimlo'n perthyn i gymuned."
- Prisiadau prosiect-benodol ar gyfer canlyniadau megis gwell cyrhaeddiad addysgol neu lai o ddefnydd o wasanaethau iechyd.

Roedd y dull hwn yn sail i'r gwaith o gyfrifo Gwerth Cymdeithasol a gynhyrchir gan sector Diwylliannol Gwynedd.

6. FFYNONELLAU DATA A GWERTHOEDD CYFATEBOL

Mae'r adran hon yn nodi'r ffynonellau data a'r mesurau cyfatebol a ddefnyddir i asesu gwerth economaidd a chymdeithasol y sector diwylliannol yng Ngwynedd. Mae'r dull wedi'i gynllunio i ddarparu sail dystiolaeth gadarn a chymesur, gan dynnu ar ystadegau swyddogol, gwybodaeth sefydliadol leol, technegau modelu economaidd cydnabyddedig a fframweithiau prisio gwerth cymdeithasol sefydledig. Yn unol â'r adroddiad ehangach, dylid deall y canfyddiadau fel amcangyfrifon cadarn o werth yn hytrach na mesurau manwl gywir o bob effaith a gynhyrchir gan weithgarwch diwylliannol. Manylir ar y rhestr lawn o'r Ffynonellau a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r adroddiad hwn yn Atodiad 1.

6.1 Ffynonellau data ar gyfer yr asesiad economaidd

Mae'r asesiad economaidd wedi'i lywio gan gyfuniad o ffynonellau tystiolaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r rhain yn cynnwys setiau data swyddogol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, tystiolaeth Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r sectorau diwylliant a chreadigol yng Nghymru, gwybodaeth leol a gwybodaeth ar lefel prosiect a ddarperir gan sefydliadau sy'n gweithredu yng Ngwynedd, ac astudiaethau economaidd a gynhaliwyd yn flaenorol ar gyfer sectorau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth.

Ar lefel genedlaethol, mae ffynonellau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn darparu'r sail dystiolaeth graidd ar gyfer cyflogaeth, trosiant, gwerth ychwanegol gros a pherthnasoedd mewnbwn-allbwn ar draws diwydiannau diwylliannol a chreadigol perthnasol. Yn benodol, mae'r Arolwg Busnes Blynyddol a'r Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth yn darparu data meincnod ar raddfa a strwythur gweithgarwch economaidd, tra bod Tablau Cyflenwad-Defnydd a modelu mewnbwn-allbwn yn darparu'r sail ar gyfer amcangyfrif effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig.

Ar lefel Cymru, mae'r asesiad yn tynnu ar adolygiadau Llywodraeth Cymru o sail dystiolaeth y sector diwylliant a thystiolaeth economaidd ehangach sy'n ymwneud â diwylliant, creadigrwydd a threftadaeth. Mae'r ffynonellau hyn yn rhoi cyd-destun ar economi ddiwylliannol Cymru ac yn helpu i sicrhau bod rhagdybiaethau a ddefnyddir o fewn model Gwynedd wedi'u seilio ar y dystiolaeth genedlaethol a rhanbarthol fwyaf perthnasol sydd ar gael.

Mae astudiaethau sector-benodol hefyd wedi llywio'r asesiad. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith effaith economaidd a wnaed ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru ac astudiaethau ehangach y DU ar gyfraniad y sector celfyddydau a diwylliannol i'r economi. Mae astudiaethau o'r fath yn darparu meincnodau, cymarebau a pharamedrau methodolegol y gellir eu haddasu i gyd-destun Gwynedd lle nad oes data lleol cyflawn ar gael.

Ochr yn ochr â'r ffynonellau cyhoeddedig hyn, mae'r model wedi'i lywio gan dystiolaeth leol a ddarparwyd gan sefydliadau diwylliannol, partneriaid a rhanddeiliaid yng

Ngwynedd. Mae hyn yn cynnwys, lle bo hynny ar gael, gwybodaeth am wariant sefydliadol, staffio, incwm a enillwyd, grantiau, presenoldeb, cyfranogiad, gweithgarwch ymwelwyr, a pherfformiad gweithredol ehangach. Mae tystiolaeth lleol o economi ymwelwyr ac astudiaethau treftadaeth a chyrchfannau perthnasol hefyd wedi cael eu defnyddio i lywio rhagdybiaethau ar wariant ymwelwyr a'r berthynas rhwng diwylliant ac economi ehangach Gwynedd.

6.2 Ffynonellau a ddefnyddir ar gyfer asesu gwerth cymdeithasol

Mae'r asesiad gwerth cymdeithasol wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio fframweithiau prisio lles a gwerth cymdeithasol cydnabyddedig sy'n gydnaws ag egwyddorion Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF. Defnyddir y ffynonellau hyn i aseinio gwerthoedd cyfatebol ariannol i ganlyniadau nad ydynt yn cael eu cipio'n llawn trwy drafodion marchnad, megis gwell lles, llai o ynysu, mwy o gyfranogiad cymunedol, enillion addysgol, hunaniaeth gryfach, a balchder yn eu lle.

Mae'r Llyfr Gwyrdd yn darparu'r fframwaith trosfwaol ar gyfer trin canlyniadau nad ydynt yn y farchnad wrth arfarnu a gwerthuso. Mae'n cefnogi'r defnydd o brisiad lles a thechnegau cost-budd ehangach i amcangyfrif gwerth canlyniadau cymdeithasol a chymunedol a gynhyrchir trwy fuddsoddiad cyhoeddus.

Er mwyn cefnogi gwerth ariannol ymarferol o ganlyniadau, mae'r asesiad yn tynnu ar fframweithiau cyfatebol cydnabyddedig gan gynnwys y dull TOMs Cenedlaethol a'r Safon Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol. Mae'r fframweithiau hyn yn darparu gwerthoedd dirprwyol ar gyfer ystod eang o ganlyniadau sy'n berthnasol i'r sector diwylliannol, gan gynnwys cyflogaeth, gwirfoddoli, cydlyniant cymunedol, datblygu sgiliau, gwelliannau amgylcheddol, a buddion cymdeithasol ehangach.

Mae'r asesiad hefyd yn cael ei lywio gan ffynonellau prisio lles fel y Banc Gwerth Cymdeithasol a llyfrgelloedd canlyniadau cysylltiedig, ynghyd ag ymchwil ehangach ar greu a mesur gwerth cymdeithasol yn y sector diwylliannol. Mae'r ffynonellau hyn yn helpu i nodi gwerthoedd cyfatebol addas ar gyfer canlyniadau fel gwella lles meddyliol, hyder, perthyn, cysylltiad cymdeithasol a chyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol.

Yn ogystal, defnyddiwyd canllawiau diwylliant penodol a deunydd astudiaeth achos i wirio cymhwysiad gwerthoedd cyfatebol yng nghyd-destun Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys deunydd arfer dda ar werth cymdeithasol prosiectau diwylliant, treftadaeth a chymunedol, yn ogystal â chanllawiau sy'n canolbwyntio'n benodol ar fesur gwerth cymdeithasol yn y sector diwylliannol.

6.3 Defnyddio mesurau cyfatebol

Defnyddir mesurau cyfatebol lle mae canlyniadau a gynhyrchir gan weithgarwch diwylliannol yn real ac yn arwyddocaol ond nid ydynt yn cael eu masnachu'n uniongyrchol mewn marchnadoedd ac felly nid oes ganddynt bris arsylwadwy. Yn yr achosion hyn, defnyddir mesur cyfatebol ariannol fel amcangyfrif rhesymol o'r gwerth a grëwyd, gan dynnu ar fframweithiau cenedlaethol sefydledig ac arferion prisio cydnabyddedig.

O fewn yr asesiad hwn, mae mesurau cyfatebol wedi'u cymhwyso ar draws y prif feysydd gwerth cymdeithasol a nodwyd yn yr adroddiad. Mae mesurau cyfatebol economaidd yn ymwneud â chanlyniadau fel cyflogaeth, cynhyrchu incwm, gwariant ymwelwyr, ac effeithiau busnes lleol. Mae mesuryddion cyfatebol iechyd a lles yn ymwneud â gwell boddhad bywyd, llai o bryder, llai o ynysu, a gwell lles meddyliol. Mae mesuryddion cyfatebol cymdeithasol a chymunedol yn dal canlyniadau fel gwirfoddoli, cyfalaf cymdeithasol cryfach, a mwy o gyfranogiad. Mae mesuryddion cyfatebol addysg a sgiliau yn adlewyrchu dysgu, cyrhaeddiad, cyflogadwyedd, a datblygiad iaith. Mae mesuryddion cyfatebol amgylcheddol a lleoedd yn adlewyrchu stiwardiaeth, cyflwr treftadaeth, ac ansawdd lle, tra bod mesuryddion cyfatebol diwylliannol a hunaniaeth yn ymwneud â balchder mewn lle, unigrwydd diwylliannol, a'r iaith Gymraeg.

Mae'r dewis o fesur cyfatebol ym mhob achos wedi'i arwain gan berthnasedd, cymhariaeth a chymesuredd. Lle gall mwy nag un mesur cyfatebol fod yn berthnasol, y dull yw dewis gwerthoedd sy'n gredadwy, ceidwadol ac yn briodol i natur a graddfa'r canlyniad sy'n cael ei asesu. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr amcangyfrifon gwerth cymdeithasol yn parhau i fod yn gadarn ac yn amddiffynadwy o fewn asesiad strategol ledled y sir.

6.4 Trin ychwanegoldeb a chyfyngiadau

Fel gyda'r asesiad economaidd, ni ddylid dehongli'r amcangyfrifon gwerth cymdeithasol ariannol fel mesurau union. Maent yn cynrychioli amcangyfrifon cadarn yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ac ar y defnydd o fframweithiau prisio cydnabyddedig. Wrth gymhwyso mesurau cyfatebol, mae'n bwysig ystyried i ba raddau y mae canlyniadau yn wirioneddol ychwanegol, y gyfran y gellir ei briodoli i weithgarwch diwylliannol, a pha mor amlwg y gall buddion orgyffwrdd ar draws categorïau canlyniadau.

Yn unol â hynny, mae'r asesiad wedi'i arwain gan egwyddorion pwysau marw, dadleoli, gollyngiadau, priodoli a chymesuredd. Er nad oes modd arsylwi ar bob canlyniad yn uniongyrchol ar lefel leol, mae'r defnydd o fframweithiau sefydledig a gwirio synhwyrau gofalus yn erbyn tystiolaeth leol yn darparu sail gadarn ar gyfer amcangyfrif graddfa'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchir gan y sector diwylliannol yng Ngwynedd.

Gyda'i gilydd, mae'r ffynonellau data a'r mesurau cyfatebol hyn yn darparu'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r asesiad o sector diwylliannol Gwynedd. Maent yn cefnogi dealltwriaeth gyfunol o sut mae diwylliant yn cyfrannu at weithgarwch economaidd, cyflogaeth, gwariant ymwelwyr, lles, hunaniaeth, a gwytnwch cymunedol ledled y sir.

7. CASGLIADAU

Mae'r asesiad hwn yn dangos bod y sector diwylliannol yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Gwynedd. Mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif bod gweithgarwch diwylliannol yn cynhyrchu effaith economaidd flynyddol o £316.07 miliwn, sy'n cynnwys effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig ar draws y sir. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod diwylliant nid yn unig yn rhan bwysig o hunaniaeth a threftadaeth Gwynedd, ond hefyd yn sector economaidd sylweddol sy'n cefnogi cyflogaeth, busnesau, gwariant ymwelwyr, a gwytnwch economaidd ehangach.

Mae'r asesiad yn tynnu sylw at amrywiaeth economi ddiwylliannol Gwynedd. Mae atyniadau treftadaeth, amgueddfeydd, archifau, celfyddydau perfformio, busnesau creadigol, celfyddydau gweledol, llyfrgelloedd, a diwydiannau crefft yn gwneud cyfraniadau pwysig, gyda'i gilydd yn cefnogi ecosystem ddiwylliannol fywiog a rhyng-gysylltiedig. Mae manteision economaidd y sector yn ymestyn ymhell y tu hwnt i sefydliadau unigol, gan gynhyrchu gwerth ychwanegol trwy gadwyni cyflenwi lleol, gwariant gweithwyr, a mwy o weithgarwch o fewn yr economi ymwelwyr.

Ochr yn ochr â'r effeithiau economaidd hyn, mae'r asesiad ehangach yn nodi gwerth cymdeithasol sylweddol sy'n deillio o gyfranogiad diwylliannol, gan gynnwys gwelliannau mewn lles, addysg, cydlyniant cymunedol a chadw hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Gwynedd a'r iaith Gymraeg. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd diwylliant fel cyfrannwr trawsbynciol i uchelgeisiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y sir.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn darparu sail gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau a buddsoddiad yn y dyfodol. Mae'n dangos bod cefnogaeth barhaus i'r sector diwylliannol yn cynrychioli buddsoddiad yn economi ehangach Gwynedd, gan helpu i gynnal swyddi, denu ymwelwyr, cryfhau busnesau lleol, a gwella atyniad y sir fel lle i fyw, gweithio ac ymweld.

Bydd y canfyddiadau hefyd yn llywio datblygiad Cynllun Gweithredu Diwylliant Gwynedd, gan ddarparu sail dystiolaeth lle gellir nodi blaenoriaethau, targedu buddsoddiad a monitro cynnydd dros amser. Wrth i'r Rhwydwaith Diwylliant barhau i ddatblygu a sefydliadau weithio gyda'i gilydd ar draws y sir, mae cyfle sylweddol i adeiladu ar y cryfderau hyn, gwneud y mwyaf o'r effaith economaidd a sicrhau bod diwylliant yn parhau i chwarae rhan flaenllaw yn ffyniant hirdymor Gwynedd.

ATODIAD 1: FFYNONELLAU A MESURAU CYFATBEOL A DDEFNYDDIWYD YN YR ASESIAD

Trosolwg

Mae'r atodiad hwn yn nodi'r prif ffynonellau a ddefnyddiwyd wrth asesu gwerth economaidd a chymdeithasol sector diwylliannol Gwynedd. Y bwriad yw darparu pwynt cyfeirio tryloyw ar gyfer y sail dystiolaeth sy'n sylfaen i'r adroddiad, gan gynnwys y ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn yr asesiad economaidd a'r fframweithiau a ddefnyddir i ddewis a chymhwyso mesurau cyfatebol o fewn yr asesiad gwerth cymdeithasol.

Ffynonellau tystiolaeth economaidd

Mae'r asesiad economaidd yn tynnu ar gyfuniad o ystadegau swyddogol, tystiolaeth benodol i Gymru, astudiaethau sector, a gwybodaeth sefydliadol leol. Mae'r ffynonellau hyn wedi cael eu defnyddio i amcangyfrif yr effeithiau economaidd uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig a gynhyrchir gan weithgarwch diwylliannol yng Ngwynedd.

Ystadegau swyddogol a setiau data economaidd cenedlaethol

- **Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Arolwg Busnes Blynyddol (ABS).** Defnyddir i ddarparu tystiolaeth feincnodi ar drosiant a gwerth ychwanegol gros bras ar draws gweithgareddau perthnasol y celfyddydau, diwylliant a'r diwydiant creadigol.
- **Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES).** Defnyddir i lywio rhagdybiaethau ar lefelau cyflogaeth a strwythur y gweithlu ar draws sectorau perthnasol.
- **Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Tablau Cyflenwad-Defnydd a pherthnasoedd mewnbwn-allbwn.** Defnyddir i gefnogi'r amcangyfrif o effeithiau lluosydd anuniongyrchol ac ysgogedig trwy gadwyni cyflenwi a gwariant cartrefi.
- **StatsCymru / Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Gwerth Ychwanegol Gros Rhanbarthol (Cytbwys) yn ôl awdurdod lleol.** Fe'i defnyddir i ddarparu cyd-destun economaidd ehangach yn Adran 4.6, gan feincnodi cyfraniad y sector diwylliannol yn erbyn cyfanswm GYC Gwynedd a Chymru (2023, dros dro).
- **Nomis, Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur, Proffil y Farchnad Lafur - Gwynedd.** Defnyddir ar gyfer cyfanswm y ffigur cyflogaeth yn y gweithle ar gyfer Gwynedd a ddyfynnir yn Adran 4.6.

Tystiolaeth benodol i Gymru

- **Llywodraeth Cymru, Adolygiad o Sylfaen Dystiolaeth y Sector Diwylliant yng Nghymru.** Defnyddir i ddarparu trosolwg penodol i Gymru o'r data sydd ar gael ar y sectorau celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau a threftadaeth, ac i nodi'r ffynonellau tystiolaeth mwyaf perthnasol ar gyfer yr asesiad.

- **Alma Economics, Adolygiad o Sylfaen Dystiolaeth y Sector Diwylliant yng Nghymru.** Defnyddir fel deunydd ategol ar y cwmpas, strwythur a bylchau tystiolaeth o fewn sylfaen dystiolaeth ddiwylliannol Cymru.
- **Tystiolaeth diwylliant a sector creadigol Llywodraeth Cymru.** Defnyddir i ddarparu gwybodaeth gyd-destunol am economi ddiwylliannol a chreadigol ehangach Cymru ac i sicrhau bod asesiad Gwynedd yn cyd-fynd â thystiolaeth genedlaethol a dealltwriaeth bolisi.

Astudiaethau sector ac adroddiadau meincnodi

- **Cyngor Celfyddydau Cymru, Adroddiad Effaith Economaidd.** Fe'i defnyddir fel meincnod yng Nghymru ar gyfraniad economaidd gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol ac fel pwynt cyfeirio methodolegol ar gyfer strwythur yr asesiad.
- **Cyngor Celfyddydau Lloegr / Canolfan Economeg ac Ymchwil Busnes (Cebr), Cyfraniad diwydiant y celfyddydau a diwylliant i economi'r DU.** Defnyddir fel ffynhonnell feincnod ar drin effeithiau economaidd uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig ac ar gyfraniad ehangach diwylliant i allbwn economaidd, cyflogaeth a gwerth ychwanegol.
- **Tystiolaeth sector ychwanegol ar ddiwylliant a lle.** Economi ddiwylliannol ehangach ac astudiaethau treftadaeth wedi cael eu defnyddio fel ffynonellau gwirio synnwyr lle bo hynny'n berthnasol i ragdybiaethau economi ymwelwyr, effeithiau lleoedd a'r berthynas ehangach rhwng diwylliant a pherfformiad economaidd lleol.

Data lleol a sefydliadol

- **Data ariannol a gweithredol a ddarperir gan sefydliadau diwylliannol yng Ngwynedd.** Defnyddir, lle mae ar gael, i lywio amcangyfrifon o gyflogaeth, trosiant, gwariant, presenoldeb, cyfranogiad, derbyniadau, grantiau, ac agweddau eraill ar weithgarwch gweithredol.
- **Cyngor Gwynedd a phartneriaid yn monitro gwybodaeth.** Defnyddir i gefnogi'r ddealltwriaeth o weithgarwch diwylliannol lleol, perfformiad prosiect, a chyrhaeddiad darpariaeth ddiwylliannol.
- **Tystiolaeth i ymwelwyr am economi a threftadaeth ar gyfer Gwynedd.** Defnyddir i lywio rhagdybiaethau sy'n ymwneud â thwristiaeth, ymddygiad ymwelwyr, atyniadau diwylliannol, a gwariant cysylltiedig o fewn yr economi leol.

Ffynonellau gwerth cymdeithasol a phrisio cyfatebol

Mae'r asesiad gwerth cymdeithasol yn cymhwyso fframweithiau prisio cydnabyddedig a mesurau cyfatebol i amcangyfrif gwerth ariannol canlyniadau nad ydynt yn cael eu prisio'n uniongyrchol o fewn marchnadoedd. Mae'r rhain yn cynnwys canlyniadau sy'n ymwneud â lles, cyfranogiad, hunaniaeth, gwirfoddoli, addysg, gwytnwch cymunedol, a lle.

Fframweithiau gwerthuso a phrisio craidd

- **Trysorlys EF, Y Llyfr Gwyrdd, a chanllawiau gwerthuso cysylltiedig.** Defnyddir fel y fframwaith trosfwaol ar gyfer trin canlyniadau nad ydynt yn y farchnad, cymesuredd, ychwanegoldeb a phrisio o fewn arfarniad sector cyhoeddus.
- **Dulliau prisio lles.** Defnyddir i gefnogi gwerth ariannol canlyniadau fel lles gwell, llai o ynysu, mwy o hyder, perthyn, a chyfranogiad, lle nad oes pris marchnad uniongyrchol yn bodoli.

Fframweithiau mesur cyfatebol gwerth cymdeithasol

- **TOMs Cenedlaethol (Themâu, Canlyniadau a Mesurau).** Defnyddir fel fframwaith cydnabyddedig ar gyfer mesur a gwerth ariannol canlyniadau gwerth cymdeithasol, gan gynnwys cyflogaeth, gwirfoddoli, sgiliau, cydlyniant cymunedol, ac effeithiau amgylcheddol.
- **Safon Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol (NSVS).** Defnyddir fel fframwaith mesur a mesur cyfatebol cyfoes i gefnogi dewis gwerthoedd ar gyfer ystod o ganlyniadau cymdeithasol sy'n berthnasol i'r sector diwylliannol.
- **Banc Gwerth Cymdeithasol a llyfrgelloedd prisio lles cysylltiedig.** Defnyddir i nodi gwerthoedd dirprwyol addas ar gyfer canlyniadau fel lles meddyliol, cysylltiad cymdeithasol, hyder, llai o ynysu, a gwelliannau ansawdd bywyd ehangach.

Canllawiau gwerth cymdeithasol diwylliant penodol

- **Gwerth cymdeithasol Prosiectau Diwylliant, Treftadaeth, Chwaraeon a Chymuned.** Defnyddir fel canllawiau arfer da ar gymhwyso mesur gwerth cymdeithasol mewn lleoliadau diwylliannol a threftadaeth.
- **Tueddiadau'r Dyfodol: Creu a mesur gwerth cymdeithasol yn y sector diwylliannol.** Defnyddir fel canllawiau ategol ar drin cyfranogiad diwylliannol, hunaniaeth, lles, a chanlyniadau sector-benodol eraill.
- **Ymchwil ar greu a mesur gwerth cymdeithasol yn y sector diwylliannol.** Defnyddir i lywio'r dull cysyniadol o werth cymdeithasol diwylliannol, gan gynnwys prisio perthyn, budd cymunedol, hunaniaeth, a chanlyniadau diwylliannol ehangach nad ydynt yn y farchnad.

Categorïau mesur cyfatebol a ddefnyddiwyd yn yr asesiad

Mae mesurau dirprwyol wedi'u cymhwyso ar draws y prif feysydd gwerth cymdeithasol a nodwyd yn asesiad Gwynedd. Mae'r categorïau hyn wedi'u crynhoi isod.

Parth	Meysydd cyfatebol dangosol	Prif fathau o ffynonellau
Economaidd	Cyflogaeth, gweithgarwch busnes lleol, gwariant ymwelwyr, effeithiau	TOMs cenedlaethol, NSVS, astudiaethau meincnod

Parth	Meysydd cyfatebol dangosol	Prif fathau o ffynonellau
	cadwyn gyflenwi	economaidd local.gov+2
Iechyd a lles	Gwell lles, llai o bryder, llai o ynysu, hyder, boddhad bywyd	Llyfr Gwyrdd, prisio lles, Banc Gwerth Cymdeithasol rics+2
Cymdeithasol a chymunedol	Gwirfoddoli, cyfranogiad, cyfalaf cymdeithasol, cydlyniant, perthyn	TOMs cenedlaethol, NSVS, canllawiau diwylliant-benodol local.gov+2
Addysg a Sgiliau	Dysgu, cyrhaeddiad, cyflogadwyedd, datblygiad iaith	Llyfr Gwyrdd, NSVS, fframweithiau dirprwy gwerth cymdeithasol rics+1
Amgylcheddol a lle	Stiwardiaeth treftadaeth, ansawdd amgylcheddol, cyflwr lle, ymdeimlad o le	Canllawiau diwylliant a threftadaeth, fframweithiau prisio dirprwyol cwch diwylliant+1
Diwylliannol a hunaniaeth	Balchder mewn lle, unigryw ddiwylliannol, iaith Gymraeg, hunaniaeth a pherthyn	Canllawiau ac ymchwil gwerth cymdeithasol y sector diwylliant ukri+2

Asesiad Effaith Cyfansawdd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
    - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
    - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
    - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Asesiad 29/10/2026: Cynllun Diwylliant Gwynedd

Awdur: Roland Wyn Evans (ECON A CMND)

Teitl Swydd: Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned

Dyddiad: 10/29/2026

Fersiwn: Drafft 3

CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Cynlluniau tymor canolig i'r tymor hir (e.e. cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, darparu gwasanaeth a chynlluniau gwella)

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Datblygu Gweledigaeth, Egwyddorion, Rhwydwaith a Chynllun Gweithredu ar gyfer diwylliant yng Ngwynedd. Bydd y Cynllun yn sicrhau bod Diwylliant yng Ngwynedd yn cydweithio i un weledigaeth ac egwyddorion a chynllun gweithredu fydd yn sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd.

Y weledigaeth ddrafft sydd wedi ei chyd-greu ydi:

"Mae diwylliant yng Ngwynedd yn hanfodol, yn arloesol ac wedi'i wreiddio yn ein cymunedau. Mae'n rhoi lliw i fywyd, yn hyrwyddo lles, ac yn adlewyrchu ein hunaniaeth amrywiol a'n Cymreictod yn hyderus i Gymru a'r byd.

Mae diwylliant yng Ngwynedd yn fyrlymus ac yn fyw, a gyda'n gilydd rydym eisiau cynnal, cefnogi a thyfu diwylliant sy'n perthyn i bawb - heddiw ac i'r dyfodol".

Y 6 egwyddor drafft sydd wedi eu cyd-greu ydi:

1. Balch o'n Hunaniaeth, Treftadaeth a'r Gymraeg

Mae diwylliant yn dathlu ac yn hyrwyddo hunaniaeth unigryw Gwynedd, ei threftadaeth, creadigrwydd a'r Gymraeg, gan eu rhannu'n hyderus gyda Chymru a'r byd.

2. Diwylliant wrth Wraidd Bywyd

Mae diwylliant yn rhan hanfodol o iechyd, lles, addysg a hapusrwydd pobl Gwynedd, gan gyfoethogi bywyd bob dydd a chreu cyfleoedd i fwynhau, dysgu a chymdeithasu.

3. Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig

Mae diwylliant yn perthyn i bawb. Mae'n groesawgar a hygyrch, gan feithrin rhwydweithiau cryf, hyder, parch ac ymdeimlad o berthyn.

4. Uchelgeisiol, Heriol a Beiddgar

Mae diwylliant yn ysbrydoli syniadau newydd, yn croesawu neu'n herio newid, yn gosod safonau uchel ac yn manteisio ar gyfleoedd a buddsoddiad i wireddu a mesur effaith uchelgais.

5. Cyfoethogi Pobl a Lleoedd

Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd.

6. Cynaliadwy a Chyfrifol dros Genedlaethau'r Dyfodol

Mae diwylliant yn gwarchod ac yn cyfoethogi adnoddau, yr amgylchedd a rhinweddau arbennig Gwynedd, gan sicrhau buddion hirdymor.

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

Ymgynghorwyd yn helaeth gyda sector ddiwylliant Gwynedd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o nifer o gymunedau a rhai gyda nodweddion gwarchodedig. Rhoddwyd gwahoddiad agored i rai a diddordeb fynychu cyfarfod cyhoeddus i ddathlu diwylliant Gwynedd ac i adnabod blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Digwyddiad Diwylliant Gwynedd + Gweithdy	18 Chwefror 2025	Cynhaliwyd digwyddiad un-dydd i dderbyn barn gychwynnol ar sut i ddatblygu Cynllun Diwylliant i Wynedd
Gweithdy mirieinio gweledigaeth ac egwyddorion	15 Hydref 2025	Cynhaliwyd gweithdy yn Neuadd Dwyfor i drafod gweledigaeth ac egwyddorion drafft. Cytunwyd i sefydlu Pwyllgor Llywio.
Digwyddiad Diwylliant Gwynedd: Er Lles Pawb	04 Mawrth 2026	Digwyddiad i'r sector i rannu gwybodaeth am y weledigaeth a'r egwyddorion.
Cyfarfodydd Grwp Llywio Diwylliant Gwynedd	07 Gorffennaf 2026	Cyfarfodydd ar-lein ac mewn person yn Storiel i drafod a chytuno ar Gynllun Gweithredu wedi' flaenoriaethu.

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

	Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol	Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Mae 96.2% o bobl Gwynedd yn adnabod eu hunain fel Gwyn. Mae 66.6% yn nodi eu bod wedi eu geni yng Nghymru a 59% yn nodi eu bod yn uniaethu fel person Cymraeg. Mae ddiwylliant yn gallu cyffwrdd pobl o bob cefndir ac o'i weithredu'n gynhwysol mae'r sector a gwasanaethau diwylliannol y Cyngor yn cefnogi mynediad, cyfranogiad a chynhwysiad sy'n agored i bawb. Ar hyn o bryd nid oes un weledigaeth nac egwyddorion sy'n clymu'r sector ynghyd ac yn datgan ein cenhadaeth a'n hamcanion. Bydd rhain yn ogystal â Chynllun Gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau cyd-weithredu a chyd-weithio effeithlon er lles pawb o bob cefndir.	Mae'r sector yn flaengar wrth gynnal gweithgareddau rhwng grwpiau ethnig a chyflwyno cyfleon i ddathlu a chydnabod gwahaniaethau hil, er enghraifft trwy weithgareddau yn ein hamgueddfeydd, orielau a'n canolfannau megis theatrau, llyfrgelloedd, sinemau ayb. Mae diwylliant yn cyfrannu at gydlyniad cymunedol a dod a phobl at ei gilydd. Bydd gweledigaeth, egwyddorion, cynllun gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau ein bod yn cyd-weithio yn effeithlon yn y dyfodol er lles pobl o bob cefndir. Mae'r weledigaeth yn datgan yn glir: ***"Mae diwylliant yng Ngwynedd yn hanfodol, yn arloesol ac wedi'i wreiddio yn ein cymunedau. Mae'n rhoi lliw i fywyd, yn hyrwyddo lles, ac yn adlewyrchu ein hunaniaeth amrywiol, y Gymraeg a'n Cymreictod yn hyderus i Gymru a'r byd".*** ***"Mae ein diwylliant yn fyrlymus ac yn fyw. Wedi ei wreiddio yn y Gymraeg ac yn perthyn i bawb, gyda'n gilydd rydym am hybu, dathlu a chefnogi ein diwylliant - heddiw ac i'r dyfodol*** Mae egwyddorion pendant - yn enwedig o safbwynt cydraddoldeb gan gynnwys:

		Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig Mae diwylliant yn perthyn i bawb. Mae'n groesawgar a hygyrch, gan feithrin rhwydweithiau cryf, hyder, parch ac ymdeimlad o berthyn. **Cyfoethogi Pobl a Lleoedd** Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd.
Anabledd	Mae bron i 1 person ym mhob 5 (19%) yn adnabod eu hunain fel person anabl ac mae bron i 10% yn fwy o ferched na dynion yn anabl. Mae 74% o bobl Gwynedd sydd ddim yn anabl mewn gwaith o'i gymharu â 43% o bobl anabl, ffigwr tebyg i weddill Cymru. Mae ddiwylliant yn gallu cyffwrdd pobl o bob cefndir ac o'i weithredu'n gynhwysol mae'r sector a gwasanaethau diwylliannol y Cyngor yn cefnogi mynediad, cyfranogiad a chynhwysiad sy'n agored i bawb. Ar hyn o bryd nid oes un weledigaeth nac egwyddorion sy'n clymu'r sector ynghyd ac yn datgan ein cenhadaeth a'n hamcanion. Bydd rhain yn ogystal â Chynllun Gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau cyd-	Mae'r sector diwylliant yn arweinydd wrth gefnogi pobl anabl a chynnal gweithgareddau sy'n hybu pobl anabl a chydlyniad cymunedol a chymdeithasol er enghraifft trwy weithgareddau drama, cerdd neu lenyddiaeth. Bydd gweledigaeth, egwyddorion, cynllun gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau ein bod yn cyd-weithio yn effeithlon yn y dyfodol er lles pobl o bob cefndir. Mae egwyddorion pendant - yn enwedig o safbwynt cydraddoldeb gan gynnwys: **Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig** Mae diwylliant yn perthyn i bawb. Mae'n groesawgar a hygyrch, gan feithrin rhwydweithiau cryf, hyder, parch ac ymdeimlad o berthyn. **Cyfoethogi Pobl a Lleoedd**

	weithredu a chyd-weithio effeithlon er lles pawb o bob cefndir.	Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd.
Rhyw	Mae dros 51% o bobl Gwynedd yn fenywod a 96% o deuluoedd rhieni sengl Gwynedd yn cael eu harwain gan fenyw. Mae ddiwylliant yn gallu cyffwrdd pobl o bob cefndir ac o'i weithredu'n gynhwysol mae'r sector a gwasanaethau diwylliannol y Cyngor yn cefnogi mynediad, cyfranogiad a chynhwysiad sy'n agored i bawb. Ar hyn o bryd nid oes un weledigaeth nac egwyddorion sy'n clymu'r sector ynghyd ac yn datgan ein cenhadaeth a'n hamcanion. Bydd rhain yn ogystal â Chynllun Gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau cyd-weithredu a chyd-weithio effeithlon er lles pawb o bob cefndir.	Mae'r sector yn cynnal nifer o weithgareddau sy'n targedu merched, dynion ifanc ayb ac yn ceisio hybu hyder a chydlyniad cymdeithasol. Bwriedir parhau gyda'r gweithgareddau hyn. Bydd gweledigaeth, egwyddorion, cynllun gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau ein bod yn cyd-weithio yn effeithlon yn y dyfodol er lles pobl o bob cefndir. Mae egwyddorion pendant - yn enwedig o safbwynt cydraddoldeb gan gynnwys: **Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig** Mae diwylliant yn perthyn i bawb. Mae'n groesawgar a hygyrch, gan feithrin rhwydweithiau cryf, hyder, parch ac ymdeimlad o berthyn. **Cyfoethogi Pobl a Lleoedd** Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd.
Oedran	Mae mwy o unigolion dan 25 yng Ngwynedd nag unrhyw sir arall yn y gogledd (28.7%). Mae'r nifer o bobl dros 65 ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer gogledd Cymru ond mae'r ganran o bobl yn yr oedran yma yn cynyddu, gyda chynnydd os 8.6% rhwng cyfrifiad 2011 a 2021, tra mae'r boblogaeth	Mae gweithgareddau diwylliannol ar draws Gwynedd yn cael eu Cynnal ar gyfer ystod eang o oedrannau ac hefyd yn ceisio pontio cenedlaethau. Bydd gweledigaeth, egwyddorion, cynllun gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau ein bod yn cyd-weithio yn effeithlon yn y dyfodol er lles pobl o bob cefndir.

	yn gyffredinol wedi lleihau (yn wahanol i ran fwyaf o Gymru). Mae ddiwylliant yn gallu cyffwrdd pobl o bob cefndir ac o'i weithredu'n gynhwysol mae'r sector a gwasanaethau diwylliannol y Cyngor yn cefnogi mynediad, cyfranogiad a chynhwysiad sy'n agored i bawb. Ar hyn o bryd nid oes un weledigaeth nac egwyddorion sy'n clymu'r sector ynghyd ac yn datgan ein cenhadaeth a'n hamcanion. Bydd rhain yn ogystal â Chynllun Gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau cyd-weithredu a chyd-weithio effeithlon er lles pawb o bob cefndir.	Mae egwyddorion pendant - yn enwedig o safbwynt cydraddoldeb gan gynnwys: **Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig** Mae diwylliant yn perthyn i bawb. Mae'n groesawgar a hygyrch, gan feithrin rhwydweithiau cryf, hyder, parch ac ymdeimlad o berthyn. **Cyfoethogi Pobl a Lleoedd** Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd.
Crefydd a Chred	Mae 46.2% o bobl Gwynedd yn adnabod eu hunain fel Cristnogion, ac mae hynny'r canran isaf yng Ngogledd Cymru. Dywedodd 44.2% fod ganddyn nhw ddim crefydd, sef y canran uchaf yn y gogledd. Roedd y canran wnaeth ddim ateb hefyd yr uchaf yn y rhanbarth, sef 7.5%. Mae 1% o'r boblogaeth yn Foslemiaid. Mae ddiwylliant yn gallu cyffwrdd pobl o bob cefndir ac o'i weithredu'n gynhwysol mae'r sector a gwasanaethau diwylliannol y Cyngor yn cefnogi mynediad, cyfranogiad a chynhwysiad sy'n agored i bawb. Ar hyn o bryd nid oes un weledigaeth nac egwyddorion sy'n clymu'r sector ynghyd ac yn datgan ein cenhadaeth a'n hamcanion. Bydd rhain yn ogystal â Chynllun Gweithredu	Cynhelir nifer o weithgareddau ar draws y sector er mwyn rhannu dealltwriaeth a gwybodaeth am grefydd a chred, yn cynnwys arddangosfeydd, perfformiadau drama, dawns a cherddoriaeth ac mae'r rhain yn magu perthnasau rhyng-grefydd a chred ac yn gwella cydlyniad cymdeithasol. Bydd gweledigaeth, egwyddorion, cynllun gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau ein bod yn cyd-weithio yn effeithlon yn y dyfodol er lles pobl o bob cefndir. Mae egwyddorion pendant - yn enwedig o safbwynt cydraddoldeb gan gynnwys: **Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig** Mae diwylliant yn perthyn i bawb. Mae'n groesawgar a hygyrch, gan feithrin rhwydweithiau cryf, hyder, parch ac ymdeimlad o berthyn. **Cyfoethogi Pobl a Lleoedd**

	a rhwydwaith newydd yn sicrhau cyd-weithredu a chyd-weithio effeithlon er lles pawb o bob cefndir.	Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd.
Cyfeiriadedd Rhywiol	Mae llai o bobl yng Ngwynedd yn adnabod eu hunain fel heterorywiol neu strêt nag unrhyw un o siroedd y Gogledd (87.3% - cyfartaledd y gogledd 89.4%). Mae yna fwy o bobl gyda'r hunaniaeth Deurywiol (1.6% - canran y gogledd 1%). Mae'r nifer sydd wedi adnabod eu hunain yn Hoyw neu Lesbiaidd yn debyg i'r chanran yn y gogledd (1.3%). Mae ddiwylliant yn gallu cyffwrdd pobl o bob cefndir ac o'i weithredu'n gynhwysol mae'r sector a gwasanaethau diwylliannol y Cyngor yn cefnogi mynediad, cyfranogiad a chynhwysiad sy'n agored i bawb. Ar hyn o bryd nid oes un weledigaeth nac egwyddorion sy'n clymu'r sector ynghyd ac yn datgan ein cenhadaeth a'n hamcanion. Bydd rhain yn ogystal â Chynllun Gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau cyd-weithredu a chyd-weithio effeithlon er lles pawb o bob cefndir.	Fel gyda grwpiau gyda nodweddion eraill, mae'r sector diwylliant yn adnabyddus am roi llwyfan i ddathlu amrywiaeth o ran cyfeiriadedd rhywiol megis clybiau darllen lliwgar, gweithgareddau mis balchder a digwyddiadau amrywiol eraill. Bydd gweledigaeth, egwyddorion, cynllun gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau ein bod yn cyd-weithio yn effeithlon yn y dyfodol er lles pobl o bob cefndir. Mae egwyddorion pendant - yn enwedig o safbwynt cydraddoldeb gan gynnwys: **Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig** Mae diwylliant yn perthyn i bawb. Mae'n groesawgar a hygyrch, gan feithrin rhwydweithiau cryf, hyder, parch ac ymdeimlad o berthyn. **Cyfoethogi Pobl a Lleoedd** Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd.
Ail-bennu rhywedd	Mae 91.7% o bobl yng Ngwynedd yn dweud fod eu hunaniaeth rhywedd yr un rhyw a'r un gofrestrwyd ar eu genedigaeth. Mae'r cyfradd sydd â hunaniaeth dyn traws, dynes traws a bob rhyw arall yr un faint â'r gogledd (0.1% yr un).	Fel gyda grwpiau gyda nodweddion eraill, mae'r sector diwylliant yn adnabyddus am roi llwyfan i ddathlu amrywiaeth megis clybiau darllen lliwgar, gweithgareddau mis balchder a digwyddiadau amrywiol eraill megis dramâu.

	Mae ddiwylliant yn gallu cyffwrdd pobl o bob cefndir ac o'i weithredu'n gynhwysol mae'r sector a gwasanaethau diwylliannol y Cyngor yn cefnogi mynediad, cyfranogiad a chynhwysiad sy'n agored i bawb. Ar hyn o bryd nid oes un weledigaeth nac egwyddorion sy'n clymu'r sector ynghyd ac yn datgan ein cenhadaeth a'n hamcanion. Bydd rhain yn ogystal â Chynllun Gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau cyd-weithredu a chyd-weithio effeithlon er lles pawb o bob cefndir.	Bydd gweledigaeth, egwyddorion, cynllun gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau ein bod yn cyd-weithio yn effeithlon yn y dyfodol er lles pobl o bob cefndir. Mae egwyddorion pendant - yn enwedig o safbwynt cydraddoldeb gan gynnwys: **Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig** Mae diwylliant yn perthyn i bawb. Mae'n groesawgar a hygyrch, gan feithrin rhwydweithiau cryf, hyder, parch ac ymdeimlad o berthyn. **Cyfoethogi Pobl a Lleoedd** Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd.
Priodas a Phartneriaetgh Sifil	Mae canran uwch o bobl yng Ngwynedd sydd erioed wedi priodi neu fod mewn partneriaeth sifil (40%) nag yng ngweddill siroedd y gogledd. Felly mae yna lai o bobl sy'n briod (41.5%), wedi gwahanu (1.7%) neu wedi ysgaru neu â phartneriaeth sifil wedi ei ddiddymu (9.2%). Mae ddiwylliant yn gallu cyffwrdd pobl o bob cefndir ac o'i weithredu'n gynhwysol mae'r sector a gwasanaethau diwylliannol y Cyngor yn cefnogi mynediad, cyfranogiad a chynhwysiad sy'n agored i bawb. Ar hyn o bryd nid oes un weledigaeth nac egwyddorion sy'n clymu'r sector ynghyd ac yn datgan ein cenhadaeth a'n hamcanion. Bydd rhain yn ogystal â Chynllun Gweithredu	Cynhelir gweithgareddau sy'n cydnabod ac yn archwilio'r maes priodas a phartneriaeth sifil gan y sector trwy e.e. ddramâu, lenyddiaeth neu arddangosfeydd. Bydd gweledigaeth, egwyddorion, cynllun gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau ein bod yn cyd-weithio yn effeithlon yn y dyfodol er lles pobl o bob cefndir. Mae egwyddorion pendant - yn enwedig o safbwynt cydraddoldeb gan gynnwys: **Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig** Mae diwylliant yn perthyn i bawb. Mae'n groesawgar a hygyrch, gan feithrin rhwydweithiau cryf, hyder, parch ac ymdeimlad o berthyn. **Cyfoethogi Pobl a Lleoedd**

	a rhwydwaith newydd yn sicrhau cyd-weithredu a chyd-weithio effeithlon er lles pawb o bob cefndir.	Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd.
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Mae ddiwylliant yn gallu cyffwrdd pobl o bob cefndir ac o'i weithredu'n gynhwysol mae'r sector a gwasanaethau diwylliannol y Cyngor yn cefnogi mynediad, cyfranogiad a chynhwysiad sy'n agored i bawb. Ar hyn o bryd nid oes un weledigaeth nac egwyddorion sy'n clymu'r sector ynghyd ac yn datgan ein cenhadaeth a'n hamcanion. Bydd rhain yn ogystal â Chynllun Gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau cyd-weithredu a chyd-weithio effeithlon er lles pawb o bob cefndir.	Bydd gweledigaeth, egwyddorion, cynllun gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau ein bod yn cyd-weithio yn effeithlon yn y dyfodol er lles pobl o bob cefndir. Mae'r weledigaeth yn datgan yn glir: "Mae diwylliant yng Ngwynedd yn hanfodol, yn arloesol ac wedi'i wreiddio yn ein cymunedau. Mae'n rhoi lliw i fywyd, yn hyrwyddo lles, ac yn adlewyrchu ein hunaniaeth amrywiol a'n Cymreictod yn hyderus i Gymru a'r byd. Mae diwylliant yng Ngwynedd yn fyrlymus ac yn fyw, a gyda'n gilydd rydym eisiau cynnal, cefnogi a thyfu diwylliant sy'n perthyn i bawb - heddiw ac i'r dyfodol." Mae egwyddorion pendant - yn enwedig o safbwynt cydraddoldeb gan gynnwys: **Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig** Mae diwylliant yn perthyn i bawb. Mae'n groesawgar a hygyrch, gan feithrin rhwydweithiau cryf, hyder, parch ac ymdeimlad o berthyn. **Cyfoethogi Pobl a Lleoedd** Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd.
Iaith Gymraeg	Mae diwylliant a'r Gymraeg yn rhan annatod o'u gilydd mewn ardal fel Gwynedd - ond	Bydd gweledigaeth, egwyddorion, cynllun gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau ein bod yn cyd-weithio

	eto, nid oes Cynllun yn tynnu'r sector at ei gilydd ac yn pwysleisio'r cyswllt yn bodoli ar hyn o bryd. Mae diwylliant Gwynedd yn cynnal y Gymraeg o fewn ein cymunedau, yn creu cyfleoedd i ddathlu, defnyddio a chlywed y Gymraeg mewn sefyllfaoedd naturiol ac yn hybu bywiogrwydd a chreadigrwydd. Cafwyd trafodaeth benodol am y Gymraeg wrth ymgynghori yn ein digwyddiadau ac fe adnabuwyd y Gymraeg fel blaenoriaeth amlwg ar gyfer unrhyw gynllun yn y dyfodol. Darparwyd cyfieithu yn ein cyfarfodydd a gweithdai fel bod pawb yn medru dilyn y sgwrs a chyfrannu yn eu dewis iaith. Mae pob dogfen yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.	yn effeithlon yn y dyfodol er lles pobl o bob cefndir. Mae'r weledigaeth yn datgan yn glir: "Mae diwylliant yng Ngwynedd yn hanfodol, yn arloesol ac wedi'i wreiddio yn ein cymunedau. Mae'n rhoi lliw i fywyd, yn hyrwyddo lles, ac yn adlewyrchu ein hunaniaeth amrywiol a'n Cymreictod yn hyderus i Gymru a'r byd. Mae diwylliant yng Ngwynedd yn fyrlymus ac yn fyw, a gyda'n gilydd rydym eisiau cynnal, cefnogi a thyfu diwylliant sy'n perthyn i bawb - heddiw ac i'r dyfodol." Mae egwyddorion pendant - yn enwedig o safbwynt cydraddoldeb gan gynnwys: **Balch o'n Hunaniaeth, Treftadaeth a'r Gymraeg** Mae diwylliant yn dathlu ac yn hyrwyddo hunaniaeth unigryw Gwynedd, ei threftadaeth, creadigrwydd a'r Gymraeg, gan eu rhannu'n hyderus gyda Chymru a'r byd. Trwy'r gwaith, mae cyfleon i wella cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n byw yng Ngwynedd / amlygu'r cyfleoedd er mwyn defnyddio'r Gymraeg. Mae posibilrwydd o leihau mudo o Wynedd gan gynyddu/amlygu cyfleoedd swyddi, a'r amrywiaeth o fewn y maes diwylliant drwy'r Gymraeg yng Ngwynedd.
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Mae'r sector diwylliannol yn rhan sylweddol o economi Gwynedd, yn llawer mwy na'r hyn y mae nifer o bobl yn ei sylweddoli, ac mae'n cael ei yrru gan waith gweithwyr proffesiynol creadigol ledled y sir. Mae dadansoddiad o werth economaidd yn dangos bod y sector diwylliannol yng	Mae'r sector diwylliant yn ymwybodol iawn o'r angen i ehangu mynediad ar gyfer pob rhan o'r gymuned, yn enwedig rhai mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol. Mae esiamplau'n cynnwys cynlluniau gostyngiadau mynediad, bwrseriaethau i rai hunan-gyflogedig a gweithgareddau sy'n targedu rhai cymunedau o anfantais.

	Ngwynedd yn cynhyrchu cyfraniad economaidd blynyddol amcangyfrifedig o **£316.07 miliwn** ac yn cynhyrchu **£178.02 miliwn** o werth cymdeithasol bob blwyddyn. Mae ddiwylliant yn gallu cyffwrdd pobl o bob cefndir ac o'i weithredu'n gynhwysol mae'r sector a gwasanaethau diwylliannol y Cyngor yn cefnogi mynediad, cyfranogiad a chynhwysiad sy'n agored i bawb. Ar hyn o bryd nid oes un weledigaeth nac egwyddorion sy'n clymu'r sector ynghyd ac yn datgan ein cenhadaeth a'n hamcanion. Bydd rhain yn ogystal â Chynllun Gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau cyd-weithredu a chyd-weithio effeithlon er lles pawb o bob cefndir.	Bydd gweledigaeth, egwyddorion, cynllun gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau ein bod yn cyd-weithio yn effeithlon yn y dyfodol er lles pobl o bob cefndir. Mae egwyddorion pendant - yn enwedig o safbwynt cydraddoldeb gan gynnwys: **Diwylliant wrth Wraidd Bywyd** Mae diwylliant yn rhan hanfodol o iechyd, lles, addysg a hapusrwydd pobl Gwynedd, gan gyfoethogi bywyd bob dydd a chreu cyfleoedd i fwynhau, dysgu a chymdeithasu **Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig** Mae diwylliant yn perthyn i bawb. Mae'n groesawgar a hygyrch, gan feithrin rhwydweithiau cryf, hyder, parch ac ymdeimlad o berthyn. **Cyfoethogi Pobl a Lleoedd** Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd.
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd	Mae ddiwylliant yn gallu cyffwrdd pobl o bob cefndir ac o'i weithredu'n gynhwysol mae'r sector a gwasanaethau diwylliannol y Cyngor yn cefnogi mynediad, cyfranogiad a chynhwysiad sy'n agored i bawb. Ar hyn o bryd nid oes un weledigaeth nac egwyddorion sy'n clymu'r sector ynghyd ac yn datgan ein cenhadaeth a'n hamcanion. Bydd rhain yn ogystal â Chynllun Gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau cyd-	Mae gweithgareddau penodol yn cael eu cynnal i bobl yn y lluoedd arfog a'u teuluoedd. Yn y gorffennol cynhaliwyd diwrnodau cloddio archeolegol a chlirio tyfiant ar safleoedd cofrestredig gyda cyn-filwyr er enghraifft. Bydd gweledigaeth, egwyddorion, cynllun gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau ein bod yn cyd-weithio yn effeithlon yn y dyfodol er lles pobl o bob cefndir. Mae'r weledigaeth yn datgan yn glir: "Mae diwylliant yng Ngwynedd yn hanfodol, yn arloesol ac wedi'i wreiddio yn ein cymunedau. Mae'n

	weithredu a chyd-weithio effeithlon er lles pawb o bob cefndir.	rhoi lliw i fywyd, yn hyrwyddo lles, ac yn adlewyrchu ein hunaniaeth amrywiol a'n Cymreictod yn hyderus i Gymru a'r byd. Mae diwylliant yng Ngwynedd yn fyrlymus ac yn fyw, a gyda'n gilydd rydym eisiau cynnal, cefnogi a thyfu diwylliant sy'n perthyn i bawb - heddiw ac i'r dyfodol." Mae egwyddorion pendant - yn enwedig o safbwynt cydraddoldeb gan gynnwys: **Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig** Mae diwylliant yn perthyn i bawb. Mae'n groesawgar a hygyrch, gan feithrin rhwydweithiau cryf, hyder, parch ac ymdeimlad o berthyn. **Cyfoethogi Pobl a Lleoedd** Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd.
Hawliau Dynol	Mae ddiwylliant yn gallu cyffwrdd pobl o bob cefndir ac o'i weithredu'n gynhwysol mae'r sector a gwasanaethau diwylliannol y Cyngor yn cefnogi mynediad, cyfranogiad a chynhwysiad sy'n agored i bawb. Ar hyn o bryd nid oes un weledigaeth nac egwyddorion sy'n clymu'r sector ynghyd ac yn datgan ein cenhadaeth a'n hamcanion. Bydd rhain yn ogystal â Chynllun Gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau cyd-weithredu a chyd-weithio effeithlon er lles pawb o bob cefndir.	Bydd gweledigaeth, egwyddorion, cynllun gweithredu a rhwydwaith newydd yn sicrhau ein bod yn cyd-weithio yn effeithlon yn y dyfodol er lles pobl o bob cefndir. Mae'r weledigaeth yn datgan yn glir: "Mae diwylliant yng Ngwynedd yn hanfodol, yn arloesol ac wedi'i wreiddio yn ein cymunedau. Mae'n rhoi lliw i fywyd, yn hyrwyddo lles, ac yn adlewyrchu ein hunaniaeth amrywiol a'n Cymreictod yn hyderus i Gymru a'r byd. Mae diwylliant yng Ngwynedd yn fyrlymus ac yn fyw, a gyda'n gilydd rydym eisiau cynnal, cefnogi a thyfu diwylliant sy'n perthyn i bawb - heddiw ac i'r dyfodol."

		Mae egwyddorion pendant - yn enwedig o safbwynt cydraddoldeb gan gynnwys: **Cymunedol, Cynhwysol, Caredig a Chysylltiedig** Mae diwylliant yn perthyn i bawb. Mae'n groesawgar a hygyrch, gan feithrin rhwydweithiau cryf, hyder, parch ac ymdeimlad o berthyn. **Cyfoethogi Pobl a Lleoedd** Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd. **Cynaliadwy a Chyfrifol dros Genedlaethau'r Dyfodol** Mae diwylliant yn gwarchod ac yn cyfoethogi adnoddau, yr amgylchedd a rhinweddau arbennig Gwynedd, gan sicrhau buddion hirdymor.
Arall	.	.

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Mae data mynychwyr digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol yn aml yn cael ei gasglu gan fudiadau diwylliannol Gwynedd fel tystiolaeth i gronfeydd grantiau Cyngor Gwynedd yn ogystal â Chyngor Celfyddydau Cymru.
Trwy gydweithio ar Gynllun Gweithredu a sefydlu Rhwydwaith Diwylliant i Wynedd, bwriedir adnabod mesuryddion penodol ar gyfer mesur effaith diwylliant a'r cydweithio yma. Bydd rhai o'r mesuryddion hyn yn benodol yn mesur effaith cydraddoldeb ac iaith.

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw effaith gronnus negyddol, ond bydd cydweithio i weithredu un weledigaeth a 6 egwyddor clir i'r sector diwylliant yn cael effaith gronnus bositif ar nodweddion gwarchodedig, y Gymraeg a'r economi leol.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?

Mae diwylliant yn tynnu pobl at ei gilydd, yn dathlu amrywiaeth, annog trafodaeth a chysylltiadau ac yn meithrin perthnasau cymdeithasol iach.

Mae'r weledigaeth, yr egwyddorion a'r Cynllun Gweithredu oll wedi eu llunio i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon. Mae hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn hollol glir o fewn yr egwyddorion a bydd y rhwydwaith newydd yn sicrhau bod perthnasau da yn cael eu datblygu a'u magu rhwng yr holl grwpiau gwahanol. Gweler hefyd yr wybodaeth dan Anfantais Economaidd Cymdeithasol yn cwestiwn 5.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Mae'r weledigaeth a'r egwyddorion yn amlygu'n glir yr angen i fod yn gynhwysol i bawb ac hefyd y amlygu'r angen i greu cyfleon economaidd o ran pobl, sgiliau a lle yng Ngwynedd trwy'r Cynllun. Yn benodol mae'r egwyddor yma'n cyfarch hyn:

Cyfoethogi Pobl a Lleoedd

Mae diwylliant yn gwella llesiant, yn datblygu sgiliau a thalent, ac yn cyfrannu at economi leol gryf drwy greu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio, creu a llwyddo yng Ngwynedd.

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Trwy gyd-ddatblygu'r weledigaeth a'r egwyddorion, mae'r Gymraeg wedi ei hamlygu fel elfen hanfodol o'r gwaith ac wrth edrych i'r dyfodol. Mae'r weledigaeth yn glir:

“Mae diwylliant yng Ngwynedd yn hanfodol, yn arloesol ac wedi’i wreiddio yn ein cymunedau. Mae’n rhoi lliw i fywyd, yn hyrwyddo lles, ac yn adlewyrchu ein hunaniaeth amrywiol a’n Cymreictod yn hyderus i Gymru a’r byd.

Mae diwylliant yng Ngwynedd yn fyrlymus ac yn fyw, a gyda’n gilydd rydym eisiau cynnal, cefnogi a thyfu diwylliant sy’n perthyn i bawb - heddiw ac i'r dyfodol”.

Yn ogystal. mae'r egwyddor gyntaf yn ymwneud a'r Gymraeg a'i phwysigrwydd i ddiwylliant Gwynedd:

Balch o'n Hunaniaeth, Treftadaeth a'r Gymraeg

Mae diwylliant yn dathlu ac yn hyrwyddo hunaniaeth unigryw Gwynedd, ei threftadaeth, creadigrwydd a'r Gymraeg, gan eu rhannu'n hyderus gyda Chymru a'r byd.

Mae pob digwyddiad, cyfarfod neu weithdy sydd wedi eu cynnal yn cynnwys cyfieithu ar y pryd a dogfennau dwyieithog. Bydd y Cynllun terfynol yn cynnwys astudiaeth achos dwyieithog o arfer dda. Bydd ein egwyddor o rannu ein diwylliant a'n iaith gyda Chymru a'r Byd yn rhoi statws i’r iaith ymhellach na Gwynedd yn unig. Bu'r angen i fedru gweithredu yn ddwyieithog yn ran creiddiol o'r comisiwn i benodi ymgynghorwyr i gydweithio gyda ni ar adnabod gwerth diwylliant Gwynedd.

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i’r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod nodau llesiant clir ar gyfer sicrhau llesiant cenedlaethau’r dyfodol. Mae’r gwaith hwn yn cyfarch pob un o’r 7 nod llesiant ac amlygir hynny yn y weledigaeth a’r egwyddorion sydd wedi eu cytuno.

Yn ddiweddar mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol wedi bod yn rhoi blaenoriaeth i’r maes ‘Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu’ a bu i gynrychiolydd o Gyngor Gwynedd fynychu ymweliad astudio â Bradford lle roeddent wedi rhoi Diwylliant yn ganolog o fewn eu cynlluniau corfforaethol. Bu i ni dderbyn cyflwyniad gan gynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol yn ystod ein digwyddiad ym Mhortmeirion ym mis Mawrth 2026 yn amlygu pwysigrwydd diwylliant i’r ddeddf ac yn amlygu blaenoriaethau’r Swyddfa ac mae cyswllt wedi parhau efo’r Swyddfa wrth ddatblygu’r gwaith hwn.

Mae trigolion a defnyddwyr gwasanaeth wedi eu **cynnwys** trwy gynnal digwyddiad cyhoeddus ar ddechrau’r broses ar gyfer unrhyw un oedd efo diddordeb yn y maes diwylliant yng Ngwynedd. Daeth dros 70 o bobl i’r cyfarfod hwnnw yn Nyth, Bangor. Datblygwyd y weledigaeth, yr

egwyddorion a'r Cynllun Gweithredu yn dilyn y cyfarfod cychwynnol hwn. Cynhaliwyd ail gyfarfod cyhoeddus ym Mhortmeirion i gyflwyno a derbyn adborth ar y gwaith.

Mae **cydweithio** wedi digwydd trwy gydol y broses o ddatblygu gweledigaeth ac egwyddorion ar gyfer Diwylliant yng Ngwynedd, yn ogystal â'r Cynllun Gweithredu. Mae hyn yn sicrhau cyd-berchnogaeth o'r gwaith wrth edrych i'r dyfodol a bydd sefydlu Rhwydwaith Diwylliant i Wynedd yn sicrhau y bydd y cydweithio'n parhau i'r dyfodol wrth i ni weithredu a chefnogi'r sector diwylliant.

Bydd sefydlu Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd gyda Bwrdd Llywio yn sicrhau ein bod yn **atal problemau** rhag codi neu'n gallu ymateb iddynt mewn partneriaeth cyn iddynt ddatblygu waethygu. Bydd rhwydweithio a chydweithio cyson yn sicrhau ein bod yn atal problemau rhag codi.

Mae'r weledigaeth a'r egwyddorion wedi eu cytuno i fod yn rai ar gyfer yr **hirdymor** er mwyn tynnu'r sector gyda'i gilydd. Mae'r Cynllun Gweithredu a fydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn gosod allan blaenoriaethau gweithredu dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor ac wrth adolygu bydd cyfle i ychwanegu ato.

Er mwyn sicrhau **integreiddio**, rhoddwyd gwahoddiad i gyrff cyhoeddus eraill i fynychu'r digwyddiadau i ddatblygu'r weledigaeth, yr egwyddorion a'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Gwasanaethau Diwylliannol Cyngor Gwynedd a phartneriaid diwylliannol eraill o Ogledd Cymru.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Bydd

Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?

Caffael:

Gall y bydd cynlluniau'n cael eu datblygu fel rhan o'r Cynllun Gweithredu dros y blynyddoedd nesaf fydd yn golygu caffael gwasanaeth neu gefnogaeth. Bydd unrhyw gaffael yn cydymffurfio â pholisïau caffael Cyngor Gwynedd gan roi sylw priodol i'r ddyletswydd gydraddoldeb, hawliau dynol, y Gymraeg a'r dyletswydd economaidd-gymdeithasol.

Partneriaeth:

Mae'r Cynllun yn arwain at greu rhwydwaith diwylliant newydd i Wynedd. Bydd y rhwydwaith yn esblygiad o fforwm Gwynedd Creadigol a bydd yn mabwysiadu polisïau clir o ran cydraddoldeb, y Gymraeg, caffael, hawliau dynol wrth gael ei sefydlu.

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:
Trwy gydweithio ar weithredu gweledigaeth ac egwyddorion newydd ar gyfer diwylliant yng Ngwynedd a thrwy sefydlu rhwydwaith diwylliant i Wynedd sy'n agored a hygyrch i bawb, hyderir y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol.

Eisoes mae'r sector yn gwneud cyfraniad allweddol i gydraddoldeb ar draws yr holl grwpiau gwarchodedig a bydd cydweithio i wireddu'r weledigaeth a gweithredu'r egwyddorion a'r cynllun gweithredu trwy adnabod ffynonellau ariannu posib ac annog cyd-greu a gweithio mewn partneriaeth yn sicrhau y bydd effeithiau cadarnhaol sylweddol.

Effaith Negyddol Sylweddol:
Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol yn deillio o'r cynllun hwn.

14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith negyddol bwriadol yn deillio o'r Cynllun.

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Na fydd

Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau

Ni fydd unrhyw gwahaniaethu anghyfreithlon yn deillio o'r Cynllun.

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Bydd adolygiad blynyddol o weithrediad y Cynllun Gweithredu er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithredu'n dryloyw a theg gan hyrwyddo cyfleon cyfartal a hyrwyddo perthnasau da trwy'r rhwydwaith a'i ddigwyddiadau.

Bydd sefydlu mesuryddion perthnasol yn sicrhau ein bod yn monitro gweithrediad ar draws y Cynllun a'r Rhwydwaith.

Bydd sefydlu rhwydwaith a threfniadau llywodraethu clir gyda digwyddiadau, gweithgareddau a hyfforddiant yn sicrhau ein bod yn gweithredu 'n gynhwysol ac er lles pawb.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Bydd adolygiad blynyddol o weithrediad y Cynllun Gweithredu er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithredu'n dryloyw a theg gan hyrwyddo cyfleon cyfartal a hyrwyddo perthnasau da trwy'r rhwydwaith a'i ddigwyddiadau.

Bydd sefydlu mesuryddion perthnasol yn sicrhau ein bod yn monitro gweithrediad ar draws y Cynllun a'r Rhwydwaith.

Bydd sefydlu rhwydwaith a threfniadau llywodraethu clir, wedi'u cefnogi gan ddigwyddiadau, gweithgareddau a hyfforddiant, yn sicrhau ein bod yn gweithredu mewn modd cynhwysol ac er budd pawb. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i adnabod prosiectau posibl i gefnogi'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, megis cynlluniau gostyngiadau, gweithgareddau wedi'u targedu a rhaglenni cyfranogiad, yn amodol ar sicrhau cyllid ychwanegol.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Bydd adolygiad blynyddol o weithrediad y Cynllun Gweithredu er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithredu'n dryloyw a theg gan hyrwyddo cyfleon cyfartal a hyrwyddo perthnasau da trwy'r rhwydwaith a'i ddigwyddiadau.

Bydd sefydlu mesuryddion perthnasol yn sicrhau ein bod yn monitro gweithrediad ar draws y Cynllun a'r Rhwydwaith.

Byddwn yn parhau i gynrychioli Gwynedd gan ddefnyddio'r Gymraeg (os yn cyfathrebu â sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor).

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arewiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth
Sefydlu Rhwydwaith Diwylliant Gwynedd	18 Chwefror 2025	Cyfarfod blynyddol	Roland Evans	Ie
Sefydlu Bwrdd Llywio Cysgodol	Chwefror 2026	Cyfarfod chwarterol	Ffion Strong / Corrie Zarach	Ie
Adolygiad Gweithredu a'r mesur perfformiad	Ebrill	Blynyddol	Roland Evans	Ie
Etholiadau i'r Bwrdd Strategol	Ebrill	Blynyddol	Roland Evans	Ie
Adolygu a chadarnhau Cynllun Gweithredu	Ebrill	Blynyddol	Roland Evans	Ie

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	**Amserlen ac Amlder**	**Cyfrifoldeb Arweiniol**	**Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth**
Adolygu'r Cynllun Gweithredu	Blynyddol	Roland Evans	Ie
Adolygu data perfformiad	Blynyddol	Roland Evans	Ie
Ethol i'r Bwrdd Llywio	Bob 2 flynedd	Roland Evans	Ie
Casglu data monitro	Chwarterol / Blynyddol	Ffion Strong / Corrie Zarach	Ie